

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

1 Mawrth 2022

SYLWCH: Fe fydd y cyfarfod hwn gael ei ddarlledu'n fyw ar safle Facebook y Cyngor. Hefyd gallai'r lluniau a'r sain a recordir gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi yn y Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfan neu ran o'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu ai peidio.

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Cyngor o bell trwy fideo-gynghedledda, ar Dydd Iau, 3 Mawrth 2022 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau
2. Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu
3. Materion Personol
4. Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19
5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 27 Ionawr 2022 (Tudalennau 5 - 10)
6. Ystyried Adroddiad ar y cyd gan yr Arweinydd, yr Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am Wasanaethau Ariannol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ar Gyllideb 2022/23, gan gynnwys y Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd a'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer Rheoli'r Trysorlys a Rheoli Cyfalaf (Tudalennau 11 - 84)
7. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ynghylch Gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2022/23 (Tudalennau 85 - 96)
8. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ar Ddatganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Pholisi Isamswm Darpariaeth Refeniw (MRP) 2022/23 (Tudalennau 97 - 98)
9. Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ar Adolygiad o'r Datganiad Statudol o'r Polisi Gamblo (Tudalennau 99 - 182)

10. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal ar Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru 2022 (Tudalennau 183 - 204)**
11. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal ar Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad yng Nghorllewin Cymru 2022: Crynodeb Gweithredol (Tudalennau 205 - 218)**
12. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio ar Aelodaeth y Fforwm Mynediad Lleol (Tudalennau 219 - 232)**
13. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio ar y Cynnig Tai Cymunedol (Tudalennau 233 - 270)**
14. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu ar newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor (Tudalennau 271 - 538)**
15. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol a Llywodraethu ar Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol Ddrafft 2021-22 (Tudalennau 539 - 706)**
16. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth ar Awdurodi'r Polisiau Tâl Athrawon (Tudalennau 707 - 828)**
17. **Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a Threfniadaeth ar Bolisiau Tâl y Cyngor Arfaethedig ar gyfer 2022-23 (Tudalennau 829 - 862)**
18. **Adendwm - Adroddiad Ychwanegol Brys yn ymwneud â Pholisi Tâl y Cyngor 2022/23 (Tudalennau 863 - 896)**

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democraidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Cyngor

Cofnodion Cyfarfod o CYNGOR
A gynhaliwyd o bell drwy fideo-gynadledda
Ddydd Iau, 27ain Ionawr, 2022

YN BRESENNOL: Cynghorydd Paul Hinge (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Gareth Davies, John Adams-Lewis, Ellen ap Gwynn, Bryan Davies, Ceredig Davies, Clive Davies, Euros Davies, Gethin Davies, Ifan Davies (Is-Gadeirydd), Marc Davies, Meirion Davies, Odwyn Davies, Rhodri Davies, Dafydd Edwards, Endaf Edwards, Lloyd Edwards, Elaine Evans, Keith Evans, Rhodri Evans, Hag Harris, Catherine Hughes, Gwyn James, Alun Lloyd Jones, Matthew Woolfall Jones, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason, Catrin Miles, Dan Potter, Ray Quant MBE, Rowland Rees-Evans, John Roberts, Lynford Thomas, Wyn Thomas, Alun Williams ac Ivor Williams

(10.00am - 11.54am)

Gweithdrefn

Croesawodd Cadeirdd y Cyngor, y Cynghorydd Paul Hinge, bawb i'r cyfarfod a chadarnhaodd fod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu.

Cynhaliodd y Cyngor funud o dawelwch i nodi Diwrnod Rhyngwladol Cofio'r Holocost.

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorydd Elizabeth Evans am nad oedd modd iddi fod yn bresennol am ei bod ar ddyletswydd arall ar ran y Cyngor.

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Gareth Davies, Peter Davies MBE a Mark Strong am nad oedd modd iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol na buddiant sy'n rhagfarnu.

3 Materion Personol

- a) Estynnodd y Cynghorydd Rhodri Evans ei longyfarchiadau i Mr Gwynne Davies ar gael ei ethol yn Gyfarwyddwr Anrhydeddus Adran y Defaid yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru;
- b) Mynegodd y Cynghorydd Lyndon Lloyd ei werthfawrogiad o Mrs Mary Jones a roddodd 36 mlynedd o wasanaeth rhagorol i gynghorau sir Dyfed a Cheredigion, gan weithio ar y rheng-flaen yn y Gwasanaethau Cymdeithasol;
- c) Estynnodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ei chydymdeimlad â'r Cynghorydd Euros Davies ar golli ei dad;
- d) Estynnodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ei chydymdeimlad â Non Davies ar golli ei thad;
- e) Estynnodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ei chydymdeimlad â Helen Harries ar golli ei gŵr;
- f) Nododd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn fod hwn wedi bod yn adeg anodd iawn i'r Cynghorydd Gareth Davies ar ôl colli ei fab. Yr oedd wedi gofyn i'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn fynegi ei ddiolch am yr holl gefnogaeth yr oeddent wedi'i derbyn. Mae cronfa wedi ei sefydlu er cof am Daniel, sydd wedi codi £18,000 i elusen Papyrus sy'n cynnig cymorth i atal hunanladdiad ymhlith pobl ifanc;

Tudalen 4

- g) Nododd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn fod y Cynghorydd Mark Strong yn dal i fod yn yr ysbyty a'i fod yn gwella ac yn gwerthfawrogi'n fawr yr holl negeseuon o gymorth a gafodd;
- h) Estynnodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn groeso i James Starbuck, Cyfarwyddwr Corfforaethol, i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor;
- i) Estynnodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ei llongyfarchiadau i Nicola Davies ar gael ei phenodi yn Gadeirydd ar Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru;

Diolchodd y Cynghorydd Euros Davies i'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn am ei geiriau caredig a'r negeseuon o gydymdeimlad a gafwyd

4 **Diweddariad ar lafar gan Arweinydd y Cyngor parthed COVID-19**

Rhoddodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn ddiweddariad ar lafar ynghylch COVID-19 yng Ngheredigion. Nododd fod 33 yn rhagor o achosion wedi eu riportio heddiw yng Ngheredigion, gan gyfrannu at gyfanswm o 10,580 o achosion yn y sir ers dechrau'r pandemig. Mae'r gyfradd bresennol wedi gostwng i 209.1 am bob can mil gyda chyfradd positif o 21.7%. Fodd bynnag, dim ond profion PCR sy'n cael eu riportio yn ddyddiol ar hyn o bryd ac nid oes angen prawf PCR dilynol ar bob prawf LFT positif. Mae data mewnol yn awgrymu fod y ffigurau ddwywaith yn fwy na'r hyn a riportir.

Mae'r achosion yn arbennig o gyffredin ymhlith plant oedran cynradd, sy'n rhoi pwysau ar ysgolion, ond roedd yn deall fod pob ysgol yng Ngheredigion wrthi'n gweithredu ar hyn o bryd.

Mae tri o gartrefi gofal y Cyngor yn y categori coch oherwydd achosion o COVID-19 ymhlith y staff, ac mae'r sefyllfa yn Ysbyty Bronglais wedi gwella ac mae'r ddwy ward a gafodd eu taro bellach wedi ailagor. Ddydd Llun roedd 112 o gleifion yn yr ysbytai o achos Covid ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ond nid oedd yr un o'r rhain yn yr uned gofal dwys.

Bydd Canolfannau Hamdden a Phyllau Nofio'r Cyngor oll ar agor o ddydd Llun ymlaen, gyda chyfyngiadau COVID ar waith gan gynnwys gwisgo mwgwd wrth symud o gwmpas a chyfyngu i'r awyr agored chwaraeon lle mae cyswllt ag eraill. Bydd angen i'r cyhoedd archebu lle ymlaen llaw a gofynnir iddynt dalu gyda charden.

Bydd llyfrgelloedd hefyd yn ailagor a rhoddir mynediad i gyfrifiaduron am hyd at awr a hynny gan archebu ymlaen llaw. Bydd modd i'r cyhoedd bori drwy'r llyfrau gan wisgo mwgwd a bydd yr Archifau ar agor drwy wneud apwyntiad. Mae'r Amgueddfa a'r Siop bellach ar agor ar ddydd Iau, dydd Gwener a dydd Sadwrn rhwng 11am a 4pm.

Bydd y rheoliadau presennol yn parhau ar waith mewn Ysgolion tan hanner tymor ac yn cael eu hadolygu cyn bod pawb yn dychwelyd ar ôl hanner tymor. Cynhaliwyd arholiadau mis Ionawr yn llwyddiannus a dywedodd y Gweinidog y bydd arholiadau'r Haf yn mynd yn eu blaen yn ôl yr arfer, gyda thrafodaethau yn digwydd ynglŷn â hyn.

Tudalen 5

Mae'r Gwasanaeth Gwastraff yn ôl i'w gapasiti llawn o ran y staff ac mae'r anawsterau a gafwyd ar ddechrau'r mis wedi cael eu goresgyn ac mae'r gwasanaeth bellach yn ôl fel yr ydoedd.

- 5 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 9 Rhagfyr 2021**
PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2021 yn gywir, ar yr amod y cadarnheir nad oedd y Cynghorydd Euros Davies yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod ond ei fod wedi ymuno â'r cyfarfod yn ddiweddarach.

- 6 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch y gofyniad i fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor erbyn 31 Ionawr 2022**

Bu i'r Cynghorydd Gareth Lloyd, Aelod o'r Cabinet dros Wasanaethau Cyllid a Chaffael a Diogelu'r Cyhoedd, gyflwyno'r adroddiad, yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, gan nodi bod yn rhaid i bob awdurdod lleol ym mhob blwyddyn ariannol ystyried a ydynt am adolygu neu newid eu cynllun presennol, ac os adolygir y cynllun, bod gofyn i'r awdurdod lleol ymgynghori ag unrhyw bersonau eraill yr ystyria'n debygol bod ganddynt ddi-ddordeb yng ngweithrediad ei gynllun.

Gofynnodd yr Aelodau a ellid darparu gwybodaeth am ganrannau'r bobl gymwys sy'n hawlio'r lwfans yn ôl disgrisiwn, a gofynnwyd a ellid ymestyn y cynllun i gynnwys categorïau ychwanegol. Nodwyd mai Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol fyddai'r fforwm mwyaf priodol i adolygu'r data hwn.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD**:

1. nodi gwneud Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2022;
2. mabwysiadu darpariaethau Rheoliadau'r Gofynion Rhagnodedig (2013) fel Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor yn 2022/23, yn amodol ar y disgrisiwn lleol y mae'r Cyngor yn gallu ei arfer, fel y nodir isod:
 - (i) parhau â'r gostyngiad o 100% uwchben y £10 statudol sy'n cael ei diystyru o safbwynt Pensiynau Anabledd Rhyfel, Pensiwn Rhyfel Gwagedd Gweddw a Phensiwn Rhyfel Gwŷr Gweddw, ar gyfer pensiynwyr a phobl oedran gweithio sy'n hawlio;
 - (ii) nad yw'r cyfnodau talu estynedig ar gyfer pensiynwyr a phobl o oedran gweithio sy'n hawlio yn cael eu hymestyn y tu hwnt i'r pedair wythnos safonol a nodir ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig;
 - (iii) nad yw'r cyfnod ôl-ddyddio ar gyfer pensiynwyr a phobl o oedran gweithio sy'n hawlio yn cael ei ymestyn y tu hwnt i'r tri mis safonol a nodir yn y Cynllun Rhagnodedig.

- 7 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd ar Aelodau Pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer yr hyn sy'n weddill o Flwyddyn Fwrdeisdrefol 2021-2022**

Bu i'r Cynghorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd a'r Aelod o'r Cabinet dros y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a'r Gwasanaethau Democrataidd, gyflwyno'r adroddiad gan nodi, yn dilyn

Tudalen 6

ymddiswyddiad y Cynghorydd Lloyd Edwards o Grŵp Gwleidyddol y Democratiaid Rhyddfrydol, fod y Cynghorydd Edwards bellach yn cynrychioli ei Ward fel Cynghorydd Annibynnol Di-grŵp. Gyda chydysyniad Arweinydd Grŵp Gwleidyddol y Democratiaid Rhyddfrydol, cynigir bod y Cynghorydd Lloyd Edwards yn parhau ar y tri phwyllgor yr oedd yn aelod ohonynt ynghynt. Yn ôl anghenraid, fe fydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn colli sedd ar bob un o'r Pwyllgorau hyn:

- Pwyllgor Trwyddedu
- Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu

Nodwyd er cywirdeb yn Atodiad A bod y Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi penodi Caroline White yn Gadeirydd a John Weston yn Is-gadeirydd ac wedi penodi dau aelod newydd sef Caryl Davies ac Alan Davies yn lle Hywel Wyn Jones a Rif Winfield.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo penodi aelodau Pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer yr hyn sy'n weddill o Flwyddyn Fwrdeistrefol 2021-2022, ar yr amod y gwneir y diwygiadau a nodir.

8 **Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democratiaidd ar Nifer y Cynghorwyr ar bob Pwyllgor o fis Mai 2022**

Bu i'r Cynghorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd a'r Aelod o'r Cabinet dros y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a'r Gwasanaethau Democratiaidd, gyflwyno'r adroddiad gan nodi y bydd nifer y Cynghorwyr yn gostwng o 42 i 38 o fis Mai 2022 ymlaen. Serch hynny, bydd y llwyth gwaith yn aros yr un fath, os nad yn cynyddu, yn ystod y cyfnod hwn. O ganlyniad, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen trawsbleidiol dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Ceredig Davies i adolygu aelodaeth pwyllgorau'r Cyngor.

Nodwyd y byddai'r nifer ar gyflogau uwch yn parhau yn 17 ac o ganlyniad i nifer y swyddi sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a ganiateir, ni fydd Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd na Chadeirydd y Pwyllgor Iaith yn cael cydnabyddiaeth ariannol. Gofynnodd yr Aelodau am i hyn gael ei adolygu yn ystod y weinyddiaeth newydd o ystyried fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael ei gadeirio gan Aelod Lleyg o fis Mai 2022 ymlaen. Hefyd cyfeiriodd yr Aelodau at gylich gwaith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a allai gael ei adolygu yn ystod y weinyddiaeth newydd.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** yn unol ag argymhelliad y Grwpiau Gorchwyl a Gorffen i gymeradwyo'r canlynol, a fydd ar waith oddi ar 5 Mai 2022:

- a) Lleihau aelodaeth y Pwyllgor Trwyddedu (y Pwyllgor Statudol a'r Pwyllgor Anstatudol) o 15 i 11;
- b) Lleihau aelodaeth y Pwyllgor Rheoli Datblygu o 21 i 15;
- c) Lleihau aelodaeth y pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu thematig o 17 i 13;
- d) Diwygio Cyfansoddiad y Cyngor o ganlyniad i'r uchod;
- e) Bod pob pwyllgor arall yn aros yr un peth.

9 Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Democrataidd ar Ddisgrifiadau o Rolau Aelodau Etholedig

Bu i'r Cynghorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd a'r Aelod o'r Cabinet dros y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a'r Gwasanaethau Democrataidd, gyflwyno'r adroddiad gan nodi fod y Cyngor wedi mabwysiadu disgrifiadau generig cyntaf Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn 2012. Mae'r disgrifiadau rôl hyn wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau'n ddiweddar gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gan adlewyrchu'r newidiadau i ddeddfwriaeth.

Cafodd y disgrifiadau diwygiedig o rolau eu hystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ei gyfarfod ar 15 Hydref 2021, ac argymhellodd fod y Cyngor yn eu cymeradwyo.

Yn dilyn pleidlais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r set ddiwygiedig o'r disgrifiadau generig o Rolau Aelodau yn Atodiad B yr adroddiad.

10 Adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol gydag adborth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach

Nododd y Cynghorydd Catherine Hughes fod hwn yn adroddiad hanesyddol sy'n disgrifio perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion yn ystod 2019 - 2020 yng nghyd-destun newidiadau mawr yn y gwaith. Oherwydd dyfodiad Covid-19 ym mis Mawrth 2020 bu i Lywodraeth Cymru ymestyn y cyfnod amser ar gyfer cwblhau'r adroddiad er mwyn i swyddogion ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hanfodol, ac adlewyrchir hyn yn yr adroddiad. Cwblhawyd yr adroddiad gan Donna Pritchard, Cyfarwyddwr Statudol dros dro y Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd hwnnw, a diolchodd i bawb am eu gwaith dyfal yn ystod y cyfnod.

Nododd y Cynghorydd Alun Williams fod y sefyllfa bresennol ledled Cymru yn anodd iawn gyda diffyg cyllid, diffyg staff a galwadau cynyddol ar system sydd eisoes dan bwysau. Mae'r adroddiad yn disgrifio rhychwant y gofal a ddarperir, a hwn fydd yr adroddiad diwethaf a gyflwynir yn ystod y weinyddiaeth hon. Mae gwaith y Gwasanaeth wrthi'n cael ei drosglwyddo i wasanaeth gydol oes sy'n canolbwyntio ar atal, gan ddefnyddio'r model arwyddion diogelwch sy'n dwyn ffrwyth yn raddol. Diolchodd i'r Swyddogion am eu gwaith diwyd wrth fwrw ymlaen â'r trawsnewid a chynnal gwasanaethau ar adeg anodd iawn.

Roedd y Cynghorydd Bryan Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach, wedi cydnabod effaith COVID-19 ar y data, gan nodi bod yr adroddiad wedi cael ei groesawu gan y Pwyllgor.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad gan nodi'r uchafbwyntiau gan gynnwys Wythnos Genedlaethol Diogelu, y rhaglen waith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a'r arolygiadau a'r adborth cadarnhaol iawn gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a groesawyd i gyd.

Diolchodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn i'r Swyddogion a'u staff i gyd am eu gwaith dros y ddwy flynedd drom ddiwethaf.

Tudalen 8

Nododd y Cyngor gynnwys yr adroddiad.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 3
Mawrth 2022**

CADEIRYDD: _____

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod:	Mawrth 3ydd 2022
Teitl:	Adroddiad ar y Cyd yr Arweinydd, Aelod y Cabinet â chyfrifoldeb dros Gyllid a Chaffael, y Prif Weithredwr a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael ar y Gyllideb ar gyfer 2022/23, gan gynnwys y Strategaeth Gyfalaf, y Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd a Dangosyddion Darbodus ar gyfer Rheoli Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys.
Pwrpas yr Adroddiad:	Cymeradwyo Amcangyfrifon y Refeniw Net ar gyfer 2022/23; pennu lefel Treth y Cyngor at ddibenion y Cyngor Sir ar gyfer 2022/23; cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf, y Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd a Dangosyddion Darbodus.
Er:	Penderfyniad
Portffolio'r Cabinet:	Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd y Cyngor, a holl Aelodau'r Cabinet

1. CYFLWYNIAD

Ystyriodd a chymeradwyodd y Cabinet yr adroddiad ar y Gyllideb Refeniw ddrafft ar gyfer 2022/23 a'r Rhaglen Gyfalaf 3 blynedd yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 2^{il} 2022. Roedd yr adroddiadau'n amlinellu manylion llawn proses y gyllideb ac yn seiliedig ar y setliad dros dro a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a'r wybodaeth oedd ar gael ar y pryd. Ni fydd manylion y setliad Terfynol gan Lywodraeth Cymru ar gael tan ar ôl i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi ac fe'u disgwylir ar Fawrth 1^{af} 2022 ar yr un pryd ag y cyhoeddir Cyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru. Nid oes disgwyl y bydd dim newidiadau i Setliad Terfynol Llywodraeth Cymru.

Ystyriodd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gynigion y gyllideb ddrafft ac mae'r pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu thematig hefyd wedi ystyried adroddiad y Gyllideb a'i gynigion.

Penderfynodd y Cabinet ar Chwefror 2^{il} 2022 fel a ganlyn:-

PENDERFYNIAD

- Cymeradwyo tri opsiwn ar gyfer cyfanswm y gyllideb sylfaenol ddrafft ar hyn o bryd ym mhroses y gyllideb sef £166.862m, £166.958m a £167.054m;
- Ystyried argymell i gyfarfodydd Trosolwg a Chraffu'r gyllideb dri opsiwn a ffefrir ar gyfer lefel Treth y Cyngor i'w chynnig ar gyfer 2022/23; 4.75%, 5.0% neu 5.25% a nodi bod cynnig y gyllideb ddrafft yn seiliedig ar fodel gweithio o £1,479.69 ar gyfer eiddo Band D at ddibenion y Cyngor Sir, sef cynnydd o 4.75%. Mae cynnydd o 5.0% yn darparu ar gyfer gwariant pellach / llai o arbedion o £96k a chynnydd o 5.25% yn darparu ar gyfer gwariant pellach / llai o arbedion o £192k.

Tudalen 10

- (c) Pan gyhoeddir y setliad terfynol, bydd gwerth unrhyw grantiau penodol pellach a drosglwyddir i'r Grant Cynnal Refeniw yn cael eu pasio ymlaen at gyllideb y Gwasanaeth perthnasol;
- (d) Pan gyhoeddir y setliad terfynol, bydd unrhyw newidiadau penodol eraill yn cael eu targedu'n uniongyrchol at y Gwasanaeth(au) yr effeithir arno/arnynt, os bydd hynny'n briodol; ac
- (e) Ymdrinnir ag unrhyw newidiadau eraill i'r Grant Cynnal Refeniw drwy addasu cyllideb refeniw gorfforaethol y Grŵp Arweiniol.
- (f) Cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi'i diweddaru a amlinellir yn Atodiad 4 a'i hargymell i'r Cyngor i'w chymeradwyo.
- (g) Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf fel yr amlinellir yn Atodiad 5 yr adroddiad ac argymell i'r Cyngor ei chymeradwyo.
- (h) Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf fel yr amlinellir yn Atodiad 6 yr adroddiad ac argymell i'r Cyngor ei chymeradwyo.
- (i) Gofyn am farn Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Gyllideb ynghylch yr adroddiad hwn.

Rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn paratoi cyllideb ar gyfer 2022/23.

Fodd bynnag, ers Chwefror 2^{il} bu datblygiad ariannu sylweddol a oedd yn haeddu ystyriaeth ychwanegol fel rhan o broses y Gyllideb. Cyflwynwyd diweddariad ar natur ac amseriad y datblygiad hwn i Arweinwyr pob plaid wleidyddol ac i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu cyn gynted ag y cafwyd y wybodaeth ar ffurf llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol. Yn anffodus roedd hyn ar ôl cyfarfod cyntaf y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu – Cymunedau Iachach.

2. YSTYRIAETHAU YCHWANEGOL Y GYLLIDEB

Cafodd y Cyngor ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru ar Chwefror 17^{eg} 2022 ynghylch cyllid ychwanegol heb ei neilltuo o £50m ledled Cymru ar gyfer y flwyddyn gyfredol y gellir ei gario ymlaen i'r flwyddyn nesaf. Roedd hwn yn gyfle a oedd yn amserol iawn i'w ystyried.

Gan gadw mewn cof y pwysau ariannol ychwanegol sy'n cael ei roi ar ein trigolion, gan gynnwys costau byw/chwyddiant ar hyn o bryd a'r dreth yswiriant gwladol newydd yn cael ei rhoi ar waith ar Ebrill 1^{af} 2022. Gallai defnyddio'r cyllid newydd, y dylai Ceredigion gael dros £1m ohono, olygu cynnydd sylweddol is yn Nhreth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf yn unig, gan mai cyllid untro yw hwn ar hyn o bryd.

Mae hwn yn ddull pragmatig o weithredu o ran lliniaru'r pwysau ar drigolion ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf ac ystyried materion perfformiad ariannol eraill gan gynnwys hanes cadarn blaenorol o berfformiad y gyllideb a thanwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac eitemau ariannu ychwanegol eraill sy'n dod i'r amlwg.

Roedd cynnydd o 2.5%, sef swm sy'n llawer is na chwyddiant, felly wedi'i foddelu i'w ystyried gan y Cabinet fel mater brys.

Tudalen 11

Felly, ar Chwefror 22^{ain} 2022, ystyriodd y Cabinet yr adborth gan yr holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn ogystal ag adroddiad ychwanegol brys o ran y Gyllideb. Penderfynodd y Cabinet fel a ganlyn:

Atodiad i'r Adroddiad- Adroddiad Atodol Brys y Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael ynghylch y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2022/23

PENDERFYNIAD:

- (a) Nodi'r Adborth o bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Gyllideb.
- (b) Argymhell i'r Cyngor Llawn mai cyfanswm Cyllideb Sylfaenol ddrafft 2022/23 yw £165.843m a bod lefel y cynnydd yn Nhreth y Cyngor a gynigir ar gyfer 2022/23 yn 2.5% sy'n cynrychioli swm Band D o £1,447.90.

Rheswm dros y penderfyniad:

Er mwyn paratoi cyllideb ar gyfer 2022/23.

3. CYLLIDEB REFENIW

Mae cydnerthedd ariannol y Cyngor yn allweddol i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau yn parhau i gael y gwasanaethau gorau posibl yn y tymor canolig ac nid yn ystod y flwyddyn nesaf yn unig.

- **Chwyddiant a Threthi i'r Cyngor – o leiaf 8.8%**, sydd bellach yn uwch nag ar unrhyw adeg nag yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Dreth Yswiriant Gwladol newydd ynghyd â'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol cofrestredig yn faich ychwanegol sylweddol ar ben codiadau chwyddiant.
- **Perfformiad** - Mae Ceredigion yn parhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n bodloni boddhad rheoleiddwyr allanol.
- **Arbedion** - Mae gofyn i'r Cyngor arbed o leiaf £15m erbyn Mawrth 2025 ar ben yr arbedion a gyflawnwyd rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2022 o £50m. Bydd hyn yn gyfanswm o £57.4m o arbedion a gyflawnwyd rhwng Ebrill 2012 a Mawrth 2023.
- **Gofal a Chymorth** - Mae costau'n parhau i gynyddu'n aruthrol. Mae disgwyliad oes yn dda yng Ngheredigion – y disgwyliad oes cyfartalog ar gyfer dynion yw 79.3 oed ac 84.1 oed ar gyfer menywod. Mae'r ddau yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 78.5 oed ar gyfer dynion ac 82.3 oed ar gyfer menywod. Mae'r sawl sy'n hawlio Cymorth Treth y Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol ac mae'n rhaid eu hariannu.
- **Cyflogau** – Gweithredu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol Cofrestredig yng Ngheredigion (lleiafswm o £9.90 o Ebrill 1^{af} 2022 a chyfanswm amcangyfrifedig o gynnydd o £1.9m). Mae hyn yn rhan o bolisi Cymru gyfan Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ei Chyllideb ddrafft.
- **Treth y Cyngor is na'r cyfartaledd** - mae Treth y Cyngor Band D yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru gyfan yng Ngheredigion.

Tudalen 12

- **Rhagolygon y Dyfodol** - Mae llythyr y Gweinidog hefyd yn amlinellu cyllidebau dangosol ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol:

Y dyraniadau cyllid refeniw craidd dangosol ar lefel Cymru ar gyfer 2023-24 a 2024-25 yw £5.3 biliwn a £5.4 biliwn yn y drefn honno – sy'n cyfateb i gynnydd yn y flwyddyn gyntaf o £177 miliwn (3.5%) ac, yn yr ail flwyddyn, o £128 miliwn (2.4%).

Nododd y gwaith asesu manwl a wnaed i nodi pwysau anochel y costau a wynebir gan y Gwasanaethau gyfanswm net o £13.1m.

Daw costau cynyddol Gofal yn unig i £7m, gan gynnwys:

- Cyflog Byw Gwirioneddol £9.90 y DU ac Yswiriant Gwladol Cyflogwyr 1.25% – yn effeithio ar y rhan fwyaf os nad y cyfan o'r Gwasanaethau a Gomisiynir yn ymwneud â Gofal (yn arwain at ffactorau chwyddiant dros dro o 8.87% ar gyfer Gofal Cartref / Byw â Chymorth, 9.13% ar gyfer Gofal Preswyl ac 11.15% ar gyfer Taliadau Uniongyrchol).
- Cartrefi Preswyl – adolygiad pennu ffioedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.
- Taliadau Uniongyrchol.
- Plant sy'n derbyn gofal.
- Gofal Cartref.

Mae darparu ar gyfer chwyddiant mewn cyflogau hefyd yn ffactor arwyddocaol a amcangyfrifir yn £3.4m, ac fel y mae pethau nid oes cytundeb ffurfiol eto ar brif ddyfarniad cyflog 2021/22.

Mae'r crynodeb canlynol yn amlinellu'r prif newidiadau i'r gyllideb arfaethedig a'i hadnoddau sydd ar gael. Roedd yr Atodiad ychwanegol i adroddiad y Gyllideb i'r Cabinet ar 22/02/2022 yn dangos y newidiadau rhwng senario'r cynnydd o 4.75% yn Nhreth y Cyngor a fodelwyd yn flaenorol a'r cynnydd arfaethedig wedi'i ddiweddarau o 2.50% yn Nhreth y Cyngor.

Bellach yn seiliedig ar Gynnydd Treth y Cyngor o 2.50%		Senario
		2.50%
		£'000
<u>Adnoddau ar Gael 2022/23</u>		
Cyllid Allanol Cyfanredol (GCR + CAG)	2021/22: £109,658	119,419
<u>Incwm Treth y Cyngor</u>		
Sylfaen Treth y Cyngor (ar sail Adroddiad Cabinet 07/12/21)		31,655.77
Treth y Cyngor 2021/22	£1,412.59	
Treth y Cyngor 2022/23 gyda chynnydd o	2.50%	£1,447.90
		45,834
Sylfaen Premiwm Treth y Cyngor ar 2ail Gartrefi (ar sail adroddiad Cabinet 07/12/21)		407.31
Treth y Cyngor 2021/22	£1,412.59	
Treth y Cyngor 2022/23 gyda chynnydd o	2.50%	£1,447.90
		590
Cyfanswm yr Adnoddau sydd ar gael ar gyfer Gofynion y Gyllideb		165,843

Tudalen 13

	<u>Senario</u> <u>2.50%</u> <u>£'000</u>
Cyfanswm yr Adnoddau sydd ar gael ar gyfer Gofynion y Gyllideb	165,843
Cyllideb Sylfaen wedi'i haddasu c/t o'r flwyddyn flaenorol	154,736
<u>Addasiadau corfforaethol a Chyfrifoldebau Newydd:</u>	
<u>Dyraniadau Penodol</u>	
- Ardoll Awdurdod Tân ATC&GC	133
- Lwfansau Aelodau / Offer Siambr Aelodau	105
- Premiwm Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi	32
- Cynllun Cymorth Treth y Cyngor a Cyllid Rhaglenni Cyfalaf	355
	625
<u>Trowglwyddiadau i mewn:</u>	
- Grant Cymorth Ffioedd Trin Bwyd a Gwastraff Gweddilliol	237
- Grant Gweithlu a chynaliadwyedd Gofal Cymdeithasol	114
	351
Is-gyfanswm	976
<u>Pwysau Cost ychwanegol ar Wasanaethau</u>	
- Cyflogai - Dyfarniad cyflog ac ardoll ychwanegol YG	4,504
- Cyflogai - nad yw'n gysylltiedig â dyfarniad cyflog	1,107
- Cyflenwadau a Gwasnaethau (gan gynnwys 3ydd Parti / Taliadau Trosglwyddo)	6,545
- Incwm a gollir / ariannu grant	23
- Illai Ariannu a dybiwyd	(500)
	11,679
<u>COVID19</u>	
- Darpariaeth Gorfforaethol COVID19	2,000
- Illai Ariannu y dybiwyd - Defnydd o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd	(1,250)
	750
<u>Gostyngiadau mewn Costau / Cynigion Arbed</u>	
- Arbedion i'w canfod ar y cyd gan GA (Teithio / Ffioedd a Thaliadau)	(398)
- Arbedion Corfforaethol - newid i'r IDR	(900)
- Defnydd o arian Grant GCR diwedd blwyddyn a gyhoeddwyd gan LC ar 17/02/22	(1,000)
	(2,298)
Amcangyfrir o'r Gyllideb a Reolir a Net	165,843
Diffyg (-) / Balans	-

Mae papurau'r Gyllideb bellach wedi'u paratoi yn unol â'r Cyllidebau a ddyrannwyd ar y sail uchod a hefyd wedi'u diweddarw wedyn i adlewyrchu dyraniadau mewnol, taliadau cyfalaf ac ad-daliadau mewnol. Felly mae'r cyllidebau Rheoladwy a'r Cyllidebau Net arfaethedig wedi'u hamgáu fel Atodiad 1.

Tudalen 14

Mae perfformiad cyffredinol y Cyngor o ran sicrhau cyllideb fantoledig yn ardderchog ac yn y blynyddoedd diwethaf llwyddwyd i sicrhau gwargedion er mwyn cynyddu'r balansau Cyffredinol. Mae'n hanfodol ein bod ni'n cynnal y strategaeth bresennol sy'n amlinellu sut y byddwn yn pennu cyllidebau yn y tymor canolig.

Mae cyllid craidd annigonol wrth y Llywodraeth, nad yw'n cynyddu yn unol â phwysau uwch yn genedlaethol o ran costau, yn golygu bod angen i'r Cyngor barhau i gynllunio a gweithredu cynigion ar gyfer lleihau costau/arbedion ar gyfer y flwyddyn nesaf a hyd y gellir rhagweld.

4. Y STRATEGAETH GYFALAF A'R RHAGLEN GYFALAF TAIR BLYNEDD

Mae cyllid cyfalaf wedi gostwng yn sylweddol ledled Cymru o £177.8m i £150m. Dyranriad Ceredigion yw £4.891m (roedd y swm eleni yn £5.785m), sef gostyngiad o £894k. Rhennir y dyranriad rhwng Grant Cyfalaf Cyffredinol £1.995m (£2.896m 21/22) a Benthycia â Chymorth Heb ei Neilltuo £2.896m (£2.889m 21/22). Yr arwydd yw i gyfalaf gynyddu ar gyfer 2023/24 er nad yn union yn ôl i lefelau'r flwyddyn gyfredol. Serch hynny, bydd cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer agenda'r Newid yn yr Hinsawdd gyda Chyllideb Llywodraeth Cymru yn dangos £20m ychwanegol ar gyfer 'Datgarboneiddio Llywodraeth Leol' yn 2023/24 a 2024/25.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf sydd wedi'i hatodi (Atodiad 2) yn amlinellu'r cyd-destun tymor hwy lle gwneir penderfyniadau gan ystyried sefyllfa ariannol gyffredinol yr awdurdod, i ddarparu gwell cysylltiadau rhwng y cyllidebau refeniw a'r cyllidebau cyfalaf a'r penderfyniadau buddsoddi a benthycia ynghyd â rhoi ystyriaeth briodol i archwaeth y Cyngor am risg yn benodol o ran unrhyw weithgarwch masnachol.

Mae'r Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd wedi'i hatodi (Atodiad 3) fel y'i cyflwynwyd i'r Cabinet a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar wahân i un newid mewn perthynas â chynllun ar gyfer Uwchraddio Caeau Pob Tywydd. Yn ddiweddar, mae'r Grŵp Datblygu wedi cefnogi cynnig i wneud cais am gyllid gan Gyngor Chwaraeon Cymru. Cost amcangyfrifedig y cynllun yw £573k sy'n gofyn am £198k o gyllid o adnoddau'r Cyngor ei hun. Mae cais pellach am gyllid wedi'i wneud i Gronfa Llawr Gwlad Cymdeithas Bêl-droed Cymru, a phe bai'n llwyddiannus byddai'n lleihau cyfraniad y Cyngor hyd at £100k. Mae'r cynllun wedi'i ychwanegu yn erbyn Porth Cymorth Cynnar yn Atodiad 3 ac mae llinell y gyllideb ar gyfer 'Grantiau Newydd a Gymeradwywyd/Arian Cyfatebol ar gyfer cynlluniau grant' wedi'i lleihau o £4.2m i £3.627m. O ganlyniad, nid yw cyfanswm y rhaglen gyffredinol wedi newid ar gyfer 2022/23, sef £40.3m. Nid yw cyfanswm y rhaglen gyffredinol ar gyfer 2023/24 a 2024/25 wedi newid ychwaith.

5. DANGOSYDDION DARBODUS AR GYFER RHEOLI CYFALAF A RHEOLI'R TRYSORLYS

Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn sail i'r Dangosyddion Darbodus arfaethedig sydd wedi'u hatodi (Atodiad 4). Mae hefyd yn angenrheidiol bob blwyddyn i ddirprwyo awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael i beri symudiad o fewn cyfanswm terfyn awdurdodedig benthycia allanol, a'r ffin weithredol.

6. BARN Y SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL - CYLLID A CHAFFAEL (Swyddog Adran 151)

Mae datganiad am Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd a Balansau Cyffredinol y Cyngor hefyd wedi'i atodi ar ddiwedd Atodiad 1. Gallaf gadarnhau bod yr amcangyfrif £6.1m ar gyfer y Balansau Cyffredinol yn ddigon ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Gan ystyried yr holl faterion yn yr adroddiad hwn, gallaf gadarnhau bod y gyllideb arfaethedig wedi'i pharatoi mewn modd cadarn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Wrth gydnabod bod defnyddio'r cyllid untro newydd i leihau swm y cynnydd yn Nhreth y Cyngor sydd ei angen ar gyfer y flwyddyn nesaf yn unig yn fodd o liniaru'r pwysau ariannol a roddir ar ein trigolion, gan gynnwys costau byw/chwyddiant ar hyn o bryd a'r dreth yswiriant gwladol newydd sy'n cael ei rhoi ar waith ar Ebrill 1^{af} 2022. Trwy ystyried materion perfformiad ariannol eraill gan gynnwys hanes cadarn blaenorol o berfformiad y gyllideb a thanwario yn ogystal â thanwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn gyfredol, y tebygrwydd yw y bydd modd dod o hyd i'r rhan fwyaf os nad y cyfan o'r swm ychwanegol o'r gyllideb sylfaenol unwaith y bydd proses y gyllideb ar gyfer 2023/24 yn dechrau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Bydd cadw at y cynllun a amlinellir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn sicrhau y bydd y risg o fethu ag ymateb yn hyblyg i setliadau anhysbys, ac yn fwyaf tebygol, annigonol y dyfodol yn cynorthwyo'n fawr gyda mantoli'r gyllideb bob blwyddyn.

Argymhellion:

- a) Nodi, ym marn y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151 Statudol), fod amcangyfrifon cyllideb 2022/23 wedi'u paratoi mewn modd cadarn.
- b) Nodi, ym marn y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151 Statudol), fod y lefelau arfaethedig o ran cronfeydd wrth gefn, darpariaethau a balansau'n ddigon ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.
- c) Cymeradwyo Amcangyfrifon y Refeniw Net a Ddiweddarwyd ar gyfer y Cyngor ar gyfer 2021/22, sef swm £154.736m;
- d) Cymeradwyo Amcangyfrifon y Refeniw Net ar gyfer y Cyngor ar gyfer 2022/23 sef swm £165.843m;
- e) Cymeradwyo cyllidebau manwl y gwasanaethau ar gyfer 2022/23 a'r cyllidebau diweddaraf ar gyfer 2021/22, fel yr amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad;
- f) Codi Treth y Cyngor Sylfaenol £1,447.90 ar gyfer eiddo Band D yn 2022/23;
- g) Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf, fel yr amlinellir yn Atodiad 2 yr adroddiad;
- h) Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd, fel yr amlinellir yn Atodiad 3 yr adroddiad;
- i) Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodous, fel yr amlinellir yn Atodiad 4 yr adroddiad;
- j) Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Cyllid a Chaffael i beri symudiad o fewn cyfanswm terfyn awdurdodedig benthyca allanol, a'r ffin weithredol.

Tudalen 16

Rheswm dros y penderfyniad: Mae angen pennu'r gyllideb er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau ac er mwyn pennu Treth y Cyngor.

Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam. Nid oes dim newid i wasanaeth i fod o hyn er ei fod wedi'i baratoi ar gyfer y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Trosolwg a Chraffu: Ystyriwyd gan y Pwyllgorau

Fframwaith Polisi: Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

Blaenoriaethau Corfforaethol: Pob un

Pwerau Statudol: Deddf Cyllid a Llywodraeth Leol 1972

Papurau Cefndir: Adroddiadau'r Cabinet a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ynghylch y Gyllideb. Y Setliad Refeniw a Chyfalaf a chyhoeddiadau eraill Llywodraeth Cymru.

Atodiadau:
Atodiad 1 – Cyllidebau Rheoladwy a Net (gan gynnwys Datganiad o Gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a Balansau Cyffredinol)
Atodiad 2 – Strategaeth Gyfalaf
Atodiad 3 – Rhaglen Gyfalaf Tair Blynedd
Atodiad 4 – Dangosyddion Darbodus

Swyddog Arweiniol Corfforaethol / Steve Johnson

Swyddog Adrodd: Steve Johnson, Justin Davies & Duncan Hall

Dyddiad: 23/02/22

CYLLIDEB 2022-23

CYNNWYS	Tudalen(nau)
Datganiad am Wariant a'r Dreth Gyngor Arfaethedig	2-3
Crynodeb o'r Cyllideb Reoladwy	4
Crynodeb o Wariant Net	5-6
Costau Gweithwyr	7
Cyngor Sir Ceredigion - Crynodeb o Wariant Net	8-9
Cyllidebau'r Gwasanaethau	10-51
Datganiad Cronfeydd Wrth Gefn a neilltuwyd a Balansau Cyffredinol	52-53

BUDGET 2022-23

CONTENTS	Page(s)
Statement of Expenditure and Proposed Council Tax	2-3
Summary of Controllable Budget	4
Summary of Net Expenditure	5-6
Employee Costs	7
Ceredigion County Council - Summary of Net Expenditure	8-9
Service Budgets	10-51
Statement of Earmarked Reserves and General Balances	52-53

Tudalen 18

Datganiad am Wariant a'r Dreth Gyngor Arfaethedig

Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn gwario £250.6 miliwn yn 2022-23. Bydd incwm o £45.5 miliwn yn dod wrth Grantiau, £32.4 miliwn wrth Incwm Arall a £6.8 miliwn wrth Gronfeydd Wrth Gefn. Bydd y Gwariant Net yn cael ei ddiwallu gan Grantiau'r Llywodraeth a Thalwyr y Dreth Gyngor.

Gwasanaeth	Gwariant Crynswth £000's	Grantiau £000's	Incwm Arall £000's	Cronfeydd Wrth Gefn £000's	Gwariant Net £000's
Ysgolion a Diwylliant	87,615	(19,058)	(4,305)	(53)	64,199
Porth Cymorth Cynnar, Lles Cymunedol a Dysgu	13,856	(4,533)	(1,428)	(133)	7,762
Cyllid a Chaffael	3,353	(11,732)	(596)	(103)	(9,078)
Gwasanaethau Democraidd	2,952	-	(1)	(370)	2,581
Pobl a Threfniadaeth	894	(252)	(50)	-	592
Porth Cynnal	47,517	(1,238)	(12,931)	(370)	32,978
Porth Gofal	28,105	(4,048)	(4,980)	(150)	18,927
Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd	3,803	(253)	(315)	-	3,235
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	34,718	(3,014)	(4,691)	(12)	27,001
Economi ac Adfywid	9,163	(1,349)	(3,064)	(374)	4,376
Cyswllt Cwsmeriaid	1,616	-	(16)	-	1,600
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	669	-	(63)	(5)	601
Grŵp Arweiniol	5,954	-	(20)	1,380	7,314
Ardollau, Premium Treth y Cyngor a Chronfeydd	10,385	-	-	(6,630)	3,755
CYFANSWM	250,600	(45,477)	(32,460)	(6,820)	165,843

Gwariant Net a gyllidir gan: £000's

Crynswth y Cyllid Allanol 119,419

Talwyr y Dreth Gyngor 46,424

165,843

£

Treth Gyngor Sir Band D (Ac eithirio Heddlu Dyfed Powys a Chynghorau Tref/Cymuned)

1,447.90

Tudalen 19

Statement of Expenditure and Proposed Council Tax

The Council is anticipating to spend £250.6 million in 2022-23. Income of £45.5 million will come from Grants, £32.4 million from Other Income and £6.8 million from Reserves. The Net Expenditure will be met by Government Grants and Council Tax Payers.

Service	Gross Expenditure £000's	Grants £000's	Other Income £000's	Reserves £000's	Net Expenditure £000's
Schools & Culture	87,615	(19,058)	(4,305)	(53)	64,199
Porth Cymorth Cynnar, Community Wellbeing and Learning	13,856	(4,533)	(1,428)	(133)	7,762
Finance & Procurement	3,353	(11,732)	(596)	(103)	(9,078)
Democratic Services	2,952	-	(1)	(370)	2,581
People & Organisation	894	(252)	(50)	-	592
Porth Cynnal	47,517	(1,238)	(12,931)	(370)	32,978
Porth Gofal	28,105	(4,048)	(4,980)	(150)	18,927
Policy, Performance & Public Protection	3,803	(253)	(315)	-	3,235
Highways & Environmental Services	34,718	(3,014)	(4,691)	(12)	27,001
Economy & Regeneration	9,163	(1,349)	(3,064)	(374)	4,376
Customer Contact	1,616	-	(16)	-	1,600
Legal & Governance Services	669	-	(63)	(5)	601
Leadership Group	5,954	-	(20)	1,380	7,314
Levies, Council Tax Premium & Reserves	10,385	-	-	(6,630)	3,755
TOTAL	250,600	(45,477)	(32,460)	(6,820)	165,843

Net Expenditure Financed by:

Aggregate External Finance

£000's
119,419

Council Tax Payers

46,424

165,843

County Council Tax at Band D (Excluding Dyfed-Powys Police and Town/Community Councils)

£
1,447.90

Tudalen 20

Crynodeb o'r Gyllideb Reoladwy

	Cyllideb 2022-23 £000's	Cyllideb wedi'i diweddarau 2021-22 £000's	Cyllideb 2021-22 £000's
Gwasanaeth			
Ysgolion a Diwylliant	50,965	48,721	49,841
Porth Cymorth Cynnar, Lles Cymunedol a Dysgu	4,401	3,829	3,467
Cyllid a Chaffael	19,062	20,188	21,311
Gwasanaethau Democraidd	4,391	4,120	4,096
Pobl a Threfniadaeth	2,165	2,093	2,093
Porth Cynnal	28,648	23,633	23,763
Porth Gofal	13,617	11,656	11,369
Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd	2,355	2,146	2,098
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	18,241	17,587	17,062
Economi ac Adfywid	3,688	3,471	3,489
Cyswllt Cwsmeriaid	6,155	5,779	5,735
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	1,569	1,535	1,538
Grŵp Arweiniol	6,831	5,388	4,284
Ardollau, Premiwm Treth y Cyngor a Chronfeydd	3,755	4,590	4,590
CYFANSWM Y GYLLIDEB REOLADWY	165,843	154,736	154,736

Summary of Controllable Budget

	Budget 2022-23 £000's	Updated Budget 2021-22 £000's	Budget 2021-22 £000's
Service			
Schools & Culture	50,965	48,721	49,841
Porth Cymorth Cynnar, Community Wellbeing and Learning	4,401	3,829	3,467
Finance & Procurement	19,062	20,188	21,311
Democratic Services	4,391	4,120	4,096
People & Organisation	2,165	2,093	2,093
Porth Cynnal	28,648	23,633	23,763
Porth Gofal	13,617	11,656	11,369
Policy, Performance & Public Protection	2,355	2,146	2,098
Highways & Environmental Services	18,241	17,587	17,062
Economy & Regeneration	3,688	3,471	3,489
Customer Contact	6,155	5,779	5,735
Legal & Governance Services	1,569	1,535	1,538
Leadership Group	6,831	5,388	4,284
Levies, Council Tax Premium & Reserves	3,755	4,590	4,590
TOTAL CONTROLLABLE BUDGET	165,843	154,736	154,736

Tudalen 21

Crynodeb o'r Wariant Net

Gwasanaeth	Cyllideb 2022-23 £000's	Cyllideb wedi'i diweddarau 2021-22 £000's	Cyllideb 2021-22 £000's
Ysgolion a Diwylliant	64,199	61,782	61,963
Porth Cymorth Cynnar, Lles Cymunedol a Dysgu	7,762	7,110	6,231
Cyllid a Chaffael	(9,078)	(7,972)	(3,734)
Gwasanaethau Democrataidd	2,581	2,423	2,290
Pobl a Threfniadaeth	592	620	706
Porth Cynnal	32,978	27,781	27,575
Porth Gofal	18,927	16,815	17,519
Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd	3,235	3,005	2,778
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	27,001	26,228	24,334
Economi ac Adfywid	4,376	4,346	3,937
Cyswllt Cwsmeriaid	1,600	1,573	1,361
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	601	605	608
Grŵp Arweiniol	7,314	5,830	4,578
Ardollau, Premium Treth y Cyngor a Chronfeydd	3,755	4,590	4,590
CYFANSWM GWARIANT NET	165,843	154,736	154,736
Crynswth y Cyllid Allanol	119,419	109,658	109,658
Diwallwyd gan Dalwyr y Dreth Gyngor	46,424	45,078	45,078
	Rhif	Rhif	Rhif
Sail y Dreth Gyngor	32,063	31,911	31,911
	£	£	£
Eiddo a ddaw dan Band D y Dreth Gyngor Sir	1,447.90	1,412.59	1,412.59
Treth Band D Cynghorau Cymuned (Cyfartaledd)	39.21	37.07	37.07
Treth Band D Heddlu Dyfed-Powys	290.16	275.56	275.56
Cyfanswm Cyfartaledd y Dreth Gyngor Band D	1,777.27	1,725.22	1,725.22
Praeseptau'r Cynghorau Cymuned	1,257,222	1,183,024	1,183,024

Tudalen 22

Summary of Net Expenditure

Service	Budget 2022-23 £000's	Updated Budget 2021-22 £000's	Budget 2021-22 £000's
Schools & Culture	64,199	61,782	61,963
Porth Cymorth Cynnar, Community Wellbeing and Learning	7,762	7,110	6,231
Finance & Procurement	(9,078)	(7,972)	(3,734)
Democratic Services	2,581	2,423	2,290
People & Organisation	592	620	706
Porth Cynnal	32,978	27,781	27,575
Porth Gofal	18,927	16,815	17,519
Policy, Performance & Public Protection	3,235	3,005	2,778
Highways & Environmental Services	27,001	26,228	24,334
Economy & Regeneration	4,376	4,346	3,937
Customer Contact	1,600	1,573	1,361
Legal & Governance Service	601	605	608
Leadership Group	7,314	5,830	4,578
Levies, Council Tax Premium & Reserves	3,755	4,590	4,590
TOTAL NET EXPENDITURE	165,843	154,736	154,736
Aggregate External Funding	119,419	109,658	109,658
Met by Council Taxpayers	46,424	45,078	45,078
	No.	No.	No.
Council Tax Base	32,063	31,911	31,911
	£	£	£
County Council Tax Band D Properties	1,447.90	1,412.59	1,412.59
Community Councils Band D Tax (Average)	39.21	37.07	37.07
Dyfed-Powys Police Band D Tax	290.16	275.56	275.56
Total Average Band D Council Tax	1,777.27	1,725.22	1,725.22
Community Councils Precepts	1,257,222	1,183,024	1,183,024

Tudalen 23

CYNGOR SIR CEREDIGION / CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Costau Gweithwyr

	Cyllideb 2022-23 £000's	Cyllideb wedi'i diweddarau 2021-22 £000's	Cyllideb 2021-22 £000's
Ysgolion a Diwylliant	52,489	50,199	49,912
Porth Cymorth Cynnar, Lles Cymunedol a Dysgu	7,098	6,072	5,753
Cyllid a Chaffael	4,362	4,163	4,117
Gwasanaethau Democraidd	3,166	2,958	2,933
Pobl a Threfniadaeth	2,625	2,517	2,517
Porth Cynnal	5,889	5,389	5,312
Porth Gofal	11,557	9,486	9,219
Polisi, Pherfformiad a Amddiffyn y Cyhoedd	2,608	2,385	2,299
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol	8,407	8,135	8,135
Economi ac Adfywid	5,863	5,399	5,399
Cyswllt Cwsmeriaid	4,701	4,452	4,423
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	1,001	986	986
Grŵp Arweiniol	1,293	1,945	429
Ardollau, Premium Treth y Cyngor a Chronfeydd	0	0	0
IS-GYFANSWM	111,059	104,086	101,434
Cyflogau Aelodau	1,039	969	969
CYFANSWM	112,098	105,055	102,403

Employee Costs

	Budget 2022-23 £000's	Updated Budget 2021-22 £000's	Budget 2021-22 £000's
Schools & Culture	52,489	50,199	49,912
Porth Cymorth Cynnar, Community Wellbeing and Learning	7,098	6,072	5,753
Finance & Procurement	4,362	4,163	4,117
Democratic Services	3,166	2,958	2,933
People & Organisation	2,625	2,517	2,517
Porth Cynnal	5,889	5,389	5,312
Porth Gofal	11,557	9,486	9,219
Policy, Performance & Public Protection	2,608	2,385	2,299
Highways & Environmental Services	8,407	8,135	8,135
Economy & Regeneration	5,863	5,399	5,399
Customer Contact	4,701	4,452	4,423
Legal & Governance Service	1,001	986	986
Leadership Group	1,293	1,945	429
Levies, Council Tax Premium & Reserves	0	0	0
	111,059	104,086	101,434
Members Salaries	1,039	969	969
TOTAL	112,098	105,055	102,403

Gwybodaeth Ychwanegol

Mae costau gweithwyr yn cynnwys cyflogau, Yswiriant Gwladol, Ardoll Brentisiaethau, blwyd-dal, costau cyfweiliadau, costau hyfforddiant costau adleoli, ffioedd meddygol, hysbysebion swyddi, yswiriant i weithwyr llanw a thâl dileu swydd.

Additional Information

Employee costs includes salaries, N.I., apprenticeship levy, superannuation, interview expenses, training costs, relocation expenses, medical fees, recruitment advertising, supply cover insurance and redundancy pay.

Tudalen 24

CYNGOR SIR CEREDIGION

Crynodeb o'r Wariant Net

	Cyllideb 2022-23 £000's	Cyllideb wedi'i diweddarau 2021-22 £000's	Cyllideb 2021-22 £000's
Gwariant Rheoladwy			
Gweithwyr	112,098	105,055	102,403
Eiddo	13,975	8,342	13,384
Cludiant	9,878	9,429	9,624
Cyflenwadau a Gwasanaethau	118,391	114,020	114,252
Cyfanswm Gwariant	254,342	236,846	239,663
Incwm Rheoladwy			
Grantiau	45,477	51,862	47,333
Incwm Arall	32,460	29,827	29,941
Gwasanaethau Contract/Ysgolion	3,742	3,619	3,619
Cyfanswm Incwm	81,679	85,309	80,893
Cyllideb cyn Cronfeydd Wrth Gefn	172,663	151,537	158,770
Adio - Trosglwyddiadau i'r Cronfeydd wrth Gefn	2,842	4,698	3,252
Llai - Trosglwyddiadau o'r Cronfeydd Wrth Gefn	9,662	1,499	7,286
CYLLIDEB REOLADWY	165,843	154,736	154,736
Adio - Dyraniadau Mewnol	34,569	33,593	27,949
Adio - Taliadau Cyfalaf	12,501	12,502	13,603
Cyfanswm y Gyllideb	212,913	200,831	196,288
Llai - Ad-daliadau Mewnol	47,070	46,095	41,552
GWARIANT NET	165,843	154,736	154,736

	Cyllideb 2022-23 £000's	Cyllideb wedi'i diweddarau 2021-22 £000's	Cyllideb 2021-22 £000's
Gwybodaeth Ychwanegol			
Cyfanswm Gwariant			
Cyfanswm Gwariant	254,342	236,846	239,663
Llai Incwm Mewnol	3,742	3,619	3,619
Gwariant Crynswth	250,600	233,227	236,044

Nodiadau sy'n berthnasol i bob tudalen:

Dyraniadau Mewnol

Dyma daliadau a godir ar wasanaethau eraill o fewn y Cyngor.

Taliadau Cyfalaf

Dyma'r gost referniw o dalu am wariant cyfalaf. Codir tâl dibrisio ar bortffolios i adlewyrchu eu defnydd o asedau sefydlog.

Ad-daliadau Mewnol

Dyma daliadau a wneir i wasanaethau eraill o fewn y Cyngor.

Mae dyraniadau mewnol ac ad-daliadau mewnol yn cynnwys costau Adeiladau Gweinyddol, TG, Cyllid, Yswiriant a Phensiynau.

CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Summary of Net Expenditure

	Budget 2022-23 £000's	Updated Budget 2021-22 £000's	Budget 2021-22 £000's
Controllable Expenditure			
Employees	112,098	105,055	102,403
Premises	13,975	8,342	13,384
Transport	9,878	9,429	9,624
Supplies and Services	118,391	114,020	114,252
Total Expenditure	254,342	236,846	239,663
Controllable Income			
Grants	45,477	51,862	47,333
Other Income	32,460	29,827	29,941
Contract Services/Schools	3,742	3,619	3,619
Total Income	81,679	85,309	80,893
Budget Before Reserves	172,663	151,537	158,770
Add - Transfers to Reserves	2,842	4,698	3,252
Less - Transfers from Reserves	9,662	1,499	7,286
CONTROLLABLE BUDGET	165,843	154,736	154,736
Add - Internal Allocations	34,569	33,593	27,949
Add - Capital Charges	12,501	12,502	13,603
Total Budget	212,913	200,831	196,288
Less - Internal Recharges	47,070	46,095	41,552
NET EXPENDITURE	165,843	154,736	154,736

Additional Information	Budget 2022-23 £000's	Updated Budget 2021-22 £000's	Budget 2021-22 £000's
Total Expenditure			
Total Expenditure	254,342	236,846	239,663
Less Internal Income	3,742	3,619	3,619
Gross Expenditure	250,600	233,227	236,044

Notes to apply to all pages:**Internal Allocations**

These are charges made from other services within the Council.

Capital Charges

These are the revenue cost of paying for capital expenditure. Portfolios are charged depreciation to reflect their use of fixed assets.

Internal Recharges

These are charges made to other services within the Council.

Internal allocations and internal recharges include charges for Admin Buildings, IT, Finance, Insurance and pensions.

Dadansoddi Gwasanaethau - YSGOLION a DIWYLLIANT - Reoladwy

	Cyllideb 2022-23				Cyllideb 2021-22 wedi'i diweddarau				Cyllideb 2021-22			
	Gwariant	Incwm	Cronfeydd Wrth Gefn	Cyllideb Reoladwy	Gwariant	Incwm	Cronfeydd Wrth Gefn	Cyllideb Reoladwy	Gwariant	Incwm	Cronfeydd Wrth Gefn	Cyllideb Reoladwy
	£000's	£000's	£000's	£000's	£000's	£000's	£000's	£000's	£000's	£000's	£000's	£000's
Ysgolion Cynradd	21,024	2,272	0	18,752	20,279	2,281	0	17,998	20,279	2,281	0	17,998
Ysgolion Uwchradd	18,409	3,846	0	14,563	17,824	4,007	0	13,817	17,824	4,007	0	13,817
Ysgolion Pob Oed	14,227	2,824	0	11,403	13,787	2,824	0	10,963	13,787	2,824	0	10,963
Gwella Ysgolion	12,833	11,262	0	1,571	11,201	9,727	0	1,474	10,400	8,879	0	1,521
Seilwaith Addysgol	893	467	(53)	373	822	467	(55)	300	1,347	470	(55)	822
Anghenion Dysgu Ychwanegol	2,885	940	0	1,945	2,791	679	0	2,112	3,297	588	0	2,709
Gwasanaethau Diwylliannol	1,535	503	0	1,032	1,548	570	0	978	1,551	570	0	981
Uned Arlwygo Gorfforaethol	2,607	1,488	0	1,119	2,635	1,801	0	834	2,634	1,791	0	843
Rheoli'r Gwasanaethau a Strategaeth y Gwasanaethau	480	273	0	207	518	273	0	245	442	255	0	187
Cyfanswm Ysgolion a Diwylliant	74,893	23,875	(53)	50,965	71,405	22,629	(55)	48,721	71,561	21,665	(55)	49,841

Service Analysis - SCHOOLS & CULTURE - Controllable

- Sut y rhoddir sylw i unrhyw risgiau yn sgil gamblo – a nodwyd mewn asesiad risg a wnaed yn unol â pharagraff 4.3(4) o'r polisi hwn – i blant a phobl fregus;
- Teledu cylch cyfyng;
- Goruchwylio mynedfeydd/mannau lle ceir peiriannau;
- Neilltuo manau yn ffisegol;
- Lleoliad y fynedfa;
- Arwyddion/hysbysiadau;
- Oriau agor penodol;
- Cynlluniau i wahardd eich hun rhag gamblo;
- Darparu taflenni gwybodaeth neu rifau i linellau cymorth megis GamCare.

Mae Darpariaethau Cod Cyfrifoldeb Cymdeithasol 3.5.6 yn mynnu bod pob trwydded ar gyfer casino a bingo a betio nad ydynt yn rhai o bell (heblaw'r rhai hynny sydd ar drac) a deiliaid trwyddedau gweithredu peiriannau hapchwarae ar gyfer canolfannau hapchwarae i oedolion yn cynnig cynlluniau i gwsmeriaid allu gwahardd eu hunain rhag gamblo i'r sawl sy'n dymuno cyfleuster o'r fath. Mae darpariaeth Cod Cyffredin hefyd yn 3.5.7.

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol nac yn gyflawn, ac enghreifftiau yw'r rhain o gamau posibl.

1.17 Canolfannau Adloniant i Deuluoedd

Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn rhoi ystyriaeth benodol i'r angen i ddiogelu plant a phobl fregus rhag cael eu niwedio neu eu hecsbloetio gan gamblo a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r awdurdod y bydd digon o gamau ar waith i sicrhau, er enghraifft, nad oes gan y rhai sydd dan ddeunaw oed fynediad i'r manau lle ceir peiriannau hapchwarae i oedolion yn unig. Cynghorir yr ymgeiswyr yn gryf i gyfeirio at y wybodaeth am ddiogelu ar dudalen 34 o'r ddogfen bolisi hon.

Bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig eu camau eu hunain yn eu asesiad risk gweithredu lleol i fodloni'r amcanion trwyddedu, ond dylai'r camau neu amodau'r drwydded gwmpasu materion megis:

- Teledu cylch cyfyng;

- Goruchwyllo mynedfeydd/mannau lle ceir peiriannau;
- Neilltuo manau yn ffisegol;
- Lleoliad y fynedfa;
- Arwyddion/hysbysiadau;
- Oriau agor penodol;
- Cynlluniau i wahardd eich hun rhag gamblo;
- Darparu taflenni gwybodaeth neu rifau i linellau cymorth megis GamCare;
- Camau/hyfforddiant i staff ynghylch delio â phlant ysgol y drwgdybir eu bod yn mitsio
- Sut y rhoddir sylw i unrhyw risgiau yn sgil gamblo – a nodwyd mewn asesiad risg a wnaed yn unol â pharagraff 4.3(4) o'r polisi hwn – i blant a phobl fregus.
- Gwneud gwiriadau y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar bob unigolyn a gyflogir gan y Gweithredwr;
- Rhoi manylion am eu meini prawf euogfarnau troseddol

Nid yw'r rhestr hon yn orfodol nac yn gyflawn, ac enghreifftiau yw'r rhain o gamau posibl.

Yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae, bydd yr awdurdod trwyddedu yn edrych ar wefan y Comisiwn i weld a oes unrhyw amodau o ran amlinellu'r man sy'n cynnwys peiriannau categori C yn berthnasol i drwyddedau gweithredwyr. Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn hefyd yn hysbysu am unrhyw amodau gorfodol neu ddiogyfnydd sydd ar y trwyddedau safle hyn, pan gânt eu cyhoeddi.

1.18 Hawlenni Gamblo mewn Clybiau a Pheiriannau Gamblo mewn Clybiau

Gall Clybiau Aelodau a Sefydliadau Lles Glowyr (ond nid Clybiau Masnachol) wneud cais am Hawlen Gamblo Clwb neu Hawlen Peiriannau Gamblo Clwb. Bydd yr Hawlen Gamblo Clwb yn galluogi'r safle i ddarparu peiriannau gamblo (3 pheiriant o gategori B, C neu D), gamblo siawns gyfartal a gemau siawns. Gall Clybiau Aelodau, Sefydliadau Lles Glowyr a hefyd Glybiau Masnachol wneud cais am Hawlen Peiriannau Gamblo Clwb. Bydd hawlen Peiriannau Gamblo Clwb yn galluogi'r safle i ddarparu peiriannau gamblo (3 pheiriant o gategori B, C neu D). Ni chaiff Clybiau Masnachol osod peiriannau gamblo B3A sy'n cynnig gemau loteri.

Mae'n rhaid i'r Cyngor fod yn fodlon fod y clwb yn bodloni gofynion y Ddeddf ar gyfer cael hawlen gamblo mewn clwb. Wrth wneud hynny bydd yn ystyried nifer o faterion fel y'u nodir yng Nghanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae. Mae'r rhain yn cynnwys cyfansoddiad y clwb, amlder yr hapchwarae a sicrhau bod gan y clwb o leiaf 25 o aelodau. Rhaid rhedeg y clwb "yn gyfan gwbl neu'n bennaf" at ddibenion heblaw gamblo, oni bai fod rheoliadau ar wahân yn caniatáu'r gamblo. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyhoeddi rheoliadau ac mae'r rhain yn cwmpasu clybiau bridge a chwist. Ni all y Cyngor wrthod cais heblaw ar sail y canlynol:

- (a) nad yw'r ymgeisydd yn bodloni'r gofynion ar gyfer clwb aelodau neu glwb masnachol, neu sefydliad lles glowyr ac nad oes hawl ganddo, felly, i ddal y math o hawlen y gwnaeth gais amdani;
- (b) bod safle'r ymgeisydd yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan blant a/neu bobl ifanc;

- (c) bod yr ymgeisydd wedi troseddu o dan y Ddeddf neu wedi torri rheolau hawlen wrth ddarparu cyfleusterau gamblo;
- (ch) y diddymwyd hawlen sy'n cael ei dal gan yr ymgeisydd yn y deng mlynedd flaenorol; neu
- (d) y cyflwynwyd gwrthwynebiad gan y Comisiwn neu'r heddlu.

Mae trefn 'garlam' ar gael hefyd o dan y Ddeddf ar gyfer safleoedd sy'n dal Tystysgrif Safle Clwb o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 (Atodlen 12 paragraff 10). Ni all Clybiau Masnachol ddal Tystysgrif Safle Clwb o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac felly ni allant ddefnyddio'r drefn garlam. Fel y dywed canllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ar gyfer awdurdodau lleol: "Dan y drefn garlam nid oes unrhyw gyfle i'r Comisiwn na'r heddlu wrthwynebu, ac nid oes cymaint o sail i awdurdod wrthod hawlen". Hefyd, "Y sail ar gyfer gwrthod cais dan y broses yw:

- (a) y sefydlwyd y clwb yn bennaf ar gyfer gamblo, heblaw y mathau o gamblo a bennwyd dan atodlen 12;
- (b) yn ogystal â'r gamblo a bennwyd, bod yr ymgeisydd yn darparu cyfleusterau ar gyfer gamblo arall; neu
- (c) bod hawlen gamblo clwb neu hawlen peiriannau clwb a roddwyd i'r ymgeisydd yn y deng mlynedd diwethaf wedi cael ei diddymu."

Mae amodau statudol ar hawlenni gamblo clwb, sef nad yw plant yn cael defnyddio peiriannau categori B neu C ar y safle a bod y deiliad yn cydymffurfio â darpariaeth berthnasol unrhyw god ymarfer ynghylch y Ddeddf, gan gynnwys loteriau cymdeithasau bach.

1.19 Hapchwarae am Wobrau a Hawlenni Hapchwarae am Wobrau

Mae gan y Cyngor hawl, yn unol â'r Datganiad Egwyddorion hwn, i nodi'r mathau o gamblo y mae'r awdurdod hwn yn bwriadu eu hystyried wrth benderfynu a yw ymgeisydd yn addas i gael hawlen.

Hefyd mae'n nodi y dylai'r ymgeisydd nodi'r mathau o gamblo y mae'n bwriadu eu cynnig ac y dylai'r ymgeisydd allu dangos:

- Ei fod yn deall y terfynau ar y betiau a'r gwobrau a nodir yn y Rheoliadau;
- Bod y gamblo sy'n cael ei gynnig o fewn y gyfraith.
- Polisiau clir sy'n nodi'r camau a gymerir i ddiogelu plant rhag niwed.

Wrth benderfynu ar gais am yr hawlen hon, nid yw'r awdurdod yn gorfod ystyried yr amcanion trwyddedu ond rhaid iddo ystyried cyfarwyddyd y Comisiwn Hapchwarae.

Dylid nodi bod amodau yn Neddf Gamblo 2005 y mae'n rhaid i ddeiliad yr hawlen gydymffurfio â hwy, ond na all yr awdurdod trwyddedu bennu amodau. Dyma amodau'r Ddeddf:

- Rhaid cydymffurfio â'r terfynau o ran ffioedd 'cymryd rhan', fel y'u nodir yn y rheoliadau;
- Rhaid neilltuo pob cyfle i gymryd rhan yn y gamblo ar y safle lle mae'r gamblo'n digwydd ac ar un diwrnod; rhaid chwarae a gorffen y gêm ar y diwrnod y

neilltuwyd pob cyfle; a rhaid cyhoeddi canlyniad y gêm ar y safle ar ddiwrnod y chwarae;

- Rhaid i wobwr y gêm beidio â bod yn fwy na'r swm a nodwyd yn y rheoliadau (os yw'n wobwr ariannol), neu'r gwerth a bennwyd (os yw'n wobwr heblaw arian); a
- Rhaid nad yw cymryd rhan yn y gamblo yn rhoi hawl i'r chwaraewr gyfranogi mewn unrhyw hapchwarae arall.

1.20 Hysbysiadau Defnydd Dros Dro a Hysbysiadau Defnydd Achlysurol

Ar drac lle ceir betio am 8 o ddiwrnodau neu lai mewn blwyddyn galendr, mae Adran 39 y Ddeddf yn nodi y caniateir betio gydag Hysbysiad Defnydd Achlysurol a heb yr angen am drwydded lawn ar gyfer y safle. Mae gan y Gweinidog Gwladol y pŵer i gynyddu neu leihau'r nifer o hysbysiadau defnydd achlysurol y gall deiliad trwydded gweithredol wneud cais amdanynt bob blwyddyn galendr. Diffinnir 'diwrnod' fel cyfnod o ganol nos i ganol nos, felly byddai achlysur sy'n dechrau ar un diwrnod calendr ac yn gorffen y diwrnod canlynol yn cyfrif fel dau ddiwrnod. Mae Hysbysiadau Defnydd Achlysurol wedi eu llunio er mwyn caniatáu i weithredwyr betio trwyddedig ddarparu cyfleusterau betio mewn digwyddiadau chwaraeon go iawn (er enghraifft cyrsiau rasio o fan i fan a chyrsiau golff ar gyfer cystadlaethau pwysig) o fewn terfynau y lleoliad a nodwyd ar ddyddiad penodol, heb yr angen am drwydded fetio lawn ar gyfer y safle. Rhaid i Hysbysiad Defnydd Achlysurol gael ei gyflwyno gan unigolyn sy'n gyfrifol am weinyddu digwyddiadau ar y trac neu gan feddiannydd y trac. Dylid nodi'r canlynol mewn perthynas ag Hysbysiad Defnydd Achlysurol:

- dim ond am wyth diwrnod neu lai mewn blwyddyn galendr y gellir dibynnu ar Hysbysiadau Defnydd Achlysurol ac felly dylai awdurdodau trwyddedu gadw cofnod o niferoedd yr hysbysiadau sy'n cael eu cyflwyno o ran bob trac. Mae'r cyfnod o wyth diwrnod yn ymwneud â'r lleoliad ac nid â'r unigolyn sydd wedi cyflwyno'r hysbysiad.
- rhaid cyflwyno Hysbysiad Defnydd Achlysurol ar gyfer pob diwrnod y cynhelir gweithgaredd betio ar y safle. Os bwriedir cynnal gweithgaredd betio dros gyfnod o wyth diwrnod ar ôl ei gilydd, bydd yn rhaid i'r gweithredwr gyflwyno wyth hysbysiad ar wahân.
- rhaid i'r hysbysiad nodi'r diwrnod y mae mewn grym. Mae digwyddiad sy'n para tan wedi canol nos ac sy'n gorffen y diwrnod canlynol yn cyfrif fel dau ddiwrnod o ddefnydd achlysurol, er mai un digwyddiad yn unig ydyw yn ymarferol.
- ni ellir gwrthwynebu na gwrthod oni bai bod y cais yn mynd y tu hwnt i'r uchafswm a ganiateir.
- rhaid hysbysu'r awdurdod trwyddedu a'r heddlu, yn ysgrifenedig, cyn i'r digwyddiad ddechrau.
- ni chaiff y lle sy'n destun yr hysbysiad feddu ar drwydded safle.
- gellir defnyddio tir i fod yn drac dros dro, er enghraifft ar gyfer ras o fan i fan, cyhyd ag y bo digwyddiadau chwaraeon neu rasys yn digwydd yno. Nid oes angen i drac gael ei sefydlu'n barhaol.

Mae clybiau chwaraeon lleol neu leoliadau eraill sydd yn ceisio dod yn draciau drwy ddefnyddio digwyddiad chwaraeon gwneud wedi defnyddio hysbysiadau defnydd achlysurol yn unig neu yn bennaf er mwyn hwyluso betio ar

ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal oddi ar y lleoliad a nodwyd, ymysg yr enghreifftiau mae Gŵyl Cheltenham a'r Grand National. Er nad ydym wedi cyflwyno amod newydd i drwyddedau sy'n cyfyngu'r betio i ganlyniadau'r ras, y gystadleuaeth neu'r digwyddiad chwaraeon arall sy'n digwydd ar y trac penodol hwnnw tra bo'r hysbysiad defnydd achlysurol mewn grym, mae'r sefyllfa'n cael ei hadolygu.

1.21 Cofrestru loteriau cymdeithasau bach

Trefniant sy'n bodloni'r holl feini prawf a geir yn y disgrifiad statudol o loteri syml neu loteri gymhleth yw loteri, a hynny'n unol ag adran 14 o'r Ddeddf.

Mae 'Cymdeithas' yn cyfeirio at gymdeithas a sefydlwyd yn anfasnachol, neu unrhyw gangen ar wahân ohoni, y cynhelir y loteri er ei budd. Mae Adran 19 o'r Ddeddf yn diffinio cymdeithas o'r fath fel un sydd wedi'i sefydlu a'i gynnal:

- er dibenion elusennol, yn ôl y diffiniad yn adran 2 o Ddeddf Elusennau 2006;
- er mwyn galluogi pobl i gymryd rhan neu gefnogi digwyddiadau chwaraeon, athletau neu weithgareddau diwylliannol;
- ar gyfer unrhyw ddiben anfasnachol arall heblaw budd preifat.

Rhaid i'r gymdeithas fod wedi'i sefydlu er budd un o'r dibenion a ganiateir o dan Adran 19 o'r Ddeddf, a bod enillion y loteri yn cael eu cyflwyno er budd y dibenion hyn. Ni chaniateir sefydlu cymdeithas yn unswydd er mwyn hwyluso loteriau.

Mae hawl gan awdurdodau lleol i redeg eu loteriau eu hunain ond gallant ond wneud hynny os cânt eu trwyddedu gan y Comisiwn Hapchwarae. Rhaid i awdurdodau lleol neilltuo lleiafswm o 20% o'r elw at ddiben y mae ganddynt y pŵer i wario yn ei gylch, a rhaid iddynt ddilyn darpariaethau eraill y Ddeddf. Mae'n bosibl y bydd angen iddynt ddal trwydded gweithredwr gamblo o bell, os ydynt yn dymuno gwerthu tocynnau loteri drwy ddulliau electronig neu ddulliau technolegol eraill o bell megis dros y ffôn, drwy e-bost neu dros y we.

Rhaid i geisiadau am gofrestru loteriau cymdeithasau bach fod yn y ffurf a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol a rhaid cynnwys, i gyd-fynd â'r cais, ffi gofrestru, copi o'r telerau a'r amodau, a chopi o'r cyfansoddiad er mwyn profi ei bod yn gymdeithas anfasnachol. Mae paragraffau 47 a 48 o Atodlen 11 y Ddeddf yn amlinellu ar ba sail y gall awdurdodau trwyddedu wrthod cais am gofrestru loteri cymdeithasau bach.

Yn ôl paragraff 44 o Atodlen 11 y Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau trwyddedu gofnodi manylion y gymdeithas ar gofrestr. Er nad oes yn rhaid iddi fod yn gofrestr gyhoeddus, mae'r Comisiwn yn argymhell bod yr awdurdodau trwyddedu yn sicrhau bod y gofrestr ar gael i'r cyhoedd, os gofynnir amdani.

Cyn gynted ag y bydd y cais i gofrestru wedi ei dderbyn a'i nodi ar y gofrestr leol, yna mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu hysbysu'r ymgeisydd a'r Comisiwn am y cofrestrriad hwn, cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol.

Bydd y Cyngor yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg o ymdrin â'i gyfrifoldebau gorfodi yn achos loteriau cymdeithasau bach. Mae'r Cyngor yn barnu y gallai'r hyn sydd ar y rhestr ganlynol, nad yw'n cynnwys popeth, gael effaith ar statws risg y gweithredwr:

- cyflwyno ffurflenni'n hwyr (rhaid cyflwyno ffurflenni o fewn tri mis i ddyddiad cynnal y loteri)
- cyflwyno ffurflenni anghyflawn neu anghywir
- torri'r rheolau o ran uchafsymiau loteriau cymdeithasau bach

Caniateir gamblo anfasnachol os yw'n digwydd mewn digwyddiad anfasnachol, naill ai fel gweithgaredd atodol neu fel y prif ddigwyddiad. Mae digwyddiadau yn anfasnachol os nad oes yr un rhan o'r enillion er budd neu elw preifat. Gall elw digwyddiadau o'r fath fod er budd unigolyn neu unigolion os yw'r digwyddiad yn cael ei drefnu:

- gan, neu ar ran, elusen neu er dibenion elusenol
- i alluogi pobl i gymryd rhan neu gefnogi digwyddiadau chwaraeon, athletau neu weithgareddau diwylliannol;

1.22 Hawlenni Peiriannau Hapchwarae ar gyfer Safleoedd Trwyddedig (Alcohol)

Mae darpariaeth yn y Ddeddf bod hawl gan safleoedd sydd â thrwydded i werthu alcohol i'w yfed ar y safle gael 2 beiriant gamblo categori C a/neu D. Nid oes ond angen i'r safle hysbysu'r awdurdod trwyddedu. Gall yr awdurdod trwyddedu ddileu'r caniatâd diofyn yn achos unrhyw safle penodol os:

- nad yw'r peiriannau'n cael eu darparu fel ag i gyd-fynd â'r amcanion trwyddedu, o fewn rheswm;
- bu gamblo ar y safle sy'n torri un o amodau Adran 282 y Ddeddf Gamblo (h.y. y rhoddyd rhybudd ysgrifenedig i'r awdurdod trwyddedu, y talwyd ffi ac y cydymffurfiwyd ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae ynghylch lleoliad a gweithrediad y peiriant);
- yw'r safle'n cael ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer gamblo; neu
- y bu trosedd o dan y Ddeddf Gamblo ar y safle.

Os yw safle'n dymuno cael mwy na 2 beiriant, mae angen iddo wneud cais am hawlen a rhaid i'r Cyngor ystyried y cais hwnnw ar sail yr amcanion trwyddedu, unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae a'r "*fath faterion ag y mae'r Cyngor yn credu eu bod yn berthnasol*". Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd roi rheswm (neu resymau) pam bod angen mwy na 2 beiriant arno ar ei safle. Mae'r Cyngor o'r farn y bydd "y fath faterion" yn cael eu penderfynu fesul achos ond, yn gyffredinol, bydd yn ystyried yr angen i ddiogelu plant a phobl fregus rhag cael eu niwedio neu eu hecsbloetio gan gamblo a bydd yn disgwyl i'r ymgeisydd fodloni'r Cyngor y bydd digon o gamau ar waith i sicrhau nad oes gan y rhai sydd dan ddeunaw oed fynediad i'r mannau lle ceir peiriannau hapchwarae i oedolion yn unig. Gall y camau hyn gynnwys bod y peiriannau 'oedolion yn unig' i'w gweld o'r bar, neu yng ngolwg staff fydd yn gweld nad yw'r rheiny o dan 18 yn defnyddio'r peiriannau. Gall rhybuddion ac arwyddion gynorthwyo hefyd. O ran diogelu pobl fregus, dylai ymgeiswyr ystyried darparu taflenni gwybodaeth a rhifau llinellau cymorth sefydliadau megis 'GamCare'.

Mae'n cael ei dderbyn y gall rhai tai trwyddedig wneud cais am drwydded safle ar gyfer eu rhannau di-alcohol. Yn ôl pob tebyg, byddai angen gwneud cais o'r fath ar ffurf trwydded safle Canolfan Hapchwarae i Oedolion, a'i drin felly.

Dylid nodi y gall Cyngor benderfynu caniatáu'r cais gyda nifer llai o beiriannau a/neu wahanol gategori o beiriannau na'r hyn a geisiwyd. Nid oes modd gosod amodau (heblaw'r rhain).

Dylid nodi hefyd bod deiliad hawlen yn gorfod cydymffurfio ag unrhyw God Ymarfer a gyhoeddir gan y Comisiwn Hapchwarae ynghylch lleoliad a gweithrediad y peiriannau.

Mae'n ofynnol, felly, i'r sawl sy'n ymgeisio am Hawlen Peiriannau Hapchwarae ar gyfer Safleoedd Trwyddedig (Alcohol) ddarparu'r wybodaeth ganlynol gyda'u cais:-

1. Cynllun o'r safle, yn unol â pharagraff 1.14 o'r polisi hwn, lle dangosir lleoliad arfaethedig pob peiriant hapchwarae ynghyd â gwybodaeth am leoliadau'r staff sy'n goruchwyllo a lleoliadau arwyddion a hysbysiadau.
2. Gwybodaeth am natur y safle gan gynnwys mynediad iddo gan bobl o dan ddeunaw oed.

Mae'n ofynnol i'r sawl sy'n ymgeisio ddangos y math o weithgaredd gamblo a gynigir ar gyfer y safle.

Heblaw yn achos Traciau (lle nad yr un sy'n cynnig y gamblo yw deiliad y safle, o reidrwydd) rhoddir Trwydded Safle yn unig i'r rheiny sydd â Thrwydded Gweithredwr gan y Comisiwn Hapchwarae.

1.23 Egwyddorion cyffredinol

Ni fydd unrhyw beth yn y Datganiad Polisi hwn:-

- a) Yn tanseilio hawl unrhyw unigolyn i wneud cais o dan y Ddeddf i gael amryw o ganiatadau a chael y cais wedi'i ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun;

NEU

- b) Yn trechu hawl unrhyw unigolyn i gyflwyno sylwadau ynghylch unrhyw gais neu i ofyn am adolygiad o drwydded neu hawlen pan ganiateir iddynt wneud hynny dan y Ddeddf.

Bydd yn rhaid i bob un sy'n gwneud cais i gael Trwydded Safle nodi sut y bydd yn 'cadw'n rhesymol o gyson' â'r amcanion trwyddedu, fel y'u nodir yn adran 1.4 uchod, a pha gamau y mae'n bwriadu'u cymryd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â nhw.

Wrth benderfynu ar gais i gael Trwydded Safle, ystyrir pa mor agos yw'r safle at ysgolion, canolfannau oedolion sy'n agored i niwed neu ardaloedd preswyl lle y gall niferoedd mawr o deuluoedd â phlant fod yn byw. Bydd agosrwydd yr eiddo a ystyrir yn amrywio gan ddibynnu ar faint a chwmpas y safle gamblo dan sylw. Fodd bynnag, penderfynir ar bob achos yn ôl ei haeddiant a bydd yn dibynnu i raddau helaeth ar y math arfaethedig o gamblo a gynigir ar y safle. Ni ddylid ystyried gwrthwynebiad moesol i gamblo wrth benderfynu ceisiadau. Felly, os bydd ymgeisydd yn gallu dangos sut y gall oresgyn pryderon ynghylch yr amcanion trwyddedu, bydd hyn yn cael ei ystyried.

Mae trwyddedu'n ymwneud â rheoli safleoedd trwyddedu, Hysbysiadau Defnydd Dros Dro neu Hysbysiadau Defnydd Achlysurol yn unol â thelerau'r Ddeddf. Gellir pennu amodau ar drwyddedau sy'n gysylltiedig â materion sydd o dan reolaeth deiliaid trwyddedau unigol. Ni ddylid ond pennu amodau pan geir tystiolaeth fod angen ategu'r amodau gorfodol a diofyn mewn unrhyw achos penodol.

Wrth ystyried unrhyw amodau i'w pennu ar drwyddedau, bydd yr Awdurdod yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd ar y safle trwyddedig ar aelodau'r cyhoedd sy'n byw, sy'n gweithio neu sy'n ymgymryd â gweithgarwch arferol yn yr ardal dan sylw. Drwy gyfrwng rheoliadau, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddarparu ar gyfer amodau penodol i'w pennu ar drwydded safle a fydd yn amodau "gorfodol" neu "ddiofyn".

Wrth benderfynu ar gais, ni chaiff yr Awdurdod roi sylw i'r galw disgwylidig am y cyfleusterau y bwriedir eu darparu.

Ac eithrio'r swyddogaethau trwyddedu, mae'r Awdurdod yn cydnabod bod nifer o systemau eraill ar gael i ymdrin â materion sy'n ymwneud ag ymddygiad afreolus sy'n gallu digwydd oddi ar safleoedd trwyddedig, gan gynnwys:-

- a) Rheolaethau cynllunio;
- b) Mesurau parhaus i greu amgylchedd diogel a glân yn yr ardaloedd hyn ar y cyd â busnesau lleol, gweithredwyr gwasanaethau trafnidiaeth ac adrannau eraill y Cyngor;
- c) Cyswllt rheolaidd â'r Heddlu ynghylch materion gorfodi'r gyfraith o ran anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- d) Pŵer yr Heddlu, awdurdodau cyfrifol eraill neu drigolion a busnesau lleol i ofyn am adolygiad o'r drwydded.

Bydd gofyn i unrhyw Awdurdod Cyfrifol neu Barti â Diddordeb sy'n cyflwyno sylwadau sicrhau bod eu gwrthwynebiad yn gysylltiedig ag un neu ragor o'r Amcanion Trwyddedu, fel y'u nodir yn adran 1.4 uchod, cyn bod modd i'r Awdurdod ei ystyried.

Wrth gyflawni ei swyddogaeth drwyddedu, bydd yn rhaid i'r Cyngor ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon a hyrwyddo cydraddoldeb a pherthynas dda rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol. Rhoddir ystyriaeth i fudd y cyhoedd wrth reoleiddio gamblo yng Ngheredigion bob amser.

Wrth gyflawni ei swyddogaethau dan ran 8 o'r Ddeddf (trwyddedau safleoedd a datganiadau dros dro), bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n defnyddio'r egwyddorion a geir yn Adran 153 o'r Ddeddf a dylai anelu at ganiatáu i safle gael ei ddefnyddio ar gyfer gamblo i'r graddau y mae o'r farn:

- a. ei fod yn unol ag unrhyw God Ymarfer perthnasol a baratowyd o dan Adran 24
- b. ei fod yn unol ag unrhyw Ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn o dan Adran 25
- c. ei fod yn cyd-fynd yn rhesymol â'r amcanion trwyddedu
- d. ei fod yn unol â'r datganiad Polisi hwn

1.24 Ymgynghoreion

Cynhelir ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y Datganiad Polisi Gamblo hwn gyda'r canlynol:-

- a. Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys;
- b. un neu ragor o bobl y mae'n ymddangos i'r Awdurdod eu bod yn cynrychioli buddiannau unigolion sy'n rhedeg busnesau gamblo yn ardal yr Awdurdod
- c. un neu ragor o bobl y mae'n ymddangos i'r Awdurdod eu bod yn cynrychioli buddiannau unigolion y mae'r camau i gyflawni swyddogaethau'r Awdurdod dan y Ddeddf yn debygol o effeithio arnynt.

Yn eu plith mae:-

- unigolion/cyrff y mae'r Cyngor wedi ymgynghori â nhw (gweler Atodiad B)

1.25 Cyfnewid gwybodaeth

Wrth gyflawni ei swyddogaethau a'i rwymedigaethau dan Ddeddf Gamblo 2005, bydd yr Awdurdod yn cyfnewid gwybodaeth berthnasol â'r Comisiwn a chyrff rheoleiddio eraill a allai sefydlu protocolau yn hyn o beth fel y bo'n briodol. Wrth gyfnewid gwybodaeth o'r fath, bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth diogelu data a rhyddid gwybodaeth yn unol â pholisïau presennol y Cyngor. Gall unrhyw un sydd am weld data sy'n ymwneud ag ef ei hun wneud cais ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data'r Cyngor.

Fel arfer, darperir manylion yr unigolion hynny sy'n cyflwyno sylwadau i'r Ymgeiswyr ac, os cynhelir gwrandawriad, byddant yn rhan o ddogfen gyhoeddus. Bydd unigolion sy'n gwneud sylwadau neu sy'n gwneud cais i adolygu trwydded safle'n cael gwybod y bydd eu manylion yn cael eu datgelu. Mewn rhai sefyllfaoedd, fodd bynnag, efallai y bydd gwrthwynebwr yn gofyn am i'w sylwadau gael eu cadw'n gyfrinachol a gall fod rheswm da dros barchu'r cyfrinachedd hwnnw.

2 DEDDFWRIAETH, POLISIËU A STRATEGAETHAU

2.1 Deddfwriaeth

Wrth gyflawni ei swyddogaeth drwyddedu dan Ddeddf Gamblo 2005, mae'r Cyngor yn rhwym i ddeddfwriaeth arall hefyd, gan gynnwys:-

1. Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998;
2. Deddf Hawliau Dynol 1998;
3. **Deddf Diogelu Data 2018 (adran 3).**

Fodd bynnag, ni fwriedir i'r polisi hwn ddyblygu deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes na chfundrefnau rheoleiddio eraill.

2.2 Y berthynas â pholisïau cynllunio

Wrth benderfynu ar gais, ni fydd yr Awdurdod Trwyddedu'n ystyried materion nad ydynt yn berthnasol dan y Ddeddf megis y tebygolrwydd y bydd yr ymgeisydd yn cael caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoli adeiladu.

Gall ymgeisydd wneud cais i gael "datganiad dros dro" os nad yw'r adeilad yn gyflawn neu os nad oes ganddo hawl i'w feddiannu eto. Mae cais o'r fath, fodd bynnag, yn rhan o broses wahanol sydd ar wahân i'r broses o roi caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoli adeiladu.

2.3 Strategaethau cenedlaethol

Bydd yr Awdurdod hefyd yn ceisio cyflawni'r cyfrifoldebau a bennir gan Strategaethau eraill y Llywodraeth, i'r graddau y maent yn effeithio ar amcanion y swyddogaeth drwyddedu.

2.4 Strategaethau a pholisïau lleol

Pan fo hynny'n briodol, bydd yr Awdurdod yn ystyried ceisiadau gan gyfeirio at bolisïau a strategaethau lleol eraill a fabwysiadwyd, gan gynnwys y rhain:-

1. Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor;
2. Y Strategaeth Diogelwch Cymunedol;
3. Polisiâu gorfodi perthnasol;
4. Strategaeth Gymunedol - Datblygu Cynaliadwy

Strategaeth Gymunedol - Datblygu Cynaliadwy

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol lunio strategaeth gymunedol oddi mewn i fframwaith Strategaeth Datblygu Cynaliadwy y DU – *A Better Quality of Life*, a strategaethau rhanbarthol perthnasol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn mynnu bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn meddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau a hynny er mwyn gweithio'n well gyda phobl, cymunedau ac awdurdodau eraill, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghyfartaledd o ran iechyd a newid hinsawdd.

Mae strategaethau cymunedol yn cynnig canolbwynt ar gyfer nodi materion a dyheadau lleol sy'n ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol, diogelu'r amgylchedd, cyflogaeth a datblygu economaidd.

Mae partneriaethau strategol lleol – sydd fel rheol yn cynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a chynrychiolwyr o fyd addysg, busnes a sefydliadau sector gwirfoddol – yn gyfrifol am gyflawni'r amcanion a gaiff eu pennu yn lleol.

O dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998, rhaid i awdurdodau lleol ystyried effaith eu ffordd o arfer eu swyddogaethau ar drosedd ac anhrefn yn eu hardal, a gwneud popeth y gallant i atal troseddau ac anhrefn. Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth benodol i effaith

debygol trwyddedu ar drosedd ac anhrefn yn y Sir, yn enwedig wrth ystyried lleoliad, effaith, gweithredu a rheoli yr holl drwyddedau/hawlenni arfaethedig, y trwyddedau a adnewyddir a'r amodau a newidir.

2.5 Integreiddio strategaethau

Mae nifer o randdeiliaid yn ymwneud â'r diwydiant hamdden ac mae nifer yn ymwneud â hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Mae nifer o gynlluniau a strategaethau rhanddeiliaid yn ymdrin â materion sy'n berthnasol i'r swyddogaeth drwyddedu. Mewn achosion o'r fath, bydd yr Awdurdod yn ceisio'u cydlynu cyhyd ag y bo modd.

Yn arbennig, mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd cydlynu ac integreiddio'r polisi gamblo â strategaethau eraill sy'n ceisio rheoli canol trefi a'r economi liw nos.

Ymhlith y cynlluniau a'r strategaethau perthnasol mae:-

- ❖ Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion – Bydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd dan adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i wneud popeth y mae'n rhesymol iddo'i wneud i atal trosedd ac anhrefn yn y Sir.
- ❖ Y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- ❖ Y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc
- ❖ Strategaeth y Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau

3 GWNEUD PENDERFYNIADAU

3.1 Gweinyddu, cyflawni a dirprwyo swyddogaethau

Gall y Pwyllgor Trwyddedu, Is-bwyllgor neu un neu ragor o'r swyddogion sy'n gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig arfer pwerau a dyletswyddau'r Awdurdod o dan y Ddeddf.

Tybir y bydd llawer o'r swyddogaethau'n rhai gweinyddol eu natur i raddau helaeth, heb unrhyw faterion dadleuol amlwg. I sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o safbwynt cost, y swyddogion fydd yn cyflawni'r swyddogaethau hyn gan mwyaf.

Mae'r rhestr a ganlyn yn nodi'r trefniadau arfaethedig i ddirprwyo swyddogaethau a phenderfyniadau yn unol â'r canllawiau. Fodd bynnag, caiff yr Awdurdod gyfeirio unrhyw fater at y Pwyllgor Trwyddedu neu at Is-bwyllgor.

Mae'r rhestr dirprwyo swyddogaethau trwyddedu wedi'i hatodi yn Atodiad C.

3.2 Rhoi rhesymau dros benderfyniadau

Bydd yr Awdurdod yn rhoi rhesymau cynhwysfawr dros ei benderfyniadau. Bydd yr awdurdod yn trafod i ba raddau y mae'r penderfyniadau wedi'u gwneud gan roi sylw i unrhyw godau ymarfer neu ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae, i ba raddau y maent yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu ac i ba raddau y maent yn unol â'r Datganiad Polisi hwn.

3.3 Adolygu trwyddedau

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu'n adolygu Trwydded Safle pan fydd wedi cael cais ffurfiol am adolygiad yn unol â'r Ddeddf sy'n berthnasol i un neu ragor o'r Amcanion Trwyddedu gan awdurdod cyfrifol neu barti sydd â diddordeb.

Gellir gwrthod cais am adolygiad os yw'r Awdurdod o'r farn bod y sail dros ofyn am adolygiad:

- a) yn ddisylwedd;
- b) yn blagus;
- c) yn amherthnasol i'r egwyddorion y mae'n rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu eu gweithredu (dan Adran 153 o'r Ddeddf) (gweler paragraff 1.23(23) uchod)
- d) yn sicr o beidio â pheri i'r Awdurdod Trwydded ddirymu neu atal trwydded neu ddileu, diwygio neu bennu amodau ar drwydded safle;
- e) yn debyg iawn i'r sail a ddyfynnwyd mewn cais blaenorol sy'n ymwneud â'r un safle; neu
- f) yn debyg iawn i'r sylwadau a wnaethpwyd pan ystyriwyd y cais am drwydded safle.

Gall yr Awdurdod hefyd adolygu trwydded safle o'i wirfodd.

O ran safle penodol, gall yr Awdurdod adolygu unrhyw fater sy'n ymwneud â'r defnydd a wneir o'r safle os oes ganddo reswm dros amau na chydymffurfiwyd â'r amodau trwyddedu, neu am unrhyw reswm arall sy'n peri iddo gredu y gallai fod yn briodol adolygu trwydded.

Dylai'r datganiad polisi bennu'r ffactorau i'w hystyried, fodd bynnag dylai fod yn amlwg y bydd yr Awdurdod yn penderfynu ar bob cais neu adolygiad yn ôl ei rinweddau ei hun. Os yw'r sawl sy'n gwneud cais i gael trwydded safle'n gallu dangos sut y gellir goresgyn pryderon ynghylch yr amcanion trwyddedu, mae'n bwysig nodi y bydd angen i'r awdurdod trwyddedu gymryd hynny i ystyriaeth pan fydd yn penderfynu.

4 SAFONAU LLEOL

4.1 Amgylchedd priodol ar gyfer trwydded

Mae'r Canllawiau i Awdurdodau Lleol, ynghyd â'r Amodau Trwydded a'r Cod Ymarfer a ddaeth i rym ym mis Hydref 2020, yn pennu materion eraill y dylai'r Awdurdod roi sylw iddynt pan fydd yn ystyried ceisiadau i gael trwyddedau safle.

<https://www.gamblingcommission.gov.uk/licensees-and-businesses/lccp/print>

<https://www.gamblingcommission.gov.uk/welsh>

Bydd yr Awdurdod yn ystyried unrhyw gais ar sail darpariaethau'r codau a'r canllawiau hyn. Gallai'r Comisiwn Hapchwarae amrywio'r rhain o bryd i'w gilydd.

Pan fydd cyfleusterau gamblo'n cael eu darparu ar safle fel gweithgaredd sy'n ategol i brif ddiben y safle, e.e. ardaloedd gwasanaethau ar draffordd a chanolfannau siopa, bydd yr Awdurdod yn disgwyl bod yr ardal gamblo wedi'i diffinio'n glir i sicrhau bod cwsmeriaid yn gwybod eu bod yn dewis mynd i safle gamblo, a bod y safle'n cael ei oruchwylio'n ddigonol bob amser.

Mae'r Awdurdod, fel y Comisiwn, o'r farn na ddylid caniatáu Canolfannau Adloniant Teuluol/Canolfannau Adloniant Teuluol didrwydded dros safleoedd cyfan, ac yn wir mae'n credu na fyddai hynny'n dderbyniol o gwbl, gan y byddai'r cyhoedd, a phobl ifanc yn enwedig, yn agored i'r math o "hapchwarae amgylchynol" yr oedd y Ddeddf i fod i'w atal (hynny yw, cael gwared â pheiriannau gamblo mewn llefydd bwyta a swyddfeydd tacsis ac ati).

Yn yr un modd, mae'r Awdurdod a'r Comisiwn fel ei gilydd yn credu na ddylid caniatáu i neb roi peiriannau gamblo a ddylai fod y tu mewn i **unrhyw Ganolfan Adloniant Teuluol/Ganolfan Adloniant Teuluol didrwydded mewn cynteddau a choridorau sy'n rhan o'r adeilad ehangach. Safleoedd sy'n cael eu defnyddion'n 'llwyr' neu yn 'bennaf' ar gyfer darparu peiriannau hapchwarae ar yw Canolfannau Adloniant Teuluol Didrwydded (Adran 238 o Ddeddf Gamblo 2005). O ganlyniad, fel rheol, ni chaniateir i safle o'r fath gwmpasu'r holl ganolfan siopa, maes awyr, gorsaf gwasanaeth traffordd neu debyg. Yn arferfol, byddai'r peiriannau mewn ardal benodol, gaeedig.**

Daethpwyd o hyd i beiriannau mewn safleoedd nad oedd â'r caniatâd priodol i fod yn Ganolfan Adloniant Teuluol didrwydded na chwaith â thrwydded safle ar gyfer Canolfan Adloniant Teuluol, sy'n golygu y darperir y peiriannau hyn yn groes i'r gyfraith, heb fod yn destun i'r dulliau rheoli angenrheidiol i leihau niwed sydd a wnelo â gamblo ac amddiffyn plant a phobl agored i niwed.

Bydd yr Awdurdod yn ystyried y rhain ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill pan fydd yn penderfynu, gan ddibynnu ar holl amgylchiadau'r achos.

Mae copi o Ganllawiau'r Comisiwn Hapchwarae ynghylch darpariaethau mynediad perthnasol pob math o safle ar gael yn Atodiad D.

4.2 Ceisiadau

Dim ond y canlynol (sy'n cynnwys cwmnïau neu bartneriaethau) all wneud cais am Drwydded Safle:

- **y sawl sydd yn 18 oed neu drosodd **ac****
- **sydd â hawl i feddiannu'r safle **ac****
- **sydd â thrwydded weithredu sy'n caniatáu iddynt gynnal y gweithgaredd arfaethedig. Gellir edrych ar wefan y Comisiwn er mwyn cael manylion y gweithredwyr sydd â thrwydded weithredu **neu'r****
- **sawl sydd wedi gwneud cais am drwydded weithredu a fydd yn caniatáu iddynt gynnal y gweithgaredd arfaethedig. Ni ellir penderfynu ynghylch y drwydded safle hyd nes y bydd trwydded weithredu wedi'i chyflwyno.**

Rhaid i geisiadau i gael, i drosglwyddo neu i amrywio Trwydded Safle gynnwys asesiad sy'n dangos sut y bydd yr ymgeisydd yn cadw'n rhesymol o gyson â'r holl Amcanion Trwyddedu ar ffurf Atodlen Weithredu ysgrifenedig.

Dylai'r Atodlen hon fod ar ffurf asesiad risg ysgrifenedig a gyflwynir gyda'r cais. Dylai ddangos sut y bydd yr ymgeisydd yn dangos y gall gadw'n rhesymol o gyson â phob un o'r amcanion trwyddedu. Bydd disgwyl i'r ymgeiswyr gynnal asesiadau risg os yw'n bosibl y bydd heriau penodol yn codi o ran cydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfrifoldeb cymdeithasol ar eu safle, ac yng nghyd-destun ffactorau risg amgylcheddol

lleol. Mae hyn yn hollol gydnaws â'r gwaith o hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. **Dylai deiliaid trwydded rannu copi o'u hasesiadau risg gyda'r Awdurdod Lleol wrth iddynt wneud cais am amrywiad i'w safle trwyddedig presennol, neu fel arall ar gais yr awdurdod trwyddedu.**

Mae'r Amodau Trwydded a'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Hapchwarae ac a ddaeth i rym ym mis Hydref 2020 yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar safleoedd i gwblhau asesiad risg ar sail cod 8, sef y cod cyfrifoldeb cymdeithasol. Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw i'r cod hwn pan fydd yn ystyried ceisiadau. Fe'i trafodir mewn manylder yn adran 4.3 o'r datganiad hwn.

Bydd yr Awdurdod yn rhoi gwybod faint o fanylion y bydd angen eu darparu a bydd yn gymesur â maint a natur y cais o dan sylw.

Yn y Rhestr Termau yn adran 1.3 o'r Polisi hwn, ceir diffiniadau o ystyr "Awdurdodau Cyfrifol" a "Phartion â Diddordeb" y caniateir iddynt gyflwyno sylwadau o dan y Ddeddf hon.

4.3 Asesiadau risg

Mae gofyn i ymgeiswyr newydd a'r rheini sydd eisoes yn meddu ar drwydded safle ac sydd am ei hamrywio, baratoi asesiadau risg o'r fath. Yn unol â'r cod, mae'n ofynnol i bob un sy'n gweithredu Canolfannau Hapchwarae i Oedolion, Safleoedd Bingo, Canolfannau Adloniant i Deuluoedd a Siopau Betio, ynghyd â chyfryngwyr betio o bell, asesu'r risgiau lleol i'r amcanion trwyddedu, a rhoi polisiâu, gweithdrefnau a mesurau rheoli ar waith i liniaru'r risgiau hynny.

Yn unol ag Amodau'r Drwydded a'r Côt Ymarfer, mae'n ofynnol i'r gweithredwyr ddarparu'r asesiad risg i'r awdurdod trwyddedu pan fyddant yn cyflwyno cais i gael trwydded safle newydd neu i amrywio trwydded safle, neu fel arall ar gais yr awdurdod trwyddedu. Bydd yr asesiad risg yn rhan o drefn arolygu'r Awdurdod a gall y swyddogion ofyn am ei weld pan fyddant yn ymchwilio i gwynion. Dylid cadw'r asesiadau risg ar y safle er mwyn i'r swyddogion Trwyddedu fedru bwrw golwg arnynt.

Yn unol â'r cod, mae'n ofynnol i'r Awdurdod amlinellu'r materion y mae'n disgwyl i weithredwyr roi sylw iddynt yn yr asesiad risg yn ei ddatganiad polisi, ac mae'r Awdurdod hwn yn disgwyl i weithredwyr roi sylw i'r materion a ganlyn pan fyddant yn paratoi eu hasesiadau risg.

- Y wybodaeth a gedwir gan y trwyddedai ynghylch unigolion sydd wedi'u gwahardd eu hunain rhag gamblo ac achosion o gamblo gan rai o dan oedran,
- Trefniadau i gyfnewid gwybodaeth leol ynghylch unigolion sydd wedi'u gwahardd eu hunain rhag gamblo a thueddiadau gamblo,
- Yr ardal drefol, megis pa mor agos yw ysgolion, canolfannau ieuenctid, yr amgylchedd masnachol, ffactorau sy'n cael effaith ar faint sy'n pasio heibio i'r safle;
- Unrhyw broblemau sy'n wybyddus yn yr ardal, fel problemau sy'n codi gan fod pobl yn yfed ar y stryd, pobl ifanc yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol, pobl yn delio cyffuriau ac ati, gan gynnwys y rhai a nodwyd yn natganiad polisi trwyddedu awdurdod trwyddedu

Mae'r Awdurdod yn disgwyl i weithredwyr roi sylw i'r materion a ganlyn pan fyddant yn paratoi'u hasesiadau risg.

- i) Materion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys:
 - Sefydliadau, lleoedd neu ardaloedd lle y dylid disgwyl i blant a phobl ifanc fod, fel ysgolion, clybiau ieuenctid, parciau, meysydd chwarae a lleoliadau adloniant fel ale fowlio, sinema ac ati.
 - Unrhyw safle lle mae plant yn ymgynnull, gan gynnwys safleoedd bysiau, caffis, siopau, ac unrhyw le arall sy'n denu plant.
 - Unrhyw broblemau sy'n wybyddus yn yr ardal, fel problemau sy'n codi gan fod pobl yn yfed ar y stryd, pobl ifanc yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol, pobl yn delio cyffuriau ac ati,
 - Digwyddiadau cofnodedig lle mae rhai o dan oedran wedi ceisio gamblo.
- ii) Materion sy'n ymwneud ag oedolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys:
 - Y wybodaeth a gedwir gan y trwyddedai am unigolion sydd wedi'u gwahardd eu hunain rhag gamblo ac achosion o gamblo gan rai o dan oedran.
 - Tueddiadau gamblo a allai fod yn cyd-daro â thaliadau ariannol, fel dyddiadau talu neu daliadau budd-daliadau.
 - Trefniadau i gyfnewid gwybodaeth leol ynghylch unigolion sydd wedi'u gwahardd eu hunain rhag gamblo a thueddiadau gamblo.
 - Pa mor agos y mae safleoedd y gall pobl sy'n agored i niwed fod yn mynd iddynt, fel ysbytai, cartrefi gofal preswyl, cyfleusterau meddygol, meddygfeydd, swyddfeydd tai cyngor, clinigau i rai sy'n gaeth i sylweddau neu ganolfannau cymorth, lleoedd lle y gall pobl sy'n ddibynol ar alcohol neu gyffuriau ymgynnull ac ati.

Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn a rhaid rhoi sylw i ffactorau eraill sy'n dod i'r amlwg ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhestr hon.

Gall yr Awdurdod Trwyddedu lunio proffil o'r ardal leol yn dilyn trafodaethau â rhanddeiliaid. Gallai hyn fod o gymorth i'r ymgeiswyr wrth ystyried materion lleol. Os caiff hwn ei lunio, bydd yn cael ei ychwanegu at y Polisi ar ffurf Atodiad ar wahân.

4.4 Asesu angen

Nid yw galw nad yw'n cael ei ddiwallu'n faen prawf a gaiff ei ystyried wrth benderfynu ar gais i gael Trwydded Safle dan Ddeddf Gamblo 2005. Rhaid ystyried pob cais yn ôl ei haeddiant heb ystyried y galw.

4.5 Amodau

Rhoddir amodau gorfodol a diofyn llym ar drwyddedau safle a roddir o dan Ddeddf Gamblo 2005. Bydd unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth drwyddedau'n gymesur a byddant:

- Yn berthnasol i'r angen i sicrhau bod yr adeilad arfaethedig yn addas i'w ddefnyddio fel cyfleuster gamblo;
- Yn ymwneud yn uniongyrchol â'r safle a'r math o drwydded y gwneir cais i'w chael;
- Yn gysylltiedig mewn ffordd deg a rhesymol â maint y safle a'r math o safle;
- Yn rhesymol ar bob ystyr arall.

- Yn cael eu hategu ag amodau ychwanegol dim ond pan geir tystiolaeth o berygl penodol o ran cyflawni'r amcanion trwyddedu.

Bydd penderfyniadau ynghylch amodau unigol yn cael eu gwneud fesul achos, ond bydd nifer o fesurau y bydd yr Awdurdod yn ystyried eu defnyddio os bydd yn credu bod angen gwneud hynny, fel defnyddio goruchwylwyr, arwyddion priodol i ddynodi ardaloedd ar gyfer oedolion yn unig, ac ati. Ceir sylwadau penodol am y materion hyn o dan rai mathau o drwyddedau isod. Bydd yr Awdurdod hefyd yn disgwyl i'r sawl sy'n gwneud cais i gael trwydded awgrymu ffyrdd effeithiol o fodloni'r amcanion trwyddedu.

Bydd yr Awdurdod hefyd yn ystyried mesurau penodol y gall fod eu hangen ar gyfer adeiladau y gall sawl trwydded safle fod yn berthnasol iddynt. Gall mesurau o'r fath gynnwys goruchwylwyr wrth y mynedfeydd; gwahanu'r ardaloedd gamblo oddi wrth yr ardaloedd eraill y mae plant yn mynd iddynt; a goruchwyllo peiriannau hapchwarae ar safleoedd gamblo penodol nad ydynt ar gyfer oedolion er mwyn cyflawni'r amcanion trwyddedu. Mae'r materion hyn yn gydnaws â Chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae.

Os oes peiriannau categori C neu uwch ar gael ar safle y caniateir i blant fynd iddo, bydd yr Awdurdod hefyd yn sicrhau:

- Bod yr holl beiriannau o'r fath mewn ardal ar y safle sydd wedi'i gwahanu oddi wrth weddill y safle gan rwystr ffisegol sy'n effeithiol er mwyn atal pobl rhag cael mynediad iddi ac eithrio drwy'r fynedfa benodedig;
- Mai dim ond oedolion sy'n cael mynd i'r ardal lle mae'r peiriannau hyn wedi'u lleoli;
- Bod rhywun yn goruchwyllo'r fynedfa i'r ardal lle mae'r peiriannau wedi'u lleoli;
- Bod yr ardal lle mae'r peiriannau hyn wedi'u lleoli wedi'i threfnu mewn ffordd fel bod modd i'r staff neu ddeiliad y drwydded gadw golwg arni;
- Bod arwyddion yn cael eu harddangos mewn mannau amlwg wrth fynedfa ardal o'r fath a thu mewn iddi sy'n nodi na chaniateir i rai o dan 18 oed fynd i'r ardal.

Bydd yr ystyriaethau hyn yn berthnasol i safleoedd, gan gynnwys adeiladau lle mae sawl trwydded safle ar waith.

Mae'r Awdurdod yn gwybod y gall un neu ragor o drwyddedau safle fod yn berthnasol i draciau, ar yr amod bod pob trwydded yn ymwneud ag ardal benodol o'r trac. Yn unol â Chanllawiau'r Comisiwn Hapchwarae, bydd yr Awdurdod hwn yn ystyried yr effaith ar yr amcan trwyddedu a ganlyn, sef ***Diogelu plant a phobl sy'n agored i niwed rhag iddynt gael eu niweidio neu'u hecsbloetio gan gamblo*** a'r angen i sicrhau bod mynedfeydd i bob math o safle'n amlwg a bod plant yn cael eu gwahardd o'r ardaloedd gamblo hynny na chaniateir iddynt fynd iddynt.

Nodir na all yr Awdurdod bennu rhai amodau ar drwydded safle, sef:

- Unrhyw amod ar drwydded safle sy'n peri iddi fod yn amhosibl cydymffurfio ag amod trwydded weithredu;
- Amodau sy'n ymwneud â chategorïau, niferoedd neu ddull gweithredu peiriannau hapchwarae;

- Amodau sy'n darparu bod aelodaeth o glwb neu gorff yn ofynnol (mae Deddf Gamblo 2005 yn dileu'n benodol y gofyniad aelodaeth ar gyfer casinos a chlybiau bingo ac mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau na chaiff ei ailgyflwyno);
- Amodau o ran arian betio, ffioedd, enillion neu wobrau.

4.6 Gorfodi, arolygu ac erlyn

Mae'r Awdurdod yn arddel yr egwyddor y bydd ei waith yn cael ei lywio gan Ganllawiau'r Comisiwn Hapchwarae i awdurdodau lleol, Cod y Rheoleiddiwr a pholisi gorfodi'r cyngor. Bydd yn ceisio bod:

- **Yn gymesur:** ni ddylai'r rheoleiddwyr ond ymyrryd pan fo angen, dylai'r datrysiadau fod yn briodol o ystyried y risg, a dylid pennu costau a'u cadw mor isel â phosibl;
- **Yn atebol:** rhaid bod modd i'r rheoleiddwyr gyfiawnhau penderfyniadau a rhaid craffu ar eu gwaith yn gyhoeddus;
- **Yn gyson:** rhaid i'r rheolau a'r safonau fod yn gydgyssylltiedig a rhaid eu rhoi ar waith yn deg;
- **Yn dryloyw:** dylai'r rheoleiddwyr fod yn agored, a sicrhau bod y rheolaethau'n syml ac yn hylaw;
- **Yn benodol:** dylai'r rheolaethau ganolbwyntio ar y broblem a lleihau unrhyw sgil-ffeithiau i'r eithaf.

Bydd yr Awdurdod yn defnyddio camau gorfodi priodol i sicrhau lleoliad y peiriannau a'r drefn o'u rheoli. **Mae ymdrin â phocer anghyfreithlon neu beiriannau anghyfreithlon neu beiriannau sydd wedi eu lleoli'n anghyfreithlon ar safle penodol yn aml yn addas ar gyfer ymdriniaeth amlasiantaethol, gyda swyddogion trwyddedu yn arwain yr ymgyrch a'r heddlu ac weithiau Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThem) yn cynnig cefnogaeth, cyngor ac arbenigedd. Dylai swyddogion trwyddedu gysylltu â'r Comisiwn yn y lle cyntaf er mwyn cytuno a fyddai dull amlasiantaethol o'r fath yn briodol.**

4.7 Gweithgareddau y gellir eu trwyddedu

Isod, ceir rhestr o'r gweithgareddau gamblo y gall yr Awdurdod hwn eu caniatáu:

Trwyddedau Safle (mewn perthynas â Gweithredwr Trwyddedig a drwyddedwyd gan y Comisiwn Hapchwarae)

- Canolfannau Hapchwarae i Oedolion
- Canolfannau Adloniant (Trwyddedig) i Deuluoedd
- Safleoedd Bingo
- Safleoedd Betio

Datganiadau Dros Dro

Efallai y bydd datblygwr am wneud cais i'r Awdurdod hwn i gael datganiad dros dro cyn ymrwymo i gontract i brynu neu i brydlesu eiddo neu dir, a hynny er mwyn barnu a yw'n werth bwrw ymlaen â datblygiad yng ngoleuni'r angen i gael trwydded safle. Nid oes angen i'r ymgeisydd fod yn meddu ar drwydded weithredu er mwyn gwneud cais i gael datganiad dros dro.

5 TROSEDD AC ANHREFN

Bydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau dan Adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i wneud popeth y mae'n rhesymol iddo'i wneud i atal trosedd ac anhrefn yn y Sir, ac at ddibenion y polisi hwn, atal gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd neu anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd neu anhrefn neu gael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd.

Disgwylir i ddeiliaid trwyddedau reoli safleoedd trwyddedig at safon uchel.

Pan fydd yn penderfynu ar geisiadau, bydd yr Awdurdod yn ystyried a fydd rhoi Trwydded Safle'n arwain at gynyddu trosedd ac anhrefn.

Anogir ymgeiswyr i drafod y gweithgareddau atal troseddu ar eu safle â Swyddogion Trwyddedu'r Cyngor a Heddlu Dyfed-Powys cyn gwneud cais ffurfiol.

Pan fydd yn ystyried ceisiadau i gael trwydded, bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw arbennig i'r materion a ganlyn:-

- a) Dyluniad a chynllun y safle;
- b) Y lleoliad i'r graddau y mae'r lleoliad yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu;
- c) Yr hyfforddiant a roddir i staff o ran mesurau atal troseddu sy'n briodol i'r safle hwnnw;
- d) Y cyfarpar diogelwch ffisegol a osodir ar y safle. Gall hyn gynnwys materion megis safle cofnodyddion arian neu safon y system teledu cylch cyfyng;
- e) Y gweithdrefnau sydd ar waith i gadarnhau oedran y rhai sy'n dod i'r safle, os oes cyfyngiadau oedran ar waith ar y safle;
- f) Y tebygolrwydd y bydd unrhyw drais, anhrefn cyhoeddus neu broblem blismona'n codi os caiff trwydded ei rhoi;
- g) O ran atal anhrefn, gall yr Awdurdod Trwyddedu (dan A169 o'r Ddeddf) bennu amodau ar drwydded;
- h) Ymwybyddiaeth y staff o'r Rheoliadau Gwyngalchu Arian a gweithdrefn glir i roi gwybod i'r uwch reolwyr am unrhyw weithgarwch amheus.

6 SICRHAU BOD GAMBLO'N CAEL EI GYFLAWNI MEWN Ffordd DEG AC AGORED

Yn gyffredinol, nid yw'r Comisiwn yn disgwyl i awdurdodau trwyddedu geisio sicrhau bod gamblo'n cael ei gyflawni mewn ffordd deg ac agored, gan fod hwn yn fater i reolwyr y busnes gamblo (ac felly mae'n berthnasol i'r Drwydded Weithredu), neu'n fater sy'n ymwneud ag addasrwydd a gweithredoedd unigolyn (ac felly mae'n berthnasol i'r Drwydded Bersonol). Mae'r ddau ddewis hyn o fewn maes gwaith y Comisiwn Hapchwarae.

Fodd bynnag, o ran trwyddedu traciau, efallai y bydd angen i'r drwydded safle gynnwys amodau penodol i sicrhau bod yr amgylchedd lle y mae'r betio'n digwydd yn addas.

7 DIOGELU PLANT AC UNIGOLION ERAILL SY’N AGORED I NIWED

7.1 Yr egwyddorion a ddefnyddiwyd i bennu corff cymwys i roi cyngor i’r awdurdod ynghylch diogelu plant rhag niwed

Wrth bennu, yn ysgrifenedig, gorff sy’n gymwys i roi cyngor i’r awdurdod ynghylch diogelu plant rhag niwed, mae’r Cyngor wedi ystyried safbwyntiau’r Cyfarwyddwyr Strategol, yn ogystal â Thîm Amddiffyn Plant Heddlu Dyfed-Powys. Ar sail yr egwyddorion a ganlyn, penderfynwyd mai Gwasanaethau Plant y Cyngor yw’r corff mwyaf cymwys i roi cyngor i’r awdurdod ynghylch materion o’r fath.

- Er bod y Gwasanaeth Ysgolion yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros les holistig plant, mae’r Gwasanaeth Plant yn ymwneud â’r gwaith o ddiogelu plant rhag niwed.
- Mae Gweithwyr Cymdeithasol sy’n arbenigo ym maes gwasanaethau plant wedi cael hyfforddiant i asesu mentrau a allai niweidio iechyd a lles hanfodol a seicolegol plant, ac mae ganddynt brofiad o wneud hynny. Yn ogystal, bydd y swyddogion hyn yn gallu nodi sefyllfa lle y gallai plant gael eu hecsbloetio.

7.2 Mynediad i safleoedd trwyddedig

Bron yn ddieithriad, ni ddylid caniatáu i blant a phobl ifanc gamblo, a dylid eu hatal rhag mynd i mewn i safleoedd gamblo ar gyfer oedolion yn unig.

Bydd yr Awdurdod yn disgwyl bod gweithdrefnau ar waith ar bob safle i symud oddi ar y safle unrhyw un y mae’n ymddangos ei fod o dan oedran sy’n ceisio cael mynediad i gyfleuster gamblo ac sy’n methu â darparu dogfennau adnabod derbyniol (safle ar gyfer oedolion yn unig).

I’r perwyl hwn, dylai deiliaid trwyddedau safle ystyried llunio polisi cadarnhau oedran priodol. Mae’r Awdurdod yn disgwyl cael gwybod yn ysgrifenedig am gynnwys y polisi hwn ar gyfer pob un o’r safleoedd yn ei ardal.

Bydd yr Awdurdod yn ceisio cyfyngu ar hysbysebion safleoedd i sicrhau nad yw cynnyrch gamblo’n cael ei anelu at blant neu’n cael ei hysbysebu mewn modd sy’n arbennig o ddeniadol i blant. Dylid bod yn arbennig o ofalus os yw’r safleoedd wedi’u lleoli gerllaw ysgolion, canolfannau ieuencid neu sefydliadau addysgol eraill.

Mae’r Awdurdod yn credu bod y gallu i gadw golwg ar gwsmeriaid ar bob safle gamblo’n hanfodol i gyflawni’r amcanion trwyddedu, yn enwedig yr amcan o ddiogelu plant a phobl eraill sy’n agored i niwed rhag cael eu niweidio gan gamblo.

Mae’r Awdurdod yn disgwyl i ddeiliaid trwydded a darpar ddeiliaid trwydded sicrhau bod eu polisiau a’u gweithdrefnau’n rhoi sylw i strwythur a chynllun eu safleoedd gamblo gyda golwg ar oruchwyliaeth.

Mae’r Awdurdod yn disgwyl i ddeiliaid trwydded a darpar ddeiliaid trwydded sicrhau bod eu gweithdrefnau i atal y rheini sydd wedi’u gwahardd eu hunain rhag gamblo rhag cael mynediad i’r safle’n rhoi sylw i strwythur a chynllun eu safleoedd gamblo.

Bydd yr Awdurdod yn ymgynghori a'r Gwasanaeth Plant neu'r Gwasanaeth Oedolion ynghylch unrhyw gais sy'n nodi y gallai fod pryderon ynghylch mynediad i blant neu unigolion sy'n agored i niwed.

Bydd yr Awdurdod yn ystyried rhinweddau pob cais ar wahân cyn penderfynu a ddylai bennu amodau i ddiogelu plant ar gyfer categorïau penodol o safleoedd. Gallai hyn gynnwys gofynion megis:-

- a) Goruchwylio mynedfeydd/mannau lle ceir peiriannau;
- b) Gwahanu ardaloedd gamblo ac ardaloedd a ddefnyddir gan blant;
- c) Goruchwylio peiriannau hapchwarae mewn canolfannau adloniant trwyddedig i deuluoedd;
- d) Mabwysiadu cynllun prawf oedran megis Challenge 21 neu 25
- e) Esbonio sut y rhoddir sylw i unrhyw risgiau i blant a phobl fregus yn sgil gamblo.
(2) Pan fydd ardal fforwm yn dod o fewn ardal mwy nag un awdurdod penodi a bod—

- (a) dau awdurdod penodi, rhaid i bob awdurdod penodi mewn perthynas â'r fforwm hwnnw benodi un (ond ni allant benodi mwy nag un) aelod o'r fforwm sydd naill ai'n swyddog neu'n aelod o'r awdurdod penodi hwnnw;
- (b) mwy na dau awdurdod penodi, rhaid i'r awdurdodau penodi mewn perthynas â'r fforwm hwnnw benodi, yn unol â threfniadau y cytunwyd arnynt gan yr awdurdodau penodi hynny ar adeg sefydlu'r fforwm, ddim mwy na chyfanswm o ddau aelod o'r fforwm sydd naill ai'n swyddogion neu'n aelodau o'r awdurdodau penodi.

7. Wrth ystyried pa bersonau i'w penodi yn aelodau o'r fforwm, rhaid i awdurdod penodi:

- (a) ymgynghori ag unrhyw unigolion a chyrrff sydd â buddiant yn swyddogaethau'r fforwm y gwel yn dda;
- (b) rhoi hysbyseb mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y fro y mae'r fforwm ynnddi yn rhoi cyfle i bersonau fynegi diddordeb mewn dod yn aelod o fforwm;
- (c) gwahodd unrhyw gyrff sydd â buddiant yn swyddogaethau'r fforwm i enwebu person i'w ystyried gan yr awdurdod penodi ar gyfer aelodaeth o'r fforwm;
- (ch) cymryd i ystyriaeth ei bod yn ddymunol penodi personau sy'n byw yn ardal y fforwm, neu sydd fel arall yn gyfarwydd iawn â hi, neu y mae ganddynt fuddiannau eraill sy'n berthnasol iddi;
- (d) sicrhau bod aelodaeth y fforwm yn llwyddo i gael cydbwysedd rhesymol rhwng buddiannau defnyddwyr hawliau tramwy lleol neu'r hawliau mynediad a roddir gan adran 2(1) o'r Ddeddf a pherchenogion a meddiannwyr tir mynediad neu dir y mae hawliau tramwy lleol drosto yn bodoli;
- (dd) rhoi sylw i'r angen i sicrhau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, gydbwysedd teg rhwng personau o genderau, hiliau, oedrannau, anabledau a nodweddion eraill gwahanol.

8. Rhaid i awdurdod penodi beidio â phenodi unrhyw person yn aelod o fforwm y mae'n ymddangos i'r awdurdod fod ganddo, neu y mae'n debygol bod ganddo, fuddiant ariannol neu fuddiant fel arall yn y materion y mae'n ofynnol i'r fforwm gynghori arnynt a'r buddiant hwnnw yn debygol o gael effaith sylweddol andwyol ar allu'r person hwnnw i gyflawni'r swyddogaeth yn briodol ac yn effeithiol fel aelod o'r fforwm.

9. Cyn penodi person yn aelod o fforwm rhaid i'r awdurdod penodi ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw roi iddo unrhyw wybodaeth y gall yn rhesymol ofyn amdani at y diben o asesu addasrwydd y person hwnnw i fod yn aelod o'r fforwm hwnnw.

Gweinyddu Fforwm

10.—(1) Rhaid i'r awdurdod penodi mewn perthynas â phob fforwm benodi person (a rhaid iddo beidio â bod yn aelod o'r fforwm) i weithredu fel ei Ysgrifennydd a bod yn gyfrifol am weinyddu'r fforwm.

(2) Er gwaethaf cyffredinolrwydd paragraff (1), mae dyletswyddau'r Ysgrifennydd yn cynnwys—

- (a) trefnu cyfarfodydd a llunio, cadw, cynhyrchu a chyflwyno'r cofnodion i'r cyfarfod nesaf;
- (b) rheoli unrhyw adnoddau ariannol a ddarperir i'r fforwm i'w defnyddio wrth arfer ei swyddogaethau;
- (c) sicrhau bod—
 - (i) hysbysiad o gyfarfod arfaethedig;
 - (ii) copi o'r agenda a luniwyd gan yr Ysgrifennydd mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd ac sy'n pennu'r prif fusnes y bwriedir ei drafod mewn cyfarfod;
 - (iii) unrhyw bapurau eraill sy'n berthnasol i gyfarfod;

yn cael eu cyflwyno naill ai'n bersonol neu drwy'r post i'r cyfeiriad hwnnw a bennir gan aelod at y diben, i bob aelod o'r fforwm fel y ceir hwy (neu yn achos cyflwyno drwy'r post fel y cyflwynir hwy yn ôl y drefn bostio arferol) o leiaf saith diwrnod clir cyn dyddiad cyfarfod;

- (ch) tynnu sylw'r fforwm at ddarpariaethau unrhyw godau ymarfer cenedlaethol, canllawiau a roddir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, neu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'r gofynion statudol y mae'r fforwm i roi sylw iddynt wrth arfer ei swyddogaethau.

(3) Rhaid i'r Ysgrifennydd fod yn bresennol yn holl gyfarfodydd fforwm a gall fod yn bresennol yng nghyfarfodydd unrhyw bwyllgor a sefydlir o dan reoliad 13.

(4) Os bydd yr Ysgrifennydd yn analluog dros dro, rhaid i'r awdurdod penodi benodi Ysgrifennydd Gweithredol i gyflawni dyletswyddau'r Ysgrifennydd yn ystod cyfnod ei analluedd.

11. Rhaid i'r awdurdod penodi dalu'r holl gostau rhesymol a dynnir gan fforwm wrth gyflawni ei ddyletswyddau gan gynnwys y costau hynny (heblaw colli enillion a chostau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â chyflogaeth person) a dynnir yn rhesymol ac yn angenrheidiol gan y Cadeirydd, y Dirprwy Gadeirydd ac aelodau o'r fforwm wrth fynychu cyfarfodydd.

Penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd

12.—(1) Rhaid i'r Ysgrifennydd—

- (a) yng nghyfarfod cyntaf y fforwm a gynhelir ar ôl y cyfarfod y mae penodiad o holl aelodau'r fforwm yn dod yn effeithiol ynddo (p'un ai wrth sefydlu'r fforwm neu wrth benodi aelodau ar ôl i aelodaeth yr holl aelodau ddod i ben o dan reoliad 4(3)), sicrhau mai'r eitem gyntaf o fusnes i'w chynnal fydd ethol Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd, a
- (b) pan ddaw swydd y Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd yn wag y tro nesaf, sicrhau mai eitem gyntaf y busnes i'w chynnal yng nghyfarfod nesaf y fforwm fydd ethol Cadeirydd a/neu Ddirprwy Gadeirydd, yn ôl y gofyn.

(2) Rhaid i'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelodau o'r fforwm yr etholir hwy yn Gadeirydd ac yn Ddirprwy Gadeirydd arno a rhaid iddynt gael eu hethol gan aelodau o'r fforwm drwy bleidlais gyfrinachol.

(3) Rhaid i'r Ysgrifennydd lywyddu yn unrhyw gyfarfod o'r fforwm hyd nes yr etholir Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd a rhaid iddo gynnal etholiad y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd.

(4) Os canlyniad y bleidlais gyntaf neu bleidlais bellach yw bod ymgeisydd yn cael pleidleisiau mwy na hanner yr aelodau sy'n pleidleisio rhaid i'r Ysgrifennydd ddatgan bod y person wedi'i ethol.

(5) Os canlyniad y bleidlais gyntaf neu bleidlais bellach yw nad oes unrhyw ymgeisydd yn cael pleidleisiau mwy na hanner yr aelodau sy'n pleidleisio, rhaid i'r Ysgrifennydd gynnal pleidlais bellach gan wahardd yr ymgeisydd a gafodd y nifer lleiaf o bleidleisiau yn y bleidlais flaenorol.

(6) Os digwydd mewn unrhyw bleidlais fod pleidleisiau cyfartal rhwng dau ymgeisydd a bod nifer y pleidleisiau y maent yn eu cael yn llai na'r hyn a gafwyd gan unrhyw ymgeisydd arall rhaid i'r Ysgrifennydd benderfynu drwy ddulliau hap pa un ohonynt a waherddir rhag unrhyw bleidlais bellach.

Sefydlu pwyllgor gan fforwm

13.—(1) Gall aelodau fforwm, gyda chytundeb y Cadeirydd, sefydlu unrhyw bwyllgor neu bwyllgorau o aelodau y gwelant yn dda.

(2) Yn ddarostyngedig i unrhyw beth i'r gwrthwyneb a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn, pan sefydlir pwyllgor, penderfynir y dull y caiff ei gadeirio, dull penodi ei aelodau, a'i gylch gwaith gan aelodau'r fforwm a'i sefydlodd.

Terfynu aelodaeth

14.—(1) Mae aelodaeth person o fforwm, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd, yn terfynu pan ddigwydd un o'r canlynol:

- (a) bod cyfnod yr aelodaeth yn dod i ben;
- (b) bod yr aelod yn marw;
- (c) bod yr Ysgrifennydd yn cael hysbysiad ysgrifenedig o ymddiswyddiad aelod;
- (ch) bod yr awdurdod penodi yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i aelod fod yr amgylchiadau, ym marn yr awdurdod, o'r math pe byddai'r awdurdod wedi ystyried a fyddai'n penodi'r person fel aelod o'r fforwm byddai wedi'i rwystro rhag gwneud hynny gan ddarpariaethau rheoliad 8;
- (d) bod yr awdurdod penodi, ar ôl ymgynghori â'r fforwm ynghylch y camau arfaethedig, yn rhoi hysbysiad i aelod o amgylchiadau penodol, sydd ym marn yr awdurdod yn ei gwneud yn ddymunol, er mwyn cynnal swyddogaethau'r fforwm yn effeithiol, fod y person o dan sylw yn peidio â bod yn aelod;
- (dd) bod aelod yn cael ei ethol yn aelod o'r awdurdod penodi neu fod aelod yn cael ei benodi yn swyddog o'r awdurdod penodi neu, os yw fforwm wedi'i sefydlu gan fwy nag un awdurdod penodi, yn aelod o unrhyw un o'r awdurdodau hynny;
- (e) bod aelod ym methu â bod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r fforwm, neu gyfarfod o unrhyw bwyllgor o'r fforwm, dros gyfnod parhaus o 12 mis, oni roddwyd i'r aelod, yn dilyn cais ysgrifenedig i'r awdurdod penodi sydd wedi'i wneud o fewn y cyfnod hwnnw ac yn pennu'r rhesymau dros y cais, ganiatâd i fod yn absennol gan yr awdurdod penodi am gyfnod y gwêl yr awdurdod penodi'n dda, ac yn yr achos hwnnw nid yw'r cyfnod o 12 mis a bennir yn y paragraff hwn i gynnwys unrhyw gyfnod y mae caniatâd o'r fath i fod yn absennol yn berthnasol iddo.

(2) Rhaid i'r Ysgrifennydd hysbysu'r awdurdod penodi o unrhyw le gwag yn aelodaeth y fforwm nad yw'r awdurdod penodi yn ymwybodol ohono neu efallai nad yw fel arall yn ymwybodol ohono a rhaid i'r awdurdod penodi sy'n dod yn ymwybodol o le gwag o'r fath, yn ddarostyngedig i reoliad 5, benodi person i lenwi'r lle gwag hwnnw.

(3) Os etholir aelod o fforwm yn Gadeirydd neu'n Ddirprwy Gadeirydd o'r fforwm hwnnw, rhaid i'r awdurdod penodi, yn ddarostyngedig i reoliad 5, benodi person yn aelod o'r fforwm fel pe bai'r person a etholir yn Gadeirydd neu'n Ddirprwy Gadeirydd wedi peidio â bod yn aelod o'r fforwm.

Cynnal cyfarfodydd fforwm

15.—(1) Mae cyfarfod cyntaf y fforwm ar ôl y cyfarfod y daw penodiad holl aelodau'r fforwm yn weithredol ynddo (naill ai pan sefydlir y fforwm neu pan benodir aelodau ar ôl i aelodaeth yr holl aelodau ddod i ben o dan reoliad 4(3)) i ddiwydd yn yr amser a'r lle a benderfynir gan yr awdurdod penodi, mae ei agenda i'w benderfynu gan yr awdurdod penodi, ac mae'r Ysgrifennydd i lywyddu arno, ond wedyn gall y fforwm gyfarfod bob hyn a hyn fel y gwêl yn dda, ond rhaid iddo gyfarfod o leiaf ddwywaith ymhob cyfnod o 12 mis wedi'i gyfrifo drwy gyfeirio at y dyddiad pan sefydlwyd ef.

(2) Gellir cynnal cyfarforydd y fforwm ar unrhyw ddyddiau a lle y bydd yr aelodau yn cytuno arnynt a rhaid iddynt fod yn agored i'r cyhoedd oni fydd y person sy'n llywyddu yn dyfarnu bod eitem benodol o fusnes i'w hystyried mewn cyfarfod yn ei gwneud yn briodol i'r cyhoedd gael eu gwahardd pan ystyrir yr eitem fusnes honno.

(3) Mewn unrhyw gyfarfod o'r fforwm, y person sydd i lywyddu (y “person sy'n llywyddu”) yw'r canlynol, yn ddarostyngedig i reoliad 12(3)—

- (a) y Cadeirydd, os yw'n bresennol;
- (b) os yw'r Cadeirydd yn absennol, y Dirprwy Gadeirydd; neu
- (c) os yw'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn absennol, unrhyw aelod y mae'r aelodau sy'n bresennol yn ei ddewis.

(4) Ni chynhelir unrhyw fusnes gan y fforwm onid yw nifer yr aelodau sy'n bresennol, heb gynnwys y person sy'n llywyddu, yn fwy na thraean o'r aelodaeth lawn.

(5) Yn ddarostyngedig i unrhyw beth i'r gwrthwyneb a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn, neu i unrhyw ganllawiau a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 94(6)(c) o'r Ddeddf, gall fforwm reoleiddio ei weithdrefn ei hun.

(6) Ni fydd trafodion unrhyw gyfarfod yn cael eu hannylsu os bydd unrhyw berson sydd â hawl i'w cael yn methu â chael unrhyw hysbysiad neu ddogfennau eraill sy'n berthnasol i'r cyfarfod o dan sylw y mae'n ofynnol iddynt fel arall gael eu cyflwyno neu eu hanfon o dan y Rheoliadau hyn.

(7) Rhaid paratoi cofnodion trafodion unrhyw gyfarfod (ac mae'n rhaid iddynt gynnwys enwau'r aelodau hynny sy'n bresennol ac yn absennol), eu cyflwyno i'w cytuno yn y cyfarfod nesaf a'u llofnodi gan y person sy'n llywyddu yn y cyfarfod nesaf hwnnw.

(8) Gall y Cadeirydd wahodd sylwebyddion a/neu gynghorwyr i gyfarfod, a chaiff y sawl a wahoddir, os yw'r person sy'n llywyddu yn ystyried hynny'n briodol, gyfrannu at drafodion y fforwm.

(9) Gall cynrychiolydd o'r Cynulliad Cenedlaethol a/neu Gyngor Cefn Gwlad Cymru, ac unrhyw swyddog o awdurdod (mewn perthynas â'r fforwm o dan sylw) sy'n awdurdod penodi, fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r fforwm, neu o bwyllgor a sefydlir gan y fforwm hwnnw, fel sylwebydd.

(10) Pan fydd y person sy'n llywyddu yn ystyried ei bod yn briodol pleidleisio ynghylch unrhyw gwestiwn, rhaid i'r person sy'n llywyddu ffurfio'r cwestiwn hwnnw, yn ysgrifenedig os gofynnir amdano, a phleidleisir drwy i'r aelodau sy'n bresennol godi llaw (ac eithrio nad oes gan y person sy'n llywyddu yr hawl i bleidleisio onid yw'r pleidleisiau'n gyfartal, ac os felly mae'r person sy'n llywyddu i gael pleidlais fwrw).

Adroddiadau blynyddol

16.—(1) Rhaid i'r awdurdod penodi baratoi a chymeradwyo, mewn perthynas â phob fforwm y mae'n awdurdod penodi arno, adroddiad blynyddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl 31 Mawrth ym mhob blwyddyn.

(2) Rhaid i adroddiad blynyddol a baratoir o dan baragraff (1) gynnwys—

(a) gwybodaeth ynglyn â pherfformiad y fforwm o'i swyddogaethau yn ystod y cyfnod o 12 mis yn diweddu ar y dyddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1); a

(b) rhaglen waith y cytunwyd arni rhwng y fforwm a'r awdurdod penodi y mae'r fforwm yn bwriadu ymgymryd â hi yn ystod y 12 mis sy'n dechrau yn union ar ôl y dyddiad hwnnw.

(3) Rhaid sicrhau bod copi o'r adroddiad blynyddol, wedi iddo gael ei gymeradwyo, ar gael ar gyfer archwiliad gan aelodau o'r cyhoedd yn swyddfeydd yr awdurdod penodi yn ystod oriau swyddfa arferol yn rhad ac am ddim.

(4) Rhaid i awdurdod penodi, ar gais unrhyw aelod o'r cyhoedd, ddarparu copi i'r person hwnnw o unrhyw adroddiad blynyddol sydd wedi'i baratoi a'i gymeradwyo o dan y Rheoliad hwn, neu unrhyw ran ohono, pan delir cost y postio ac unrhyw swm pellach nad yw'n fwy na 10 ceiniog y tudalen y bydd yr awdurdod penodi yn gofyn amdano.

Hysbysu penodiadau etc.

17. Rhaid i'r awdurdod penodi:

(a) hysbysu Cyngor Cefn Gwlad Cymru (y Cyngor) o enwau a chyfeiriadau'r holl bersonau a benodir i fod yn aelodau (gan gynnwys Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion) o fforymau ac o unrhyw newidiadau yn aelodaeth y fforymau hynny;

(b) anfon copi o bob adroddiad blynyddol at y Cyngor ar ôl ei gymeradwyo; ac

(c) pan ofynir amdani, rhoi i'r Cyngor unrhyw wybodaeth arall am weithgareddau unrhyw fforwm y bydd y Cyngor yn rhesymol ofyn amdani.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(2).

13 Rhagfyr 2001

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adran 94(1) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (“y Ddeddf”) yn ei gwneud yn ofynnol i fforwm mynediad lleol (“fforwm”) gael ei sefydlu gan awdurdodau priffyrdd lleol neu, pan fydd yr ardal sydd i'w chynnwys gan fforwm yn gyfrifoldeb Parc Cenedlaethol, gan awdurdod Parc Cenedlaethol (“awdurdodau penodi”).

Pan sefydlir fforwm ar gyfer rhan o'i ardal, mae'r awdurdod sy'n ei sefydlu o dan ddyletswydd i sefydlu fforwm neu fforymau pellach ar gyfer gweddill y rhan neu'r rhannau o'r ardal honno.

Gellir sefydlu fforwm mynediad lleol ar y cyd gan ddau awdurdod penodi neu fwy os ydynt o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny.

Bydd fforymau mynediad lleol yn cynghori cyrff sy'n arfer swyddogaethau a roddir gan y Ddeddf ar faterion sy'n ymwneud â gwella mynediad cyhoeddus i dir ac unrhyw faterion eraill a ragnodir gan Reoliadau yn y dyfodol.

Mae Adrannau 94 a 95 o'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer sefydlu a gweithredu fforwm.

Drwy arfer y pwerau hyn, mae'r Rheoliadau hyn yn darparu'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan yr awdurdod penodi wrth sefydlu fforwm, ac ar gyfer penodi aelodau iddo ac yn darparu'r rheolau sy'n llywodraethu gweithdrefnau fforymau.

Mae Rheoliad 3 yn pennu'r gweithdrefnau y mae'n ofynnol i awdurdodau penodi sefydlu fforymau odanynt.

Mae Rheoliad 4 yn pennu'r terfynau ar faint fforymau.

Mae Rheoliad 5 yn galluogi awdurdod penodi i newid maint fforwm yn ystod ei dymor.

Mae Rheoliadau 6 i 9 yn nodi'r darpariaethau sy'n ymwneud â phenodi aelodau fforymau.

Mae Rheoliadau 10 ac 11 yn darparu ar gyfer gweinyddu fforwm ac ar gyfer penodi Ysgrifennydd at y diben hwn ac ar gyfer cymorth ariannol ar gyfer gweithgareddau fforymau.

Mae Rheoliad 12 yn pennu'r weithdrefn ar gyfer ethol Cadeirydd a Dirprwy Gardeirydd fforwm.

Mae Rheoliad 13 yn darparu ar gyfer sefydlu pwyllgorau gan fforwm.

Mae Rheoliad 14 yn ymdrin â'r amgylchiadau y mae aelodaeth person o fforwm yn terfynu odanynt ac yn darparu ar gyfer llenwi swyddi gwag dros dro.

Mae Rheoliad 15 yn nodi'r gweithdrefnau a'r gofynion sydd i'w dilyn wrth gynnal cyfarfodydd fforwm.

Mae Rheoliad 16 yn darparu ar gyfer paratoi adroddiadau blynyddol mewn perthnas â fforymau.

Mae Rheoliad 17 yn darparu ar gyfer darparu gwybodaeth i'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag aelodaeth a gweithgareddau fforymau.

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: Cyngor

Dyddiad y cyfarfod: 3 Mawrth 2022

Teitl: Cynnig Tai Cymunedol

Pwrpas yr adroddiad: Ystyried cynigion ar gyfer cyflwyno Cynllun Tai Cymunedol a fydd yn rhoi gwell llwybr i genedlaethau iau berchen ar eu tŷ eu hunain.

Er: Penderfyniad

Portffolio'r Cabinet ac Aelod y Cabinet: Y Cynghorydd Rhodri Evans, Aelod y Cabinet dros yr Economi ac Adfywio

CEFNDIR:

Ar 29^{ain} Tachwedd 2021 cyflwynodd y Grŵp Annibynnol bapur yn amlinellu gweledigaeth ynghylch creu llwybr i Genhedlaeth Ifanc Ceredigion berchen ar eu tŷ eu hunain. Roedd y weledigaeth wedi'i drafftio mewn ymateb i'r sefyllfa economaidd sy'n wynebu pobl ifanc Ceredigion a'r diffyg cyfleoedd i'w galluogi i brynu eu cartref cyntaf.

Cyflwynwyd tystiolaeth i ddangos mai cyfyngedig yw'r cyfleoedd i bobl ifanc allu prynu cartref cyntaf oherwydd yr economi yng Ngheredigion.

Roedd y Pwyllgor yn gefnogol i'r cynnig ac roedd pawb yn cydnabod yr angen i ddatblygu cynllun a fyddai'n cefnogi ac yn galluogi pobl ifanc i brynu eu heiddo cyntaf a fyddai hefyd o fudd i economi a diwylliant y Sir. Cytunwyd felly:

(i) y cefnogwyd y 'Gweledigaeth ynghylch creu llwybr i Genhedlaeth Ifanc Ceredigion berchen ar eu tŷ eu hunain' ac fe'i trosglwyddwyd i Swyddogion i weithio ar ymarferoldeb y cynllun;

(ii) ar ôl ystyried y cynllun, bod Swyddogion yn dychwelyd i'r pwyllgor gyda'u hargymhellion;

(iii) petai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo yn y pen draw gan y Cyngor, byddai'r opsiwn ariannu a ffefrir yn cael ei fodelu i broses flynyddol pennu'r gyllideb.

Mae adroddiad wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7 Chwefror a chan y Cabinet yn ei gyfarfod dyddiedig 22 Chwefror ac argymhellwyd ei gymeradwyo gan y Cyngor.

PWYNTIAU ALLWEDDOL YN Y WELEDIGAETH

Byddai rhyw fath o gynllun rhannu ecwiti yn cynorthwyo pobl i gael mynediad i'r farchnad. Er bod tai fforddiadwy sy'n bodoli eisoes yn diwallu ystod eang o anghenion yn y Sir, nid oes digon o stoc na mecanweithiau i helpu i ddiwallu'r holl anghenion. Mae angen canolraddol hefyd oherwydd bod tai fforddiadwy sy'n bodoli eisoes yn anhygyrch oherwydd bod llety rhent cymdeithasol yn cael ei flaenoriaethu i'r rheini sydd â'r angen mwyaf a methu â bodloni'r meini prawf cymhwysedd presennol ar gyfer tai fforddiadwy i'w prynu.

Roedd meini prawf cymhwysedd ar gyfer opsiwn newydd yn canolbwyntio ar:

- Eiddo newydd gyda gwerth llai na £250k
- I feddianwyr nad ydynt yn gallu benthyca 20% yn fwy na gwerth y tŷ
- I'r tŷ fod yn unig eiddo meddiannydd
- I'r meddiannydd sydd â chysylltiad lleol trwy enedigaeth, addysg, cyflogaeth a'r cyfnod o amser y mae wedi byw yn y Sir
- Rheoli hyn mewn ffordd debyg i brynwyr presennol tai fforddiadwy.
- Bod cyfran o ecwiti yn cael ei rheoli trwy arwystl ar yr eiddo.

Cyflwynwyd opsiynau i ariannu'r cynllun a oedd yn cynnwys premiwm blynyddol o £200K o'r Grant Cynnal Refeniw. Gellir defnyddio'r £200K i warantu'r ad-daliadau ar fenthyciad banc. Byddai ffigwr o £200K yn codi £2m (yn seiliedig ar bob £100k = gallu i fenthyg £1m). Roedd opsiynau eraill yn cynnwys defnyddio cyllid Grant Tai Cymdeithasol, taliadau cynllunio Adran 106 a phremiymau Ail Gartrefi a Chartrefi Gwag.

Gallai'r Cyngor hefyd ystyried ailgyflwyno cynllun i helpu gyda morgeisi drwy gynnig morgeisi gyda chynllun gwarantu blaendal. Roedd y cynllun blaenorol yn cefnogi pobl i gael morgais am hyd at 80% o'r pris prynu gyda dim ond blaendal o 5% gan y darpar brynwr, gyda'r cyngor yn gwarantu gweddill y blaendal o 15% am hyd at 5 mlynedd.

Daeth y papur i'r casgliad, er bod gan Geredigion broblem sicr o ran yr angen am dai fforddiadwy, mae'n werth nodi bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud eisoes ac yn parhau er mwyn cwrdd â'r anghenion hyn. Mae 4000 o gartrefi fforddiadwy ar gael ledled y sir (tua 12% o gyfanswm y stoc dai) a 45 ychwanegol (ar gyfartaledd) yn cael eu darparu bob blwyddyn. Ar hyn o bryd mae'r tîm Polisi Tai yn cynnal Asesiad Ymarferoldeb Strategol ledled y sir i nodi faint o gyfraniadau tai fforddiadwy y gellir eu hystyried o fewn dogfen Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI2) ac ymhle. Maen nhw'n gweithio gyda'r tîm Economi ac Adfywio i gwblhau strategaeth ar gyfer hunanadeiladu ac unedau byw/gwaith ar dir sy'n eiddo i'r cyngor. Mae'r tîm Tai yn ystyried modelau cyflawni amgen gan gynnwys ailgyflwyno cynllun Prynu Cartref Lleol a gweithio gyda Banc Datblygu Cymru i sicrhau cyllid ar gyfer hunanadeiladwyr.

Bydd cyflwyno unrhyw gynlluniau yn y dyfodol o fudd i drigolion Ceredigion gan ei fod yn ehangu cwrdd ac argaeledd cynhyrchion fforddiadwy wrth helpu pobl ifanc Ceredigion i gael gafael ar gartrefi.

ARFARNIAD O'R CYNNIG

Angen

Mae'r dystiolaeth a roddwyd gyda'r papur i'r Pwyllgor Craffu ym mis Tachwedd wedi'i diweddarau. Mae'r casgliadau'n aros yr un fath: mae heriau sylweddol o fewn y Sir i'r rheini sy'n ceisio cael gafael ar dai, yn enwedig y rheini sydd am brynu ar y farchnad agored am y tro cyntaf.

Mae tueddiadau diweddar ac yn arbennig y cynnydd yn y galw am eiddo yn y sir wedi ei gyfuno â chyflenwad cyfyngedig, wedi creu 'ffyniant tai' gyda phrisiau tai yn cyrraedd y lefelau uchaf erioed. Mae'r dystiolaeth bod angen cefnogaeth bellach yn glir, yn enwedig o safbwynt fforddiadwyedd a chreu cyfleoedd i bobl fyw ac aros yn y sir. Mae mynd i'r afael â'r materion hyn drwy gynlluniau megis tai dan arweiniad y gymuned yn alinio'n agos â blaenoriaethau tai lleol y Cyngor a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Opsiynau

Mae swyddogion wedi adolygu'r cynnig ac opsiynau eraill ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn. Mae'r rhain yn cynnwys rhannu ecwiti, opsiynau rhentu i berchnogi a hunanadeiladu ac ymgymryd â rhywfaint o fodelu ariannol cychwynnol i helpu i lunio barn. Mae'r wybodaeth ganlynol yn crynhoi'r farn gyfredol ar yr opsiynau hynny.

a) Rhannu Ecwiti

Byddai math o gynllun rhannu ecwiti tebyg i'r un a gynigir yn bosibl yn amodol ar rai diwygiadau. Mae rhai dulliau tebyg o weithredu eisoes ar gael yn y Sir e.e. Cymorth i Brynu Cymru, cynlluniau Prynu Cartref a gefnogir gan Lywodraeth Cymru a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Dull gweithredu sydd wedi bod yn llwyddiannus yn y gorffennol yng Ngheredigion ac yn unol ag uchelgeisiau polisi Llywodraeth Cymru a bwriadau'r tîm tai yn y dyfodol, fyddai creu cynllun 'cymorth prynu' lleol. Mae darpar brynwyr cymwys yn cael morgais am 60-80% o'r pris prynu a'r cyngor sy'n berchen ar y gyfran sy'n weddill. Ar adegau y cytunwyd arnynt, gall y meddianwyr, am bris a bennwyd ymlaen llaw, gynyddu cyfran eu perchentyaeth i brynu mwy a mwy o gyfran y cartref. Neu, rywbryd yn y dyfodol pan fyddant yn dewis symud ymlaen a gwerthu'r tŷ, bydd y gyfran ganrannol gychwynnol o'r gwerth wrth werthu yn dod yn daladwy i'r Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd y Cyngor gynllun perchnogaeth cost isel tebyg yng nghanol y 1990au. Prynodd unigolion eu heiddo eu hunain gyda morgeisi safonol ac yna ochr yn ochr â hynny rhoddodd y Cyngor fenthyciad di-log hyd at 30% o'r pris prynu. Mae ad-daliad benthyciad yn crisialu wrth werthu, gydag ad-daliad yn seiliedig ar % y benthyciad gwreiddiol yn erbyn y pris prynu gwreiddiol wedyn yn cael ei gymhwyso i'r pris gwerthu. (e.e. benthyciad o £15k yn erbyn pryniant o £50k yn arwain at ad-daliad o £60k os caiff ei werthu nawr am £200k).

Mae yna x28 eiddo o hyd ar ein Cofrestr Perchentyaeth Cost Isel gyda gwerthoedd benthyciad gwreiddiol o £375k ac yn awr yn debygol o fod yn werth o leiaf 4 gwaith

y swm hwn. Mae'r rhain yn cael eu trin fel Derbyniadau Cyfalaf Gohiriedig ar y Fantolen ac yn arwain at Dderbyniad Cyfalaf gwirioneddol pan fydd yr ad-daliad yn crisialu.

Mae profiad hyd yn hyn yn dangos hanes blaenorol o fenthyciadau yn parhau ar waith am gyfnodau hir o amser felly mae'r Cyngor yn elwa o symudiadau hirdymor yn y farchnad eiddo.

Gallai cyllid ar gyfer treial ddod o gronfa wrth gefn Premiymau Perchnogion Ail Gartrefi, dylai hyn fod yn ddigon i ariannu tua 7 i 10 o gyfleusterau benthyca. Yna gellid ychwanegu cyllid pellach drwy ddefnyddio premiymau yn y dyfodol neu ffynonellau eraill.

Byddai angen datblygu capiau a chymhwysedd ymhellach ond maent yn debygol o fod yn debyg i'r rheini yn y cynnig. Fodd bynnag, awgrymir bod meini prawf meddiannaeth yn adlewyrchu rhai'r cynlluniau tai fforddiadwy sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau bod y rheini sydd mewn gwir angen yn ei ddefnyddio a'i fod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol megis Deddf Cydraddoldeb 2010. (Gweler Atodiad 1).

Gan y gallai'r galw fod yn fwy na'r cyflenwad, byddai angen cael nifer neu bot wedi'i gapio i reoli'r galw. Dros amser dylai cyfrannau'r annedd y mae'r Cyngor yn berchen arni gynyddu mewn gwerth gan sicrhau na cholli dim cyfalaf a phan gaiff ei ddychwelyd gellir ei ailgylchu i gefnogi eraill (er bod profiad wedi dangos bod ailgylchu arian yn araf).

Deallir y byddai cynllun o'r fath yn gweithredu'n gyfreithiol fel 2il arwystl ar yr eiddo ac felly ni fyddai angen cytundeb Adran 106. Mae'n broses syml i ddechrau, gan gynnig cam cyflym ymlaen syml i'w reoli. Ymhellach, mae'n dibynnu ar stoc y farchnad dai sy'n bodoli eisoes a stoc y farchnad dai a adeiledir o'r newydd – gan gynnig cyfleoedd i bobl ifanc gael gafael ar y tŷ o'u dewis yn y lleoliad o'u dewis.

b) Rhentu i Berchnogi

Mae dull gweithredu Rhentu i Berchnogi wedi cael ei dreialu mewn nifer o leoliadau gan wahanol asiantaethau tai gyda modelau amrywiol. Yn y bôn yn cynnig opsiwn prynu'n rhannol rhentu'n rhannol. Gyda phobl yn talu cyfran o rent i reolwr y cynllun a chyfran i gwmni morgeisi arferol; ymhen amser adeiladu arian wrth gefn o'r incwm rhenti i'w ddefnyddio fel blaendal pellach i gynyddu cyfran eu perchentyaeth i ganran uwch o berchnogaeth.

Mae Llywodraeth Cymru a chyrrff eraill wedi ceisio gweithredu cynllun tebyg; fodd bynnag, mae hwn bellach wedi dod i ben. I bob pwrpas, talodd y meddianwyr forgais a rhent, ac ar ôl 2 flynedd a chyn 5 mlynedd yn yr eiddo gallent gynyddu cyfran eu perchentyaeth i berchnogaeth lawn trwy adeiladu blaendal trwy'r rhent a dalwyd am fenthycia ychwanegol y morgais. Mae'r eiddo hyn yn dueddol o fod yn rhai a adeiledir o'r newydd i gyfyngu ar ofynion cynnal a chadw'r 'landlord', ac felly mae argaeledd unedau o'r fath wedi'i gyfyngu i ddatblygiadau newydd mewn rhai lleoliadau.

Mewn gwirionedd, mae cynlluniau o'r fath yn profi'n anodd eu rheoli a'u cynnal yn ymarferol, gyda llawer o feddianwyr yn dewis peidio â chynyddu cyfran eu

perchentyaeth a / neu ôl-ddyledion rhent yn achosi problemau sylweddol. Mae ymarferoldeb cynlluniau o'r fath hefyd wedi bod yn anodd gan fod gan siroedd fel Ceredigion yn draddodiadol ardaloedd o rent uchel ac isel gydag ymarferoldeb wedi'i wasgaru'n ddaearyddol iawn a'r cynllun yn cael ei anelu at ddeiliadaethau Canolradd (rhan-berchnogion i bob pwrpas). Mae hyn yn golygu nad ydynt fel arfer yn gymwys ar gyfer Lwfans Tai Lleol hyd yn oed petaent yn cael yr amrywioldeb mewn lefelau rhenti ar draws Ceredigion yn awgrymu mewn nifer o leoliadau na fyddai Lwfans Tai Lleol yn talu eu costau.

Er mwyn bwrw ymlaen â chynllun tebyg i rentu i berchnogi, bydd angen gwaith ymarferoldeb manwl a mecanwaith ar gyfer mynd i'r afael â chynyddu (neu leihau) cyfran perchentyaeth a thalu rhent yn ogystal ag amlinellu pa ganran o rent sydd i bob pwrpas yn arbedion. Byddai angen rhoi sylw hefyd i sefyllfaoedd lle na all ymgeiswyr gynyddu cyfran eu perchentyaeth a / neu fod mewn ôl-ddyledion rhent. Byddai angen i'r Awdurdod Lleol fod yn ymwybodol y byddai goblygiadau o ran adnoddau gyda chynllun o'r fath o ran rheoli tenantiaethau, rheoli arbedion ar gyfer blaendaliadau, cefnogi tenantiaid mewn senario cynyddu cyfran eu perchentyaeth / ôl-ddyledion rhent a phe bai meddianwyr cymwys ymhen amser yn methu â chynyddu cyfran eu perchentyaeth – gweithredu fel landlord gyda goblygiadau cynnal a chadw am byth.

c) Hunanadeiladu

Mae datblygu llwybr hunanadeiladu ar gyfer perchentyaeth fforddiadwy yn flaenoriaeth bresennol gan y Tîm Economi ac Adfywio ac mae prosiect peilot wedi'i gyflwyno i amlinellu'r materion allweddol wrth reoli model o'r fath. Mae rhagor o safleoedd sy'n eiddo i'r cyngor wedi'u nodi a allai fod ar gael ar gyfer plotiau hunanadeiladu ac mae gwaith ar gynllun o'r fath yn parhau gan gynnwys defnyddio'r Gronfa Datblygu Tir ac Adeiladau i gyflwyno cynlluniau o'r fath. Fodd bynnag, mae'n uchelgais tymor hwy, fel partneriaid cyflawni, mae angen cynllunio a gwaith manwl ar ymarferoldeb i sicrhau gwerth cynlluniau o'r fath.

CASGLIADAU

Mae'r Papur a gyflwynwyd i'r pwyllgor craffu blaenorol yn gywir yn tynnu sylw at yr heriau sy'n wynebu'r Sir a'r angen am opsiynau ychwanegol i bobl gael gafael ar dai sydd eu hangen arnynt.

Cydnabyddir, er bod stoc sy'n bodoli eisoes o dros 4000 o gartrefi fforddiadwy (dros 12% o gyfanswm y stoc dai ledled y sir) ar draws Ceredigion o ddeiliadaethau amrywiol, gan gynnwys dros 400 o gynhyrchion 'Deiliadaeth Ganolradd' a ddarparwyd dros y 15 mlynedd diwethaf, yn syml, nid yw'n ddigon i ateb y galw. Fel y nodir, mae'r eiddo sy'n bodoli eisoes wedi'u cyfyngu'n gyffredinol i'r bobl hynny sydd â'r angen mwyaf (Rhentu Cymdeithasol) a'r bobl hynny sy'n gymwys i brynu o dan y cynllun Tai Fforddiadwy. Erys grŵp o bobl y gallwn eu hystyried mewn 'angen canolraddol' sy'n dymuno prynu neu rentu eiddo yn eu cymunedau lleol sydd 'wedi'u prisio allan o'r farchnad' oherwydd y galw cynyddol am eiddo gwledig ac argaeledd unedau fforddiadwy mewn aneddiadau gwledig. Felly cefnogi'r bobl ifanc hyn i aros yn eu cymunedau yw lle gallai 'tai cymunedol' fod o gymorth.

Trwy ddilyn y model Rhannu Ecwiti a amlinellwyd uchod gallai'r Awdurdod Lleol

gefnogi pobl i ddod o hyd i lety addas o'r stoc sy'n bodoli eisoes sef cyfanswm o dros 30,000 o gartrefi yn y lleoliad o'u dewis. Er y byddai'r Cyngor i bob pwrpas yn cynnig benthyciad di-log, a allai gymryd amser i'w grisialu, byddai'r dull gweithredu o fudd i'r Cyngor a'r gwerthwyr.

Gallai'r Cyngor ystyried dull gweithredu 2 elfen:

1. Ailfywiogi/peilot tymor byr i'r tymor canolig. Byddai hwn yn gynnyrch tebyg i rannu ecwiti gan ddefnyddio £650k + sy'n bodoli eisoes o'r Premiwm Ail Gartrefi gan ychwanegu beth bynnag a ychwanegir at y pot eleni. Gallai hyn o bosibl gefnogi'r gyfran ecwiti hyd at 40% o werthoedd cyfartalog y farchnad i 8 ymgeisydd.
2. Tymor canolig i'r tymor hwy: Er mwyn mynd ar drywydd nod o bosibl i wneud gwaith mwy penodol o amgylch safleoedd y mae'r Cyngor yn berchen arnynt, gan fwriadu eu rhyddhau ar gyfer tai canolradd. Byddai hyn o fewn cyfyngiadau'r Cyfrif Refeniw Tai a dealltwriaeth o allu mewnol wrth reoli cynlluniau o'r fath. Byddai angen amser penodedig swyddogion ar gyfer prosiect o'r fath i sicrhau cydsyniadau a rheoli'r broses ond mae hyn eisoes yn cael ei ystyried fel rhan o gylich gwaith y Panel Datblygu Asedau.

Byddai mynd i'r afael â materion yn y ffordd hon yn gweld dull graddol o weithredu gweledigaeth y Grŵp Annibynnol i helpu pobl y Sir gyda manylion y cynllun rhannu ecwiti yn cael eu datblygu a'u cytuno o fewn 12 mis i benderfyniad y Cyngor. Byddai gwaith ar ehangu'r opsiynau sydd ar gael i helpu pobl leol yn digwydd ar yr un pryd â'r nod o gytuno ar fanylion a gweithredu'r rheini ym mlynnyddoedd 2 a 3 y weinyddiaeth wleidyddol newydd.

Oes	Asesiad	Effaith	Mae	Asesiad	Effaith
Integredig	wedi	ei	Integredig	yn yr	arfaeth yn
gwblhau?	Os nad	oes,	amodol	ar	drafodaethau
dywedwch	pam		pellach	pan fydd	y cynllun yn
			cael ei	lunio.	

**Llesiant
Cenedlaethau'r
Dyfodol:**

**Crynodeb:
Hirdymor:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:
Integreiddio:**

Argymhelliad/argymhellion: Bod y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ac yn cytuno:

Tudalen 261

1. Penderfyniad y Cyngor 24/3/16 Cofnod 12) Adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr ar Breimymau Treth y Cyngor ar gyfer cartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi, pwynt 4 i'w ddiwygio fel a ganlyn:

“4.a) Lefel Premiwm Ail Gartrefi Treth y Cyngor a godir i'w phennu ar 25% (yn dod i rym o 1 Ebrill 2017); a,

b) bod yr holl arian a godir o Breimiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.”

2. Bod yr holl arian a godir o Breimiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor rhwng y cyfnod 1/4/17 i 31/3/22 (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.
3. Bod yr holl arian a godir o Breimiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor o 1/4/22 (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.
4. O 1/4/22, bod yr holl arian a godir o Breimiwm 25% Cartrefi Gwag Treth y Cyngor (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.
5. Diddymu penderfyniad y Cyngor 16/3/17 cofnod 8.b) Premiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi.
6. Bod manylion elfen rhannu ecwiti o'r cynllun yn cael eu paratoi a'u cytuno o fewn 12 mis i benderfyniad y Cyngor a bod gwaith yn parhau ar yr opsiynau eraill.
7. Gohirio'r posibilrwydd o sefydlu Cynllun Mantais Gymunedol am flwyddyn.

Rheswm dros y penderfyniad:

1. Er mwyn paratoi a gweithredu Cynllun Tai Cymunedol sy'n gweithredu yn ôl gweledigaeth a amlinellwyd gan y Grŵp Annibynnol.
2. Gweithredu cynllun sy'n cefnogi pobl o fewn y Sir i gael gafael ar dai sy'n cwrdd â'u hanghenion.

Tudalen 262

Trosolwg a Chraffu:	Mae papurau wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 29 ^{ain} Tachwedd 2021 a 7 ^{fed} Chwefror 2022.
Fframwaith Polisi:	Deddfwriaeth a Chanllawiau Tai a Chynllunio
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Blaenoriaethau 1 i 4 y Strategaeth Gorfforaethol.
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	I'w hystyried wrth i'r cynllun gael ei ddatblygu
Goblygiadau Cyfreithiol:	I'w hystyried wrth i'r cynllun gael ei ddatblygu
Goblygiadau staffio:	I'w hystyried wrth i'r cynllun gael ei ddatblygu
Goblygiadau eiddo / asedau:	I'w hystyried wrth i'r cynllun gael ei ddatblygu
Risg(iau):	I'w hystyried wrth i'r cynllun gael ei ddatblygu
Pwerau Statudol:	
Papurau Cefndir:	Adroddiadau i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol 29/11/2021 a 07/02/2022. Tai Cymunedol – Tystiolaeth o Angen Rhagfyr 2021
Atodiadau:	Atodiad 1 - Meini Prawf Cymhwysedd
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Russell Hughes-Pickering, Economi ac Adfywio
Swyddog Adrodd:	Russell Hughes-Pickering
Dyddiad:	22/02/2022

Atodiad 1 – Meini Prawf Cymhwysedd

Eiddo

- Rheini hyd at £250k

Benthyciad

- Perchennog i gymryd 60-80% o Forgais yn yr Eiddo
- Gweddill i fod yn cynnwys 20-40% benthyciad di-log
- Benthyciad i'w ad-dalu wrth werthu ar sail gymesur i unrhyw gynnydd mewn gwerth (e.e. byddai cynnydd o 10% yng ngwerth y tŷ o ddyweder £200k i £220k dros gyfnod o 5 mlynedd yn arwain at gynnydd cyfatebol yn y gyfran i £55k lle buddsoddwyd swm cychwynol o £50k gan y Cyngor).

Meini Prawf Meddiannaeth

- Fel y rhai a ddiffinnir yn y Cynllun Datblygu Lleol (Gweler isod)

Nodiadau:

Argymhellir bod y tîm polisi cynllunio yn rheoli cymhwysedd y tai cymunedol yn hytrach na thrydydd parti ar y sail nad oes asesiad bandio. Byddai'r meini prawf hefyd yr un fath â'r rheini a ddefnyddir ar hyn o bryd ac yn cael eu rheoli gan y staff polisi cynllunio.

Wrth ymgymryd ag ardystiad cymhwysedd ni wneir dim dyfarniadau gwerth, mae'n broses syml o benderfynu a yw ymgeisydd yn gymwys ai peidio, pan fydd sefydliadau trydydd sector yn cymryd rhan gall cydadwaith cymhleth o wleidyddiaeth leol ymddangos, felly mae rheolaeth fewnol o gymhwysedd yn sicrhau bod asesiad teg diduedd yn cael ei wneud o gymhwysedd yn unig. Mae'n bwysig sicrhau yn y meini prawf cymhwysedd (fel sydd wedi'i wneud ar gyfer lles cynllunio tai fforddiadwy) bod y ddeddfwriaeth a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn cael ei pharchu. Felly nid yw'n bosibl pennu meini prawf cymhwysedd sy'n gwahaniaethu er enghraifft ar statws priodasol, Gallu yn y Gymraeg, oedran ac ati.

Er mwyn sicrhau bod y cartrefi fforddiadwy a ddarperir gan gynllunio yng Ngheredigion yn wirioneddol yn cael eu meddiannu gan bobl mewn angen fforddiadwy, rydym yn disgwyl i feddianwyr gael tystysgrif a roddir gan y tîm polisi cynllunio sy'n dangos eu bod yn bodloni'r 3 maen prawf cymhwysedd a nodir isod:

Mae'r meini prawf cymhwysedd hyn wedi'u datblygu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac yn gallu sicrhau morgaeisi trwy weithio o fewn y canllawiau a amlinellwyd gan y Cyngor Benthycwyr Morgaeisi. Mae'n werth nodi bod gennym rai problemau o ran gallu i gael morgaeisi gyda'n cynnyrch Fforddiadwy presennol gan mai dim ond is-set o fenthycwyr cenedlaethol (tua 3) sy'n fodlon benthycu arnynt yng Nghyngor Sir Ceredigion ar hyn o bryd.

Mewn senario rhannu ecwiti mae'n debygol na fyddai angen gweithredu cytundeb Adran 106 ac felly mae gallu i gael morgaeisi yn llai o bryder felly gellid rhoi meini prawf gwahanol ar waith ar gyfer y cynllun a byddai'n werth ymchwilio i'r hyn a ddefnyddiwyd gan y cynllun blaenorol yn y 1990au.

Ar gyfer y lles cynllunio Tai Fforddiadwy mae'r meini prawf canlynol yn berthnasol:

1. Amod Ariannol:

Mewn perthynas â Thai Fforddiadwy Gostyngol Ar Werth

Gallu (ar y cyd) i fenthycu dim mwy na'r swm angenrheidiol i brynu'r eiddo am ei bris gostyngol ynghyd â 10% y pris hwnnw. O ran plotiau ar gyfer hunanadeiladu bydd y 'pris gostyngol' yn seiliedig ar amcangyfrif nad yw wedi'i adeiladu eto o werth yr uned.*

Mewn perthynas â Thai Fforddiadwy Rhent Canolradd:

Mae'n bwysig bod y cynllun tai fforddiadwy Rhent Canolradd yn cyrraedd ei gynulleidfa darged, sef:

- y rheini sy'n annhebygol yn realistig o allu cael gafael ar dai drwy'r Gofrestr Tai Cyffredin ac sydd efallai heb fawr o ddewis ond i ddewis gwario cyfran uwch o'u hincwm fel rhent nag a dybir yn 'fforddiadwy' (h.y., >35%).

Bydd eiddo Rhent Canolradd yn cael eu 'bandio' yn ôl maint a lefel berthnasol y rhent canolradd.

Bydd y manylion yn newid dros amser fel canlyniad o lefelau rhent a chyflogau yn y sir a bydd maint yr eiddo / bandiau gwerth rhenti o bryd i'w gilydd yn cael eu hamlinellu yn y Canllawiau Cynllunio Atodol.

Mae angen i gymhwysedd i feddiannu Tai Fforddiadwy Rhent Canolradd fodloni'r gofynion canlynol:

- Mae'r ymgeisydd yn aelwyd gydag o leiaf un aelod yn gweithio'n llawn amser (a ddiffinnir er mwyn y cynllun hwn yn 35 awr yr wythnos)
- Ni fydd eiddo Rhent Canolradd y gwneir cais amdano yn cael ei 'danfeddiannu' gan yr aelwyd (hynny yw, ei fod yn diwallu anghenion yr aelwyd fel y cadarnhawyd gan y Swyddog Tai Fforddiadwy).
- Ni all yr ymgeisydd gael gafael ar eiddo rhent y farchnad i ddiwallu ei anghenion ar 35% neu lai o'i incwm gros yr aelwyd a enillir

2. Amod Preswyllo

Yn y Cynllun Datblygu Lleol presennol (dan y Cynllun Datblygu Unedol diwethaf roedd yn 10 allan o 20 mlynedd ond roedd y Cyngor Benthycwyr Morgeisi yn ystyried nad oedd modd morgeisio hyn)

Mewn perthynas â Thai Fforddiadwy Gostyngol ar Werth a Thai Fforddiadwy Rhent Canolradd:

i. Cysylltiad lleol yn yr ystyr bod yn rhaid i'r ymgeisydd ar ryw adeg yn ei fywyd fod wedi byw yng Ngheredigion neu ardal cyngor tref/cymuned gyfagos (neu gyfuniad o'r ddau) am gyfnod parhaus 5 mlynedd.

Neu

Tudalen 265

ii. Angen byw yng Ngheredigion i ofalu'n sylweddol am berthynas agos neu i gael gofal gan berthynas agos os yw'r perthynas yn bodloni gofynion paragraff "2(i)" uchod ac nad yw eiddo'r perthynas yn gallu (boed fel y mae neu'n destun estyniad) diwallu anghenion yr aelwyd gyfun.

Neu

iii. Angen bod yng Ngheredigion oherwydd cyflogaeth fel gweithiwr allweddol ar sail barhaol llawn amser (35 awr). Er mwyn y Cynllun Datblygu Lleol, diffinnir gweithiwr allweddol fel a ganlyn:

a Athro/athrawes mewn ysgol neu sefydliad addysg bellach neu goleg chweched dosbarth;

b Nyrs neu weithiwr iechyd medrus arall yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol;

c Swyddog heddlu;

d Gweithiwr gwasanaeth prawf;

e. Gweithiwr cymdeithasol;

f Seicolegydd Addysg;

g Therapydd galwedigaethol a gyflogir gan yr awdurdod lleol;

h Swyddog tân;

i Unrhyw berson arall y mae ei gyflogaeth yn cyflawni rôl bwysig wrth ddarparu gwasanaethau allweddol yng Ngheredigion lle bu'n anodd recriwtio o fewn y Sir.

3. Meddiannaeth Fel Unig Breswylfa:

Mewn perthynas â Thai Fforddiadwy Gostyngol ar Werth a Thai Fforddiadwy Rhent Canolradd:

Disgwylir i'r ymgeisydd feddiannu'r eiddo fel ei unig breswylfa a bydd gofyn iddo gadarnhau nad yw'n berchen ar eiddo preswyl arall. Os yw'r ymgeisydd yn dychwelyd i Geredigion a bod ganddo eiddo heb ei werthu y bu'n ei feddiannu o'r blaen, bydd cyfnod gras o ddim mwy na 12 mis yn cael ei ymestyn i ganiatáu gwerthu'r eiddo.



Prosiect Tai Cymunedol

Tystiolaeth o'r angen am Brosiect Tai
Cymunedol yng Ngheredigion



Rhagfyr 2021



£22,028

Enillion canolrifol cyfartalog
yng Ngheredigion

(£1,637 yn is na'r cyfartaledd
cenedlaethol ledled Cymru)



6.97

Y Gymhareb Fforddiadwyedd
Tai

(yn 2020 y 4^{ydd} uchaf yn
genedlaethol, yn gyson yn y pump
uchaf yn genedlaethol oddi ar 2000)

15.2%

Y cynnydd ym mhrisiau tai
Ceredigion yn ystod y 12 mis
diwethaf

(y sefyllfa ym mis Medi 2021)



£228,032

Pris cyfartalog tŷ yng
Ngheredigion

(Yr uchaf ar gofnod)

21%

Y gostyngiad a
ragwelir yn y grŵp
oedran 20-29 oed hyd
at 2029

(Colli 2,595 o bobl)



Nododd

61%

o bobl 17-24 oed mai'r
cyfleoedd am dai fforddiadwy
oedd yr hyn yr oeddent yn ei
werthfawrogi fwyaf o fewn
Ceredigion Ffyniannus
(Asesiad o Lesiant Lleol)

Effaith tymor hwy ar y canlynol:

**Diwylliant
laith
Demograffeg
Yr Economi Leol**



**Mae'r cyfleoedd a grëir gan
Brosiect Tai Cymunedol yn alinio
â'r canlynol:**

Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor
Yr Amcanion Llesiant Cenedlaethol
Yr Amcanion Llesiant a Gwella
Strategaeth Tai'r Cyngor a Strategaeth Economaidd y
Cyngor

Ffynonellau:

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg Blyneddol o Oriau ac Enillion 2020
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Y gymhareb rhwng prisiau tai ac enillion mewn lleoedd gwaith
Cofrestrfa Dir EM, Mynegai Prisiau Tai, Medi 2021
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Nifer y rhai sy'n hawlio budd-dal yn ôl rhyw ac oedran
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Rhagamcanion Poblogaeth Is-genedlaethol yn seiliedig ar 2018

Y Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn dwyn ynghyd y dystiolaeth sy'n ategu'r angen am brosiect tai cymunedol yng Ngheredigion ym mis Tachwedd 2021. Dyma'r cam cyntaf yn natblygiad y prosiect hwn ac mae'n anelu at gyflwyno'r sefyllfa bresennol, gan ddefnyddio'r data sydd ar gael, y tueddiadau sy'n ymddangos yn sgil y pandemig Covid-19 ac wrth wneud hynny, mae'n anelu at amlygu'r heriau y mae pobl ifanc a phrynwyr tro cyntaf yn eu hwynebu o ran fforddio eiddo yn y sir.


Yn ddiweddar cwblhaodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (BGC) fersiwn ddrafft o Asesiad Llesiant Lleol, ac mae'r adroddiad hwn yn defnyddio gwybodaeth o'r Asesiad er mwyn dangos sut mae fforddiadwyedd tai yn chwarae rhan hanfodol yn llesiant trigolion a chymunedau Ceredigion. Mae'n cloi drwy ystyried sut y byddai prosiect o'r fath yn alinio â blaenoriaethau lleol y Cyngor a'r fframwaith polisi cenedlaethol ehangach.

Y Farchnad Dai

Daw llawer o'r dystiolaeth sydd ar gael o dueddiadau yn y farchnad dai, ac yn enwedig, y mater o fforddiadwyedd tai. Er ei bod yn wir bod fforddiadwyedd tai yn effeithio ar bob awdurdod lleol yng Nghymru, mae'n fater sy'n her neilltuol yng Ngheredigion oherwydd y galw cyson uchel, stoc cyfyngedig¹ ac enillion is na'r cyfartaledd. Er enghraifft, mae'r Gymhareb Fforddiadwyedd Tai, sef y gymhareb rhwng canolrif pris tŷ a chanolrif enillion blynyddol gros mewn lleoedd gwaith, wedi ymddangos yn gyson ymhlith yr uchaf yng Nghymru yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf ac nid yw erioed wedi disgyn yn is na'r 5 uchaf yn ystod y cyfnod hwnnw. Yn syml, mae cymhareb uchel yn golygu llai fforddiadwy ac i'r gwrthwyneb, felly mae'r tuedd hwn yn dangos un o nodweddion y farchnad yng Ngheredigion ar hyn o bryd. Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2020 yn dangos bod y tuedd hwn yn parhau, gan fod Ceredigion yn ymddangos ybedwerydd uchaf yn genedlaethol, fel y gwelir yn Ffigur 1.1 isod.

Ffigur.1.1: Cymhareb Fforddiadwyedd Tai

Y gymhareb rhwng canolrif pris tŷ a chanolrif enillion blynyddol gros mewn lleoedd gwaith



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Y gymhareb rhwng prisiau tai ac enillion mewn lleoedd gwaith

Mae'r galw am eiddo yng Ngheredigion wedi codi'n sylweddol hefyd yn ystod y 18 mis diwethaf ac mae prisiau cyfartalog tai yng Ngheredigion ar hyn o bryd yr uchaf ar gofnod, gan gyrraedd £228,032 erbyn

¹ Gweler Atodiad 1 am ffigyrau diweddaraf y stoc dai yng Ngheredigion


Tudalen 269

mis Medi 2021, gan godi o £185,484 ym mis Mawrth 2020. Yn y flwyddyn flaenorol (2019), arhosodd prisiau'n gymharol sefydlog rhwng £182,000 a £187,000. Fodd bynnag, yn union ar ôl dyfodiad y pandemig Covid-19, dechreuodd prisiau gynyddu wrth i'r galw am eiddo yn y sir dyfu, fel y gwelir yn Ffigur 1.2.

Ffigur.1.2: Pris Cyfartalog Eiddo yng Ngheredigion

Prisiau cyfartalog eiddo yng Ngheredigion ar gyfer eiddo o bob math

▼ £oedd



Cofrestrfa Dir EM, Mynegai Prisiau Tai, Medi 2021


Yn ystod y pandemig Covid-19, mae Ceredigion hefyd wedi profi rhai o'r lefelau cynnydd uchaf ym mhrisiau tai yn genedlaethol, sef cynnydd a oedd yn gyson uwch na 10% yn ystod 2021. Ers hynny, mae Cymru gyfan wedi gweld cynnydd mewn prisiau ac mae 'ffyniant y farchnad dai' yn debygol o barhau wrth i'r anghydwysedd rhwng y galw a'r cyflenwad barhau i wthio prisiau i fyny a rhoi pwysau ychwanegol ar y farchnad dai yn lleol ac yn genedlaethol.

Efallai fod maint y cynnydd yng Ngheredigion yn cael ei adlewyrchu'n well yn y newid canrannol blyneddol mewn prisiau, sy'n dangos bod prisiau eiddo yng Ngheredigion wedi cynyddu 15.7% ym mis Mawrth a mis Mai 2021, mewn cymhariaeth â dim ond deuddeng mis ynghynt. I roi hwn mewn perspectif, dyma'r cynnydd mwyaf yng Ngheredigion ers dros ddegawd. Mae Ffigur 1.3 yn dangos y cynnydd canrannol ym mhrisiau eiddo yng Ngheredigion dros gyfnod treigl o ddeuddeng mis ers dechrau 2019, ac mae'r cynnydd diweddar i'w weld yn amlwg o wanwyn 2020 ymlaen.

Ffigur.1.3: Newid Canrannol ym Mhrisiau Eiddo

Newid canrannol (blyneddol) ar gyfer pob math o eiddo yng Ngheredigion

▼ Canran



Cofrestrfa Dai EM, Mynegai Prisiau Tai, Medi 2021

Tudalen 270

Er mwyn rhoi'r pwysau y mae fforddiadwyedd yn ei roi ar y sawl sy'n bwriadu prynu yng Ngheredigion mewn persebectif, ac yn arbennig y pwysau mae'n ei roi ar brynwyr tro cyntaf, mae angen i ni hefyd ystyried enillion ac incwm cymharol. Mae gan rai ardaloedd yng Nghymru, er enghraifft Caerdydd, Casnewydd a Sir Fynwy eiddo â phrisiau uwch na'r cyfartaledd, ond mae'r enillion yno hefyd yn uwch na'r cyfartaledd. Fodd bynnag, y gwrthwyneb sy'n wir yng Ngheredigion – mae'r enillion cyfartalog yn is na'r cyfartaledd mewn cymhariaeth â gweddill Cymru, sef £22,028 sydd yn £1,637 yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol a'r trydydd isaf yn genedlaethol. Dangosir hyn yn Nhabl 1.1 sy'n cymharu enillion cymharol rhanbarth De Orllewin Cymru, ac fel y gellir gweld yn glir mae gan y rhanbarth yn ei gyfanrwydd enillion is na'r cyfartaledd.


Tabl 1.1: Cymharu Enillion Cyfartalog ar draws Rhanbarth De Orllewin Cymru

Ardal	Tâl gros blynyddol (Canolrif)	Tâl gros blynyddol (Cymedr)
Ceredigion	£22,028	£24,412
Sir Gâr	£23,669	£27,250
Sir Benfro	£22,062	£26,466
Powys	£22,534	£24,244
Abertawe	£23,164	£25,227
Cymru	£23,665	£26,805
Y Deyrnas Unedig	£25,780	£31,590
Ceredigion fel % o Enillion yng Nghymru	93%	91%
Y Gwahaniaeth rhwng Ceredigion a Chymru	-£1,637	-£2,393

Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Arolwg Blynyddol Oriau ac Enillion, Tabl 8.7a Tâl gros blynyddol ar gyfer swyddi cyflogaion yn ôl eu man preswyl.

Un o'r nodweddion a gysylltir yn aml ag economïau gwledig yn bennaf yw enillion is na'r cyfartaledd. Pan gaiff lefel yr enillion blynyddol cyfartalog ei mapio ochr yn ochr â phrisiau eiddo, gwelwn fod Ceredigion yn bendant iawn yn y categori 'Prisiau Tai Uchel ac Enillion Isel' a bod gan y sir y gymhareb 'waethaf' rhwng prisiau tai ac enillion yn genedlaethol, h.y. y prisiau tai uchaf a'r enillion isaf, gweler Ffigur 1.4.

Ffigur 1.4: Prisiau cyfartalog tai mewn cymhariaeth ag enillion cyfartalog ledled Cymru



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Arolwg Blynyddol Oriau ac Enillion 2020
Cofrestru Dir EM, Mynegai Prisiau Tai, Medi 2021

Tudalen 271

Hyd yn oed pan ystyriwn 'incwm cyffredinol' o'i gymharu â phrisiau cyfartalog eiddo, yn hytrach na dim ond enillion, gwelir tuedd tebyg. Mae'n dangos bod Ceredigion yn un o'r siroedd lleiaf fforddiadwy yng Nghymru – mae incymau cyffredinol y sir yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ond mae prisiau tai y pedwerydd uchaf. Mae gan y sir hefyd y prisiau tai cyfartalog uchaf ymysg y siroedd sydd ag incwm cyffredinol is na'r cyfartaledd, ac ar hyn o bryd, nid yw'r incwm blynyddol cyfartalog ond yn cyfateb i 15.4% o brisiau tai y sir, yn genedlaethol yr ail isaf ar ôl Sir Fynwy, gweler Tabl 1.2. (Incwm cyffredinol yw incwm a ddaw nid yn unig o gyflogaeth am dâl, ond hefyd o bensïynau a buddsoddiadau eraill).

Tabl.1.2: Y Siroedd Mwyaf a Lleiaf Fforddiadwy yng Nghymru

	Pris cyfartalog eiddo	Incwm cymedrig	Incwm canolrifol
Blaenau Gwent	£116,221	£29,636	£23,340
Merthyr Tydfil	£128,360	£30,657	£23,950
Rhondda Cynon Taf	£135,729	£32,840	£25,854
Castell-nedd Port Talbot	£142,165	£32,478	£25,841
Caerffili	£164,404	£34,782	£27,849
Abertawe	£169,435	£34,666	£27,458
Pen-y-bont ar Ogwr	£176,352	£36,430	£29,287
Torfaen	£181,514	£35,699	£28,821
Sir Ddinbych	£181,532	£35,069	£28,119
Sir Gâr	£187,841	£34,821	£28,186
Wrecsam	£188,334	£35,458	£28,280
Gwynedd	£189,103	£33,397	£26,831
Sir y Fflint	£190,836	£38,994	£31,803
Conwy	£203,010	£36,286	£29,473
Casnewydd	£207,764	£36,682	£29,063
Sir Benfro	£208,309	£35,531	£28,841
Ynys Môn	£211,081	£36,035	£29,078
Powys	£217,509	£35,489	£28,770
Ceredigion	£228,032	£35,068	£28,595
Caerdydd	£239,580	£40,913	£33,209
Bro Morgannwg	£273,981	£43,365	£35,697
Sir Fynwy	£312,935	£45,193	£37,595

*Prisiau tai: Mynegai Prisiau Tai y DU Medi 2021, Cofrestrfa Tir EM
Incwm Cymedrig a Chanolrifol: CACI Paycheck 2020*

Pobl Ifanc a Phrynwyr Tro Cyntaf


Er bod y rhain yn faterion sy'n effeithio ar bob un ohonom, ers tro mae tystiolaeth wedi tynnu sylw at yr heriau penodol a wynebir gan bobl ifanc yn y farchnad dai leol yng Ngheredigion ac mae'n un o'r rhesymau pam mae rhai yn ystyried symud o'r ardal. Ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011, gwelwyd gostyngiad sylweddol ym mhoblogaeth Ceredigion, yn enwedig o ran y proffil oedran 16-64 oed. Yn gryno, mae Ceredigion wedi gweld ei phobl ifanc yn allfudo, yn rhannol oherwydd gostyngiad yn nifer y swyddi yn y sector cyhoeddus, sydd ar hyd yr amser wedi bod yn rhan bwysig o economi Ceredigion, ond hefyd maent wedi gadael er mwyn chwilio am gyfleoedd gyrfa a swyddi sy'n talu'n well.

Tudalen 272

Mae'r boblogaeth 18-24 oed, er enghraifft, wedi lleihau 3.7% , sy'n gyfystyr â 3,198 unigolyn yn ystod y cyfnod hwn a rhagwelir y bydd y tueddiadau hyn yn parhau. Rhaid nodi'n benodol y grŵp 20-29 oed. Rhagwelir y bydd y grŵp hwn yn lleihau 21% erbyn diwedd y degawd, sy'n gyfystyr â cholli 2,595 o bobl. Wrth gwrs, mae'r effaith yn fwy nag effaith economaidd yn unig, mae yna oblygiadau tymor hwy i ddiwylliant, iaith a demograffeg y bröydd Cymraeg.

Ym mis Ionawr 2020, ymgysylltodd Cyngor Sir Ceredigion â'i thrigolion iau ar faterion sy'n gysylltiedig â'r economi a chyflogaeth.² Rhoddai'r canfyddiadau gryn bwysau ar bwysigrwydd swyddi a thai yn yr economi leol, gan fod **cyfleoedd cyflogaeth** ac argaeledd **tai fforddiadwy** yn ddwy o'r tair prif flaenoriaeth a nodwyd, fel y gwelir yn Ffigwr 1.5 isod.


Ffigwr 1.5: Arolwg Economaidd Pobl Ifanc 2020 – Y Tair Prif Flaenoriaeth



Pan ofynnwyd yn uniongyrchol iddynt beth oedd eu bwriadau wedi iddynt adael yr ysgol neu addysg uwch, dywedodd mwy na thraean (38%) eu bod yn bwriadu gadael Ceredigion, gyda llai na chwarter yn dweud nad oeddent yn bwriadu gadael, gweler Ffigwr 1.6.

Ffigwr 1.6 Bwriadau Pobl Ifanc ar ôl cyfnod Ysgol/Addysg Uwch

'Wedi i chi orffen eich cyfnod yn yr ysgol neu mewn addysg uwch, ydych chi'n bwriadu gadael Ceredigion?'



Roedd themâu tebyg i'w gweld hefyd yn yr ymgynghoriad diweddar ar fersiwn ddrafft Strategaeth Economaidd Ceredigion yn ystod gaeaf 2020/21, gyda hygyrchedd a fforddiadwyedd tai ynghyd â'r angen i greu cyfleoedd i bobl ifanc wedi'u nodi'n amlwg yn yr adborth. Gweler detholiad o'r adborth hwnnw yn Nhabl 1.3 ar y dudalen nesaf.³ Nid yw'n syndod, felly, fod Strategaeth Economaidd newydd Ceredigion yn nodi'r tueddiadau hyn a'u bod yn dylanwadu'n drwm ar ei hymyriadau o fewn y thema 'Lle'.

² "Ymgynghoriad ar Ddatblygu Strategaeth Economaidd Newydd i Geredigion 2020-2035: Adroddiad Adborth". Cyngor Sir Ceredigion, 18 Chwefror 2020.

³ Ymgynghoriad ar Ddatblygu Strategaeth Economaidd Newydd i Geredigion 2020-2035: Adroddiad Adborth, Chwefror 2021.

Tabl 1.3: Detholiad o sylwadau a wnaed yn ystod yr Ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft y Strategaeth Economaidd ar gyfer Ceredigion 2020-35

"Rwy'n cytuno'n gryf â'r angen i ddenu pobl ifanc i aros yn yr ardal.."	"Mae angen cefnogi a helpu'r bobl sy'n byw yma ar hyn o bryd."
"Mae cadw pobl ifanc mewn ardaloedd gwledig yn hanfodol os yw Ceredigion i gynnal diwydiant amaethyddol cynhyrchiol a chystadleuol. Mae'n hollbwysig bod y genhedlaeth nesaf yn cael y cyfleoedd i weithio ar ffermydd a datblygu eu sgiliau wrth iddynt adeiladu eu gyrfaoedd ym meysydd bwyd a ffermio, ond er mwyn i hyn digwydd, mae'n rhaid cael tai gwledig fforddiadwy yn eu mannau gwaith."	"Mae'n rhaid ystyried opsiynau tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig yn ogystal ag mewn trefi a phentrefi."

Ffynhonnell: Ymgynghoriad ar Ddatblygu Strategaeth Economaidd Newydd i Geredigion 2020-2035: Adroddiad Adborth, Chwefror 2021.

Effaith Covid-19

Mae'r pandemig Covid-19 a'r cyfnodau clo a ddaeth yn ei sgil yng Nghymru wedi chwarae eu rhan hefyd yn yr angen cynyddol i gymryd camau i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir er mwyn cael mynediad at y farchnad dai. Dwy o'r prif themâu sy'n datblygu o'r pandemig yw'r ffordd y mae'r pandemig wedi effeithio'n anghymesur ar bobl ifanc, yn enwedig yn nhermau swyddi a'r ffordd y mae'r pryderon ynghylch fforddiadwyedd tai wedi gwaethygu yn ei sgil. Mae'r ddwy thema yn cael eu monitro'n rheolaidd gan 'Is-grŵp Tlodi' Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.

Er enghraifft, mae'r cynnydd yn y galw am eiddo yng Ngheredigion ers dechrau'r pandemig a'r cynnydd a ddilynodd ym mhrisiau tai yn amlgu'r drafferth y mae llawer o brynwyr tro cyntaf yn ei hwynebu wrth geisio cael troed ar yr ysgol dai. Er bod Cymru gyfan yn gweld ffyniant yn y farchnad dai, mae'r twf yn y rhanbarthau mwy gwledig a'r rhanbarthau arfordirol yn ystod y pandemig wedi bod yn un dwfn - mae Sir Gâr, Ceredigion, Gwynedd ac Ynys Môn i gyd wedi gweld twf arwyddocaol yn ystod y cyfnod hwn. Pan oedd yr ail glo yn ei anterth ym mis Rhagfyr 2020, am y tro cyntaf cododd prisiau cyfartalog tai yng Ngheredigion i fod yn uwch na £200,000, gan fynd heibio'r uchafswm blaenorol a nodwyd ychydig cyn argyfwng ariannol byd-eang 2008/09. Yn ystod 2020, gwelodd Cymru hefyd y cynnydd mwyaf yn yr ernes a dalwyd gan brynwyr tro cyntaf ar draws holl ranbarthau'r Deyrnas Unedig, sef 25%. Yn nhermau arian parod, roedd hwn yn gynnydd o £6,634, er bod nifer y prynwyr tro cyntaf yng Nghymru hefyd wedi gostwng o 15,890 i 12,190 rhwng 2019 a 2020, gweler Atodiadau 2 a 3.

Y Cyswllt ag Asesiad Llesiant Lleol Ceredigion


Yn ystod haf 2021, ymgysylltodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn helaeth ag unigolion a chymunedau Ceredigion ynglŷn â phob agwedd ar lesiant, er mwyn cynorthwyo yn y broses o gyflawni fersiwn ddrafft Asesiad Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd yr ymgysylltiad yn cynnwys arolwg llesiant, gweithgareddau a gweithdai rhanddeiliaid, a dangosodd y canlyniadau'n glir iawn pa mor bwysig yw'r cyfleoedd am dai fforddiadwy i lesiant unigolion. Dangosodd hefyd y modd y mae'r mater hwn yn gyflym iawn wedi hawlio lle uwch ar agenda'r sir yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Er enghraifft, pan ofynnwyd pa dri pheth yr oeddent yn eu gwerthfawrogi fwyaf o ran Ceredigion Ffyniannus, yr hyn a nodwyd gan fwyafrif (61%) y rhai rhwng 17 a 24 oedd y *cyfleoedd am dai fforddiadwy* a gosodwyd y mater hwn yn uwch nag incwm sefydlog a chyflog byw. Pwysleisiwyd

Tudalen 274


pwysigrwydd y gallu i ddod o hyd i lety boddhaol a fforddio llety o'r fath i'r categori oedran hwn, gan y ffaith fod y ganran yn sylweddol uwch na'r canlyniad ar gyfer pawb a atebodd, sef 47% (Ffigwr 1.7).

Ffigwr.1.7: Pa dri pheth ydych chi'n eu gwerthfawrogi fwyaf mewn cymuned ffyniannus?



Wrth edrych tua'r dyfodol, nododd y rhai rhwng 17 a 24 oed mai prinder *tai fforddiadwy* oedd eu pryder pennaf o safbwynt Ceredigion Ffyniannus (ochr yn ochr â'r cyfleoedd am swyddi addas), gweler Ffigwr 1.8.

Ffigwr 1.8: Wrth edrych tua'r dyfodol, beth ynghylch ffyniant y sir sy'n peri'r pryder pennaf i chi?



Mae'r sylwadau ysgrifenedig a gafwyd yn yr ymgysylltiad yn cynnig goleuni pellach ar rai o'r materion hyn. Pwysleisiodd rhai pobl yr angen am gymorth ychwanegol i brynwyr tro cyntaf, tynnodd eraill sylw at yr angen am fwy o dai fforddiadwy, a chanolbwyntiodd rhai ar yr angen am lety fforddiadwy ar rent a nododd eraill eu pryder am ail gartrefi a thai gwyliau yn y sir. Dangosir detholiad o'r sylwadau hyn yn Nhabl 1.4..


Tabl 1.4: Detholiad o'r Sylwadau a gafwyd yn yr Arolwg Llesiant

<p>"Hoffwn fynd i fyw i dŷ rhatach i'w brynu a'i gadw ond nid oes lleoedd o'r fath ar gael. Mae angen tai fforddiadwy ar gyfer pobl 50+ yn ogystal â'r ifanc – 'tai cyntaf ac olaf' "</p>	<p>"Mae rhai tai yn y pentref wedi dyblu mewn pris yn ystod y 4 blynedd diwethaf. Ar yr adegau hynny pan fyddant ar werth neu pan fo tenantiaid yn gadael, maent yn cael eu troi'n dai gwyliau neu'n llety Air BnB."</p>
<p>"Os na fyddwch yn atal pobl rhag prynu'r holl eiddo ar gyfer ail gartrefi/llety gwyliau, ni fydd unrhyw angen am eich cynlluniau. Ni fydd gan bobl ifanc le i fyw ac ni fydd pobl hŷn yn gallu prynu tai llai er mwyn rhyddhau tai ar gyfer pobl ifanc/teuluoedd."</p>	<p>"Cynigiwch gynlluniau ariannu i helpu prynwyr tro cyntaf i brynu cartref yn yr ardal – mae gormod o dai yng Nghymru yn cael eu gwerthu i bobl o'r tu allan i'r ardal ac mae hynny'n niweidiol i'r iaith a'r cymunedau."</p>
<p>"Os ydym ni wir am adeiladu cymdeithas decach, bydd angen i ni sicrhau bod tai ar gael i bawb e.e. mae pob datblygiad newydd yn £150k+ tai sengl 2 lawr. Mae hyn yn ei gwneud hi'n arbennig o anodd i bobl o gefndiroedd gwahanol, oherwydd fel rheol nid ydynt yn gallu fforddio byw mewn ardal ddymunol ac maent yn cael eu gorfodi naill ai i symud o'r ardal neu stryffaglu i oroesi'n ariannol ac felly nid oes ganddynt yr amser na'r cyfle i integreiddio a rhannu eu diwylliant."</p>	<p>"Mae gwir angen llety sy'n fforddiadwy i'w rentu, yn arbennig llety o'r fath ar gyfer pobl sengl."</p>

Codwyd sylwadau tebyg drwy gydol yr ymgysylltiad ac maent yn cyfeirio'n sylw yn gryf at y ffaith bod tai fforddiadwy yn dod yn un o'r materion allweddol sy'n effeithio ar lesiant yn y sir, ynghyd â thlodi, newid yn y boblogaeth ac ymwybyddiaeth amgylcheddol. Yn wir, yn fersiwn ddrafft yr Asesiad Llesiant Lleol nodwyd mai costau uchel tai oedd un o brif sbardunau tlodi yng Ngheredigion.

Alinio â Blaenoriaethau Lleol a Chenedlaethol

Pe bai prosiect tai cymunedol yng Ngheredigion wedi'i alinio'n strategol, byddai'n gymorth i gyflawni blaenoriaethau lleol, Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor yn ogystal â'r Amcanion Llesiant a Gwella, ynghyd â fframwaith polisi ehangach yr Amcanion Llesiant Cenedlaethol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae rhai enghreifftiau o'r modd y mae'n alinio â strategaethau a deddfwriaeth allweddol wedi'u hamlinellu yn y paragraffau sy'n dilyn. Isod gwelir y themâu hirdymor sy'n gwau trwy bob un o'r dogfennau hyn, themâu y mae'r prosiect tai cymunedol wedi ei alinio â hwy:



Tudalen 276

Mae **Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2017-22** yn glir yn glân ag amcanion y cyngor o ran tai a'i ddealltwriaeth o'r materion, oherwydd o dan y flaenoriaeth Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd mae'n nodi'r amcanion canlynol:

- *"Mae'r lefelau diweithdra ynghyd â'r lefelau incwm isel wedi ei gwneud hi'n fwy anodd i bobl gael tai diogel a fforddiadwy." (tud.11)*
- *"Bydd y Cyngor yn cynyddu'r ffocws ar ein polisi tai fforddiadwy o safon er mwyn sicrhau bod stoc tai addas ar gael i ateb anghenion ein dinasyddion." (tud.11)*
- *"Y canlyniadau a geisir: Gwell dewis ac ansawdd tai lleol." (tud.12)*
- *"Sut byddwn yn gwybod i ni wneud gwahaniaeth? Bydd tai fforddiadwy a diogel ar gael i deuluoedd a chartrefi ag incwm is." (tud.12)*

Ni fydd yn syndod o gwbl ei fod hefyd yn alinio'n agos iawn â'r amcanion sydd yn y strategaeth newydd **Strategaeth Economaidd Ceredigion 2020-35**, sy'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar greu cyfleoedd i bobl, yn enwedig pobl iau, aros, byw a gweithio yn y sir. Mae'r amcanion sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth nid yn unig yn cydnabod darpariaeth tai fforddiadwy a hygyrch ond hefyd buddion cymdeithasol ac economaidd ehangach y cyfleoedd hyn:

- *"Creu cyfleoedd i gadw pobl ifanc yn y sir a chadw eu sgiliau yn y gweithlu" (tud.7)*
- *"Ein huchelgais yw gweld pobl ifanc sy'n dymuno aros a datblygu gyrfa yng Ngheredigion yn cael gwireddu'r cyfleoedd i wneud hynny" (tud.9)*
- *"Ein huchelgais yw gwrthdroi'r gostyngiad yn y boblogaeth ifanc ac o oedran gweithio, ac rydym eisieu gweld pobl Ceredigion yn gallu mynegi eu hunigrywedd yn hyderus mewn cymunedau cryf o ran hunaniaethau, diwylliant ac iaith." (tud.9)*
- *"Yr angen i ddarparu tai fforddiadwy a hygyrch sy'n diwallu anghenion demograffeg a gweithlu sy'n newid." (tud.12)*
- *"Bydd arloesedd wedi'i arwain gan fenter yn arwain at gyfleoedd gwaith newydd i bobl ifanc medrus sy'n cael eu haddysgu a'u hyfforddi yn ein hysgolion, ein colegau a'n prifysgolion." (tud.4)*
- *"Bydd pobl ifanc sy'n dymuno aros yng Ngheredigion, yn ogystal â'r rhai a allai fod eisieu dychwelyd i fyw a gweithio yma neu symud yma am y tro cyntaf, yn gweld Ceredigion fel lle llawn cyfleoedd." (tud.4)*

Diweddarwyd **Amcanion Llesiant a Gwella** y Cyngor yn 2020, er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar yr ymateb i'r pandemig Covid-19 a'r broses o adfer yn dilyn y pandemig, ond mae eu hamcanion o ran tai yn dal yn glir. Maent yn pwysleisio pwysigrwydd fforddiadwyedd a hygyrchedd i holl breswylwyr Ceredigion a'r effaith yn sgil hynny ar lesiant preswylwyr Ceredigion:

- *"3.1 ." Hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau o fewn cartrefi diogel, fforddiadwy a hygyrch*

Mae **Strategaeth Dai** Cyngor Sir Ceredigion, "Tai i Bawb 2018-2023", hefyd yn cydnabod bod costau uchel tai a chyflogau isel ynghyd â chyllid a fforddiadwyedd yn heriau penodol yng Ngheredigion. Ond mae'n mynd un cam ymhellach, drwy ddangos yr effaith ehangach y gall y materion hyn ei chael ar dreftadaeth ddiwylliannol y sir a phwysigrwydd darparu opsiynau tai i bobl ifanc. Dyma'r thema graidd

Tudalen 277

a welir yn llawer o strategaethau'r Cyngor ac un sy'n ganolog i'r achos am gynllun tai cymunedol yng Ngheredigion:

- *"Mae cyflenwad ac argaeledd tai fforddiadwy hefyd wedi'i osod yng nghyd-destun y dirywiad presennol mewn siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion a'r rhan sydd gan dai wrth alluogi ein pobl iau yn arbennig, sydd wedi'u haddysgu trwy ein system addysg ddwyieithog leol, i aros yn y sir." (tud.3)*
- *"Bydd y Cyngor yn parhau â'i ymdrechion i sicrhau bod tai fforddiadwy ar gael yn y Sir fel bod pobl ifanc sy'n dymuno yn gallu sefydlu eu hunain yn y sir." (tud.23)*
- *"Nid datrysiad dros dro i bobl ifanc sydd am gynilo digon o arian i brynu eu tŷ eu hunain yw tai rhent preifat mwyach. O reidrwydd yn hytrach nag o ddewis, mae nifer gynyddol o drigolion Ceredigion bellach yn byw mewn tai rhent a byddant yn parhau i wneud hynny oni bai fod tai'n dod yn fwy fforddiadwy." (tud.27)*

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn glir bod "Cael cartref o ansawdd da sy'n cwrdd â'n hanghenion yn hollbwysig". Ym mis Mai 2020 cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gynllun pum pwynt a oedd yn tynnu sylw at fuddsoddiad i ategu Adferiad Gwyrdd o'r pandemig Covid-19 ac roedd yn cynnwys argymhellion i'r holl gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ganolbwyntio arnynt:

- Cynyddu'r cyflenwad o'r math cywir o dai fforddiadwy
- Ymateb i her yr Argyfwng Tai
- Tai fel sbardun llesiant ehangach
- Gwella'r ffordd yr ydym yn cynllunio, dylunio ac adeiladu tai
- Datgarboneiddio ein cartrefi

Mae rhan greiddiol o'r cynllun hwn yn cydnabod yr effaith benodol ar bobl iau a'r heriau y maent yn eu hwynebu'n barhaus yn y broses o ddod yn berchnogion tai, ac ar yr un pryd yn adlewyrchu'r newidiadau demograffig tymor hwy a fydd yn rhoi mwy o bwysau ar y stoc dai yng Nghymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol:

*"Oherwydd y cynnydd sylweddol ym mhrisiau tai a rheolau benthyca llymach ers 2008, nid yw llawer o bobl ifanc yn gallu fforddio prynu cartref eu hunain. O ganlyniad, ni allant adael cartref eu teulu neu maent yn cael eu gyrru i lety ar rent preifat. Mae tystiolaeth yn dangos ei bod yn annhebygol y bydd pobl ifanc yn gallu prynu tŷ heb gymorth eu rhieni ac mae un o bob pump o bobl ifanc yn y Deyrnas Unedig wedi syrffio-soffa yn 2017 gyda bron i hanner ohonynt wedi gwneud hynny am fwy na mis. Yn y cyfamser mae mwy a mwy o aelwydydd wedi dod yn aelwydydd deiliadaeth sengl oherwydd cynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio."*⁴

Wrth osod y weledigaeth ar gyfer cartrefi yn 2050, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn canolbwyntio ar gynnwys pobl leol yn y broses o sbarduno cyfleoedd newydd ar gyfer tai. " Mae pobl a chymunedau yn chwarae rhan effeithiol mewn sut, beth a ble mae cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu. "⁵ Mae cynlluniau tai cymunedol yn cynnig un dull o'r fath o fynd i'r afael â'r materion hyn, drwy ddarparu mecanwaith i bobl leol chwarae rôl ganolog wrth greu tai sy'n bodloni eu hanghenion yn *uniongyrchol*. Ar hyn o bryd mae nifer o gynlluniau sydd eisoes yn weithredol ledled Cymru, gan

⁴ "Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020: Gadewch i ni greu'r dyfodol gyda'n gilydd". Comisiynydd Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru. 2020. 17.

⁵ "Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020: Gadewch i ni greu'r dyfodol gyda'n gilydd." Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru. 2020. 7.

gynnwys yn siroedd cyfagos Gwynedd a Phowys. Er bod cynlluniau tai cymunedol yn amrywio'n fawr, y cynsail bob amser yw rhoi pobl a chymunedau wrth galon y cynllun a'r diben. Mae rhai o'r ffyrdd y mae'r cynlluniau hyn yn alinio gyda'r modd y cyflawnir blaenoriaethau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn eu hategu wedi eu dangos yn Ffigwr 1.8, tra bo Atodiad 4 yn manylu ar y cyfeiriadau llawn at flaenoriaethau tai yn adroddiad y Comisiynydd.

Ffigwr 1.8: Alinio Cynlluniau Tai Cymunedol wrth gyflawni Blaenoriaethau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n ymwneud â Thai



Blaenoriaethau'r Comisiynydd sy'n ymwneud â Thai	Sut y gallai cynllun tai cymunedol gynorthwyo i gyflawni blaenoriaethau'r Comisiynydd sy'n ymwneud â Thai
Cynyddu'r cyflenwad o'r math cywir o dai fforddiadwy	<p>*Mae tai sydd yn wirioneddol fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu yn golygu nad yw cymunedau'n cael eu dadleoli, gall pobl ifanc gael sicrwydd, mae siopau ac ysgolion pentrefi yn aros ar agor. Gan y gall prisiau eiddo gael eu diogelu am byth, bydd cenedlaethau'r dyfodol yn elwa hefyd.</p> <p>*Mae cartrefi sy'n cael eu dylunio gan bobl leol yn cael eu hadeiladu, gan ystyried eu ffrindiau a'u cymdogion ac nid elw. Maent wir yn ystyried beth sydd ei angen go iawn ar bobl, er mwyn byw yn hapus ac yn annibynnol.</p> <p>*Mae tai sydd dan arweiniad y gymuned ar gyfer pawb. Maent yn cael eu hadeiladu gan ystyried pobl, bywyd bob dydd, yr amgylchedd a dyfodol mwy cynaliadwy.</p> <p>*Drwy greu'r cyfle i bobl aros yn eu hardal leol, maent yn gwella llesiant y gymuned a llesiant unigolion ac yn cyfrannu at ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol.</p>
Ymateb i her yr Argyfwng Tai	
Tai fel sbardun llesiant ehangach	
Gwella'r ffordd yr ydym yn cynllunio, dylunio ac adeiladu tai	
Datgarboneiddio ein cartrefi	

Yn dilyn etholiad y Senedd ym mis Mai 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **'Rhaglen Lywodraethu'**⁶, gan nodi'r ymrwymadau sydd i'w cyflawni yn ystod y pum mlynedd nesaf. Yn ogystal â diwygio gwasanaethau digartrefedd, maent yn gweld cyfatebiaeth gref rhwng tai ac iaith ac maent wedi addo cyflawni **Cynllun Tai mewn Cymunedau Cymraeg** fel rhan o hyrwyddo'r broses o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg a diogelu diwylliant a threftadaeth y genedl ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn ogystal, maent yn bwriadu cynnig cefnogaeth uniongyrchol i fentrau **tai cydweithredol, dan arweiniad cymunedau** ac ymddiriedolaethau tir cymunedol, fel rhan o'r addewid i wneud dinasoedd, trefi a phentrefi Cymru yn llefydd gwell i fyw a gweithio ynddynt. Mae'r ddau ymrwymiad hyn yn sicrhau y bydd mynd i'r afael â'r heriau tai a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn parhau i gael y lle blaenaf yn y polisi cenedlaethol yn ystod y tymor nesaf a hefyd yn dangos sut mae manteision tai cymunedol yn alinio'n agos gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Casgliad

Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn yn amlinellu rhai o'r prif heriau sy'n wynebu llawer o bobl ifanc a phrynwyr tro cyntaf yng Ngheredigion wrth geisio dod o hyd i lety addas a phrynu i mewn i'r farchnad dai. Mae tueddiadau diweddar ac yn arbennig y cynnydd yn y galw am eiddo yn y sir wedi ei gyfuno â chyflenwad cyfyngedig, wedi creu 'ffyniant yn y farchnad dai' gyda phrisiau tai yn cyrraedd y lefelau uchaf erioed. Mae'r dystiolaeth bod angen cefnogaeth bellach yn glir, yn enwedig o safbwynt fforddiadwyedd a chreu cyfleoedd i bobl fyw ac aros yn y sir. Mae mynd i'r afael â'r materion hyn drwy gynlluniau megis cynlluniau tai dan arweiniad y gymuned yn alinio'n agos â blaenoriaethau tai lleol y Cyngor a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

⁶ "Llywodraeth Cymru: Rhaglen Lywodraethu". Caerdydd, 2021.

Atodiad 1: Stoc anheddau yng Ngheredigion

Amcangyfrifon o stoc anheddau yr Awdurdod Lleol a daliadaeth	Nifer	%
Awdurdod Lleol*	0	0%
Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	3,352	9%
Dan feddianaeth y perchennog	26,402	74%
Wedi'u rhentu'n breifat	5,906	17%
Pob daliadaeth	35,660	100%

*Trosglwyddwyd stoc yr Awdurdod Lleol i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig Tai Ceredigion, 30 Tachwedd 2009
Ffynhonnell: StatsCymru, Amcangyfrifon stoc anheddau fesul awdurdod lleol a daliadaeth

Atodiad 2: Yr ernes gyfartalog a wnaed gan brynwyr tro cyntaf

Yr ernes a wnaed gan brynwyr tro cyntaf	Yr ernes a wnaed gan brynwyr tro cyntaf		Y cynnydd yn yr ernes a wnaed gan brynwyr tro cyntaf mewn cymhariaeth â 2019	
	2019	2020	%	Mewn termau arian
Y Gogledd-ddwyrain	£23,788	£29,563	24%	£5,775
Swydd Efrog a'r Humber	£28,008	£33,313	19%	£5,305
Y Gogledd-orllewin	£29,519	£34,347	16%	£4,829
Dwyrain Canolbarth Lloegr	£33,268	£39,052	17%	£5,783
Gorllewin Canolbarth Lloegr	£34,008	£42,062	24%	£8,054
Dwyrain Anglia	£43,474	£51,126	18%	£7,652
Cymru	£26,029	£32,663	25%	£6,634
Y De-orllewin	£42,504	£51,397	21%	£8,893
Y De-ddwyrain	£54,654	£64,910	19%	£10,256
Llundain	£110,145	£130,357	18%	£20,211
Gogledd Iwerddon	£25,327	£29,523	17%	£4,196
Yr Alban	£30,101	£35,745	19%	£5,644

Ffynhonnell: Halifax, 12 mis i Ragfyr 2020, Cyllid y DU⁷

⁷ <https://www.lloydsbankinggroup.com/media/press-releases/2021/halifax/soaring-house-prices-failed-to-deter-first-time-buyers-2020.html>

Atodiad 3: Nifer y prynwyr am y tro cyntaf

	2010	2015	2019	2020
Y Gogledd	8,060	13,120	16,010	13,985
Swydd Efrog a'r Humber	14,800	23,660	29,950	25,683
Dwyrain Canolbarth Lloegr	13,220	21,700	27,210	23,894
Dwyrain Anglia	6,920	10,230	12,420	11,006
Llundain Fwyaf	33,370	42,510	40,720	38,320
Y De-ddwyrain	38,030	59,700	68,070	60,960
Y De-orllewin	15,030	24,110	28,210	24,588
Gorllewin Canolbarth Lloegr	15,230	24,590	31,460	26,400
Y Gogledd-orllewin	18,870	29,680	37,900	33,113
Cymru	7,880	12,550	15,890	12,190
Yr Alban	17,170	28,430	32,530	25,826
Gogledd Iwerddon	4,550	7,790	10,790	8,347
Y Deyrnas Unedig	193,940	298,080	351,260	304,657

Ffynhonnell: Amcangyfrif Cyllid y DU a Halifax ar gyfer 2020⁸

Atodiad 4: Cyfeiriadau Pellach at Gefnogi Tai Cymunedol yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 – Pennod 5 – Meysydd Ffocws – Tai⁹

"Mae'r ffocws o'r newydd ar dai ar draws y Deyrnas Unedig, ac mae'n cael ei yrru gan y cyhoedd yn ogystal ag arweinyddiaeth wleidyddol. Mae hyn oherwydd yr angen, yn amlwg, i ddatgarboneiddio ein cartrefi i gyrraedd targedau allyriadau. Ond hefyd oherwydd bod prinder tai yn effeithio ar lawer mwy o bobl nag o'r blaen - mae anfforddiadwyedd, diffyg tai cymdeithasol, y sector rhentu preifat ansicr a digartrefedd yn faterion sydd wedi dod yn fwy gweladwy a gellir dadlau eu bod wedi codi oherwydd bod cynllunio a meddwl hirdymor a ffocws ar atal problemau rhag digwydd wedi bod yn absennol neu heb ei wneud yn effeithiol."

Tueddiadau i'w gwyllo:

- Mae nifer yr aelwydydd yr aseswyd eu bod yn ddigartref yng Nghymru wedi cynyddu rhywfaint.
- Mae nifer yr aelwydydd sydd dan fygythiad o ddigartrefedd yng Nghymru hefyd wedi cynyddu.
- Mae nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd yng Nghymru wedi cynyddu 17% yn y flwyddyn ddiwethaf.
- Bu cynnydd ym maint y gwelyau sy'n cael eu cynnig i rai sy'n cysgu ar y stryd gan awdurdodau lleol.
- Mae nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd yn gostwng- mae wedi gostwng o 332,000 o aelwydydd yn 2008 i 155,000 yn 2018. Mae hyn yn ostyngiad o 14 pwynt canran o 26% yn 2008 i 12% yn 2018.
- Mae'r sector rhentu preifat yng Nghymru wedi mwy na dyblu mewn maint ers 2001.

⁸ <https://www.lloydsbankinggroup.com/media/press-releases/2021/halifax/soaring-house-prices-failed-to-deter-first-time-buyers-2020.html>

⁹ "Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020: Gadewch i ni greu'r dyfodol gyda'n gilydd." Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru. 2020.

Tudalen 281

- Roedd **nifer** yr aelwydydd mewn llety dros dro yng Nghymru wedi cynyddu 8% rhwng 2018 a 2019. Dyma'r cynnydd uchaf ers cyflwyno Deddf Tai (Cymru) ym mis Ebrill 2015.
- Mae **nifer** yr aelwydydd yn cynyddu'n gyflymach na nifer yr eiddo sydd ar gael.
- Mae'r pwysau cynyddol i ateb y galw am dai wedi arwain at adeiladu **nifer** cynyddol o gartrefi newydd mewn ardaloedd sy'n wynebu perygl llifogydd.
- Nid yw stoc tai Cymru yn **cynyddu** gyda'r cyflymder sydd ei angen i ateb y galw – bob blwyddyn mae llai na hanner y cartrefi newydd sydd eu hangen arnom yn cael eu hadeiladu
- **Gweithlu** sy'n heneiddio gyda 22% o'r gweithwyr dros 50 oed, a llif gwael o bobl ifanc yn ymuno â'r proffesiwn.
- Daw tua 8% o **allyriadau** Cymru o dai ar hyn o bryd, ac mae 97% ohono'n deillio o'r tanwydd a ddefnyddir ar gyfer gwresogi a choginio. Mae hyn yn ostyngiad o 34% ers 2005.
- Gostyngodd allyriadau o'r sector adeiladu bron i draean rhwng 1990 a 2016 ond mae cyflymder y gostyngiad pellach yn y blynyddoedd diwethaf wedi arafu ac mae'n bosibl ei bod yn **gwrthdroi** hyd yn oed.

Rhagfynegiadau ar gyfer dyfodol posibl:

- **Disgwyllir** i fwy na 90% o stoc heddiw barhau i gael ei defnyddio gan 2050.
- Fe amcangyfrifir y bydd **nifer** yr aelwydydd yng Nghymru yn tyfu'n gyflymach na'r boblogaeth gyffredinol. Byddai hyn yn arwain at feintiau aelwydydd llai. Rhagwelir y gwelir cynnydd o fwy na 30% yn nifer yr aelwydydd un person yn yr 20 mlynedd nesaf.
- Ar y llaw arall, mae'n debygol y bydd **llai** o dir addas ar gael i'w ddatblygu gan fod gorlifdiroedd a thir isel arall yn gynyddol dueddol o ddiroedd o lifogydd.
- Rhagwelir y bydd **nifer** yr ail gartrefi ac anheddau gwag yn parhau i gynyddu gyda 11,000 o dai mewn gyfanswm o 2031, a fydd, yn eu tro, yn arwain at ostyngiad yn nifer yr anheddau sydd ar gael ar gyfer y cynnydd a ragwelir yn y galw mewn aelwydydd.
- Mae technoleg gynaliadwy glyfar a gofodau amlbwrpas ar **gynydd** ac yn debygol o ddod y norm yn y 30-40 mlynedd nesaf.
- Mae **newidiadau** cyffredinol mewn ymddygiadau byw cenedlaeth bellach yn golygu y bydd yn rhaid i dai fod yn fannau hyblyg a all ddal poblogaeth sy'n heneiddio'n gyffyrddus.

Y weledigaeth ar gyfer ein cartrefi yn 2050 – cymunedau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

- Bydd Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus yn parhau i weld tai fel mater o flaenoriaeth, gan sicrhau y bod digon o adnoddau ar gael i gynlluniau, datblygu ac i ddarparu'n effeithiol i greu cartrefi a chymunedau sydd eu hangen yn y dyfodol.
- Mae cyllidebau traws-lywodraeth yn sicrhau y bydd digon o gartrefi fforddiadwy, sy'n diwallu anghenion ein poblogaeth a systemau effeithiol i alluogi pobl i gael mynediad atynt, gan leihau digartrefedd yng Nghymru.
- Byddwn wedi ailwampio ac ail-bwrpasu adeiladau gwag gan helpu i ddod â'r 27,000 o gartrefi gwag yng Nghymru ar hyn o bryd yn ôl. (Cymru sy'n Fwy Cyfartal, Cymru Iachach, Cymru o Gymunedau Cydlynus a Chymru Lewyrchus).
- Mae pobl a chymunedau yn chwarae rhan effeithiol mewn sut, beth a ble mae cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu. Mae mynediad i ystod ehangach o opsiynau tai, wedi'u cefnogi gan newid diwylliant yng Nghymru sy'n ehangu barn pobl am sut a ble i fyw.
- Mae'r sector rhentu preifat yn fwy fforddiadwy, proffesiynol a dibynadwy, ac mae'r ddeddfwriaeth gysylltiedig yng Nghymru yn rhoi'r diogelwch sydd ei angen ar denantiaid i weld rhentu fel opsiwn ymarferol. Mae yna ystod eang o fathau o dai. Mae hyn yn cynnwys preswylfeydd rhwng cenedlaethau, cyd-fyw (ystafell breifat a

Tudalen 282

lleoedd / cyfleusterau a rennir) a chyd-gartrefu (cartref preifat a lleoedd / cyfleusterau a rennir), lleihau arwahanrwydd ac unigrwydd i'r niferoedd cynyddol o bobl sengl a hŷn. (Cymru Iachach).

- Mae tai ar draws pob deiliadaeth o safon ansawdd gyson. (Cymru sy'n Fwy Cyfartal) Mae gan gartrefi safonau gofod mwy hael a strwythurau mewnol y gellir eu haddasu i wneud y defnydd gorau o ofod ac i addasu i bobl sy'n newid anghenion a ffyrdd o fyw, gan fod ein poblogaeth yn treulio mwy o amser yn eu cartrefi (gan gynnwys gweithio gartref) a llai mewn tagfeydd traffig ac mewn swyddfeydd. (Cymru o Gymunedau Cydlynus).
- Mae tai, trafndiaeth a chynllunio wedi'u hintegreiddio er mwyn sicrhau bod gan bobl fynediad i fannau gwyrdd, gwasanaethau a chyfleusterau hamdden yn lleol. Dyluniwyd cymunedau i adlewyrchu treftadaeth yr ardal a helpu i gysylltu pobl â gweithgareddau diwylliannol yr ardal. (Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu). Mae pob datblygiad tai yn cynnwys buddion amgylcheddol, megis lle ar gyfer natur, cynhyrchu ynni adnewyddadwy, a rheoli dŵr ac mae'n cynnig amgylcheddau cydnerth â chysylltiad da i bawb yng Nghymru. (Cymru Gydnerth)
- Mae tai yn cael eu cefnogi gan, ac wedi'u hintegreiddio â system gynllunio fodern sy'n unol â Pholisi Cynllunio Cymru 10. Mae hyn yn ystyried y ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach o fewn ardal gynllun er mwyn sicrhau bod lleoedd cynaliadwy a chymunedau cydlynus yn cael eu creu. Mae'r system gynllunio yn ystywyth ac yn flaengar, gan ystyried anghenion tai poblogaeth heddiw ac yn y dyfodol ar gyfer ardaloedd lleol. Mae tir ar gael ar gyfer adeiladu tai ar gyfer y math o ddeiliadaeth sy'n ofynnol ac ar gyfer y math cywir o dai, yn y lleoedd iawn - yn agos at amwynderau lleol, cysylltiadau trafndiaeth a lleiniau hygyrch ar gyfer tir a chyfleoedd datblygu i fusnesau bach a chanolig. (Cymru Lewyrchus).
- Mae ein cartrefi yn defnyddio ynni'n effeithlon a charbon bositif gadarnhaol ac yn cynhyrchu eu trydan eu hunain - bydd rhai wedi'u yn cael eu gorchuddio â phaent solar sy'n cynhaeafu ynni o'r haul. Maent hefyd yn gallu gwrthsefyll hinsawdd sy'n newid gyda thywydd eithafol. Mae mwy o adeiladau 'yn casglu dŵr glaw ac yn rheoli eu defnydd dŵr eu hunain. Yn bwysicaf oll, mae ein cartrefi yn rhan o gymuned sydd â chysylltiad da. (Cymru Lewyrchus, Cymru Gydnerth a Chymru o Gymunedau Cydlynus) Oherwydd mwy o effeithlonrwydd ynni a systemau ynni adnewyddadwy, mae ynni bron yn rhad ac am ddim, ac felly'n lleihau tlodi tanwydd. (Cymru sy'n Fwy Cyfartal).
- Mae tai yn lleihau, ac yn y pen draw dileu allyriadau yn ei sector ei hun - mae'n helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau cyffredinol o sectorau eraill trwy ddewisiadau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd fel seilwaith gwyrdd, deunyddiau cynaliadwy a chadwyni cyflenwi lleol. (Cymru Lewyrchus, Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang).
- Mae'r sector adeiladu yn buddsoddi mewn datblygu sgiliau a ffyrdd newydd o weithio, gan gynyddu adnoddau sgiliau yng Nghymru ac yn lleol. (Cymru Lewyrchus).
- Mae tai o ansawdd uwch yn gwella iechyd pobl a lles, gyda sgil-fanteision i wasanaethau cyhoeddus, megis y GIG, a fydd yn gweld lleihad sylweddol mewn damweiniau, argyfyngau a problemau iechyd gydol oes a achosir gan dai o ansawdd gwael. Mae economi gylchol wedi'i hymgorffori, gan leihau gwastraff, arbed arian a gwella cysylltiadau rhwng pobl. (Cymru sy'n Gyfrifol ar lefel Fyd-eang, Cymru Iachach).
- Mae technoleg wedi'i hintegreiddio ledled ein cartrefi gan wneud bywyd yn haws, yn enwedig i'r rheini ag anghenion cymorth ychwanegol. Mae'r dechnoleg gynyddol, ynghyd â thu mewn y gellir ei addasu, yn galluogi pobl i fyw'n annibynnol am fwy o amser, gan leihau'r galw ar wasanaethau cymorth y wladwriaeth. (Cymru Iachach a Chymru sy'n Fwy cyfartal).

Heriau a Chyfleoedd i newid

Yr hyn sydd ei angen ar genedlaethau'r dyfodol:

Tudalen 283

Mae ar genedlaethau'r presennol a'r dyfodol angen am fwy o dai o ansawdd uchel, carbon isel, gwirioneddol fforddiadwy, mewn cymunedau cysylltiedig, sy'n diwallu anghenion y boblogaeth leol ac yn gwella'r amgylchedd lleol. Mae angen gwneud hyn yn gyflym ac ar raddfa fawr - gyda'r ffocws yn symud o adeiladu tai i adeiladu cymunedau. Mae cynigion fel Parc Hadau, 'Cartrefi Sero Homes' neu'r 'Datblygiad Defnydd Cymysg Byw Bioffilig' yn dangos i ni yr hyn y gallem fod yn anelu ato.

Mae arnom angen i bawb yng Nghymru gael cartref digonol. Mae hyn yn ymwneud â chydweithio ac ailddyrrannu'r stoc bresennol. Mae angen cysondeb ymarfer ar draws pob rhan o Gymru ac nid o reidrydd adnoddau ychwanegol. Mae angen i dai ddod yn wasanaeth statudol fel addysg ac iechyd, fel arall bydd yn cymryd sedd gefn a bydd dyraniad tai yn parhau i ymateb i argyfyngau.

Dylai datblygiadau gael eu cynllunio gyda, neu o amgylch amwynderau eraill, gwasanaethau a (yn fwy pwysig) trafndiaeth gyhoeddus, gan gofleidio y cysyniad o greu lleoedd (gweler yr adran ar Gynllunio Defnydd Tir) ac yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru 10.

Mae hyn yn datgan bod "cynllunio effeithiol yn cefnogi ac yn galluogi darparu amrywiaeth o gartrefi sydd wedi'u dylunio a'u lleoli'n dda ac sydd â chysylltiad da â chanolfannau manwerthu a masnachol sy'n bodoli'n barod yng nghanol ein cymunedau a chyfleoedd gwaith."

Rhaid i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi carbon isel fforddiadwy, digonol mewn cymunedau cydlynol barhau i fod yn flaenoriaeth polisi yn yr hirdymor. Mae angen i ni ddeall y materion a gyfrannodd at brinder tai cyfredol yn y lle cyntaf i'w hatal rhag digwydd eto, er enghraifft, cyllidoli tai a thir ar raddfa fawr, a systemau tai sy'n trin tai fel nwyddau. Mae angen i Lywodraeth Cymru gynnal monitro parhaus i gadw i fyny â thueddiadau ac anghenion newidiol y boblogaeth a'r hinsawdd.

Lle'r ydyn ni nawr:

[Gwnaeth ymchwil a gyhoeddwyd yn 2019 gan Tai Pawb](#), Sefydliad Siartredig Tai Cymru a Shelter Cymru gadarnhau bod 'Cymru, fel gwledydd datganoledig eraill, yn profi nid yn unig lefelau uchel o ddigartrefedd, cynnydd mewn cysgu ar y stryd, ond hefyd prinder tai fforddiadwy, diffyg difrifol o lety addas wedi'i addasu ar gyfer pobl anabl, diffyg sicrwydd deiliadaeth a phroblemau gyda lletyau llai safonol.'

Gwaethygir y problemau gyda'r cyflenwad gan nifer yr eiddo a ragamcanir mewn datblygiadau cynllunio gan awdurdodau lleol a'r nifer a adeiladwyd mewn gwirionedd. [Yn ôl Stats Cymru](#), dros y degawd diwethaf, dylai datblygiadau sydd wedi'u cymeradwyo gan awdurdodau lleol fod wedi cyflenwi 13,355 o dai fforddiadwy. Fodd bynnag, dim ond 6,746 o'r rhain sydd wedi'u hadeiladu.

Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd person sengl yn codi dros 30% yn yr 20 mlynedd nesaf. Mae tueddiadau diweddar mewn adeiladu tai yn dangos [efallai na fydd nifer yr eiddo sydd ar gael yn cadw i fyny â'r cynnydd hwn mewn cartrefi](#). Gwaethygir sefyllfa ein cyflenwad tai fforddiadwy cyfyngedig, oherwydd er bod yr angen am dai yng Nghymru yn tyfu'n gyflymach na nifer yr eiddo sydd ar gael, mae'n debygol y bydd tir llai addas ar gael i'w ddatblygu wrth i orlifdiroedd a thir is arall ddod yn fwy tueddol o gael llifogydd..

Mae gan nifer o gyrff cyhoeddus amcanion neu gamau sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag eiddo gwag, ond dim ond un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, er bod ganddynt amcanion a chymau ynghylch cymunedau hyfyw,

Tudalen 284

diogel a deniadol. Ac mae tystiolaeth a gafwyd gan y Pwyllgor yn awgrymu bod rhwystrau o ran arweinyddiaeth ar lefel leol ac wrth ddarparu adnoddau ar gyfer gweithredu ar lawr gwlad.

Pobl ifanc yn methu â gadael cartref neu yn cael eu gyrru i lety preifat ar rent

Oherwydd y cynnydd sylweddol ym mhrisiau tai a rheolau benthycia llym ers 2008, nid yw llawer o bobl ifanc yn gallu fforddio prynu cartref eu hunain. O ganlyniad, ni allant adael cartref eu teulu neu maent yn cael eu gyrru i lety ar rent preifat. Mae tystiolaeth yn dangos ei bod yn annhebygol y bydd pobl ifanc yn gallu prynu tŷ heb gymorth eu rhieni ac mae un o bob pump o bobl ifanc yn y Deyrnas Unedig wedi syrffio-soffa yn 2017 gyda bron i hanner ohonynt wedi gwneud hynny am fwy na mis. Yn y cyfamser mae mwy a mwy o aelwydydd wedi dod yn aelwydydd deiliadaeth sengl oherwydd cynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio.

Mae'r galwadau ar ein stoc tai cymdeithasol gyfyngedig yn golygu bod pobl ifanc yn llai tebygol o allu ei gyrchu, oherwydd y system ddyrannu sy'n gorfod blaenoriaethu pobl sy'n agored i niwed. O ganlyniad, mae pobl ifanc yn yn wynebu rhenti 'anfforddiadwy' sy'n bwyta hyd at 30% o'u cyflog, o'i gymharu â tua 8% ar gyfer pobl dros 60 oed.

Mae yna bryderon hefyd ynglŷn â gwir gost 'cartrefi fforddiadwy' fel y'u gelwir. Mae rhenti yn aml yn rhy uchel i bobl ifanc, pobl sy'n gweithio'n rhan-amser neu ar incwm isel. Mae Sefydliad Joseph Rowntree yn nodi bod rhent yn 'fforddiadwy' pan nad yw'n cymryd mwy na 28% o incwm net cartref. Eto mae rhai tenantiaid yng Nghymru sy'n talu canran dipyn uwch o'u hincwm net ar rent.

Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddarparu 20,000 o 'dai fforddiadwy' newydd, mae'r defnydd o'r term ar hyn o bryd yn cynnwys cartrefi sy'n eiddo i'r cynllun ecwiti a rennir 'Help i Brynu'. Yn 2016, gwerthwyd 40% o'r cartrefi a werthwyd trwy 'help i brynu' am dros £200,000, sy'n anfforddiadwy i lawer o bobl, yn enwedig gan mai'r incwm cyfartalog yng Nghymru yw £22,575, ar ôl didyniadau.

Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ysgogiadau ariannol trwy'r grant tai cymdeithasol a'r Rhaglen Tai Arloesol i annog arloesedd wrth ddatblygu tai a chymunedau rhwng cenedlaethau a defnyddio ysgogiadau trethiant i gymell rhannu tai rhwng cenedlaethau.

Y tu hwnt i addasrwydd cartrefi, dylai'r Llywodraeth hefyd ddatblygu polisi a chyllid gan ddefnyddio'r cyfleoedd (fel y rhai a gyflwynir gan Bolisi Cynllunio Cymru 10, y Rhaglen Hybiau Cymunedol a'r Adolygiad Ail-greu Addysg) i:

- Ystyried sut y gallant agor cartrefi gofal i ddod yn ganolfannau ar gyfer gweithgareddau, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol
- Creu a chefnogi datblygiad canolfannau ar gyfer pob oedran erbyn 2030 fel lleoedd i gymysgu a rhannu gweithgareddau a phrofiadau
- Agor ysgolion yn hirach - gyda'r nos, ar benwythnosau a gwyliau - fel lleoedd cymunedol a rennir ar gyfer pob oedran
- Annog awdurdodau lleol i greu strydoedd ar gyfer chwarae - gan ddefnyddio strydoedd preswyl fel lleoedd ar gyfer chwarae, hwyl a chyd-berthyn.

Gofynnodd yr Adolygiad Tai Fforddiadwy am farn tenantiaid ar yr hyn a oedd yn bwysig iddynt y tu mewn a'r tu allan i'w cartref, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

Tudalen 285

- Gofod oedd yr agwedd fwyaf arwyddocaol yn y cartref. Un o'r themâu cyffredin oedd pwysigrwydd cael cegin gyda lle i fwyta, ar wahân i'r ystafell fyw.
- Y tu allan i'r cartref, daeth diogelwch allan fel y flaenoriaeth fwyaf i denantiaid. Ystyriwyd hefyd ei bod yn hanfodol cael gardd neu falconi gyda fflat, er mwyn darparu mynediad i ofod allanol i gefnogi iechyd meddwl a llesiant.
- Roedd mynediad digidol hefyd yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth uchel, yn enwedig i'r rheini sy'n derbyn budd-daliadau, yn ymgysylltu â'r Ganolfan Swyddi neu'n ceisio cyflogaeth.

Fodd bynnag, mae llawer o bobl yn gaeth yn y sector rhentu preifat oherwydd ein prinder tai cymdeithasol. Mae rhentwyr yn y sector breifat eisoes yn wynebu rhent uwch a lefelau is o wasanaethau cymorth, ac oni bai bod yr un gofynion ac amserlenni yn cael eu rhoi ar gartrefi ar rent preifat, yna bydd gan bobl yn y sector rhentu preifat eiddo llai ynni effeithlon a biliau tanwydd uwch.

Mae polisi tai datganoledig, ynghyd â'r gofynion a'r uchelgeisiau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn rhoi cyfle i Gymru fod yn arloesol ac yn feiddgar wrth oresgyn yr argyfwng tai a dewis dull sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Mae adolygiadau polisi diweddar yn nodi sut y gall y Llywodraeth wneud mwy o gynnydd o ran cyflawni'r dyheadau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau nifer o adolygiadau meysydd polisi sef: yr [Adolygiad Annibynnol o Gyflenwad Tai Fforddiadwy](#), adroddiad [Datgarboneiddio Cartrefi Presennol yng Nghymru](#) ac adroddiad y Grŵp Gweithredu Ddigartrefedd ar 'Y fframwaith o bolisiau, dulliau a chynlluniau y mae ei angen i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru (Beth mae rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru'n ei olygu mewn gwirionedd).'

Adolygiad Tai Fforddiadwy:

“Roedd y Panel yn llwyr ymwybodol o'r ffordd mae tai yn gyffredinol, a thai fforddiadwy yn arbennig, yn cyfrannu at flaenoriaethau cymdeithasol ac economaidd eraill yng Nghymru, gan gynnwys iechyd, addysg, cyflogaeth, cymunedau cydlynus, yr amgylchedd, cenedlaethau'r dyfodol a chyfleoedd. Mae cysylltiad hanfodol bwysig rhwng tai da a phob un o'r rhain.

Roedd yn amlwg bod y ffocws ar benderfyniadau cyllid (polisi rhenti/grant) blynyddol a'r gwaith cynllunio a ddeilliai o hyn yn cael effaith argyfyngus ar y gallu i sicrhau'r allbwn mwyaf o'r buddsoddiadau a wneir, boed hynny o ffynonellau cyhoeddus neu breifat. Mae'r Panel wedi argymhell y dylai'r gyfundrefn tai fforddiadwy fabwysiadu gorwelion hirdymor gan roi mwy o sicrwydd i'r system a gwella'r cyfleoedd am waith cynllunio cyflenwad, gwariant a phrosesau mwy effeithlon ac effeithiol.”

Adolygiad Annibynnol ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru:

“Rhannodd aelodau'r Grŵp Cynghori yr argymhellion datblygol â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â phum Ffordd o Weithio a saith Nod Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gellir gweld trosolwg o fanteision byrdymor, tymor canolig a hirdymor yn y tablau isod. Mae'r gwaith mapio yn dangos bod rhaglen ôl-osod 30 mlynedd yn cynnig cyfle sylweddol i ddarparu manteision helaeth ac eang, gan gynnwys: lleihau tlodi tanwydd; creu twf cynaliadwy, niferoedd sylweddol o swyddi, cynlluniau hyfforddiant a chadwyni cyflenwi, yn enwedig mewn cymunedau lleol; hyrwyddo iechyd a llesiant da i bawb; adeiladu cymunedau mwy cydlynol ag amgylcheddau gwell.”

Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd

Un o argymhellion allweddol y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yw ar i'r hawl i dai ddod yn hawl dynol sylfaenol. Mae adroddiad y Cyngor Hawliau Dynol yn datgan:

Tudalen 286

'Dylid diffinio'r hawl i dai fel yr hawl i fyw mewn cartref mewn heddwch, diogelwch ac urddas, a chynnwys diogelwch deiliadaeth, argaeledd gwasanaethau, fforddiadwyedd, preswyllo, hygyrchedd, lleoliad priodol a digonolrwydd diwylliannol.

Dylai'r rhai sydd angen tai neu fuddion cymdeithasol cysylltiedig gael eu trin fel deiliaid hawliau ac fel arbenigwyr yn yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer bywyd urddasol, nid derbynwyr elusen. Mae ganddyn nhw hawl i gymryd rhan weithredol, rhydd ac ystyrion wrth ddylunio a gweithredu rhaglenni a pholisïau sy'n effeithio arnyn nhw.

"Mae'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol wedi cadarnhau ei bod yn ystyried a ddylid gosod gofyniad ar bob awdurdod lleol i roi "syllw dyledus" i dai digonol y gellid eu cyflawni drwy'r Bil Llywodraeth Leol (Cymru) sydd ar ddod."

Tai fel sbardun llesiant ehangach

Lle'r ydym ni nawr:

Mae cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod yn gynyddol y cysylltiadau rhwng tai a llesiant trwy eu hamcanion llesiant, ond gellid gwneud mwy i gysylltu'n well.

Mae amcanion ar dai a osodir gan gyrff cyhoeddus yn dechrau symud o ffocws cul ar gynyddu nifer y tai fforddiadwy i werthfawrogi mai tai yw conglaen ein llesiant a bod ganddo gysylltiadau ag iechyd, cyrhaeddiad addysgol, cyflogaeth a bregusrwydd.

Mewn ardaloedd gwledig, mae fforddiadwyedd yn cael ei bwysleisio'n benodol o fewn amcanion llesiant, gan geisio sicrhau y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gallu parhau i fyw yn eu cymunedau.

Mae cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd wedi gwneud cysylltiadau rhwng tlodi a thai. Mae mater 'fforddiadwyedd' yn parhau i fod y mwyaf cysylltiedig â thai o fewn amcanion a chomau llesiant a chydabyddir effaith tlodi tanwydd hefyd. Fodd bynnag, mae rhai cyrff cyhoeddus yn mynd ymhellach, gan ystyried yr effaith y mae tai yn ei chael ar dlodi (ac i'r gwrthwyneb), tuag at nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu tai sy'n addas ar gyfer y dyfodol tra hefyd yn datblygu sgiliau a chyflogaeth leol.

Fel y nodwyd yn yr Adroddiad hwn, mae mwy o gyfleoedd i gyrff cyhoeddus wneud cysylltiadau rhwng eu hamcanion. Mae tai yn rhoi cyfle i gyflawni pob un o'r nodau llesiant a llawer o'r amcanion a osodir gan gyrff cyhoeddus.

Er enghraifft, mae potensial i fwy o gyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gysylltu eu dyheadau ynghylch tai â:

- Darparu sgiliau yn lleol (gweler isod a'r adran ar 'Sgiliau ar gyfer y Dyfodol' ym Mhennod 5 am fwy o wybodaeth), o ystyried y galw cynyddol am sgiliau yn yr 'economi werdd' ac am gartrefi carbon isel, ynni effeithlon ac wedi'u hadeiladu mewn ffordd ddi-wastraff.
- Adeiladu tai a chymunedau sy'n rhagweithiol wrth wella ac adfer natur a fydd yn helpu i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth
- Adeiladu cymunedau nid cartrefi yn unig a all helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd a chadw pobl yn iach
- Gweithio gyda darparwyr tai sy'n rhoi cyfle gwych i nodi ac ymateb i Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.

Gellid gwneud mwy i wneud y cysylltiad rhwng tai a sgiliau:

Mae'r prinder yn y crefftau medrus ar gyfer adeiladu tai yn dod yn fwy difrifol.

Mae Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu wedi amcangyfrif bod angen 44,690 o newydd-ddyfodiaid yn y diwydiant tai ac adeiladu i gynnal y sector. Yn 2015, dim ond 7,280 o brentisiaid adeiladu a gwblhaodd eu

Tudalen 287

hyfforddiant ar draws pob crefft. Un o'r ffactorau sy'n cyfrannu at y prinder hwn yw nifer y gweithwyr yn y Deyrnas Unedig nad ydynt yn Brydeinwyr yr ydym wedi bod yn dibynnu arnynt yn y crefftau hyn ond oherwydd goblygiadau Brexit mae 36% o weithwyr o'r gweithwyr hyn yn ystyried gadael erbyn 2022.

Cododd canran yr adeiladwyr tai bach a chanolig sy'n dweud bod prinder gweithwyr medrus yn rhwystr mawr i'w gallu i adeiladu mwy o gartrefi newydd, i 44% (i fyny o 42% yn 2017).

Mae rhai enghreifftiau o gyrff cyhoeddus yn cydnabod y cysylltiadau rhwng tai a sgiliau er enghraifft mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn y bennod hon) a Chyngor Bwrdeistref Sir Caerffili wedi cysylltu eu hamcanion ar dai â datblygu sgiliau yn lleol trwy eu camau i: 'Creu prentisiaethau a lleoliadau gwaith yn y tîm Gweithrediadau Atgyweirio Tai sy'n gysylltiedig â chynllunio olyniaeth ac arferion bwlch sgiliau. Creu prentisiaethau, cyfleoedd cyflogaeth a lleoliadau gwaith fel rhan o raglen fuddsoddi Safonau Ansawdd Tai Cymru'.

Fodd bynnag, nid oes digon o gyrff cyhoeddus yn gwneud y cysylltiadau rhwng y sgiliau lleol sy'n ofynnol i ddod ag eiddo sydd eisoes yn bodoli i safon ac adeiladu cartrefi newydd yn addas ar gyfer y dyfodol, a'r amcanion y maent wedi eu gosod ar addysg a chyflogaeth. Mae cyfleoedd yn cael eu colli wrth ystyried yr anghenion sydd gan wahanol ardaloedd a chyfateb y rheini â sgiliau pobl leol - fel swyddi yn yr economïau gwyrdd a chylchol.

Mae hyn yn awgrymu, fel y nodir mewn man arall yn yr Adroddiad hwn, bod angen integreiddio'n well rhwng amcanion llesiant a rolau byrddau a phartneriaethau cyrff eraill, yn yr achos hwn Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

Gwella'r ffordd yr ydym yn cynllunio, dylunio ac adeiladu tai

Yr hyn sydd ei angen ar genedlaethau'r dyfodol:

Rhaid inni gydnabod arwyddocâd tai a chymunedau da fel llwybr i lesiant corfforol a meddyliol pobl, adeiladu cymunedau cydlynol, cwrdd â'n targedau allyriadau carbon a darparu cyfleoedd ar gyfer swyddi a datblygu sgiliau newydd.

Lle'r ydym ni nawr:

Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn darparu'r cyd-destun cywir i adeiladu cymunedau nid tai yn unig.

Mae cyfle unigryw i Gymru atal problemau'r gorffennol lle caniatwyd adeiladu unedau tai heb adeiladu cymunedau. Rydym wedi gweld clystyrau o dai mewn lleoliadau anghysbell, wedi'u hynysu oddi wrth wasanaethau a seilwaith lleol, gan arwain at gartrefi sy'n dibynnu ar geir, a chymudo allan o'r ardal maent yn byw ynddi i chwilio am waith a cael mynediad i gyfleusterau ac yn hanfodol heb unrhyw ymdeimlad o gymuned.

Mewn ardaloedd gwledig, clywaf yn aml fod ansawdd bywyd pobl yn teimlo'n annheg i gymharu ag ansawdd pobl sy'n byw mewn ardaloedd mwy trefol oherwydd seilwaith trafndiaeth gyhoeddus gyfyngedig ac anawsterau cael mynediad i'r rhyngwyd.

Mae'n amlwg bod angen i ni wneud mwy i ganolbwyntio ar greu cymunedau, nid dim ond adeiladu tai a rhaid i hyn barhau i fod yn ffocws i ni er gwaethaf y prinder tai, fel arall rydym mewn perygl o adeiladu cartrefi heddiw na fydd yn addas ar gyfer ein anghenion yn 2030, heb sôn am 2050.

Fodd bynnag, oherwydd y diwygiad cyfredol i'r system gynllunio yng Nghymru mae cyfle gwirioneddol i ganolbwyntio ar adeiladu cymunedau yng Nghymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru newydd (rhifyn 10) a gyhoeddwyd yn 2018, yn cofleidio'r syniad o gynllunio cynaliadwy ac yn ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn y broses o ddatblygu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac ymgynghori ar y Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol newydd. (Gweler yr adran ar Gynllunio Defnyddio Tir.)

Tudalen 288

Byddwn hefyd yn disgwyl gweld ystyriaeth ehangach o 'greu lleoedd'. Nid yw cyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eto'n trafod yn benodol tai sydd wedi'u hamddiffyn rhag heriau'r dyfodol fel tywydd eithafol, lleihau'r defnydd o ddeunydd crai, creu gwell mynediad i fannau gwyrdd, atebion mwy dychmygus i newid demograffig (fel pobl iau yn rhannu tai â phobl hŷn) a chysylltiad mwy eglur â dull creu lleoedd.

Nid oes unrhyw gwestiwn, os yr ydym am newid arferion teithio pobl a lleihau ein hallyriadau carbon, mae arnom angen cartrefi mewn cymunedau sy'n addas ar gyfer y dyfodol, felly dylai amcanion llesiant ar 'dai' ymwneud mewn gwirionedd ag amgylcheddau â chysylltiad da, sy'n helpu pobl i symud o gwmpas eu cymunedau yn gynaliadwy.

"Er mwyn goresgyn prinder yn y cyflenwad tai, ynghyd â lleihau sgiliau, mae angen i'r diwydiant ystyried mathau o adeiladu y tu hwnt i ddulliau traddodiadol o dai sy'n gynaliadwy ac o ansawdd uchel."

Argymhellion

Cyngor ar osod amcanion llesiant ar gyfer yr holl gyrff a byrddau cyhoeddus a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru)

Cyfeiriwch at y bennod ar Osod Amcanion Da, ond wrth bennu eu hamcanion yn benodol mewn perthynas â Thai, dylai'r holl gyrff a byrddau cyhoeddus a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru):

- Sicrhau eu bod yn adlewyrchu tueddiadau'r dyfodol yn enwedig newidiadau demograffig ac argyfyngau hinsawdd a natur.
- Dangos yn glir y cysylltiadau rhwng eu hamcanion llesiant a'r camau ar dai, a meysydd eraill, fel mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi, yr amgylchedd naturiol, gwaith teg, sgiliau, iechyd a lles.
- Ystyried argymhellion yr Adolygiad Tai Fforddiadwy, yr Adolygiad Annibynnol ar Ddatbonoli Cartrefi Cymreig a'r adroddiad gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd.

Wrth bennu eu camau, dylai cyrff cyhoeddus a byrddau a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) ganolbwyntio yn y meysydd a ganlyn a dylent:

- Nodi sut y gall eu camau i gyflawni eu hamcanion o ran tai gyd-fynd â'u hamcanion ar gyfer sgiliau, yn enwedig mewn perthynas â'r diwydiant adeiladu, a datblygu sgiliau mewn dulliau modern o adeiladu, ond adeiladu carbon isel.

Argymhellion ar gyfer yr holl gyrff a byrddau cyhoeddus a gwmpesir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gan gynnwys Llywodraeth Cymru)

Argymhellion Proses

Yn eu gweithredoedd o ddydd i ddydd dylent ddechrau gwneud y canlynol:

- Ymgorffori gwerthoedd caredigrwydd a thosturi yn eu gwaith ar dai a sicrhau bod y gweithlu'n cofleidio'r gwerthoedd hyn.
- Sicrhau bod asesiadau o'r farchnad dai leol yn cynnwys yn benodol asesiadau llesiant a gynhelir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o'r data a ddefnyddiant.
- Gweithio gyda chymdeithasau tai i rannu a gweithredu arfer arloesol.
- Ystyried sut y gallant fod angen adeiladu dim gwastraff drwy eu prosesau caffael.

Tudalen 289

- Rhoi cynllun clir ar waith i fynd i'r afael â dadleoli newid yn yr hinsawdd (gweler yr argymhelliad yn adran Cymru Gydnerth, ym Mhennod 3).
- Cynnwys y sector tai yng ngwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys eu gwahodd i ymuno â'r Bwrdd.
- Ystyried tai fel un o'r ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd.
- Sicrhau bod Cynlluniau Datblygu Lleol a datblygiadau tai cymdeithasol yn diwallu anghenion y boblogaeth sy'n heneiddio.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R:	Cyngor
DYDDIAD:	3^{ydd} Mawrth 2022
LLEOLIAD:	Cyfarfod Rhithwir
TEITL:	Cynigion Tai Cymunedol
PWRPAS YR ADRODDIAD:	Rhoi adborth o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2022

CEFNDIR:

Ar 29^{ain} Tachwedd 2021, cyflwynodd y Grŵp Annibynnol adroddiad yn amlinellu gweledigaeth ynghylch creu llwybr i Genhedlaeth Ifanc Ceredigion berchen ar eu tŷ eu hunain. Drafftiwyd y weledigaeth mewn ymateb i'r sefyllfa economaidd sy'n wynebu pobl ifanc Ceredigion a'r diffyg cyfleoedd sydd ganddynt i fynd ar yr ysgol dai a gallu aros o fewn eu cymunedau eu hunain.

Mae tystiolaeth yn dangos bod cyfleoedd cyfyngedig i bobl ifanc allu prynu cartref cyntaf oherwydd y cyfyngiadau economaidd yn y Sir.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor i gyd yn gefnogol i'r cynnig a chytunwyd bod y 'Weledigaeth ynghylch creu llwybr i Genhedlaeth Ifanc Ceredigion berchen ar eu tŷ eu hunain' yn cael ei chyfeirio at Swyddogion perthnasol i weithio ar ymarferoldeb y cynllun. Byddai swyddogion wedyn yn dychwelyd i'r Pwyllgor gyda'u hargymhellion a phe byddai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo yn y pen draw gan y Cabinet/Cyngor, byddai'r opsiwn ariannu a ffeirir yn cael ei fodelu i broses flynyddol pennu'r gyllideb.

Yn ei gyfarfod ar 26^{ain} Ionawr 2022, cytunodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Premiwm Treth y Cyngor yn cynnwys Cynghorwyr a Swyddogion yn unfrydol i argymhell bod y cynnig tai lleol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu a'u bod yn gefnogol.

Bu Aelodau'r Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr adroddiad, sy'n amlinellu'r Pwyntiau Allweddol yn y Weledigaeth, Arfarniad y Cynnig a'r Casgliad.

Gellir gweld yr adroddiad trwy'r ddolen ganlynol:

<https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=141&MId=261&Ver=4&LLL=0>

Yna cafodd Aelodau'r Pwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb yn eu tro gan Swyddogion. Trafododd y Pwyllgor amrywiol faterion a chyfleoedd y gellid eu hystyried a'u datblygu ymhellach gan y weinyddiaeth newydd yn dilyn yr Etholiadau Lleol ym mis Mai 2022. Roedd consensws bod y cynigion yn addas ar gyfer cam cyntaf cynllun tymor hwy i gefnogi pobl ifanc yng Ngheredigion.

Yna gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor ystyried yr argymhellion a ganlyn:

ARGYMHELLION:

I'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol argymell i'r Cyngor:

- 1) Penderfyniad y Cyngor 24/3/16 Cofnod 12) Adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr ar Breimiymau Treth y Cyngor ar gyfer cartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi, pwynt 4 i'w ddiwygio fel a ganlyn:
"4)a)Lefel Premiwm Ail Gartrefi Treth y Cyngor a godir i'w phennu ar 25% (yn dod i rym o 1 Ebrill 2017), a,

b) bod yr holl arian a godir o Breimiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol."
- 2) Bod yr holl arian a godir o Breimiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor rhwng y cyfnod 1/4/17 i 31/3/22 (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.
- 3) Bod yr holl arian a godir o Breimiwm 25% Ail Gartrefi Treth y Cyngor o 1/4/22 (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.
- 4) O 1/4/22, bod yr holl arian a godir o Breimiwm 25% Cartrefi Gwag Treth y Cyngor (net o ad-daliadau Treth y Cyngor), yn cael ei glustnodi a'i ddefnyddio i gefnogi'r Cynllun Tai Cymunedol.
- 5) Diddymu penderfyniad y Cyngor 16/3/17 cofnod 8)b) Preimiymau Treth y Cyngor ar Ail Gartrefi.
- 6) Bod manylion elfen rhannu ecwiti o'r cynllun yn cael eu paratoi a'u cytuno o fewn 12 mis i benderfyniad y Cyngor a bod gwaith yn parhau ar yr opsiynau eraill.

Cafodd argymhelliad ychwanegol ei awgrymu a'i gytuno gan aelodau'r Pwyllgor:
- 7) Gohirio'r posibilrwydd o sefydlu Cynllun Mantais Gymunedol am flwyddyn.

Yn dilyn ystyriaeth, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor i argymell bod y Cyngor yn cytuno ac yn mabwysiadu pwyntiau 1,2,3,4,5, 6 a 7 a restrir uchod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am yr adroddiad cynhwysfawr ac am eu cymorth yn ystod y broses hon.

Y Cynghorydd Ivor Williams
Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir CEREDIGION**ADRODDIAD I'R: Cyngor****DYDDIAD Y CYFARFOD: 3 Mawrth 2022****LLEOLIAD: O bell drwy Gynhadledd Fideo****TEITL: Adroddiad ar y newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor****DIBEN YR ADRODDIAD: Gwneud newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor a sicrhau bod dirprwyaethau priodol ar waith****ER: Penderfyniad a Gwybodaeth****Portffolio Cabinet ac Aelod Y Cynghorydd Ray Quant MBE, Dirprwy Arweinydd y Cabinet: Cyngor ac Aelod Cabinet dros Gyswilt Cwsmeriaid, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth****CEFNDIR:**

Cyhoeddir y Cyfansoddiad ar wefan y Cyngor, ac mae'n ddogfen fyw. Awdurdodir y Swyddog Monitro i wneud mân newidiadau i'r Cyfansoddiad, a'i ddiweddarau yn ôl yr angen. Mae fersiwn gyfredol gyhoeddedig Cyfansoddiad y Cyngor ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/ynghlyn-cyngor/cyfansoddiad-y-cyngor/>

Yn fwyaf diweddar, cymeradwyodd y Cyngor newidiadau i'r Cyfansoddiad ar 23 Medi 2021 (gweler yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod drwy ddilyn y ddolen ganlynol):

<https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=149&MId=161&Ver=4&LLL=0>

Cynigion

Ers y Cyfarfod ar 23 Medi 2021, cynhaliwyd cyfarfodydd Gweithgor Trawsbleidiol Cyfansoddiad y Cyngor ('y Gweithgor') ar 8 Tachwedd 2021 a 11 Chwefror 2022. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, cytunodd y Gweithgor i argymhell y newidiadau canlynol i'r Cyfansoddiad ac fe'u cynigiwyd i'r Gweithgor yn dilyn trafodaethau â'r Swyddogion perthnasol:

A. Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd/Swyddogion Statudol

Ychwanegwyd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd at y rhestr o Swyddogion Statudol yn Erthygl 4.4.12 yn fersiwn ddrafft Rhan 2:Erthyglau'r Cyfansoddiad (**Atodiad 1**).

B. Portffolios Cabinet

Mae Rhan 3.4 Tabl 4 yn Rhan 3 (**Atodiad 2**) ('Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau'r Cabinet') yn rhestru'r Cyrff Allanol, y Partneriaethau / Cyd-bwyllgorau/Asiantaethau a'r paneli mewnol/gweithgorau/fforymau sy'n gysylltiedig â phortffolios y Cabinet. Rheolir y paneli mewnol gan y maes gwasanaeth perthnasol.

Nid yw rhai o'r cyrff yn bodoli mwyach, mae rhai yn ymwneud â rolau Aelodau nad ydynt yn aelodau Cabinet/mae rhai yn ymwneud â 'chynrychiolaeth leol' neu mae angen eu rhannu o'r newydd yn dilyn ailstrwythuro'r Cabinet. O'r herwydd mae'r rhestr o gyrff y cyfeirir atynt wedi ei diweddarau, yn dilyn ymgynghori ag Aelodau'r Cabinet ac wedi i'r Gwasanaethau Democrataidd ei hystyried, er mwyn iddi fod yn ffeithiol gywir h.y. cyrff y mae Aelodau'r Cabinet yn eistedd arnynt ar hyn o bryd oherwydd eu statws fel Aelodau Cabinet.

Yn ogystal, diweddarwyd y Teitl Cabinet cywir ar gyfer Porth Gofal, Ymyrraeth Gynnar, Canolfannau Llesiant a Diwylliant.

C. Chwythu'r Chwiban

Mae Rhan 3.5D Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro (gweler **Atodiad 3**) wedi ei diweddarau i gyfeirio at ddyletswyddau'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ynghylch chwythu'r chwiban (gan weithredu fel y swyddog arweiniol ym Mholisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor).

D. Rhan 3.5G Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Mae'r newididau arfaethedig i Ran 3.5G (gweler **Atodiad 4**) yn cynnwys:

- Diweddarau drwy newid 'Pennaeth y Gwasanaeth' i 'Swyddog Arweiniol Corfforaethol';
- Newid y geiriad 'person cymwysiedig' i 'Uwch Swyddog â chyfrifoldeb dros y broses Adolygu Mewnol dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol' a chadarnhau mai'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol yw'r uwch swyddog

cyswllt â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

- Newid fformat/ffurf y dirprwyaethau gan gynnwys creu tabl gyda maes/swyddogaeth/deddfwriaeth er mwyn gallu cyfeirio atynt yn haws (gan gynnwys adolygu'r ddeddfwriaeth);
- Adran newydd yn ymwneud ag Argyfyngau Sifil Posibl a Pharhad Busnes;
- Adran newydd yn ymwneud â'r ffaith bod Rheolwr presennol Safonau Masnach a Thrwyddedu hefyd yn Brif Arolygwr Pwysau a Mesurau;
- Gwahanu swyddogaeth Uwch Swyddog Cyfrifol y Swyddog Arweiniol Corfforaethol (Deddf Enillion Troseddau 2002) a swyddogaeth swyddog priodol y Swyddog Arweiniol Corfforaethol o ran Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.

E. Rhan 3.5J Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynna Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal - Ymyrraeth wedi'i Thargedu

Mae'r newidiadau arfaethedig i Ran 3.5J (gweler **Atodiad 6**) yn cynnwys:

- Gwahanu ac ailfformatio'r adrannau sy'n ymwneud â swyddogaethau gwahanol y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal - Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal - Ymyrraeth wedi'i Thargedu.
- Cyfeiriad newydd at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 sy'n ymwneud â swyddogaeth Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Cyfeiriad at swyddogaeth y ddau Swyddog Arweiniol Corfforaethol mewn perthynas â Bwrdd Rhanbarthol Gorllewin Cymru a Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (gweler isod hefyd).

F. Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru a Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Yn ogystal â geiriad newydd yn Rhan 3.5J Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal - Ymyrraeth wedi'i Thargedu a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal - Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes (yn **Atodiad 6**), cynigir gosod geiriad newydd yn Adran 4 Partneriaethau Rhanbarthol, Rhan 7.

G. Rhan 3.5 L Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Mae'r newidiadau arfaethedig i Ran 3.5L (**Atodiad 8**) yn cynnwys cyfeiriad at statws y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael fel Prif Swyddog Cyllid Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru a'r dyletswyddau perthnasol, yn ogystal ag eglurder ynghylch ei statws fel Prif Swyddog Cyllid Ceredigion.

H. Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru

Cafodd cyfeiriad at Bartneriaeth Addysg Canolbarth Cymru ei gynnwys yn Adran 4 Rhan 7 (gweler **Atodiad 12**) yn dilyn cytundeb y bydd Powys a Cheredigion yn parhau i gydweithio fel Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru (gweler yr Adroddiad i'r Cabinet a Chofnodion y Cyfarfod drwy ddilyn y ddolen ganlynol <https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=148&MId=175&Ver=4&LLL=0>)

I. Y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Yn Adroddiad 23 Medi 2021 i'r Cyngor, cynigiwyd newidiadau i'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu'r modd y bydd gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021') yn effeithio ar y Pwyllgorau hyn a'r newidiadau a fydd yn digwydd o fis Mai 2022 (pan ddaw adrannau perthnasol Deddf 2021 i rym).

Yn awr cynigir geiriad ychwanegol/diwygiedig mewn perthynas â'r newidiadau hyn ym mis Mai 2022, gan gynnwys newidiadau pellach i gylch gorchwyl y Pwyllgorau (gweler Erthyglau 9.1.7.10-9.1.7.14 a 9.2.1.8 – 9.2.1.10 Fersiwn Ddrafft Erthyglau Rhan 2 (gweler **Atodiad 1**) a Rhan 3 (gweler **Atodiad 2**).

J. Y Gymraeg mewn Addysg

Cynigir swyddogaeth newydd 25C yn Rhan 3.2 Tabl 2, Rhan 3 (gweler **Atodiad 2**) a chyfeiriad newydd at Gymru mewn addysg yn Rhan 3.5K Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant (gweler **Atodiad 7**).

K. Cynllunio

Yn dilyn derbyn adolygiad Archwilio Cymru o Wasanaeth Cynllunio'r Sir (Adroddiad i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor ar 17 Ionawr 2022, gan gynnwys Adroddiad Archwilio Cymru a ffurflen ymateb y Cyngor sydd ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol

<https://cyngor.ceredigion.gov.uk/documents/s2445/Adroddiad%20Cynllunio%20combi ned%20c.pdf?LLL=1>

cynigir y newidiadau canlynol i'r Cyfansoddiad:

- Protocol Arfer dda o ran cynllunio ar gyfer Aelod Newydd (i ddod yn Rhan 5 newydd Dogfen Q (gweler **Atodiad 5(b)**), a diweddarau tudalen Gynnwys Rhan 5 (gweler **Atodiad 5(c)**);
- Rhan 4 Dogfen I newydd – Gweithdrefnau Gweithredol y Pwyllgor Rheoli Datblygu (gweler **Atodiad 5(d)**) (o'r blaen Aelodau o'r Cyhoedd yn Annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu;

- Cylch Gorchwyl wedi ei ddiweddarau (gweler Fersiwn Ddrafft Erthyglau Rhan 2 (**Atodiad 1**) a Rhan 3 Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau'r Cyngor (**Atodiad 2**);
- Cynllun dirprwyo wedi ei ddiweddarau (**Atodiad 5(a)**) i'w roi i mewn yn Rhan 3.5H Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio; a
- Newid enw'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn Saesneg o 'Development Control Committee' i 'Development Management Committee'. (Pwyllgor Rheoli Datblygu yw'r Gymraeg am y ddau deitl.)

L. Maint Pwyllgorau o fis Mai 2022 ymlaen

Ar 27 Ionawr 2022, cytunodd y Cyngor i leihau aelodaeth rhai Pwyllgorau o 5 Mai 2022 a diwygio'r Cyfansoddiad yn unol â hynny (gweler yr Adroddiad i'r Cyngor a fersiwn ddrafft y cofnodion, drwy ddilyn y ddolen isod:

<https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=149&MId=164&Ver=4&LLL=0>

Cynigir newidiadau i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau i faint y Pwyllgorau ar gyfer Erthyglau Rhan 2 (**Atodiad 1**), Rhan 3 Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau'r Cyngor (**Atodiad 2**) a Rhan 4 Dogfen E Rheolau'r Weithdrefn Trosolwg a Chraffu (**Atodiad 10**).

M. Mân Newidiadau

Mae unrhyw fân newidiadau a wneir gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu yn cael eu cadarnhau gan y Gweithgor ac maent wedi'u cynnwys yn yr atodiadau i'r adroddiad hwn ac maent yn cynnwys:

- Newidiadau o ran arddull/format e.e. newidiadau i ddileu unrhyw gyfeiriadau at genedl unigolyn (fe/hi) (gweler Rhan 4 Dogfen A Rheolau Gweithdrefn y Cyngor (**Atodiad 9**) a Rhan 4 Dogfen E Rheolau'r Weithdrefn Trosolwg a Chraffu (**Atodiad 10**), a newidiadau o ran fformat i Ran 3.5 D (**Atodiad 3**)
- Diweddarau Rhan 4 Dogfen E Rheolau'r Weithdrefn Trosolwg a Chraffu yn 15.1 I gynnwys y teitlau 'Cyfarwyddwr Corfforaethol' a 'Swyddog Arweiniol Corfforaethol' (**Atodiad 10**) a diddymu'r gair 'for' yn Saesneg (gweler 10 Eitemau Agenda, **Atodiad 10**);
- Dileu'r gair 'integreiddio' wrth gyfeirio at drefniadau Partneriaethau Rhanbarthol (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014) o dan swyddogaethau/meysydd cyfrifoldeb Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal- Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes (gweler fersiwn ddrafft Rhan 2 (**Atodiad 1**)).
- Rhan 4 Dogfen E Rheolau'r Weithdrefn Trosolwg a Chraffu – diddymu'r gair 'for' yn Saesneg yn 10. Eitemau Agenda a diddymu'r geiriau 'o'r Cabinet' yn 17.3 (**Atodiad 10**).
- Rhan 6 – diweddarau'r Strwythur Rheoli (**Atodiad 11**)

Dangosir y cynigion uchod yn **Atodiadau 1-12** sydd ynghlwm ac sydd i'w cynnwys yn y Cyfansoddiad.

Cymeradwywyd y cynigion uchod gan Weithgor Trawsbleidiol Cyfansoddiad y Cyngor mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2021 a 11 Chwefror 2022.

ARGYMHELLION:

Argymhellir bod y Cyngor yn gwneud y canlynol:

1. Newid enw'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn Saesneg o 'Development Control Committee' i 'Development Management Committee'. ('Pwyllgor Rheoli Datblygu' yw'r Gymraeg am y ddau deitl.)
2. Nodi cynnwys yr adroddiad (yn arbennig paragraffau A-M);
3. Cymeradwyo'r newidiadau i'r Cyfansoddiad (gweler **Atodiadau 1-12**);
4. Rhoi awdurdod i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro ddiweddar Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r newidiadau uchod;

RHESWM DROS Y NEWIDIADAU: Sicrhau bod y Cyfansoddiad yn addas i'r diben, y cyfeirir yn gywir at y Swyddogion yn y Cyfansoddiad a bod dirprwyaethau a chyfrifoldebau priodol ar waith.

A gwblhawyd Asesiad Effaith

Integredig? Naddo

Os naddo, nodwch pam

Crynodeb: *Nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â newid mewn polisi na strategaeth.*

LLESANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:

Hirdymor: Sicrhau bod y Cyfansoddiad yn parhau'n gyfredol ac yn addas i'r diben er lles hirdymor y Cyngor a phreswylwyr Ceredigion.

Integreiddio: Amherthnasol

Cydweithio: Amherthnasol

Cynnwys: Amherthnasol

Atal: Sicrhau bod y Cyfansoddiad yn parhau'n gyfredol ac yn addas i'r diben.

Argymhelliad/Argymhellion: Argymhellir bod y Cyngor yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

Rhesymau dros y penderfyniad hwn:

Trosolwg a Chraffu: Amherthnasol

Tudalen 299

Fframwaith Polisi:	Y Cyfansoddiad
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Thema drawsbynciol i sicrhau bod y gwasanaethau yn addas i'r diben.
Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	Dim
Goblygiadau Cyfreithiol:	Dim
Goblygiadau Staffio:	Dim
Goblygiadau o ran eiddo / asedau:	Dim
Risg(iau):	Heb y newidiadau hyn, ni fydd y Cyfansoddiad yn cael ei ddiweddarau ac ni fydd yn addas i'r diben
Pwerau Statudol:	<p>Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/enacted/welsh</p> <p>Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth 2021: https://www.legislation.gov.uk/wsi/2021/342/made</p> <p>Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg 2011) 2021: https://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2021/341/contents/made/welsh</p> <p>Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, 23 Chwefror 2021: Datganiad Ysgrifenedig: Gosod Offerynnau Statudol i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gosod-offerynnau-statudol-i-sefydlu-cyd-bwyllgorau-corfforedig</p> <p>Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021</p>
Papurau Cefndir:	<p>Mae'r Adroddiad i'r Cyngor – 23 Medi 2021 a chofnodion y cyfarfod ar gael drwy ddilyn y ddolen ganlynol:</p> <p>https://cyngor.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=149&MId=161&Ver=4&LLL=0</p>
Atodiadau:	<p>Atodiad 1 – Fersiwn Ddrafft Rhan 2- Erthyglau</p> <p>Atodiad 2 – Fersiwn Ddrafft Rhan 3- Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau'r Cyngor</p>

Tudalen 300

Atodiad 3 – Fersiwn Ddrafft Rhan 3.5D Dirprwyo i'r SAC:
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu

Atodiad 4 – Fersiwn Ddrafft Rhan 3.5G Dirprwyo i'r SAC:
Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Atodiad 5(a) – Fersiwn Ddrafft o ran Gynllun Dirprwyo
(Cynllunio)

Atodiad 5(b) – Protocol Arfer Dda i Aelod o ran Cynllunio
(Rhan 5 Dogfen Q newydd)

Atodiad 5(c) – Rhan 5 Tudalen Gynnwys

Atodiad 5(d) – Pwyllgor Rheoli Datblygu –
Gweithdrefnau Gweithredol y Pwyllgor Rheoli Datblygu

Atodiad 6 – Fersiwn Ddrafft Rhan 3.5J Dirprwyo i'r
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal a'r
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal -
Ymyrraeth wedi'i Thargedu

Atodiad 7 – Fersiwn Ddrafft Rhan 3.5 K Dirprwyo i'r
Swyddogion Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant

Atodiad 8 – Fersiwn Ddrafft Rhan o Ran 3.5 L Dirprwyo
i'r Swyddog Arweinyddiol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Atodiad 9 – Fersiwn Ddrafft Rhan 4 Dogfen A Rheolau
Gweithdrefn y Cyngor

Atodiad 10 – Fersiwn Ddrafft Rhan 4 Dogfen E Rheolau'r
Weithdrefn Trosolwg a Chraffu

Atodiad 11 – Fersiwn Ddrafft Rhan 6 Strwythur Rheoli

Atodiad 12 – Fersiwn Ddrafft Rhan 7 Rhestr o fforymau
ymgyngorol, gweithgorau, paneli a phartneriaethau

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Swyddog
Monitro

Swyddog Adrodd: Elin Prysor

Dyddiad: 11 Chwefror 2022

RHAN 2

ERTHYGLAU'R CYFANSODDIAD

Cynnwys

ERTHYGL 1 – Y CYFANSODDIAD	3
ERTHYGL 2– AELODAU'R CYNGOR.....	4
ERTHYGL 3 – DINASYDDION A'R CYNGOR.....	7
ERTHYGL 4 – Y CYNGOR LLAWN.....	9
ERTHYGL 5 – CADEIRIO'R CYNGOR.....	13
ERTHYGL 6 – PWYLLGORAU TROSOLWIG A CHRAFFU	14
ERTHYGL 7 – Y CABINET	18
ERTHYGL 8 – PWYLLGORAU RHEOLEIDDIO	20
ERTHYGL 9 – Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU A'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO.....	23
ERTHYGL 10 – CYD-DREFNIADAU	31
ERTHYGL 11– SWYDDOGION.....	33
ERTHYGL 12 – GWNEUD PENDERFYNIADAU	56
ERTHYGL 13 – CYLLID, CONTRACTAU A MATERION CYFREITHIOL	58
ERTHYGL 14 – ADOLYGU A DIWYGIO'R CYFANSODDIAD	59
ERTHYGL 15 – ATAL, DEHONGLI A CHYHOEDDI'R CYFANSODDIAD.....	61

ERTHYGL 1 – Y CYFANSODDIAD

1.1 PWERAU'R CYNGOR

Bydd y Cyngor yn arfer ei holl bwerau a'i ddyletswyddau yn unol â'r ddeddf a'r Cyfansoddiad hwn.

1.2 Y CYFANSODDIAD

Y Cyfansoddiad hwn, a'i holl atodiadau, yw Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion.

1.3 PWRPAS Y CYFANSODDIAD

Pwrpas y Cyfansoddiad yw:

- 1.3.1 galluogi'r Cyngor i roi arweiniad clir i'r gymuned mewn partneriaeth gyda dinasyddion, busnesau a chyrff eraill;
- 1.3.2 cynnig fframwaith ar gyfer llywodraethu da;
- 1.3.3 mynd ati i annog y dinasyddion i gymryd rhan yn y broses o lunio penderfyniadau'r awdurdod lleol;
- 1.3.4 cynorthwyo'r Cynghorwyr i gynrychioli eu hetholwyr yn fwy effeithiol;
- 1.3.5 ei gwneud hi'n bosibl i benderfyniadau gael eu gwneud yn effeithiol ac yn effeithlon;
- 1.3.6 creu dull pwerus ac effeithiol o sicrhau bod y cyhoedd yn gallu dwyn y rhai sy'n llunio penderfyniadau i gyfrif;
- 1.3.7 sicrhau na fydd neb yn adolygu nac yn craffu ar benderfyniad y bu ganddo gysylltiad uniongyrchol ag ef;
- 1.3.8 sicrhau bod y rhai hynny sy'n gyfrifol am lunio penderfyniadau'n hawdd eu hadnabod gan bobl leol a'u bod yn egluro'r rhesymau dros benderfyniadau; a
- 1.3.9 chynnig dull o wella'r modd y cyflwynir gwasanaethau i'r gymuned

1.4 DEHONGLI AC ADOLYGU'R CYFANSODDIAD

Lle bo'r Cyfansoddiad yn caniatáu i'r Cyngor ddewis rhwng gwahanol ddulliau o weithredu, bydd y Cyngor bob amser yn dewis yr un a dybia sydd agosaf at y pwrpasau uchod.

Bydd y Cyngor yn monitro ac yn cloriannu'r modd y gweithredir y Cyfansoddiad fel y nodir yn Erthygl 14.

ERTHYGL 2– AELODAU’R CYNGOR

2.1 AELODAETH A CHYMHWYSEDD

2.1.1 Aelodaeth

Bydd y Cyngor yn cynnwys 42 o aelodau, a elwir hefyd yn Gynghorwyr, a gaiff eu hethol gan etholwyr pob adran etholiadol yn unol â chynllun a luniwyd gan y Comisiwn Ffiniau yng Nghymru ac a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

2.1.2 Cymhwysedd

Dim ond pleidleiswyr cofrestredig y Cyngor Sir neu’r rhai hynny sy’n byw neu’n gweithio yn yr ardal honno a fydd yn gymwys i ddal swydd Cynghorydd (yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972).

2.2 ETHOLIADAU CYNGHORWYR A’U CYFNODAU

Fel rheol cynhelir etholiadau arferol y Cynghorwyr ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mai unwaith bob pum mlynedd. Bydd cyfnod y Cynghorydd yn y swydd yn dechrau ar y pedwerydd diwrnod ar ôl yr etholiad a bydd yn diweddu ar y pedwerydd diwrnod ar ôl dyddiad yr etholiad arferol nesaf.

2.3 ROLAU A SWYDDOGAETHAU POB CYNGHORYDD

2.3.1 Rolau allweddol. Bydd pob Cynghorydd yn gwneud y canlynol:

2.3.1.1 llunio polisi terfynol ar y cyd a chyflawni nifer o swyddogaethau rheoli strategol a chorfforaethol;

2.3.1.2 cynrychioli eu cymunedau a dwyn eu safbwyntiau eu hunain i mewn i broses gwneud penderfyniadau’r Cyngor, h.y. eiriol dros eu cymunedau ac ar ran eu cymunedau;

2.3.1.3 ymdrin â gwaith achos unigol ac eiriol dros etholwyr wrth ddatrys pryderon neu gwynion neilltuol;

2.3.1.4 cydbwysu’r gwahanol fuddiannau a welir o fewn yr

adran etholiadol a chynrychioli'r adran etholiadol gyfan;

2.3.1.5 cyfrannu at wella gwasanaethau'r Cyngor yn barhaus;

2.3.1.6 ymwneud â'r broses o lunio penderfyniadau;

2.3.1.7 bod ar gael i gynrychioli'r Cyngor ar gyrrff eraill; ac

2.3.1.8 cynnal y safonau uchaf o ymddygiad a moeseg.

2.3.2 Hawliau a dyletswyddau

2.3.2.1 Bydd gan Gynghorwyr ba hawliau mynediad bynnag at ddogfennau, at wybodaeth, at dir ac at adeiladau'r Cyngor ag y bo'n angenrheidiol iddynt gyflawni eu swyddogaethau'n briodol ac yn unol â'r gyfraith a'r Cyfansoddiad hwn.

2.3.2.2 Ni fydd y Cynghorwyr yn gwneud gwybodaeth sy'n gyfrinachol neu'n eithriedig yn gyhoeddus heb ganiatâd y Cyngor nac yn datgelu gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol i neb heblaw am Gynghorydd neu swyddog y mae ganddo hawl i'w gwybod.

2.3.2.3 I'r dibenion hyn, diffinnir gwybodaeth "gyfrinachol" ac "eithriedig" yn y Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

2.3.2.4 Mae hawl gan Gynghorwyr wasanaethu ar Gyrrff Llywodraethu Ysgolion.

2.4 YMDDYGIAD

Bydd y Cynghorwyr ar bob adeg yn dilyn Cod Ymddygiad yr Aelodau a'r Protocol ynglŷn â'r Cysylltiadau rhwng Aelodau/Swyddogion a gyflwynir yn Rhan 5 y Cyfansoddiad hwn.

Os ystyrir rhoi indemniad i aelod unigol, sy'n wynebu achos o gamymddygiad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae'r Cyngor wedi penderfynu cyflwyno cap o £20,000 ar lefel yr indemniad a roddir i'r aelodau.

2.5 CYFLOGAU

Bydd gan Gynghorwyr hawl i gael cyflogau'n unol â'r Rhestr o Gydabyddiaeth Ariannol Aelodau sydd ar gael ar wefan y Cyngor <http://www.ceredigion.gov.uk/eich-cyngor/cynghorwyr-a->

[phwyllgorau/lwfansau-aelodau/](#)

Paratuir y Rhestr bob blwyddyn, drwy arfer y pwerau a roddir gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013. Ystyrir hefyd Reoliadau'r Panel Adolygu Annibynnol a'r penderfyniadau perthnasol.

ERTHYGL 3 – DINASYDDION A'R CYNGOR

3.1 HAWLIAU DINASYDDION

Mae gan ddinasyddion yr hawliau canlynol. Eglurir eu hawliau i wybodaeth ac i gyfranogi yn fanylach yn y Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn:

3.1.1 Pleidleisio a deisebau Mae gan y dinasyddion hynny sydd ar gofrestr etholiadol yr ardal hawl i lofnodi deiseb i ofyn am refferendwm am Gabinet gyda maer etholedig a'r hawl i bleidleisio yn y refferendwm dan sylw.

3.1.2 Gwybodaeth Mae gan y dinasyddion hawliau fel a ganlyn:

3.1.2.1 mynychu cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'i Bwyllgorau ac eithrio lle mae gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig yn debygol o gael ei datgelu, a bod y cyfarfod felly yn cael ei gynnal yn breifat;

3.1.2.2 darganfod o'r rhaglen waith i'r dyfodol pa benderfyniadau y mae'r Cabinet neu'r Cyngor am eu gwneud a pha faterion y bydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn eu hystyried, a phryd y bydd y materion hyn yn cael eu trafod;

3.1.2.3 gweld adroddiadau a phapurau cefndir, ac unrhyw gofnodion o'r penderfyniadau a wneir gan y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau oni fyddant wedi eu heithrio rhag cael eu trafod am unrhyw reswm cyfreithiol; ac

3.1.2.4 gweld cyfrifon y Cyngor a mynegi barn i'r archwilydd allanol.

3.1.3 Cwynion Mae gan ddinasyddion yr hawl i gwyno:

3.1.3.1 wrth y Cyngor ei hun o dan ei Weithdrefn Gwyno Gorfforaethol

3.1.3.2 wrth yr Ombwdsmon os ydynt yn teimlo iddynt gael cam o ganlyniad i gamweinyddu, ond fe'u hanogir i ddefnyddio Gweithdrefn Gwyno'r Cyngor ei hun yn

gyntaf;

- 3.1.3.3 wrth yr Ombwdsmon os credant fod Aelod neu Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor wedi torri Cod Ymddygiad yr Aelodau.
- 3.1.3.4 wrth Swyddog Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol lle bo'n briodol.

3.1.4 Yr Iaith Gymraeg

Yn unol â Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar y Cyngor, bydd gan ddinasyddion yr hawl i dderbyn gwasanaethau'r Cyngor i'r un safon yn y Gymraeg a'r Saesneg.

3.1.5 Hawliau'r Plentyn

3.1.5.1 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ("y Confensiwn") wrth arfer ei swyddogaethau. Mae hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn ystyried sut y bydd unrhyw benderfyniad y bydd yn ei wneud yn ymwneud â'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn y Confensiwn.

3.1.5.2 Caiff pob plentyn ei gefnogi a'i annog i ddysgu'r Gymraeg gan ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, os yw'r rhain yn cael eu rhannu gan y mwyafrif o'r bobl yn y wlad neu beidio.

3.2 CYFRIFOLDEBAU'R DINASYDDION

Mae'n rhaid i'r dinasyddion beidio â bod yn dreisgar, na bod yn ddifriol nac yn fygythiol tuag at Gynghorwyr na swyddogion ac mae'n rhaid iddynt beidio â pheri difrod bwriadol i bethau sy'n eiddo i'r Cyngor, y Cynghorwyr na'r swyddogion.

ERTHYGL 4 – Y CYNGOR LLAWN

4.1 MAE'N OFYNNOL BOD Y CYNGOR YN MABWYSIADU'R CYNLLUNIAU A'R STRATEGAETHAU CANLYNOL:

4.1.1 O dan Reoliadau Trefniadau Gweithrediaeth yr Awdurdodau Lleol (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 (fel y'u diwygiwyd):

- Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion*
- Cynllun Trafnidiaeth Lleol (Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol)
- Cynllun Datblygu Lleol
- Safonau'r Gymraeg
- Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid
- Strategaeth Dai
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

4.1.2 Bydd y Swyddog Monitro yn unol â'r Rhaglen Waith at y Dyfodol, yn argymhell o dro i dro pa gynlluniau a strategaethau y dylai'r Cyngor eu mabwysiadu.

Y Cyngor fydd yn mabwysiadu'r polisiau statudol a'r polisiau sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cyngor. Y Cabinet fydd yn cymeradwyo'r polisiau eraill.

Mabwysiadir y Strategaethau gan y Cyngor. Gallwch ddod o hyd i'r Polisiau a'r Strategaethau ar wefan Cyngor Sir Ceredigion.

4.2 STRATEGAETHAU A CHYNLLUNIAU PARTNERIAETH

Caiff Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion sydd wedi ei nodi â seren yn 4.1.1 uchod ei baratoi gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y mae'r Cyngor yn bartner statudol arno.

4.3 Y GYLLIDEB

Mae'r gyllideb yn cynnwys dyrannu adnoddau ariannol i wahanol wasanaethau

a phrosiectau, cronfeydd wrth gefn arfaethedig, sylfaen Treth y Cyngor, gosod Treth y Cyngor a phenderfyniadau sy'n ymwneud â rheoli gofynion y Cyngor parthed benthyca, rheoli gwariant cyfalaf a gosod terfynau ar drosglwyddo arian. Bydd y Cyngor yn mabwysiadu Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys, y Rhaglen Gyfalaf a'r Gyllideb Refeniw.

4.4 SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR LLAWN

Dim ond y Cyngor sydd yn arfer y swyddogaethau canlynol:

- 4.4.1 mabwysiadu'r Cyfansoddiad a gwneud newidiadau sylweddol iddo. Y Swyddog Monitro fydd yn gwneud newidiadau i adlewyrchu materion deddfwriaethol a strwythurol ynghyd â mân faterion;
- 4.4.2 cymeradwyo neu fabwysiadu'r fframwaith polisi a'r gyllideb a gosod Treth y Cyngor;
- 4.4.3 yn amodol ar y Weithdrefn Frys yn 'Rheolau'r Weithdrefn Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 y Cyfansoddiad, penderfynu ynghylch unrhyw fater wrth gyflawni un o swyddogaethau'r Cabinet yr ymdrinnir â hi o dan y fframwaith polisi neu'r gyllideb lle mae'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad o blaid ei wneud mewn modd a fyddai'n groes i'r fframwaith polisi neu'n groes i'r gyllideb neu heb fod yn gwbl unol â'r gyllideb;
- 4.4.4 cytuno ar gylch gorchwyl y pwyllgorau neu'u newid, penderfynu ar eu haelodaeth a gwneud penodiadau iddynt;
- 4.4.5 penodi Arweinydd;
- 4.4.6 nodi penodi Aelodau'r Cabinet gan yr Arweinydd;
- 4.4.7 penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol onid yw'r penodiad yn un o swyddogaethau'r Cabinet neu mae wedi ei dirprwyo gan y Cyngor;
- 4.4.8 mabwysiadu Rhestr o Gydabyddiaeth Ariannol Aelodau o dan Erthygl 2.5;
- 4.4.9 mabwysiadu neu adolygu Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cyngor;
- 4.4.10 pob swyddogaeth nad yw ymhlith swyddogaethau'r Cabinet a nodir yn Nhabl 1 Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn y penderfyna'r Cyngor y dylai ef ymgymryd â hwy yn hytrach na Phwyllgor, sef:
 - 4.4.10.1 gwneud, diwygio, diddymu, ailddeddfu neu fabwysiadu

Tudalen 311

- is-ddeddfau;
- 4.4.10.2 hybu neu wrthwynebu gwneud deddfwriaeth leol neu fesurau personol;
 - 4.4.10.3 cymeradwyo datganiad cyfrifon y Cyngor, ei incwm a'i wariant a mantolen neu gofnod o'i dderbynebaw a'i daliadau (fel bo'r achos);
 - 4.4.10.4 gwneud rheolau sefydlog a rheolau sefydlog sy'n ymwneud â chontractau;
 - 4.4.10.5 ystyried adroddiadau anffafriol oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Lleol Cymru sy'n argymhell iawndal dros £1,000 neu oddi wrth y Comisiynydd Plant, yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd y Gymraeg neu Archwilio Cymru;
 - 4.4.10.6 swyddogaethau sy'n ymwneud â physgodfeydd môr;
 - 4.4.10.7 newid enw'r Sir;
 - 4.4.10.8 newid enw cymuned;
 - 4.4.10.9 rhoi teitl henadur anrhydeddus i rywun neu dderbyn rhywun yn rhyddfrefiniwr anrhydeddus;
 - 4.4.10.10 gwneud cais am siarter i roi statws Bwrdeistref Sirol;
 - 4.4.10.11 penodi swyddog cofrestru etholiadol;
 - 4.4.10.12 diddymu Cyngorau Cymuned;
 - 4.4.10.13 gwneud gorchmynion i grwpio Cyngorau Cymuned a diddymu grwpiau a gwahanu Cyngorau Cymuned o grwpiau.
 - 4.4.10.14 penodi swyddog canlyniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol;
 - 4.4.10.15 cyflwyno cynigion i'r Ysgrifennydd Gwladol am orchymyn o dan adran 10 (cynlluniau peilot ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru a Lloegr) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000;
 - 4.4.10.16 swyddogaethau sy'n gysylltiedig â phensiynau llywodraeth leol a chynllun pensiwn y dynion tân.
 - 4.4.10.17 ystyried penderfyniadau'r Cabinet a alwyd i mewn, yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu perthnasol,

yn gyfyngedig i amgylchiadau'r Gweithdrefnau Galw i Mewn (rhan 6)

- 4.4.11 penodi Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig (Prif Weithredwr), Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol;
- 4.4.12 penodi swyddogion statudol, gan gynnwys y Swyddog Adran 151, y Swyddog Monitro, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y Prif Swyddog Addysg a Phennaeth y Gwasanaethau Democraataidd.
- 4.4.13 pennu lefel, ac unrhyw newid yn lefel, cydnabyddiaeth ariannol y Prif Swyddogion.
- 4.4.14 gweithredu'r holl swyddogaethau sy'n ymwneud â dewis lleol a geir yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn y penderfyna'r Cyngor y dylai ef ei hun ymgymryd â hwy yn hytrach na'r Cabinet;
- 4.4.15 pob mater arall y mae'n rhaid eu cadw o fewn cyfrifoldeb y Cyngor.

4.5 CYFARFODYDD Y CYNGOR

Mae pedwar math o gyfarfod yn y Cyngor:

- 4.5.1 y Cyfarfod Blynyddol Cyntaf;
- 4.5.2 y Cyfarfod Blynyddol;
- 4.5.3 Cyfarfodydd Cyffredin.
- 4.5.4 Cyfarfodydd Arbennig.

a byddant yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor sydd yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

4.6 CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU

Bydd y Cyngor yn cadw at y tablau sydd yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn sy'n nodi'r cyfrifoldebau dros swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldebau i'r Cabinet.

Mae'r cynlluniau a'r strategaethau y mae'r Cyngor wedi eu mabwysiadu fel mater o ddewis lleol i'w gweld ar www.ceredigion.gov.uk a hafan CeriNet.

ERTHYGL 5 – CADEIRIO'R CYNGOR

5.1 RÔL A SWYDDOGAETH CADEIRYDD Y CYNGOR

Bydd gan Gadeirydd y Cyngor ac yn ei absenoldeb ef neu'i habsenoldeb hi, yr Is-gadeirydd, y rolau a'r swyddogaethau canlynol:

Caiff y Cadeirydd ei ethol gan y Cyngor yn flynyddol yn y cyfarfod blynyddol.

Bydd gan y Cadeirydd y cyfrifoldebau canlynol:

- 5.1.1 cynnal a hyrwyddo dibenion y Cyfansoddiad, a dehongli'r Cyfansoddiad lle bo hynny'n angenrheidiol;
- 5.1.2 llywyddu dros gyfarfodydd y Cyngor fel y gall ei waith gael ei gyflawni'n effeithiol gan roi ystyriaeth i hawliau'r Cynghorwyr a buddiannau'r gymuned;
- 5.1.3 sicrhau bod cyfarfod y Cyngor yn fforwm ar gyfer trafod materion sydd o bwys i'r gymuned leol ac yn lle y gall yr aelodau hynny nad ydynt ar y Cabinet ddwyn y Cabinet a chadeiryddion y Pwyllgorau i gyfrif;
- 5.1.4 annog y cyhoedd i ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor;
- 5.1.5 bod yn gydwytod i'r Cyngor; ac
- 5.1.6 bod yn bresennol ym mha ddiwyddiadau dinesig a seremonïol bynnag ag y penderfyna'r Cyngor a'r Cadeirydd sy'n briodol.

5.2 CADEIRIO PWYLLGORAU

Ni chaiff Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor fod yn Gadeirydd nac yn Is-gadeirydd ar Bwyllgorau'r Cyngor yng nghyfnod eu swyddi.

Bydd Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau'n dal eu swyddi am gyfnod o ddwy o flynyddoedd y Cyngor, a gallant ddal un swydd fel Cadeirydd ac un arall fel Is-gadeirydd yr un pryd, ac ni chânt sefyll i gael eu hail-ethol am y cyfnod dilynol ar gyfer y pwyllgor/y pwyllgorau perthnasol y maent yn eu cadeirio.

ERTHYGL 6 – PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU**6.1 CYLCH GORCHWYL**

Bydd y Cyngor yn penodi'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a nodir yng ngholofn llaw chwith y tabl isod i gyflawni'r swyddogaethau a roddir gan Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 parthed y materion a nodir yng ngholofn llaw dde yr un tabl.

Pwyllgor	Cwmpas
Y Pwyllgor Cydlynu (10 aelod)	Trawsnewid gwasanaethau, cydweithio, gweithio mewn partneriaeth. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion, y Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant Diogelu, cyfathrebu, cydraddoldeb a materion sy'n ymwneud â throseddau ac anhrefn
Adnoddau Corfforaethol (13 aelod)	Gwasanaethau corfforaethol (gan gynnwys adnoddau dynol, gwasanaethau cwsmeriaid, TGCh, rheoli'r trysorlys a gwasanaethau cyfreithiol), Cynhwysiant/Cyfle Cyfartal, Argyfyngau Sifil Posibl, Parhad Busnes, Rheoli Ystadau a Chofrestru Sifil
Cymunedau Iachach (13 aelod)	Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Gofal Integredig, Gwasanaethau Tai, Cyfleusterau Hamdden, Iechyd yr Amgylchedd, Diogelu'r Cyhoedd a Thrwyddedu
Cymunedau Dysgu (13 aelod)	sy'n Dysgu Gydol Oes, Plant a Phobl Ifanc, Ysgolion, Hyfforddiant, Gwasanaethau Ieuenctid a Gwasanaethau Diwylliannol
Cymunedau Ffyniannus (13 aelod)	Datblygu Economaidd, Adfywio, Twristiaeth, Marchnata, Cymunedau Cryfach, Cymorth Grant Ewropeaidd, Cymorth Busnes, Rhaglen Gyfalaf, Trafnidiaeth a Seilwaith y Priffyrdd, Cynllunio Gwlad a Thref a Chynaliadwyedd. Yr Arfordir a Chefn Gwlad a Gwastraff a Gwasanaethau Bwrdeistrefol eraill

6.2 RÔL GYFFREDINOL

O fewn eu cwrpas a'u cylch gorchwyl, bydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn gwneud y canlynol:

- 6.2.1 adolygu a/neu graffu ar y penderfyniadau a wneir neu'r camau a gymerir parthed cyflawni swyddogaethau'r Cyngor;
- 6.2.2 cyflwyno adroddiadau ac/neu argymhellion gerbron y Cyngor llawn ac/neu'r Cabinet ac/neu unrhyw gydbwyllgor ynghylch cyflawni unrhyw swyddogaethau;
- 6.2.3 ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar yr ardal neu'i thrigolion; ac
- 6.2.4 arfer yr hawl i alw i mewn, er mwyn ailystyried, unrhyw benderfyniadau a wnaethpwyd nad yw'r Cabinet wedi eu gweithredu eto.
- 6.2.5 ymestyn rôl y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu i wneud y canlynol:
 - (a) adolygu'r penderfyniadau, neu i graffu ar y penderfyniadau, a wneir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ("y Bwrdd") wrth arfer ei swyddogaethau;
 - (b) adolygu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd neu i graffu arnynt;
 - (c) cyflwyno adroddiadau neu argymhellion i'r Bwrdd mewn perthynas â swyddogaethau neu drefniadau llywodraethu'r Bwrdd;
 - (d) ystyried y materion hynny mewn perthynas â'r Bwrdd y caiff Gweinidogion Cymru eu cyfeirio ato, ac i adrodd i Weinidogion Cymru yn unol â hynny;
 - (e) ymgymryd â'r swyddogaethau eraill hynny mewn perthynas â'r Bwrdd a osodir arno gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
 - (f) adrodd / gwneud argymhellion i'r fforymau priodol (gan gynnwys y Cabinet, y Bwrdd a'r is-grwpiau perthnasol).

6.3 SWYDDOGAETHAU PENODOL

6.3.1 **Datblygu ac adolygu polisïau** Gall y Pwyllgorau Trosolwg a

Chraffu wneud y canlynol:

- 6.3.1.1 cynorthwyo'r Cyngor a'r Cabinet i ddatblygu ei gyllideb a'i fframwaith polisi drwy ddadansoddiad manwl o faterion polisi;
 - 6.3.1.2 gwneud ymchwil, ymgynghori â'r gymuned ac ymgynghori arall i ddadansoddi materion polisi a dewisiadau posibl;
 - 6.3.1.3 ystyried a gweithredu dulliau i annog a gwella cyfranogiad cymunedol yn y gwaith o ddatblygu dewisiadau polisi;
 - 6.3.1.4 holi aelodau'r Cabinet ac/neu Bwyllgorau a'r prif swyddogion am eu barn ar faterion a chynigion sy'n effeithio ar yr ardal neu unrhyw fater o dan ystyriaeth;
 - 6.3.1.5 cysylltu â chyrrff allanol eraill sy'n gweithredu yn yr ardal, boed y rhai hynny yn rhai cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, i sicrhau y bydd buddiannau pobl leol yn cael eu cynyddu drwy weithio ar y cyd.
- 6.3.2 **Craffu:** Disgwylir i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu:
- 6.3.2.1 adolygu a chraffu ar y penderfyniadau a wneir ac ar berfformiad y Cabinet ac/neu Bwyllgorau a swyddogion y Cyngor mewn perthynas â phenderfyniadau unigol a thros amser;
 - 6.3.2.2 adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor o ran ei amcanion polisi, targedau perfformiad ac/neu feysydd gwasanaeth arbennig;
 - 6.3.2.3 holi aelodau'r Cabinet ac/neu Bwyllgorau a'r prif swyddogion ynghylch eu penderfyniadau a'u perfformiad, p'run ai yn gyffredinol o'i gymharu â chynlluniau gwasanaeth a thargedau dros gyfnod o amser, neu mewn perthynas â phenderfyniadau, cynlluniau neu brosiectau neilltuol;
 - 6.3.2.4 cyflwyno argymhellion gerbron y Cabinet a/neu Bwyllgor priodol a thrwy arfer da, ac yn unol â hynny, cyfrannu at broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor

sy'n codi o ganlyniad i'r broses graffu;

- 6.3.2.5 adolygu a chraffu ar berfformiad cyrff cyhoeddus eraill yn yr ardal a gwahodd adroddiadau oddi wrthynt drwy ofyn iddynt annerch y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a phobl leol am eu gweithgareddau a'u perfformiad;
- 6.3.2.6 holi a chasglu tystiolaeth oddi wrth unrhyw un arall (gyda'u caniatâd).

- 6.3.3 **Cyllid** Gall Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu arfer cyfrifoldeb cyffredinol dros y cyllid a roddir iddynt.
- 6.3.4 **Adroddiad blynyddol** Rhaid i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu adrodd yn flynyddol i'r Cyngor llawn ynglŷn â gwaith pob un o'r Pwyllgorau a gwneud argymhellion ar gyfer rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol a dulliau gwaith diwygiedig os yw hynny'n briodol.
- 6.3.5 **Rhaglen Waith** Rhaid i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu arfer cyfrifoldeb cyffredinol dros y rhaglen waith.

6.4 TRAFODION Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

Bydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n cynnal eu trafodion yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu sydd i'w cael yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn. Mae Arweinydd y Cyngor ac Aelodau'r Cabinet yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel dyletswydd gymeradwy o dan Adran 174 Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y bo'n ofynnol gan y Cadeirydd perthnasol.

Mae manylion llawn y Protocol Trosolwg a Chraffu i'w gweld yn Rhan 5.

6.5 PROTOCOL YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

Mae'r Cyngor wedi cadarnhau'r Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd o ran Trosolwg a Chraffu. Gallwch weld y manylion llawn yn Rhan 5.

ERTHYGL 7 – Y CABINET

7.1 RÔL

Bydd y Cabinet yn cyflawni holl swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldebau i unrhyw ran arall o'r Cyngor, boed hynny o dan y ddeddf neu o dan y Cyfansoddiad hwn.

7.2 FFURF A CHYFANSODDIAD

Bydd y Cabinet yn cynnwys Arweinydd ynghyd ag o leiaf 6, ond dim mwy na 9, o Gynghorwyr a benodir i'r Cabinet gan yr Arweinydd, a bydd y penodiadau yn cael eu cyflwyno gerbron y Cyngor yn ei gyfarfod nesaf er gwybodaeth.

7.3 YR ARWEINYDD

Bydd yr Arweinydd yn Gynghorydd a etholir i swydd Arweinydd gan y Cyngor. Bydd yr Arweinydd yn dal y swydd:

- 7.3.1 hyd nes bydd yn ymddiswyddo o'r swydd; neu
- 7.3.2 hyd nes y'i hatelir rhag bod yn Gynghorydd o dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (er y gall ailgydio yn y swydd ar ddiwedd cyfnod yr ataliad); neu
- 7.3.3 hyd nes na byddo bellach yn Gynghorydd; neu
- 7.3.4 hyd nes y caiff ei symud o'i swydd drwy benderfyniad gan y Cyngor a gaiff ei basio gan o leiaf 75% o'r aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod; neu
- 7.3.5 hyd nes y caiff ei symud o'i swydd drwy benderfyniad gan y Cyngor pan fydd rheolaeth wleidyddol y Cyngor yn newid.

7.4 AELODAU CABINET ERAILL

Bydd yr aelodau Cabinet eraill yn parhau yn eu swyddi:

- 7.4.1 hyd nes byddant yn ymddiswyddo o'u swyddi; neu
- 7.4.2 hyd nes byddant yn cael eu hatal rhag bod yn Gynghorwyr o dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 (er y gallant ailgydio yn y swydd ar ddiwedd cyfnod yr ataliad); neu
- 7.4.3 hyd nes na fyddont bellach yn Gynghorwyr; neu
- 7.4.4 hyd nes cânt eu symud o'u swyddi gan yr Arweinydd a fydd yn gorfod rhoi rhybudd ysgrifenedig o unrhyw ddiswyddiad i'r Swyddog Priodol. Bydd y diswyddiad yn dod i rym ddau

- ddiwrnod gwaith ar ôl i'r Swyddog Priodol gael y rhybudd; neu
- 7.4.5 hyd nes cânt eu symud o'u swyddi, naill ai'n unigol neu ar y cyd, drwy benderfyniad gan y Cyngor pe bai newid yn rheolaeth wleidyddol y Cyngor.

7.5 TRAFODION Y CABINET

Cynhelir trafodion y Cabinet yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cabinet a gyflwynir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

7.6 CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU

Bydd yr Arweinydd yn cadw rhestr yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn a gyflwynir yng nghyfarfod nesaf y Cyngor er gwybodaeth yn nodi pa aelodau unigol o'r Cabinet, Pwyllgorau'r Cabinet, swyddogion neu gyd drefniadau sy'n gyfrifol am arfer swyddogaethau neilltuol o eiddo'r Cabinet.

ERTHYGL 8 – PWYLLGORAU RHEOLEIDDIO

8.1 Bydd y Cyngor yn penodi'r Pwyllgor a nodir yng ngholofn llaw chwith Rhan 3.3 (Tabl 3) y Cyfansoddiad hwn er mwyn cyflawni'r swyddogaethau a ddisgrifir yng ngholofn 3 y tabl hwnnw. Nodir eu cylch gorchwyl hefyd yng ngholofn 2 y Tabl hwnnw.

8.2 Pwyllgor Rheoli Datblygu

8.2.1 Swyddogaeth, diben a chyfrifoldebau

Nodir swyddogaeth, diben a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor Rheoli Datblygu (gweler Rhan 3.3 (Tabl 3), Rhan 3.1 Tabl 1 (Rhan A) ac eitemau 3 a 4, Rhan I yn Rhan 3.1 Tabl 1 y Cyfansoddiad hwn).

Isod nodir Cylch Gorchwyl a swyddogaethau Rhan 3.3 (Tabl 3) y Pwyllgor Rheoli Datblygu, fel a ganlyn:

1. *Swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref a rheoli datblygu fel y nodir yn Rhan A o Rhan 3.1 Tabl 1 uchod ('Swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref a rheoli datblygu), ynghyd â swyddogaethau o dan eitemau 3 a 4 Rhan I Tabl 1 ('Swyddogaethau amrywiol').*
2. *Cyflawni swyddogaethau cynllunio statudol yr Awdurdod o ran penderfynu ar geisiadau a materion cysylltiedig sy'n ymwneud â datblygu a rheoleiddio defnydd a gweithgareddau.*
3. *Ystyried a phenderfynu ar geisiadau, er mwyn hyrwyddo Strategaeth a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor a chyfrannu atynt drwy ystyried datblygiadau mawr ledled y sir gyda thrylwyrdd.*
4. *Gwneud penderfyniadau cynllunio yn seiliedig ar ystyriaethau perthnasol cadarn ac nid ar amgylchiadau, safbwyntiau neu deimladau personol.*
5. *Rhoi ystyriaeth i egwyddor datblygu cynaliadawy wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.*
6. *Y pŵer i weithredu, holl bwerau a dyletswyddau'r Awdurdod o ran ystyried ceisiadau cynllunio, adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, cynlluniau hysbysu, gorchmynion cadw coed, rheoli datllygu a gorfodi rheolaeth o'r fath a chynlluniau ymynghori eraill, lle bo'n briodol.*

7. *Derbyn adroddiadau o dro i dro oddi wrth y Prif Weithredwr neu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio a swyddogion eraill ynghylch cyflawni unrhyw swyddogaethau sy'n ymwneud â rheoli datblygu a allai fod wedi eu dirprwyo iddynt.*
8. *Ymdrin â phob cais:*
 - a. *a wnaed gan y Cyngor fel tirlfeddiannwr;*
 - b. *sy'n ymwneud â datblygiadau mawr;*
 - c. *a wnaed gan Aelod neu gysylltiadau personol agos; neu*
 - d. *a wnaed gan y canlynol;*
 - I. *Prif Swyddogion (y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol);*
 - II. *Pob aelod o staff a gyflogir gan y Gwasanaeth(au) Cynllunio gan gynnwys rheoli datblygu a Blaengynllunio; ac*
 - III. *Unrhyw aelod arall o staff â chysylltiad agos â'r gwasanaethau cynllunio neu ag unrhyw gais cynllunio penodol neu gan eu cysylltiadau personol agos.*
9. *Rhoi blaenoriaeth i ddyfarniadau cadarn ar faterion cynllunio yn unol â phob polisi cenedlaethol a lleol sy'n hyrwyddo strategaethau a blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor oni bai bod ystyriaethau eraill o bwys.*
10. *Penderfynu ar geisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol, daliadau canolog Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac er mwyn cyflawni Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor:*
 - *Blaenoriaeth Gorfforaethol 1 – Hybu'r Economi;*
 - *Blaenoriaeth Gorfforaethol 2 – Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl;*
 - *Blaenoriaeth Gorfforaethol 3 – Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd; a*
 - *Blaenoriaeth Gorfforaethol 4 – Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol.*

8.2.2 Trafodion y Pwyllgor

Cynhelir trafodion y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn unol â Gweithdrefnau Gweithredu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a nodir yn Rhan 4 Dogfen I y Cyfansoddiad hwn.

8.2.3 Protocol Arfer Dda i Aelod o Ran Cynllunio

Mae Protocol Arfer Dda i Aelod o Ran Cynllunio (gweler Rhan 5 Dogfen Q y Cyfansoddiad hwn) yn nodi'r ffordd y bydd yr Awdurdod yn disgwyl i Aelodau ymdrin â cheisiadau cynllunio a materion sy'n

gysylltiedig â'r Pwyllgor Rheoli Datblygu (a safonau ymddygiad priodol).

8.3 Pwyllgor Trwyddedu

8.3.1 Mwyafrif Syml

Oni bai bod y Cyfansoddiad hwn yn darparu fel arall, bydd unrhyw fater y bydd y Pwyllgor yn penderfynu arno yn cael ei benderfynu gan fwyafrif syml o aelodau'r Pwyllgor sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn y cyfarfod ar yr adeg y gwnaed yr argymhelliad neu'r cynnig.

8.3.2 Pleidlais Fwrw'r Cadeirydd

Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd dim cyfyngiad ar sut mae'r Cadeirydd yn dewis defnyddio pleidlais fwrw.

ERTHYGL 9 – Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU A'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

9.1 Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU

Mae gan y Cyngor Bwyllgor Moeseg a Safonau'n unol â Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2011 fel y'u diwygiwyd ("y Rheoliadau").

9.1.1 CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU

9.1.1.1 Aelodaeth y Pwyllgor Moeseg a Safonau – Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cynnwys naw aelod. Mae ei aelodaeth yn cynnwys:

9.1.1.1.1 Pum aelod 'annibynnol', nad ydynt yn Gynghorwyr nac yn swyddogion nac yn gymar i Gynghorydd na swyddog o'r Cyngor hwn nac o unrhyw awdurdod perthnasol arall fel y diffinnir yn y Rheoliadau, a benodir yn unol â'r weithdrefn sydd yn y Rheoliadau;

9.1.1.1.2 Dau Gynghorydd Sir (heblaw am Arweinydd y Cyngor ac aelodau'r Cabinet);

9.1.1.1.3 Dau aelod o Gyngorau Tref a Chymuned sydd yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ardal y Cyngor ('aelodau o Bwyllgor Cymuned').

9.1.2 Cyfnod mewn Swydd ar gyfer y Pwyllgor Moeseg a Safonau

9.1.2.1 Penodir aelodau annibynnol am gyfnod o ddim llai na phedair blynedd a dim mwy na chwe blynedd. Gellir eu hailbenodi am un cyfnod olynol pellach na fydd yn fwy na phedair blynedd.

9.1.2.2 Mae cyfnod mewn swydd yr aelodau hynny o'r Cyngor sy'n aelodau o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn para hyd yr etholiad llywodraeth leol arferol nesaf yn dilyn eu penodi. Gellir eu hailbenodi am un cyfnod olynol pellach.

9.1.2.3 Mae cyfnod mewn swydd aelod o Bwyllgor Cymuned yn para hyd yr etholiad llywodraeth leol arferol nesaf yn dilyn eu penodi. Gellir eu hailbenodi am un cyfnod olynol pellach.

Cyngor Sir Ceredigion - Rhan 2 Erthyglau'r Cyfansoddiad

ERTHYGL 9 Y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU A'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Diweddarwyd Chwefror 2022

9.1.3 Cworwm – Bydd gan gyfarfod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau gworwm dim ond pan fydd:

9.1.3.1 o leiaf tri aelod yn bresennol; a bod

9.1.3.2 o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y Cadeirydd) yn Aelodau Annibynnol.

9.1.4 Pleidleisio - Mae gan Aelodau Annibynnol ac aelodau o Bwyllgorau Cymuned hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd;

9.1.4.1 Mwyafrif

Oni bai bod y Cyfansoddiad hwn yn darparu fel arall, bydd unrhyw fater yn cael ei benderfynu gan fwyafrif syml o'r aelodau Pwyllgor hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn y cyfarfod ar yr adeg y gwnaed yr argymhelliad neu'r cynnig.

9.1.4.2 Pleidlais Fwrw'r Cadeirydd

Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd dim cyfyngiad ar sut mae'r Cadeirydd yn dewis defnyddio pleidlais fwrw.

9.1.5 Aelodau Pwyllgorau Cymuned – Nid yw aelodau o'r Pwyllgor Cymuned yn cymryd rhan yn nhrefodion y Pwyllgor Moeseg a Safonau pan fo unrhyw fater sy'n ymwneud â'u Cyngor Cymuned yn cael ei drafod;

9.1.6 Cadeirio'r Pwyllgor Moeseg a Safonau

9.1.6.1 Dim ond Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau all
Cyngor Sir Ceredigion - Rhan 2 Erthyglau'r Cyfansoddiad
ERTHYGL 9 Y PWYLLGOR MOESG A SAFONAU A'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC
ARCHWILIO
Diweddarwyd Chwefror 2022

fod yn Gadeirydd:-

9.1.6.2 Etholir y Cadeirydd gan aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau am ba un bynnag yw'r cyfnod byrraf o blith y canlynol:-

9.1.6.2.1 cyfnod o nid llai na phedair blynedd ac nid mwy na chwe blynedd, neu

9.1.6.2.2 hyd nes bo cyfnod mewn swydd y person hwnnw fel Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn dirwyn i ben.

9.1.6.3 Ethol Cadeirydd yw eitem fusnes gyntaf y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn ei gyfarfod cyntaf ac yna ar ddiwedd cyfnod swydd y Cadeirydd presennol.

9.1.6.4 Os bydd y Cadeirydd yn absennol o gyfarfod o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yna bydd Is-gadeirydd y Pwyllgor, os yw'n bresennol, yn cymryd ei le.

9.1.6.5 Os bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau ill dau'n absennol o gyfarfod o'r Pwyllgor hwnnw, bydd yr aelodau hynny o'r Pwyllgor sy'n bresennol yn dewis aelod annibynnol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau i lywyddu.

9.1.7 RÔL A SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR MOESG A SAFONAU

Mae gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau y rolau a'r swyddogaethau canlynol:

9.1.7.1 hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith y Cynghorwyr, Aelodau Cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr;

9.1.7.2 cynorthwyo'r Cynghorwyr, yr Aelodau Cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr i gadw at God Ymddygiad yr Aelodau;

9.1.7.3 cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio Cod

Cyngor Sir Ceredigion - Rhan 2 Erthyglau'r Cyfansoddiad

ERTHYGL 9 Y PWYLLGOR MOESG A SAFONAU A'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Diweddarwyd Chwefror 2022

Ymddygiad yr Aelodau;

- 9.1.7.4** monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau;
 - 9.1.7.5** cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr ar faterion sy'n ymwneud â Chod Ymddygiad yr Aelodau;
 - 9.1.7.6** rhoddi gollyngiadau i Gynghorwyr, i Aelodau Cyfetholedig ac i gynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr parthed y gofynion sy'n ymwneud â buddiannau a gyflwynir yng Nghod Ymddygiad yr Aelodau; (81(4) a (5) Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Rhoddi Gollyngiadau) (Cymru) 2001 (2001/2279);
 - 9.1.7.7** ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad oddi wrth y Swyddog Monitro ynghylch unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; (adran 73(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (2001 2281);
 - 9.1.7.8** arfer 9.1.7.1 hyd 9.1.7.7 uchod mewn perthynas â'r Cynghorau Cymuned sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn ei ardal ac aelodau'r Cynghorau Cymuned hynny; (Adran 56(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;
 - 9.1.7.9** penodi panel apelio o dri, gyda mwyafrif o aelodau annibynnol, y bydd un ohonynt yn gweithredu fel Cadeirydd, ar gyfer cwynion a wneir gan aelodau o'r cyhoedd o dan weithdrefn gwyno'r Cyngor.
 - 9.1.7.10** Datblygu a chymhwyso unrhyw brotocolau datrysiadau lleol.
 - 9.1.7.11** Gweithio gydag Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r Grwpiau.
 - 9.1.7.12** Monitro bod Aelodau Grwpiau Gwleidyddol yn cydymffurfio â'u dyletswydd i wneud y canlynol:
 - 9.1.7.12.1** cymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r Grŵp; a
 - 9.1.7.12.2** chydweithio â Phwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor (ac
- Cyngor Sir Ceredigion - Rhan 2 Erthyglau'r Cyfansoddiad
ERTHYGL 9 Y PWYLLGOR MOESeg A SAFONAU A'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC
ARCHWILIO
Diweddarwyd Chwefror 2022

unrhyw un o is-bwyllgorau'r Pwyllgor) wrth gyflawni swyddogaethau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.

9.1.7.13 Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol y Cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'u dyletswyddau o dan 9.1.7.12.1 a 9.1.7.12.2 uchod.

9.1.7.14 Gwneud adroddiad blynyddol i'r Cyngor.

9.2 PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

9.2.1 RÔL A SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y rolau a'r swyddogaethau canlynol, yr ymhelaethir arnynt yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Rhan 3.3 (Tabl 3):

9.2.1.1 Darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar drefniadau archwilio, sicrhau ac adrodd y Cyngor;

9.2.1.2 Adolygu a chynghori'r Cyngor a'r Cabinet yn annibynnol, a'u priod Bwyllgorau a Swyddogion, ar faterion yn ymwneud â llywodraethu da, goruchwyllo ariannol, rheoli risg, gweithdrefnau/trin cwynion a rheolaeth fewnol wrth ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor;

9.2.1.3 Sicrhau bod systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol y Cyngor yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau gwerth am arian, cefnogi safonau a moeseg ac ar gyfer rheoli amlygiad yr awdurdod i risgiau twyll a llygredd, ac i sicrhau bod gwasanaethau archwilio mewnol y Cyngor yn gweithredu yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt;

9.2.1.4 Adolygu, craffu a chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol y Cyngor;

Cyngor Sir Ceredigion - Rhan 2 Erthyglau'r Cyfansoddiad

ERTHYGL 9 Y PWYLLGOR MOESG A SAFONAU A'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Diweddarwyd Chwefror 2022

9.1.2.5 Adolygu, craffu a chyhoeddi adroddiadau ac argymhellion ar briodoldeb trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y Cyngor;

9.2.1.6 Goruchwyllo trefniadau archwilio mewnol ac allanol y Cyngor a pherthynas y Cyngor â rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys cefnogi'r perthnasoedd effeithiol rhwng archwilio allanol a mewnol, adolygu barn ac adroddiadau'r archwilydd allanol i aelodau, a monitro camau rheoli mewn ymateb i'r materion a godwyd gan archwilio allanol;

9.2.1.7 Goruchwyllo adroddiadau ariannol y Cyngor ac adolygu ei ddatganiadau ariannol;

9.2.1.8 Adolygu ac asesu adroddiad Hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor a gwneud unrhyw argymhellion angenrheidiol i'r Cyngor o ran newidiadau i'r canlynol:

9.2.1.8.1 y casgliadau; neu

9.2.1.8.2 unrhyw beth sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad sy'n ymwneud â pha gamau gweithredu y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd, neu unrhyw gamau gweithredu y mae eisoes wedi eu cymryd, gyda'r bwriad o gynyddu'r graddau y bydd y Cyngor yn bodloni anghenion perfformiad yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y cyfeiria'r adroddiad ati

9.2.1.9 Ystyried Adroddiad Asesu'r Panel Perfformiad, adolygu ymateb drafft y Cyngor i adroddiad y Panel a gwneud unrhyw argymhellion angenrheidiol i newid y datganiadau a wnaed yn yr ymateb drafft.

9.2.1.10 Ystyried unrhyw Adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn dilyn archwiliad arbennig o'r Cyngor, adolygu ymateb drafft y Cyngor i unrhyw Adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol a gwneud unrhyw argymhellion angenrheidiol i newid y datganiadau yn ymateb drafft y Cyngor o ran pa gamau gweithredu, os o gwbl, y bwriada'r Cyngor eu cymryd mewn ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol;

9.2.1.11 Cadw at drefniadau atebolrwydd, gan gynnwys adrodd ar drefniadau a pherfformiad y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor.

9.2.2 CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

9.2.2.1 Aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Ar hyn o bryd mae aelodaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys 6 Chynghorydd Sir a 3 Unigolyn Lleyg;

9.2.2.2 Cadeirio'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Ar hyn o bryd mae Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Gynghorwyr Sir Grŵp yr Wrthblaid.

9.2.3 Cworwm

Dim ond pan fydd o leiaf dri aelod yn bresennol yw cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio â chworwm.

9.2.4 Pleidleisio

9.2.4.1 Mwyafrif

Oni bai bod y Cyfansoddiad hwn yn darparu fel arall, bydd unrhyw fater yn cael ei benderfynu gan fwyafrif syml o'r aelodau Pwyllgor hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn y cyfarfod ar yr adeg y gwnaed yr argymhelliad neu'r cynnig.

9.1.4.2 Pleidlais Fwrw'r Cadeirydd

Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd dim cyfyngiad ar sut

mae'r Cadeirydd yn dewis arfer pleidlais fwrw.

ERTHYGL 10 – CYD-DREFNIADAU

10.1 TREFNIADAU I HYBU LLES

Gall y Cyngor neu'r Cabinet wneud fel a ganlyn, er mwyn hybu lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ei ardal:

- 10.1.1 gall wneud trefniadau neu gytundebau gydag unrhyw un neu unrhyw gorff;
- 10.1.2 cydweithredu gydag unrhyw un neu unrhyw gorff, neu hwyluso neu gydlynu eu gweithgareddau; ac
- 10.1.3 arfer ar ran y person neu'r corff hwnnw unrhyw rai o swyddogaethau'r person neu'r corff hwnnw.

10.2 CYD DREFNIADAU

- 10.2.1 Gall y Cyngor sefydlu cyd drefniadau gydag un neu fwy o awdurdodau lleol ac/neu Fyrddau Iechyd ac/neu eu Gweithrediaethau i arfer swyddogaethau nad ydynt yn swyddogaethau Gweithrediaeth mewn unrhyw rai o'r awdurdodau cyfranogol, neu i gynghori'r Cyngor. Gallai trefniadau o'r fath gynnwys penodi Cyd Bwyllgorau, neu Fyrddau Partneriaeth Iechyd Rhanbarthol gyda'r awdurdodau lleol ac/neu'r Byrddau Iechyd eraill hynny.
- 10.2.2 Gall y Cabinet sefydlu cyd drefniadau gydag un neu fwy o awdurdodau lleol i arfer swyddogaethau sy'n swyddogaethau Gweithrediaeth. Gallai trefniadau o'r fath gynnwys penodi Cyd Bwyllgorau neu Fyrddau Partneriaeth Iechyd Rhanbarthol gyda'r awdurdodau lleol ac/neu'r Byrddau Iechyd eraill hynny.
- 10.2.3 Ac eithrio'r hyn a nodir isod, ni all y Cabinet ond penodi aelodau Cabinet i Gyd Bwyllgor ac nid oes raid i'r aelodau hynny adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor lleol yn ei gyfanrwydd.
- 10.2.4 Gall y Cabinet benodi aelodau i Gyd Bwyllgor o'r tu allan i'r Cabinet lle bo gan y Cyd Bwyllgor swyddogaethau dros ran yn unig o ardal y Cyngor, ac mae'r ardal honno'n llai na dwy ran o bump o'r Cyngor o ran arwynebedd neu boblogaeth. Mewn achosion o'r fath, gall y Cabinet benodi i'r Cyd

Bwyllgor unrhyw Gyngorydd sy'n aelod dros adran etholiadol sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn yr ardal. Nid yw'r gofynion sydd ynglŷn â chydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol i benodiadau o'r fath.

- 10.2.5 Mae manylion unrhyw gyd drefniadau gan gynnwys unrhyw ddirprwyaethau i Gyd Bwyllgorau i'w cael yng nghynllun dirprwyaethau'r Cyngor yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn.

10.3 MYNEDIAD AT WYBODAETH

- 10.3.1 Mae'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth sydd yn Rhan 4, Dogfen B y Cyfansoddiad hwn yn gymwys.

10.4 DIRPRWYO I AWDURDODAU LLEOL ERAILL AC ODDI WRTHYNT

- 10.4.1 Gall y Cyngor ddirprwyo swyddogaethau anweithredol i awdurdod lleol arall neu, o dan rai amgylchiadau, i weithrediaeth awdurdod lleol arall.
- 10.4.2 Gall y Cabinet ddirprwyo swyddogaethau gweithrediaeth i awdurdod lleol arall neu i weithrediaeth awdurdod lleol arall o dan rai amgylchiadau.
- 10.4.3 Bydd y penderfyniad p'run ai i dderbyn dirprwyaeth o'r fath o awdurdod lleol arall ai peidio'n cael ei gyfyngu i gyfarfod o'r Cyngor.

10.5 CONTRACTIO ALLAN

Gall y Cyngor neu'r Cabinet drefnu i'r Cyngor gontractio allan i gorff neu sefydliad arall swyddogaethau y gall swyddog eu harfer. Gellir trefnu i gontractio allan i awdurdod lleol arall o dan Adran 101 Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 2 Rhan 1 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae darpariaethau statudol arbennig yn caniatáu trefniadau ar y cyd â Chyrff Iechyd, ond o dan amgylchiadau eraill mae'n bosib y bydd angen gorchymyn o dan adran 70, Deddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994, onid yw'r trefniadau contractio yn nodi bod y contractwr yn gweithredu fel asiant ar ran y Cyngor o dan yr egwyddorion contractio arferol (ar yr amod nad oes unrhyw ddirprwyo ar allu'r Cyngor i wneud penderfyniadau yn ôl ei ddisgresiwn).

ERTHYGL 11– SWYDDOGION

11.1 STRWYTHUR RHEOLI

11.1.1 Gallwch weld Siart y Sefydliad yn Rhan 7 y ddogfen hon a hefyd ar wefan y Cyngor.

11.1.2 Cyffredinol. Gall y Cyngor llawn gyflogi pa staff bynnag (y cyfeirir atynt fel swyddogion) y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaethau.

11.1.3 Prif Swyddogion. Bydd y Cyngor llawn yn cyflogi pobl ar gyfer y swyddi canlynol, sy'n Brif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion dynodedig fel y'u diffinnir ym Mharagraff 3, Rhan 2 Atodlen 3, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 fel y'u diwygiwyd.

Tudalen 334

Swydd Prif Swyddog	Swydd Dirprwy Brif Swyddog	Swyddogaethau a meysydd cyfrifoldeb
Prif Weithredwr		<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Canlyniadau Dros Dro ar gyfer Etholiadau Seneddol • Swyddog Cyfrif ar gyfer Etholiadau Ewrop • Swyddog Cyfrif ar gyfer Refferenda • Swyddog Cofrestru Etholiadol • Os penodir gan yr Arglwydd Ganghellor, gweithredu fel Ysgrifennydd i Bwyllgor Ymgynghorol yr Arglwydd Ganghellor ar Ynadon i Geredigion. • Rheolaeth gorfforaethol gyffredinol a chyfrifoldeb gweithredol (gan gynnwys cyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r holl swyddogion); • Cynrychioli'r awdurdod ar gyrf partneriaeth ac allanol (fel bo'n ofynnol yn statudol neu gan y Cyngor); • Swyddog Canlyniadau Etholiadau Llywodraeth Leol gan gynnwys Cyngorau Cymuned ac Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru • Darparu gwasanaeth i'r Cyngor i gyd, a hynny'n wleidyddol niwtral. • Darparu cyngor proffesiynol a diduedd i'r holl bartïon yn y broses o wneud penderfyniadau – yr Arweinydd a'r Cabinet, Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, y Cyngor llawn a Phwyllgorau eraill; • Gweithredu fel Clerc ar y Cyd i'r Rhaglafiaeth ar gyfer ei weithgareddau / ei gweithgareddau yng Ngheredigion. • Swyddog Priodol i Wasanaeth y Crwner.

Tudalen 335

		<ul style="list-style-type: none">• Ynghyd â'r Swyddog Priodol, bydd yn gyfrifol am system o gadw cofnod o holl benderfyniadau'r Cyngor (Gweithrediaeth neu fel arall);• Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu
--	--	---

Swydd Prif Swyddog	Swydd Dirprwy Brif Swyddog	Swyddogaethau a meysydd cyfrifoldeb
Cyfarwyddwyr Corfforaethol		<p>Gweithio gyda'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arweiniol Hŷn ehangach gan ddarparu arweiniad strategol ar draws Ceredigion – gan hyrwyddo'r sir fel mân i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo ac fel lle i ymweld ag ef.</p> <p>Arwain ar yr agenda iechyd a lles strategol; gan gynnig cyfeiriad strategol i'r dull gweithredu a arweinir gan bartneriaethau wrth gyflenwi gwasanaethau cymorth i oedolion a phlant gan ddiogelu'r rheini sy'n agored i niwed, trwy Geredigion.</p> <p>Prif Gyfrifoldebau</p> <p>1. Arweiniad Strategol</p> <p>Arwain cyfeiriad strategol yr amrywiol swyddogaethau; gan sicrhau bod Ceredigion yn lle sy'n cefnogi ac yn gwerthfawrogi ei ddinasyddion,</p> <p>yn diogelu'r rheini sy'n agored i niwed, ac yn darparu gofal ac amddiffyn priodol,</p> <p>gan roi'r cyfle gorau iddynt sicrhau datblygiad academaidd a sgiliau fel y gallant gyfrannu at dwf economaidd a chymdeithasol y Sir.</p> <p>2. Perfformiad Thematig</p> <p>Monitro perfformiad gwasanaethau ar draws y Cyngor y mae ganddo reolaeth drostynt.</p> <p>Asesu perfformiad yn erbyn cynlluniau i sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu cyflenwi yn effeithiol ac effeithlon a'u bod yn cyrraedd y safonau uchaf; gan gynnwys y gwasanaethau ariannol, perfformiad, risgiau, pobl a rheoli newid.</p> <p>Arwain ac ysgogi'r rheolwyr a'r staff i ddatblygu</p>

		<p>diwylliant o berfformiad uchel sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid / y cymunedau.</p> <p>Gwella perfformiad trwy fwrw ymlaen â moderneiddio a rheoli newid, gan sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â'r amcanion corfforaethol.</p> <p>Hwyluso rhaglenni newid a thrawsnewid ar draws y Cyngor, gan gefnogi uwch reolwyr o ran cyflenwi gwasanaethau rhagorol trwy ddarparu cyngor ymarferol ac effeithiol.</p> <p>3. Ymgysylltiad Gwleidyddol</p> <p>Arwain yr ymgysylltiad gwleidyddol a democrataidd o ran y meysydd thematig perthnasol; sefydlu a chynnal gweithdrefn sy'n ymwneud â'r gwasanaethau democrataidd a chraffu.</p> <p>Datblygu perthynas waith gref â'r aelodau etholedig; gan ddarparu cyngor o'r radd flaenaf i gynnal perfformiad y Cyngor a'i wella.</p> <p>4. Ymgysylltu â'r Rhanddeiliaid</p> <p>Ymgysylltu â phartneriaid lleol o'r sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol wrth gyflawni'r blaenoriaethau Corfforaethol; gan greu rhwydwaith eang o gysylltiadau ar draws y sector cyhoeddus a phreifat i ddatblygu Ceredigion fel man i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo ac fel lle i ymweld ag ef.</p> <p>5. Cyfathrebu</p> <p>Cyfathrebu gweledigaeth a gwerthoedd y sefydliad i amrywiaeth eang o randdeiliaid; gan sicrhau cefnogaeth yn eu plith er mwyn sicrhau gwell gwasanaethau cyhoeddus.</p>
--	--	--

Tudalen 338

Swydd Prif Swyddog	Swydd Dirprwy Brif Swyddog	Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb
	<p>Swyddog Arweiniol Corfforaethol</p> <p>Ysgolion a Diwylliant</p> <p>*Prif Swyddog Addysg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwella ysgolion, gan gynnwys defnyddio hysbysiadau statudol o fewn ysgolion prif ffrwd ac unedau cyfeirio disgyblion. • Cefnogi'r Cwricwlwm • Aseu, cynnydd disgyblion a mesurau atebolrwydd • Arweinyddiaeth mewn ysgolion • Darpariaeth ôl-16 mewn ysgolion • Addysg y blynyddoedd cynnar mewn lleoliadau nas cynhelir • Darpariaeth gofal plant • Gwasanaethau Gwella Ysgolion gan gynnwys gwasanaeth ymgynghorol • Cymorth i Gyrrff Llywodraethol • Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg • Canolfannau Iaith • Cymraeg/Saesneg fel iaith ychwanegol • Anghenion Dysgu Ychwanegol gan gynnwys cyn ysgol • Cynhwysiant a Llesiant • Apeliadau gwahardd o'r ysgol • Monitro addysg ddewisol yn y cartref • Derbyn disgyblion • Llais y disgybl • Trwyddedau Perfformiadau Plant • Presenoldeb mewn ysgolion • Rhaglen moderneiddio ysgolion • Seilwaith ac adnoddau • Gwasanaeth arlwyo • Darpariaeth Gofal Plant • Gwasanaeth cerddoriaeth • Theatr Felinfach • Cered • Yr Amgueddfa

Tudalen 339

Swydd Prif Swyddog	Swydd Dirprwy Brif Swyddog	Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb
	Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cymorth Cynnar	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaethau Ymddygiad • HCT (dysgu seiliedig ar waith) • Dysgu Bro (Addysg Oedolion yn y Gymuned) • Dysgu a Sgiliau ôl-14 • Cwricwlwm Amgen • Hamdden • Pobl Ifanc Egnïol • Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff • Chwaraeon Anabledd • Gwasanaethau Ieuencid • NEETs • Gwasanaethau ôl-16 (Prosiect Cam Nesa') • Profiad Gwaith (Estynedig) • Gweithffyrdd+ • Cymunedau dros waith • Dechrau'n Deg • Prosiect Braenaru • Chwarae • Gofalwyr • Tîm o Amgylch y Teulu • Tîm Teulu • Canolfan Deuluol Penparcau • Teuluoedd yn Gyntaf • Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ac Atal • Cyfleoedd yn ystod y dydd / gyda'r hwyr • Porth y Gymuned • Cysylltwyr Cymunedol • Channel (Cadeirydd Channel)

Tudalen 340

Swydd Prif Swyddog	Swydd Dirprwy Brif Swyddog	Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb
	<p>Swyddog Arweiniol Corfforaethol</p> <p>Cyllid a Chaffael</p> <p>* Swyddog Adran 151</p>	<p>Cyllid Craidd (Dirprwy Swyddog Adran 151)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllun Ariannol Tymor Canolig • Datganiad o'r Cyfrifon • Rhaglen Gyfalaf • Systemau Gwybodaeth Ariannol • Yswiriant • Amrywiol Ddyledwyr • Grantiau Cymunedol • Trethi • Rheoli'r Trysorlys a Chyfrifyddu Incwm • Taliadau o ran Cartrefi Gofal <p>Cyllid Gwasanaethau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rheolaeth Ariannol • Cyfrifyddiaeth • Gosod a Rheoli'r Gyllideb • Cyfrifon Terfynol • Hawliadau Grant • Cefnogaeth i'r Ysgolion o ran Rheolaeth Ariannol • Cyllid Allanol <p>Refeniw ac Aseidiadau Ariannol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Biliau Treth y Cyngor gan gynnwys Casglu ac Adennill • Biliau Ardrethi Annomestig Cenedlaethol gan gynnwys Casglu ac Adennill • Ardrethi yn ôl Disgresiwn a Rhyddhad Caledi • Cymorth Treth y Cyngor • Budd-daliadau Tai • Aseidiadau Ariannol • Systemau Refeniw • Taliadau Tai Dewisol • Prydau Ysgol am Ddim a'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad <p>Caffael a Thaliadau</p> <ul style="list-style-type: none"> • Archebu • Dyfynbrisiau a Thendrau • Taliadau • Cyngor am Gaffael a Rheolaeth dros Gaffael • Comisiynu Contractau Gwasanaethau • Deddf Enillion Troseddau 2002

Cyngor Sir Ceredigion Rhan 2 Erthyglau'r Cyfansoddiad
 ERTHYGL 11 SWYDDOGION
 Diweddarwyd Chwefror 2022

Tudalen 341

Swydd Prif Swyddog	Swydd Dirprwy Brif Swyddog	Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb
	<p>Swyddog Corfforaethol Arweiniol</p> <p>Gwasanaethau Democrataidd</p> <p>*Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cymorth i'r Cabinet • Gwasanaethau Democrataidd • Dirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol • Dirprwy Swyddog Canlyniadau Gweithredol ar gyfer Etholiadau Seneddol • Dirprwy Swyddog Canlyniadau ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol gan gynnwys Cynghorau Cymuned ac Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru • Dirprwy Swyddog Canlyniadau Lleol Ardal yr Heddlu • Cymorth i'r Aelodau • Cymorth Craffu • Gwasanaethau Cyfieithu • Cyfathrebu ac Ymgysylltu • Gwasanaethau Etholiadol • Cymorth Corfforaethol i Wasanaethau • Safonau'r Gymraeg

Swydd Prif Swyddog	Swydd Dirprwy Brif Swyddog	Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb
	Swyddog Arweiniol Corfforaethol Pobl a Threfniadaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Swyddog Awdurdodedig a Swyddog Awdurdodi: Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 • Adnoddau Dynol – Cyngori a Gweinyddu • Y Gyflogres a Budd-daliadau • Systemau Adnoddau Dynol • Datblygiad Sefydliadol • Dysgu a Datblygu corfforaethol • Iechyd a Diogelwch Corfforaethol • Ymgysylltu â'r staff a llesiant y gweithwyr • Cydraddoldeb i weithwyr

Tudalen 343

Swydd Prif Swyddog	Swydd Dirprwy Brif Swyddog	Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb
	<p>Swyddog Arweiniol Corfforaethol</p> <p>Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes</p> <p>*Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol</p> <p>*Unigolyn Cyfrifol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mabwysiadu Plant ac Oedolion Anabl • Pobl sy'n gadael Gofal • Plant sy'n Derbyn Gofal • Gwasanaethau Gofal wedi'i Gynllunio (Oedolion) • Gwasanaeth Diogelu Plant ac Oedolion gan gynnwys y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol • Plant sydd angen gofal a chymorth • Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau • Monitro Contractau (Gofal Cymdeithasol) a Sicrhau Ansawdd • Y trefniadau o ran Partneriaethau Rhanbarthol (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014) • Swyddog Awdurdodedig a Swyddog Awdurdodi: Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 • Gwasanaethau Lles Meddyliol • Penderfynwr yr Asiantaeth - Plant

Swydd Prif Swyddog	Swydd Dirprwy Brif Swyddog	Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb
	Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal Gwasanaethau Ymyrraeth wedi'i Thargedu *Dirprwy Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol	<ul style="list-style-type: none"> • Porth Gofal – Derbyn a Brysbennu • Storfeydd Cyfarpar Cymunedol Integredig • Gwasanaethau Ymyrraeth wedi'i Thargedu – Oedolion a Phlant • Asesu anghenion gofal a chymorth – Oedolion a Phlant • Gwasanaethau Uniongyrchol (Gofal Preswyl Mewnol / Gofal Cartref / Cyfarpar) • Cydlynu Gofal Cartref • Porth Gofal • Gwasanaethau Maethu • Tai • Cofrestr Tai Cyffredin • Digartrefedd ac Opsiynau Tai • Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl • Effeithlonrwydd Ynni Cartref • Safonau Tai (Tai Amlfeddiannaeth, Achredu Landlordiaid ac Asiantaethau Gosod) • Gwasanaethau argyfwng y tu allan i oriau

Swydd Prif Swyddog	Swydd Dirprwy Brif Swyddog	Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb
	<p>Swyddog Arweiniol Corfforaethol</p> <p>Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd</p> <p>*Swyddog Priodol – Deddf Iechyd y Cyhoedd Rheoli Clefydau 1984</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Argyfyngau Sifil / Parhad Busnes a'r Fforwm Cydnerthedd Lleol • Partneriaethau Strategol, gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Diogelwch Cymunedol • Ymgysylltu a Chydraddoldeb • Polisi, Rheoli Risgiau a Chydlyniant Cymunedol • Rhyddid Gwybodaeth, Cwynion, Canmoliaethau, Gwelliannau Corfforaethol • Cynllunio Busnes a Gwella • Perfformiad Corfforaethol ac Ymchwil • Trwyddedu • Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd • Iechyd Anifeiliaid • Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd • Safonau Masnach • Iechyd a Diogelwch (rheoleiddiol) • Rheoli'r Amgylchedd • Niwsans Statudol • Bwrdd Cynllunio Ardal Dyfed (Camddefnyddio Sylweddau) • Iechyd y Cyhoedd • Uwch Swyddog Awdurdodi – Deddf Enillion Troseddau 2002 • Swyddog Awdurdodedig a Swyddog Awdurdodi: Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 • Angladdau Iechyd y Cyhoedd • Claddedigaethau preifat • Safleoedd brwnt a phryfedog • Systemau Draenio • Cyflenwadau Dŵr Preifat • Ansawdd Aer • Adsefydlu Ffoaduriaid

Swydd Prif Swyddog	Swydd Dirprwy Brif Swyddog	Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb
	<p>Swyddog Arweiniol Corfforaethol</p> <p>Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cydweithrediad Seilwaith Canolbarth Cymru / Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru • Newid Hinsawdd • Gwasanaethau Dylunio (Priffyrdd) • Llifogydd a'r Arfordir • Priffyrdd/Pontydd • Darparu gwasanaethau yng nghyswllt Priffyrdd a Gwastraff • Trafnidiaeth Gyhoeddus • Cydweithio ym maes Trafnidiaeth Ranbarthol (TraCC) • Diogelwch y Ffyrdd • Rheoli Traffig • Gorfodi Parcio Sifil • Trafnidiaeth (gan gynnwys yr Uned Gorfforaethol Cludiant Teithwyr) • Cynllunio Trafnidiaeth (Lleol a Rhanbarthol) • Gwastraff • Cynnal a Chadw'r Priffyrdd • Gwasanaethau Amgylcheddol Lleol • Datblygu'r Priffyrdd • Gwasanaethau Trafnidiaeth

Tudalen 347

Swydd Prif Swyddog	Swydd Dirprwy Brif Swyddog	Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb
	<p>Swyddog Arweiniol Corfforaethol</p> <p>Economi ac Adfywio</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu Economaidd • Adfywio Economaidd a Chymunedol • Cyllid a Grantiau • Grantiau Busnes • Canolfan Bwyd Cymru • Marchnad y Ffermwyr a Marchnadoedd eraill • Polisi Cynllunio • Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru • Ymgysylltu Rhanbarthol • Cynllunio Rhanbarthol • Twristiaeth a marchnata • Canolfannau Croeso; • Bywyd Gwyllt, yr Arfordir a Chefn Gwlad • Llwybrau Troed, Llwybrau Ceffylau a Chilffyrdd • Swyddog Priodol – Adran 78, Deddf Adeiladu 1984 (adeiladau peryglus) • Rheoli Datblygu (Cynllunio) • Cynllunio Gwlad a Thref • Cadwraeth • Gorfodi Cynllunio a Rheoli Adeiladu • Ystadau / Datblygu • Gwasanaethau Eiddo • Rheoli Asedau • Rheoli Prosiectau • Holl Adeiladau a Chynnal a Chadw Adeiladau • Gorfodi Sifil

Tudalen 348

Swydd Prif Swyddog	Swydd Dirprwy Brif Swyddog	Swyddogaethau a Meysydd Cyfrifoldeb
	<p>Swyddog Arweiniol Corfforaethol</p> <p>Cyswllt Cwsmeriaid</p> <p>*Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO)</p> <p>*Swyddog Priodol ar gyfer Cofrestru Sifil</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Archifau a Chofnodion Modern • Cefnogi a Datblygu TGCh Corfforaethol ac Addysg • Canolfannau Gwybodaeth i Gwsmeriaid • Cyswllt Cwsmeriaid / Lles y Gymuned • Diogelu Data gan gynnwys GDPR • TGCh • CLIC gan gynnwys Gwasanaethau Cefnogi Gwybodaeth i Deuluoedd • DEWIS • Cofrestru Sifil • Ceisiadau Mynediad Cyhoeddus • Rheoli Gwybodaeth • Gwasanaethau Llyfrgelloedd • Uned Reprograffeg • Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth

Tudalen 349

Swydd Prif Swyddog	Swydd Dirprwy Brif Swyddog	Swyddogaethau a meysydd cyfrifoldeb
	<p>Swyddog Corfforaethol Arweiniol</p> <p>Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu</p> <p>*Swyddog Monitro</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol / Prif Swyddog Cyfreithiol • Gwasanaethau'r Crwner • Archwilio Mewnol • Archwilio Allanol a Rheoleiddwyr • Y berthynas â Swyddfa Archwilio Cymru • Llywodraethu Corfforaethol • Y Cyfansoddiad • Mynediad at wybodaeth • Dirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol • Moeseg a Safonau • Swyddog Monitro • Rhybuddion o Gynnig • Atgyfeiriadau / Ymchwiliadau o ran y Cod Ymddygiad ac Ombwdsmon • Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru • Uwch Swyddog Cyfrifol: Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000

11.1.4 Swyddi Statudol.

Bydd y Cyngor yn dynodi'r swyddi canlynol fel a ganlyn:

Swydd	Dynodiad
Prif Weithredwr	Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael	Prif Swyddog Cyllid - Swyddog Adran 151
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu	Swyddog Monitro
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd*	Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant	Prif Swyddog Addysg
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes	Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol

*Dynodir gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

Bydd swyddogaethau'r swyddi hynny fel y'u disgrifir yn Erthygl 11.2–11.8 isod.

11.1.5 Strwythur. Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig yn pennu disgrifiad o strwythur adrannol cyffredinol y Cyngor ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i hynny, gan ddangos y strwythur rheoli a sut y rhoddir swyddogion ar waith. Cyflwynir hyn yn Rhan 7 y Cyfansoddiad hwn.

11.2 SWYDDOGAETHAU PENNAETH Y GWASANAETH CYFLOGEDIG

11.2.4 Y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau. Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig yn adrodd i'r Cyngor llawn ynglŷn â'r modd y cydlynir cyflawniad swyddogaethau'r Cyngor, nifer a graddfa'r swyddogion sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni swyddogaethau, trefnu swyddogion a phenodi a rheoli swyddogion yn briodol.

11.2.5 Cyfyngiadau ar swyddogaethau. Ni all Pennaeth y Gwasanaethau Cyflogedig fod yn Swyddog Monitro ond gall ddal swydd y Prif Swyddog Cyllid os yw'n gyfrifydd cymwysedig.

11.3 SWYDDOGAETHAU'R SWYDDOG MONITRO

11.3.4 Cynnal y Cyfansoddiad. Bydd y Swyddog Monitro'n cadw fersiwn gyfredol o'r Cyfansoddiad a bydd yn sicrhau bod yr aelodau, y staff a'r cyhoedd yn cael rhwydd hynt i'w darllen.

11.3.5 Sicrhau y gwneir penderfyniadau yn gyfreithlon ac yn deg. Ar ôl ymgynghori â Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Prif Swyddog Cyllid, bydd y Swyddog Monitro'n adrodd i'r Cyngor llawn neu i'r Cabinet ynghylch swyddogaeth y Cabinet os yw o'r farn y byddai unrhyw gynnig, penderfyniad neu hepgoriad yn arwain at sefyllfa anghyfreithlon, neu os oes unrhyw benderfyniad neu hepgoriad wedi arwain at gamweinyddu. Byddai adroddiad o'r fath yn atal y cynnig neu'r penderfyniad rhag cael ei weithredu hyd nes bo'r adroddiad wedi ei ystyried.

11.3.6 Cefnogi'r Pwyllgor Moeseg a Safonau. Bydd y Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro yn cyfrannu at hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad drwy ddarparu cefnogaeth i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.

11.3.7 Derbyn adroddiadau. Bydd y Swyddog Monitro'n derbyn adroddiadau'r Ombwdsmon a phenderfyniadau tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos interim a bydd yn gweithredu arnynt.

11.3.8 Cynnal ymchwiliadau. Bydd y Swyddog Monitro'n cynnal

ymchwiliadau i faterion y bydd yr Ombwdsmon yn eu cyfeirio ato/ati a bydd yn llunio adroddiadau neu argymhellion yn eu cylch at sylw'r Pwyllgor Safonau.

11.3.9 Swyddog Priodol ar gyfer mynediad at wybodaeth. Bydd y Swyddog Monitro'n sicrhau bod penderfyniadau Gweithredol, ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniadau hynny ac adroddiadau gan swyddogion perthnasol a phapurau cefndir, ar gael i'r cyhoedd mor fuan ag sy'n bosibl.

11.3.10 Cyngori ynglŷn ag a yw penderfyniadau'r Cabinet yn unol â'r gyllideb a'r fframwaith polisi. Bydd y Swyddog Monitro'n cyngori ynglŷn ag a yw penderfyniadau'r Cabinet yn unol â'r gyllideb a'r fframwaith polisi ai peidio.

11.3.11 Rhoi cyngor. Bydd y Swyddog Monitro, ar y cyd â'r Prif Swyddog Cyllid, yn rhoi cyngor ynglŷn â chwmpas y pwerau a'r awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddu, amhriodoldeb ariannol, uniondeb a materion y mae a wnelont â'r gyllideb a'r fframwaith polisi i bob Cyngorydd a swyddog perthnasol

11.3.12 Cyfyngiadau ar swyddogaethau. Ni all Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig fod yn Swyddog Monitro nac yn Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ond gall ddal swydd y Prif Swyddog Cyllid os yw'n gyfrifydd cymwysedig, Ni all Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fod yn Swyddog Monitro nac yn Brif Swyddog Ariannol.

11.4 SWYDDOGAETHAU'R PRIF SWYDDOG CYLLID/SWYDDOG ADRAN 151

11.4.1 Sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn rhai cyfreithlon a'u bod yn ddarbodus yn ariannol. Ar ôl ymgynghori gyda Phennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a'r Swyddog Monitro, bydd y Prif Swyddog Cyllid yn adrodd i'r Cyngor llawn neu i'r Cabinet ynghylch swyddogaeth y Cabinet, ac archwilydd allanol y Cyngor os bydd o'r farn y byddai unrhyw gynnig, penderfyniad neu ddull o weithredu yn peri gwariant anghyfreithlon, neu maent yn anghyfreithlon ac yn debygol o achosi colled neu ddiffyg neu os

yw'r Cyngor ar fin cofnodi eitem o'r cyfrifon yn anghyfreithlon.

11.4.2 Gweinyddu materion ariannol. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor.

11.4.3 Cyfrannu at reolaeth gorfforaethol Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn cyfrannu at reolaeth gorfforaethol y Cyngor, yn benodol felly drwy ddarparu cyngor ariannol proffesiynol.

11.4.4 Rhoi cyngor. Bydd y Prif Swyddog Cyllid, ar y cyd â'r Swyddog Monitro, yn rhoi cyngor ynglŷn â chwmpas pwerau ac awdurdod i wneud penderfyniadau, camweinyddu, amhriodoldeb ariannol, uniondeb a materion y mae a wnelont â'r gyllideb a'r fframwaith polisi i'r Cynghorwyr i gyd, a bydd yn cefnogi ac yn cynghori'r Cynghorwyr a'r swyddogion yn eu gwahanol rolau.

11.4.5 Rhoi gwybodaeth ariannol. Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn darparu gwybodaeth ariannol i'r cyfryngau, i'r cyhoedd ac i'r gymuned fel y bo'n briodol.

11.5 SWYDDOGAETHAU PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

11.5.1 rhoi cymorth a chyngor:

- i'r Cyngor mewn perthynas â'i gyfarfodydd
- i bwyllgorau'r Cyngor ac i aelodau'r pwyllgorau hynny
- i unrhyw Gydbwyllgor y mae'r Cyngor yn gyfrifol am ei drefnu ac i aelodau'r Gydbwyllgor hwnnw mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor, aelodau'r Cyngor, aelodau'r Cabinet a'r swyddogion.
- i bob aelod o'r Cyngor wrth iddo gyflawni rôl aelod o'r Cyngor
- i hybu rôl Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor
- i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn cysylltiad â nifer y staff y mae eu hangen i gyflawni swyddogaethau democrataidd, a'u graddau, a phenodi, trefnu a rheoli'r staff hynny'n briodol

- i unrhyw swyddogaethau eraill a bennir gan Weinidogion Cymru.

11.6 SWYDDOGAETHAU'R PRIF SWYDDOG ADDYSG

11.6.1. Ymgymryd â'r dyletswyddau statudol y mae'n ofynnol i Brif Swyddog Addysg eu cyflawni fel yr amlinellir yn adran 532, Deddf Addysg 1996

11.7 SWYDDOGAETHAU CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

11.7.1. Amlinellir Swyddogaethau Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Rhan 4, Dogfen P.

11.8 DYLETWSYDD I DDARPARU ADNODDAU DIGONOL I'R SWYDDOGION STATUDOL

11.8.1 Bydd y Cyngor yn darparu pa bynnag swyddogion, swyddfeydd ac adnoddau eraill ar gyfer y Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid / Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, y Prif Swyddog Addysg a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fel y bo'n briodol yn eu barn hwy ac yn ddigonol iddynt gyflawni eu dyletswyddau.

11.9 YMDDYGIAD

Bydd y swyddogion yn cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Swyddogion a'r Protocol ynglŷn â chysylltiadau rhwng Swyddogion/Aelodau fel y'u ceir yn Rhan 5 y Cyfansoddiad hwn.

11.10 CYFLOGAETH

Wrth recriwtio, dethol a diswyddo swyddogion dylid cydymffurfio â'r Rheolau sy'n ymwneud â Chyflogi Swyddogion a geir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

ERTHYGL 12 – GWNEUD PENDERFYNIADAU

12.1 CYFRIFOLDEB DROS WNEUD PENDERFYNIADAU

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi ac yn cadw'n gyfredol gofnod o ba ran o'r Cyngor neu unigolyn sy'n gyfrifol am wahanol fathau o benderfyniadau neu benderfyniadau sy'n ymwneud â meysydd neu swyddogaethau neilltuol. Mae'r cofnod hwn i'w weld yn Rhan 3 y Cyfansoddiad hwn.

12.2 EGWYDDORION GWNEUD PENDERFYNIADAU

Gwneir holl benderfyniadau'r Cyngor yn unol â'r egwyddorion canlynol:

- 12.2.1 Cymesuredd (h.y. rhaid i unrhyw gamau a gymerir fod yn gymesur â'r hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni);
- 12.2.2 ymgynghori priodol a chyngor proffesiynol oddi wrth y swyddogion ;
- 12.2.3 parchu cydraddoldeb a hawliau dynol;
- 12.2.4 rhagdybiaeth o blaid bod yn agored;
- 12.2.5 eglurder ynghylch yr amcanion a'r canlyniadau a ddymunir.
- 12.2.6 Cadw cofnod priodol o'r rhesymau dros y penderfyniad, unrhyw fuddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu ynghyd ag unrhyw ollyngiadau i siarad a roddir gan Bwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor.
- 12.2.7 Cymryd pob cam rhesymol a/neu roi sylw dyledus i:
 - 12.2.7.1 cwrdd â'r egwyddorion a'r nodau a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wrth gyflawni ei swyddogaethau;
 - 12.2.7.2 dymunoldeb lleihau anghydraddoldebau canlyniad sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol (yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010); a
 - 12.2.7.3 Polisi Atal Caethwasiaeth a Datganiad Blynyddol Atal Caethwasiaeth y Cyngor (yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015).

12.3 PENDERFYNIADAU A GEDWIR I'R CYNGOR LLAWN

Gwneir penderfyniadau sy'n ymwneud â'r swyddogaethau a restrir yn Erthygl 4.1 gan y Cyngor llawn ac ni fyddant yn cael eu dirprwyo.

12.4 GWNEUD PENDERFYNIADAU YN Y CYNGOR LLAWN

Yn amodol ar Erthygl 12.8 a Rhan 3.5 ynghylch camau brys, bydd cyfarfod y Cyngor yn dilyn Rheolau Gweithdrefn y Cyngor ac unrhyw Weithdrefnau perthnasol eraill a nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

12.5 GWNEUD PENDERFYNIADAU YN Y CABINET

Yn amodol ar Erthygl 12.8, bydd y Cabinet yn dilyn Rheolau Gweithdrefn y Cabinet ac unrhyw weithdrefnau perthnasol eraill a nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

12.6 GWNEUD PENDERFYNIADAU YN Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

Bydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n dilyn y Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu ac unrhyw weithdrefnau perthnasol eraill a nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn wrth ystyried unrhyw fater.

12.7 GWNEUD PENDERFYNIADAU MEWN PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU ERAILL A SEFYDLIR GAN Y CYNGOR

Yn amodol ar Erthygl 12.8, bydd Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau eraill y Cyngor yn dilyn y rhannau hynny o Reolau Gweithdrefn y Cyngor ac unrhyw weithdrefnau perthnasol eraill a nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn fel ag y maent yn berthnasol iddynt.

12.8 CYRFF O'R CYNGOR SY'N GWEITHREDU FEL TRIBIWNLYSOEDD YN GWNEUD PENDERFYNIADAU

Pan fydd y Cyngor, Cyngorydd neu swyddog/swyddogion sy'n gweithredu fel tribiwnlys neu mewn dull lled-farnwrol neu yn penderfynu/yn ystyried (ac eithrio at ddibenion rhoi cyngor) hawliau sifil a rhwymedigaethau neu gyfrifoldeb troseddol rhywun, bydd gofyn dilyn gweithdrefn briodol sy'n unol â gofynion cyfiawnder naturiol a'r hawl i brawf teg a gynhwysir yn Erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

ERTHYGL 13 – CYLLID, CONTRACTAU A MATERION CYFREITHIOL

13.1 RHEOLAETH ARIANNOL

Caiff materion ariannol y Cyngor eu rheoli'n unol â'r rheolau ariannol a geir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

13.2 CONTRACTAU

Bydd pob contract a wneir gan y Cyngor yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau a geir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

13.3 ACHOSION CYFREITHIOL

Awdurdodir y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu i gychwyn, amddiffyn neu gyfranogi o unrhyw achosion cyfreithiol mewn unrhyw achos lle bo'n angenrheidiol gweithredu yn y fath fodd i gyflawni penderfyniadau'r Cyngor neu mewn unrhyw achos lle bo y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu o'r farn bod camau o'r fath yn angenrheidiol i warchod buddiannau'r Cyngor.

13.4 DILYSU DOGFENNAU

Lle bo unrhyw ddogfen yn angenrheidiol i unrhyw weithdrefnau neu achosion cyfreithiol ar ran y Cyngor, caiff ei harwyddo gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a/neu rywun arall a awdurdodir gan y Cyngor, onid oes deddfiad yn awdurdodi neu'n mynnu fel arall. Gweinyddir pob contract yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau.

13.5 SÊL GYFFREDIN Y CYNGOR

Cedwir Sêl Gyffredin y Cyngor mewn lle diogel yng ngofal y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu. Bydd penderfyniad gan y Cyngor, neu unrhyw ran ohono, yn awdurdod digonol i selio unrhyw ddogfen sy'n angenrheidiol i weithredu'r penderfyniad. Gosodir y Sêl Gyffredin ar y dogfennau hynny mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd, y Swyddog Monitro neu'r Prif Weithredwr o'r farn y dylid eu selio. Pan osodir y Sêl Gyffredin bydd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd, y Swyddog Monitro neu'r Prif Weithredwr neu rywun arall a awdurdodir gan y Cyngor yn ardystio hynny.

ERTHYGL 14 – ADOLYGU A DIWYGIO'R CYFANSODDIAD

14.1 DYLETSWYDD I FONITRO AC ADOLYGU'R CYFANSODDIAD

Bydd y Swyddog Monitro a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd yn monitro ac yn adolygu gweithrediad y Cyfansoddiad i sicrhau bod amcanion ac egwyddorion y Cyfansoddiad yn cael eu cyflawni'n llawn ac i wneud unrhyw fân welliannau i'r Cyfansoddiad fel bo angen.

14.2 Un o rolau allweddol y Swyddog Monitro a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd yw bod yn ymwybodol o gryfderau a gwendidau'r Cyfansoddiad a fabwysiedir gan y Cyngor. Bydd y Swyddog Monitro yn cyflawni'n bersonol unrhyw fân newidiadau a gwneud argymhellion ynglŷn â ffyrdd y gellid ei ddiwygio er mwyn cyflawni'r amcanion a geir yn Erthygl 1 yn well. Wrth ymgymryd â'r dasg hon gallai'r Swyddog Monitro:

- 14.2.1 arsylwi ar gyfarfodydd gwahanol rannau'r strwythur aelodau a swyddogion;
- 14.2.2 ymgymryd â thrywydd archwilio ar sampl o benderfyniadau;
- 14.2.3 cofnodi a dadansoddi materion y bydd yr aelodau, y swyddogion, y cyhoedd a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn eu codi gyda nhw;
- 14.2.4 cymharu arferion y Cyngor hwn ag arferion awdurdodau tebyg eraill, neu enghreifftiau cenedlaethol o arferion da.

14.3 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD

Newidiadau i adlewyrchu materion deddfwriaethol a strwythurol a mân faterion

- 14.3.1 Bydd newidiadau (ac eithrio mân faterion) i'r cyfansoddiad yn cael eu cymeradwyo gan y Cyngor ar ôl i'r Swyddog Monitro ystyried y cynnig, mewn ymgynghoriad â Gweithgor Trawsbleidiol y Cyngor ar gyfer y Cyfansoddiad, yn ôl yr angen (gweler Adran 2 Rhan 7)
- 14.3.2 Pan gynigir newid o ffurf o Weithrediaeth gydag Arweinydd a Chabinet, i ffurf o Weithrediaeth gyda Maer neu i'r

gwrthwyneb, rhaid i'r Cyngor gymryd camau rhesymol i ymgynghori ag etholwyr lleol a phobl eraill sydd â diddordeb yn yr ardal.

14.4 CYNNAL Y CYFANSODDIAD

Bydd y Swyddog Monitro a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd yn cynnal fersiwn gyfredol o'r Cyfansoddiad a bydd yn sicrhau ei fod ar gael yn eang i'r Aelodau, y staff a'r cyhoedd fedru droi ato a'i ddarllen. Bydd copi o Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

ERTHYGL 15 – ATAL, DEHONGLI A CHYHOEDDI'R CYFANSODDIAD

15.1 ATAL Y CYFANSODDIAD

Mae'r Erthygl hon yn sicrhau na ellir atal erthyglau'r Cyfansoddiad. Mae hyn yn rhoi sicrwydd a sefydlogrwydd i agweddau sylfaenol o waith y Cyngor. Mae'n caniatáu, fodd bynnag, i Reolau Gweithdrefn gael eu hatal ar yr amod y byddai hynny'n esgor ar ganlyniadau a fyddai'n gyson â phwrpasau'r Cyfansoddiad fel y nodir yn Erthygl 1.

- 15.1.1 Ni ellir atal Erthyglau'r Cyfansoddiad hwn. Gall y Cyngor llawn atal Rheolau Gweithdrefn y Cyngor a nodir isod yn gyfan gwbl neu'n rhannol i'r graddau a ganiateir o fewn y Rheolau hynny a'r ddeddf.
- 15.1.2 Ni ddylid cyflwyno cynnig i atal unrhyw reolau heb rybudd oni bai fod o leiaf hanner y nifer llawn o Gynghorwyr yn bresennol. Bydd graddau a hyd yr ataliad yn gymesur â'r canlyniad y ceisir ei gyflawni, gan ystyried pwrpasau'r Cyfansoddiad fel y nodir yn Erthygl 1.
- 15.1.3 Gellir atal unrhyw un o Reolau Gweithdrefn y Cyngor ac eithrio'r rhai sydd wedi eu diffinio'n rhai mandadol yn Rheoliadau'r Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) 1993 yn unol ag Erthygl 15.1.

15.2 DEHONGLI

- 15.2.1 Lle bo'r Cyfansoddiad yn caniatáu i'r Cyngor ddewis rhwng gwahanol gamau gweithredu, bydd y Cyngor yn dewis yr hyn y cred sydd agosaf at y pwrpas a nodir yn Erthygl 1 bob tro.
- 15.2.2 Ni chaiff dyfarniadau Cadeirydd y Cyngor ynglŷn â chynnwys neu weithrediad y Cyfansoddiad hwn, nac ynghylch unrhyw drafodion eraill parthed y Cyngor hwn, eu herio mewn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor. Wrth ei ddehongli yn y fath fodd bydd gofyn ystyried pwrpasau'r Cyfansoddiad fel y nodir yn Erthygl 1 ac unrhyw ganllaw neu gyngor a geir gan y Swyddog Monitro.
- 15.2.3 Bydd i'r geiriau, yr ymadroddion a'r termau canlynol yr ystyron a roddir iddynt isod onid yw'r cyd-destun yn awgrymu'n wahanol neu onid yw'r ddeddf yn dweud yn wahanol.

Tudalen 362

Gair, ymadrodd neu derm	Ystyr
Aelod	Oni nodir fel arall, golyga hyn aelod o bwyllgor neu gorff y mae'r rheol neu'r gofyniad yn berthnasol iddynt
Aelodau'r Cabinet	Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac unrhyw Gynghorydd a benodir gan Arweinydd y Cyngor yn unol ag adran 11 (3) (b) Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac a gyhoeddir gan Arweinydd y Cyngor Sir.
Arweinydd	Arweinydd y Weithrediaeth fel y diffinnir yn adrannau 11 (2) (A) a 48 Deddf Llywodraeth Leol 2000
Cabinet	Cabinet y Cyngor fel y diffinnir yn adran 11 Deddf Llywodraeth Leol 2000
Cadeirydd	Y sawl a etholir fel Cadeirydd y Pwyllgor neu a benodir fel Cadeirydd is-bwyllgor neu yn ei absenoldeb Is-gadeirydd y cyfryw bwyllgor neu is-bwyllgor lle mae un wedi ei ethol neu ei benodi neu'r sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor.
Cod Ymddygiad yr Aelodau	Y Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn unol ag adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000
Cyfansoddiad	Y cyfansoddiad, fel y'i diwygiwyd
Cyfarfod	Cyfarfod o'r Cyngor neu bwyllgor yn ôl yr achos
Cyfarfod o'r Cyngor	Y Cyngor yn cwrdd ynghyd yn unol ag Atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972
Cyfarwyddwr Corfforaethol	Person sydd wedi'i ddynodi felly gan y Cyngor.
Cynghorydd	Aelod o'r Cyngor
Cynghorydd (Cynghorwyr) Lleol	Cynghorydd (Cynghorwyr) dros unrhyw ardal(oedd) y mae'r busnes y mae'r Cyngor yn ei ystyried yn berthnasol iddo.
Cyngor	Cyngor Sir Ceredigion yn gweithredu drwy unrhyw ddulliau y gall eu mabwysiadu'n gyfreithiol.
Deddf 1972	Deddf Llywodraeth Leol 1972
Deddf 1989	Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989
Deddf 2000	Deddf Llywodraeth Leol 2000
Dirprwy Arweinydd	Aelod a ddewisir i ddirprwyo dros Arweinydd y Cyngor
Diwrnodau Clir	Nifer y diwrnodau rhwng y diwrnod pan fydd y ddogfen ar gael i'w

Tudalen 363

	harchwilio neu ei hanfon at y Cyngorwyr a dyddiad y cyfarfod y mae'n berthnasol iddo ond mae'n cynnwys unrhyw ddiwrnodau a ddigwydd rhyngddynt pan fydd y ddogfen ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.
--	---

Gair, ymadrodd neu derm	Ystyr
<p>Pwyllgor Rheoli Datblygu</p> <p>(15 Aelod (gall gynnwys Aelodau Cabinet))</p>	<p>Pwyllgor Rheoli Datblygu – Cylch Gorchwyl</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref a rheoli datblygu fel y nodir yn Rhan 1 Rhan 3.1 Tabl 1 uchod ('Swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref a rheoli datblygu), ynghyd â swyddogaethau o dan eitemau 3 a 4 Rhan I Tabl 1 ('Swyddogaethau amrywiol'). 2. Cyflawni swyddogaethau cynllunio statudol yr Awdurdod o ran penderfynu ar geisiadau a materion cysylltiedig sy'n ymwneud â datblygu a rheoli defnydd a gweithgareddau. 3. Ystyried a phenderfynu ar geisiadau, er mwyn hyrwyddo Strategaeth a Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor a chyfrannu atynt drwy ystyried datblygiadau mawr ledled y sir gyda thrylwyredd. 4. Gwneud penderfyniadau cynllunio yn seiliedig ar ystyriaethau perthnasol cadarn ac nid ar amgylchiadau, safbwyntiau neu deimladau personol. 5. Rhoi ystyriaeth i egwyddor datblygu cynaliadawy wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. 6. Y pŵer i weithredu, holl bwerau a dyletswyddau'r Awdurdod o ran ystyried ceisiadau cynllunio, adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, cynlluniau hysbysu, gorchmynion cadw coed, rheoli datblygu a gorfodi rheolaeth o'r fath a chynlluniau ymynghori eraill, lle bo'n briodol. 7. Derbyn adroddiadau o dro i dro oddi wrth y Prif Weithredwr neu'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio a swyddogion eraill ynghylch cyflawni unrhyw swyddogaethau sy'n ymwneud â rheoli datblygu a allai fod 	<p>Gweler Rhan 3.1 Tabl 1(Rhan A) uchod ('Swyddogaethau sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref a rheoli datblygu')</p>

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

Rhan 3 Tabl 3.3 Pwyllgorau'r Cyngor

Diweddardwyd ym mis Ionawr 2022

	<p>wedi eu dirprwyo iddynt.</p> <p>8. Ymdrin â phob cais:</p> <p>a) a wnaed gan y Cyngor fel tîrfeiddiannwr;</p> <p>b) sy'n ymwneud â datblygiadau mawr;</p> <p>c) a wnaed gan Aelod neu gysylltiadau personol agos;</p> <p>d) a wnaed gan y canlynol;</p> <p>I Prif Swyddogion (y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol);</p> <p>II Pob aelod o staff a gyflogir gan y Gwasanaeth(au) Cynllunio gan gynnwys rheoli datblygu a Blaengynllunio; ac</p> <p>III Unrhyw aelod arall o staff â chysylltiad agos â'r gwasanethau cynllunio neu ag unrhyw gais cynllunio penodol neu gan eu cysylltiadau personol agos.</p> <p>9. Rhoi blaenoriaeth i ddyfarniadau cadarn ar faterion cynllunio yn unol â phob polisi cenedlaethol a lleol sy'n hyrwyddo strategaethau a blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor oni bai bod ystyriaethau eraill o bwys.</p> <p>10. Penderfynu ar geisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol, daliadau canolog Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac er mwyn cyflawni Blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Blaenoriaeth Gorfforaethol 1 – Hybu'r Economi; ○ Blaenoriaeth Gorfforaethol 2 – Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl; ○ Blaenoriaeth Gorfforaethol 3 – Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd; a ○ Blaenoriaeth Gorfforaethol 4 – Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol. 	
--	---	--

Tudalen 407

Pwyllgor	Swyddogaethau	Dirprwyo Swyddogaethau
<p>Pwyllgor Trwyddedu (11 Aelod)</p>	<p>Swyddogaethau Trwyddedu a Chofrestru fel y'u nodir yn Rhan B, Tabl 1 uchod, ynghyd a'r swyddogaethau dan eitem 10, Rhan I, Tabl 1.</p> <p>Swyddogaethau Trwyddedu a Swyddogaethau o ran Gamblo fel y'u nodir yn Nhabl 2 uchod, Swyddogaethau 23 a 24.</p> <p>Argymhell i'r Cyngor ychwanegiadau ac/neu newidiadau i bolisiâu o ran swyddogaethau'r Pwyllgor .</p> <p>Penderfynu ynghylch atal/dirymu trwyddedau personol yn unol ag adran 132, Deddf Trwyddedu 2003</p> <p>Penderfynu ynghylch ceisiadau dadleuol sy'n ymwneud â chaniatáu am y tro cyntaf neu adnewyddu trwyddedau i yrru cerbyd hacnai neu gerbyd hurio preifat.</p> <p>Penderfynu ynghylch ceisiadau dadleuol ar gyfer caniatáu am y tro cyntaf, neu adnewyddu trwyddedau gweithredwyr. Penderfynu ynghylch ceisiadau dadleuol a cheisiadau i adolygu trwyddedau o dan Ddeddf Drwyddedu 2003 a Deddf Hapchwarae 2005. Penderfynu ynghylch ceisiadau am drwyddedau ar gyfer casglu arian ar y stryd ac o ddrws i ddrws. Atal dros dro, amrywio, diddymu neu wrthod trwyddedau casglu ar y stryd neu o ddrws i ddrws, trwyddedau gyrwyr, trwyddedau cerbydau a gweithredwyr.</p> <p>Penderfynu ynghylch ceisiadau dadleuol o dan Gynllun Cofrestru "Gweithredwyr Casglu Gweddillion Cerbydau".</p> <p>Gwranddo ar sylwadau a phenderfynu ynghylch ceisiadau perthnasol dan Ddeddf Delwyr Metel Sgrap 2013 fel y bo'n briodol.</p> <p>Is-bwyllgor Trwyddedu fydd yn penderfynu</p>	<p>Gweler Tabl 1 (Rhannau B ac I) a Thabl 2 uchod.</p>

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau
 RHAN 3.3 (Tabl 3) Pwyllgorau'r Cyngor
 Diweddarwyd ym mis Ionawr 2022

Tudalen 408

	ynghylch ceisiadau ar gyfer 3 pheiriant gemau neu fwy mewn mangre lle trwyddedir alcohol, neu geisiadau y mae gwrthwynebiad iddynt.	
--	---	--

Pwyllgor	Swyddogaethau	Dirprwyo Swyddogaethau
Pwyllgor Moeseg a Safonau (9 Aelod: 2 Gynghorydd Sir, 2 Gynghorydd Tref a Chymuned a 5 Aelod Annibynnol)	Fel y nodir yn Erthygl 9 Rhan 2 y Cyfansoddiad	Dim

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau
 RHAN 3.3 (Tabl 3) Pwyllgorau'r Cyngor
 Diweddarwyd ym mis Ionawr 2022

Pwyllgor	Swyddogaethau	Dirprwyo Swyddogaethau
<p>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio</p> <p>(6 Chynghorydd Sir ac 1 Aelod Lleyg)</p>	<p>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Cylch Gorchwyl 2018</p> <p><u>Datganiad o Ddiben</u></p> <ol style="list-style-type: none"> 1 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Mae'n darparu ffocws annibynnol o'r lefel uchaf ar y trefniadau archwilio, sicrwydd ac adrodd sy'n sail i lywodraethu a safonau ariannol da. 2 Diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw rhoi sicrwydd annibynnol i'r Cyngor llawn a rheoli digonolrwydd y fframwaith rheoli risgiau a'r amgylchedd rheoli mewnol. Mae'n darparu adolygiad annibynnol o fframweithiau llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth y Cyngor ac mae'n goruchwyllo'r prosesau adrodd ariannol a'r prosesau llywodraethu blynyddol. Mae'n goruchwyllo archwilio mewnol ac archwilio allanol, gan helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithlon ac effeithiol wedi'u rhoi ar waith. <p><u>Llywodraethu a rheoli risgiau</u></p> <ol style="list-style-type: none"> 3 Cael trosolwg o Gyfansoddiad y Cyngor o ran y canlynol: Rheolau Gweithdrefn Contractau, Rheoliadau Cyllid a'r Cod Ymddygiad. 4 Adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor yn erbyn y fframwaith llywodraethu, gan gynnwys y fframwaith moesegol ac ystyried y cod llywodraethu lleol. 5 Adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol cyn iddo gael ei gymeradwyo ac ystyried a yw'n adlewyrchu'r amgylchedd risgiau a sicrwydd ategol yn briodol, gan gymryd i ystyriaeth farn archwilio 	Dim

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

RHAN 3.3 (Tabl 3) Pwyllgorau'r Cyngor

Diweddarwyd ym mis Ionawr 2022

Tudalen 410

	<p>mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith y cyngor ar gyfer llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth.</p> <ol style="list-style-type: none"> 6 Ystyried trefniadau'r Cyngor ynghylch sicrhau gwerth am arian gan adolygu'r sicrwydd a'r asesiadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn. 7 Ystyried fframwaith y Cyngor o ran sicrwydd a sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor yn ddigonol. 8 Monitro datblygiad a gweithrediad effeithiol trefniadau rheoli risgiau yn y Cyngor. 9 Monitro'r cynnydd a wneir wrth fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â risgiau sy'n cael eu hadrodd i'r pwyllgor. 10 Ystyried adroddiadau ynghylch effeithiolrwydd y rheolaethau mewnol a rhoi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt ar waith. 11 Adolygu'r asesiad o'r risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll a'r niwed posibl i'r Cyngor o ran twyll a llygredd. 12 Monitro'r strategaeth atal twyll, y camau gweithredu a'r adnoddau 13 Adolygu'r trefniadau llywodraethu a sicrwydd o ran partneriaethau neu gydweithio sylweddol, lle bo hynny'n berthnasol. 14 Ystyried y Gofrestr Risgiau Gorfforaethol 15 Ystyried Adroddiad Gwella Blynyddol y Cyngor. 16 Adolygu ac asesu asesiad perfformiad y Cyngor. 17 Adolygu ac asesu adroddiad Hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor a gwneud unrhyw argymhellion angenrheidiol i'r Cyngor o ran newidiadau i'r canlynol: <ol style="list-style-type: none"> a) y casgliadau; neu b) unrhyw beth sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad ac sy'n ymwneud â pha gamau gweithredu y bwriada'r 	
--	--	--

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

RHAN 3.3 (Tabl 3) Pwyllgorau'r Cyngor

Diweddarwyd ym mis Ionawr 2022

	<p>Cyngor eu cymryd, neu unrhyw gamau gweithredu y mae eisoes wedi eu cymryd, gyda'r bwriad o gynyddu'r graddau y bydd y Cyngor yn bodloni anghenion perfformiad yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y cyfeiria'r adroddiad ati</p> <p>18. Ystyried Adroddiad Asesu'r Panel Perfformiad, adolygu ymateb drafft y Cyngor i adroddiad y Panel a gwneud unrhyw argymhellion angenrheidiol i newid y datganiadau a wnaed yn yr ymateb drafft.</p> <p>19. Ystyried unrhyw Adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn dilyn archwiliad arbennig o'r Cyngor, adolygu ymateb drafft y Cyngor i unrhyw Adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol a gwneud unrhyw argymhellion angenrheidiol i newid y datganiadau yn ymateb drafft y Cyngor o ran pa gamau gweithredu, os o gwbl, y bwriada'r Cyngor eu cymryd mewn ymateb i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol.</p> <p><u>Archwilio Mewnol</u></p> <p>20. Cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol.</p> <p>21. Ystyried cynigion a wneir o ran penodi darparwyr allanol gwasanaethau archwilio mewnol.</p> <p>22. Cymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol sy'n seiliedig ar risgiau gan gynnwys y gofynion o ran adnoddau archwilio mewnol, y dull o ddefnyddio ffynonellau eraill o sicrwydd ac unrhyw waith sydd ei angen i ddibynnu ar y ffynonellau eraill hynny.</p> <p>23. Cymeradwyo newidiadau dros dro sylweddol i'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risgiau a'r gofynion o ran adnoddau.</p>	
--	---	--

	<p>24. Gwneud ymholiadau priodol i'r rheolwyr a'r pennaeth archwilio mewnol er mwyn penderfynu a oes unrhyw sgôp amhriodol neu gyfyngiadau o ran adnoddau.</p> <p>25. Ystyried adroddiadau gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar berfformiad archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys perfformiad y darparwyr allanol o wasanaethau archwilio mewnol. Bydd y rhain yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Y wybodaeth ddiweddaraf ar waith archwilio mewnol gan gynnwys y canfyddiadau allweddol, y materion sy'n peri pryder a'r camau gweithredu sydd ar waith o ganlyniad i waith archwilio mewnol. b. Adroddiadau rheolaidd ynglŷn â chanlyniadau'r Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella. c. Adroddiadau ynghylch achosion lle nad yw'r swyddogaeth archwilio mewnol yn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a Nodyn Cymhwysio Llywodraeth Leol, gan ystyried a yw'r achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ddigon arwyddocaol bod yn rhaid eu cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. <p>26. Ystyried adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ynglŷn â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> a. Datganiad ynghylch y lefel cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a Nodyn Cymhwysio Llywodraeth Leol a chanlyniadau'r Rhaglen Sicrhwydd Ansawdd a Gwella sy'n cefnogi'r datganiad - bydd y rhain yn dangos pa mor ddibynadwy yw casgliadau'r archwiliad mewnol. 	
--	---	--

	<p>b. Barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith y cyngor ar gyfer llywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth, ynghyd â chrynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn honno - bydd y rhain yn cynorthwyo'r pwyllgor wrth adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.</p> <p>27. Ystyried crynodebau o adroddiadau archwilio mewnol penodol yn ôl y gofyn.</p> <p>28. Derbyn adroddiadau sy'n amlinellu'r camau a gymerwyd lle mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad bod y rheolwyr wedi derbyn lefel o risg a allai fod yn annerbyniol i'r awdurdod neu fod pryderon ynglŷn â'r cynnydd a wneir o ran rhoi'r camau gweithredu y cytunwyd iddynt ar waith.</p> <p>29. Cyfrannu at y rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella ac yn benodol, asesu ansawdd allanol yr archwilio mewnol sy'n digwydd o leiaf unwaith bob pum mlynedd.</p> <p>30. Ystyried adroddiad ynghylch effeithiolrwydd archwilio mewnol i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, pan fo Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gwneud hynny'n ofynnol.</p> <p>31. Cefnogi trefniadau cyfathrebu effeithiol gyda'r pennaeth archwilio.</p> <p>32. Comisiynu gwaith gan Archwilwyr Mewnol</p> <p><u>Archwilio Allanol a Rheoleiddwyr</u></p> <p>33. Ystyried llythyr blynyddol yr archwilydd allanol, adroddiadau perthnasol, a'r adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.</p> <p>34. Ystyried adroddiadau penodol fel y cytunwyd gyda'r archwilydd allanol.</p> <p>35. Gwneud sylwadau am gwmpas a manylder y gwaith archwilio allanol a sicrhau ei fod yn cynnig gwerth am arian.</p>	
--	--	--

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

RHAN 3.3 (Tabl 3) Pwyllgorau'r Cyngor

Diweddarwyd ym mis Ionawr 2022

	<p>36. Comisiynu gwaith gan Archwilwyr Allanol.</p> <p>37. Cynghori ac argymell ynghylch effeithiolrwydd y berthynas rhwng archwilwyr mewnol ac allanol ac asiantaethau arolygu neu gyrff perthnasol eraill.</p> <p>38. Ystyried adroddiadau gan reoleiddwyr allanol (gan gynnwys y canlynol ond nid yn gyfyngedig iddynt: Swyddfa Archwilio Cymru, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Swyddfa Gofrestru Gyffredinol, Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru, Estyn).</p> <p>39. Ystyried unrhyw Adroddiad a geir gan yr Archwilydd Cyffredinol, ac ymateb drafft y Cyngor.</p> <p><u>Adroddiadau Ariannol</u></p> <p>40. Adolygu'r datganiad cyfrifon blynyddol a'r adroddiadau cysylltiedig. Yn benodol, ystyried a yw'r polisïau cyfrifyddu priodol wedi eu dilyn ac a oes pryderon yn codi o'r datganiadau ariannol neu o'r archwiliad y mae angen eu dwyn at sylw'r Cyngor.</p> <p>41. Ystyried adroddiad yr archwilydd allanol i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ar faterion sy'n codi o'r archwiliad o'r cyfrifon.</p> <p><u>Trefniadau Atebolrwydd</u></p> <p>42. Cyflwyno adroddiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynglŷn â chanfyddiadau, casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Archwilio ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd eu llywodraethu, rheoli risgiau a fframweithiau rheoli mewnol; trefniadau adrodd ariannol, a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol.</p> <p>43. Rhoi gwybod i'r cyngor llawn am berfformiad y Pwyllgor Archwilio o ran</p>	
--	---	--

Tudalen 415

	<p>y cylch gorchwyl ac effeithiolrwydd y pwyllgor wrth gyflawni ei ddiben.</p> <p>44. Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar waith y Pwyllgor.</p> <p><u>Adroddiadau Perfformiad</u></p> <p>45. Ystyried adroddiad am y gweithgareddau o ran canmoliaethau, cwynion a Rhyddid Gwybodaeth.</p> <p>46. Adolygu ac asesu gallu'r Cyngor i ddelio â chwynion yn effeithiol.</p> <p>47. Gwneud adroddiadau ac argymhellion ynghylch gallu'r Cyngor i ymdrin â chwynion yn effeithiol.</p>	
--	---	--

Tudalen 416

Pwyllgor	Swyddogaethau	Dirprwyo Swyddogaethau
<p>Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd</p> <p>(6 aelod)</p>	<p>Cyflawni swyddogaeth yr awdurdod lleol i benodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.</p> <p>Cadw golwg ar y ddarpariaeth o ran staff, adeiladau ac adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, er mwyn sicrhau ei bod yn ddigonol ar gyfer dyletswyddau'r swydd.</p> <p>Llunio adroddiadau, o leiaf bob blwyddyn, i'r cyngor llawn am y materion hyn.</p> <p>Ystyried amseriad cyfarfodydd, a gwneud argymhellion i'r Cyngor.</p> <p>Goruchwyllo hyfforddiant a datblygiad yr Aelodau.</p>	<p>Dim</p>
<p>Panel Apêl</p> <p>(3 Aelod o blith carfan o 7 o Aelodau)</p>	<p>Penderfynu ynghylch apeliadau gan aelodau o'r staff yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor ac eithrio'r rheini a gyfeirir atynt yn Rhan 4, Dogfen H.</p>	
<p>Pwyllgor Rhestr Fer</p> <p>(7 Aelod)</p>	<p>Llunio rhestr fer o ymgeiswyr cymwysedig ar gyfer Swyddi Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, gan gynnwys cyfweld ymgeiswyr os bydd angen, ar gyfer argymhell i'r Cyngor.</p>	

Tudalen 417

<p>Pwyllgor y Gymraeg</p> <p>(7 aelod)</p>	<p>Darparu cyfeiriad ar gyfer hybu a hwyluso'r Iaith Gymraeg yng Ngheredigion. Gall y Pwyllgor fynnu bod unrhyw aelod neu swyddog o'r Cyngor yn bresennol i ateb cwestiynau a gall hefyd wahodd personau eraill i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.</p> <p>Mae'r Pwyllgor hwn yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pennu cyfeiriad strategol mewn ymateb i'r Safonau Iaith, sydd wedi'i gosod ar Gyngor Sir Ceredigion gan Gomisiynydd y Gymraeg. • Monitro cynnydd gyda gweithrediad Safonau'r Gymraeg sydd wedi'u gosod ar Gyngor Sir Ceredigion • Cytuno ar adroddiad blynyddol ar gynnydd wrth gydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg i sylw Comisiynydd yr Iaith Gymraeg • Cymryd rôl weithgar wrth ddatblygu meysydd gwaith allweddol eraill sy'n ymwneud â'r Iaith Gymraeg - Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Fframwaith Strategol 'Mwy na Geiriau'; Cynllun Datblygu Lleol. • Derbyn adroddiadau cynnydd ar waith Cered (Menter Iaith Ceredigion) a Theatr Felinfach • Cynnig argymhellion er mwyn hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd o waith y Cyngor. • Adolygu gweithrediad Strategaeth Iaith Ceredigion, gan roi sylw i waith y Cyngor ac unrhyw waith partneriaeth neu gydweithio. • Derbyn gwybodaeth / ymgynghoriadau am faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ôl yr angen ac ymateb fel sy'n briodol. • Gwneud argymhellion i'r Cabinet a / neu'r Cyngor fel sy'n briodol. 	
--	--	--

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

RHAN 3.3 (Tabl 3) Pwyllgorau'r Cyngor

Diweddarwyd ym mis Ionawr 2022

Tudalen 418

<p>Pwyllgor yr Ymddiriedolwyr Elusennol</p> <p>(10 aelod: 5 aelod sy'n pleidleisio a 5 aelod heb bleidlais)</p>	<p>Gweithredu fel ymddiriedolwr ar gyfer yr holl asedion eiddo ym meddiant y Cyngor drwy ymddiriedolaethau elusennol.</p> <p>Penderfynu ynghylch asedau elusennol er pennaf les yr elusennau dan sylw.</p> <p>Derbyn adroddiadau ar faterion elusennol a sicrhau y cydymffurfir â gofynion y Comisiwn Elusennau a chyfraith elusennol fel y bônt yn berthnasol i'r asedau elusennol y mae'r Cyngor yn eu dal drwy ymddiriedolaeth.</p>	
<p>Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu</p>	<p>Gweler erthygl 6 uchod.</p>	

Rhan 3.4 (Tabl 4) CYFRIFOLDEB DROS SWYDDOGAETHAU'R CABINET

Mae swyddogaethau'r Cabinet yn cynnwys holl swyddogaethau'r Cyngor ac eithrio'r canlynol;

- 3.4.1 Swyddogaethau'r Cyngor a nodir yn Nhabl 1 uchod;
- 3.4.2 Nodir y swyddogaethau dewis lleol sydd wedi eu dyrannu i'r Cyngor yn Nhabl 2 uchod;
- 3.4.3 Swyddogaethau na allant fod yn gyfrifoldeb i'r Cabinet yn unig fel y nodir yn Erthygl 4.1 Rhan 2 y Cyfansoddiad;
- 3.4.4 Penderfyniadau posib sy'n gwrthdaro â'r isod;
 - cyllideb y Cyngor neu'r cynlluniau benthyca;
 - Rheoliadau Ariannol neu reolau sefydlog ariannol;
 - strategaeth gyffredinol y Cyngor neu'r fframwaith polisi.

ac mewn achosion o'r fath bydd yn rhaid i'r Cabinet drosglwyddo'r penderfyniad i'r Cyngor ar gyfer penderfynu arno'n derfynol.

- 3.4.5 O dan Erthygl 7.01 y Cyfansoddiad mae holl swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldebau i unrhyw ran arall o'r Cyngor, boed hynny drwy ddeddf neu o dan y Cyfansoddiad, yn cael eu gwneud gan y Cabinet. Mae'r rhan honno'n nodi:
 - rôl Aelodau'r Cabinet o fewn eu portffolios perthnasol,
 - dyrannu cyfrifoldebau dros wasanaethau i Aelodau Cabinet unigol.
 - swyddogaethau Cabinet a ddirprwywyd i Aelodau Cabinet unigol.

Tudalen 420

Portffolio	Rôl, Cyfrifoldebau Gwasanaeth a Swyddogaethau
Arweinydd Cyngor	<p>y</p> <p>Rôl a chyfrifoldebau'r Arweinydd</p> <p>a) rhoi arweiniad gwleidyddol i'r Cyngor gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • bod yn brif lefarydd dros y Cyngor • rhoi arweiniad cadarn a chllir o ran datblygu a chydlynu polisiau, strategaethau, cynlluniau a darparu gwasanaethau • argymhell i'r Cyngor benodi Aelodau Eiriolwyr <p>b) Penodi'r Cabinet, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dewis nifer y Cynghorwyr i wasanaethu ar y Cabinet a'u portffolios perthnasol • dynodi Dirprwy Arweinydd • penderfynu ynghylch y swyddogaethau gweithrediaeth a ddirprwyir i'r Cabinet, pwyllgorau o'r Cabinet, Aelodau Cabinet unigol, Swyddogion, a'r rheiny a wneir drwy gyd drefniadau. <p>c) Darparu arweiniad cymunedol, gan gynnwys;</p> <ul style="list-style-type: none"> • gweithredu fel arweinydd i'r gymuned leol drwy ddangos a hybu Gweledigaeth, nodau ac amcanion y Cyngor. • rhoi arweiniad i bartneriaethau strategol lleol wrth ddilyn nodau a blaenoriaethau cyffredin gan gynnwys Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion <p>d) Cynrychioli'r Cyngor ar gyrrff allanol gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynrychioli'r Cyngor ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) (gan gynnwys y Pwyllgor Cydlynu) a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) • cynrychioli'r Cyngor ar y cyrrff lleol, rhanbarthol a chenedlaethol canlynol: <ul style="list-style-type: none"> - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Canol Cymru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru - Cyd-gyngor Cymru <p>e) Rheoli ac arwain gwaith y Cabinet gan gynnwys:</p>

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

RHAN 3.4 (Tabl 4) Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau'r Cabinet

Diweddarwyd ym mis Hydref 2021

Tudalen 421

	<ul style="list-style-type: none">• cadeirio cyfarfodydd• rheoli gwaith y Cabinet yn effeithiol• sicrhau bod Rhaglen Waith y Cabinet at y dyfodol yn ei lle <p>f) rhoi arweiniad portffolio o ran y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Cyflwyno gwasanaethau• Arweiniad Cymunedol• Cyllid a rheoli cyllidebau• Perthynas â'r Gweithwyr• Safonau'r Gymraeg <p>g) Gweithio gydag eraill, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• cyfranogi o'r penderfyniadau a wneir ar y cyd â'r Cabinet• gweithio gydag Aelodau'r Cabinet, Aelodau Anweithredol a Swyddogion er mwyn sicrhau y gweithredir polisiau'r Cyngor, y fframwaith cyllidebol a'r agenda o wella parhaus fel y gellir sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel o fewn yr adnoddau cyfredol i bobl leol

Tudalen 422

Holl Cabinet	Aelodau'r Cabinet	Rolau a chyfrifoldebau Aelodau'r Cabinet
		A - Cyffredinol
		<p>a) Rhoi arweiniad o ran eu portffolios gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • adrodd i'r Cabinet, yr Arweinydd, y Cyngor a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu parthed y gwasanaethau sydd o fewn y portffolio • rhoi cyfarwyddyd gwleidyddol i'r swyddogion sy'n gweithio o fewn y portffolio • llunio a datblygu cynlluniau, polisiau a strategaethau parthed y gwasanaethau sydd o fewn y portffolio i'w mabwysiadu a'u hadolygu gan y Cyngor • cysylltu â chadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol parthed y gwasanaethau sydd o fewn y portffolio • meddu ar drosolwg o ran rheoli perfformiad, a pha mor effeithiol ac effeithlon yw'r gwasanaethau sydd o fewn y portffolio <p>b) Gweithio gydag eraill, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfranogi o'r penderfyniadau a wneir ar y cyd yn y Cabinet • gweithio gydag Arweinydd y Cyngor, Aelodau'r Cabinet, Aelodau Anweithredol a Swyddogion er mwyn sicrhau y gweithredir polisiau'r Cyngor, y fframwaith cyllidebol a'r agenda o wella parhaus fel y gellir sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel o fewn yr adnoddau sydd ar gael i bobl leol <p>c) Cyfrannu tuag at arweiniad cymunedol, gan gynnwys;</p> <ul style="list-style-type: none"> • hybu Gweledigaeth y Cyngor, a'i nodau a'i amcanion o fewn y gymuned • cynrychioli'r Cyngor ar bartneriaethau strategol lleol a hybu nodau a blaenoriaethau cyffredin <p>d) Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol, fel y'u penodir.</p>

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

RHAN 3.4 (Tabl 4) Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau'r Cabinet

Diweddarwyd ym mis Hydref 2021

	B – Rolau a chyfrifoldebau penodol y portffolios
<p>Arweinydd y Cyngor:</p> <p>Portffolio Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau</p>	<p>Gwasanaethau: Polisi, Perfformiad a Phartneriaethau</p> <p>Panelli/gweithgorau/fforymau mewnol: Grŵp Rheoli Asedau, Grŵp Datblygu, Grŵp Ymgynghorol Trawsnewid ac Effeithlonrwydd, Fforwm Corfforaethol y Gweithwyr, Panel Grantiau Adnewyddu Tai, Grŵp Cydraddoldebau, Bwrdd Rheoli Perfformiad, Panel Gweithredol Rheoli Perfformiad a Phanel Grantiau Cymunedol.</p> <p>Partneriaethau/Cyd-bwyllgorau/Asiantaethau: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, Cyd-bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru a Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, a Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru (Cyd-bwyllgor y Fargen Twf)</p> <p>Cyrff allanol: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llys Llywodraethwyr Prifysgol Aberystwyth, Cyd-bwyllgor Cymru a Chonsortium Awdurdodau Lleol Cymru ('CLAW') (Aelod Cabinet dros yr Economi ac Adfywio i ddirprwyo yn absenoldeb yr Arweinydd).</p>

Tudalen 424

	B – Rolau a chyfrifoldebau penodol y portffolios
<p>Dirprwy Arweinydd y Cyngor:</p> <p>Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a'r Gwasanaethau Democrataidd</p>	<p>Gwasanaethau: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a'r Gwasanaethau Democrataidd.</p> <p>Panelli / gweithgorau / fforymau mewnol: Grŵp Ymgynghorol Trawsnewid ac Effeithlonrwydd, Fforwm Corfforaethol y Gweithwyr, Bwrdd Rheoli Perfformiad, Panel Gweithredol Rheoli Perfformiad, Grŵp Rheoli Argyfwng a Pharhad Busnes, Grŵp Datblygu.</p> <p>Partneriaethau/Cyd-bwyllgorau/Asiantaethau: Ardal Cadwraeth Arbennig Penllyn a'r Sarnau, Pwyllgor Cydlynu'r Llinell Reilffordd rhwng Aberystwyth a'r Amwythig.</p> <p>Cyrff Allanol: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA).</p>

Tudalen 425

	B – Rolau a chyfrifoldebau penodol y portffolios
Portffolio Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Cymorth ac Ymyrraeth	<p>Gwasanaethau: Gwasanaethau Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Cymorth ac Ymyrraeth.</p> <p>Panelli/gweithgorau/fforymau mewnol:</p> <p>Partneriaethau/Cyd-bwyllgorau/Asiantaethau: Fforwm Darparwyr Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc; Grŵp Cyfeirio Teithwyr Corfforaethol a'r Uned Gludiant, Bwrdd Prosiect Cylch Caron (dim hawl pleidleisio), a Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru (Cyd-bwyllgor y Fargen Twf).</p> <p>Cyrff Allanol: Grŵp Cyfeirio Teithwyr Corfforaethol a'r Uned Gludiant, Bwrdd Rheoli Cyfiawnder Ieuenctid</p>

	B – Rolau a chyfrifoldebau penodol y portffolios
Portffolio Gwasanethau Cyllid a Chaffael a Gwasaethau Diogelu'r Cyhoedd	<p>Gwasanaethau: Gwasanaethau Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd</p> <p>Panelli/gweithgorau/fforymau mewnol: Grŵp Rheoli Asedau, Grŵp Datblygu, Panel Grantiau Tai, Panel Grantiau Cymunedol, Grŵp Monitro Cyfalaf, Grŵp Rheoli Argyfwng a Pharhad Busnes.</p> <p>Partneriaethau/Cyd-bwyllgorau/Asiantaethau: Bwrdd Adnewyddu a Thyfu Canolbarth Cymru (Cyd-bwyllgor y Fargen Twf), Gweithgor Clirio ac Eithrio, Grŵp Datblygu Castell Aberteifi a Cheredigion.</p> <p>Cyrff Allanol: Antur Cymru, Cyngor Chwaraeon, Gymdeithas Glybiau Ffermwyr Ifanc a Bwrdd Pensiwn Dyfed.</p>

Tudalen 427

	B – Rolau a chyfrifoldebau penodol y portffolios
Gwasanaethau Porth Cynnal	<p>Gwasanaethau: Gwasanaethau Porth Cynnal</p> <p>Paneli/gweithgorau/fforymau mewnol: Grŵp Rhianata Corfforaethol, Grŵp Cyfeirio Teithwyr Corfforaethol a'r Uned Gludiant (hawliau pleidleisio wedi'u rhannu â Phorth Cymorth Cynnar)</p> <p>Partneriaethau/ Cyd-bwyllgorau / Asiantaethau: Pwyllgor Cydlynu y Llinell Reilffordd rhwng Aberystwyth a'r Amwythig a Grŵp Cyfeirio Teithwyr Corfforaethol a'r Uned Gludiant (hawliau pleidleisio wedi'u rhannu â Phorth Cymorth Cynnar) a Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru, Ardal Cadwraeth Arbennig Penllyn a'r Sarnau</p> <p>Cyrff Allanol: Bwrdd Partneriaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru</p>

Tudalen 428

	B – Rolau a chyfrifoldebau penodol y portffolios
Portffolio Porth Gofal, Ymyrraeth Gynnar, Canolfannau Lles a Diwylliant	<p>Gwasanaethau: Porth Gofal, Porth Cymorth Cynnar.</p> <p>Panelli/gweithgorau/fforymau mewnol: (hawliau pleidleisio wedi'u rhannu â Phorth Cynnal), Panel Grantiau Tai</p> <p>Partneriaethau/ Cyd-bwyllgorau / Asiantaethau: Grŵp Cyfeirio'r Uned Gorfforaethol Cludiant Teithwyr (rhannu hawliau pleidleisio â Phorth Cynnal), Bwrdd Prosiect Cylch Caron a Chynghrair y Gofalwyr.</p> <p>Cyrff Allanol: Cyngor Chwaraeon Ceredigion</p>

Tudalen 429

	B – Rolau a chyfrifoldebau penodol y portffolios
Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Tai a Chyswllt Cwsmeriaid	<p>Gwasanaethau: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Tai a Chyswllt Cwsmeriaid.</p> <p>Panelli/gweithgorau/fforymau mewnol: Grŵp Rheoli Asedau, Panel Grantiau Tai a Grŵp Strategaeth Gwastraff.</p> <p>Partneriaethau/Cyd-bwyllgorau/Asiantaethau: Partneriaeth Gwastraff Canolbarth Cymru, Cydweithrediad Seilwaith Canolbarth Cymru, Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru, Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, Bwrdd Rheoli Gofal a Thrsio Gorllewin Cymru, Grŵp Defnyddwyr yr Harbyrau, Grŵp Ymgynghorol Rheoli Traffig a Grŵp Cyfeirio Teithwyr Corfforaethol a'r Uned Gludiant, Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru (Cyd-bwyllgor y Fargen Twf).</p> <p>Cyrff allanol: Grŵp Arfordirol Bae Ceredigion a Bwrdd Prosiect Cylch Caron.</p>

	B – Rolau a chyfrifoldebau penodol y portffolios
Portffolio Economi ac Adfywio	<p>Gwasanaethau: Economi ac Adfywio</p> <p>Panelli /gweithgorau/ fforymau mewnol: Grŵp Rheoli Asedau a'r Grŵp Datblygu.</p> <p>Partneriaethau/Cyd-bwyllgorau/Asiantaethau: Grŵp Prosiect Menter ac Arloesedd (BGC), Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC), Cynnal y Cardi, Fforwm Mynediad Lleol, Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a Phartneriaeth Tai Strategol a Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru (Cyd-bwyllgor y Fargen Twf).</p> <p>Cyrff Allanol: Pwyllgor Gweithredol Menter Aberteifi, Antur Cymru, Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru ('CLAW') (dirprwyo yn absenoldeb yr Arweinydd) a Grŵp Arfordirol Bae Ceredigion.</p>

Rhan 3.5 CYNLLUN DIRPRWYO I SWYDDOGION

Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau'r Cyngor a'r Cabinet – Terfynau eithaf dirprwyo

Mae'r cynllun hwn yn dirprwyo rhai o swyddogaethau neilltuol y Cyngor a'r Cabinet i swyddogion a dylid ei ddehongli yn yr ystyr ehangaf yn hytrach nag yn gyfyng. Mae iddo dair o isadrannau:

- A – Dirprwyo i Swyddogion – Amodau Cyffredinol
- B – Dirprwyo Cyffredinol i'r Prif Weithredwr, Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol
- C – Dirprwyo i'r Prif Weithredwr, Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig
- D – Dirprwyo i'r Swyddog Monitro
- E – Dirprwyo i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
- F – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
- G – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
- H – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio
- I – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar
- J – Dirprwyo yng nghyswllt y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal – Ymyrraeth wedi'i Thargedu (Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol) a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes (Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol)
- K - Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant (Prif Swyddog Addysg)
- L – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151 / Prif Swyddog Cyllid)
- M – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyswllt Cwsmeriaid
- N – Dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Pobl a

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

RHAN 3.5 Cynllun Dirprwyo i Swyddogion

Diweddarwyd ym mis Ionawr 2021

Threfniadaeth

AR YR AMOD bob tro bod y penderfyniad:

- a) o fewn cyllideb y Cyngor neu'i gynlluniau benthyca;
- b) o fewn strategaeth gyffredinol y Cyngor neu'i fframwaith polisi;
- c) o fewn y Rheoliadau Ariannol a'r Gweithdrefnau Ariannol Cysylltiedig ac
- d) heb fod yn fater a neilltuir yn benodol i'r Cyngor Llawn, Pwyllgor o'r Cyngor, y Cabinet, Swyddog Statudol, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol neu'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol

D DIRPRWYO I'R SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL: GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHU A'R SWYDDOG MONITRO

Caiff y swyddogaethau penodol canlynol eu dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu (a'r Swyddog Monitro).

1. Derbyn Rhybuddion o Gynnig yn unol â darpariaeth y Cyfansoddiad hwn (Rhan 4, Dogfen A, Adran 10)
2. Gwneud mân newidiadau i'r Cyfansoddiad
3. Gweithredu fel "Uwch Swyddog Cyfrifol" at ddibenion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.
4. Gwneud mân newidiadau i Ddogfen Bolisi a Gweithdrefnau Corfforaethol yr Awdurdod, "Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, Defnyddio Ffynonellau Cuddwybodaeth Dynol a Chaffael Data Cyfathrebu" (Rhagfyr 2016).
5. Gosod ac ardystio Sêl Gyffredin y Cyngor ar yr holl weithredoedd a dogfennau perthnasol.
6. Llofnodi trwyddedau, cofrestriadau, caniatadau a hysbysiadau a gyhoeddir yn enw'r Cyngor yn unol â'r awdurdod statudol sydd ganddo.
7. Llofnodi contractau, gweithredoedd a dogfennau eraill ar ran y Cyngor.
8. Gweithredu fel y Dirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol.
9. Cynnal ymchwiliadau i faterion y bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) yn eu cyfeirio ato/ati.
10. Cymeradwyo setliadau cyfaddawdu mewn unrhyw achosion neu wrandawiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor, gan ymgynghori â'r Swyddogion perthnasol.
11. Dwyn achosion mewn Llysoedd Sifil a Throseddol, Paneli, Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau ar ran y Cyngor.
12. Awdurdodi (a llofnodi fel y bo'r angen) hawliadau, gwrth-hawliadau, gwybodaeth, amddiffyniadau a dogfennau perthnasol eraill o fewn achosion cyfreithiol ar ran y Cyngor.
13. Trefnu i Glercio Cyfarfodydd Panel Apeliadau ynghylch Derbyn i Ysgolion, Gwahardd a Chludiant.
14. Cyflwyno is-ddeddfau i awdurdodau eraill ac ardystio is-ddeddfau yn unol ag adran 236(9) ac adran 238 Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd.
15. Gweithredu fel y Swyddog arweiniol ym Mholisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor.

RHEOLWR CORFFORAETHOL: GWASANAETHAU CYFREITHIOL

Caiff y swyddogaethau canlynol eu dirprwyo i'r Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cyfreithiol (yn absenoldeb y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu).

1. Cymeradwyo setliadau cyfaddawdu mewn unrhyw achosion neu wrandawiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor, gan ymgynghori â'r Swyddogion perthnasol.
2. Dwyn achosion mewn Llysoedd Sifil a Throseddol, Paneli, Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau ar ran y Cyngor.
3. Awdurdodi (a llofnodi fel y bo'r angen) hawliadau, gwrth-hawliadau, gwybodaeth, amddiffyniadau a dogfennau perthnasol eraill o fewn achosion cyfreithiol ar ran y Cyngor.
4. Trefnu i Glencio Cyfarfodydd Panel Apeliadau ynghylch Derbyn i Ysgolion, Gwahardd a Chludiant.
5. Gweithredu fel y Dirprwy Swyddog Monitro.

G DIRPRWYO I'R SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL:POLISI, PERFFORMIAD A DIOGELU'R CYHOEDD

Caiff y swyddogaethau canlynol eu dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd gan gynnwys Partneriaethau Strategol; Ymgysylltu a Chydraddoldeb; Cwynion, Canmoliaethau a Rhyddid Gwybodaeth, Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd (gan gynnwys Iechyd yr Amgylchedd, Iechyd Anifeiliaid, Diogelwch Bwyd a Safonau Masnach, Trwyddedu a gweithgareddau cysylltiedig), Perfformiad, Ymchwil a Pholisi Corfforaethol a gwrthderfysgaeth; ac i unrhyw swyddogion a awdurdodir gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol perthnasol o dro i dro fel y bo'n briodol ar yr amod bod y swyddogion yn meddu ar gymwysterau addas i gyflawni'r dyletswyddau a'r swyddogaethau hynny. Gall y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol hefyd arfer y pwerau hyn yn ôl yr angen.

Rhyddid Gwybodaeth a Chwynion

1. Gwneud taliadau addas a phriodol wrth setlo cwynion yn erbyn y Cyngor ac wrth setlo cwynion i'r Ombwdsmon yn lleol, a gwneir y taliadau hynny o'r gyllideb briodol ar ôl ymgynghori â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol a'r Aelod Cabinet priodol.
2. Cymryd yr holl gamau priodol parthed Adroddiadau yn unol ag adrannau 16, 17 ac 21 Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005.
3. Bod yn Uwch Swyddog â chyfrifoldeb dros y broses Adolygu Mewnol dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a bod yn uwch swyddog cyswllt â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
4. Ymgymryd â'r holl ddyletswyddau, cyfrifoldebau a swyddogaethau gweithredol perthnasol sydd wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth neu sydd fel arall yn gyfrifoldeb ar y Gwasanaethau Polisi a Perfformiad eu gweithredu.

Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd

1. Diffiniadau
 - 1.1 At ddibenion y materion yr ymdrinnir â hwy yn y trefniant hwn, ystyr y Swyddog Arweiniol Corfforaethol yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd.

Tudalen 436

- 1.2 Mae unrhyw gyfeiriad at Ddeddf yn y trefniadau hyn yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddiwygiad iddo neu ailddeddfiad ohono neu unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd o dan y Ddeddf.
2. Dirprwyo Cyffredinol – Pwerau Penodol
 - 2.1 Awdurdodir y Swyddog Arweiniol Corfforaethol (ar ôl ymgynghori â Deiliad y Portffolio Cabinet perthnasol lle bo angen gwneud hynny a lle bo hynny'n briodol) i gymryd unrhyw gamau sy'n angenrheidiol er mwyn gwarchod neu hyrwyddo buddiannau'r Cyngor, yn amodol ar y cyfyngiadau a nodir yn Rhan A uchod.
 - 2.2 Heb ragfarnu cyffredinolrwydd y darpariaethau uchod, mae hyn yn cynnwys arfer ei farn / ei barn broffesiynol i wneud unrhyw benderfyniadau sydd angen eu gwneud i weithredu polisiau'r Cyngor gyda'r nod o reoli a darparu'r gwasanaethau y mae'n gyfrifol amdanynt.
 - 2.3 Gall unrhyw bwerau a roddir i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd gael eu cyflawni naill ai yn ei absenoldeb / ei habsenoldeb gan y swyddog / swyddogion hynny a awdurdodir ganddo ef neu hi neu yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau neu ddarpariaethau cyffredinol a weir ganddo / ganddi. Yn absenoldeb y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd, gall unrhyw swyddog a benodir ganddo / ganddi i ddirprwyo ar ei ran / ar ei rhan hefyd awdurdodi'r broses o arfer y pwerau dirprwyedig. Gellir rhoi awdurdod o'r fath i bobl nad ydynt yn swyddogion o'r Cyngor mewn cytundeb gyda'r awdurdod neu'r sefydliad sy'n cyflogi'r bobl berthnasol. Os na roddwyd awdurdod o'r fath cyn absenoldeb y Swyddog Arweiniol Corfforaethol, gall y Prif Weithredwr neu Gyfarwyddwr Corfforaethol awdurdodi unrhyw swyddog / swyddogion neu bersonau eraill fel y mae ef / hi yn credu eu bod yn addas i arfer pwerau'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol absennol.
 - 2.4 Gall Swyddog Arweiniol Corfforaethol awdurdodi ei staff i arfer pwerau o'r fath yn ôl yr angen er mwyn cael mynediad i unrhyw dir, adeilad neu eiddo neu eu harchwilio a darparu unrhyw dystiolaeth neu awdurdod yn ôl yr angen i gyflawni eu dyletswyddau yn unol â phwerau statudol y Cyngor.
 - 2.5 O ran materion sydd wedi'u neilltuo ar gyfer y Cyngor, y Cabinet neu Bwyllgor neu Is-bwyllgor arall, os yw'r mater yn fater brys, caniateir i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol weithredu rhwng cyfarfodydd, gan ymgynghori â Deiliad y Portffolio Cabinet perthnasol neu Gadeirydd / Is-gadeirydd y pwyllgor rheoleiddio perthnasol fel y bo'n briodol, ar yr amod bod unrhyw gamau o'r fath yn gyson â pholisiau cyffredinol y Cyngor ac os ydyw'n briodol, bod adroddiad ynglŷn â'r camau a gymerwyd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor, y Cabinet, y Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor.

Tudalen 437

- 2.6 Penderfynu ynghylch penodi swyddogion at ddibenion penodol i gyflawni gwaith fel archwilwyr, swyddogion priodol neu swyddi cyffelyb eraill sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth bresennol neu ddeddfwriaeth yn y dyfodol.
- 2.7 Awdurdodir y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd i weithredu o ran caffael a chontractau o fewn y gyllideb gymeradwy ac yn unol â'r Rheolau Sefydlog o ran Contractau gan gynnwys y pŵer i dynnu contractwyr oddi ar y rhestrau cymeradwy, os nad ydynt wedi bodloni meini prawf y Cyngor.
- 2.8 Awdurdodir y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd i weithredu ar faterion ariannol, yn unol â'r Rheoliadau Ariannol perthnasol.
- 2.9 Awdurdodir y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd i gyhoeddi penderfyniadau, caniatadau, trwyddedau neu hysbysiadau ar ran y Cyngor.
- 2.10 Awdurdod i gyflawni gwaith neu ddarparu gwasanaethau i drydydd partïon ar yr amod bod adnoddau ar gael, na fydd unrhyw effaith andwyol ar yr hyn a ddarperir gan y Cyngor, a bod y taliadau priodol yn cael eu codi.

3 Cyfrifoldebau a dyletswyddu penodol y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

3.1 Gweithredu o fewn y cynllun dirprwyo, cyflawni holl swyddogaethau, dyletswyddau, gweithgareddau a phwerau rheoleiddiol y Cyngor ac unrhyw rai o'r fath a fydd yn dod yn gyfrifoldeb y Cyngor yn y dyfodol, o ran y meysydd canlynol:

- Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd
- Troseddau rheoleiddiol
- Safonau masnachu
- Trwyddedu a Gorfodi o ran Trwyddedu.
- Diogelu Iechyd y Cyhoedd
- Gwasanaethau Wardeniaid Cymunedol
- Cynnal tir yn briodol; neu
- Droseddau amgylcheddol

gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i feysydd, swyddogaethau a deddfwriaeth y cyfeirir atynt yn Nhabl 3.3 isod.

Tudalen 438

3.2 Mae'r swyddogaethau, y dyletswyddau, y gweithgaredd a'r pwerau rheoleiddiol y cyfeirir atynt yn 3.1 uchod yn cynnwys ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i bwerau gorfodi e.e. cymryd camau y tybir eu bod yn angenrheidiol i atal troseddau, addysgu, cyflwyno hysbysiadau statudol, cyflwyno rhybuddion syml, erlyn am droseddau, penodi arolgw(y)r dan y canlynol, rhoi/gwrthod/amrywio/atal/diddymu/adfer trwyddedau, trefnu cyflwyno adroddiadau neu godi ffioedd.

3.3 Cyfrifoldebau dros y swyddogaethau canlynol a deddfwriaeth berthnasol:

Maes	Swyddogaeth	Deddfwriaeth (gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth gysylltiedig)
<p>Diogelu'r Cyhoedd: Mae hyn yn cynnwys lechyd yr Amgylchedd, Trwyddedu a Safonau Masnach Dio</p>	<p>Diogelu'r Amgylchedd ac lechyd yr Amgylchedd; gan gynnwys</p> <ul style="list-style-type: none"> • Coed Peryglus 	<p>Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 Deddfau Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) Local 1953 a 1976 / 1982 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 Deddf Llywodraeth Leol 2010 Deddfau Llywodraeth Leol 1972/1978/1985/1988/1992 / 2000 / 2003 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 Deddf Cymorth Gwladol 1948 Deddf y Gwasanaeth lechyd Gwladol (Diwygio) 1986 Deddf y Gwasanaeth lechyd Gwladol 1977 Deddf Plismona a Throsedd 2009 Deddf Datgelu Er Lles y Cyhoedd 1998</p>
	<p>Diogelu'r Amgylchedd, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ansawdd yr aer yn lleol, • Trwyddedu amgylcheddol • Tir halogedig, • Cyflenwadau dŵr preifat • Ansawdd dŵr • Niwsansau statudol • Symud Cerbydau a Chael Gwared Arnynt 	<p>Deddf Aer Glân 1993 Deddf Newid Hinsawdd 2008 Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989 Deddf Rheoli Llygredd 1974 Deddf Ynni 2004 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 Deddf yr Amgylchedd 1995 Deddf Gwybodaeth am yr Amgylchedd a Diogelwch 1988 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 Deddf Priffyrdd 1980 Deddf Ailgylchu Gwastraff y Cartref 2003 Deddf Tai 1985 Deddf Sŵn 1996 Deddf Sŵn a Niwsans Statudol 1993 Deddf Waliau Cydrannol ac ati 1996</p>

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau
RHAN 3.5 G Dirprwyo i'r SAC Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Tudalen 439

	<ul style="list-style-type: none"> Gwaredu Gwastraff 	<p>Deddf Cynllunio 2008 Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990 Deddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 Deddf Atal Difrod gan Blâu 1949 Deddf Atal Llygredd Olew 1971 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 Deddf Lleihau Gwastraff 1998 Deddf (Fflworeiddio) Dŵr 1985 Deddfau Dŵr 1945/1948/1973/1989 / 2003 Deddf Crynhoi Dŵr (Darpariaethau Canlyniadol) 1991 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 Deddf Adnodau Dŵr 1991 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981</p>
	<p>Hylendid Bwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> Sgoriau Hylendid Bwyd Twyll Bwyd 	<p>Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 Deddf Diogelwch Bwyd 1990</p>
	<ul style="list-style-type: none"> Iechyd a Diogelwch 	<p>Deddf Ffatrioedd 1961 Deddf Damweiniau Angheuol 1976 Deddf Diogelwch rhag Tân a Diogelwch Lleoedd Chwaraeon 1987 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 Deddf Mwynfeydd a Chwareli 1954 Deddf Swyddfeydd, Siopau a Mangreoedd Rheilffyrdd 1963</p>

Tudalen 440

	<ul style="list-style-type: none"> • Iechyd a Lles Anifeiliaid a sgil-gynhyrchion 	<p>Deddf Amaethyddiaeth – (Darpariaethau Iechyd, Diogelwch a Lles) 1956</p> <p>Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968</p> <p>Deddfau Iechyd Anifeiliaid 1981 a 2002</p> <p>Deddfau Iechyd a Lles Anifeiliaid 1981/1984</p> <p>Deddf Lles Anifeiliaid 2006</p> <p>Deddf Anifeiliaid 1971</p> <p>Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014</p> <p>Deddf Diogelu rhag Tenynnau Creulon 1988</p> <p>Deddf Diogelu Anifeiliaid (Diwygio) 1988</p> <p>Deddf Diogelu Anifeiliaid (Anesthetyddion) 1954/1964</p> <p>Deddf Diogelu Anifeiliaid 1911</p> <p>Rheoliadau Sgил-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014</p>
	<p>Iechyd y Cyhoedd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Clefydau Heintus • Angladdau Iechyd Cyhoeddus • Ysmygu mewn llefydd cyhoeddus a lleoliadau eraill lle bo cyfyngiadau 	<p>Deddf Aids (Rheoli) 1987</p> <p>Deddf Adeiladu 1984</p> <p>Deddf Claddu 1857</p> <p>Deddfau Claddu 1952-1906</p> <p>Deddf Claddu (Diwygio) 1880</p> <p>Deddf Amlosgi 1902</p> <p>Deddf Amlosgi 1952</p> <p>Deddf Mangreoedd Diffygiol 1972</p> <p>Deddf Cydraddoldeb 2010</p> <p>Deddf Iechyd 2009</p> <p>Deddf Iechyd 2006</p> <p>Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008/2012</p> <p>Deddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968</p> <p>Rhan 5 (Twill mewn Rhan Bersonol o'r Corff) o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017</p> <p>Deddf Iechyd Cyhoeddus (Draenio Safleoedd Masnach) 1937</p> <p>Deddf Iechyd Cyhoeddus (Cymru) 2017</p> <p>Deddf Iechyd Cyhoeddus 1936</p> <p>Deddf Iechyd Cyhoeddus 1961</p>

Tudalen 441

	Ymddygiad gwrthgymdeithasol	Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trosedd a Phlisma 2014 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
	Safonau Bwyd (Cyfansoddiad a labelu)	Deddf Diogelwch Bwyd 1990 Deddf Bwyd 1984 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Cynnwys Cig ac ati (Cymru) 2014 – Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 Rheoliadau Tryptophan mewn Bwyd (Cymru) 2005 Rheoliadau Llaeth Cyddwys a Llaeth Sych (Cymru) 2018 Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013 Rheoliadau Labelu Pysgod (Cymru) 2013 Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013 Rheoliadau Arbelydru Bwyd (Cymraeg) 2009 Rheoliadau Bwydydd y Bwriedir eu Defnyddio mewn Deietau Egni Cyfyngedig at Golli Pwysau 1997 Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015 Rheoliadau Cafa-Cafa mewn Bwyd (Cymru) 2006 Rheoliadau Bwydydd Newydd (Cymru) 2017 Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) 2004 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 wrth iddi barhau i weithredu'r Rheoliadau neu'r Gorchmynion canlynol: Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011 Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015 Rheoliadau Wyau a Chywion (Cymru) 2010 Rheoliadau Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Gwybodaeth o ran Gwybodaeth a Chyfansoddiad) (Cymru) 2016 Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 Rheoliadau Suddoedd Ffrwythau a Neithdarau Ffrwythau (Cymru) 2013

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau
RHAN 3.5 G Dirprwyo i'r SAC Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Tudalen 442

		<p>Rheoliadau Bwydydd a Addaswyd yn Enetig (Cymru) 2004 Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Y Gallu i Orlhain a Labelu) (Cymru) 2005 Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004 Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Diwygio) (Cymru) 2020 Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012 Rheoliadau Dŵr Mwyn Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2015 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd lechyd Planhigion ac ati) (Cymru) 2019 Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd lechyd Planhigion ac ati) (Cymru) 2020 Rheoliadau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 Rheoliadau Olew Olewydd (Safonau Marchnata) 2014 Rheoliadau Cynnyrch Organig 2009 Rheoliadau Cig Dofednod (Cymru) 2011 Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Tarddu o Anifeiliaid (Rheoli Clefydau) (Cymru) 2008 Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u rhewi'n gyflym (Cymru) 2007 Rheoliadau Chwisgi'r Alban 2009 Rheoliadau Cynhyrchion Penodedig o Tsieina (Cyfyngiad ar eu Rhoi Gyntaf ar y Farchnad) (Cymru) 2008 Rheoliadau Diodydd Gwirodol 2008 Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 Rheoliadau Gwin 2011.</p>
	<p>Safonau amaethyddol gan gynnwys hylendid bwyd a gwrtaith</p>	<p>Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968; Deddf Amaethyddiaeth 1970 Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016 Deddf Meddyginiaethau 1968 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 wrth iddi barhau i weithredu'r Rheoliadau a'r Gorchmynion canlynol: Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu ac ati a Gorfodi) 2016; Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd lechyd Planhigion ac ati) (Cymru) 2020</p>

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau
RHAN 3.5 G Dirprwyo i'r SAC Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Tudalen 443

		<p>Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009; Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Iechyd Planhigion etc.) 2019 Rheoliadau Gwrteithiau'r CE (Lloegr a Chymru) 2006; Rheoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Chynhyrchion Bwyd) 2018.</p>
Gwasanaethau Wardeiniaid Cymunedol	Rheoli Plâu	Deddf Atal Difrod gan Blâu 1949
	Masnachu Teg	<p>Deddf Asiantaethau Llety 1953 (a 1957) Deddf Gweinyddu Cyfiawnder 1970 Deddf Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2020 Deddf Canser 1939 Deddf Dydd Nadolig (Masnachu) 2004 Deddf Cwmnïau 2006 Deddf Credyd Defnyddwyr 2006 Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 Deddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 Deddf Diwygio Addysg 1988 Deddf Ynni 2011 - Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Preifat ar Rent) (Lloegr a Chymru) 2015; Deddf Menter 2002 Deddf Asiantau Tai 1979 Deddf Twyllo a Ffugio 1981 Deddf Twyll 2006 Deddf Dilysnodi 1973; Deddf Cyllyll 1997 Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 Rheoliadau Liffiau 1997 Deddf (Gwarchod) y Symbol Olympaidd 1995 Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 (adran 2 gwahardd gwerthu anifeiliaid anwes ar y stryd neu mewn lle cyhoeddus) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 Deddf Prisiau 1974 – Gorchymyn Marcio Prisiau 2004 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafswm Pris ar gyfer Alcohol) (Cymru) 2018</p>

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau
RHAN 3.5 G Dirprwyo i'r SAC Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Tudalen 444

		<p>Deddf Dyluniadau Cofrestredig 1949 Deddf Rhentu Tai (Cymru) (Ffioedd ac ati) 2019 Deddf Newid Hinsawdd 2008 Rheoliadau Codi Tâl am Fagiâu Siopa Untro (Cymru) 2010 Deddf Masnachu ar y Sul 1994 Deddf Lladrata 1968 Deddf Lladrata 1978 Deddf Disgrifiadau Masnach 1968 Deddf Nodau Masnach 1994 Deddfau Nwyddau a Gwasanaethau nas Archebwyd 1971 a 1975 Deddf Recordiadau Fideo 1984 a Deddf Cerbydau (Trosedd) 2001 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 wrth iddi barhau i weithredu'r Rheoliadau a'r Gorchmynion canlynol:- Rheoliadau Uwchwasanaethau Teledu 2003; Rheoliadau Labelu Biodanwydd 2004; Rheoliadau Diogelu Busnesau rhag Marchnata Camarweiniol 2008; Rheoliadau Ffwr Cathod a Chŵn (Rheoli Mewnforio a Rhoi ar y Farchnad) 2008; Rheoliadau Contractau Defnyddwyr (Gwybodaeth, Canslo a Thaliadau Ychwanegol) 2013; Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr Rhag Masnachu Annheg 2008; Rheoliadau Hawliau Defnyddwyr (Gordaliadau Talu) 2012, Rheoliadau Ecoddyllunio ar gyfer Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Gysylltiedig ag Ynni 2010; Rheoliadau Gwybodaeth am Ynni 2011; Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Lloegr a Chymru) 2012 Rheoliadau'r Gwasanaethau Ariannol (Marchnata o Bell) 2004; Rheoliadau Labelu Esgidiau (Arwydd o Gyfansoddiad) 1995; Rheoliadau (Allyriadau Sŵn) ar gyfer Offer yn y Cartref 1990 Rheoliadau Teithio Pecyn a Threfniadau Teithio Cysylltiedig 2018; Rheoliadau Pecynnu (Gofynion Hanfodol) 2015 Rheoliadau Ceir ar gyfer Teithwyr(y Defnydd o Danwydd a Gwybodaeth am Allyriadau CO2) 2001;</p>
--	--	---

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau
RHAN 3.5 G Dirprwyo i'r SAC Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Tudalen 445

		<p>Rheoliadau Hawliau Teithwyr mewn Bysiau a Bysiau Cyfforddus (Eithriadau a Gorfodi) 2013;</p> <p>Rheoliadau Cynhyrchion Tecstiliau (Labelu a Chyfansoddiad y Ffeibr) 2012;</p> <p>Rheoliadau Contractau Cyfrannau Cyfnodol, Cynhyrchion Gwyliau, Ailwerthu a Chyfnewid 2010.</p>
	<p>Gwerthiannau sy'n gyfyngedig i oedran</p>	<p>Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (paent erosol)</p> <p>Deddf Trwyddedu 2003 (alcohol)</p> <p>Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933</p> <p>Deddf Plant a Phobl Ifanc (Amddiffyn rhag Tybaco) 1991</p> <p>Deddf Plant a Theuluoedd 2014</p> <p>Rheoliadau Cynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Oed Gwerthu a Phrynu ar Ran) 2015</p> <p>Rheoliadau Amddiffyn rhag Tybaco (Gwerthiannau o Beiriannau Gwerthu) 2011</p> <p>Rheoliadau Eitemau Pyrotechnegol (Diogelwch) 2015 (tân gwyllt)</p> <p>Deddf Recordiadau Fideo 1984 (ffilmiau ac ati)</p> <p>Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (cyllyll)</p> <p>Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016</p> <p>Deddf Gwelyau Haul (Rheoleiddio) 2010 (Cymru) (gwelyau haul)</p> <p>Deddf Gamblo 2006</p> <p>Deddf Arfau Tramgwyddus 2019</p>
	<p>Y Cwsmer a Diogelwch Cynhyrchion</p>	<p>Deddf Tocsin Botwlinwm a Llenwadau. Cosmetig (Plant) 2021</p> <p>Deddf Aer Glân 1993 Rheoliadau (Cyfansoddiad a Chynnwys Tanwydd Moduron) 1999 a Rheoliadau (Labelu Biodanwydd 2004)</p> <p>Deddf Diogelu Defnyddwyr 1987</p> <p>Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 - Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Microbeli) 2018; Deddf Cerbydau Modur (Cyfarpar Diogelwch i Blant) 1991</p> <p>Deddf Meddyginiaethau a Dyfeisiadau Meddygol 2021</p> <p>Deddf Beiciau Modur (Sŵn) 1987</p> <p>Deddf Rheoleiddio Traffig Ffordd 1988 ac 1991</p> <p>Deddf Hysbysebu a Hyrwyddo Tybaco 2002</p> <p>Deddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006</p>

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau
 RHAN 3.5 G Dirprwyo i'r SAC Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
 Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Tudalen 446

	<p>Deddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006 Rheoliadau (Efelychiad Realistig o Arfau Tanio) 2007 Rheoliadau Dosbarthwyr Erosol 2009 Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 wrth iddi barhau i weithredu'r Rheoliadau neu'r Gorchmynion canlynol:- Rheoliadau Cynhyrchion Adeiladu 2013; Rheoliadau Gorfodi Cynhyrchion Cosmetig 2013 a Rheoliad Cynhyrchion Cosmetig yr UE 1223/2009; Rheoliadau Gwydr Grisial (Disgrifiadau) 1973; Rheoliadau Glanedyddion 2010; Rheoliadau Cyfarpar Trydan (Diogelwch)2016; Rheoliadau Cydweddoldeb Electromagnetig 2016; Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr Fflworineiddiedig 2015; Rheoliadau Offer Nwy (Gorfodi) a Diwygiadau Amrywiol 2018; Rheoliadau Diogelwch Cynnyrch Cyffredinol 2005; Rheoliadau Dyfeisiau Meddygol 2002; Rheoliadau Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn 2015 Rheoliadau Diogelu Cyfarpar Personol (Gorfodi) 2018 Rheoliadau (Diogelwch) Offer o dan Bwysedd 2016; Rheoliadau Cyfarpar Radio 2017; Rheoliadau Gorfodi REACH 2008; Rheoliadau Cychod Adloniadol 2017; Rheoliadau (Diogelwch) Llestr â Phwysedd Syml 2016; Rheoliadau Cyflenwi Peiriannau (Diogelwch) 2008; Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016; Rheoliadau (Diogelwch) Teganau 2011; Rheoliadau Cyfansoddion Organig Anwedol mewn Paent, Farneisiau a Chynhyrchion Ailorffen Cerbydau 2012; Deddfwriaeth benodol a wnaed o dan y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974: Rheoliadau Diogelwch Deunydd Amoniwm Nitrad (Cynnwys Nitrogen Uchel) 2003;</p>
--	---

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau
RHAN 3.5 G Dirprwyo i'r SAC Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Tudalen 447

		<p>Rheoliadau Cemegau a Chynhyrchion Bioleiddiadol (Penodi Awdurdodau a Gorfodi) 2013;</p> <p>Y Rheoliadau Cemegol (Gwybodaeth am Beryglon a Phecynnu ar gyfer Cyflenwi) 2009;</p> <p>Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol 2002;</p> <p>Rheoliadau Ffrwydron 2014.</p>
	<p>Mesureg Cyfreithiol (Pwysau Mesurau)</p> <p style="text-align: center;">a</p>	<p>Deddf Pwysau a Mesurau 1985</p> <p>Rheoliadau Teclynnau Mesur (Pwyswyr Gwregys (beltweighers)) 2006</p> <p>Rheoliadau Offer Mesur (Mesurau Cyfeintiau ar gyfer Gweini) 2006</p> <p>Rheoliadau Offer Mesur (Tanwydd Hylif ac Ireidiau) 2006</p> <p>Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 (Adran 41A)</p> <p>Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 wrth iddi barhau i weithredu'r Rheoliadau neu'r Gorchmynion:- Rheoliadau Poteli Mesur (Gofynion Y Gymuned Economaidd Ewropeaidd) 1977;</p> <p>Rheoliadau Teclynnau Mesur 2016;</p> <p>Rheoliadau Offer Pwysau heb fod yn Awtomatig 2016; Rheoliadau Pwyso a Mesur (Nwyddau wedi'u Pecynnu) 2006; Offer Mesur (Gofynion Y Gymuned Economaidd Ewropeaidd) 1988</p> <p>Fe'u gorfodir yn unig gan swyddogion a benodwyd yn Arolygwyr Pwysau a Mesurau</p>
<p>Cynnal a chadw tir yn gywir</p>		
	<p>Trwyddedu mangreoedd a chofrestriadau personol ar gyfer aciwbigo, tyllu a thatwio, lliwio'r croen yn lled-barhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis</p> <p style="text-align: center;">a</p>	<p>Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 – Rhan 5</p> <p>Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982</p>

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau
 RHAN 3.5 G Dirprwyo i'r SAC Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
 Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Tudalen 448

	Trwyddedu Safleoedd Petrolewm	Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 – Rheoliadau Petrolewm (Cadarnhau) 2014
	Trwyddedu delwyr metel sgrap	Deddf Delwyr Metel Sgrap 2013
	Y pŵer i gyflwyno, diwygio tystysgrifau diogelwch neu roi tystysgrifau diogelwch newydd yn lle hen rai (cyffredinol neu arbennig) ar gyfer meysydd chwaraeon.	Deddf Diogelwch Meysydd Chwarae 1975 (c. 52)
	Y pŵer i gyflwyno, canslo, diwygio tystysgrifau diogelwch neu roi rhai newydd yn lle hen rai ar gyfer standiau rheoledig mewn meysydd chwarae.	Rhan III Deddf Diogelwch Tân a Diogelwch Mannau Chwaraeon 1987 (c. 27).
	Trwyddedu a rheoleiddio pob math o gamblo (mae'n cynnwys arcedau, betio, bingo, casinos, peiriannau gamblo, loteriau cymdeithasau a gamblo o bell(gan	Deddf Gamblo 2005

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau
 RHAN 3.5 G Dirprwyo i'r SAC Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
 Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Tudalen 449

	gynnwys gamblo ar-lein)	
	Trwyddedu a rheoleiddio gwerthu a chyflenwi alcohol, darparu adloniant a darparu lluniaeth yn hwyr y nos	Deddf Trwyddedu 2003
	Trwyddedu adloniant a thrwyddedu alcohol , gan gynnwys trwyddedu mangreoedd, hysbysiadau am ddiwyddiadau dros dro, tystysgrifau safle clybiau, sefydliadau rhyw, trwyddedau personol, adolygiadau o'r Ddeddf Drwyddedu ac ati	Adran 12 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (c. 12); Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 (adrannau19-25); Deddf Diogelwch Tân a Diogelwch Mannau Chwaraeon 1987; Hypnotism Act 1952; Deddf Trwyddedu 2003; Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982; Deddf Plismona a Throsedd 2017; Deddf Theatrau 1968;
	Trwyddedu sy'n ymwneud ag anifeiliaid, gan gynnwys iechyd a lles anifeiliaid	Deddf Sefydliadau sy'n Lletya Cŵn 1963; Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2003; Deddfau Iechyd a Lles Anifeiliaid 1981/1984; Deddf Lles Anifeiliaid 2006; Deddf Bridio Cŵn 1973; Deddf Helgig 1831; Deddf Cŵn Gwarchod 1975; Deddf Llywodraeth Leol 1988; Deddf Anifeiliaid Anwes 1951; Deddf Anifeiliaid Anwes (Diwygio) 1983; Deddf Diogelu rhag Tenynnau Creulon 1988; Deddf Diogelu Anifeiliaid (Diwygio) 1988; Deddfau Sefydliadau Marchogaeth 1964 a 1970; Deddf Anifeiliaid

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau
 RHAN 3.5 G Dirprwyo i'r SAC Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
 Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Tudalen 450

		Gwylt a Syrcasau (Cymru) 2020; Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981
	Y pŵer i gofrestru pobl sy'n hyfforddi ac yn arddangos anifeiliaid	Deddf Anifeiliaid Perfformio (Rheoleiddio) 1925
Trwyddedu a Gorfodi o ran Trwyddedu	Trwyddedu mangreoedd ar gyfer bridio cŵn	Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014
	Trwyddedu siopau anifeiliaid anwes a sefydliadau eraill lle mae anifeiliaid yn cael eu bridio neu'n cael eu cadw at ddibenion cynnal busnes	Adran 1 o Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951 (c. 35) Adran 1 o Ddeddf Sefydliadau Lletya Anifeiliaid 1963 (c. 43) Deddf Sefydliadau Marchogaeth 1964 a 1970 (c. 1964 c. 70 a 1970 c. 70) Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021
	Lles Anifeiliaid/ Trwyddedu	Deddf Lles Anifeiliaid 2006 (gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014; a Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021).
	Trwyddedu Sŵau ac anifeiliaid gwylt peryglus	Adran 1 Deddf Sŵau 1981 (c. 37) Adran 1 Deddf Anifeiliaid Gwylt Peryglus 1976 (c. 37)
	Trwyddedu mangreoedd ar gyfer cynhyrchu, storio a gwerthu tân gwylt a ffrwydron (Safonau Masnach yn	Rheoliadau Eitemau Pyrotechnegol (Diogelwch) 2015 (fel y'u diwygiwyd gan Rheoliadau Diogelwch Cynhyrchion a Mesureg ac ati)(Diwygio ac ati) Ymadael â'r UE) 2019); Deddf Tân Gwylt 2003; Rheoliadau Tân Gwylt 2004; Deddf Ffrwydron 1875; Deddf Diogelu Defnyddwyr

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau
RHAN 3.5 G Dirprwyo i'r SAC Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd
Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Tudalen 451

	<p>gorfodi'r deddfau hyn</p>	<p>1987; Rheoliadau Ffrwydrion 2014; Rheoliadau Diogelwch Cynhyrchion – Diwygio ac Adalw 2012; Deddf lechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974; Deddfau lechyd y Cyhoedd 1936 a 1961; Rheoliadau lechyd a Diogelwch a Niwclear (Ffioedd) 2021.</p> <p>Safonau Masnach yn ymgymryd â Gorfodi.</p>
	<p>Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbyau Llogi Preifat, gan gynnwys trwyddedu gyrrwyr cerbydau hacni a cherbydau llogi preifat a thrwyddedu gweithredwyr cerbyau hacni a cherbydau llogi preifat.</p> <p>Noder: Mewn rhai amgylchiadau bydd angen ymgynghori â Chadeirydd/Is-gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu'r Cyngor er mwyn cadarnhau a ddylid cyfeirio ymgeisydd, rhywun sydd ar hyn o bryd yn ddeilydd trwydded at yr Is-bwyllgor Trwyddedu er penderfyniad.</p>	<p>i. O ran cerbydau hacni – Deddf Cymalau Heddluoedd Tref 1847 (10 a 11 Vict. c. 89), fel y'i hystynnwyd gan adran 171 o Ddeddf lechyd y Cyhoedd 1875 (38 a 39 Vict. c. 55), ac adran 15 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985 (c. 67); ac adrannau 47, 57, 58, 60 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 (c. 57);</p> <p>ii. O ran cerydau hurio preifat – adrannau 48, 57, 58, 60 a 79 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976;</p> <p>iii. O ran gyrrwyr cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat – Adrannau 51, 53, 54, 59, 61 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.</p> <p>iv. O ran gweithredwyr cerydau hacni a cherbydau hurio preifat – Adrannau 55 i 58, 62 a 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) Act 1976.</p> <p>Hefyd yn cynnwys Deddf Cymalau Heddluoedd Tref 1889; Deddf Damweiniau Ffyrdd 1991 ac 1988;</p>

- 3.4 . Wedi'i awdurdodi i weithredu fel Swyddog Awdurdodedig a Swyddog Awdurdodi at ddibenion deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Caiff y Swyddog Monitro fel yr Uwch Swyddog Cyfrifol, ei hysbysu am unrhyw gais o'r fath.
- 3.5 . Wedi'i awdurdodi i weithredu fel Swyddog Awdurdodedig at ddibenion Cynllun Enwau Bwyd Gwarchodedig: Rheoliadau Cynlluniau Ansawdd (Cynhyrchion Amaethyddol a Bwydydd) 2018.
- 3.6 .Gweithredu fel y Swyddog Priodol ar gyfer rheoli achosion o glefydau hysbysadwy, trosglwyddadwy a heintus gan benodi ac awdurdodi Swyddogion Priodol Eraill i weithredu ar ran yr awdurdod o ran y darpariaethau deddfwriaethol sy'n ymwneud ag atal a rheoli achosion o glefydau neu heintiau.
- 3.7 Llofnodi, cyhoeddi a chyflwyno Hysbysiadau Statudol o dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol a restrir isod ynghyd â phob deddfwriaeth arall at y dyfodol sydd o fewn cylch gwaith Polisi a Pherfformiad gan gynnwys ceisiadau am wybodaeth.
- 3.9. Cychwyn trefniadau a gwneud trefniadau i gyflawni gwaith os bydd rhywun heb gydymffurfio â thelerau Hysbysiad Statudol a gyflwynir o dan bwerau dirprwyedig neu os bydd rhywun wedi torri telerau Hysbysiad Statudol.
- 3.10. Cyfarwyddo'r Gwasanaethau Cyfreithiol ynglŷn â chymryd camau am beidio â chydymffurfio â darpariaethau unrhyw ddeddfwriaeth y mae dyletswydd ar y Gwasanaethau Polisi a Pherfformiad i'w gweithredu.
- 3.11. Ymgymryd â'r holl ddyletswyddau, cyfrifoldebau a swyddogaethau sydd mewn deddfwriaeth a'r rhai y mae gofyn i'r Gwasanaethau Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd eu gweithredu fel arall.
- 3.12. Cynnal arolygiadau, ymchwiliadau, cyfweiliadau, samplo, gwaharddiadau, atafaeliadau, cadw dan gadwad, cofnodi, monitro (cyflwyno hysbysiadau cosb benodedig), cyflwyno hysbysiadau, (gan gynnwys hysbysiadau atal), hawliidiadau, trosglwyddiadau, awdurdodiadau, trwyddedu, cofrestriadau ac achosion cyfreithiol yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth sy'n dod o dan gylch gwaith Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd, ynghyd ag unrhyw reoliadau a wnaethpwyd oddi tani, ac unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau yn ogystal â phob deddfwriaeth at y dyfodol yn unol â chylch gwaith Polisi a Pherfformiad a gweithredu pob pŵer perthnasol arall, gan gynnwys y pwerau mynediad a ddarperir o dan ddeddfwriaeth o'r fath.

3.13 Ymgymryd â'r holl ddyletswyddau sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag Iechyd y Cyhoedd (Coronafeirws), fel y'i diwygiwyd, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

3.13.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) a

3.13.2 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru)

3.14 Gweithredu fel Uwch Swyddog Cyfrifol (Deddf Enillion Troseddau 2002).

Argyfyngau Sifil Posibl a Pharhad Busnesau

Cyflawni holl swyddogaethau a phwerau'r Cyngor a chymryd yr holl gamau priodol o ran argyfyngau sifil posibl a pharhad busnesau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

1. Deddf Argyfyngau Sifil 2004.

Diogelwch Cymunedol a Gwrthderfysgaeth

Defnyddio pwerau, dyletswyddau a swyddogaethau'r Cyngor sy'n ymwneud â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, y Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a'r strategaeth CONTEST.

PRIF AROLYGWR PWYSAU A MESURAU

Mae'r swyddogaethau canlynol i gael eu dirprwyo i ddeilydd presennol y swydd: Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu:

1. Gweithredu fel Prif Arolygwr Pwysau a Mesurau y sir o dan Adran 72 Deddf Pwysau a Mesurau 1985 (gan gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol gysylltiedig).

Cyfrifoldebau'r Swyddog Priodol – Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984

Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelwch y Cyhoedd wedi'i ddynodi yn Swyddog Priodol o ran Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008) ac unrhyw is-reoliadau neu ddarpariaethau deddfwriaethol.

Gall y Swyddog Priodol awdurdodi a dirprwyo i unigolion cymwys i weithredu ar ran y Cyngor, yn ôl y galw.

GWASANAETH RHEOLI DATBLYGU

CYNLLUN DIRPRWYO

Mae'r Cynllun Dirprwyo hwn yn galluogi Swyddogion yn y Gwasanaeth Rheoli Datblygu i ddelio ag ystod eang o geisiadau, hysbysiadau, ymgynghoriadau, ceisiadau am gyngor cyn gwneud cais, ymholiadau cyffredinol a materion gorfodi / cydymffurfio heb sicrhau awdurdod ffurfiol gan Bwyllgor Rheoli Datblygu y Cyngor.

Mae'r Cynllun Dirprwyo yn ceisio sicrhau cydbwysedd priodol rhwng sicrhau gwasanaeth cynllunio effeithlon a dull sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, gan sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn craffu'r ceisiadau cynllunio mwy sensitif mewn ffordd briodol. Nod y cynllun yw caniatáu i aelodau ganolbwyntio ar yr achosion hynny sy'n rhai pwysig ar lefel strategol, datblygiadau mawr neu achosion dadleuol, gan waredu'r achosion hynny na fyddent yn gofyn am drafodaeth gan yr aelodau a gwerthusiad yn y pwyllgor fel arfer.

RHAN 1 – PENDERFYNIADAU AR LEFEL SWYDDOG

(Yn unol â darpariaethau Rhan 2), mae Rhan 1 yn awdurdodi'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol (CLO) dros yr Economi ac Adfywio, ynghyd â'r Rheolwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cynllunio, Rheolwr Gwasanaeth Rheoli Datblygu a'r Arweinwyr Tîm Ardal Rheoli Datblygu (fel yr awdurdodir gan y CLO) i benderfynu am amrediad o geisiadau, hysbysiadau, ymgynghoriadau, ymholiadau cyn gwneud cais, ymholiadau cyffredinol a chmau gorfodi / cydymffurfiaeth a restrir isod:

Penderfynu ar geisiadau cynllunio neu geisiadau eraill (gan gynnwys ar gyfer gwaith a gyflawnwyd eisoes):

1. Penderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer mân ddatblygiadau a datblygiadau deiliad tŷ (gan gynnwys ceisiadau amlinellol a llawn)).
2. Penderfynu ar geisiadau cynllunio er mwyn tynnu a chloddio mwynau.
3. Penderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau gwastraff.
4. Penderfynu ar geisiadau er mwyn cymeradwyo materion a gedwir yn ôl, ar ôl rhoi caniatâd cynllunio amlinellol.
5. Gorfodi amodau ar ganiatâd cynllunio ac ar ganiatâd a chymeradwyaeth eraill.
6. Penderfynu ar geisiadau i gymeradwyo manylion sy'n ofynnol gan amodau sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio ac eithrio "materion a gedwir yn ôl".
7. Penderfynu ar geisiadau cynllunio i ddatblygu tir heb gydymffurfio gydag amod sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio (A.73 TCPA 1990 – Gwaredu amod)
8. Penderfynu ar geisiadau cynllunio sy'n ceisio amrywio amod sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio (A.73 TCPA 1990 – Amrywio amod).
9. Penderfynu ar geisiadau cynllunio i waredu amodau deiliadaeth amaethyddol, menter wledig neu dai fforddiadwy sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio, lle y

Tudalen 455

caiff cais o'r fath ei wneud gan fanc neu gymdeithas adeiladu y mae ganddo feddiant.

10. Penderfynu ar geisiadau cynllunio lle y mae Swyddogion yn argymhell **gwrthod** a bod argymhelliad o'r fath yn cynrychioli amrywiad sylweddol o bolisiau'r Cynllun Datblygu a fabwysiadwyd.
11. Penderfynu ar geisiadau ar gyfer diwygiadau nad ydynt yn rhai perthnasol dan A.96A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
12. Penderfynu ar geisiadau a wneir dan ddarpariaethau hysbysu ymlaen llaw Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir (GPDO) 1995 (fel y'i diwygiwyd) ac unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol cysylltiedig (gan gynnwys penderfyniadau ynghylch amaethyddiaeth, coedwigaeth, telathrebu a dymchwel).
13. Penderfynu ar ymgynghoriadau gan gwmnïau cyfleustodau mewn perthynas â llinellau uwchben a seilwaith cyfleustodau arall.
14. Penderfynu ar geisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig. (Trwy ymgynghori gyda CADW yn ôl y gofyn).
15. Penderfynu ar geisiadau am ganiatâd ardal cadwraeth.
16. Penderfynu ar geisiadau am Dystysgrifau Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad sy'n Bodoli (CLEUD) (A.191 TCPA 1990)
17. Penderfynu ar geisiadau Tystysgrifau Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad Arfaethedig (CLOPUD) (A.192 TCPA 1990)
18. Penderfynu ar geisiadau am Dystysgrifau Datblygiad Amgen Priodol (dan Ddeddf Digollediad Tir 1961)
19. Penderfynu ar geisiadau am gydsyniad datganedig i ddangos hysbysebion. (A.220 TCPA 1990)
20. Penderfynu ar geisiadau am Ganiatâd Sylweddau Peryglus.
21. Y pŵer i wrthod penderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio dan Adran 32 (lle y cyflwynwyd hysbysiad gorfodi cyn y cyflwynwyd y cais) ac Adran 70A Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.
22. Y pŵer i wneud mân ddiwygiadau i eiriad rhesymau / amodau cynllunio dros wrthod ceisiadau a benderfynir yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu, er mwyn gweithredu penderfyniad perthnasol y Pwyllgor Rheoli Datblygu, lle nad yw sylwedd y newid(iadau) a awgrymir yn gwyro oddi wrth benderfyniad y Pwyllgor mewn ffordd arwyddocaol.
23. Gwneud yr holl benderfyniadau angenrheidiol am faterion gweithdrefnol mewn cysylltiad â phrosesu'r holl geisiadau.
24. Penderfynu ar geisiadau cynllunio lle y mae ffoffadau (yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017) yn fater (trwy ymgynghori â'r Aelod Cabinet).

Rhwymedigaethau Cynllunio (A.106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990):

25. Y pŵer i ymrwymo i rwymedigaethau cynllunio sy'n rheoleiddio datblygiad neu ddefnydd tir.
26. Penderfynu ar geisiadau i addasu a / neu gyflawni rhwymedigaeth gynllunio.
27. Trafod a phenderfynu ar benawdau'r telerau ar gyfer rhwymedigaethau cynllunio.
28. Gwneud defnydd o unrhyw symiau gohiriedig sy'n deillio o rwymedigaethau cynllunio ar gyfer defnydd tai fforddiadwy neu fudd cymunedol fel y nodir yn y cytundeb.

Penderfynu ar ymholiadau cyn gwneud cais ac ymholiadau cyffredinol:

29. Darparu pob math o gyngor cyn gwneud cais (gan gynnwys statudol ac anstatudol a chan gynnwys datblygiadau deiliad tŷ, mân, mawr a mawr iawn).
30. Ymateb i'r holl ymholiadau cyffredinol y mae gofyn iddynt gael ymateb gan y Gwasanaeth.
31. Ymateb i'r holl ymgynghoriadau ffurfiol gan awdurdodau cyfagos mewn perthynas â cheisiadau cynllunio, ac eithrio Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol.

Materion Gorfodi / Cydymffurfiaeth:

32. Ymchwilio i gwynion ynghylch datblygiad anawdurdodedig.
33. Penderfynu ar hwylustod (neu ddiffyg hwylustod) cymryd camau gorfodi cynllunio ffurfiol.
34. Awdurdodi mynediad i dir heb warrant. (Adrannau 196A, 214B a 324 TCPA 1990, dan a.88 Deddf Cynllunio (Adeilad Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ac adran 36 Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990)
35. Awdurdodi cyhoeddi Hysbysiadau Hawliau Mynediad (A.196A TCPA 1990) (Hawl mynediad i annedd gwag)
36. Cyflwyno hysbysiadau gorfodi sy'n gysylltiedig â chynllunio gan gynnwys –
 - i. Hysbysiadau Tor-rheolaeth Cynllunio (PCN) (A.171 TCPA 1990)
(A hefyd, ystyried cynigion a chyflwyniadau a wneir dan Adran 171C(4) y Ddeddf (ymatebion i Hysbysiadau Tor-rheolaeth Cynllunio)).
 - ii. Dan A.330 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gofyn am wybodaeth am fuddiannau mewn tir ac unrhyw ofyniad perthnasol arall am wybodaeth.
 - iii. Hysbysiadau Rhybudd Gorfodi (EWN) (dan A.173ZA TCPA 1990)
 - iv. Hysbysiadau Gorfodi Cynllunio (dan A.172 TCPA 1990)

Tudalen 457

- v. Hysbysiadau Stop Dros Dro (dan A.171E TCPA 1990 a dan A.44B Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990)
 - vi. Hysbysiadau Stop (dan A.183 TCPA 1990)
 - vii. Hysbysiadau Torri Amodau (dan A.187A TCPA 1990)
 - viii. Pŵer i fynnu "Hysbysiadau Amwynder" cynnal a chadw tir yn gywir (Dan A.215 TCPA 1990)
 - ix. Hysbysiadau Cwblhau (Dan A.95 TCPA 1990).
 - x. Hysbysiadau Tramgwydd Sylweddau Peryglus (Dan a.24 / 24A Deddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990)
 - xi. Hysbysiadau Dirwyn i Ben Hysbysebion (Dan a.224 / 225 TCPA 1990)
 - xii. Pŵer i waredu neu ddileu hysbysebion, hysbyslenni a phosteri anawdurdodedig dan Adrannau 224 a 225 TCPA 1990.
 - xiii. Pŵer i fynnu dirwyn i ben defnydd tir (dan A.102 TCPA 1990 (Gorchmynion Dirwyn i Ben))
 - xiv. Hysbysiadau Gorfodi Adeilad Rhestredig (dan A.38 Deddf Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990)
 - xv. Hysbysiadau Gwaith Brys (Adeiladau Rhestredig) (Dan a.54 / 55 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.)
 - xvi. Hysbysiadau Trwsio Adeilad Rhestredig (dan a.48 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990)
 - xvii. Hysbysiadau Diogelu Adeilad (dan Adran 3A Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990)
37. Tynnu hysbysiadau o'r fath yn ôl pan fo hynny'n briodol.
38. Y pŵer i wneud cais am waharddeb sy'n ffrwyno tor-rheolaeth cynllunio.
39. Cymryd camau cyfreithiol ar y cyd â hysbysiad gorfodi sy'n gysylltiedig â chynllunio lle y methwyd cydymffurfio â'r hysbysiad (gan gynnwys gweithredu uniongyrchol, cyflawni gwaith yn ddiodyn ac adfer treuliau mewn cysylltiad ag ef ac erlyn)
40. Cyhoeddi camau dan Ddeddf Enillion Troseddau, trwy ymgynghori â'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol.
41. Y pŵer i addasu a dirymu caniatâd cynllunio (dan A.97 TCPA 1990)
- 42.** Cau ffeiliau ymchwilio gorfodi cynllunio y mae'r Gwasanaeth wedi ymchwilio iddynt ac nad oes gofyn cymryd unrhyw gamau pellach yn eu cylch.
- Apeliadau sy'n gysylltiedig â chynllunio:**
43. Cynnig cyngor am fath y broses apêl cynllunio i'w mabwysiadu.

44. Amddiffyn safbwynt y Cyngor yn ystod apeliadau sy'n gysylltiedig â chynllunio, gan ystyried Cod Ymddygiad Proffesiynol y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol.
45. Trafod ar ran y Cyngor yn ystod Archwiliadau ac Ymchwiliadau Cynllunio.
46. Gwneud yr holl benderfyniadau sy'n ymwneud â chynnal apeliadau, gan gynnwys cytuno ar Ddatganiadau Tir Cyffredin, cyfarwyddo tystion arbenigol, ceisio dyfarniad costau ac ati.
47. Yn achos apeliadau yn erbyn methu penderfynu, penderfynu ar achos y Cyngor i'w gyflwyno yn yr apêl (Yn unol â darpariaethau Rhan 2 y cynllun dirprwyo hwn).
48. **Apeliadau dilysu:** Pan ystyrir bod cais cynllunio yn annilys, cyhoeddi Hysbysiad Annilys ac amddiffyn safbwynt y Cyngor pan wneir apêl yn erbyn Hysbysiad o'r fath.

Asesiad Effeithiau Amgylcheddol (EIA):

49. Penderfynu ar holl geisiadau sgrinio a chwmpasu EIA dan reoliadau EIA.

RHAN 2 – PENDERFYNIADAU AR LEFEL Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU:

Mae'r cynllun dirprwyo yn mynnu y dylid cyfeirio'r materion canlynol i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu er mwyn gwneud penderfyniad ffurfiol amdanynt.

Mae hyn yn golygu na fyddai'r materion canlynol yn dod dan Rhan 1 y cynllun hwn:

50. Datblygiadau Strategol a Mawr:

Penderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr a mawr iawn, lle nad yw'r safle yn manteisio ar ganiatâd byw (amlinellol neu fanwl) yn barod ar gyfer datblygiad o fath a graddfa debyg.

(Heb gynnwys penderfyniadau am geisiadau er mwyn tynnu a chloddio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion cloddio mwynau a phenderfynu am geisiadau ar gyfer datblygiadau gwastraff).

51. Penderfynu ar geisiadau cynllunio sy'n destun Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA) / Datganiad Amgylcheddol (ES).
52. Unrhyw gais a gyflwynir gan, neu ar ran, neu ar dir ym mherchnogaeth Cyngor Sir Ceredigion, y mae gan y Cyngor fudd uniongyrchol ynddo.
53. Unrhyw gais a gyflwynir gan, neu ar ran, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio, Rheolwr Corfforaethol neu Swyddogion yn y Gwasanaeth Cynllunio, ac unrhyw swyddog arall sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, neu gan gydnabod personol agos.
54. Unrhyw gais a gyflwynir gan, neu ar ran, unrhyw Aelod Etholedig y Cyngor mewn swydd neu gan gydnabod personol agos.

55. Penderfynu ar geisiadau cynllunio lle y mae Swyddogion yn argymhell y dylid **cymeradwyo** ac mae argymhelliad o'r fath yn cynrychioli amrywiad sylweddol o'r Cynllun Datblygu a fabwysiadwyd.
56. Penderfynu ar geisiadau cynllunio yn dilyn cais gan yr Aelod Ward Lleol, wrth ymgynghori â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio, o ganlyniad i ddiddordeb lleol ac amgylchiadau.
57. Unrhyw gais, hysbysiad, ymgynghoriad a mater cydymffurfiaeth arall, y mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol o'r farn ei fod yn angenrheidiol ei adrodd i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu o ganlyniad i ddiddordeb, amgylchiadau neu ei bwysigrwydd strategol i'r sir.
58. Unrhyw ymateb i ymgynghoriad sy'n ofynnol mewn cysylltiad â Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ('DNS').

Estyniadau Amser (EOT's):

Er gwaethaf darpariaethau Rhan 2, awdurdodir y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros yr Economi ac Adfywio trwy hyn i wrthod ceisiadau am ganiatâd cynllunio (fel y nodwyd uchod) lle nad yw'r ymgeisydd wedi cytuno i estyniad amser a lle y mae un o'r sefyllfaoedd canlynol neu fwy yn berthnasol:

- a) Mae gofyn cael gwybodaeth / lluniadau ychwanegol neu ddiwygiedig er mwyn gallu gwneud penderfyniad am y cais; a / neu
- b) Mae angen adrodd y cais i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu er mwyn iddo wneud penderfyniad amdano; a / neu
- c) Mae gofyn cwblhau rhwymedigaeth gynllunio A.106 cyn gwneud penderfyniad am y cais cynllunio.

DIFFINIADAU:

“Datblygiad Mawr Iawn” – Diffinnir datblygiad mawr iawn fel datblygiad sy'n cynnwys dros 24 annedd, safle sydd dros 0.99 hectar o ran maint, neu arwynebedd llawr gros o 1999 metr sgwâr

“Datblygiad mawr” – Diffinnir datblygiad mawr fel datblygiad sy'n cynnwys un o'r canlynol neu fwy—

- (a) Tynnu a chloddio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion cloddio mwynau;
- (b) Datblygiad gwastraff;
- (c) Darparu tai annedd lle y mae—
- (i) 10 tŷ annedd neu fwy yn cael eu darparu; neu
- (ii) Cyflawnir y datblygiad ar safle y mae'n 0.5 hectar neu fwy o ran maint ac nid yw'n hysbys a yw'r datblygiad yn perthyn i is-baragraff (c)(i);
- (d) Darparu adeilad neu adeiladau lle y bydd yr arwynebedd llawr a gaiff ei greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu,

Tudalen 460

(e) Ddatblygiad a gyflawnir ar safle sy'n 1 hectar neu fwy o ran maint.

“Cais cynllunio” – Cais am ganiatâd cynllunio amlinellol neu lawn, gan gynnwys y ceisiadau hynny a wneir dan A.73 T CPA 1990.

Caiff pob math arall o geisiadau (gan gynnwys ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig, caniatâd hysbysebu ac ati) eu dirprwyo i swyddogion dan Rhan 1 y cynllun dirprwyo, ac eithrio'r rhai a gyflwynir gan, neu ar ran, neu ar dir ym mherchnogaeth Cyngor Sir Ceredigion, y mae gan y Cyngor fudd uniongyrchol ynddo neu'r ceisiadau hynny a gyflwynwyd gan neu ar ran Swyddogion y Cyngor a gyflogir o fewn Gwasanaethau Cynllunio neu gan unrhyw Aelod Etholedig o'r Cyngor mewn swydd.

“Amrywiad Arwyddocaol” – Unrhyw gynnig, a fyddai'n gwrthdaro â bwriadau sylfaenol y Cynllun Datblygu a fabwysiadwyd.

Llawlyfr Aelodau

Members Handbook



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Protocol Arfer Da i Aelodau ym maes Cynllunio

Cynnwys

Cyflwyniad	4
1.Perthynas gyda'r Cod Ymddygiad.....	5
2.Y Protocol Cynllunio.....	7
3.Cynigion Datblygu a Buddiannau dan y Cod Aelodau	8
4.Pryd i wneud eich penderfyniad.....	9
4 a) Penderfyniadau a wneir gan aelodau'r Pwyllgor	9
4 b) Rôl yr Aelod Ward Lleol (LWM) mewn materion cynllunio ac wrth benderfynu ceisiadau.....	11
5.Cyswllt gydag Ymgeiswyr, Datblygwyr a Gwrthwynebwyr	12
6.Lobïo.....	14
6 a) Lobïo gan asiantau / ymgeiswyr.....	14
6 b) Lobïo gan Aelodau.....	17
7.Ymweliadau Safle	17
8.Siarad â'r Cyhoedd yn ystod Cyfarfodydd.....	19
9.Trafodaethau gyda Swyddogion	19
10.Gwneud Penderfyniad	20
10 a) Pwysigrwydd polisiâu cymeradwy wrth wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio	20
10 b) Adroddiadau i'r Pwyllgor am geisiadau cynllunio	21
10 c) Penderfyniadau sy'n mynd yn groes i bolisi a/neu argymhelliad	22
11.Hyfforddiant i Aelodau.....	24
12.Ceisiadau cynllunio gan Aelodau a Swyddogion yr Awdurdod	24
13.Ceisiadau cynllunio gan y Cyngor fel perchennog tir	25
14.Datblygiadau Mawr	26

Tudalen 463

15.Aelodau Cabinet	26
16.Diogelu Data a GDPR	26

Cyflwyniad

Nid yw cynllunio yn wyddor fanwl. Yn hytrach, mae'n dibynnu ar grebwyll gwybodus o fewn cyd-destun polisi cadarn. Mae'n ddadleuol iawn hefyd gan bod ei benderfyniadau yn effeithio ar fywydau dyddiol pawb a buddiannau preifat unigolion, tirfeddianwyr a datblygwyr. Caiff hyn ei ddwysáu gan natur agored y system (mae'n gofyn am farn y cyhoedd cyn gwneud penderfyniad) a natur gyfreithiol cynlluniau datblygu a hysbysiadau penderfynu. Mae'n bwysig felly bod gweithredu agored a thryloyw wrth wneud penderfyniadau yn nodweddu'r broses.

Un o brif ddibenion y system gynllunio yw rheoli datblygiad er budd y cyhoedd. Wrth gyflawni'r rôl hwn, mae cynllunio yn effeithio ar fuddiannau tir ac eiddo, yn enwedig gwerth ariannol tirddaliadau ac ansawdd eu lleoliadau. Mae'n bwysig, felly, bod awdurdodau cynllunio yn gwneud penderfyniadau cynllunio sy'n effeithio ar y buddiannau hyn mewn ffordd agored a diduedd, gyda chrebwyll cadarn ac am resymau y gellid eu cyfiawnhau. Ni ddylai'r broses ganiatáu unrhyw sail dros awgrymu gydag unrhyw gyfiawnhad bod penderfyniad wedi bod yn rhagfarnllyd, yn unochrog neu heb fod â sail gadarn iddo.

Diben y protocol hwn yw pennu mewn ffordd glir y ffordd y bydd y Cyngor yn disgwyl i'r Aelodau ymddwyn a gweithredu wrth iddynt ddelio gyda cheisiadau cynllunio. Mae'r protocol yn pennu safonau uniondeb ac ymddygiad y gall preswylwyr Ceredigion eu disgwyl gan Aelodau.

Disgwylir i Aelodau ystyried y protocol hwn a chadw ato

1. Perthynas gyda'r Cod Ymddygiad

Mae'r hanfodol wrth fabwysiadu Protocol Arfer Da i Aelodau ym maes Cynllunio bod Aelodau yn cydnabod y berthynas rhwng y Cod Ymddygiad i Aelodau (y Cod) a'r Protocol Arfer Da i Aelodau ym maes cynllunio.

Mae'r Cod Ymddygiad yn nodi darpariaethau cyffredinol a rhwymedigaethau i Aelodau; mae'n rhoi sylw i fuddiannau personol a rhagfarnus a chofrestru a datgan buddiannau Aelodau a rhoddion a lletygarwch.

Yn y broses gynllunio, mae egwyddorion canlynol y Cod yn arbennig o berthnasol:

a) **Anhunanoldeb**

Rhaid i aelodau weithredu er budd y cyhoedd yn unig. Ni ddylent fyth ddefnyddio eu sefyllfa fel aelodau er mwyn rhoi mantais amhriodol i'w hunain neu er mwyn rhoi mantais neu anfantais amhriodol i eraill.

b) **Gonestrwydd**

Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus, gan gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

c) **Uniondeb a Phriodoldeb**

Ni ddylai aelodau roi eu hunain mewn sefyllfa lle y cwestiynir eu huniondeb gan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau y gallent geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Rhaid i Aelodau osgoi ymddangosiad ymddygiad o'r fath bob amser.

d) **Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau**

Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gwneud penodiadau, dyfarnu contractau neu argymell unigolion i gael gwobrau a buddion, rhaid i aelodau wneud penderfyniadau ar sail teilyngdod. Er bod yn rhaid i aelodau ystyried cyngor proffesiynol swyddogion, a gallant ystyried safbwyntiau eraill mewn ffordd briodol,

gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb nhw y penderfynu pa farn i'w chymryd, ac os yw hynny'n briodol, sut i bleidleisio am unrhyw fater

e) Atebolrwydd

Mae aelodau yn atebol i'r etholwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am y ffordd y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelod. Rhaid iddynt fod yn barod i ymrwymo i weithgarwch craffu sy'n briodol i'w cyfrifoldebau. Yn ogystal, mae paragraffau canlynol y Cod yn arbennig o berthnasol:

Rhaid i chi

gyflawni eich dyletswyddau gan roi ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylid fod cyfle cyfartal i bawb beth bynnag fo eu rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoedran neu eu crefydd

ni ddylech chi wneud unrhyw beth sy'n peryglu neu sy'n debygol o beryglu natur ddiduedd y rhai sy'n gweithio i neu ar ran eich awdurdod.

wrth gymryd rhan mewn cyfarfodydd neu wneud penderfyniadau ynghylch busnes eich awdurdod, rhaid gwneud hynny ar sail teilyngdod yr amgylchiadau dan sylw ac er budd y cyhoedd, gan ystyried unrhyw gyngor priodol a ddarparir gan swyddogion eich awdurdod.

rhoi rhesymau dros yr holl benderfyniadau yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion ychwanegol rhesymol a weithredir gan eich awdurdod.

Ni ddylech

ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ei hystyried yn wybodaeth o natur gyfrinachol, heb sicrhau caniatâd penodol unigolyn sy'n meddu ar yr awdurdod i roi caniatâd o'r fath, neu oni bai bod y gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny;

yn eich rôl swyddogol neu fel arall, defnyddio neu geisio defnyddio eich safle mewn ffordd amhriodol er mwyn cynnig neu sicrhau mantais i'ch hun neu i unrhyw unigolyn arall, neu er mwyn creu neu osgoi anfantais i chi neu i unrhyw unigolyn arall;

Nid diben y Protocol Arfer Gorau hwn i Aelodau ym maes cynllunio yw disodli'r Cod Ymddygiad i Aelodau, ond yn hytrach, cyd-fynd ag ef a'i gynorthwyo wrth gynnig arweiniad am y rolau a'r ymddygiad a ddisgwylir gan Aelodau, gan gynnwys delio gyda cheisiadau gan berthnasau a chymdeithion pan fydd ganddynt fudd personol, lobbïo a chael trafodaethau gydag ymgeiswyr a'u hasiantau, y weithdrefn ar gyfer ymweliadau safle, a phenderfyniadau sy'n mynd yn groes i argymhellion Swyddogion, ymhlith pethau eraill.

Bwriedir i'r protocol ddangos sut y mae'r Cyngor yn delio gyda materion cynllunio, gan bennu safonau uniondeb ac ymddygiad y mae preswylwyr yn eu disgwyl gan aelodau.

Dylid gweithredu'r rheolau yn y Cod Ymddygiad i Aelodau yn gyntaf, ac mae'n rhaid cydymffurfio â'r rhain.

Yna, **dylid** gweithredu'r rheolau yn y protocol arfer da hwn i aelodau ym maes cynllunio, sy'n ceisio esbonio ac ychwanegu at y Cod Ymddygiad i Aelodau at ddibenion rheoli cynllunio. Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r Protocol Arfer Da hwn, efallai y byddwch:

- Yn rhoi'r Awdurdod mewn perygl o fod yn destun camau ynghylch cyfreithlondeb neu gamweinyddu o ran y penderfyniad cysylltiedig, ac
- Yn rhoi eich hun mewn perygl o gael eich enwi mewn adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor Safonau neu i'r Awdurdod, neu os bydd y methiant yn debygol o fod yn achos o dorri amodau'r Cod Ymddygiad hefyd, bod cwyn yn cael ei gwneud i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac i Banel Dyfarnu Cymru yn y pen draw.

2. Y Protocol Cynllunio

Un o brif ddibenion y system gynllunio yw rheoleiddio datblygiad a defnydd tir er budd y cyhoedd. Mae'n anorfod bod cynllunio yn effeithio fuddiannau tir ac eiddo, felly o'r herwydd, mae'n aml yn faes dadleuol iawn. Felly, mae'n bwysig bod penderfyniadau cynllunio yn cael eu gwneud mewn ffordd agored, diduedd, gyda chrebwyll cadarn ac am resymau y gellir eu cyfiawnhau. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig gwneud y penderfyniadau cynllunio terfynol eu hunain, ond hefyd, mae'n berthnasol i gamau datblygiadol a datblygiad gweithgarwch cynllunio yr Awdurdod dros y tymor hwy e.e., y Cynllun Datblygu Lleol a'i olynwyr.

Nod y Protocol Arfer Da hwn yw sicrhau bod fframwaith yn ei le fel y gall Aelodau weithio gyda'r amcan cyffredinol o sicrhau nad oes sail dros awgrymu yn y broses gynllunio gyfan bod penderfyniad wedi cynnwys rhagfarn, tuedd neu heb fod wedi cael ei seilio ar sylfaen dda mewn unrhyw ffordd a bod penderfyniadau o'r fath wedi cael eu gwneud mewn ffordd agored, tryloyw a theg yn unol â gweithdrefnau sefydledig sydd wedi cael ac sydd yn cael eu craffu o bryd i'w gilydd.

Mae'r Protocol Arfer Da hwn yn berthnasol i Aelodau bob amser pan fyddant yn cael cyswllt â'r broses gynllunio gyfan. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu, cyfarfodydd yr Awdurdod wrth gyflawni swyddogaethau'r Awdurdod Cynllunio, ac ar achlysuron llai ffurfiol, megis cyfarfodydd gyda Swyddogion neu'r cyhoedd a chyfarfodydd ymgynghori. Mae'n berthnasol i faterion gorfodi cynllunio neu faterion polisi am safleoedd penodol, yn ogystal â cheisiadau cynllunio. Yn ogystal, mae'n berthnasol i ddatblygiad y Cynlluniau Datblygu Lleol sy'n cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd, ac yna, yn cael eu mabwysiadu.

3. Cynigion Datblygu a Buddiannau dan y Cod Aelodau

Rhaid i aelodau wastad ddatgan buddiannau personol a rhagfarnus yn unol â'r Cod Ymddygiad i Aelodau

Dylech ddatgelu bodolaeth a natur eich budd yn ystod unrhyw gyfarfod perthnasol, gan gynnwys trafodaethau neu gyfarfodydd anffurfiol gyda Swyddogion ac Aelodau

eraill. Dylech ddatgelu eich budd ar ddechrau'r cyfarfod, ac ar ddechrau'r drafodaeth am y mater penodol hwnnw.

Pan fydd eich budd yn un personol a rhagfarnus, oni bai eich bod wedi sicrhau goddefeb:

X Ni ddylech gymryd rhan, nac ymddangos fel pe baech yn ceisio cymryd rhan, yn y broses lle y mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol a/neu'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn gwneud unrhyw benderfyniad am y mater

X Ni ddylech gymryd rhan yn y broses o brosesu'r cais neu unrhyw gynnig ar gyfer diwygiad posibl y Cynllun Datblygu Lleol

X Ni ddylech ddefnyddio eich safle i drafod y cynnig gyda Swyddogion neu Aelodau pan na fyddai aelodau'r cyhoedd yn cael yr un cyfle i wneud hynny. (Ni ddylech fyth geisio neu gael unrhyw driniaeth ffafriol, neu roi eich hun mewn sefyllfa a allai beri i'r cyhoedd feddwl eich bod yn cael triniaeth ffafriol, oherwydd eich safle fel Aelod).

Er nad ydych yn cael eich atal rhag ceisio esbonio a chyfiawnhau cynnig y mae gennych chi fudd personol a rhagfarnus ynddo i Swyddog priodol, wyneb yn wyneb neu yn ysgrifenedig, mae'r Cod a'r protocol yn rhoi mwy o gyfyngiadau arnoch wrth gynrychioli'r cynnig hwnnw nag y byddent yn berthnasol i aelod arferol o'r cyhoedd. Gallwch annerch y Pwyllgor ond dim ond er mwyn gwneud cyflwyniad yn yr un modd ag y byddai aelod o'r cyhoedd yn gallu gwneud. Yna, rhaid i chi adael yr ystafell wrth i'r cyfarfod ystyried y mater.

Os ydych yn Gadeirydd neu'n berson yr ystyrir ei fod yn rheoli corff arall, sydd ei hun yn cyflwyno cais i'w ystyried, dylech gyfeirio at God Ymddygiad yr Aelodau ac ymateb yn unol â hynny.

4. Pryd i wneud eich penderfyniad

4 a) Penderfyniadau a wneir gan aelodau'r Pwyllgor

Er mwyn diogelu hawliau ymgeiswyr cynllunio neu wrthwynebwyd, ac er mwyn diogelu uniondeb penderfyniadau'r Pwyllgor, mae'n hanfodol nad yw Aelodau yn penderfynu ar faterion cyn iddynt gael yr holl ddeunydd perthnasol a'r dadleuon o'u blaen yn ystod

Chwefror 2022

cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Mae hyn yn berthnasol i gynigion y Cynllun Datblygu Lleol hefyd a'u hystyriaeth yn ystod cyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor. Bydd aelodau yn ymwybodol o'r ffaith bod ganddynt yr hawl i deimlo eu bod dueddol o wneud penderfyniad penodol ymlaen llaw, ond mae'n rhaid eu bod yn gallu ystyried a phwyso a mesur ffactorau perthnasol o hyd cyn gwneud y penderfyniad terfynol.

Ni ddylid cymhlethu hyn a "Rhagderfynu", sy'n digwydd pan fydd meddyliau Aelodau yn gaeedig (neu mae'n rhesymol tybio eu bod yn gaeedig) i'r cam o ystyried a phwyso a mesur y ffactorau perthnasol. Mae hynny yn peryglu sefyllfa lle y mae'r penderfyniad cyfan yn agored i her gyfreithiol.

X Ni ddylech wneud eich penderfyniad, neu ymddangos fel pe baech wedi gwneud eich penderfyniad, am y ffordd y byddwch yn pleidleisio am unrhyw fater cynllunio nes i chi glywed cyflwyniad a thystiolaeth y Swyddog yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu neu'r Cabinet neu'r Cyngor os ystyrir y cynnig datblygu yno. Mae hyn yn arbennig o bwysig os bydd grŵp lobïo neu grŵp diddordeb allanol yn cysylltu â chi. Os byddwch wedi gwneud eich penderfyniad cyn y cyfarfod, ni fydd modd i chi gymryd rhan yn y penderfyniad am y mater gan yr Awdurdod, oherwydd pe byddech yn cymryd rhan yn y drafodaeth neu'r bleidlais, byddai hynny yn rhoi'r Awdurdod mewn perygl mewn sawl ffordd.

Yn gyntaf, gallai hyn gyfateb â chamweinyddu ym marn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Yn ail, gallai'r Awdurdod fod mewn perygl o wynebu camau cyfreithiol am sawl rheswm posibl:

- bod perygl o duedd ar eich rhan chi; a/neu
- ragderfynu; a/neu
- fethu ystyried yr holl ffactorau a fyddai'n galluogi i'r cynnig gael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod.

Canlyniad unrhyw rai o'r uchod yw y gallai caniatâd cynllunio yr oeddech chi'n dymuno ei gefnogi neu benderfyniad yr oeddech chi yn rhan ohono gael ei ddirymu gan y llysoedd.

Cewch gymryd rhan yn y ddadl am gynnig pan fyddwch yn gweithredu fel rhan o gorff sy'n ymgynghorai megis Cyngor Tref neu Gyngor Cymuned ar yr amod:

- nad yw'r cynnig yn cael effaith arwyddocaol ar sefyllfa ariannol y corff sy'n ymgynghorai; ac
- rydych yn nodi mewn ffordd glir yn ystod y drafodaeth gan y corff sy'n ymgynghorai;
 - .i.y mynegir eich safbwyntiau ar sail y wybodaeth gyfyngedig o'ch blaen yn unig; ac
 - .ii.y byddwch yn gohirio ffurfio barn ac yn dal gafael ar yr annibyniaeth i wneud eich penderfyniad eich hun am bob cynnig ar wahân pan fydd yn dod gerbron yr Awdurdod a byddwch yn clywed yr holl wybodaeth berthnasol; ac
 - .iii.na fyddwch mewn unrhyw ffordd yn ymrwymo eich hun o ran y ffordd y gallech chi neu eraill bleidleisio pan ddaw y cynnig gerbron yr Awdurdod; a
- byddwch yn datgelu'r budd personol ynghylch eich aelodaeth o'r corff sy'n ymgynghorai pan fydd yr Awdurdod yn ystyried y cynnig.

Pan fyddwch wedi rhoi'r argraff glir eich bod eisoes wedi gwneud eich penderfyniad ("rhwymo eich disgrisiwn" mewn terminoleg cyfreithiol), felly byddwch yn gwrthod siarad neu bleidleisio am gynnig am y mater gerbron y Pwyllgor Rheoli Datblygu neu'r Cabinet neu'r Cyngor, nid oes yn rhaid i chi adael (oni bai bod gennych chi fudd rhagfarnus hefyd), ond efallai y bydd yn well gennych chi wneud hynny am resymau sy'n ymwneud ag ymddangosiad hyn a thybiaeth y cyhoedd.

Os byddwch yn penderfynu aros yn y cyfarfod, esboniwch nad ydych yn bwriadu siarad na phleidleisio gan eich bod wedi rhoi'r argraff yn flaenorol (neu mae'n rhesymol tybio eich bod wedi rhoi'r argraff yn flaenorol) eich bod eisoes wedi gwneud eich penderfyniad

neu ystyried y mater mewn man arall, fel y gellir cofnodi hyn yn y cofnodion a dylech ddefnyddio'r ffurflen datgelu er mwyn datgelu buddiannau.

Pan fyddwch yn Gadeirydd neu'n unigolyn yr ystyrir eich bod yn rheoli corff arall, sy'n cyflwyno cais i'w ystyried ei hun, efallai na fydd hyn yn eich atal rhag siarad, ond dylech droi at y Cod Ymddygiad i Aelodau ac mae'n debygol ei fod er eich budd chi i gyfeirio'ch sefyllfa i'r Swyddog Monitro er mwyn cael cyngor penodol am y cais hwnnw yn yr arfaeth.

4 b) Rôl yr Aelod Ward Lleol (LWM) mewn materion cynllunio ac wrth benderfynu ceisiadau

Gweler dogfen gweithdrefnau Gweithredol DMC yn y Cyfansoddiad hefyd

Mae rôl yr Aelod Ward Lleol (LWM) yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn ddibynnol ar y ffaith a ydynt yn aelod o'r pwyllgor neu beidio. Os nad ydynt, gallant siarad am y cais yn unol â'r gweithdrefnau gweithredol, gan gynrychioli safbwyntiau ehangach eu hetholwyr y mae'r cais yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, ni allant bleidleisio am y cais ac mae'n rhaid iddynt gadw at y cyfyngiadau amser penodedig.

Pan gyflwynir cais sy'n cynnwys LWM un o aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu, dylai'r aelod hwnnw 'gamu i lawr' o 'fwrdd' y pwyllgor ac ymuno â'r oriel gyhoeddus gan na chaniateir iddynt bleidleisio am geisiadau sy'n effeithio ar eu ward.

X Ni ddylech weithredu fel asiant ar gyfer yr ymgeisydd neu weithredu mewn ffordd y gellid tybio eich bod yn asiant ar gyfer yr ymgeisydd. Rhaid i'r LWM ystyried y cais yng nghyd-destun y Gymuned gyfan.

Os ydych yn aelod o Gyngor Cymuned a Chyngor Sir, ni chewch eich atal rhag trafod yr un materion yn y ddau. Gallwch, er enghraifft, gymryd rhan mewn trafodaeth am gais cynllunio yr ymgynghorwyd â'ch Cyngor Tref/Cymuned amdano, a mynd ymlaen o hyd i gymryd rhan mewn penderfyniad am y cais os ydych yn eistedd ar Bwyllgor Rheoli Datblygu eich Cyngor Sir.

Yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu, **dylech** nodi'n glir nad ydych yn rhwym i safbwyntiau'r Cyngor Cymuned.

- Os cyflwynwyd y cais cynllunio gan Gyngor Tref/Cymuned, **dylech** ddatgan budd personol a rhagfarnus, a thynnu'n ôl.

5. Cyswllt gydag Ymgeiswyr, Datblygwyr a Gwrthwynebwyr

Rôl yr aelod lleol yw gwrandao ar faterion eu hetholwyr ac ni fyddwch wedi torri unrhyw ran o'r cod hwn trwy fod ar gael i wrando ar bobl. Fodd bynnag, bydd ystyriaethau arbennig yn berthnasol pan gaiff cais cynllunio ei ystyried, sy'n golygu ei bod yn hollbwysig na ystyrir bod aelodau wedi rhwymo eu disgresiwn.

- **Byddwch** yn ofalus wrth gael cyswllt cymdeithasol gydag asiantau. Dylid eu hystyried a'u trin yn yr un modd â'r hyn a fabwysiadir mewn perthynas â chyswllt cymdeithasol gyda datblygwyr.
- **Ceisiwch** leihau cysylltiadau cymdeithasol gyda datblygwyr hysbys yn enwedig pan ei bod yn hysbys bod y datblygwr yn ystyried datblygiad yng Ngheredigion neu pan fydd wedi cyflwyno cais cynllunio nad oes penderfyniad wedi cael ei wneud amdano eto. O fewn cymunedau bychain Ceredigion, efallai y bydd Aelodau lleol y mae ganddynt gysylltiadau cymdeithasol ers amser hir gyda datblygwyr hysbys yn cael anhawster wrth osgoi cysylltiadau o'r fath. Er hyn, dylai Aelodau osgoi cyswllt cymdeithasol gyda'r rhai y mae'n hysbys eu bod wedi cyflwyno cais cynllunio "byw" neu gynnig datblygu i'w ystyried mewn unrhyw ffurf, naill ai mewn ffordd uniongyrchol neu anuniongyrchol, neu wedi gwrthwynebu cynnig rhywun arall rhag ofn bod hyn yn rhoi'r argraff y byddai eu cyswllt gyda'r datblygwr yn effeithio ar eu barn ynghylch budd y cyhoedd. Pe byddai'r argraff hon wedi cael ei rhoi, dylai Aelodau ddatgan budd personol a rhagfarnus, ac ni ddylent gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniad am y cynigion.
- **Dylech** gyfeirio ymgeisydd, datblygwr neu wrthwynebydd sy'n troi atoch chi am gais cynllunio neu gynnig datblygu i Swyddogion, os bydd angen iddynt gael cyngor cynllunio, cyngor gweithdrefnol neu gyngor technegol.

X Ni ddylech gytuno mynychu unrhyw gyfarfod gydag ymgeiswyr, datblygwyr neu grwpiau o wrthwynebwyr lle y gallai hyn arwain at y dybiaeth eich bod yn cymryd ochr.

Tudalen 474

Byddwch yn ofalus na fyddwch yn rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel asiant. Pan fyddwch yn teimlo y byddai cyfarfod ffurfiol yn ddefnyddiol er mwyn egluro'r materion, ni ddylech fyth geisio trefnu'r cyfarfod hwnnw eich hun oherwydd y gallai hyn arwain at dybiaeth eich bod yn hyrwyddo un safbwynt neu'r llall. Gofynnwch i'r Awdurdod ei drefnu. Yna, bydd y Swyddogion yn sicrhau bod y rhai sy'n bresennol yn y cyfarfod yn cael eu hysbysu o'r cychwyn na fydd y trafodaethau yn rhwymo'r Awdurdod i unrhyw weithredu penodol; bod y cyfarfod yn cael ei gofnodi mewn ffordd gywir yn ffeil y cais ac yng nghofnodion yr Awdurdod; a chaiff cofnod y cyfarfod ei ddatgelu pan fydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu neu'r Cabinet neu'r Cyngor, neu unrhyw Bwyllgor perthnasol arall, yn ystyried y cais neu'r cynnig datblygu.

Cofiwch:

- ddilyn y rheolau ynghylch lobïo (y cyfeirir atynt isod);
- ystyried a fyddai'n ddoeth neu beidio dan yr amgylchiadau i wneud nodiadau pan gysylltir â chi; ac
- adrodd i'r Awdurdod am unrhyw gyswllt arwyddocaol gyda'r ymgeisydd a phartïon eraill, gan esbonio natur a diben y cysylltiadau a'ch cyswllt gyda nhw, gan sicrhau y cofnodir hyn yn y ffeil gynllunio.

Yn ogystal, mewn perthynas â chyflwyniadau gan ymgeiswyr/datblygwyr:

X Ni ddylech fynychu cyflwyniad cynllunio oni bai bod Swyddog yn bresennol a/neu ei fod wedi cael ei drefnu gan Swyddogion.

Gofynnwch gwestiynau perthnasol at ddibenion egluro eich dealltwriaeth o'r cynigion.

Cofiwch nad yw'r cyflwyniad yn rhan o'r broses ffurfiol er mwyn trafod a phenderfynu ynghylch unrhyw gais dilynol. Cyflawnir hyn gan Bwyllgor priodol yr awdurdod cynllunio.

Byddwch yn ymwybodol o'r ffaith bod cyflwyniad yn fath o lobïo ac na ddylech fynegi unrhyw safbwynt cryf na datgan sut y gallech chi neu Aelodau eraill bleidleisio efallai.

6. Lobïo

At ddibenion y protocol hwn, caiff lobïo ei ddiffinio fel a ganlyn:

“Cysylltu gydag Aelod neu wneud cyflwyniad i'r Aelod gyda'r bwriad o ddylanwadu ar y ffordd y mae'r Aelod yn delio gyda'r mater cynllunio, neu y gallai ymddangos bod ganddo y bwriad o ddylanwadu ar y ffordd y mae'r Aelod yn delio gyda'r mater cynllunio.”

6 a) Lobïo gan asiantau / ymgeiswyr

Yn aml, bydd ymgeiswyr, cefnogwyr neu'r rhai y gallent gael eu heffeithio gan gynnig yn ceisio dylanwadu ar y penderfyniad trwy droi at Aelod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu neu'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae'n egwyddor sylfaenol bod aelodau'r cyhoedd yn rhydd i gyfleu eu safbwyntiau i Aelodau a bod lobïo yn ffurf cyfreithlon cynrychiolaeth y cyhoedd. Er mwyn i'r system gynllunio weithio mewn ffordd effeithiol, rhaid rhoi sylw digonol i bryderon y cyhoedd.

Fodd bynnag, os bydd gweithgarwch o'r fath i lobïo Aelodau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu neu'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn mynd yn rhy bell, gall arwain at gwestiynu didueddrwydd ac uniondeb Aelodau os na chaiff gofal ei gymryd. Mae'n annhebygol bod y wybodaeth a ddarparir gan lobïwyr yn cynrychioli darlun cyflawn o'r ystyriaethau perthnasol mewn perthynas â mater cynllunio. Bydd angen ystyried safbwyntiau ymgngoreion, cymdogion a'r asesiad o'r achos gan y Swyddog Cynllunio cyn y bydd Aelod mewn sefyllfa i ffurfio barn gytbwys am yr achos. Yr amser i Aelodau unigol wneud penderfyniad am gynnig yw pan fydd yr holl wybodaeth sydd ar gael wrth law ac wedi cael ei hystyried mewn ffordd briodol, a bod cais am awdurdod dirprwyedig wedi cael ei wneud neu yn ystod cyfarfod perthnasol Cyngor Sir Ceredigion neu gyfarfod perthnasol y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Wrth gwrs, gall aelodau ffurfio safbwyntiau rhagarweiniol, ond os byddant yn ymrwmo i gefnogi neu wrthwynebu cynnig penodol y tu allan i'r cyfarfod lle y caiff ei ystyried, ni ddylent gyflawni unrhyw ran wrth wneud penderfyniad am y mater. Cynghorir pwyll bob amser, a'r pellaf y dylai Aelod fyth fynd fyddai dweud *“O'r hyn yr wyf yn ei wybod ar hyn o bryd, rydw i'n cefnogi (neu mae*

Tudalen 476

gennyf amheuson am) y cais hwn, ond ni fyddaf yn gwneud penderfyniad terfynol nes bydd gennyf yr holl ffeithiau o'm blaen yn ystod y Pwyllgor Rheoli Datblygu”.

Sylwer, oni bai bod gennych chi fudd personol a rhagfarnus, ni fyddwch wedi rhwymo eich disgresiwn na thorri amodau'r Protocol Arfer Da hwn ym maes Cynllunio trwy:

- wrando neu glywed safbwyntiau preswylwyr neu bartïon eraill sydd â diddordeb;
- gwneud sylwadau i breswylwyr, partïon sydd â diddordeb, Aelodau eraill neu Swyddogion priodol, ar yr amod nad ydynt yn golygu eich bod yn rhagfarnu'r mater a'ch bod yn nodi yn glir eich bod yn cadw meddwl agored;
- ceisio gwybodaeth trwy sianelau priodol.

Os byddwch yn cael eich lobïo:

Esboniwch i'r rhai sy'n ceisio eich lobïo, er y gallwch wrando ar yr hyn a ddywedir, nad ydych chi mewn sefyllfa i fynegi bwriad i bleidleisio mewn unrhyw ffordd neu'r llall neu i fynegi safbwynt cadarn sy'n cyfateb â'r un peth oherwydd bydd hyn yn golygu na fyddwch yn gallu cymryd rhan ym mhroses yr Awdurdod o wneud penderfyniad.

Dylech drosglwyddo unrhyw gyflwyniadau y byddwch yn eu cael ac yn copïo neu'n trosglwyddo unrhyw ohebiaeth lobïo y byddwch yn ei chael i'r Awdurdod mor gynnwys ag y bo modd. Caiff ei gynnwys yn y ffeil berthnasol a'i ystyried wrth benderfynu ar y cais.

Dylech adrodd am lobïo ar ddechrau cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu neu unrhyw gyfarfod Pwyllgor perthnasol arall o'r Awdurdod Cynllunio Lleol fel bod modd ei gofnodi yn y cofnodion.

Dylech gyfeirio unrhyw gynigion a wnaethpwyd i chi ynghylch lles cynllunio neu i gyfyngu ar y datblygiad trwy gyfrwng Rhwymedigaeth Cynllunio Adran 106 arfaethedig neu fel arall i'r Awdurdod.

X Ni ddylech dderbyn rhoddion neu letygarwch gan unrhyw unigolyn sy'n gysylltiedig â chynnig cynllunio neu sy'n cael eu heffeithio gan gynnig cynllunio. Os na fydd modd osgoi rhywfaint o letygarwch yn gyfan gwbl, dylid sicrhau ei fod yn lletygarwch o'r swm

isaf ac os bydd yn werth dros £21, bod y weithred o'i dderbyn yn cael ei chofnodi yn y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch yn unol â Chod Ymddygiad yr Awdurdod cyn gynted ag y bo modd.

Dylech nodi y byddwch yn cyfleu safbwyntiau'r unigolyn hwnnw i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac os bydd angen, i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu pan fydd yn ystyried y mater, ond na allwch chi ymrwmo i bleidleisio mewn unrhyw ffordd benodol eich hun. Os ydych yn bwriadu siarad yn ystod cyfarfod y Pwyllgor gan nodi hyn, dylech nodi'n glir ar ddechrau eich araith am yr eitem mai dyma'r hyn yr ydych yn ei wneud.

X Ni ddylech gymryd rhan mewn trafodaethau gydag ymgeiswyr neu ddarpar ymgeiswyr am eu cynigion datblygu ac eithrio pan fo trafodaethau o'r fath yn rhan o drefniant strwythuredig gyda Swyddogion. Mae gwneud hynny yn peryglu tybiaeth gan y cyhoedd ynghylch rhagderfynu. Gellir darparu gwybodaeth ffeithiol am bolisïau a fabwysiadwyd, ond os bydd ymgeiswyr yn dymuno cael trafodaethau manylach am gynllun, dylid eu cyfeirio at y Swyddog Cynllunio perthnasol.

Dylech hysbysu'r Swyddog Monitro os byddwch yn teimlo eich bod wedi bod yn destun lobïo neu gysylltiadau gormodol (gan gynnwys cynigion rhoddion neu letygarwch amhriodol).

Oni bai bod gennych chi fudd personol a rhagfarnus yn y mater, os byddwch yn dilyn hwn a chyngor arall yn y protocol hwn, byddwch yn gallu siarad a phleidleisio yn ystod cyfarfod y Pwyllgor.

6 b) Lobïo gan Aelodau

X Ni ddylech arwain neu gyflawni rôl llefarydd ar ran sefydliad y gwelir mai ei brif ddiben yw lobïo neu hyrwyddo neu wrthwynebu cais cynllunio. Os byddwch yn gwneud hynny, byddwch wedi rhwymo eich disgresiwn ac mae'n debygol y bydd gennych chi fudd personol a rhagfarnus.

Nid yw hyn yn eich atal rhag ymuno â grwpiau diddordeb cyffredinol sy'n adlewyrch eich meysydd diddordeb ac sy'n canolbwyntio ar faterion y tu hwnt i geisiadau cynllunio penodol e.e. Y Gymdeithas Fictoraidd, Y Cerddwyr, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig neu Gymdeithas Ddinesig leol. Dylech ddatgelu budd personol pan fydd y sefydliad

Chwefror 2022

hwnnw wedi gwneud cyflwyniadau am gynnig penodol a dylech nodi'n glir i'r Awdurdod nad ydych wedi ffurfio barn a'ch bod wedi cadw eich annibyniaeth er mwyn gwneud eich penderfyniad eich hun am bob cynnig ar wahân.

Os yw'r grŵp yr ydych chi'n perthyn iddo wedi mabwysiadu barn am y mater, dylech, fodd bynnag, wneud yn siŵr eich bod yn datgelu budd personol (ond nid rhagfarnus o reidrwydd) pan drafodir y mater.

X Ni ddylech lobïo cyd Aelodau ynghylch eich pryderon neu'ch safbwyntiau mewn ffordd ormodol, na cheisio eu perswadio ynghylch sut y dylent benderfynu pleidleisio cyn y cyfarfod lle y caiff unrhyw benderfyniad cynllunio ei wneud.

X Ni ddylech benderfynu neu drafod sut i bleidleisio am unrhyw gais mewn unrhyw fath o gyfarfod grŵp gwleidyddol, neu lobïo unrhyw Aelod arall i wneud hynny. Ni ddylai Cyfarfodydd Grŵp Gwleidyddol fyth orchymyn sut y dylai aelodau bleidleisio am fater cynllunio.

7. Ymweliadau Safle

Bydd y rheolau hyn yn berthnasol i ymweliadau safle ffurfiol.

Yn ogystal, gweler gweithdrefnau gweithredol y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

Gall ymweliadau safle gyflawni rôl pwysig wrth sicrhau bod Aelodau yn gwneud penderfyniad ar sail dealltwriaeth gadarn o'r materion perthnasol. Fodd bynnag, rhaid cymryd gofal er mwyn sicrhau na chaiff ymweliadau safle eu camddefnyddio fel dyfais lobïo er mwyn helpu i sicrhau canlyniadau penodol mewn perthynas â cheisiadau dadleuol neu fel tacteg er mwyn osgoi ystyried cais nes cyfarfod dilynol. Yn ogystal, mae'n bwysig bod aelodau'r cyhoedd yn meddu ar ddealltwriaeth glir ynghylch pam bod angen cynnal ymweliad safle ar gyfer ceisiadau penodol, ac nid ar gyfer rhai eraill. Am y rhesymau hyn:

Dylech gydymffurfio â'r gweithdrefnau gweithredol wrth benderfynu a fydd gofyn cynnal ymweliad safle ac os felly, y weithdrefn i'w dilyn.

Dylech fod yn bresennol mewnad safle, os yw'r ymweliad yn rhan o SIP. Panel o Aelodau'r Awdurdod yw SIP, sy'n cael eu gwahodd i fod yn bresennol ar ymweliadau safle.

Noder na fydd aelodau o'r cyhoedd, gan gynnwys ymgeiswyr ac asiantau a gwrthwynebwyd, fel arfer yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol ac os oes angen gwneud hynny, ni ddylid caniatáu iddynt gyflwyno sylwadau yn ystod y SIP.

Dylech sicrhau eich bod yn trin yr ymweliad safle fel cyfle i geisio gwybodaeth ac i arsylwi'r safle yn unig.

Dylech ofyn cwestiynau i'r Swyddogion yn yr ymweliad safle neu geisio eglurhad ganddynt am faterion ffeithiol sy'n berthnasol i'r archwiliad safle.

X Ni ddylech fynegi barn neu safbwyntiau am y cynnig i unrhyw un.

X Ni ddylech fynd ar safle sy'n destun cais cynllunio ac eithrio fel rhan o ymweliad safle swyddogol, hyd yn oed wrth ymateb i wahoddiad, oherwydd y gallai hyn roi'r argraff o duedd, oni bai:

- eich bod yn teimlo ei bod yn hanfodol i chi ymweld â'r safle ac eithrio trwy fynychu'r ymweliad safle swyddogol, ac
- rydych chi wedi siarad gyda'r Awdurdod am eich bwriad i wneud hynny a pham (a gofnodir yn y ffeil), a
- gallwch sicrhau y byddwch yn cydymffurfio â'r rheolau arfer da hyn yn ystod ymweliadau safle, ac
- rydych chi wedi sicrhau caniatâd perchennog y tir.

Fel egwyddor, dylech gofio'r uchod pan fydd hi'n annhebygol y cynhelir ymweliadau ffurfiol i Aelodau, ond lle y mae Aelodau'n teimlo'r angen i gael mynediad i safle er mwyn ymgyfarwyddo ag ef, mewn perthynas â safleoedd sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd neu y maent eisoes o fewn proses y Cynllun Datblygu.

Gallwch, wrth gwrs, weld safle o'r briffordd unrhyw bryd, ond dylech ymochel rhag cymryd rhan mewn trafodaethau am deilyngdod unrhyw gynnig.

8. Siarad â'r Cyhoedd yn ystod Cyfarfodydd

X Ni ddylech annog aelodau'r cyhoedd i gyfathrebu gyda chi yn ystod trafodion y Pwyllgor (ar lafar, yn electronig neu yn ysgrifenedig) ac eithrio trwy'r cynllun ar gyfer siarad â'r cyhoedd, oherwydd y gallai hyn roi ymddangosiad rhagderfynu neu duedd. Os byddwch yn cael cyfathrebu o'r fath, ni ddylech ateb.

Dylech sicrhau eich bod yn cydymffurfio â gweithdrefnau'r Awdurdod mewn perthynas â siarad yn gyhoeddus.

9. Trafodaethau gyda Swyddogion

X Ni ddylech roi pwysau ar unrhyw Swyddog i wneud argymhelliad penodol oherwydd y gallai hyn gael ei ystyried fel achos o ragfarnu eu didueddrwydd a'u huniondeb proffesiynol ac fe allai dorri amodau'r Cod Ymddygiad. Nid yw hyn yn eich atal rhag gofyn cwestiynau neu gyflwyno safbwyntiau i'r Swyddog Corfforaethol Arweiniol dros yr Economi ac Adfywio, y gallent gael eu cynnwys mewn unrhyw adroddiad Pwyllgor.

Dylech gydnabod bod Swyddogion yn rhan o strwythur rheoli a dylid dim ond trafod cynnig, y tu allan i unrhyw gyfarfod a drefnwyd, gyda Phennaeth Gwasanaeth/Arweinydd Tîm neu'r Swyddogion hynny sydd wedi cael eu hawdurdodi gan y Swyddog Corfforaethol Arweiniol dros yr Economi ac Adfywio i ddelio gyda'r cynnig ar lefel Aelod.

Dylech gydnabod a pharchu'r ffaith bod yn rhaid i Swyddogion sy'n ymwneud â'r gwaith o brosesu a phenderfynu ynghylch materion cynllunio weithredu yn unol ag unrhyw godau ymddygiad priodol i Swyddogion a gweithwyr proffesiynol, sef Cod Ymddygiad Proffesiynol y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn y lle cyntaf. O ganlyniad, cyflwynir safbwyntiau ac argymhellion Swyddogion Cynllunio ar sail eu prif rwymedigaeth i sicrhau annibyniaeth broffesiynol, y gallai, ar brydiau, fod yn groes i

safbwyntiau, barn neu benderfyniadau Aelodau. Yn eu rôl o gynghori a chynorthwyo Aelodau wrth iddynt wneud penderfyniad am geisiadau cynllunio a materion y Cynllun Datblygu, bydd swyddogion yn darparu:

- cyngor diduedd a phroffesiynol;
- cysondeb o ran dehongliad o'r polisiau cynllunio;
- adroddiadau ysgrifenedig cyflawn a fydd yn cynnwys:
 - dadansoddiad clir a manwl o'r materion yng nghyd-destun polisiau y Cynllun Datblygu perthnasol a'r holl ystyriaethau materol eraill;
 - sylwedd y cyflwyniadau, y gwrthwynebiadau a safbwyntiau'r holl rai yr ymgynghorwyd â nhw;
 - argymhelliad ysgrifenedig clir ynghylch gweithredu, a lle y mae'r argymhelliad hwnnw yn mynd yn groes i'r Cynllun Datblygu, yr ystyriaethau priodol sy'n cyfiawnhau'r amrywiad;
 - yr holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn gallu gwneud y penderfyniad.

10. Gwneud Penderfyniad

10 a) Pwysigrwydd polisiau cymeradwy wrth wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio

Wrth wneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio a Chynlluniau Datblygu, mae'r gyfraith yn mynnu bod y cais yn cael ei benderfynu yn unol â'r Cynllun Datblygu cyfredol pan fo hynny'n berthnasol, oni bai bod ystyriaethau priodol yn dynodi fel arall. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys y Cynllun Datblygu sydd mewn grym ar y pryd ac unrhyw Gynllun olynol a gaiff ei fabwysiadu yn ei le ac ni ddylid rhoi polisiau o'r fath o'r neilltu mewn achos penodol heb gael rhesymau cynllunio cadarn dros wneud hynny.

Dylech fynychu cyfarfodydd gyda meddwl agored a dangos bod gennych chi feddwl agored.

□ **Dylech** gydymffurfio ag Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, gan wneud penderfyniadau yn unol â'r Cynllun Datblygu presennol oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall.

□ **Dylech** wneud eich penderfyniad ar ôl rhoi ystyriaeth briodol i'r holl wybodaeth y mae gofyn ei chael yn rhesymol er mwyn seilio eich penderfyniad arni. Os byddwch yn teimlo nad oes digon o amser i ystyried deunydd neu wybodaeth newydd neu nad oes gwybodaeth ddigonol o'ch blaen, gofynnwch am y wybodaeth bellach honno. Os bydd angen, cynigiwch y dylid gohirio'r cais.

X Ni ddylech bleidleisio na chymryd rhan yn y penderfyniad am gynnig oni bai eich bod wedi bod yn bresennol i glywed popeth a ddywedwyd yn ystod y cyfarfod hwnnw, gan gynnwys cyflwyniad y Swyddogion i'r mater.

□ Os ydych yn cynnig, yn eilio neu'n cefnogi penderfyniad (yn enwedig un sy'n mynd yn groes i argymhellion Swyddog neu'r Cynllun Datblygu presennol) **dylech** sicrhau eich bod yn nodi'r rhesymau cynllunio sy'n arwain at y casgliad/penderfyniad yn glir, a'ch bod yn eu deall, a'ch bod yn gallu nodi'r dystiolaeth ategol. Rhaid rhoi'r rhesymau hyn cyn y bleidlais a'u cofnodi. Byddwch yn ymwybodol o'r ffaith y bydd yn rhaid i chi gyfiawnhau'r penderfyniad dilynol efallai trwy gyflwyno tystiolaeth os caiff y penderfyniad ei herio (er enghraifft yn ystod ymchwiliad Cyhoeddus neu drafodion Adolygiad Barnwrol).

□ **Dylech** wneud eich penderfyniad ar sail ystyriaethau cynllunio cymhellol, cadarn a pherthnasol

X Ni ddylech wneud eich penderfyniad ar sail amgylchiadau personol oni bai bod rhesymau cynllunio eithriadol dros wneud hynny

X Ni ddylech gyfeirio at fanylion personol unrhyw unigolyn (e.e., iechyd, oedran, cyfeiriad y cartref, statws cyflogaeth neu fusnes), nid ydynt yn berthnasol wrth wneud penderfyniad cynllunio a byddent yn codi pryderon ynghylch GDPR hyd yn oed gyda chaniatâd yr ymgeisydd.

10 b) Adroddiadau i'r Pwyllgor am geisiadau cynllunio

Nod adroddiadau ysgrifenedig swyddogion i'r Pwyllgor yw bod yn fanwl ac yn gryno, gan ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol. Maent yn disgrifio'r cynnig, ac maent yn cynnwys asesiad cynllunio rhesymegol o'r cynnig gan gynnwys dadansoddiad o'r holl bolisiâu cynllunio perthnasol ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill. Maent yn cynnwys argymhelliad ysgrifenedig wedi'i gyfiawnhau ar sail polisiâu datblygu perthnasol ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill. Maent yn cynnwys ymgynghoriadau a chyflwyniadau eraill, ond efallai na fyddant yn cynnwys copiâu o'r holl lythyrau gwrthwynebu neu gefnogaeth a gafwyd. Byddant, fodd bynnag, yn rhoi crynodeb o unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol sy'n ymddangos mewn cyflwyniadau o'r fath. Caiff copiâu cyflawn o'r holl ohebiaeth o'r fath eu cynnwys yn y ffeil gynllunio ac maent ar gael i Aelodau.

- Dylech** hysbysu'r Swyddog Achos cyn gynted ag y bo hynny'n ymarferol os byddwch yn dod yn ymwybodol o wybodaeth sy'n berthnasol i'r cam o wneud penderfyniad am achos sydd ar agenda y Pwyllgor Rheoli Datblygu. Gallai methu gwneud hynny arwain at ohirio'r achos, gan beri oedi dianghenraid.
- Dylech** gysylltu â'r Awdurdod cyn gynted ag y bo modd os hoffech drafod dehongliad gwybodaeth mewn adroddiad y Pwyllgor Rheoli Datblygu, neu adroddiad Awdurdod Cynllunio Lleol am gynnig datblygu.

10 c) Penderfyniadau sy'n mynd yn groes i bolisi a/neu argymhelliad

Mae Adran 38(6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn mynnu bod yn rhaid gwneud yr holl benderfyniadau yn unol â'r Cynllun Datblygu cyfredol oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn dynodi fel arall.

Bydd swyddogion yn cynghori yn eu hadroddiad pa ddadleuon a gyflwynir gan ymgeisydd/gwrthwynebydd neu gefnogwr cais sy'n cael eu hystyried fel rhai sy'n cyfateb ag ystyriaethau perthnasol. Yn aml, cyflwynir dadleuon o natur bersonol sy'n ymwneud ag amgylchiadau'r ymgeisydd i gefnogi cynnig.

Ni all amgylchiadau personol fod yn drech nag ystyriaethau cynllunio eraill ac eithrio dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol; gallai enghraifft fod yn achos Llety dros dro i Deithwyr Sipsiwn tra bod safleoedd parhaol yn cael eu datblygu.

Pan allai caniatâd personol i strwythur dros dro fod yn dderbyniol er enghraifft, byddai'n destun amodau penodol sy'n cyfyngu ar y ddeiliadaeth i unigolyn penodol am gyfnod penodedig h.y., 3 blynedd – fodd bynnag, bydd angen sicrhau'r awdurdod nad yw mewn perygl o fynd yn groes i'w ddyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Nid yw rhoi strwythur parhaol o ganlyniad i anghenion deiliaid bwriadedig yn cyfateb ag ystyriaeth gynllunio berthnasol gan bod caniatâd cynllunio yn rhedeg gyda'r tir.

Mae'n bwysig i aelodau gofio bod Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol wedi cael eu datblygu yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf WCFG), felly mae egwyddor hanfodol datblygiad cynaliadwy fel y'i gweithredir yn Neddf WCFG wedi cael ei chynnwys mewn polisi cynllunio ar lefel leol a chenedlaethol. Nid yw'n wir bod datblygiadau sy'n cynorthwyo lles unigolyn yn drech na daliadau polisi cenedlaethol – gan bod Deddf WCFG wedi cael ei gweithredu trwy bolisi cynllunio cenedlaethol. Cynsail canolog Deddf WCFG yw mynnu bod cyrff cyhoeddus yn ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau. Mae ystyried amgylchiadau unigolyn a chefnogi datblygiad ar y sail honno os nad yw'n ddatblygiad cynaliadwy yn mynd yn groes i'r Ddeddf sy'n mynnu bod cyrff cyhoeddus yn ystyried datblygiad cynaliadwy ar gyfer lles cenedlaethau'r dyfodol a sicrhau na chaiff adnoddau eu gwastraffu, sef gwneud penderfyniadau er lles cymdeithas yn gyffredinol i bob pwrpas, hyd yn oed os na fydd hynny yn cynorthwyo anghenion personol unigol ar adeg benodol.

Rhaid i geisiadau lle y mae'r penderfyniad a wneir amdanynt yn mynd yn groes i argymhelliad swyddog gael eu seilio ar resymau clir, cadarn ac argyhoeddiadol sy'n seiliedig ar ystyriaethau cynllunio perthnasol.

Gallai gwneud penderfyniad sy'n mynd yn groes i gyngor swyddogion adael y Cyngor yn agored i her gyfreithiol neu her arall, gan gynnwys cwyn i PSOW neu'r posibilrwydd y bydd Gweinidogion Cymru yn galw'r penderfyniad i mewn.

□ **Dylech** sicrhau bod aelodau yn cofio ac ystyried y ffaith bod yr Awdurdod wedi mabwysiadu protocol mewn perthynas â gwneud penderfyniadau sy'n mynd yn groes i argymhelliad swyddog, a/neu bolisiâu lleol a chenedlaethol, a nodir yng ngweithdrefnau gweithredol y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

□ Os bydd Aelodau yn penderfynu cymeradwyo neu wrthod cais yn groes i bolisi neu argymhelliad y Swyddog, **dylech** sicrhau bod ystyriaeth o'r fath yn dilyn ac yn cael ei gohirio tan cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu, lle y bydd yn rhaid i aelodau, wrth ailystyried y mater, nodi rhesymau clir a chyfiawn sy'n gallu cyfateb ag ystyriaethau cynllunio perthnasol.

11. Hyfforddiant i Aelodau

Mae'r system gynllunio yn broses lled-farnwrol sy'n cynnwys materion cyfreithiol a thechnegol cymhleth ac sy'n golygu bod gofyn defnyddio crebwyll cadarn wrth asesu cynigion cynllunio. Gall methu dilyn arfer a gweithdrefnau cywir arwain at ganlyniadau difrifol i'r awdurdod cynllunio ac i'r Cyngor yn gyffredinol. Felly, ni fydd Aelodau yn gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n cynnwys materion cynllunio os na fyddant wedi mynychu'r hyfforddiant cynllunio gorfodol a ragnodwyd gan yr Awdurdod.

□ **Dylech** geisio mynychu unrhyw sesiynau hyfforddiant arbenigol a ddarparir, oherwydd y caiff y rhain eu cynllunio i ymestyn eich gwybodaeth o gyfraith cynllunio, rheoliadau, gweithdrefnau, Canllawiau a Chodau Ymarfer a'r Cynlluniau Datblygu, a'ch cynorthwyo i gyflawni eich rôl mewn ffordd gywir ac effeithiol.

12. Ceisiadau cynllunio gan Aelodau a Swyddogion yr Awdurdod

Pan gyflwynir cais cynllunio gan:

Aelod Etholedig mewn swydd neu un o'u cydnabod personol agos,

Prif swyddogion (Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol),

Yr holl staff a gyflogir gan y gwasanaeth(au) cynllunio gan gynnwys Rheoli Datblygu a Pholisi Cynllunio

Unrhyw staff eraill y maent yn cael cyswllt agos â'r gwasanaeth cynllunio neu gais cynllunio penodol,

Neu gydnabod personol agos;

Ni fydd yr Aelod neu'r Swyddog dan sylw:

- .i. yn cymryd unrhyw ran yn y cam o brosesu a gwneud penderfyniad am y cais/mater Cynllun Datblygu;
- .ii. ni fyddant yn cyfathrebu gydag unrhyw reolwyr datblygu neu swyddogion cynllunio neu gydag unrhyw aelod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu am y mater
- .iii. byddant yn hysbysu'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros yr Economi ac Adfywio a'r Pennaeth Gwasanaeth/Arweinydd Tîm perthnasol.
- .iv. byddant yn gwneud datgeliadau budd priodol

Adroddir pob cais cynllunio a gyflwynir gan Aelod, neu swyddog neu eu cydnabod personol agos i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a chânt eu penderfynu ganddo.

Diben hyn yw sicrhau bod ceisiadau cynllunio o'r fath yn cael eu trin mewn ffordd annibynnol, er mwyn diogelu rhag unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau tybiedig, ac er mwyn hyrwyddo tegwch a thryloywder.

Bydd adroddiad y Prif Swyddog Corfforaethol dros yr Economi ac Adfywio yn cynnwys cadarnhad gan y Swyddog Monitro y bodlonwyd y gofynion hyn.

13. Ceisiadau cynllunio gan y Cyngor fel perchennog tir

Caiff unrhyw gais a gyflwynir gan, neu ar ran, neu ar dir ym mherchnogaeth Cyngor Sir Ceredigion, y mae gan y Cyngor fudd uniongyrchol ynddo, ei adrodd i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a'i benderfynu ganddo.

Disgwylir i Aelodau Cabinet sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu hefyd ddatgan budd rhagfarnus, gan gamu i lawr o'r cais. Diben hyn yw sicrhau bod y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn gallu penderfynu am brosiectau a arweinir gan y cyngor, ac nad yw aelodau'r Cabinet wedi rhwymo eu disgrisiwn neu ragderfynu (neu ymddangos fel pe baent wedi penderfynu) a rhagderfynu eu safle trwy fod yn rhan o weithgarwch penderfynu ynghylch addasrwydd prosiectau yn ystod cyfnodau cynharach.

14. Datblygiadau Mawr

Adroddir am yr holl ddatblygiadau mawr i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu a bydd yn penderfynu arnynt.

Caiff datblygiadau “mawr” eu diffinio fel a ganlyn:

Penderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad mawr, yn unol â'r diffiniad yn Erthygl 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y caiff ei ddiwygio neu ei addasu gan ddeddfwriaeth ddilynol) a lle nad yw'r safle yn manteisio ar ganiatâd byw (amlinellol neu fanwl) yn barod am fath a graddfa datblygiad tebyg.

(Heb gynnwys penderfyniadau am geisiadau er mwyn tynnu a chloddio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer dyddodion cloddio mwynau a phenderfynu am geisiadau ar gyfer datblygiadau gwastraff).

15. Aelodau Cabinet

Caniateir i aelodau Cabinet eistedd ar y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn unol â dyraniadau arweinwyr grŵp.

16. Diogelu Data a GDPR

Mewn perthynas â phenderfynu ar geisiadau cynllunio gan y Pwyllgor Rheoli Datblygu, mae caniatáu trafodaeth am wybodaeth bersonol yn creu risg y bydd y Pwyllgor Rheoli

Datblygu yn torri Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data 2018.

Fel Cynghorydd Etholedig, rydych chi'n 'Rheolydd Data' pan fyddwch yn cynrychioli preswylwyr eich ward, a phan fyddwch yn canfasio. Rydych yn atebol dros brosesu gwybodaeth bersonol megis dwyn ymlaen cwynion a wneir gan breswylwyr lleol neu ddefnyddio gwybodaeth bersonol i amserlennu apwyntiadau cymhorthfa. Os ydych chi'n cynrychioli plaid wleidyddol, yn enwedig yn ystod cyfnod etholiad, y blaid wleidyddol fydd y rheolydd data. Fel Rheolydd Data, bydd angen i chi sicrhau eich bod yn cydymffurfio â GDPR a Deddf Diogelu Data 2018.

X Ni ddylech ddatgelu gwybodaeth bersonol Sensitif a chyfrinachol yn ystod trafodaeth yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu ac fe allai hon gynnwys eu statws priodasol, eu hanes cyflogaeth, nifer y dibynyddion sydd ganddynt, cyfrifoldebau gofalu, anabledau ac ati. Hyd yn oed pan fo'r unigolyn dan sylw wedi rhoi caniatâd, mae angen i'r aelodau gofio bod y data hwn ar gael i'r cyhoedd ac felly mae gofynion GDPR yn parhau.

Wrth ddelio gydag aelodau'r cyhoedd/asiantau neu wrthwynebwyd (a'u data personol), mae angen i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu gael sicrwydd eu bod yn diogelu'r unigolion hyn a'u hunain fel penderfynwyr. A chaiff penderfyniadau eu gwneud yn unol â threfniadau cywir nid amgylchiadau, safbwyntiau neu deimladau personol. Bydd hyn yn diogelu rhag sefyllfa lle y bydd aelodau yn gwneud penderfyniadau y gallent effeithio ar a gadael bywyd personol rhywun yn agored.

Pan fydd Aelodau yn gweithredu fel aelodau ward Lleol, **cofiwch** yr ystyrir eu bod yn rheolwyr data, ac y byddant yn dod yn atebol yn bersonol am unrhyw achosion o dor diogelwch data sy'n deillio o'r datgeliad.

Dilynwch gyngor y cyngor i aelodau lleol mewn perthynas â GDPR a hysbysiadau preifatrwydd sampl i'w defnyddio wrth ddelio ag etholwyr.

RHAN 5
CODAU A PHROTOCOLAU

Cynnwys

DOGFEN J COD YMDDYGIAD YR AELODAU

DOGFEN K PROTOCOL AR GYFER Y BERTHYNAS RHWNG AELODAU A SWYDDOGION

DOGFEN L COD YMDDYGIAD AR GYFER CYFLOGEION LLYWODRAETH LEOL

DOGFEN M PROTOCOL TROSOLWG A CHRAFFU

DOCUMENT M2 PROTOCOL AR GYFER RHOI HAWL I AELODAU'R CABINET FYNYCHU PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

DOGFEN N PROTOCOL YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD TROSOLWG A CHRAFFU

DOGFEN O PROTOCOL DEISEBAU

DOGFEN P PROTOCOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

DOGFEN Q PROTOCOL ARFER DDA I AELOD O RAN CYNLLUNIO

***J DIRPRWYO YNG NGHYSWLLT Y SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL:
PORTH CYNNAL - GWASANAETHAU ARBENIGOL GYDOL OES A
CHYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL /
UNIGOLYN CYFRIFOL A'R SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL:
PORTHGOFAL- YMYRRAETH WEDI'I THARGEDU A DIRPRWY
GYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL***

**Swyddogaethau sydd wedi eu dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol:
Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes**

1) CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL –
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol
Oes

Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal - Gwasanaethau Arbenigol
Gydol Oes wedi'i dynodi a'i phenodi yn Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau
Cymdeithasol yn unol ag Adran 6, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau
Lleol 1970 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae
swyddogaeth ac atebolrwydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u
hamlinellu yn y Protocol 'Swyddogaethau ac Atebolrwydd y Cyfarwyddwr
Gwasanaethau Cymdeithasol' sef Dogfen P o dan ran 5 o'r Cyfansoddiad hwn.
Mabwysiadodd y Cyngor y Protocol yn ffurfiol ar 23/1/18.

2) Hefyd, mae wedi'i hawdurdodi i weithredu fel Swyddog Awdurdodedig a
Swyddog Awdurdodi at ddibenion Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000. Caiff
y Swyddog Monitro fel yr Uwch Swyddog Cyfrifol, ei hysbysu am unrhyw gais o'r fath.

3) Defnyddio pwerau, dyletswyddau a swyddogaethau'r Cyngor sy'n ymwneud â
Phanel y Channel o dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 gan gynnwys
dynodi Swyddogion priodol i fod yn Gadeirydd y Channel ac yn Ddirprwy Gadeirydd
y Channel.

**Swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol: Porth Cynnal –
Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol::
Porth Gofal Ymyrraeth wedi'i Thargedu**

1. Caiff y swyddogaethau canlynol eu dirprwyo i'r:

- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cynnal – Gwasanaethau
Arbenigol Gydol Oes,
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal – Ymyrraeth wedi'i

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

RHAN 3.5 J Dirprwyo i'r SAC Porth Gofal – Ymyrraeth wedi'i Thargedu a'r SAC Porth Cynnal –
Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes

Diweddarwyd ym mis Ionawr 2022

Thargedu.

- ac yn eu habsenoldeb i unrhyw swyddogion a awdurdodir yn briodol gan y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol o dro i dro fel y bo'n briodol ar yr amod bod y swyddogion yn meddu ar gymwysterau addas i gyflawni'r dyletswyddau a'r swyddogaethau hynny:-

1.1 Cynrychioli'r Cyngor ym Mwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru a/neu ym Mhartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a, thrwy gynrychiolaeth o'r fath, ymgymryd â phenderfyniadau perthnasol cysylltiedig ar ran y Cyngor a chyflawni swyddogaethau, pwerau a dyletswyddau'r Cyngor, fel sy'n briodol.

1.2 Y swyddogaethau canlynol, ac ar gyfer unrhyw swyddogion a awdurdodir ganddynt o dro i dro, fel sy'n briodol, ar yr amod bod gan y swyddogion hynny y cymwysterau addas i gyflawni'r dyletswyddau a'r swyddogaethau hynny (gweler isod):

Gwasanaethau Cymdeithasol

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 Atodlen 1 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol

DEDDFIAD	NATUR Y SWYDDOGAETHAU	NODIADAU
Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933		
Rhan III	Amddiffyn pobl ifanc o ran achosion troseddol a diannod; plant sy'n ymddangos gerbron llys sydd angen gofal, amddiffyniad neu reolaeth; traddodi plant i ysgol gymeradwy neu ofal person cymwys, ac ati	Dal mewn grym
	Rhan IV Cartrefi remánd, ysgolion cymeradwy a phlant mewn gofal personau cymwys	Dal mewn grym
Deddf Cymorth Gwladol 1948		
Adrannau 21 i 27	Darparu llety preswyl ar gyfer yr oedrannus, yr eiddil, yr anghenus, ac ati	a.21, 23, 24 a 26 dal mewn grym a.22 mewn grym ond bydd yn cael ei diddymu a.25 a 27 wedi'i ddiddymu
Adrannau 29 a 30	Lles personau sy'n ddall, yn fyddar, yn fud neu sydd fel arall dan anfantais neu sy'n dioddef anhwylder meddwl; defnyddio sefydliadau gwirfoddol ar gyfer gweinyddu cynlluniau lles	Dal mewn grym
Adrannau 43 i 45	Adennill costau darparu gwasanaethau penodol	a.43 a 45 mewn grym a.44 wedi'i ddiddymu
Adran 48	Diogelu dros dro eiddo sy'n perthyn i bersonau mewn ysbyty neu lety a ddarperir dan Ran III y	Dal mewn grym

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

RHAN 3.5 J Dirprwyo i'r SAC Porth Gofal – Ymyrraeth wedi'i Thargedu a'r SAC Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes
Diweddarwyd ym mis Ionawr 2022

Tudalen 493

Adran 49	Ddeddf, ac ati Talu treuliau swyddog Awdurdod Lleol sy'n ymgeisio am benodiad fel dirprwy ar gyfer cleifion penodol	Dal mewn grym
Adran 56(3) ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â throedd o dan adran 47(11)	Erlyn troseddau	Dal mewn grym

Deddf Personau Anabl (Cyflogaeth) 1958

Adran 3	Darparu cyfleusterau fel y gall personau anabl gael eu cyflogi neu weithio o dan amodau arbennig	Dal mewn grym
---------	--	---------------

Deddf Iechyd Meddwl 1959

Adran 8	Lles personau sydd ag anhwylderau meddwl a llety ar eu cyfer	Mewn grym ond i'w diddymu
---------	--	---------------------------

Deddf Iechyd Meddwl (Yr Alban) 1984

Adran 10	Lles person penodol tra ei fod mewn ysbyty yn yr Alban	Dal mewn grym
----------	--	---------------

Deddf Ymwelwyr Iechyd a Gwaith Cymdeithasol (Hyfforddiant) 1962

Adran 5(1)(b)	Ymchwil i faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau lles Awdurdodau Lleol	Deddf wedi'i diddymu
Adran 5(1)(c)	Ymchwil i faterion sy'n ymwneud â swyddogaethau Awdurdodau Lleol	Deddf wedi'i diddymu

Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963

Rhan I	Pwerau sy'n ymwneud â phobl ifanc y mae angen gofal, amddiffyniad neu reolaeth arnynt; darpariaethau pellach ar gyfer amddiffyn yr ifanc yng nghyswllt achosion troseddol	Adrannau sy'n delio â swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u diddymu
---------------	--	--

Deddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968

Adran 45	Hybu lles pobl hŷn	Dal mewn grym
Adran 65	Cymorth ariannol ac arall i sefydliadau gwirfoddol	Dal mewn grym

Deddf Gwaith Cymdeithasol (yr Alban) 1968

Adrannau 75(2)	Cyfeirnod ar gyfer ystyried, ac ati, a 76(4) achos plentyn mewn gofal y mae ei riant yn symud i'r Alban ac yn trosglwyddo plentyn	a.75 & 76 wedi'i diddymu
-----------------------	--	--------------------------

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

RHAN 3.5 J Dirprwyo i'r SAC Porth Gofal – Ymyrraeth wedi'i Thargedu a'r SAC Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes

Diweddarwyd ym mis Ionawr 2022

Tudalen 494

Deddf Plant a Phobl Ifanc 1969

Y Ddeddf gyfan ac eithrio adran 9 i'r graddau y maent yn trosglwyddo swyddogaethau i Awdurdod Lleol yn rhinwedd ei swydd fel awdurdod addysg lleol

Gofal a ffyrdd eraill o drin plant a phobl ifanc trwy achosion llys

Mae rhai adrannau (a.9, er enghraifft) sy'n delio â swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol dal mewn grym

Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970

Adran 1

Sicrhau gwybodaeth ynghylch yr angen am wasanaethau lles penodol a chyhoeddi gwybodaeth ynghylch bodolaeth y gwasanaethau hynny

Dal mewn grym

Adran 2

Darparu gwasanaethau lles penodol

Dal mewn grym

Adran 18

Darparu gwybodaeth benodol y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn amdani

Mewn grym ond i'w diddymu

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol

Adran 6

Penodi Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

a.6 dal mewn grym

Adran 7B

Darparu a rheoli gweithdrefn gwyno

a.7B mewn grym ond i'w diddymu

Deddf Mabwysiadu 1976

Swyddogaethau yn parhau i fod yn arferadwy yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth drosiannol neu arbedion a wnaed gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 neu oddi tano.

Yr adrannau sy'n delio a swyddogaethau'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u diddymu

Deddf Plant 1975

Rhan II

Cais gan Awdurdod Lleol am ddirymu gorchymyn gwarchodaeth; Ymchwiliadau a gynhaliwyd gan Awdurdod Lleol mewn achosion gwarchodaeth

Wedi'i diddymu

Deddf Budd-daliadau Atodol 1976

Atodlen 5

Darparu a chynnal [unedau adsefydlu] ar gyfer pobl heb ffordd sefydlog o fyw

Wedi'i diddymu

Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

RHAN 3.5 J Dirprwyo i'r SAC Porth Gofal – Ymyrraeth wedi'i Thargedu a'r SAC Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes

Diweddarwyd ym mis Ionawr 2022

Tudalen 495

Atodlen 8 Gofal dros famau a phobl ifanc; atal, gofal ac ôl-ofal; cymorth yn y cartref a chyfleusterau golchi dillad Dal mewn grym ond mae wedi'i chynnwys bellach yn Atodlen 15, Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006

Deddf Cartrefi Preswyl 1980

Adrannau 1 i 7 Cofrestru cartrefi i bobl anabl neu bobl hŷn a chartrefi preswyl ar gyfer pobl ag anhwylderau meddwl Wedi'u diddymu

Deddf Iechyd Meddwl 1983

Rhannau II, III a VI Lles y rheini ag anhwylder meddwl; Gwarcheidiaeth pobl sy'n dioddef o anhwylder meddwl gan gynnwys y rheini sydd wedi symud i Gymru a Lloegr o'r Alban neu Ogledd Iwerddon; arfer swyddogaethau perthynas agosaf y sawl sy'n dioddef Dal mewn grym

Adrannau 66, 67, 69(1) Arfer swyddogaethau'r berthynas agosaf o ran ceisiadau a chyfeiriadau at Dribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl Dal mewn grym

Adran 114 Penodi gweithwyr cymdeithasol cymeradwy Dal mewn grym

Adran 115 Cael mynediad ac archwilio Dal mewn grym

Adran 116 Lles cleifion ysbytai penodol Dal mewn grym

Adran 117 Ôl-ofal cleifion dan gadwad Dal mewn grym

Adran 130 Erlyniadau Dal mewn grym

Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983

Adran 17, i'r Taliadau ar gyfer gwasanaethau lles Dal mewn grym
graddau y Awdurdodau Lleol
mae'n
ymwneud â
gwasanaethau
a ddarperir o
dan y
deddfiadau a
nodir yn
isadran (2)(a) i
(c)

Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984

Adran 46 Claddu neu amlosgi person dan Ran III, Dal mewn grym
Deddf Cymorth Cenedlaethol 1948, ac

adennill treuliau o'r ystad

Deddf Tai 1996 Adran 213(1)(b)

Cydweithredu o ran pobl ddigartref a phobl sydd wedi'u bygwth â digartrefedd

Dal mewn grym

Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986

Adrannau 1 i 5, Cynrychioli ac asesu pobl anabl

Dal mewn grym

7 a 8 ac eithrio

i'r graddau y

maent yn

trosglwyddo

swyddogaethau

i Awdurdod

Lleol yn

rhinwedd ei

swydd fel

awdurdod

addysg lleol

Deddf Tai (Yr Alban) 1987

Adran 38(b)

Cydweithredu o ran pobl ddigartref a phobl sydd wedi'u bygwth â digartrefedd

Dal mewn grym

Deddf Plant 1989

Y Ddeddf gyfan Adroddiadau Lles

Dal mewn grym

i'r graddau y

Caniatáu cais am orchymyn preswyllo o ran plentyn mewn gofal

mae'n rhoi

swyddogaethau

Swyddogaethau sy'n ymwneud â gorchmynion gwarcheidwaid arbennig

ar Awdurdod

Lleol o fewn

Gorchmynion cymorth i deuluoedd

ystyr y Ddeddf

Swyddogaethau o dan Ran III y Ddeddf (cymorth Awdurdodau Lleol i blant a

honno

theuluoedd)

Amddiffyn plant

Swyddogaethau sy'n ymwneud â chartrefi cymunedol, cartrefi gwirfoddol a sefydliadau gwirfoddol, cartrefi plant preifat, trefniadau preifat ar gyfer maethu plant, gwarchod plant a gofal dydd ar gyfer plant ifanc
Arolygu cartrefi plant ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol

Ymchwil a datganiadau gwybodaeth

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

RHAN 3.5 J Dirprwyo i'r SAC Porth Gofal – Ymyrraeth wedi'i Thargedu a'r SAC Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes

Diweddarwyd ym mis Ionawr 2022

Tudalen 497

Swyddogaethau sy'n ymwneud â phlant sy'n cael llety gan y Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol, Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac awdurdodau addysg lleol neu gartrefi gofal, ysbytai annibynnol neu ysgolion

Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990

Adran 46 Paratoi cynlluniau ar gyfer gwasanaethau gofal yn y gymuned **Dal mewn grym**

Adran 47 Asesu anghenion y gwasanaethau gofal yn y gymuned **Dal mewn grym**

Deddf Addysg 1996

Adran 322 Help i'r awdurdod addysg lleol wrth arfer swyddogaethau o dan Ran III y Ddeddf **Dal mewn grym**

Deddf Gofalwyr (Cydnabyddiaeth a Gwasanaethau) 1995

Adran 1 Asesu gallu gofalwyr i ddarparu gofal **Dal mewn grym**

Deddf Gofal yn y Gymuned (Taliadau Uniongyrchol) 1996

Swyddogaethau sy'n ymwneud â gwneud taliadau i bobl o ran sicrhau'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal yn y gymuned neu wasanaethau o dan y Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000

Wedi'i ddiddymu gan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 ond y diddymiad heb ddod i rym eto

Deddf Mabwysiadu (Agweddau rhwng Gwledydd) 1999

Adrannau 1 a 2(4) Swyddogaethau o dan reoliadau a wnaed o dan adran 1 sy'n rhoi ar waith y Confensiwn ar Amddiffyn Plant a Chydweithredu o ran Mabwysiadu Rhwng Gwledydd, a gwblhawyd yn yr Hâg ar 29 Mai 1993 a swyddogaethau o dan Erthygl 9(a) i (c) o'r confensiwn **Dal mewn grym**

Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000

Y Ddeddf gyfan, i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaethau ar Awdurdod Lleol o fewn ystyr y Ddeddf honno Asesu anghenion gofalwyr Darparu gwasanaethau i ofalwyr Darparu talebau

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001

Rhan 4 i'r graddau y mae'n rhoi Swyddogaethau o ran darparu llety preswyl Gwneud taliadau uniongyrchol i berson o ran sicrhau darpariaeth gwasanaethau gofal yn y gymuned neu wasanaethau i ofalwyr **Mae Rhan 4 is mewn grym, ar wahân i Adran 56 sydd mewn grym i'r graddau y mae**

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

RHAN 3.5 J Dirprwyo i'r SAC Porth Gofal – Ymyrraeth wedi'i Thargedu a'r SAC Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes

Diweddarwyd ym mis Ionawr 2022

**swyddogaethau
ar Awdurdod
Lleol yng
Nghymru neu
Loegr o fewn
ystyr y Rhan
honno**

rhoi unrhyw bwer i
wneud gorchymyn
neu reoliadau sy'n
sy'n arferadwy gan
yr Ysgrifennydd
Gwladol, ddim
mewn grym fel
arall, mae Adran
56 yn delio â
rheoliadau a allai
ddarparu ar gyfer
Awdurdod Lleol i
wneud trefniadau
ar gyfer llety
preswyl yn yr
Alban, Gogledd
Iwerddon,
Ynysoedd y Sianel
neu Ynys Manw

Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002

Cynnal Gwasanaeth Mabwysiadu; swyddogaethau Awdurdod Lleol fel asiantaeth mabwysiadu Dal mewn grym

Deddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc) 2003

Rhan 1 Swyddogaethau sy'n ymwneud â chleifion sy'n debygol o angen gwasanaethau gofal cymunedol i fod ar gael er mwyn eu cyflawni'n ddiogel Ddim mewn grym yng Nghymru

Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003

Adran 114 Ystyried cwynion Mewn grym ond yr Atodlen heb ei newid eto i gyfeirio at hyn

Deddf Gofalwyr (Cyfleoedd Cyfartal) 2004

Adran 3, i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaethau ar Awdurdod Lleol o fewn ystyr yr adran honno Cydweithredu rhwng awdurdodau Dal mewn grym

Deddf Plant 2004

Adrannau 13 i 16 a 31 i 34 Swyddogaethau sy'n ymwneud â Byrddau Lleol Diogelu Plant Dal mewn grym DS Nid yw adrannau 31 i 34 ond yn berthnasol i

Tudalen 499

Gymru

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Adran 39 **Cyfarwyddo eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol cyn darparu llety ar gyfer person heb alluedd** Dal mewn grym

Adran 39A **Cyfarwyddo eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol pan fydd yn rhoi awdurdodiad brys, neu'n gwneud cais am awdurdodiad safonol, dan Atodlen A1, y Ddeddf** Dal mewn grym

Adran 39C **Cyfarwyddo eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol pan na fydd yna gynrychiolydd ar gyfer y person perthnasol dan Ran 10 Atodlen A1 , y Ddeddf** Dal mewn grym

Adran 39D **Cyfarwyddo eiriolwr galluedd meddyliol annibynnol pan na fydd cynrychiolydd y person perthnasol o dan Ran 10, Atodlen A1 y ddeddf yn cael ei dalu** Dal mewn grym

Adran 49 **Adroddiadau mewn achosion** Dal mewn grym

Atodlen A1 **Unrhyw swyddogaethau** Dal mewn grym

Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008

Rhan 1 **Gwneud trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gofal perthnasol o ran plant a phobl ifanc penodol** Dal mewn grym

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

RHAN 3.5 J Dirprwyo i'r SAC Porth Gofal – Ymyrraeth wedi'i Thargedu a'r SAC Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes

Diweddarwyd ym mis Ionawr 2022

DIRPRWY GYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal Ymyrraeth wedi'i Thargeddu yw'r sawl sydd wedi ei ddynodi yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Swyddogaethau sydd wedi'u dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal Ymyrraeth wedi'i Thargeddu

Mae'r swyddogaethau canlynol wedi'u dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal Ymyrraeth wedi'i Thargeddu ac i unrhyw swyddogion a awdurdodwyd ganddynt o dro i dro fel y bo'n briodol, yn amodol ar y ffaith fod gan y swyddogion hynny y cymwysterau addas ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau a'r swyddogaethau hynny:

1. Swyddogaethau tai strategol, safonau tai ac atal digartrefedd

- 1.1 Yn meddu ar y prif gyfrifoldeb dros weinyddu'r Gofrestr Tai Cyffredin ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol y Landlordiaid Cofrestredig sy'n gweithredu yn y Sir.
- 1.2 Enwebu pobl o'r Gofrestr Dai fel y gall unigolion gael mynediad i'r Sector Preifat, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Asiantaethau Gosod Tai Cymdeithasol yn unol â Rhan 2 Deddf Tai 2014.
- 1.3 Cymeradwyo ceisiadau am grantiau a benthyciadau ac am symiau ychwanegol yn unol â'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym ar y pryd ac yn unol â pholisi ac arfer y Cyngor ar y pryd gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet.
- 1.4 Llofnodi, cyhoeddi a chyflwyno Hysbysiadau Statudol o dan bob deddfwriaeth berthnasol gan gynnwys ymholiadau am wybodaeth.
- 1.5 Gwneud trefniadau i gyflawni gwaith a/neu gyflawni gwaith os bydd rhywun heb gydymffurfio â thelerau unrhyw Hysbysiad Statudol
- 1.6 Sicrhau llety dros dro ar gyfer y Digartref o dan Ran 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 ac unrhyw ddeddfwriaeth a / neu reoliadau cyfredol a pherthnasol eraill. Cyflawnir hyn trwy wneud cytundebau a thenantiaethau gyda Landlordiaid Preifat a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Asiantaethau Gosod Tai Cymdeithasol.
- 1.7 Cynnal adolygiadau digartrefedd fel bo'r angen yn unol â Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014.

Tudalen 501

- 1.8 Rhoddi hawllidiadau i fenthycwyr morgesi megis Cymdeithasau Tai o ran amodau ad-dalu grantiau sy'n ymwneud â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 er mwyn rhoi'r tâl cyntaf ar werth yr eiddo i'r benthycwyr pe gorfodid ei werthu ar ôl ei adfeddiannu gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet.
- 1.9 Gwneud cytundebau enwebu gyda landlordiaid preifat ar ran y Cyngor ar gyfer gosod unedau/fflatiau a gaiff eu creu drwy eu cyfaddasu gyda chymorth grantiau dewisol.
- 1.10 Penderfynu a ddylid hawlio grant yn ôl ar ôl gwaredu neu drosglwyddo anheddau'n briodol o dan amgylchiadau sy'n unol â Pholisi Grantiau a Benthyciadau Tai'r Cyngor a/neu Adran 45(5) Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 neu'r Caniatâd Cyffredinol i Adennill Grantiau 1996 gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet.
- 1.11 Gweinyddu'r darpariaethau yn Adran 157 Deddf Tai 1985 o ran y cyfyngiad a osodir ar yr hen stoc tai gwledig.
- 1.12 O ran Deddf Tai 2004:
 - 1.12.1 gwneud Gorchmynion Rheoli a gweithredu pwerau mynediad i gyflawni gwaith (Adran 131 Deddf Tai 2004)
 - 1.12.2 hysbysu rhywun perthnasol yn gofyn iddo ef/iddi hi ddangos unrhyw ddogfennau o dan adran 235 Deddf Tai 2004 (pŵer i fynnu bod dogfennau'n cael eu dangos)
 - 1.12.3 arfer pŵer mynediad (Adran 239 Deddf Tai 2004 pwerau mynediad)
 - 1.12.4 arfer pŵer mynediad i gyflawni gwaith (paragraff 25 Atodlen 7 Deddf Tai 2004 (Gorchmynion Rheoli Anheddau Gwag "EDMO"), a
 - 1.12.5 chyflwyno hysbysiadau gwella at ddibenion arfer pŵer i gael mynediad er mwyn cyflawni gwaith (paragraff 3(4) Atodlen 3 Deddf Tai 2004)
- 1.13 Gwneud trefniadau i gyflawni gwaith os bydd rhywun heb gydymffurfio â thelerau Hysbysiad Statudol neu os bydd rhywun wedi torri telerau Hysbysiad Statudol sy'n codi o dan 1.11 uchod.
- 1.14 Cyfarwyddo'r adain gyfreithiol ynghylch unrhyw gamau cyfreithiol sy'n codi os bydd rhywun heb gydymffurfio â darpariaethau unrhyw ddeddfwriaeth y mae dyletswydd ar Bennaeth y Gwasanaeth i'w gorfodi.

Tudalen 502

- 1.15 Penderfynu ynghylch ceisiadau am grantiau tai a phenderfynu ynghylch ceisiadau am daliadau dewisol ychwanegol fel y bo'n briodol ac o fewn y gyllideb, gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet perthnasol.
- 1.16 Rheoli a gwneud y defnydd gorau o Grantiau Tai Cymdeithasol a ffrydiau cyllido eraill i gynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei rwymedigaethau statudol o ran tai a galluogi anghenion tai lleol i gael eu diwallu.
- 1.17 Gweithredu a chynnal cynllun cymorthdaliadau rheoli ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n weithredol yng Ngheredigion ac sy'n cynorthwyo â lleoliadau ar gyfer llety dros dro i'r digartrefedd gan ddefnyddio eu stoc dai eu hunain.
- 1.18 Defnyddio pwerau a dyletswyddau, ac i awdurdodi Swyddogion, o dan ddarpariaethau:
 - 1.18.1 Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni (Eiddo Rhent Preifat) (Cymru a Lloegr) 2015; a
 - 1.18.2 Deddf Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru) 2019 (gan gynnwys Rheoliadau a wnaed o dan hynny).

2. Pwerau a dyletswyddau penodol

Mae gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ymyrraeth wedi'i Thargeddu Porth Gofal (ac unrhyw Swyddog arall a awdurdodwyd yn briodol ganddo) y cyfrifoldebau dirprwyedig canlynol:

2.1 Gweithredu o ddydd i ddydd ac o fewn y cynllun dirprwyo yn y meysydd canlynol

2.1.1 Tai (gan gynnwys y swyddogaeth tai strategol, tai fforddiadwy (gan gynnwys cynorthwyo a chynghori'r Awdurdod Cynllunio Lleol mewn perthynas â chytundebau Adran 106), tai arbenigol, atal digartrefedd/opsiynau tai, y gofrestr tai cyffredin, diogelwch yn y cartref, a Thrwyddedu Tai Amlfeddiannaeth

2.1.2 Safonau tai ac adnewyddu achredu landlordiaid, arbed ynni yn y cartref,

2.1.3 Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl).

2.2 Arfer swyddogaethau'r Cyngor o ran digartrefedd / opsiynau tai

2.3 Arfer swyddogaethau'r Cyngor o ran tai anaddas

2.4 Arfer swyddogaethau'r Cyngor o ran tai amlfeddiannaeth, gan gynnwys penderfynu ynghylch ceisiadau am drwyddedau, rhoi hysbysiadau a chymryd camau gorfodi yn ôl yr angen.

2.5 Arfer pwerau gorfodi'r Cyngor yn y sector tai preifat.

2.6 Arfer swyddogaeth y Cyngor o ran darparu cofrestr tai cyffredin.

2.7 Arfer swyddogaeth y Cyngor o ran cyflenwi tai fforddiadwy / cyllid grant.

2.8 Cymeradwyo neu wrthod ceisiadau am wella tai / grantiau atgyweirio, cynlluniau benthyciadau tai a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gan eu gweinyddu.

2.9 Y pŵer i weithredu camau gorfodi mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys camau angenrheidiol i atal troseddau, addysgu a rhoi hysbysiadau cosb benodedig ac, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet perthnasol, cyflwyno cais a gwneud Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014.

2.10 Ymgymryd â'r gwaith o werthu eiddo yn orfodol.

K DIRPRWYO I'R SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL: YSGOLION A DIWYLLIANT A'R PRIF SWYDDOG ADDYSG

Y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant sydd wedi'i dynodi a'i phenodi'n Brif Swyddog Addysg a Chyfarwyddwr Arweiniol y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.

Caiff y swyddogaethau canlynol eu dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion a Diwylliant ac yn ei absenoldeb ef/ei habsenoldeb hi i unrhyw swyddogion a awdurdodir gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol o dro i dro fel bo'n briodol ar yr amod bod y swyddogion yn meddu ar gymwysterau addas i gyflawni'r dyletswyddau a'r swyddogaethau hynny:-

1. Cynrychioli mewn achosion barnwrol, tribiwnlysoedd a phaneli

Awdurdodi swyddogion enwebedig i fod yn bresennol mewn achosion barnwrol, tribiwnlysoedd a phaneli i gynrychioli buddiannau'r Cyngor.

2. Derbyn Disgyblion

- 2.1 Gweithredu a gweinyddu gweithdrefnau a threfniadau i dderbyn disgyblion i'r ysgolion, yn unol â pholisïau'r Cyngor a'r rheoliadau a'r canllawiau statudol cenedlaethol.
- 2.2 Arfer disgrisiwn o ran a yw trefniadau unigol ar gyfer addysg y tu allan i sefyllfa ffurfiol yr ysgol yn briodol a chymryd camau cyfreithiol petai angen.
- 2.3 Goruchwylio cyflogi plant.

3. Presenoldeb yn yr ysgol

- 3.1 Arfer y pwerau a'r dyletswyddau sydd gan y Cyngor parthed plant sydd wedi eu gwahardd o'r ysgol a gwneud trefniadau addas ar gyfer cynnal addysg y plant hynny a waherddir a'r rhai sy'n methu â mynychu'r ysgol am resymau eraill, yn unol â pholisi'r Cyngor a'r rheoliadau statudol cenedlaethol a'r canllawiau.

4. Ymgymryd â phwerau a dyletswyddau'r Cyngor ynglŷn â Gorchmynion Goruchwylio Addysg ar y cyd â Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes

- 4.1 Hybu safonau uchel mewn addysg gynradd ac uwchradd yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth gan gynnwys Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a'r arferion a argymhellir gan God Arferion y Swyddfa

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

RHAN 3.5 K Dirprwyo i'r SAC: Ysgolion a Diwylliant

Diweddarwyd ym mis Ionawr 2021

Tudalen 505

Gymreig ynghylch y Berthynas rhwng Ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol.

- 4.2 Ymchwilio i gwynion ynghylch materion sy'n ymwneud â chwricwlwm ac asesu o dan ddarpariaethau Deddf Addysg 1996.
- 4.3 Sicrhau a phenderfynu ynghylch Addysg Gymunedol yn unol â pholisïau'r Cyngor a chan ymgynghori â'r Aelod Cabinet.

5. Anghenion addysgol arbennig

Penderfynu ynghylch darparu addysg arbennig ar gyfer disgyblion unigol, gan gynnwys rhoi cychwyn ar asesu, cynnal datganiadau anghenion addysg arbennig a'u hadolygu.

6. Staffio

- 6.1 Gwneud trefniadau ar gyfer penodi staff yn yr ysgolion yn amodol ar yr Erthyglau Llywodraethu ac/neu ddeddfwriaeth berthnasol.
- 6.2 Penodi pobl a benodir gan y Cyrff Llywodraethu i lanw swyddi gwag yn yr ysgolion, onid yw'r sawl a benodwyd yn methu â chyflawni'r gofynion sydd ohoni o ran cymwysterau'r staff fel bo'n gymwys i'r penodiad.
- 6.3 Penderfynu ynghylch ceisiadau am ganiatâd i fod yn absennol ar gyfer athrawon a gyflogir gan y Cyngor (ac eithrio'r rhai a benodir gan Gyrrff Llywodraethu) i weithio yn yr ysgolion ac mewn sefydliadau eraill.
- 6.4 O ran ysgolion a gynorthwyr, arfer unrhyw hawliau ymgynghorol parthed penodi Penaethiaid, Dirprwy Benaethiaid neu staff dysgu neu staff ategol eraill a roddir drwy gytundeb neu ddeddfwriaeth.
- 6.5 O ran ysgolion Cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir, enwebu pobl i lanw swyddi dysgu gwag eraill mewn ysgolion lle mae'r Cyrff Llywodraethu wedi rhoi gwybod ynglŷn â'u bwriadau i lanw'r swyddi gwag hynny.
- 6.6 Gweithredu gweithdrefnau adleoli'n unol â gweithdrefnau'r Cyngor Sir.
- 6.7 Gweithredu ar benderfyniadau'r Cyrff Llywodraethu ynghylch diswyddiadau posibl ac unrhyw apeliadau dilynol yn erbyn y diswyddiadau hynny, sydd o fewn pwerau'r Cyngor i'w penderfynu ac yn unol â pholisïau'r Cyngor.
- 6.8 Gweithredu a gweinyddu, fel bo'n briodol, y gweithdrefnau a bennir gan y Cyngor ar gyfer ymdrin ag Ymddygiad a Pherfformiad y staff.
- 6.9 Gweithredu'r pwerau sydd gan yr Awdurdod Addysg Lleol parthed y Cynllun Athrawon Trwyddedig.

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

RHAN 3.5 K Dirprwyo i'r SAC: Ysgolion a Diwylliant

Diweddarwyd ym mis Ionawr 2021

Tudalen 506

- 6.10 Gweithredu Cynllun Rheoli Perfformiad y Penaethiaid.
- 6.11 Penderfynu ynghylch ceisiadau i fynd i gynadleddau ac ynghylch dyletswyddau proffesiynol allanol staff a gymeradwyir gan y Cyngor i weithio mewn ysgolion a sefydliadau eraill (ond nas penodwyd gan Gyrrff Llywodraethol).
- 6.12 Penderfynu ynghylch darparu a gweithredu rhaglen Hyfforddiant mewn Swydd.

7. Parthed Cyrff Llywodraethu

- 7.1 Sicrhau bod Cyrff Llywodraethu ysgolion y Cyngor wedi eu cyfansoddi'n briodol.
- 7.2 Llunio a gweithredu rhaglen hyfforddiant ar gyfer y Llywodraethwyr.

8. Cyllid

- 8.1 Penderfynu ac awdurdodi talu grantiau ysgolion preswyl, grantiau at ffioedd dysgu a threuliau mewn ysgolion lle mae ffioedd yn daladwy, grantiau addysg bellach mawr, lwfansau cynhaliaeth a ffioedd dysgu am gyrsiau gohebol a cheisiadau i ad-dalu grantiau.
- 8.2 Cychwyn ar gamau i adennill taliadau grantiau gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet.
- 8.3 Penderfynu ynghylch ceisiadau unigol am grantiau dewisol yn unol â pholisïau'r Cyngor.
- 8.4 Penderfynu ynghylch ceisiadau am gymorth tuag at gostau teithio gan fyfyrwyr addysg bellach.
- 8.5 Cymeradwyo taliadau i ddigolledu disgyblion a myfyrwyr sydd mewn sefydliadau y tu allan i'r Sir a digolledu ffioedd, fel bo'n briodol.
- 8.6 Dyrannu a monitro'r grantiau a geir o dro i dro.
- 8.7 Penderfynu ynghylch ceisiadau am brydau ysgol am ddim yn unol â'r polisïau a fabwysiadwyd gan y Cyngor.
- 8.8 Penderfynu ynghylch ceisiadau am grantiau o dan Gronfeydd Canolradd Coffa Coe a Sir Aberteifi gan ymgynghori â'r Aelod Cabinet.

9. Y Gymraeg mewn Addysg

Paratoi Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor dan Adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, gan gynnwys unrhyw adolygiad, arolwg neu ymgynghoriad angenrheidiol a chynnal unrhyw asesiad

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

RHAN 3.5 K Dirprwyo i'r SAC: Ysgolion a Diwylliant

Diweddarwyd ym mis Ionawr 2021

Tudalen 507

o'r galw ymysg rhieni o fewn ardal y Cyngor am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, fel sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru o dan Adran 86 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2103.

L DIRPRWYO I'R SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL: CYLLID A CHAFFAEL A'R PRIF SWYDDOG CYLLID A'R SWYDDOG ADRAN 151

Mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael wedi'i ddynodi a'i benodi:

- yn Swyddog Adran 151 a Phrif Swyddog Cyllid Cyngor Sir Ceredigion;
ac
- yn Brif Swyddog Cyllid a Swyddog Adran 151 i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru a Chyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru, gan gynnwys y dyletswyddau canlynol: sicrhau y rheolir y materion ariannol yn gywir (gan gynnwys cadw cofnodion a pharatoi cyfrifon), derbyn a chymryd cronfeydd, gwneud archebion a thaliadau, bod yn llofnod awdurdodedig, derbyn cynigion o ran grantiau, cwlbhau a chyflwyno ceisiadau am grantiau a datganiadau amdanynt, agor cyfrifon banc a buddsoddi arian dros ben, sicrhau yr ymdrinnir â materion treth priodol fel y dylid ac enwebu rheolwyr corfforaethol â'r cymwysterau priodol i gyflawni a goruchwylio tasgau ar ran y Swyddog Adran 151.

Caiff y swyddogaethau canlynol eu dirprwyo i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ac i unrhyw swyddogion a awdurdodir gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael o dro i dro fel bo'n briodol ar yr amod bod y swyddogion yn meddu ar gymwysterau addas i gyflawni'r dyletswyddau a'r swyddogaethau hynny.

1. Asesu, gweinyddu, bilio, casglu ac adennill Treth y Cyngor a Threthi Annomestig, a phob refeniw, trethi lleol ac arian arall sy'n ddyledus i'r Cyngor gan gynnwys adennill drwy Lysoedd yr Ynadon a thalu'r arian hwnnw i mewn i'r Gronfa Sirol neu gronfa briodol arall.
2. Rhoddi Rhyddhad Ardrethi Annomestig Mandadol, a phenderfynu ynghylch ceisiadau am Ryddhad Ardrethi Annomestig Dewisol yn unol â pholisïau'r Cyngor ac/neu'r rheoliadau.
3. Rhoddi rhyddhad caledi ar ôl penderfynu ynghylch ceisiadau am Ryddhad caledi o dan Adran 49 (Ardrethi Annomestig) neu Adran 13A (Treth y Cyngor) gan yr Aelod Cabinet Cyllid a Phersonél ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Panel Adran 49, neu fel y penderfynir gan y Panel Apelio Adran 49.
4. Gosod neu hepgor cosbau o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.
5. Cyflwyno hysbysiadau o wrthwynebiad i'r Swyddog Prisio neu'r Swyddog Rhestru a gweithredu cytundebau prisio.
6. Cyflwyno cynigion i addasu'r Rhestr Brisio.
7. Asesu, gweinyddu a thalu Budd-dal Tai a Budd-dal Treth y Cyngor.
8. Gweinyddu gwaith Gwrth-Dwyll sy'n ymwneud â Budd-dal Tai a Budd-dal Treth

Tudalen 509

y Cyngor. Mae hynny'n cynnwys gweinyddu sancsiynau a chychwyn achosion o erlyn yn unol â Pholisi Erlyn Twyll Budd-daliadau'r Cyngor.

9. Ymchwilio, gwylio lle bo angen (gyda'r awdurdodiad priodol) ac adrodd ynghylch unrhyw dwyll ac/neu lygredd yn unol â Strategaeth Gwrth-Dwyll a Llygredd y Cyngor.
10. Dileu dyledion na ellir eu casglu sy'n ddyledus i'r Cyngor yn unol â pholisi dileu dyledion y Cyngor.
11. Dileu stoc ac/neu gyfarpar diddefnydd.
12. Gweithredu a monitro Datganiad Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Fuddsoddi Flynnyddol. Codi benthyciadau a gwneud buddsoddiadau (buddsoddi arian dros ben dros dro a buddsoddi arian a ddelir at ddibenion penodol yn fwy hirdymor) fel bo angen ar gyfraddau priodol. Cadw a diweddarau manylion meini prawf sy'n ymwneud â statws credyd sefydliadau at ddibenion buddsoddi ac addasu'r categorïau penodol ac amhenodol a'r cyfyngiadau buddsoddi unigol.
13. Peri symud ymhlith cyfyngiadau sydd wedi eu cytuno ar wahân ar gyfer benthyciadau a dyledion hirdymor eraill.
14. Gwneud trefniadau priodol ar gyfer penodi Bancwyr y Cyngor ac unrhyw ymgynghorwyr proffesiynol angenrheidiol eraill.
15. Agor a chau cyfrifon banciau a chymdeithasau adeiladu at ddibenion buddsoddi ac agor a chau cyfrifon cardiau credyd at ddibenion sy'n ymwneud â thaliadau ac incwm.
16. Penderfynu ynghylch cyfraddau cyfartalog lleol (llog) yn unol â'r ddeddfwriaeth a'u datgan.
17. Rhoddi blaendaliadau ar ffurf benthyciadau o dan y Deddfau Tai neu ddeddfwriaeth arall yn unol â'r rheoliadau sydd mewn grym o dro i dro.
18. Gweinyddu Cynllun Cymorth Prynu Car (Benthyciad Car) y Cyngor yn unol â'i delerau ac amodau, adolygu a diwygio'r telerau ac amodau o dro i dro, a phenderfynu pa gyfraddau llog i'w gosod.
19. Cytuno ar delerau, cwblhau a llofnodi cytundebau prydlesu ar gyfer prydlesau cerbydau, cyfarpar ac offer.
20. Gwneud taliadau o'r Gronfa Sirol yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol neu'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.
21. Penderfynu ynghylch y ffioedd a godir am amrywiol eitemau sy'n ymwneud yn benodol â'r Gwasanaethau Ariannol.
22. Gweithredu dyfarniadau cyflog, cydabyddiaeth ariannol (Prif Weithredwr) a gytunir yn genedlaethol a dyfarniadau Llywodraeth Cymru a lwfansau teithio a bwyd a lwfansau eraill a gytunir yn genedlaethol, ac a gymeradwyir gan y Cyngor.
23. Trefnu darparu yswiriant digonol a phriodol ar gyfer y Cyngor, a rheoli Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 3 Cyfrifoldeb Dros Swyddogaethau

Tudalen 510

hawliadau yswiriant o ran eu prosesu a phenderfynu yn eu cylch.

24. Rheoli'r Gronfa Hunan Yswiriant a phob mater sy'n ymwneud â hi, gan gynnwys y risgiau a gynhwysir a'r taliadau a wneir o'r Gronfa, neu iddi.
25. Darparu gwasanaethau ariannol ar gyfer mudiadau a chyrrff eraill.
26. Gweithredu Strategaeth Gaffael y Cyngor.
27. Adolygu ac addasu Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor gan ymgynghori â'r Swyddog Adran 151.
28. Enwebu swyddogion i gynrychioli'r Cyngor yn Llysoedd yr Ynadon yn unol â darpariaethau Adran 223 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1975.
29. Enwebu swyddogion i gynrychioli'r Cyngor mewn Tribiwnlysoedd Prisio yn unol â Rheol 5 Rheoliadau Apeliadau ynghylch Ardrethu (Llysoedd Prisio Lleol, ac Atodlen 11 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, fel y'i diwygiwyd:
30. Awdurdodi llofnodwyr ar gyfer awdurdodi trafodion banc ac awdurdodi ceisiadau am grantiau ariannol.
31. Gweithredu fel Dirprwy Swyddog Cofrestru Etholiadol
32. Awdurdodi llofnodwyr ar gyfer awdurdodi ceisiadau am grantiau ariannol a'r holl drafodion cysylltiedig.
33. Llofnodi contractau a dogfennau eraill ar ran y Cyngor.
34. Cychwyn achosion i adennill dyledion mewn perthynas â hawlio arian ar-lein a dynodi swyddogion i gynrychioli'r Cyngor mewn achosion o'r fath.

Dogfen A

RHEOLAU GWEITHDREFN Y CYNGOR



Awdur a gwasanaeth:

Dyddiad cymeradwyo'r Cyngor: 19 Mawrth 2019

Dyddiad cyhoeddi:

Dyddiad adolygu:

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 4 Rheolau Gweithdrefn

RHAN 4 DOGFEN A Rheolau Gweithdrefn Y Cyngor

Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Cynnwys

1. CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR.....	3
2. CYFARFODYDD CYFFREDIN	4
3. CYFARFODYDD ARBENNIG	5
4. AMSER A LLE'R CYFARFODYDD	5
5. RHYBUDD A GWŶS I GYFARFODYDD	5
6. CADEIRYDD CYFARFOD.....	5
7. CWORWM	6
8. AMSERIAD EITEMAU BUSNES	6
9. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU.....	6
10. CYNIGION GYDA RHYBUDD.....	7
11. CYNIGION HEB RYBUDD	9
12. RHEOLAU DADLEUON	9
13. PENDERFYNIADAU A CHYNIGION BLAENOROL.....	13
14. PLEIDLEISIO.....	14
15. COFNODION	15
16. COFNOD PRESENOLDEB	15
17. GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD	16
18. CAU ALLAN Y CYHOEDD	16
19. YMDDYGIAD YR AELODAU.....	16
20. AFLONYDDWCH GAN Y CYHOEDD	17
21. ATAL A NEWID RHEOLAU GWEITHDREFN Y CYNGOR.....	17
22. CEISIADAU I BWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU.....	17
23. GWYBODAETH GAN SWYDDOGION.....	18

1. CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR

1.1 AMSERIAD A BUSNES

Mewn blwyddyn lle ceir etholiad cyffredin i ddewis Cyngorwyr cynhelir y cyfarfod blynyddol o fewn 21 o ddiwrnodau wedi ymddiswyddiad y Cyngorwyr sy'n ymadael. Mewn unrhyw flwyddyn arall, cynhelir y cyfarfod blynyddol ar ddyddiad ym mis Mai sydd i'w gytuno gan y Cyngor.

Bydd y cyfarfod blynyddol yn gwneud fel a ganlyn:

- 1.1.1 ethol rhywun i lywyddu os nad yw Cadeirydd y Cyngor yn bresennol;
- 1.1.2 ethol Cadeirydd y Cyngor;
- 1.1.3 derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol neu fuddiannau sy'n rhagfarnu;
- 1.1.4 ethol Is-gadeirydd y Cyngor;
- 1.1.5 cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf;
- 1.1.6 derbyn unrhyw gyhoeddiadau oddi wrth y Cadeirydd, ac/neu Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig;
- 1.1.7 derbyn anerchiad gan Arweinydd y Cyngor;
- 1.1.8 cael clywed gan yr Arweinydd enwau'r Cyngorwyr y mae wedi eu dewis i fod yn Aelodau o'r Cabinet;
- 1.1.9 penodi o leiaf un Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, Pwyllgor Moeseg a Safonau a pha bynnag Bwyllgorau eraill mae'r Cyngor yn ystyried sy'n briodol i ymdrin â materion nad ydynt yn rhai sy'n cael eu cadw i'r Cyngor nac yn swyddogaethau i'r Cabinet (fel y nodir yn Rhan 3 Tabl 1 y Cyfansoddiad hwn);
- 1.1.10 penderfynu ynghylch maint a chylch gorchwyl y pwyllgorau hynny
- 1.1.11 penderfynu pa Bwyllgorau i'w sefydlu ar gyfer y flwyddyn fwrdeistrefol;
- 1.1.12 penderfynu ynghylch dyraniad y seddau i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r rheolau sy'n ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol
- 1.1.13 derbyn enwebiadau o ran y Cyngorwyr a fydd yn gwasanaethu ar bob Pwyllgor ac ar gyrrff allanol ac eithrio lle bo penodiadau i'r cyrrff hynny wedi eu dirprwyo gan y Cyngor neu na all neb ond y Cabinet eu gwneud;
- 1.1.14 penodi i'r Pwyllgorau hynny a'r cyrrff allanol; ac
- 1.1.15 cytuno ynghylch y rhannau o'r cynllun dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn pennu mai lle'r Cyngor yw cytuno yn eu cylch (fel y nodir yn Rhan 3 Tabl 3 y Cyfansoddiad hwn);
- 1.1.16 cymeradwyo rhaglen o gyfarfodydd cyffredin y Cyngor am y flwyddyn;

ac

1.1.17 ystyried unrhyw fater a nodir yn y rhybudd sy'n galw'r cyfarfod.

2. CYFARFODYDD CYFFREDIN

Cynhelir cyfarfodydd cyffredin y Cyngor yn unol â'r rhaglen a benderfynir yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor. Bydd cyfarfodydd cyffredin yn gwneud fel a ganlyn:

- 2.1 ethol rhywun i lywyddu os nad yw'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn bresennol (ni ddylai'r unigolyn hwn fod yn aelod o'r Cabinet);
- 2.2 derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiannau personol/buddiannau sy'n rhagfarnu gan yr aelodau yn unol â Chod Ymddygiad yr aelodau;
- 2.3 cadarnhau cofnodion y cyfarfod diwethaf yn rhai cywir;
- 2.4 derbyn unrhyw gyhoeddiadau oddi wrth y Cadeirydd, Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, yr Arweinydd ac/neu Aelodau Cabinet;
- 2.5 delio ag unrhyw fusnes o gyfarfod diwethaf y Cyngor.
- 2.6 derbyn adroddiadau oddi wrth y Cabinet a Phwyllgorau'r Cyngor a derbyn cwestiynau, atebion ac unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â'r adroddiadau hynny;
- 2.7 derbyn adroddiadau a chwestiynau ac atebion ynglŷn â threfniadau ar y cyd a sefydliadau allanol;
- 2.8 ystyried cynigion y rhoddwyd rhybudd amdanynt;
- 2.9 unrhyw fater arall a nodir yn y wŷs i'r cyfarfod, gan gynnwys ystyried cynigion oddi wrth y Cabinet ynghylch cyllideb a fframwaith polisi'r Cyngor.
- 2.10 ethol Cadeiryddion ac is-gadeiryddion y Pwyllgorau os bydd swyddi gwag yn codi ganol y tymor
- 2.11 penodi aelodau i lenwi swyddi gwag ar Bwyllgorau.

3. CYFARFODYDD ARBENNIG

3.1 GALW CYFARFODYDD ARBENNIG

Gall y rhai hynny a restrir isod ofyn i'r Swyddog Priodol alw cyfarfodydd o'r Cyngor yn ychwanegol at y cyfarfodydd cyffredin:

- 3.1.1 y Cyngor drwy benderfyniad;
- 3.1.2 Cadeirydd y Cyngor;
- 3.1.3 Yr Arweinydd;
- 3.1.4 Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig;
- 3.1.5 Y Swyddog Monitro; ac
- 3.1.6 unrhyw bum aelod o'r Cyngor os ydynt wedi llofnodi cais a gyflwynwyd i Gadeirydd y Cyngor.

3.2 BUSNES

Ni ddylid ystyried unrhyw fusnes mewn unrhyw Gyfarfod Arbennig heblaw am yr hyn a nodir yn y rhybudd sy'n galw'r cyfarfod a dylid amgáu copi o unrhyw adroddiadau a fwriedir ar gyfer y cyfarfod gydag ef.

4. AMSER A LLE'R CYFARFODYDD

Penderfynir ynghylch amser a lle'r cyfarfodydd gan y Swyddog Priodol a nodir hynny yn y wŷs.

5. RHYBUDD A GWŶS I GYFARFODYDD

Bydd y Swyddog Priodol yn rhoi rhybudd i'r cyhoedd ynghylch amser a lle unrhyw gyfarfod yn unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth. O leiaf dri diwrnod clir cyn y cyfarfod, bydd y Swyddog Priodol naill ai'n anfon gwŷs wedi ei harwyddo ganddo ef neu ganddi hi drwy'r post neu ar e-bost at bob aelod o'r Cyngor neu bydd yn ei gadael yn eu trigfan arferol. Bydd y wŷs yn rhoi dyddiad, amser a lle pob cyfarfod a bydd yn manylu ynghylch y busnes sydd i'w drafod, ac amgaeir pa adroddiadau bynnag sydd ar gael.

6. CADEIRYDD CYFARFOD

Gall y sawl sy'n llywyddu'r cyfarfod arfer unrhyw bwerau neu ddyletswyddau sy'n perthyn i Gadeirydd. Lle bo'r rheolau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd

Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau, mae cyfeiriadau at y Cadeirydd hefyd yn cynnwys Cadeirydd Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau.

7. CWORWM

Ac eithrio'r hyn a nodir yn Erthygl 8.2.1 (gweler Rhan 2 y Cyfansoddiad) o ran y Pwyllgor Rheoli Datblygu, cworwm cyfarfod fydd chwarter cyfanswm aelodau'r cyfarfod hwnnw. Yn ystod unrhyw gyfarfod os bydd y Cadeirydd yn cyfrif nifer yr aelodau sy'n bresennol ac yn datgan nad oes cworwm yn bresennol, yna bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio ar unwaith. Ystyrir y busnes sy'n weddill ar adeg a dyddiad a bennir gan y Cadeirydd. Os nad yw'r Cadeirydd yn pennu dyddiad, ystyrir y busnes sy'n weddill yn y cyfarfod cyffredin nesaf.

8. AMSERIAD EITEMAU BUSNES

Os nad yw eitem o fusnes wedi dod i ben o fewn awr o ddechrau'r drafodaeth, gall y Cadeirydd dynnu sylw at y ffaith a gall alw am bleidlais ar yr eitem dan sylw ar unwaith. Yna bydd y bleidlais yn cael ei chynnal yn y modd arferol heb ragor o drafod.

9. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU

9.1 ADRODDIADAU'R CABINET NEU'R PWYLLGORAU

Gall aelod o'r Cyngor ofyn unrhyw gwestiwn yn ddirybudd i'r Arweinydd neu Gadeirydd Pwyllgor ynglŷn ag unrhyw eitem o adroddiad y Cabinet neu Bwyllgor, pan fo'r eitem honno yn cael ei derbyn neu o dan ystyriaeth gan y Cyngor.

9.2 CWESTIYNAU Y RHODDIR RHYBUDD YNGLŷN Â HWY YN Y CYNGOR LLAWN

Yn amodol ar Reol 9.4, gall aelod o'r Cyngor ofyn cwestiwn i'r isod:

- Cadeirydd y Cyngor;
- Yr Arweinydd ac/neu aelod o'r Cabinet; neu
- Cadeirydd unrhyw Bwyllgor neu Is-bwyllgor
- cwestiwn ynghylch unrhyw fater y mae gan y Cyngor bwerau neu ddyletswyddau yn ymwneud â hwy neu sy'n effeithio ar

Geredigion.

9.3 CWESTIYNAU Y RHODDIR RHYBUDD YNGLŶN Â HWY MEWN PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

Yn amodol ar Reol 9.4. gall aelod o Bwyllgor neu Is-bwyllgor ofyn cwestiwn i'r Cadeirydd ar unrhyw fater y mae gan y Cyngor bwerau neu ddyletswyddau mewn perthynas ag ef sy'n effeithio ar Geredigion ac sy'n dod o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor hwnnw.

9.4 RHYBUDD O GWESTIYNAU

Ni all aelod ofyn cwestiwn o dan Reol 9.2 neu 9.3 onid yw:

- 9.4.1 wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig o bum diwrnod gwaith o leiaf ynglŷn â'r cwestiwn i'r Swyddog Priodol; neu
- 9.4.2 mae'r cwestiwn yn ymwneud â mater brys ac mae wedi cael caniatâd gan y Cadeirydd y bwriedir cyflwyno'r cwestiwn iddo a rhoddir cynnwys y cwestiwn i'r Swyddog Priodol erbyn 1.00pm y diwrnod cyn y cyfarfod.

9.5 YMATEB

Gall ateb fod ar ffurf:

- 9.5.1 ateb uniongyrchol ar lafar;
- 9.5.2 lle bo'r wybodaeth y dymunir ei chael yn un o gyhoeddiadau'r Cyngor neu waith arall sydd wedi ei gyhoeddi, gellir cyfeirio at y cyhoeddiad hwnnw; neu
- 9.5.3 os na ellir rhoi'r ateb yn gyfleus ar lafar, gellir rhoi ateb ysgrifenedig a gaiff ei ddosbarthu yn ddiweddarach i'r holwr.

9.6 CWESTIWN ATODOL

Gall aelod sy'n gofyn cwestiwn o dan Reol 9.2 neu 9.3 ofyn un cwestiwn atodol heb roi rhybudd i'r aelod y gofynnwyd y cwestiwn cyntaf iddo. Mae'n rhaid i'r cwestiwn atodol godi'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ateb.

10. CYNIGION GYDA RHYBUDD

10.1 RHYBUDD

Heblaw am gynigion y gellir eu cynnig heb rybudd o dan Reol 11, rhaid rhoi

rhybudd ysgrifenedig o bob cynnig, wedi ei lofnodi gan o leiaf 2 aelod (cynigydd ac eilydd) i'r Swyddog Priodol (at y dibenion hyn, y Swyddog Monitro) erbyn 5.00pm 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf. Cofnodir y rhain mewn cofnod sy'n agored i'r cyhoedd ei archwilio. Ni chaiff unrhyw gynnig a gyflwynir drwy rybudd ei drafod yng nghyfarfod Blynnyddol y Cyngor.

10.2 CYNNIG A GYFLWYNIR YN YR AGENDA

Rhestrir cynigion y rhoddwyd rhybudd ynglŷn â hwy ar yr agenda yn y drefn y derbyniwyd y rhybudd, oni fydd yr aelod sy'n rhoi'r rhybudd yn nodi, yn ysgrifenedig, eu bod yn bwriadu ei symud i gyfarfod diweddarach neu ei dynnu'n ôl.

Gall unrhyw aelodau o'r Cyngor gyflwyno rhybudd o un cynnig yn unig i'w ystyried mewn unrhyw gyfarfod o'r Cyngor.

10.3 CWMPAS

Mae'n rhaid i gynigion fod ynghylch materion y mae gan y Cyngor gyfrifoldeb amdanynt ac sy'n effeithio'n sylweddol ar ardal weinyddol Ceredigion.

10.4 Diwygiadau i Gynigion

Rhaid i'r Swyddog Priodol gael diwygiadau ysgrifenedig i'r Rhybuddion o Gynnig heb fod yn hwyrach na 5pm, 2 ddiwrnod gwaith cyn dyddiad cyfarfod y Cyngor, wedi'u lofnodi gan y Cynigydd a'r Eilydd a chânt eu cylchredeg ar ffurf ysgrifenedig i bob aelod yng nghyfarfod y Cyngor. Caniateir diwygiadau llafar yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd. Rhaid i gynnig o dan Reol 10 neu rybudd o gynnig i ddiwygio gael ei wneud a'i eilio yn ffurfiol yn y cyfarfod perthnasol. Yn absenoldeb y cynigydd neu'r eilydd a gofnodwyd, caiff aelod arall gynnig neu eilio'r cynnig neu'r diwygiad i'r cynnig. Os na wneir y cynnig neu os na chaiff ei eilio, bydd yn cael ei drin fel pe bai wedi'i dynnu'n ôl.

11. CYNIGION HEB RYBUDD

Gall y cynigion canlynol gael eu cynnig heb rybudd:

- 11.1 penodi Cadeirydd y cyfarfod y mae'r cynnig i gael ei gynnig ynddo;
- 11.2 mewn perthynas â chywirdeb y cofnodion;
- 11.3 newid trefn busnes yn yr agenda;
- 11.4 cyfeirio rhywbeth at gorff neu unigolyn priodol;
- 11.5 penodi Pwyllgor neu aelod yn deillio o eitem sydd ar y wŷs ar gyfer y cyfarfod;
- 11.6 derbyn adroddiadau neu fabwysiadu argymhellion Pwyllgorau neu swyddogion ac unrhyw benderfyniadau sy'n codi yn eu sgil;
- 11.7 tynnu cynnig yn ôl;
- 11.8 diwygio cynnig;
- 11.9 symud ymlaen at y busnes nesaf;
- 11.10 bod y cwestiwn yn cael ei gyflwyno yn awr;
- 11.11 gohirio dadl;
- 11.12 gohirio cyfarfod;
- 11.13 atal un o reolau gweithdrefn neilltuol y Cyngor;
- 11.14 cau'r cyhoedd a'r wasg allan yn unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth;
- 11.15 peidio â gwrando rhagor ar aelod a enwir o dan Reol 18.3 neu ei gau allan o'r cyfarfod o dan Reol 18.4; ac
- 11.16 rhoi caniatâd y Cyngor lle mae angen ei ganiatâd o dan y Cyfansoddiad hwn.

12 RHEOLAU DADLEUON

12.1 DIM AREITHIAU HYD NES BYDD CYNNIG WEDI EI EILIO

Ni ellir gwneud unrhyw areithiau wedi i'r cynigydd wneud cynnig ac wedi egluro ei bwrpas a hyd nes bydd y cynnig wedi ei eilio. Cynigydd y cynnig fydd â'r hawl i wneud yr araith gyntaf ynghylch y cynnig.

12.2 HAWL I OFYN AM Y CYNNIG YN YSGRIFENEDIG

Oni bai fod rybudd o'r cynnig wedi ei roi'n barod, gall y Cadeirydd ei gwneud hi'n ofynnol iddo gael ei ysgrifennu a'i drosglwyddo iddo ef/iddi hi cyn iddo gael

ei drafod.

12.3 ARAITH YR EILYDD

Wrth eilio cynnig neu welliant, gall aelod gadw ei araith tan yn ddiweddarach yn y ddadl.

12.4 CYNWYS A HYD AREITHIAU

12.4.1 Mae'n rhaid i areithiau ymwneud â'r cwestiwn sy'n cael ei drafod neu esboniad personol neu bwynt o drefn.

12.4.2 Ni all araith fod yn fwy na phum munud heb ganiatâd y Cadeirydd.

12.5 PAN ALL AELOD SIARAD ETO

Ni all aelod sydd wedi siarad ar gynnig siarad eto tra bo'n destun trafodaeth, ac eithrio'r isod:

12.5.1 i siarad unwaith ar welliant a gynigir gan aelod arall;

12.5.2 i gynnig gwelliant pellach os yw'r cynnig wedi ei ddiwygio ers iddo ef/iddi hi siarad ddiwethaf;

12.5.3 os oedd ei araith/ei haraith gyntaf ar welliant a gynigiwyd gan aelod arall, i siarad ar y prif bwnc (p'run ai a gafodd y gwelliant y siaradodd amdano ei dderbyn ai peidio);

12.5.4 i arfer hawl i ateb;

12.5.5 ar bwynt o drefn; ac

12.5.6 fel esboniad personol.

12.6 GWELLIANNAU I GYNIGION

12.6.1 Mae'n rhaid i welliant i gynnig fod yn berthnasol i'r cynnig ac fe'i gwneir naill ai:

12.6.1.1 i gyfeirio'r mater at gorff neu unigolyn priodol i'w ystyried neu ei ailystyried;

12.6.1.2 i ddileu geiriau;

12.6.1.3 i ddileu geiriau ac i roddi neu ychwanegu rhai eraill; neu

12.6.1.4 i roi neu ychwanegu geiriau;

12.6.1.5 i roi cynnig arall yn lle'r cynnig

cyn belled na fydd 12.6.1.2 hyd 12.6.1.4 uchod yn negyddu'r cynnig.

12.6.2 Caiff gwelliannau i gynigion eu galw gan y Cadeirydd mewn trefn i'w phenderfynu gan y Cadeirydd gan ymgynghori â'r Swyddog Monitro, er mwyn hwyluso trafodaeth ystyrllon a lle bo hynny'n bosibl, i ganiatáu pleidlais ar bob gwelliant. Caiff pob gwelliant ei gynnig a'i eilio ac yna ei roi i'r bleidlais yn y drefn a benderfynir gan y Cadeirydd.

12.6.3 Os bydd gwelliant yn cael ei dderbyn, yna bydd y cynnig fel y'i diwygiwyd yn disodli'r cynnig gwreiddiol. Hwnnw wedyn fydd y prif gynnig y cynnig unrhyw welliannau pellach iddo.

12.7 NEWID CYNNIG

12.7.1 Gall aelod newid cynnig y mae wedi rhoi rhybudd ynglŷn ag ef gyda chaniatâd y cyfarfod. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei lofnodi heb drafodaeth.

12.7.2 Gall aelod newid cynnig y mae wedi ei gynnig heb rybudd gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd.

12.7.3 Dim ond newidiadau y gellid eu gwneud fel gwelliannau'n unol â 12.6.1 y gellir eu gwneud.

12.8 TYNNU CYNNIG YN ÔL

Gall aelod dynnu cynnig y mae wedi ei gynnig yn ôl gyda chaniatâd y cyfarfod a'r eilydd. Bydd caniatâd y cyfarfod yn cael ei lofnodi heb drafodaeth. Ni all unrhyw aelod siarad ar y cynnig ar ôl i'r cynigydd ofyn am ganiatâd i'w dynnu'n ôl, oni bai fod caniatâd yn cael ei wrthod.

12.9 HAWL I ATEB

12.9.1 Mae gan gynigydd hawl i ateb ar ddiwedd y ddatl ynghylch y cynnig, yn union cyn iddo gael ei roi i'r bleidlais.

12.9.2 Os cynnigir gwelliant, mae gan gynigydd y cynnig gwreiddiol hawl i ateb ar ddiwedd y ddatl ynghylch y gwelliant, ond ni chaiff siarad ynglŷn ag ef fel arall.

12.9.3 Nid oes gan gynigydd y gwelliant unrhyw hawl i ateb i'r ddatl

ynghylch ei welliant ef ei hun/ei gwelliant hi ei hun.

- 12.9.4 Ni all aelod siarad ar ôl pleidlais ar gynnig ac eithrio ar bwyntiau o drefn sy'n berthnasol iddo.

12.10 CYNIGION Y GELLIR EU CYNNIG YN YSTOD DADL

Pan fo cynnig yn cael ei drafod, ni ellir cynnig unrhyw gynnig arall ac eithrio'r cynigion gweithdrefnol canlynol:

- 12.10.1 tynnu cynnig yn ôl;
- 12.10.2 diwygio cynnig "heb rybudd";
- 12.10.3 symud ymlaen at y busnes nesaf;
- 12.10.4 bod y cwestiwn yn cael ei gyflwyno yn awr;
- 12.10.5 gohirio dadl;
- 12.10.6 gohirio cyfarfod;
- 12.10.7 cau allan y cyhoedd a'r wasg yn unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth; ac
- 12.10.8 peidio â chlywed rhagor gan aelod a enwir o dan Reol 18.3 neu ei gau allan o'r cyfarfod o dan Reol 18.4.

12.11 CYNIGION CAU

- 12.11.1 Gall aelod gynnig, a hynny heb roi sylwadau, y cynigion canlynol ar ddiwedd araith aelod arall:

- 12.11.1.1 symud ymlaen at y busnes nesaf;
- 12.11.1.2 bod y cwestiwn yn cael ei gyflwyno yn awr;
- 12.11.1.3 gohirio dadl; neu
- 12.11.1.4 gohirio cyfarfod.

- 12.11.2 Os yw cynnig i symud ymlaen at y busnes nesaf yn cael ei eilio ac mae'r Cadeirydd yn meddwl bod yr eitem wedi ei thrafod yn ddigonol, bydd ef neu hi yn rhoi hawl i ateb i'r cynigydd gwreiddiol ac yna bydd yn rhoi'r cynnig gweithdrefnol i'r bleidlais.

- 12.11.3 Os bydd cynnig fod y cwestiwn yn awr yn cael ei gyflwyno'n cael ei eilio ac mae'r Cadeirydd yn meddwl bod yr eitem wedi ei thrafod yn ddigonol, bydd yn rhoi'r cynnig gweithdrefnol i'r bleidlais. Os caiff ei dderbyn bydd y Cadeirydd yn rhoi hawl i ateb i gynigydd y cynnig gwreiddiol cyn rhoi eu cynnig i'r

bleidlais.

- 12.11.4 Os yw cynnig i ohirio'r ddadl neu i ohirio'r cyfarfod yn cael ei eilio ac mae'r Cadeirydd yn meddwl nad yw'r eitem wedi ei thrafod yn ddigonol ac na ellir ei thrafod yn rhesymol felly ar yr achlysur hwnnw, bydd yn rhoi'r cynnig gweithdrefnol i'r bleidlais heb roi hawl i ateb i gynigydd y cynnig gwreiddiol.

12.12 MATER O DREFN

Caiff aelod godi mater o drefn ar unrhyw adeg. Bydd y Cadeirydd yn rhoi sylw i hynny ar unwaith. Gall mater o drefn ymwneud â honiad o dorri Rheolau Gweithdrefn y Cyngor neu'r ddeddf. Mae'n rhaid i'r aelod nodi'r rheol neu'r ddeddf a'r modd y mae ef/hi yn ystyried y mae wedi ei thorri. Bydd penderfyniad y Cadeirydd ynghylch y mater yn derfynol.

12.13 ESBONIAD PERSONOL

Caiff aelod roi esboniad personol ar unrhyw adeg. Mae'n rhaid i esboniad personol ymwneud â rhyw ran berthnasol o araith gynharach gan yr aelod yn unig a all ymddangos megis petai wedi ei chamddeall yn y ddadl bresennol neu i ymddiheuro i'r Cyngor. Bydd penderfyniad y Cadeirydd ynglŷn â derbynioddeb esboniad personol yn derfynol.

13. PENDERFYNIADAU A CHYNIGION BLAENOROL

13.1 CYNNIG I DDIDDYMU PENDERFYNIAD BLAENOROL

Ni all cynnig neu welliant i ddiddymu penderfyniad a wnaethpwyd mewn cyfarfod o'r Cyngor o fewn y chwe mis diwethaf gael ei gynneg oni bai fod y rhybudd o gynneg yn cael ei lofnodi gan o leiaf ugain aelod.

13.2 CYNNIG SY'N DEBYG I UN A WRTHODWYD YN FLAENOROL

Ni all cynnig neu welliant tebyg i un sydd wedi ei wrthod mewn cyfarfod o'r Cyngor yn ystod y chwe mis diwethaf gael ei gynneg oni bai fod rhybudd o gynneg neu welliant yn cael ei lofnodi gan o leiaf ugain aelod. Unwaith yr ymdrinnir â'r cynnig neu'r gwelliant, ni chaiff neb gyflwyno cynnig na gwelliant tebyg am chwe mis.

14. PLEIDLEISIO

14.1 MWYAFRIF

Onid yw'r Cyfansoddiad hwn yn darparu fel arall, bydd pob mater yn cael ei benderfynu drwy fwyafrif syml o'r aelodau hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn y cyfarfod ar yr adeg y cyflwynwyd yr argymhelliad neu'r cynnig.

14.2 PLEIDLAIS FWRW'R CADEIRYDD

Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd cyfyngiad ar sut y dewisa'r Cadeirydd ddefnyddio'r bleidlais fwrw.

14.3 DANGOS DWYLO

Oni ofynnir am bleidlais neu bleidlais gofnodedig o dan Reolau 14.4 a 14.5, bydd y Cadeirydd yn cymryd y bleidlais drwy ddangos dwylo; neu os nad oes unrhyw wrthwynebiad, drwy gadarnhad y cyfarfod.

14.4 PLEIDLEISIO

Cymerir y bleidlais drwy bleidleisio os yw mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod yn mynnu hynny. Bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi canlyniad rhifol y bleidlais cyn gynted ag y bo'r canlyniad yn hysbys.

14.5 PLEIDLAIS GOFNODEDIG

Os yw'r Cyngor yn penderfynu felly drwy benderfyniad, bydd yr enwau o blaid ac yn erbyn y cynnig neu'r gwelliant neu'r rhai sy'n ymatal rhag pleidleisio, yn cael eu nodi'n ysgrifenedig a'u cofnodi yn y cofnodion. Bydd galwad am bleidlais gofnodedig yn cael blaenoriaeth dros alwad am bleidlais ac eithrio yn achos penodi swyddogion.

14.6 HAWL I'W GWNEUD YN OFYNNOL COFNODI PLEIDLAIS UNIGOL

Os bydd aelod yn gofyn am hynny yn syth ar ôl y bleidlais, caiff ei bleidlais ei chofnodi felly yn y cofnodion i ddangos a bleidleisiodd o blaid ynteu yn erbyn y cynnig, neu a fu iddo ymatal rhag pleidleisio.

14.7 PLEIDLEISIO YNGHYLCH PENODI AELODAU ETHOLEDIG I SWYDDI SYDD I'W LLANW GAN Y CYNGOR

Bydd y rhai sy'n gymwys i bleidleisio'n pleidleisio dros un yn unig. Os oes mwy

na dau wedi eu henwebu ar gyfer unrhyw swydd y mae angen ei llanw ac nid oes mwyafrif clir o bleidleisiau o blaid un person, yna tynnir enw'r sawl a gafodd y nifer lleiaf o bleidleisiau oddi ar y rhestr a chymerir pleidlais newydd. Bydd y broses yn parhau hyd nes ceir mwyafrif o bleidleisiau i un person.

15. COFNODION

15.1 LLOFNODI'R COFNODION

Bydd y Cadeirydd yn llofnodi cofnodion y trafodion yn y cyfarfod addas nesaf. Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylai cofnodion y cyfarfod blaenorol gael eu llofnodi fel cofnod cywir. Yr unig agwedd o'r cofnodion y gellir ei thrafod yw eu cywirdeb.

15.2 DIM RHEIDRWYDD I LOFNODI COFNODION CYFARFOD BLAENOROL MEWN CYFARFOD ARBENNIG

Mewn perthynas ag unrhyw gyfarfod, lle bo'r cyfarfod nesaf i bwrpas llofnodi'r cofnodion yn gyfarfod a elwir o dan baragraff 3, atodlen 12 Deddf Llywodraeth Leol 1972 (Cyfarfod Arbennig), yna ymdrinnir â'r cyfarfod canlynol nesaf (sy'n gyfarfod a elwir ac eithrio o dan y paragraff hwnnw) fel cyfarfod addas i bwrpas paragraff 41 (1) a (2) atodlen 12 sy'n ymwneud â llofnodi'r cofnodion.

15.3 FFURF Y COFNODION

15.3.1 Bydd cofnodion yn cynnwys yr holl gynigion a'r gwelliannau yn yr union ffurf a'r drefn y cyflwynwyd hwy gan y Cadeirydd.

15.3.2 Lle bo rhannau o'r cofnodion yn cael eu hepgor oherwydd eu bod yn cyfeirio at wybodaeth eithriedig ac nad yw'r cofnodion sydd ar gael yn darparu cofnod deg a chydlynol, darperir crynodeb ysgrifenedig a fydd yn darparu cofnod o'r fath heb ddatgelu'r wybodaeth eithriedig.

16. COFNOD PRESENOLDEB

Rhaid i'r holl aelodau sy'n bresennol yn ystod cyfarfod cyfan neu ran o gyfarfod lofnodi eu henwau ar y taflenni presenoldeb cyn diwedd pob cyfarfod, i gynorthwyo gyda'r cofnod presenoldeb.

17. GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD

Caiff cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron eu gweddarlledu. Bydd y lluniau hyn ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor drwy fynd at www.ceredigion.gov.uk.

18. CAU ALLAN Y CYHOEDD

Ni all aelodau'r cyhoedd a'r wasg gael eu cau allan ac eithrio naill ai'n unol â'r Rheolau Mynediad at Wybodaeth a geir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn neu Reol 19 (Aflonyddwch gan y Cyhoedd).

19. YMDDYGIAD YR AELODAU

19.1 SIARAD

Pan fo aelodau'n siarad mewn Cyngor llawn rhaid iddynt annerch y cyfarfod drwy'r Cadeirydd.

19.2 CADEIRYDD YN SEFYLL

Pan fo'r Cadeirydd yn sefyll yn ystod dadl, rhaid i unrhyw aelod sy'n siarad ar y pryd dewi. Rhaid i'r cyfarfod fod yn ddistaw.

19.3 AELOD I BEIDIO Â CHAEL EI GLYWED YMHELLACH

Os bydd aelod yn anwybyddu dyfarniad y Cadeirydd yn barhaus drwy ymddwyn yn amhriodol neu'n dramgwyddus neu'n rhwystro busnes yn fwriadol, gall y Cadeirydd gynnig na fydd yr aelod yn cael ei glywed ymhellach. Os caiff hynny ei eilio, pleidleisir ar y cynnig heb drafodaeth.

19.4 AELOD I ADAEL Y CYFARFOD

Os bydd yr aelod yn parhau i ymddwyn yn amhriodol ar ôl i gynnig o'r fath gael ei dderbyn, gall y Cadeirydd gynnig naill ai bod yr aelod yn gadael y cyfarfod neu fod y cyfarfod yn cael ei ohirio am gyfnod penodol. Os caiff hynny ei eilio, pleidleisir ar y cynnig heb drafodaeth.

19.5 AFLONYDDWCH CYFFREDINOL

Os oes aflonyddwch cyffredinol sy'n gwneud busnes trefnus yn amhosibl, gall y

Cadeirydd ohirio'r cyfarfod cyhyd ag y bydd ef/hi yn ei ystyried yn angenrheidiol.

20. AFLONYDDWCH GAN Y CYHOEDD

20.1 SYMUD AELOD O'R CYHOEDD O'R CYFARFOD

Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws y trafodion, bydd y Cadeirydd yn rhybuddio'r sawl dan sylw. Os bydd yn parhau i dorri ar draws y trafodion, bydd y Cadeirydd yn gorchymyn iddo gael ei symud o'r ystafell gyfarfod.

20.2 CLIRIO RHAN O'R YSTAFELL GYFARFOD

Os oes aflonyddwch cyffredinol mewn unrhyw ran o'r ystafell gyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, gall y Cadeirydd alw am i'r rhan honno gael ei chlrrio.

21. ATAL A NEWID RHEOLAU GWEITHDREFN Y CYNGOR

21.1 ATALIAD

Gellir atal holl Reolau Gweithdrefn y Cyngor hyn ac eithrio Rheol 13.6 ac 15.2 drwy gynnig gyda rhybudd neu heb rhybudd os oes o leiaf hanner cyfanswm aelodau'r Cyngor yn bresennol. Ni all yr ataliad fod am gyfnod hwy na hyd y cyfarfod.

21.2 NEWID

Bydd unrhyw gynnig i ychwanegu at Reolau Gweithdrefn y Cyngor, eu hamrywio neu'u ddi-ddymu, o'i gynnig a'i eilio, yn cael ei ohirio heb drafodaeth tan gyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor.

22. CEISIADAU I BWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

Ac eithrio'r hyn a amlinellir ym mharagraff 24 isod, mae pob un o Reolau Gweithdrefn y Cyngor yn gymwys i gyfarfodydd y Cyngor llawn. Nid oes unrhyw rai o'r rheolau hyn yn berthnasol i gyfarfodydd y Cabinet. Dim ond Rheolau 4-22 sy'n berthnasol i gyfarfodydd y Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau.

23. GWYBODAETH GAN SWYDDOGION

- 23.1 Dylai unrhyw adroddiad a osodir o flaen y Cyngor er mwyn cael penderfyniad, gynnwys pob gwybodaeth angenrheidiol er mwyn galluogi'r Aelodau i wneud penderfyniad. Bydd adroddiadau'n cael eu dosbarthu cyn y cyfarfod ac os bydd ar Aelod angen esboniad ynglŷn â mater sy'n berthnasol i'r adroddiad, dylid gofyn am hyn cyn y cyfarfod.
- 23.2 Bydd y swyddogion yn darparu cyngor pellach yn y cyfarfod o'r Cyngor gyda chaniatâd y Cadeirydd yn unig, gan ymgynghori â'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Cyllid neu'r Swyddog Monitro. Os bydd angen darparu mwy o gyngor cyfreithiol neu ariannol, bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio.

Dogfen E

RHEOLAU'R WEITHDREFN TROSOLWG A CHRAFFU



Awdur a gwasanaeth:

Dyddiad cymeradwyo'r Cyngor: 19 Mawrth 2019

Dyddiad cyhoeddi:

Dyddiad adolygu:

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 4 Rheolau Gweithdrefn

RHAN 4 DOGFEN E_Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu

Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Cynnwys

1. BETH FYDD Y NIFER A'R TREFNIADAU AR GYFER Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU?	3
2. PWY ALL EISTEDD AR BWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU?.....	3
3. AELODAU CYFETHOLEDIG.....	3
4. CYNRYCHIOLWYR ADDYSG	3
5. CYFARFODYDD Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU	4
6. CWORWM.....	4
7. PLEIDLEISIO.....	4
8. PWY SY'N CADEIRIO CYFARFODYDD PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU?	4
9. RHAGLEN WAITH.....	4
10. EITEMAU AR YR AGENDA.....	5
11. ADOLYGU A DATBLYGU POLISI'AU.....	5
12. ADRODDIADAU O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU.....	6
13. SICRHAU BOD ADRODDIADAU TROSOLWG A CHRAFFU YN CAEL EU HYSTYRIED GAN Y CABINET	6
14. HAWLIAU AELODAU PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU I DDOGFENNAU.....	7
15. AELODAU A SWYDDOGION YN RHOI CYFRIF	7
16. PRESENOLDEB POBL ERAILL.....	8
17. GALW I MEWN.....	9
18. CHWIP Y BLAID.....	12
19. Y DREFN YNG NGHYFARFODYDD Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU	12
20. MATERION SYDD O FEWN CYLCH GWAITH MWY NAG UN PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU	13
ATODIAD 1:	14

1. BETH FYDD Y NIFER A'R TREFNIADAU AR GYFER Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU?

Bydd gan y Cyngor y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a nodir yn Erthygl 6 a bydd yn penodi iddynt fel yr ystyria'n briodol o bryd i'w gilydd. Gall y Pwyllgorau hynny benodi Is-bwyllgorau. Gall Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu gael eu penodi hefyd am gyfnod penodol, ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw byddant yn peidio â bod. Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n i'w weld yn Atodiad 1 y ddogfen hon. Mae'r rhestr gyfredol o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn Atodiad 2 y Ddogfen hon.

2. PWY ALL EISTEDD AR BWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU?

Gall pob Cynghorydd ac eithrio aelodau'r Cabinet fod yn aelodau o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Fodd bynnag, ni all unrhyw aelod fod yn ymwneud â chraffu ar benderfyniad y mae wedi bod â chysylltiad uniongyrchol ag ef.

3. AELODAU CYFETHOLEDIG

Bydd gan bob Pwyllgor neu Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu hawl i argymhell i'r Cyngor ynglŷn â phenodi aelodau cyfetholedig na fyddant yn cael pleidleisio, yn amodol ar uchafswm o 2 ar bob Pwyllgor, heblaw am y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a fydd yn cynnwys 9 o aelodau cyfetholedig na fyddant yn cael pleidleisio, o blith undebau'r athrawon a'r eglwysi rhyddion yng Ngheredigion.

4. CYNRYCHIOLWYR ADDYSG

Bydd pob Pwyllgor / Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol sy'n ymdrin â materion addysg yn cynnwys o fewn ei aelodau y cynrychiolwyr pleidleisio canlynol:

- 1 Cynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru;
- 1 Cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig;
- Cynrychiolydd o'r Eglwys Annibynnol;
- 2 Gynrychiolydd sy'n rhieni-lywodraethwyr.

Mae Pwyllgor/Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol yn y paragraff hwn yn golygu Pwyllgor neu Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Awdurdod Addysg Lleol, lle mae swyddogaethau'r Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor yn ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol ag unrhyw swyddogaethau addysg sy'n gyfrifoldeb i Gabinet yr Awdurdod. Os bydd

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 4 Rheolau Gweithdrefn

RHAN 4 DOGFEN E_Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu

Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

y Pwyllgor/Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu'n ymdrin â materion eraill, ni fydd y cynrychiolwyr hyn yn pleidleisio ar y materion eraill hynny ac ni allant fod yn bresennol yn y cyfarfodydd ac eithrio fel aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor yn unig i drafod y materion eraill hynny os gwahoddir hwy i wneud hynny.

5. CYFARFODYDD Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

Cynhelir o leiaf 5 cyfarfod cyffredin o bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu bob blwyddyn. Yn ychwanegol, gellir galw cyfarfodydd Arbennig o bryd i'w gilydd fel bo'n briodol. Gall cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol alw cyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu, a gall unrhyw 6 o aelodau'r Pwyllgor wneud hynny hefyd neu'r Swyddog Priodol os bydd yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol neu'n briodol.

6. CWORWM

Bydd y cworwm ar gyfer Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fel y nodir ar gyfer Pwyllgorau yn Rheolau Gweithdrefn y Cyngor yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

7. PLEIDLEISIO

7.1 MWYAFRIF

Oni bai bod y Cyfansoddiad hwn yn darparu fel arall, bydd unrhyw fater yn cael ei benderfynu gan fwyafrif syml o'r aelodau Pwyllgor hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn y cyfarfod ar yr adeg y cyflwynwyd yr argymhelliad neu'r cynnig.

7.2 PLEIDLAIS FWRW'R CADEIRYDD

Os oes niferoedd cyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd dim cyfyngiad ar sut mae'r Cadeirydd yn dewis defnyddio pleidlais fwrw.

8. PWY SY'N CADEIRIO CYFARFODYDD PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU?

Penderfynir ar y Cadeirydd yn unol ag adran 75, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

9. RHAGLEN WAITH

Bydd y Pwyllgorau/Is-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, a hynny'n amodol ar y Pwyllgor

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 4 Rheolau Gweithdrefn

RHAN 4 DOGFEN E_Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu

Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Cydlynu, yn gyfrifol am osod eu rhaglen waith eu hunain ac wrth wneud hynny byddant yn ystyried dymuniadau'r aelodau hynny o'r Pwyllgor hwnnw nad ydynt yn aelodau o'r grŵp gwleidyddol mwyaf ar y Cyngor.

10. EITEMAU AR YR AGENDA

Bydd gan unrhyw aelodau o Bwyllgor neu Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu hawl i roi rhybudd i'r Swyddog Priodol eu bod yn dymuno i eitem sy'n berthnasol i swyddogaethau'r Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor gael ei chynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod o'r Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor a'i thrafod ynddo.

O gael cais o'r fath bydd y swyddog priodol yn sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys ar yr agenda nesaf sydd ar gael.

Gall unrhyw 6 aelod o'r Cyngor nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu roi rhybudd ysgrifenedig i'r Swyddog Priodol y dymunant i eitem gael ei chynnwys ar agenda Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol. Os bydd y Swyddog Priodol yn cael hysbysiad o'r fath, yna bydd yn cynnwys yr eitem ar yr agenda gyntaf sydd ar gael gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol i'r Pwyllgor ei hystyried.

Bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n ymateb hefyd, cyn gynted ag y bo ei raglen waith yn caniatáu, i geisiadau oddi wrth y Cyngor ac os ystyrir bod hynny'n briodol, oddi wrth y Cabinet i adolygu meysydd arbennig o blith gweithgareddau'r Cyngor. Os byddant yn gwneud hynny, bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n cyflwyno adroddiad ynghylch eu canfyddiadau ac unrhyw argymhellion gerbron y Cyngor ac/neu'r Cabinet.

11. ADOLYGU A DATBLYGU POLISIÂU

11.1 Mae rôl y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu o ran datblygu cyllideb a fframwaith polisi'r Cyngor wedi ei nodi'n fanwl yn Rheolau Gweithdrefn y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi.

11.2 Mewn perthynas â datblygu agwedd y Cyngor at faterion eraill nad ydynt yn rhan o'i gyllideb a'i fframwaith polisi, gall Pwyllgorau neu Is-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu wneud cynigion i'r Cabinet ar gyfer datblygiadau i'r graddau y maent yn ymwneud â materion sydd o fewn eu cylch gorchwyl.

11.3 Gall Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu gynnal ymchwiliadau ac ymchwilio i'r

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 4 Rheolau Gweithdrefn

RHAN 4 DOGFEN E_Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu

Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

dewisiadau sydd ar gael ar gyfer y cyfeiriad at y dyfodol o ran datblygu polisïau a gallant benodi ymgynghorwyr ac aseswyr i'w cynorthwyo yn y broses hon. Gallant fynd ar ymweliadau safle, cynnal arolygon cyhoeddus, cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, comisiynu ymchwil a gwneud yr holl bethau eraill y gallant yn rhesymol eu hystyried yn angenrheidiol i fod yn sail i'w trafodion. Gallant ofyn i dystion fod yn bresennol i'w hannerch ar unrhyw fater sydd o dan ystyriaeth a gallant dalu ffi a threuliau rhesymol i unrhyw ymgynghorwyr, aseswyr a thystion am wneud hynny.

12. ADRODDIADAU O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU

12.1 Unwaith y bydd wedi ffurfio argymhellion ynglŷn â chynigion ar gyfer datblygu, bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n paratoi adroddiad ffurfiol a'i gyflwyno i'r Swyddog Priodol i'w ystyried gan y Cabinet (os yw'r cynigion yn unol â'r gyllideb a'r fframwaith polisi presennol), neu'r Cyngor fel bo'n briodol (e.e. pe bai'r argymhelliad yn golygu gwyro oddi wrth y gyllideb a'r fframwaith polisi a gytunwyd neu'u newid).

12.2 Os na all Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gytuno ynghylch un adroddiad terfynol sengl i'r Cyngor neu'r Cabinet fel bo'n briodol, yna gellir paratoi hyd at un adroddiad lleiafrifol a'i gyflwyno i'w ystyried gan y Cyngor neu'r Cabinet gyda'r adroddiad mwyafrifol.

13. SICRHAU BOD ADRODDIADAU TROSOLWG A CHRAFFU YN CAEL EU HYSTYRIED GAN Y CABINET

13.1 Unwaith y bydd adroddiad Trosolwg a Chraffu ynghylch unrhyw fater sy'n gyfrifoldeb i'r Cabinet wedi ei gwblhau, bydd yn cael ei gynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r Cabinet, oni bai fod y mater a drafodir yn yr adroddiad wedi ei amserlennu i'w ystyried gan y Cabinet o fewn cyfnod o 4 wythnos wedi'r dyddiad y cafodd yr adroddiad ei fabwysiadu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mewn achosion o'r fath, bydd y Cabinet yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu pan fydd yn ystyried y mater hwnnw. Os na fydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad Trosolwg a Chraffu o fewn 6 wythnos am unrhyw reswm, yna cyfeirir y mater at y Cyngor i'w adolygu, a bydd y Swyddog Priodol yn galw cyfarfod o'r Cyngor i ystyried yr adroddiad a gwneud argymhelliad i'r Cabinet.

13.2 Lle bo Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn paratoi adroddiad i'w ystyried gan y Cabinet ynglŷn â mater lle mae'r Arweinydd neu'r Cyngor wedi dirprwyo pŵer i wneud penderfyniadau i aelod unigol arall o'r Cabinet, yna bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cyflwyno copi o'i adroddiad i'r unigolyn hwnnw i'w ystyried. Ar yr adeg y gwneir hynny, bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhoi copi i'r Swyddog Priodol a'r Arweinydd. Os nad yw'r aelod gyda phŵer wedi ei ddirprwyo i wneud penderfyniadau yn derbyn argymhellion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yna mae'n rhaid i'r aelod gyfeirio'r mater at y cyfarfod nesaf sydd ar gael o'r Cabinet i'w drafod cyn arfer eu pŵer i wneud penderfyniadau ac ymateb i'r adroddiad yn ysgrifenedig i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Bydd yr aelod Cabinet y dirprwywyd y pŵer i wneud penderfyniadau iddynt yn ymateb i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o fewn 4 wythnos ar ôl ei gael. Bydd copi o'u hymateb ysgrifenedig iddo yn cael ei anfon at y Swyddog Priodol a bydd yn bresennol mewn cyfarfod yn y dyfodol i ymateb.

13.3 Bydd gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fynediad at raglen waith y Cabinet at y dyfodol i weld y penderfyniadau a'r bwriadau o ran ymgynghori. Hyd yn oed pan nad yw eitem yn destun cynigion manwl gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn sgil ystyried y datblygiadau posibl o ran polisïau/gwasanaethau, bydd y Pwyllgor yn gallu ymateb yn ystod proses ymgynghori'r Cabinet.

14. HAWLIAU AELODAU PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU I DDOGFENNAU

14.1 Yn ogystal â'r hawliau sydd ganddynt fel Cyngorwyr, mae gan aelodau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu hawl ychwanegol i ddogfennau, ac i rybudd o gyfarfodydd fel y nodir yn Rheolau'r Weithdrefn Mynediad at Wybodaeth a geir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad hwn.

14.2 Nid oes dim yn y paragraff hwn yn atal cysylltiadau manylach rhwng y Cabinet a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu fel bo'n briodol, gan ddibynnu ar y mater neilltuol sydd o dan ystyriaeth.

15. AELODAU A SWYDDOGION YN RHOI CYFRIF

15.1 Gall unrhyw Bwyllgor neu Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu graffu ar Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion -Rhan 4 Rheolau Gweithdrefn

RHAN 4 DOGFEN E_Rheolau Gweithdrefn Trosolwg a Chraffu

benderfyniadau a wneir neu gamau a gymerir parthed cyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r Cyngor a'u hadolygu. Yn ogystal ag adolygu dogfennaeth, wrth gyflawni'r swyddogaeth graffu, gall ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod o'r Cabinet, y Prif Weithredwr ac unrhyw Gyfarwyddwr Corfforaethol neu Swyddog Arweiniol Corfforaethol ddod o'i flaen i egluro ynghylch materion sydd o fewn eu cylch gorchwyl:

15.1.1 unrhyw benderfyniad neilltuol neu gyfres o benderfyniadau;
ac/neu

15.1.2 i ba raddau y mae'r camau a gymerwyd yn gweithredu polisi'r
Cyngor; ac/neu

15.1.3 perfformiad y gwasanaethau,
a bydd dyletswydd ar y rhai hynny i fod yn bresennol i'r perwyl hwnnw
os bydd gofyn.

15.2 Lle bo'n ofynnol i unrhyw aelod neu swyddog fod yn bresennol mewn Pwyllgor Trosolwg a Chraffu o dan y ddarpariaeth hon, bydd cadeirydd y Pwyllgor hwnnw'n hysbysu'r Swyddog Priodol. Bydd y Swyddog Priodol yn hysbysu'r aelod neu'r swyddog yn ysgrifenedig gan roi o leiaf 10 o ddiwrnodau gwaith o rybudd o'r cyfarfod y mae'n ofynnol i'r aelod/y swyddog fod yn bresennol ynddo. Bydd y rhybudd yn nodi natur yr eitem y mae angen i'r aelod/swyddog fod yn bresennol yn ei chylch i roi cyfrif a ph'un ai a fydd angen cyflwyno unrhyw bapurau gerbron y Pwyllgor ai peidio. Lle bydd y cyfrif sydd i'w roi i'r Pwyllgor yn ei gwneud hi'n ofynnol llunio adroddiad, bydd yr aelod neu'r swyddog dan sylw'n cael digon o rybudd i fedru paratoi'r ddogfennaeth honno.

15.3 O dan amgylchiadau eithriadol, os bydd yr aelod neu'r swyddog yn methu â bod yn bresennol ar y dyddiad dan sylw, yna bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'n mynd ati, gan ymgynghori â'r aelod neu'r swyddog, i drefnu dyddiad arall i fod yn bresennol.

16. PRESENOLDEB POBL ERAILL

Gall Pwyllgor Trosolwg a Chraffu wahodd pobl heblaw am y bobl hynny a nodir ym mharagraff 14 uchod i'w annerch, trafod materion o bryder lleol ac/neu ateb cwestiynau. Er enghraifft, gall ddymuno clywed oddi wrth drigolion,

rhanddeiliaid ac aelodau a swyddogion mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus a gall wahodd pobl o'r fath i fod yn bresennol.

17. GALW I MEWN

17.1 Pan wneir penderfyniad gan y Cabinet, gan aelod unigol o'r Cabinet neu Bwyllgor o'r Cabinet neu o dan gyd drefniadau, cyhoeddir y penderfyniad, gan gynnwys lle bo hynny'n bosibl drwy ddulliau electronig, a bydd ar gael ym mhrif swyddfeydd y Cyngor fel arfer o fewn 2 ddiwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei wneud. Anfonir copïau o'r cofnodion o'r penderfyniadau hynny at yr Aelodau o fewn 2 ddiwrnod gwaith, gan y sawl sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r penderfyniad. (Gweler Dogfen D)

17.2 Bydd yr hysbysiad o benderfyniadau yn nodi'r dyddiad y caiff ei gyhoeddi a bydd yn nodi y daw'r penderfyniad i rym, ac y gellir ei weithredu wedyn, ar ddiwedd 5 o ddiwrnodiau gwaith ar ôl cyhoeddi'r penderfyniad, oni bai bod y penderfyniad yn cael ei alw i mewn (gweler isod).

17.3 Galw i mewn yw atgyfeirio penderfyniad a wnaed, ond nas gweithredwyd eto, at y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol. Mae pwerau galw i mewn yn ymwneud â swyddogaethau Cabinet (gweithredol). Gellir galw unrhyw benderfyniad a wneir gan y Cabinet neu benderfyniad allweddol a wneir gan swyddog o dan awdurdod dirprwyedig i mewn (yn amodol ar eithriadau).

- Gellir galw penderfyniad i mewn pan fydd Aelodau:
- yn credu y gallai fod yn groes i ofynion arferol gwneud penderfyniadau
- yn credu ei fod yn groes i fframwaith polisi y cytunwyd arno a/neu gyllideb y cytunwyd arni gan y Cyngor
- angen gwybodaeth bellach gan y sawl sy'n gwneud y penderfyniad i egluro pam y cafodd ei gymryd.

17.4 Ystyrir bod penderfyniad wedi'i alw i mewn pan mae:

- unrhyw dri aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol ("y Pwyllgor") y mae ei gylch gorchwyl yn ymwneud â phenderfyniad y Cabinet (fel y disgrifir yn Erthygl 6 Rhan 2 y Cyfansoddiad), neu

- chwe aelod etholedig o'r Cyngor, a Chadeirydd y Pwyllgor, yn ei wrthwynebu, ac yn ei alw i mewn trwy roi cais galw i mewn dilys i'r Swyddog Priodol (Pennaeth Gwasanaethau Democraidd).

- 17.5 Ar ôl cael cais Galw i Mewn dilys, bydd y Swyddog Priodol yn cynnull cyfarfod o'r Pwyllgor ar unrhyw ddyddiad y bydd y Swyddog Priodol yn penderfynu arno, lle bo hynny'n bosibl ar ôl ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor, cyn pen 8 diwrnod gwaith ar ôl y penderfyniad i alw i mewn. Yna bydd y Swyddog Priodol yn hysbysu'r sawl a wnaeth y penderfyniad i alw i mewn. Yna bydd y Swyddog Priodol yn hysbysu'r sawl a wnaeth y penderfyniad i alw i mewn.
- 17.6 Ni ellir gweithredu penderfyniad a alwyd i mewn nes iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor.
- 17.7 Os na fydd y Pwyllgor, ar ôl cael cais dilys i alw i mewn, yn cyfeirio'r mater yn ôl at y person neu'r corff sy'n gwneud penderfyniadau, bydd y penderfyniad yn dod i rym ar ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor.
- 17.8 Os yw'r Pwyllgor, ar ôl ystyried y penderfyniad, yn dal i bryderu am y penderfyniad, yna caiff y Pwyllgor gyfeirio'r penderfyniad naill ai
- a) yn ôl at yr unigolyn neu'r corff sy'n gwneud penderfyniadau i'w ailystyried, gan nodi'n ysgrifenedig natur ei bryderon a rhoi rhesymau NEU
 - b) at y Cyngor os yw'r penderfyniad yn ymwneud â fframwaith polisi neu gyllideb y Cyngor
- 17.9 Os cyfeirir y mater at y sawl sy'n gwneud y penderfyniad, bydd y sawl neu'r corff sy'n gwneud y penderfyniad yn ailystyried o fewn 10 o ddiwrnodiau gwaith pellach. Ar ôl ailystyried y penderfyniad, bydd yr unigolyn neu'r corff sy'n gwneud penderfyniadau naill ai'n cadarnhau'r penderfyniad, yn diwygio'r penderfyniad neu'n dirymu'r penderfyniad. Ystyrir bod y penderfyniad yn derfynol a bydd yn dod i rym ar unwaith.

Atgyfeiriadau at y Cyngor

- 17.10 Os atgyfeirir penderfyniad at y Cyngor gan y Pwyllgor, bydd cyfarfod o'r Cyngor yn cael ei gynnull gan y Swyddog Priodol cyn pen 15 diwrnod gwaith o ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor.

17.11 Os na fydd y Cyngor yn cyfarfod cyn pen 15 diwrnod gwaith bydd y penderfyniad yn dod i rym ar ddiwedd y 15 diwrnod o gyfarfod y Pwyllgor,

17.12 Os bydd y Cyngor yn cyfarfod cyn pen 15 diwrnod gwaith, bydd yn penderfynu p'un a yw'n gwrthwynebu'r penderfyniad ai peidio

Os yw'r Cyngor:

a) ddim yn gwrthwynebu'r penderfyniad, yna nid oes angen cymryd dim camau pellach, a bydd y penderfyniad mewn grym ar ddyddiad cyfarfod y Cyngor neu ddiwedd y cyfnod y dylid bod wedi cynnal cyfarfod y Cyngor ynddo, pa un bynnag yw'r cynharaf.

b) yn gwrthwynebu'r penderfyniad bydd y Cyngor yn atgyfeirio'r penderfyniad y mae'n ei wrthwynebu yn ôl at yr unigolyn neu'r corff sy'n gwneud penderfyniadau, ynghyd â'i farn a'i resymau am y penderfyniad.

17.13 Lle gwnaethpwyd y penderfyniad gan y Cabinet cyfan neu Bwyllgor ohono, gelwir cyfarfod ynghyd i ailystyried y penderfyniad o fewn 10 niwrnod gwaith wedi cais y Cyngor. Lle gwnaethpwyd y penderfyniad gan unigolyn, bydd yr unigolyn yn ailystyried o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl cael cais y Cyngor.

17.14 Ar ôl ailystyried y penderfyniad, bydd y corff neu'r person sy'n gwneud penderfyniadau yn dewis cadarnhau, diwygio neu ddirymu'r penderfyniad gwreiddiol. Bydd y penderfyniad yn derfynol ac mewn grym ar unwaith.

Penderfyniadau brys

17.15 Ni fydd y weithdrefn galw i mewn a nodir uchod yn berthnasol pan gadarnheir bod y penderfyniad sy'n cael ei wneud gan y Cabinet yn un brys yn unol â Rheolau'r Weithdrefn a nodir yn y Cyfansoddiad.

17.16 Ystyrir bod penderfyniad yn un brys os byddai unrhyw oedi wrth weithredu'r penderfyniad sy'n debygol o gael ei achosi gan y broses galw i mewn yn rhagfarnu'n ddifrifol fuddiannau'r Cyngor neu fuddiannau'r cyhoedd. Bydd cofnod y penderfyniad, a'r hysbysiad sy'n ei wneud yn gyhoeddus, yn nodi ym marn y sawl neu'r corff sy'n gwneud y penderfyniad, a yw'r penderfyniad yn un brys ai peidio, ac felly heb fod yn destun y broses galw i mewn.

- 17.17 Ar ôl ystyried cyngor y Swyddog Monitro, rhaid i Gadeirydd y Cyngor gytuno bod y penderfyniad a gynigir yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau ac iddo gael ei drin fel mater o frys. Yn absenoldeb y Cadeirydd, bydd angen cydsyniad yr Is-gadeirydd. Yn absenoldeb yr Is-gadeirydd, mae angen cydsyniad Cadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. Yn absenoldeb pob un o'r uchod bydd angen cydsyniad y Prif Weithredwr (Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig) neu'r Swyddog Monitro.
- 17.18 Mae'n rhaid i benderfyniadau a wneir fel mater o frys gael eu cyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf o'r Cyngor, ynghyd â'r rhesymau dros y brys
- 17.19 Bydd gweithrediad y darpariaethau hynny sy'n ymwneud â galw i mewn a materion brys yn cael ei fonitro'n flynyddol a chyflwynir adroddiad gerbron y Cyngor gyda chynigion i'w hadolygu pe bai angen

18. CHWIP Y BLAID

Ystyrir chwip y blaid yn unol ag Adran 78, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru 2011).

19. Y DREFN YNG NGHYFARFODYDD Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

19.1 Bydd Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n ystyried y busnes canlynol:

19.1.1 cofnodion y cyfarfod diwethaf;

19.1.2 datgelu buddiannau (gan gynnwys datganiadau chwipio);

19.1.3 ystyried unrhyw faterion a gyfeiriwyd at y Pwyllgor am benderfyniad mewn perthynas â galw penderfyniad i mewn;

19.1.4 ymatebion y Cabinet i adroddiadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu; ac

19.1.5 pob busnes arall a gyflwynir ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod.

19.2 Lle bo'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnal ymchwiliadau (e.e. gyda'r bwriad o ddatblygu polisi), gall y Pwyllgor hefyd ofyn i bobl fod yn bresennol er mwyn rhoi tystiolaeth mewn cyfarfodydd Pwyllgor sydd i'w cynnal yn unol â'r egwyddorion canlynol:

19.2.1 bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal yn deg a bydd holl aelodau'r Pwyllgor yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i'r rhai sy'n bresennol, a chyfrannu

a siarad;

19.2.2 bydd y rhai hynny sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor drwy roi tystiolaeth yn cael eu trin gyda pharch a chwrteisi; ac

19.2.3 bydd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal mewn modd a fydd yn sicrhau bod yr ymchwiliad neu'r dadansoddiad mor effeithiol â phosibl.

19.3 Yn dilyn unrhyw ymchwiliad neu adolygiad, bydd y Pwyllgor/yr Is-bwyllgor yn paratoi adroddiad, i'w gyflwyno i'r Cabinet ac/neu'r Cyngor fel bo'n briodol a bydd yn gwneud ei adroddiad a'i ganfyddiadau'n gyhoeddus.

20. MATERION SYDD O FEWN CYLCH GWAITH MWY NAG UN PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU

Lle bo mater i'w ystyried gan Bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhan o gylch gwaith un neu ragor o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill hefyd, bydd y penderfyniad ynglŷn â pha Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a fydd yn ei ystyried yn cael ei wneud gan y Pwyllgor Cydlynu.

ATODIAD 1:

CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

1. Y PWYLLGOR CYDLYNU TROSOLWG A CHRAFFU

Aelodaeth

Cadeirydd ac Is-gadeirydd a benodir gan y Cyngor yn ogystal â Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion y pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu unigol (10).

Cylch Gorchwyl

1.1 Cymeradwyo rhaglen waith flynyddol o ran Trosolwg a Chraffu, gan gynnwys rhaglen unrhyw Is-bwyllgorau a benodir, er mwyn sicrhau bod defnydd effeithiol yn cael ei wneud o amser y Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau, a gwarchod rhag dyblygu gwaith cymaint â phosibl; ac awgrymu meysydd gwaith i'r Pwyllgorau hynny ymchwilio iddynt ac adrodd arnynt.

1.2 Lle bo materion yn rhan o gylch gwaith mwy nag un Pwyllgor neu Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu, penderfynu pa un ohonynt fydd yn cymryd y cyfrifoldeb dros unrhyw fater arbennig, a datrys unrhyw faterion sy'n peri anghydfod rhwng Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

1.3 Derbyn ceisiadau oddi wrth y Cabinet ac/neu'r Cyngor llawn am adroddiadau oddi wrth Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'u dyrannu fel bo'n briodol i un neu ragor o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

1.4 Rhoi system ar waith a'i chynnal er mwyn sicrhau bod unrhyw faterion a gaiff eu cyfeirio oddi wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i'r Cabinet, boed y rheiny ar ffurf adroddiadau neu'n faterion i'w hailystyried, yn cael eu rheoli'n effeithiol ac nad ydynt yn mynd y tu hwnt i'r cyfyngiadau a osodir yn y Cyfansoddiad hwn.

1.5 Blaenoriaethu adroddiadau a gynhyrchir gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu unigol i'w hystyried gan y Cabinet, pe bai'r Cabinet yn gwneud cais am hynny.

1.6 Meddu ar bwerau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu mewn perthynas â phenderfyniadau Cabinet a wnaethpwyd ond nad ydynt wedi eu gweithredu eto fel y nodir yn adran 21 (3) Deddf Llywodraeth Leol 2000.

1.7 Gofyn am adroddiadau naill ai i'r Pwyllgor Cydlynw neu i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu unigol.

1.8 Cyflawni holl swyddogaethau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fel y maent yn

ymwneud â Thrawsnewid Gwasanaethau, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion, y Strategaeth Gorfforaethol, Partneriaethau, Cydweithio, y Gyllideb, Diogelu a Diogelwch Cymunedol / Trosedd ac Anhrefn

2. PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL

Aelodaeth

13 o Gynghorwyr

Cylch Gorchwyl

Cyflawni holl swyddogaethau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fel y maent yn ymwneud â'r Gwasanaethau Corfforaethol (gan gynnwys adnoddau dynol, gwasanaethau cwsmeriaid, TGCh, rheoli'r trysorlys a'r gwasanaethau cyfreithiol), Cynhwysiant / Cyfleoedd Cyfartal, Argyfyngau Sifil Posibl, Parhad Busnes, Rheoli Ystadau a Chofrestru Sifil.

3. PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU IACHACH

Aelodaeth

13 o Gynghorwyr.

Cylch gorchwyl

Cyflawni holl swyddogaethau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fel y maent yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, y Gwasanaethau Gofal Integredig, y Gwasanaethau Tai, y Cyfleusterau Hamdden, Iechyd yr Amgylchedd, Diogelu'r Cyhoedd a Thrwyddedu

4. PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU SY'N DYSGU

Aelodaeth

13 o Gynghorwyr, 4 o gynrychiolwyr sy'n pleidleisio o'r eglwys a'r rhieni-lywodraethwyr a 9 aelod cyfetholedig heb bleidlais

Cylch gorchwyl

Cyflawni holl swyddogaethau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fel y maent yn ymwneud â Dysgu Gydol Oes, Plant a Phobl Ifanc, Ysgolion, Hyfforddiant, y Gwasanaethau Ieuenctid a'r Gwasanaethau Diwylliannol.

5. PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU FFYNIANNUS

Aelodaeth

13 o Gynghorwyr

Cylch Gorchwyl

Cyflawni holl swyddogaethau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fel y maent yn ymwneud â Datblygu Economaidd, Adfywio, Twristiaeth, Marchnata, Cymunedau Cryfach, Cymorth Grant Ewrop, Cymorth i Fusnesau, Rhaglen Gyfalaf, Seilwaith Trafnidiaeth a'r Priffyrdd, Cynllunio Gwlad a Thref a Chynaliadwyedd, Yr Arfordir a Chefn Gwlad, Gwastraff a Gwasanaethau Bwrdeistrefol eraill.

RHAN 6 STRWYTHUR RHEOLI

PRIF WEITHREDWR: EIFION EVANS

CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL : BARRY REES

CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL: JAMES STARBUCK

- Sicrhau bod blaenoriaethau ac amcanion strategol corfforaethol sy'n darparu gwasanaethau diogel, effeithlon ac effeithiol o ansawdd uchel i drigolion Ceredigion yn cael eu datblygu, eu gweithredu a'u gwerthuso
- Gweithio'n greadigol ac yn strategol er mwyn cyflawni'r safonau uchaf posibl o ran perfformiad gwasanaethau Cyngor Sir Ceredigion

- Bod yn Gyfarwyddwr Corfforaethol a darparu arweinyddiaeth strategol o fewn y Cyngor gan sicrhau bod pob gwasanaeth yn cydymffurfio ag amcanion a safonau strategol y Cyngor ac yn eu cefnogi.
- Dirprwyo ar ran y Prif Weithredwr yn ôl yr angen
- Darparu arweinyddiaeth a chyngor i hyd at chwe Swyddog Arweiniol Corfforaethol a rheoli eu perfformiad

SWYDDOGION ARWEINIOL CORFFORAETHOL (6)

SWYDDOGION ARWEINIOL CORFFORAETHOL (6)

- Bod yn Swyddog Arweiniol Corfforaethol ac yn gynghorwr arweiniol i'r Cyngor ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â'u swyddogaethau penodol yn unol â'r rhestr isod.
- Darparu cyswllt allweddol â'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol a gweithio gyda Swyddogion Arweiniol Corfforaethol eraill i sicrhau bod amcanion strategol a chorfforaethol y Cyngor yn cael eu cydlynw a'u gweithredu'n effeithiol ar draws pob maes gwasanaeth

- Er bod gan y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol gyfrifoldeb penodol dros reoli ac arwain portffolio o feysydd gwasanaeth, mae ganddynt gyfrifoldeb corfforaethol hollbwysig hefyd i sicrhau bod gweithgarwch a gweithredoedd pob gwasanaeth yn cydymffurfio ag amcanion a safonau strategol y Cyngor ac yn eu cefnogi
- Gweithio'n greadigol ac yn strategol er mwyn cyflawni'r safonau uchaf posibl o ran perfformiad gwasanaethau Cyngor Sir Ceredigion

YSGOLION A DIWYLLIANT	CYFREITHIOL A LLYWODRAETHU	CYLLID A CHAFFAEL	POLISI, PERFFORMIAD A DIOGELU'R CYHOEDD	ECONOMI AC ADFYWIO	PRIFYRDD A GWASANAETHAU AMGYLCHEDDOL	PORTH CYNNAL – GWASANAETHAU ARBENIGOL GYDOL OES	PORTH GOFAL – YMYRRAETH WEDI'I THARGEDU	PORTH CYMORTH CYNNAR	POBL A THREFNIADAETH	CYSWLLT CWSMERIAID	GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD
Meinir Ebbsworth	Elin Prysor	Stephen Johnson	Alun Williams	Russell Hughes-Pickering	Rhodri Llwyd	Sian Howys	Donna Pritchard	Elen James	Geraint Edwards	Arwyn Morris	Lowri Edwards
*Prif Swyddog Addysg	*Swyddog Monitro	*Prif Swyddog Cyllid (Swyddog Adran 151)				*Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol *Unigolyn Cyfrifol	Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol			*Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) *Swyddog Priodol ar gyfer Cofrestru Sifil	*Pennaeth y Gwasanaethau Democratiaidd
<ul style="list-style-type: none"> • Gwella Ysgolion Anghenion Dysgu Ychwanegol • Lles disgyblion Derbyn i Ysgolion • Seilwaith ac Adnoddau • Diwylliant • Arlwygo 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfreithiol • Llywodraethu • Archwilio Mewnol • Crwneriaid 	<ul style="list-style-type: none"> • Caffael a Thaliadau • Cyllid Craidd (Dirprwy Swyddog 151) • Cyllid Gwasanaethau • Refeniw ac Aseidiad Ariannol 	<ul style="list-style-type: none"> • Partneriaethau Strategol, Ymgysylltu ac Ymchwil • Cwynion, Canmoliaethau a Rhyddid Gwybodaeth • Diogelu'r Cyhoedd • Perfformiad ac Ymchwil Gorrfforaethol • Adsefydlu ffoaduriaid • Argyfyngau sifil a pharhad busnes 	<ul style="list-style-type: none"> • Twf a Menter • Cynllunio • Eiddo 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnal a Chadw Prifffyrdd • Datblygu Prifffyrdd • Gwasanaethau Amgylcheddol Lleol • Gwasanaethau Trafnidiaeth 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaethau arbenigol gan gynnwys <ul style="list-style-type: none"> • Diogelu • Iechyd Meddwl • Gofal wedi'i gynllunio • Camddefnyddio sylweddau • Gwasanaethau Cymorth Estynedig • Sicrhau Ansawdd ac Adolygu Annibynnol 	<ul style="list-style-type: none"> • Tîm Derbyn a Brysbennu Porth Ceredigion • Gwasanaethau ymyrraeth wedi'i thargedu • Gwasanaethau Maethu • Gwasanaethau preswyl a gofal dydd • Gwasanaethau Tai • Storffeydd Cyfarpar Cymunedol Integredig • Tîm Dyletswydd Argyfwng 	<ul style="list-style-type: none"> • Dysgu Gydol Oes a Sgiliau • Hamdden a lles • Gwasanaethau cymorth ieuencid • Gwasanaethau cymorth cynnar • Gwasanaethau Cymorth ac Ymyrraeth • Gwasanaethau cymorth ymddygiad 	<ul style="list-style-type: none"> • Adnoddau Dynol - Cynghori a Gweinyddu Cyflogau a Buddion a Systemau • Dysgu a Datblygu • Iechyd a Diogelwch Ymgysylltu â gweithwyr a lles gweithwyr 	<ul style="list-style-type: none"> • Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu • Cyswllt Cwsmeriaid • Archifau a Rheoli Gwybodaeth • Gwasanaethau Llyfrgelloedd • Cofrestru Sifil 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaethau Democratiaidd • Safonau'r Gymraeg a Chyfieithu • Cyfathrebu • Gwasanaethau Etholiadol • Cymorth i Wasanaethau Corfforaethol

* mae hyn yn dynodi Rolau Statudol

Tudalen 546

RHAN 7

**Rhestr o fforymau ymgynghorol,
gweithgorau, paneli a phartneriaethau**

Cynnwys

Adran 1 Fforymau ymgynghorol a chynghorol a sefydlwyd gan y Cabinet [statudol ac anstatudol]	2
A – Statudol.....	2
B – Anstatudol	4
Adran 2 Grwpiau Monitro/Datblygu Polisi Mewnol.....	6
Adran 3 Partneriaethau yng Ngheredigion	8
Adran 4 Partneriaethau / Fforymau / Consortia / Cydbwyllgorau Rhanbarthol.....	11

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion

RHAN 7 Rhestr o fforymau ymgynghorol, gweithgorau, paneli a phartneriaethau

Adran 1 Fforymau ymgynghorol a chynghorol

Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Adran 1 Fforymau ymgynghorol a chynghorol a sefydlwyd [statudol ac anstatudol]

A – Statudol

Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)

Cefndir: Sefydlwyd hwn gan Bwyllgor Addysg y Cyngor ar 2 Chwefror 1996 yn unol â Deddf Diwygio Addysg 1988 a Deddf Addysg 1993 [gweler hefyd baragraff. 88:1 a 2 Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94 a Phennod 3 Deddf Addysg 1996].

Ei brif swyddogaeth yw cynghori'r Awdurdod Addysg Lleol ynghylch materion sy'n ymwneud ag Addoli ar y Cyd mewn ysgolion cymunedol ac ysgolion eraill a chynghori ynghylch yr addysg grefyddol a roddir yn unol â'u Maes Llafur Cytûn. Gall hefyd gefnogi darpariaeth effeithiol yr Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd fel a ganlyn:

- Trwy roi cyngor ynglŷn â dulliau dysgu'r maes llafur cytûn Addysg Grefyddol gan gynnwys y dewis o ddefnyddiau dysgu
- Cynghori'r Awdurdod Addysg Lleol ynglŷn â'r ddarpariaeth ar gyfer hyfforddi athrawon
- Monitro adroddiadau'r arolygwyr ar Addysg Grefyddol, Addoli ar y Cyd a Datblygiad Ysbrydol, Moesol, Cymdeithasol a Diwylliannol
- Ystyried cwynion ynglŷn â darparu a chyflwyno Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd y bydd yr Awdurdod Addysg Lleol yn eu cyfeirio ato.

Cynrychiolwyr y Cyngor: 5 Cynghorydd (yn wleidyddol gytbwys, heb fod yn aelodau o'r weithrediaeth)

Fforwm Derbyn i'r Ysgolion

Cefndir: Sefydlwyd Fforwm Derbyn i'r Ysgolion gan y Cabinet ar 21 Hydref 2003 [gweler Cofnod C278]. Mae Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003 yn gweithredu Adran berthnasol Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor, fel yr Awdurdod Addysg Lleol, sefydlu fforwm derbyn. Prif swyddogaeth y Fforwm yw cynghori ynghylch materion sy'n gysylltiedig â derbyn disgyblion ac effeithiolrwydd y polisïau a'r prosesau.

Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet y Gwasanaethau Dysgu a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu..

Fforwm Cyllideb Ysgolion

Cefndir: Sefydlwyd y Fforwm Cyllideb Ysgolion gan y Cabinet ar 21 Hydref 2003 [gweler Cofnod C278]. Mae Adran 43 Deddf Addysg 2002 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor, fel yr Awdurdod Addysg Lleol, sefydlu fforwm ysgolion ac i'r Awdurdod Addysg Lleol ymgynghori â'r Fforwm, o leiaf unwaith y flwyddyn, ynghylch diwygiadau posibl i'w gynllun cyllido ysgolion a materion eraill sy'n effeithio ar yr ysgolion a gynhelir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol oherwydd eu heffaith ar gyllidebau ysgolion.

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion

RHAN 7 Rhestr o fforymau ymgynghorol, gweithgorau, paneli a phartneriaethau

Adran 1 Fforymau ymgynghorol a chynghorol

Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Tudalen 550

Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet y Gwasanaethau Dysgu a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu.

Fforwm Mynediad Lleol

Cefndir: Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion gan y Cabinet ar 26 Chwefror 2002 [gweler Cofnod C750] yn unol â Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 er mwyn cynghori'r Cyngor, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac eraill fel bo'n briodol ar gyfer gwella mynediad cyhoeddus i dir yn yr ardal at ddibenion hamdden yn yr awyr agored a mwynhau'r ardal mewn ffyrdd a fydd yn rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â rheoli tir, buddiannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac addysgol.

Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Aelod Cabinet yr Economi ac Adfywio.

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion

RHAN 7 Rhestr o fforymau ymgynghorol, gweithgorau, paneli a phartneriaethau

Adran 1 Fforymau ymgynghorol a chynghorol

Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

B - Anstatudol

Panel Adolygu Ysgolion

Cefndir: Sefydlwyd hwn gan y Cabinet yn unol â'r Polisi Adolygu Ysgolion Cynradd, a ddiweddarwyd fis Ionawr 2010, er mwyn cynnal adolygiadau a'u hargymell i'r Cabinet.

Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Aelod Cabinet y Gwasanaethau Dysgu, a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu a dau Aelod etholedig a benodwyd gan y Cabinet.

Panel Apeliadau Cludiant Addysg

Cefndir: sefydlwyd y panel er mwyn galluogi rhieni i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod darparu cludiant i'w plant rhwng y cartref a'r ysgol

Cynrychiolwyr y Cyngor: 4 Cynghorydd (yn wleidyddol gytbwys, heb fod yn aelodau o'r weithrediaeth)

Fforwm Corfforaethol y Gweithwyr

Cefndir: Sefydlwyd hwn gan y Cabinet ar 7 Mawrth 2006 fel y fforwm corfforaethol ar gyfer ymgynghori a thrafod gyda'r undebau llafur cydnabyddedig.

Cynrychiolwyr y Cabinet:
Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor.

Pwyllgorau Defnyddwyr Harbwr Aberaeron, Aberystwyth a'r Ceinewydd

Cefndir:

Sefydlwyd Pwyllgorau Ymgynghorol Defnyddwyr yr Harbwr gan y Cyngor yn 1996 fel fforwm ar gyfer ymgynghori gyda defnyddwyr y tri harbwr ac maent yn awr yn adrodd i'r Cabinet yn dilyn mabwysiadu trefniadau gweithredol yr Arweinydd a'r Cabinet ym Mai 2003.

Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Aelod Cabinet y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol a'r Aelodau Lleol perthnasol.

Fforwm Ymgynghorol Rheoli Traffig Ceredigion

Cefndir: Fforwm ar gyfer ymgynghori gyda rhanddeiliaid lleol ar faterion rheoli traffig yw'r Fforwm Ymgynghorol Rheoli Traffig Lleol ac mae'n adrodd i'r Cabinet. Bydd y fforwm yn cwrdd dwywaith y flwyddyn i drafod materion ar draws y Sir.

Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Aelod Cabinet y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a'r Aelodau Lleol perthnasol.

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion

RHAN 7 Rhestr o fforymau ymgynghorol, gweithgorau, paneli a phartneriaethau

Adran 1 Fforymau ymgynghorol a chynghorol

Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Fforwm 50+ Ceredigion

Cefndir: Sefydlwyd y Fforwm 50+ gan y Cabinet a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn cynrychioli llais y bobl hŷn (50+) yn y Sir ac fel y gallant gael llais wrth ddatblygu strategaethau a gwasanaethau.

Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Aelod Cabinet Porth Gofal - Gwasanaeth Ymyrraeth wedi'i Thargeddu

Pwyllgor Rheoli Datblygu - Panel Archwilio Safleoedd

Cefndir: Sefydlodd y Pwyllgor Rheoli Datblygu y Panel Archwilio Safleoedd fel y gellid cynnal ymweliadau â safleoedd sy'n rhan o geisiadau cynllunio, cyn i'r Pwyllgor wneud penderfyniad, er mwyn archwilio nodweddion unrhyw gais a allai fod yn anodd eu cyfleu mewn adroddiad ysgrifenedig.

Swyddogaethau:

- mae'n ffordd o ganfod ffeithiau;
- mae'n rhywbeth sydd y tu allan i'r drefn ffurfiol o benderfynu ar y cais (ac felly nid yw hawl y cyhoedd i fod yn bresennol yn berthnasol);
- mae'n galluogi swyddogion i amlygu nodweddion perthnasol;
- mae'n galluogi pobl i holi cwestiynau ar y safle er eglurder. Fodd bynnag, dim ond yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor neu'r Cyngor y trafodir y cais, oherwydd efallai na fydd yr holl bobl berthnasol yn bresennol ar y safle.
- nid yw'r Pwyllgor wedi'i rwymo gan unrhyw argymhellion a wneir.

Cynrychiolwyr y Cyngor: Pum aelod sy'n cynnwys Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, cyn-gadeirydd y Pwyllgor sydd â'i gyfnod yn y gadair newydd ddod i ben a dau aelod arall ar sail trefn rota fisol.

Panel Apelio am Ryddhad Caledi rhag Ardrethi Annomestig a Rhyddhad yn ôl Disgresiwn rhag Treth y Cyngor

Cefndir: Sefydlwyd y Panel Apelio am Ryddhad Caledi rhag Ardrethi Annomestig a Rhyddhad yn ôl Disgresiwn rhag Treth y Cyngor i benderfynu ynghylch ceisiadau gan ddinasyddion sy'n apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod Rhyddhad Caledi rhag Ardrethi Annomestig neu Ryddhad yn ôl Disgresiwn rhag Treth y Cyngor.

Cynrychiolwyr y Cyngor: 7 Aelod ar sail trefn rota (3 aelod ym mhob cyfarfod o'r Panel)

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion

RHAN 7 Rhestr o fforymau ymgynghorol, gweithgorau, paneli a phartneriaethau

Adran 1 Fforymau ymgynghorol a chynghorol

Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Adran 2 Grwpiau Monitro/Datblygu Polisi Mewnol Grŵp Datblygu

Cefndir: Mae'r Grŵp hwn yn ystyried lle dylid canolbwyntio buddsoddiad yn y dyfodol er mwyn cyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor

Cynrychiolwyr y Cabinet / Cyngor: Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor; Aelod Cabinet yr Economi ac Adfywio, Aelod Cabinet Cyllid a Chaffael

Grŵp Monitro Cyfalaf

Cefndir:
Mae'r Grŵp Monitro Cyfalaf yn weithgor a'i waith yw monitro cynnydd y rhaglen cyfalaf a gwneud argymhellion i'r Cabinet ynghylch unrhyw ddiwygiadau a wneir yn ystod y flwyddyn

Cynrychiolwyr y Cyngor: Aelod Cabinet Cyllid a Chaffael

Grŵp Cyfeirio'r Aelodau - Uned Gorfforaethol Cludiant Teithwyr

Cefndir:
Sefydlwyd Grŵp Cyfeirio'r Aelodau - Uned Gorfforaethol Cludiant Teithwyr, er mwyn cyflawni'r gofynion statudol sydd ynglŷn â darparu cludiant ar gyfer addysg a gwasanaethau cymdeithasol ac wrth baratoi polisïau yng nghyswllt cludiant integredig a lleihau traffig; a chynghori'r Cyngor ynglŷn ag unrhyw swyddogaethau dewisol gan gynnwys:

- Pennu gwasanaethau cludiant
- Caffael a monitro gwasanaethau cludiant

Diffinnir y grŵp fel grŵp cyfeirio.

Cynrychiolwyr y Cabinet: Aelod Cabinet y Gwasanaethau Dysgu a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc; Aelod Cabinet y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol, Aelod Cabinet Porth Gofal - Ymyrraeth wedi'i Thargedu.

Panel Grantiau Adnewyddu Tai

Cefndir:
Sefydlwyd y Panel Adnewyddu Grantiau Tai er mwyn adolygu'r polisi grantiau adnewyddu cyfredol a gwneud argymhellion i'r Cabinet a'r Cyngor parthed newidiadau/gwelliannau i'r polisi.

Cynrychiolwyr y Cabinet: Dirprwy Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet Porth Gofal – Gwasanaeth Ymyrraeth wedi'i Thargedu ac Aelod Cabinet Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol ynghyd â Thai

Grŵp Rhianta Corfforaethol

Cefndir: sefydlwyd y grŵp hwn er mwyn cynllunio a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion RHAN 7 Rhestr o fforymau ymgynghorol, gweithgorau, paneli a phartneriaethau

Adran 2 Grwpiau Monitro/Datblygu Polisi Mewnol

Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Cynrychiolwyr y Cabinet: Aelod Cabinet y Gwasanaethau Ysgolion a Diwylliant a'r Porth Cymorth Cynnar

Grŵp Gweithredol Lleol - Diogelu

Cefndir: Sefydlwyd y Grŵp Gweithredol Lleol fel rhan o Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ac mae ganddo gylch gorchwyl ynghylch y perfformiad a'r arferion o ran diogelu (pob oed) yng Ngheredigion.

Cynrychiolwyr y Cabinet:

Bwrdd Diogelu Strategol Ceredigion (Plant ac Oedolion)

Cefndir: Cyfrifoldeb Strategol Corfforaethol o ran diogelu plant ac oedolion.

Cynrychiolwyr y Cabinet: Aelod Cabinet Porth Cynnal – Gwasanaethau Arbenigol Gydol Oes; Aelod Cabinet y Gwasanaethau Ysgolion a Diwylliant; Aelod Cabinet Porth Gofal – Ymyrraeth wedi'i Thargeddu.

Gweithgor Cydraddoldeb Corfforaethol

Cefndir: Sefydlwyd y panel hwn gan y Cabinet er mwyn monitro, cydlynu, adolygu a datblygu polisiau cydraddoldeb corfforaethol. Diwygiwyd yn 2012 er mwyn datblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Cynrychiolwyr y Cabinet: Arweinydd y Cyngor (Cadeirydd)

Pwyllgor Ymgynghorol y Gymraeg

Cefndir: Sefydlwyd y pwyllgor hwn er mwyn goruchwyllo'r modd y gweithredir Safonau'r Gymraeg.

Cynrychiolwyr y Cabinet: Arweinydd y Cyngor ac Aelodau eraill fel y'u penodir.

Grŵp Rheoli Argyfyngau a Pharhad Busnes

Cefndir: Sefydlwyd y grŵp hwn i oruchwyllo a datblygu Cynllun Parhad Busnes y Cyngor.

Cynrychiolwyr y Cabinet: Arweinydd y Cyngor, Aelod Cabinet Cyllid a Chaffael.

Grŵp Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd

Cefndir:

Ffurfiwyd y grŵp hwn at y diben o ystyried pob agwedd ar gyfryw raglen Drawsnewid y Cyngor a'r gweithgarwch o ran gweledigaeth hirdymor y Cyngor a'r amcanion oedd yn ategu'r weledigaeth honno.

Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: 10 o Gynghorwyr, yn wleidyddol gytbwys, gan gynnwys Arweinwyr Grwpiau a/neu eu cynrychiolwyr. Estynnir gwahoddiad i Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fod yn bresennol fel arsylwyr heb bleidlais.

Gweithgor Trawsbleidiol y Cyfansoddiad

Cefndir: Wedi'i sefydlu i ystyried diwygiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad a gwneud argymhellion priodol i'r Cyngor. Hefyd yn cael cadarnhad o unrhyw fân ddiwygiadau i'r Cyfansoddiad, fel y gwnaed gan y Swyddog Monitro

Cynrychiolaeth y Cyngor: 7 Aelod, yn gytbwys yn wleidyddol, gan gynnwys Aelod y portffolio perthnasol fel Cadeirydd.

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion

RHAN 7 Rhestr o fforymau ymgynghorol, gweithgorau, paneli a phartneriaethau

Adran 2 Grwpiau Monitro a Datblygu Polisi Mewnol

Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Adran 3 Partneriaethau yng Ngheredigion**Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Atal Ceredigion (Statudol)**

Cefndir: Sefydlwyd y bwrdd hwn yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i roi trefniadau ar waith i leihau troseddu gan bobl ifanc.

Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Dim

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (y Bwrdd Gwasanaethau Lleol gynt)

Cefndir: Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod fframwaith cyfreithiol cyffredin sy'n seiliedig ar saith nod llesiant a phum ffordd o weithio. Y nod yw cynnal a darparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n diwallu'r anghenion presennol, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd Llesiant ar gyrff cyhoeddus penodol i gydweithio a ffurfio Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol ymhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'n rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal drwy gyfrannu at gyflawni'r Nodau Llesiant.

Cynrychiolwyr y Cabinet: Arweinydd y Cyngor, Prif Weithredwr.

Partneriaeth Diogelwch Cymunedol

Cefndir: Fe'i ffurfiwyd ym 1999 yn dilyn Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, estynnwyd aelodaeth y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ymhellach gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu, 2002, a Deddf Plismona a Throsedd, 2009, i gynnwys Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Heddlu ac Awdurdodau Gwasanaethau Tân ac Achub, a'r Gwasanaeth Prawf.

Mae gan y Bartneriaeth ddyletswydd barhaus i wneud asesiad trosedd ac anhrefn. Mae hefyd yn datblygu, gweithredu, monitro ac adolygu cynllun amlasiantaethol i leihau trosedd ac anhrefn.

Mae'r Bartneriaeth yn ystyried adroddiadau gan amrywiol fyrdau strategol, sydd hefyd yn gweithio tuag at leihau trosedd ac anhrefn mewn meysydd penodol.

Cynrychiolwyr y Cabinet: Aelod y Cabinet â chyfrifoldeb am Bortffolio Ymyrraeth wedi'i Thargedu Porth Gofal, Ymyrraeth Gynnar, Hybiau Lles a Gwasanaethau Diwylliant.

Bwrdd CONTEST Ceredigion

Cefndir: Bwrdd amlasiantaethol CONTEST, sy'n ystyried gofynion a goblygiadau lleol sy'n ymwneud â'r 4 elfen, ond sy'n canolbwyntio'n benodol ar ymateb lleol i'r gofyniad Atal. Mae'r Bwrdd CONTEST yn adrodd wrth Fwrdd Rhanbarthol CONTEST a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion.

Cynrychiolaeth y Cabinet: Dim

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion RHAN 7 Rhestr o fforymau ymgynghorol, gweithgorau, paneli a phartneriaethau

Adran 3 Partneriaethau yng Ngheredigion

Panel Channel Ceredigion (Statudol)

Cefndir: Partneriaeth amlasiantaethol weithredol leol sy'n gweithredu gweithgareddau a dyletswyddau'r Channel. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn cydlynu ac yn cadeirio Panel y Channel, yn cael atgyfeiriadau ar unigolion sy'n agored i gael eu denu i derfysgaeth, ac yn llunio cynllun cymorth ymyrraeth amlasiantaethol, os oes angen. Mae Panel y Channel yn adrodd wrth Fwrdd CONTEST Ceredigion (gweler uchod), y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Grŵp Gweithrediadau Lleol (CYSUR).

Cynrychiolaeth y Cabinet: Dim

Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cefndir: Sefydlwyd y trefniadau rhanbarthol i ddiwallu gofynion Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru) 2014 a'r bwriad yw datblygu arferion diogelu ar draws y rhanbarth.

Cynrychiolwyr y Cabinet: Neb

Cyngor Ieuenctid Ceredigion

Cefndir: Sefydlodd Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion Gyngor Ieuenctid Ceredigion er mwyn sicrhau bod gan bobl ifanc yng Ngheredigion y cyfle i leisio eu barn mewn fforwm cyhoeddus ar amrywiol faterion sy'n effeithio arnynt yng Ngheredigion ac mae'r aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o'r saith ysgol uwchradd yn y Sir, Hyfforddiant Ceredigion, Coleg Ceredigion ac amrywiol fudiadau/sefydliadau eraill (e.e Urdd Gobaith Cymru, Clybiau Sgowtiaid a Chlybiau Ffermwyr Ifanc, ac ati). Cyflwynir y cofnodion gerbron y Cabinet.

Cynrychiolwyr y Cabinet: Neb

Adran 4 Partneriaethau / Fforymau / Consortia / Cydbwyllgorau Rhanbarthol

Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC)

Cefndir: Cafodd y Cyd-bwyllgor hwn ei sefydlu'n ffurfiol ar y cyd â Chyngor Sir Powys er mwyn datblygu, monitro ac adolygu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn dilyn cyfnod fel consortiwm rhanbarthol.

Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Aelod Cabinet y Prifffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol ac Aelod Cabinet yr Economi ac Adfywio.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru

Cefndir: Sefydlwyd y Bwrdd hwn gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer cydweithio strategol rhwng Cyngorau Sir Ceredigion, Powys a Gwynedd.

Cynrychiolwyr y Cabinet/ Cyngor: Yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr.

Cydweithrediad Seilwaith Canolbarth Cymru

Cefndir: Cyd-bwyllgor gyda Chyngor Sir Powys yw hwn sy'n cwrdd yn ôl yr angen..

Cynrychiolwyr y Cabinet: Aelod Cabinet y Prifffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol ynghyd â Thai.

Partneriaeth Addysg Canolbarth Cymru

Cefndir: Mae hon yn bartneriaeth ar y cyd â Chyngor Sir Powys, gan gydweithio ar nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol cytûn ac mae cynrychiolaeth ar ystod lawn o weithgorau trawsranbarthol, er mwyn sicrhau darpariaeth deg a'r canlyniadau gorau i ysgolion ym Mhowys a Cheredigion.

Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Dim

Cefnogi Pobl – Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cefndir: Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Amlsectoraidd yw hwn a sefydlwyd ym mis Awst 2012 i sicrhau bod cymorth tai sy'n cael ei gyflenwi'n gydweithredol yn effeithlon ac yn effeithiol yn rhanbarthol ac yn lleol; yn unol â'r Canllawiau Cefnogi Pobl Cenedlaethol.

Cynrychiolwyr y Cabinet/Cyngor: Aelod Cabinet Porth Gofal – Gwasanaeth Ymyrraeth wedi'i Thargedu ac Aelod Cabinet y Prifffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol ynghyd â Thai ac Aelod Cabinet Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd.

Cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion RHAN 8 Rhestr o fforymau ymgynghorol, gweithgorau, paneli a phartneriaethau

Adran 4 Partneriaethau / Fforymau / Consortia / Cydbwyllgorau Rhanbarthol

Diweddarwyd ym mis Chwefror 2022

Bwrdd Cynllunio Ardal ar Gamddefnyddio Sylweddau

Cefndir: Partneriaeth Amlasiantaeth yw Bwrdd Cynllunio Ardal Dyfed sy'n gyfrifol am gefnogi'r gwaith o gynllunio'r gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, eu comisiynu a rheoli eu perfformiad.

Yr awdurdodau cyfrifol statudol yw Heddlu Dyfed-Powys, Awdurdodau Lleol Ceredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi, a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Atal, a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dyfed yn awdurdodau cyfrifol anstatudol.

Mae strwythur y Bwrdd Cynllunio Ardal yn cynnwys Gweithrediaeth, ac mae Grŵp Cyflenwi Strategaeth a Grŵp Perfformiad a Chyllid yn sail iddo.

Cynrychiolwyr y Cyngor: Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

Cefndir: Partneriaeth economaidd ranbarthol yw Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru sy'n cynnwys Ceredigion a Phowys. Y diben yw datblygu economi Canolbarth Cymru.

Cynrychiolwyr y Cabinet / Cyngor: Arweinydd y Cyngor; Aelod Cabinet yr Economi ac Adfywio; Aelod Cabinet Cyllid a Chaffael

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru

Cefndir: Sefydlwyd y Partneriaeth hon yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru mewn perthynas â sefydlu a chynnal trefniadau cronfeydd cyfun, fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015. Mae'r awdurdodau lleol sy'n rhan o'r bartneriaeth yn cynnwys Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Mae'r bartneriaeth yn gweithredu yn unol â chytundebau rhwng awdurdodau, mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Hywel Dda. Mae gwaith Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru yn cael ei gyfarwyddo gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru (gweler isod).

Cynrychiolwyr y Cyngor: Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru

Cefndir: Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru yn dwyn ynghyd uwch arweinwyr y GIG, y Cyngor, gwasanaethau addysg a gwasanaethau plant, tai, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a'r trydydd sector, darparwyr annibynnol, defnyddwyr a gofalwyr. Mae'n cyfarwyddo gwaith Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (gweler uchod) ac wrth wneud hynny, mae'n cyflawni dyletswyddau statudol a gyflwynwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru yn gweithio'n agos gyda thri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y rhanbarth, gan ganolbwyntio ar feysydd o ddiddordeb cyffredin.

Cynrychiolwyr y Cyngor: Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol/Dirprwy Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

B Aelodau Eiriolwyr

Penodir Aelodau Eiriolwyr i'r meysydd canlynol:

Maes
Pobl Hŷn 50+
Cydraddoldeb
Cynaliadwyedd
Diogelu
Bioamrywiaeth
Gofalwyr
Brwydro yn erbyn Tlodi
Plant a Phobl Ifanc
Lluoedd Arfog
Amrywiaeth
Anableddau Dysgu
Iechyd y Cyhoedd
Iechyd Meddwl
Datblygu'r Aelodau
Iechyd a Diogelwch
Atal Caethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol
Trais Domestig
Digidol

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r: Cyngor****Dyddiad y cyfarfod: 3 Mawrth 2022****Teitl: Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2021-22****Pwrpas yr adroddiad: Cymeradwyo Fframwaith Llywodraethu 2021-22, Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2022-2023 a Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22****Er Penderfyniad****Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet: Y Cyngorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Gyswilt Cwsmeriaid, y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu a Phobl a Threfniadaeth****CEFNDIR**

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal adolygiad o effeithiolrwydd eu fframwaith llywodraethu o leiaf bob blwyddyn, gan gynnwys eu systemau rheoli mewnol. Rhaid cofnodi'r adolygiad hwn mewn Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'i gyhoeddi fel rhan o Gyfrifon Blynyddol y Cyngor. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am fonitro'r trefniadau llywodraethu ar ran y Cyngor.

Rhaid paratoi'r Datganiad yn unol ag arferion priodol, gan gynnwys y rhai a nodir yn un o fframweithiau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Ffederasiwn Rhyngwladol y Cyfrifyddion (IFAC) sef '*Delivering Good Governance in Local Government*' (2016). Mae'r Fframwaith, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2016, wedi'i seilio ar Fframwaith Rhyngwladol CIPFA/IFAC sef yr *International Framework: Good Governance in the Public Sector*. Mae'r fframwaith yn cynnwys diffiniad newydd o lywodraethu sy'n pwysleisio pa mor hanfodol yw llywodraethu da wrth alluogi sefydliad i gyflawni ei nodau:

- Mae llywodraethu yn cynnwys y trefniadau sydd yn eu lle i sicrhau bod y deilliannau arfaethedig ar gyfer rhanddeiliaid yn cael eu diffinio a'u cyflawni;
- Er mwyn cyflawni llywodraethu da yn y sector cyhoeddus, mae'n rhaid i gyrrff llywodraethol ac unigolion sy'n gweithio i sefydliadau yn y sector cyhoeddus bob amser geisio cyflawni amcanion eu sefydliadau er budd y cyhoedd, wrth weithredu;
- Mae gweithredu er budd y cyhoedd yn awgrymu ystyriaeth sylfaenol o'r manteision i'r gymdeithas, a ddylai arwain at ganlyniadau positif i ddefnyddwyr y gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r fframwaith rhyngwladol yn cynnwys saith egwyddor o lywodraethu a fydd yn galluogi sefydliadau, partneriaethau'r sector cyhoeddus ac awdurdodau cyfunol i gyflawni eu deilliannau wrth weithio er budd y cyhoedd. Cefnogir yr egwyddorion

ymhellach gan egwyddorion craidd o ran ymddygiad sy'n dangos yr hyn y dylai llywodraethu da fod o safbwynt ymarferol.

Dyma'r egwyddorion:

Egwyddor A: Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolau'r gyfraith.

Egwyddor B: Sicrhau ymgysylltu helaeth ac agored â rhanddeiliaid.

Egwyddor C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.

Egwyddor D: Penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig i'r graddau gorau posib

Egwyddor E: Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion y tu mewn iddo.

Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus mewn ffordd gadarn.

Egwyddor G: Defnyddio arferion gweithio da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol.

Y Fframwaith Llywodraethu Blynyddol

Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion, mabwysiadwyd y fframwaith newydd yn 2016-17 a dilynwyd y canllawiau fel sail ar gyfer profi strwythurau llywodraethu trwy:

- Adolygu'r trefniadau presennol
- Datblygu a chynnal cod llywodraethu lleol sy'n gyfredol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau effeithiolrwydd parhaus
- Adrodd yn gyhoeddus ar sut yr ydym yn cydymffurfio â chod ein hunain yn flynyddol a sut yr ydym wedi monitro effeithiolrwydd ein trefniadau llywodraethu yn ystod y flwyddyn ac o ran newidiadau arfaethedig.

Yn unol ag argymhellion Archwilio Cymru, cynhaliwyd gweithdai ar gyfer aelodau/swyddogion er mwyn adolygu'r trefniadau llywodraethu presennol yn erbyn y fframwaith ac yn unol â'r canllawiau, mae pob egwyddor wedi cael ei sgorio i adlewyrchu pa mor dda y mae ein trefniadau llywodraethu o ran cyflawni llywodraethu da.

Mae cerdyn sgorio'r adolygiad terfynol a gwblhawyd yn ystod y gweithdai wedi'i gynnwys (gweler **Atodiad 1**). I grynhoi, adolygwyd 94 ymddygiad ac yn sgil hynny: cafodd 1 ohonynt well sgôr gan godi o 7/8 i 9/10. Golyga hyn fod gan 91 ohonynt sgôr o 9/10, fod 2 wedi aros ar 7/8 a bod 1 ar 5/6.

O ganlyniad i'r sgoriau diwygiedig, mae camau gweithredu wedi'u nodi ar gyfer 2022-2023 ac maent wedi'u cynnwys yn adran 6 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Mae pob sgôr yn nogfen y Fframwaith Llywodraethu yn sgôr allan o 10 e.e. mae sgôr o 7/8 yn golygu sgôr o rhwng 7 ac 8 allan o 10.

Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft ar gyfer 2021-22 (gweler **Atodiad 2**) wedi'i baratoi yn unol â'r fframwaith. Mae'n rhoi sylw i'r newidiadau angenrheidiol a wnaed oherwydd y pandemig ac mae'n cynnwys y canlynol:

- Cydnabyddiaeth o'r cyfrifoldeb dros sicrhau llywodraethu da
- Cyfeiriad at yr asesiad
- Barn ar lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei ddarparu
- Adroddiad cynnydd ynghylch sut y mae'r problemau a nodwyd y llynedd wedi'u datrys
- Cynllun gweithredu a gytunwyd yn ei gylch ar gyfer ymdrin â materion llywodraethu yn ystod y flwyddyn nesaf
- Casgliad

Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol Drafft yn dwyn ynghyd yr holl godau a dogfennau lleol sy'n amlinellu trefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'r Cod wedi'i ddiwygio ar gyfer 2022-23 (gweler **Atodiad 3**).

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y dogfennau drafft (**Atodiad 2 a 3**) ar 19 Ionawr 2022. Yn y cyfarfod hwnnw, cytunodd y Pwyllgor hefyd ynghylch y canlynol:

1. Sefydlu 'cof corfforaethol' er mwyn cael cysondeb. Byddai hyn yn sicrhau bod cysylltiad rhwng yr argymhellion a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau, gan gynnwys adroddiadau Archwilio Cymru, a pholisïau, hunanasesiadau a fframweithiau'r Cyngor. Byddai angen cynnwys hyn yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol er mwyn sicrhau gwaith olrhain a monitro.

Cadarnhawyd i'r Pwyllgor y byddai hyn yn cael ei wneud yn rhannol drwy'r Cofnod o Gamau Gweithredu Cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a oedd newydd ei sefydlu.

Caiff testun ychwanegol ei gynnwys i nodi'r dystiolaeth, y camau gweithredu a'r sgoriau posibl yn Nogfen Fframwaith Llywodraethu 2021-22 ac i nodi'r llwyddiannau, y camau gweithredu a'r canlyniadau corfforaethol yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021-2022 er mwyn sicrhau cysylltiad ag argymhellion Archwilio Cymru yn ei adroddiad 'Adolygiad o Wasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion 2020-21', a chaiff y dogfennau diwygiedig hyn eu hailgyflwyno i'r Cyngor unwaith y bydd y newidiadau wedi'u gwneud ac y bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi'u hystyried.

(Mae'r Adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Ionawr 2022 ynglŷn ag Adroddiad Archwilio Cymru a Chofnodion y Cyfarfod ar gael drwy fynd at:

<https://council.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=147&MId=259&Ver=4&LLL=0> ac mae'r Adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 19 Ionawr 2022 a Chofnodion y Cyfarfod ar gael drwy fynd at:

<https://council.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=147&MId=209&Ver=4&LLL=0>

2. Ystyried rhoi eglurhad ar ddechrau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ynglŷn â'r bandiau a ddefnyddiwyd wrth ddarparu sgoriau yn unol â chanllawiau CIPFA. Byddai hyn yn hwyluso pethau i'r cyhoedd a fyddai'n darllen y ddogfen.

Gan fod y bandiau yn cael eu defnyddio yn nogfen y Fframwaith Llywodraethu, mae'r ddogfen honno wedi'i diweddarau i gynnwys esboniad ynglŷn â'r bandiau a ddefnyddir wrth sgorio (gweler **Atodiad 1** - ar frig y tabl ar dudalen 2) fel a ganlyn:

Sgoriau

Noder bod pob sgôr yn nogfen y Fframwaith Llywodraethu yn sgôr allan o 10 e.e. mae sgôr o 7/8 yn golygu sgôr rhwng 7 ac 8 allan o 10.

Yn unol â'r cais, mae brawddeg wedi'i hychwanegu at Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021-2022 er eglurder (gweler tudalen 5 yn **Atodiad 2**) fel a ganlyn:

Mae pob sgôr yn nogfen y Fframwaith Llywodraethu yn sgôr allan o 10 e.e. mae sgôr o 7/8 yn golygu sgôr o 7 neu 8 allan o 10.

Mae mân gywiriad hefyd wedi'i wneud i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2021-2022 (gweler tudalen 4 yn **Atodiad 2**) i adlewyrchu'r ffaith bod y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol wedi'i adolygu ymhellach gan ystyried y newidiadau parhaus i'r trefniadau llywodraethu oherwydd pandemig y coronafeirws.

Oes Aseiad Effaith Integredig Na wedi ei gwblhau? Os na, Dim newid mewn polisi esboniwch pam

Crynodeb: Mae'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol yn nodi sut y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd sy'n dangos atebolrwydd, tryloywder, effeithiolrwydd, uniondeb, didueddrwydd a chynhwysedd.

**Llesiant
Cenedlaethau'r
Dyfodol:**

Hirdymor: Mae Llywodraethu Corfforaethol yn ymwneud â datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys bod gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion y tu mewn iddo yn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y Cyngor

Integreiddio: Mae Llywodraethu Corfforaethol yn sicrhau bod risgiau a pherfformiad yn cael eu rheoli trwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.

Cydweithio: Mae Llywodraethu Corfforaethol yn sicrhau Gweithredu arferion da o ran

Tudalen 565

Cynnwys:	tryloywder, adrodd ac archwilio, er mwyn darparu atebolrwydd effeithiol. Mae Llywodraethu Corfforaethol yn sicrhau bod canlyniadau'n cael eu diffinio o ran manteision economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cynaliadwy.
Atal:	Mae Llywodraethu Corfforaethol yn golygu pennu'r ymyriadau sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig i'r graddau gorau posib.
Argymhelliad/ Argymhellion:	Bod y Cyngor yn penderfynu gwneud y canlynol: <ol style="list-style-type: none">1. Nodi cynnwys Dogfen Fframwaith Llywodraethu 2021-2022 (Atodiad 1)2. Cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2021-2022 (Atodiad 2)3. Cymeradwyo Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2022-2023 ar gyfer ei gyhoeddi (Atodiad 3)
Rheswm dros y penderfyniad:	Er mwyn symud ymlaen i gyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22 yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.
Trosolwg a chraffu:	Ystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 19/1/2022
Fframwaith Polisi:	Dim
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Mae Llywodraethu Corfforaethol effeithiol yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni'r holl Flaenoriaethau Corfforaethol: <ol style="list-style-type: none">1. Hybu'r Economi2. Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl3. Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd4. Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol
Goblygiadau Ariannol:	Ni fydd y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'r Gofynion
Goblygiadau Cyfreithiol:	Ni fydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth/rheoliadau
Pwerau Statudol:	Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Atodiad 1 – Dogfen Fframwaith Llywodraethu 2021-22

Tudalen 566

Atodiad 2 – Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft
2021-22

Atodiad 3 – Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2022-
2023

**Swyddog Arweiniol
Corfforaethol:**

Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyfreithiol
a Llywodraethu / Swyddog Monitro

Dyddiad:

9/2/2022

CYNGOR SIR CEREDIGION



Adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu 2021 -2022

Scorio						
Noder fod pob sgôr a ddefnyddir trwy'r Ddogfen Fframwaith Llywodraethu hon allan o 10 e.e. mae sgôr 7/8 yn golygu sgôr rhwng 7 a 8 allan o gyfanswm o 10 marc						
A. Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith						
Mae sefydliadau llywodraeth leol yn atebol nid yn unig am y swm y maent yn ei wario, ond hefyd am y ffordd y maent yn defnyddio'r adnoddau y maent yn gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am allbynnau cadarnhaol a negyddol, ac am y canlyniadau a gyflawnwyd ganddynt. Yn ogystal, maent yn ysgwyddo cyfrifoldeb cyffredinol dros wasanaethu budd y cyhoedd drwy lynu wrth ofynion deddfwriaeth a pholisïau'r llywodraeth. Mae'n hanfodol y gall pob sefydliad ddangos, yn ei gyfanrwydd, pa mor briodol yw ei holl weithredoedd a bod systemau ar waith i annog a gorfodi ymlyniad wrth werthoedd moesegol a pharch at reolaeth y gyfraith.						
Is-egwyddorion	Ymddygiad	Tystiolaeth	Yn ddisgwyliedig	✓/X	Sgôr	Gweithred
A1 Ymddwyn ag uniondeb	Elin Prysor / Lowri Edwards/Steve Johnson/Amanda Roberts / Alex Jenkins A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn ag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu'n amlwg ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan warchod enw da'r sefydliad drwy wneud hynny	<ul style="list-style-type: none"> • Cod Ymddygiad yr Aelodau (diweddarwyd yn 2016) ac ar gael ar wefan y Cyngor, ar y fewnrwyd (CeriNet) o dan Adnoddau Cynghorwyr, ac yn y Cyfansoddiad. • Siart lif Cod Ymddygiad yr Aelodau (diweddarwyd yn 2016). • Cod Ymddygiad y Swyddogion ar gael, ynghyd â'r holl bolisiau a strategaethau corfforaethol, ar wefan y Cyngor/CeriNet. • Cadarnhad unigol o ran cydymffurfiaeth. • Darperir hyfforddiant cynefino a hyfforddiant dilynol ar y Cod Ymddygiad a moeseg i'r holl Aelodau. • Darparwyd hyfforddiant Moeseg/Twyll ar y cyd ag yswiriwr y Cyngor yn ystod gweithdy chwarterol y Rheolwyr Corfforaethol ar 28.5.2021. Mae sleidiau o'r cyflwyniad yn ffurfio sylfaen modiwl e-ddysgu ar gyfer yr holl Staff a'r Archwilwyr Mewnol ('IA') a'r Gwasanaethau Llywodraethu sy'n gweithio gyda'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu i baratoi sefyllfaoedd ar gyfer hyfforddiant. Cefnogir yr hyfforddiant gan adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o Strategaeth y Cyngor ynghylch Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian). • Mae Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg yn mynd rhagddo hefyd (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd). • Darparir cyngor o ddydd i ddydd gan y Swyddog Monitro ('MO') a'r Swyddog Cymorth Craffu. • Polisi Disgyblu (Tachwedd 2017). • Adolygiad Datblygiad Personol. • Mae Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau ar gael gan Wasanaethau Democrataidd y Cyngor. Fe'i hadolygir gan y Swyddog Monitro. • Ceir ffurflenni datgan buddiannau a lletygarwch ar gyfer Swyddogion ac Aelodau ar CeriNet. • Mae MO yn anfon negeseuon atgoffa a chyngor rheolaidd i'r staff drwy e-ddiweddariadau newyddion mewnol. • Mae MO yn monitro ac yn adolygu datganiadau'r Prif Swyddogion bob blwyddyn. • Rhoddodd MO wybod i'r Prif Swyddogion fod angen iddynt ddatgan cysylltiadau personol agos â Swyddogion eraill neu Aelodau (gweler e-ddiweddariad newyddion MO ar 20.7.2021 	Codau Ymddygiad	✓	9/10	<p>Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.</p> <p>Bydd y MO yn parhau i gynghori'r Aelodau ynglŷn â'r angen i ddatgan lletygarwch / rhoddion. Bydd MO yn cynghori'r Prif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cysylltiadau personol agos â Swyddogion eraill neu Aelodau. <p>Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion</p> <p>Bydd MO a Swyddog Corfforaethol Arweiniol y Gwasanaethau Democrataidd yn parhau i gynnal adolygiad o'r Aelodau sy'n dal swyddi cyfarwyddwr, swyddi ymddiriedolwr neu aelodaeth pan gânt eu penodi i gyrff allanol, ac i bwyllgorau. Bydd MO yn ystyried adborth gan yr Aelodau a gwerth ychwanegol, a bydd yn parhau i ddiweddarau Cod Ymddygiad yr Aelodau a'r Swyddogion.</p>
			Llofnod Unigol i gadarnhau cydymffurfio â'r cod	✓		
			Cynefino ar gyfer Aelodau a Staff newydd ynghylch safon yr ymddygiad a ddisgwyilir	✓		
			Arfarnu perfformiad a adwaenir fel arall yn Adolygiadau Datblygiad Personol	✓		
		Ffurflenni Datgelu'r Swyddogion				

		<p>ar CeriNet), gan gynnwys rhoi gwybod i'r Prif Swyddogion yng nghyfarfodydd y Grŵp Arweiniol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynhelir adolygiad sylweddol o'r Cod Ymddygiad i Swyddogion ar hyn o bryd. • Cyngor wedi'i ddiweddarau am Ddatganiadau a Chofrestru Buddiannau Cyflogeion y Cyngor (cyhoeddwyd diweddariadau e-bost yn cynnig newyddion ar 16.12.2021 ac 20.7.2021 gan gynnwys ynghylch Grantiau i fusnesau NDR Cronfa Busnes Cyfyngiadau Covid-19 (cyhoeddwyd diweddariad Newyddion ar 8.1.2021). • Mae arfer MO o hysbysu Swyddogion ynghylch datgelu buddiannau yn parhau. Ceir nodiadau atgoffa rheolaidd trwy gyfrwng Diweddariadau Newyddion ar system CeriNet ac yn y Grŵp Arweiniol. Cyhoeddwyd diweddariad am Ddatganiadau Budd a Lletygarwch Cyflogeion y Cyngor ar 20 Gorffennaf 2021 ar Wefan CeriNet y Cyngor, gan gynnwys dolenni i'r ffurflenni perthnasol a'r Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol, ynghyd â nodyn atgoffa y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu geisiadau am gyngor i MO. Hysbysir Prif Swyddogion trwy ddiweddariad newyddion system CeriNet o neges e-bost MO ynghylch datgelu budd a Lletygarwch ac anfonwyd nodyn i atgoffa'r Prif Swyddogion. • Cynhelir adolygiad ar hyn o bryd o'r cyrff allanol sydd wedi penodi Aelodau, gan gynnwys gwerth ychwanegol, a hefyd, diweddarau'r Cyfansoddiad. • Datgelu budd gan Aelodau a Swyddogion mewn cyfarfodydd, ceir cyfle i wneud cyfeiriad at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati. • Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion. • Cwblhawyd ffurflenni Goddefeb wedi'u diweddarau ar gyfer Aelodau. • Mae gofyn i aelodau ddiweddarau'r Gofrestr Buddiannau yn unol â'r Cod Ymddygiad, ac yn ogystal, bob blwyddyn, sy'n gyfle i gyfeirio at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati. Bellach, mae hyn yn cynnwys aelodau lleig/annibynnol o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Cyhoeddir llyfryn Cofrestr Buddiannau ar gyfer pob Aelod ar Wefan y Cyngor. • Anfonir cyngor rheolaidd rhagweithiol a nodiadau atgoffa i Aelodau a Swyddogion yn ôl y gofyn. • MO i gynghori Swyddogion ymhellach o'r angen i ddatgelu buddiannau mewn sefydliadau sy'n mynd yn groes i fuddiannau'r Cyngor, neu y gallent fynd yn groes iddynt, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Contractwyr; ○ Llywodraethwyr Ysgol; ○ Clercod Cynghorau Tref a Chymuned; ○ Aelodau cynghorau Tref a Chymuned; a 			<p>Diweddarau ffurflen Goddefeb i Aelodau</p> <p>Oedwyd arfarniadau oherwydd Pandemig Covid-19 ond maent bellach wedi ailgychwyn (fe'u cynhaliwyd ym mis Mai 2021 ac maent yn cael eu cynnal dan drefniant rhith o hyd).</p> <p>Caiff Cod Ymddygiad diwygiedig i Swyddogion ei gyhoeddi ar ôl iddo gael ei ddiweddarau a'i gymeradwyo.</p> <p>Swyddogion i gwblhau modiwl e-hyfforddiant Moeseg/Twyll Gorfodol ar ôl iddo gael ei gwblhau a'i gymeradwyo.</p>
--	--	---	--	--	---

		<ul style="list-style-type: none"> ○ Llywodraethwyr Ysgol. • MO i gynghori Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan: <ul style="list-style-type: none"> ○ Swyddi Cyfarwyddwr; a ○ Chyflogaeth arall <p>Gan gynnwys a yw'n gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor neu beidio. Anfonodd MO neges e-bost at Swyddogion ar 20.7.2021 yn atgoffa Swyddogion o ofynion datganiadau a Lletygarwch a Buddiannau (gan gynnwys ynghylch Grantiau Cyfnod Clo Estynedig Covid-19 i fusnesau).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diweddardwyd ffurflenni goddefebau i Aelodau (2020). • Rhaid i Swyddogion Cymwys Proffesiynol ac Athrawon fodloni gofynion eu sefydliad/corff proffesiynol. • Mae aelodau yn cwblhau modiwl hyfforddiant AD. • Rhoddir hyfforddiant am safonau ymddygiad i Reolwyr a Staff. • Mae MO yn dosbarthu i arweinwyr grwpiau gwleidyddol ddiweddariadau/penderfyniadau gan Banel Dyfarnu Cymru, a'i rôl ef yw penderfynu ynghylch achosion honedig o dorri amodau gan aelodau etholedig a chyfetholedig yn erbyn cod ymddygiad statudol eu hawdurdod. • Bydd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau ddyletswyddau newydd (o fis Mai 2022) dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021'), a fydd yn cynnwys: • Monitro cydymffurfiaeth gan arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor gyda'u dyletswyddau dan A.52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000; • Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor am faterion sy'n ymwneud â'u dyletswyddau dan A.52A(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000. • Mae'r ddyletswydd i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn ymwneud â safonau ymddygiad, a sicrhau bod hyn yn weladwy ac yn cael ei ddangos yn gyson a gyda thystiolaeth er mwyn diogelu enw da y Cyngor. 				
	<p>Elin Prysor A1.2 Sicrhau bod yr Aelodau'n arwain y blaen o ran sefydlu egwyddorion neu werthoedd gweithredol safonol penodol ar gyfer y Sefydliad a'i Staff, a'u bod yn cael eu mynegi a'u deall. Dylai'r rhain adeiladu ar Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (egwyddorion Nolan).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ceir perthynas waith dda â Llywodraeth Cymru, fel un o'r prif reoleiddwyr. Ceir deialog reolaidd â chynrychiolwyr Archwilio Cymru. • Adolygwyd a chymeradwywyd gweledigaeth y Cyngor gan y Cabinet, ac mae'r weledigaeth yn pennu nifer o Amcanion Strategol hirdymor. • Mae Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 yn cynnwys Amcanion Llesiant a Gwella 2019-20 ac yn amlinellu blaenoriaethau ac amcanion lefel uchel y Cyngor gyda chamau gweithredu ategol yn flynyddol. Ystyriodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella drafft 2020-21 a chymeradwyodd yr Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor. • Cod Ymddygiad yr Aelodau (2016). • Mae Cofrestr o Fuddiannau'r Aelodau ar gael gan Wasanaethau Democraidd y Cyngor. Fe'i hadolygir gan MO. 	<p>Mae'r safonau yn adlewyrchu Gwerthoedd Gwasanaeth Cyhoeddus Llywodraeth Cymru</p> <p>Cyfathrebu gwerthoedd a rennir â'r Aelodau, Staff, y gymuned a phartneriaid</p>	<p>✓</p> <p>✓</p>	<p>9/10</p>	<p>Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.</p>

		<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Aelodau a'r Swyddogion yn datgan buddiannau mewn cyfarfodydd. Mae'r Prif Swyddogion yn datgan buddiannau bob blwyddyn ac yn ysgwyddo rhwymedigaethau parhaus i ddatgan buddiannau. Mae'r Aelodau yn diweddarau eu Cofrestr Buddiannau bob blwyddyn ac yn ysgwyddo rhwymedigaethau parhaus i ddatgan buddiannau (gan gynnwys aelodau lleyg/annibynnol y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu). Ceir deialog reolaidd ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('PSOW') a rheoleiddwyr eraill gan gynnwys Estyn, AGC, ICO ac IPCO. 				
<p>Elin Prysor / Lowri Edwards A1.3 Arwain drwy esiampl a defnyddio'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredol safonol hyn fel fframwaith ar gyfer y broses benderfynu a gweithredoedd eraill</p>		<ul style="list-style-type: none"> Mae <u>cofnodion pob pwyllgor</u> yn cynnwys eitem lle y mae gofyn i'r Aelodau a'r Swyddogion ddatgan buddiannau. Mae'r <u>Cyfansoddiad</u> yn destun adolygiadau cynhwysfawr, ac yn cael ei ddiweddarau yn ôl y gofyn, gan gynnwys newidiadau arfaethedig i'r Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad, i wneud argymhellion am newidiadau i'r Cyfansoddiad i'r Cyngor. Mae diwygiad pellach yn 2021 yn mynd rhagddo, gan bod y Cyfansoddiad yn ddogfen fyw, er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn unol â'r angen. Cymeradwyodd y Cyngor y diwygiadau ar 18.3.21 a 23.9.21. Cynhelir ymarfer cymharu o'r Cyfansoddiad Cyfredol yn erbyn y Cyfansoddiad Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan CLILC. Mae Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad, sy'n cynnwys Cydbwysedd Gwleidyddol, yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried cynigion ynghylch diweddariadau i'r Cyfansoddiad. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar 15.2.21, 19.4.21, 30.6.21, 10.8.21 ac 8.11.21. Mae MO/Swyddog Llywodraethu yn adrodd i'r Cyngor er mwyn diweddarau dirprwyaethau a'r Cyfansoddiad. Datganiadau Budd blynyddol y Prif Swyddog. Mae'r <u>Strategaeth Gorfforaethol</u> (2017-2022) yn cynnwys blaenoriaethau'r Cyngor. Mae'r Amcanion Llesiant a Gwella yn datblygu'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn <u>Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022</u> ac fe'u hadolygir bob blwyddyn. Datblygir y rhain trwy ymgynghori gyda'r cyhoedd ac Aelodau. Ystyriodd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21 drafft, gan gymeradwyo'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor. Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol, a gyflwynwyd ym mis Medi 2017, ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ('WFGA') (rhwng mis Medi 2017 a mis Tachwedd 2021, fe'i cwblhawyd gan 2,834 o gyflogeion, yr oedd 343 wedi ei gwblhau yn Gymraeg a 2,491 yn Saesneg). Rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, roedd 	<p>Gwerthoedd arweinyddiaeth a osodir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu dilyn.</p>	<p>✓</p>	<p>9/10</p>	<p>Tybir bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn cydymffurfio ac yn bodloni arferion da. Nid oes angen camau pellach.</p>
			<p>Arferion gwneud penderfyniadau</p>	<p>✓</p>		<p>Bydd y Grŵp Arweiniol yn cael ei ddiweddarau am e-ddysgu wrth i'r gwasanaeth Adnoddau Dynol roi adroddiadau i'r Grŵp Arweiniol.</p>
			<p>Datganiadau o fuddiannau yn cael eu gwneud mewn cyfarfodydd</p>	<p>✓</p>		
			<p>Ymddygiad mewn cyfarfodydd</p>	<p>✓</p>		
			<p>Gwerthoedd cyffredin yn arwain y broses gwneud penderfyniadau</p>	<p>✓</p>		
			<p>Datblygu a chynnal pwyllgor safonau effeithiol</p>	<p>✓</p>		

		<p>242 o gyflogeion wedi cwblhau'r modiwl, 40 yn Gymraeg, 202 yn Saesneg (* mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael). Anfonwyd nodiadau atgoffa i'r Staff nad ydynt wedi cwblhau'r modiwl eto ac mae Grwpiau Arweiniol yn cael adroddiadau o bryd i'w gilydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyriwyd materion ynghylch safonau ac ymddygiad aelodau gan <u>Bwyllgor Moeseg a Safonau</u> y Cyngor. Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd, ac fe'u cadeirir gan unigolyn annibynnol – pennu goddefebau, ac ystyried materion strategaeth/polisi a chael diweddariadau gan Lyfr Achosion PSOW ac achosion APW. • Prif ddyletswyddau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yw gwella'r safonau o ran ymddygiad yr Aelodau a gweithredu Cod Ymddygiad yr Aelodau. • Mae MO yn cynghori'r Pwyllgor a'r Aelodau. • Mae'r Pwyllgor Safonau a Moeseg yn chwarae rhan weithredol o ran hyfforddi Aelodau. • Cynhaliwyd Cynhadledd Safonau 2018 ar y cyd rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys (ar 14 Medi 2018). Y bwriad oedd y byddai Cynghorau Gogledd Cymru yn cynnal cynhadledd debyg yn 2021- fe'i gohiriwyd oherwydd Covid-19. • Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Moeseg a Safonau i'r Cyngor ym mis Hydref 2021. • Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cynnal ymarfer meincnodi bob blwyddyn er mwyn darparu rhagor o sicrwydd ynglŷn ag adolygu proses y <u>Datganiad Llywodraethu Blynyddol</u> ('AGS'). • Mae IA yn adolygu'r broses ac yn rhoi adroddiad amdani bob blwyddyn. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cwrdd yn rheolaidd i ystyried trefniadau llywodraethu ac adroddiadau archwilwyr allanol. Caiff ei gadeirio gan Aelod anweithredol. • Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Cyngor ar 23.9.2021 ac fe'i cymeradwywyd. • <u>Strwythur Llywodraethu Covid-19</u> wedi'i gyflwyno gan y Cyngor, gan gynnwys pwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr a Grŵp Arweiniol y Cyngor trwy ddefnyddio Penderfyniadau Brys ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud ag ymateb y Cyngor i COVID-19), yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Adolygwyd Penderfyniadau Brys yr Arweinydd yn rheolaidd, a daeth i ben ar 31.8.2021. • Mae'r Grŵp Rheoli Aur yn parhau dan weithdrefnau gweithredol yn unol â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 • Cyhoeddir Cofnod Penderfyniadau y Grŵp Rheoli Aur ar wefan y Cyngor). • Cyhoeddir <u>Cofnod o'r Penderfyniadau</u> a wneir gan Grŵp Arweiniol Covid-19 ('Grŵp Rheoli Aur') ar Wefan y Cyngor. 				
--	--	---	--	--	--	--

	<p>Elin Prysor/Alun Williams A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredol safonol priodol drwy bolisiau a phrosesau a adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Diweddarwyd a chymeradwywyd '<u>Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)</u>' effeithiol gan y Cyngor ar 17.6.21 (cadarnhawyd y cofnodion ar 23.9.21). • Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ynghylch Atal Twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ddiwedd y flwyddyn. • Mae <u>Cofrestr o fuddiannau Aelodau</u> ar gael gan Wasanaethau Democrataidd y Cyngor. • Datganiadau budd/lletygarwch ar gyfer Swyddogion, yn ôl y gofyn. • Mae MO yn anfon negeseuon atgoffa ynghylch datgan buddiannau / lletygarwch at y Staff bob chwarter. • Mae NFI yn tynnu sylw at Staff sy'n gyfarwyddwyr cwmnïau sy'n ymdrin â'r Cyngor – os na fydd hyn wedi'i ddatgan, bydd IA yn ymchwilio ac yn rhoi adroddiad i MO. • Diweddarir y datganiadau o fuddiannau'r Prif Swyddogion bob blwyddyn. • Cedwir cofrestr o'r Swyddogion mewn swyddi â chyfyngiadau gwleidyddol, ac mae'r <u>Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Weithwyr Llywodraeth Leol</u> ar gael i'r gweithwyr ar CeriNet. • Darparwyd hyfforddiant Moeseg/Twyll ar y cyd ag yswiriwr y Cyngor yn ystod y gweithdy chwarterol i Reolwyr Corfforaethol ar 28.5.2021. Mae sleidiau o'r cyflwyniad yn sail ar gyfer modiwl e-ddysgu i'r holl Staff, ac mae IA a Gwasanaethau Llywodraethu yn gweithio gyda'r adran Dysgu a Datblygu i baratoi sefyllfaoedd ar gyfer hyfforddiant. • Caiff yr hyfforddiant ei gynorthwyo gan adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o Strategaeth y Cyngor ynghylch Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian). • Cynhaliwyd Archwiliad Moeseg yn ystod 2019. Mae Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg yn mynd rhagddo hefyd (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd). • Mae <u>Polisi Chwythu'r Chwiban</u> ar gael i Gyflogaeion a Chontractwyr (diweddarwyd yn 2018) ar CeriNet a chaiff ei ddiweddarau yn ôl yr angen. • MO yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ('CLO') ac mae'n cynghori'r sawl sy'n chwythu'r chwiban, pan fo hynny'n briodol. • Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban. Mae MO yn cadw cofrestr o gyfeiriadau ac yn adrodd i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu bob 6 mis. • Rhoddir sylw i bob cwyn yn unol â'r gweithdrefnau corfforaethol sy'n cynnwys camau ffurfiol ac anffurfiol a chaiff y rhain eu cyfleu i Staff yn rheolaidd. 	<p>Polisiau gwrth-dwyll a llygredd yn gweithio'n effeithiol ✓</p> <p>Cofrestr buddiannau wedi'i diweddarau (Aelodau a Staff) ✓</p> <p>Cofrestr wedi'i diweddarau o roddion a lletygarwch ✓</p> <p>Polisiau chwythu'r chwiban mewn lle ac yn diogelu unigolion sy'n codi pryderon ✓</p> <p>Polisi chwythu'r chwiban ar gael i aelodau'r cyhoedd, staff, partneriaid a chontractwyr ✓</p> <p>Polisi cwynion ac enghreifftiau o ymateb i gwynion am ymddygiad ✓</p> <p>Newidiadau / gwelliannau o ganlyniad i'r cwynion a dderbyniwyd ac a weithredwyd arnynt ✓</p> <p>Cod ymddygiad Aelodau a Swyddogion yn cyfeirio at ofyniad i ddatgan buddiannau ✓</p> <p>Cofnodion yn dangos bod datganiadau o fuddiannau wedi cael eu ceisio a bod datganiadau priodol wedi cael eu gwneud ✓</p>	<p>9/10</p>	<p>Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach</p> <ul style="list-style-type: none"> • Caiff Cofrestr o Benderfyniadau Dirprwyedig ei chyhoeddi. • Parhau i fonitro'r nifer sy'n gwneud y modiwl e-ddysgu gorfodol ynghylch chwythu'r chwiban. Mae'n is na'r gofyn ar hyn o bryd. • Adolygir Polisi Chwythu'r Chwiban.
--	--	---	--	-------------	---

		<ul style="list-style-type: none"> • Caiff y system gwynion ei monitro gan y Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth Corfforaethol. Adolygwyd y Polisi Cwynion <u>Corfforaethol</u>, cyflwynwyd Polisi newydd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7.7.21 ac i'r Cyngor ar 23.9.2021, a chymeradwywyd Polisi a Gweithdrefnau Pryderon a Chwynion Diwygiedig 2021 gan y Cyngor, ynghyd â'i weithrediad a'i gyhoeddi. • Gweithredir gwelliannau o ganlyniad i gwynion/ argymhellion a gafwyd. • <u>Hysbysiad Preifatrwydd Rhyddid Gwybodaeth a Chwynion y Cyngor.</u> • Ystyrir Adroddiad Cwynion Blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a llywodraethu a'r Cabinet cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor, ac fe'i cyflwynwyd i'r Cyngor a'i nodi. • Mae'r Adroddiad Cwynion Blynyddol yn cynnwys Gwersi a Ddysgwyd o'r cwynion a gafwyd. • Mae datgan buddiannau yn eitem ar agendâu a chofnodion y <u>Pwyllgor Moeseg a Safonau</u> a'r holl bwyllgorau eraill. • Cyhoeddir <u>cofnodion pob Pwyllgor</u> ar Wefan y Cyngor. • Cyhoeddir <u>Hysbysiadau o Benderfyniadau'r Cabinet</u> ar Wefan y Cyngor. • Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer cyhoeddi cofrestr penderfyniadau dirprwyedig yn parhau. Cyhoeddir <u>Log Penderfyniadau y Grŵp Rheoli Aur</u> (cofrestr penderfyniadau) yn rheolaidd, caiff ei gyflwyno i'r Grŵp Rheoli Aur (a'i gymeradwyo) ac ar ôl hynny, i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu (20.1.2021, 16.6.21 ac 1.12.2021) ac fe'i gyhoeddir ar Wefan y Cyngor. O ran penderfyniadau dirprwyedig eraill, cyhoeddir penderfyniadau dirprwyedig y Pwyllgor Rheoli Datblygiad ar gyfer pob Pwyllgor Rheoli Datblygiad. • Cyhoeddir <u>Cofrestr Contractau</u> ar Wefan y Cyngor. • Mae'r Cyngor yn gwneud paratodau i gydymffurfio gyda Deddf 2021 ynghylch y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (Cyflwynwyd adroddiad am y newidiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24.2.2021 a 3.6.2021 (i gynnwys gofyniad gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru i gael Is-Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu)), a chymeradwywyd newidiadau ynghylch recriwtio gan y Cyngor ar 18.3.2021, fel a ganlyn: <ol style="list-style-type: none"> a) newid enw y Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ynghyd â swyddogaethau ychwanegol ynghylch perfformiad a delio gyda chwynion a fyddai'n dod i rym o 1 Ebrill 2021; b) cychwyn y broses o recriwtio aelodau lleyg annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu; c) y cynigion ar gyfer y Panel Dethol Rhestr Fer; a'r d) Disgrifiad Rôl a'r Fanyleb Person. 				
--	--	--	--	--	--	--

		<ul style="list-style-type: none"> Cymeradwydd y Cyngor newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad ynghylch y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 23.9.21. Mae newidiadau a wnaethpwyd yn ystod 2021-2022 yn cynnwys paratodau ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> - newidiadau o ran y cylch gorchwyl/cylch gwaith/cyfansoddiad; - newid yr enw i'r 'Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'; - Yr aelodaeth fydd 2/3 Cynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (yn unol â'r diffiniad yn y Ddeddf) – mae'r broses recriwtio wedi cael ei chwblhau, ac eithrio'r Cyngor yn cymeradwyo ymgeiswyr llwyddiannus. - Dyletswydd y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd ei hun; - Rhaid i'r Cadeirydd fod yn unigolyn lleyg. - Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac - yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol fydd yn gallu cadeirio. Cyflwynwyd <u>adroddiad</u> am faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 21.5.2021, a gytunodd argymhell i'r Cyngor y dylai'r Pwyllgor gynnwys 6 Aelod o'r Cyngor Sir a 3 aelod lleyg (9 at ei gilydd). Cyflwynwyd <u>adroddiad</u> am faint y Pwyllgor i'r Cyngor ar 17.6.2021 a chytunodd y Cyngor i'r un cyfansoddiad o ran aelodau o 5.5.2022. 				
A2 Dangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol	Elin Prysor A2.1 Ceisio sefydlu, monitro a chynnal safonau a pherfformiad moesegol y sefydliad	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r <u>Pwyllgor Moeseg a Safonau</u> yn hyrwyddo cydymffurfiaeth foesegol i sicrhau bod gan y cyhoedd ffydd a hyder bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn gweithio yn unol â'r safonau moesegol a moesol uchaf. 	Craffu ar y broses o wneud penderfyniadau moesegol	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.
			Hyrwyddo cydymffurfiaeth foesegol ar lefel corff llywodraethu	✓		
	Elin Prysor A2.2 Seilio ymddygiad personol ar werthoedd moesegol a sicrhau eu bod yn treiddio i bob agwedd ar ddiwylliant a gweithrediad y sefydliad	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r <u>Pwyllgor Moeseg a Safonau</u> wedi bod yn rhagweithiol, gan arwain sesiynau hyfforddi a rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer y trefniadau goddefebau. Yn ddiweddar, adolygwyd y strwythur i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae swyddogion, fel Archwilwyr Mewnol, yn llofnodi datganiad blynyddol dan y Cod Moeseg. Cymeradwydd y Siarter Archwilio Mewnol gan y <u>Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu</u> ar 24 Chwefror 2021. Cynhaliodd Cyngor Sir Caerfyrddin archwiliad annibynnol o foeseg o fewn y Cyngor yn ystod 2019. Mae Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch moeseg yn mynd rhagddo (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd). Dosbarthwyd Holiadur er mwyn dadansoddi'r anghenion o ran hyfforddiant i'r Staff drwy gylchlythyr y Cyngor. Roedd y neges 	Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth foesegol	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach. Mae'r holl gamau gweithredu wedi dechrau ac maent yn parhau.

		yn gofyn am eu barn am ddiwylliant moesegol y Cyngor a bwriedir llunio modiwl hyfforddi yn sgil yr adborth.				
	Geraint Edwards A2.3 Datblygu a chynnal polisiau a gweithdrefnau cadarn sy'n rhoi pwyslais ar werthoedd moesegol y cytunwyd arnynt	<ul style="list-style-type: none"> Mae Llawlyfr y Gweithwyr wrthi'n cael ei adolygu, mae ar gael ar <u>CeriNet</u>, mae'n nodi'r disgwyliadau o ran <u>ymddygiad staff ac yn cynnwys y Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol</u>. Hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a recriwtio a dethol gan gynnwys cyfleoedd cyfartal yn orfodol i bob un o Reolwyr Cyngor Sir Ceredigion. Rhaid i bob aelod Staff gwblhau modiwl e-ddysgu ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth. Cymeradwywyd <u>Strategaeth Gaffael 2018-22</u> gan y Cyngor ar 19 Mehefin 2018. Mae hyfforddiant caffael hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Staff. Polisiau'r Cyngor ar Recriwtio ac ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. 	Prosesau arfarnu yn ystyried gwerthoedd ac ymddygiad moesegol	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.
			Polisi penodiadau staff	✓		
			Polisi caffael	✓		
	Steve Johnson A2.4 Sicrhau ei bod yn ofynnol i gyrff allanol sy'n darparu gwasanaethau ar ran y sefydliad weithredu ag uniondeb ac yn unol â'r safonau moesegol uchel a ddisgwylir gan y sefydliad	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r <u>Telerau ac Amodau safonol</u> ar gyfer pawb sy'n Cyflenwi Nwyddau a gwasanaethau yn cynnwys amodau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth, ac maent ar gael ar wefan y Cyngor. <u>Strategaeth Gaffael 2018-2022</u> Defnyddir meddalwedd mewnol yn ôl-weithredol i chwilio am daliadau a allai fod wedi'u talu ddwywaith. Mae'r Cyngor wedi llunio Polisi Atal Caethwasiaeth Fodern (a anfonwyd at gontractwyr y Cyngor), Datganiad Blynyddol 2019-2020 ar Atal Caethwasiaeth, a Chod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. 	Gwerthoedd Cytunedig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth - Datganiad o foeseg busnes yn cyfleu ymrwymiad i werthoedd moesegol i gyflenwyr allanol - Gwerthoedd moesegol yn cael sylw mewn contractau gyda darparwyr gwasanaeth allanol	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.
			Protocolau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth	✓		
A3 Parchu rheolaeth y gyfraith	Elin Prysor A3.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Staff yn dangos ymrwymiad cadarn i reolaeth y gyfraith, ac yn glynu wrth ddeddfau a rheoliadau perthnasol	<ul style="list-style-type: none"> <u>Cyfansoddiad y Cyngor</u> Caiff pwerau statudol a goblygiadau cyfreithiol eu cynnwys ym mhob adroddiad lle mae angen i'r Cabinet wneud penderfyniad. Caiff cyngor/goblygiadau cyfreithiol ac ariannol eu cynnwys ym mhob adroddiad priodol y mae angen penderfynu arno. Mae MO a'r Gwasanaeth Cyfreithiol ar gael i roi cyngor fel y bo'n briodol. Mae'r gwasanaeth IA ar gael i roi cyngor fel y bo'n briodol. Mae MO yn mynd i gyfarfodydd y Grŵp Arweiniol / y Cabinet / y Cyngor. 	Darpariaethau statudol	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.
			Canllawiau statudol yn cael eu dilyn	✓		
			Cyfansoddiad	✓		

		<ul style="list-style-type: none"> • Mae MO yn mynd i lawer o gyfarfodydd cyhoeddus fel mater o drefn, yn ôl y gofyn, os yw ar gael. • Os yw MO yn absennol, mae'r Dirprwy MO yn mynd i gyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor. • <u>Strwythur Llywodraethu Covid-19</u> wedi'i gyflwyno gan y Cyngor, gan gynnwys pwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr a Grŵp Arweiniol y Cyngor trwy ddefnyddio Penderfyniadau Brys ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud ag ymateb y Cyngor i COVID-19), yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Adolygwyd Penderfyniadau Brys yr Arweinydd yn rheolaidd, a daeth i ben ar 31.8.2021. • Mae'r Grŵp Rheoli Aur yn parhau dan weithdrefnau gweithredol yn unol â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 • Cyhoeddir Cofnod Penderfyniadau y Grŵp Rheoli Aur ar wefan y Cyngor). • Lluniwyd <u>map ffyrdd</u>, sy'n amlinellu'r gwasanaethau a ddarparir gan y Cyngor a'r rhai nas ddarparir ganddo, ynghyd â chynlluniau'r Cyngor, a adolygir yn rheolaidd, ar gyfer Ceredigion, gan gynnig trosolwg o'r gwasanaethau a ddarparir yng ngoleuni Pandemig Covid-19, y canllawiau cyfredol a nifer yr achosion yng Ngheredigion. • Bydd Deddf 2021 yn cael effaith ar gyrff corfforaethol, gan gynnwys y Cyngor, ac mae paratodau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth yn parhau, gan gynnwys trwy gyfrwng y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad (mae Aelodau o bob grŵp gwleidyddol yn mynychu hwn), adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cyngor, ac mae cynllun Gweithredu y Cyngor wedi cael ei baratoi a'i ddiweddarau yn rheolaidd, a chynhaliwyd cyfarfodydd gyda CLOs a Swyddogion perthnasol, pan fo hynny'n briodol. 				
	<p>Elin Prysor / Stephen Johnson/Amanda Roberts / Alex Jenkins</p> <p>A3.2 Creu'r amodau i sicrhau bod y Swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol eraill, a'r aelodau yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae disgrifiadau swydd a manylebau'r person yn diffinio swyddogaethau a chyfrifoldebau gofynnol swyddi'n glir. • Mae disgrifiadau o rôl y Aelodau'n nodi eu cyfrifoldebau. • Cydymffurfio â Datganiad CIPFA ar Rôl y Prif Swyddog Cyllid mewn Llywodraeth Leol (CIPFA, cyhoeddwyd 13 Ebrill 2016). • Cydymffurfio â Datganiad CIPFA ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus (CIPFA, cyhoeddwyd 9 Ebrill 2019) a'r cyfraniad a gyhoeddwyd yn nogfen gysylltiedig CIPFA, Rhoi Egwyddorion ar Waith (2019)). • Nodir y cylchoedd gorchwyl yn y Cyfansoddiad. • Adrodd i'r <u>Pwyllgor Archwilio</u> a Llywodraethu. • <u>Rheoliadau Ariannol a Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (Dogfen F yn y Cyfansoddiad)</u>. • Rheolau Gweithdrefn <u>Contract</u> (Dogfen G yng <u>Nghyfansoddiad</u> y Cyngor). • Codau Ymddygiad (gweler uchod). 	<p>Disgrifiadau/ manylebion swydd</p> <p>Cydymffurfiaeth gyda datganiad CIPF ynghylch rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn llywodraeth leol (CIPFA 2016)</p> <p>Cylch gorchwyl</p> <p>Cefnogaeth pwyllgor</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>	<p>9/10</p>	<p>Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Cydymffurfio â chodau penodol e.e. <u>Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus</u> ('PSIAS', Mawrth 2017) • Rhoi diweddariadau i aelodau'r Pwyllgor Archwilio am dwyll, gan gynnwys adroddiad blynyddol y gwasanaeth IA am atal twyll. • Mae'r Swyddogion Statudol yn atebol i'r Prif Weithredwr ('CE') a'r Cyngor. • Cyfarfodydd rheolaidd rhwng CE, Swyddog A.151 ac MO. • Mae gan y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol ('CMIA') fynediad rhydd a dilyffethair i Aelodau a Swyddogion ar bob lefel, a'r hawl i gael mynediad yn unol â <u>Chyfansoddiad</u> a Siarter Archwilio Mewnol y Cyngor. • Cyhoeddir y Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau ar <u>Wefan y Cyngor</u>. • Sicrhodd Deddf 2021 Gydsyniad Brenhinol ym mis Ionawr 2021 ac mae'n gwneud newidiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. • Diweddarwyd Cylch Gorchwyl GAC yn unol â'r Ddeddf newydd. 				
Elin Prysor / Steve Johnson A3.3 Ceisio gwneud y defnydd gorau o'r holl bwerau er budd dinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid eraill	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Prif Swyddogion yn rhoi cymorth a chyngor i'r Aelodau. Mae'n ofynnol cynnwys cyngor/goblygiadau ariannol a chyfreithiol mewn adroddiadau/penderfyniadau a gyhoeddir fel y bo'n briodol. 	Cofnod o'r cyngor cyfreithiol a ddarparwyd gan Swyddogion	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.
Elin Prysor A3.4 Ymdrin yn effeithiol ag achosion o dorri darpariaethau cyfreithiol a rheoleiddiol	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan MO fynediad uniongyrchol at CE ac mae'n adrodd i'r Cyngor yn gyffredinol ac fel rhan o ddyletswydd statudol. • Mae MO neu gynrychiolydd enwebedig yn mynd i holl gyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor. Mae MO yn gweithredu polisi drws 'agored' ar gyfer Aelodau sydd am gael cyngor am 'ymddygiad' a 'llywodraethu'. • Mae MO a Swyddog A.151 yn cyfarfod â CE bob mis. • Mae MO a Swyddog A.151 yn aelodau allweddol o'r Grŵp Arweiniol. • Mae'r eitemau a gyflwynir i'r Aelodau benderfynu arnynt yng nghyfarfodydd y Cabinet, y Cyngor a'r Pwyllgorau yn destun cyngor cyfreithiol ac ariannol, a cheir cyfeiriadau at y cyngor ym mhob adroddiad. • Caiff pwerau statudol a goblygiadau cyfreithiol eu cynnwys ym mhob adroddiad lle mae angen i'r Cabinet wneud penderfyniad. • Caiff cyngor/goblygiadau cyfreithiol ac ariannol eu cynnwys ym mhob adroddiad priodol y mae angen penderfynu arno. • Mae MO a'r Gwasanaeth Cyfreithiol ar gael i roi cyngor cyn cyfarfodydd ac yn ystod cyfarfodydd. 	<p>Darpariaethau MO a darpariaethau Swyddog A.151</p> <p>Cofnod o'r cyngor cyfreithiol a ddarparwyd gan Swyddogion</p> <p>Darpariaethau statudol</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.
Elin Prysor / Amanda Roberts / Alex Jenkins		Polisiau a gweithdrefnau	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn

	<p>A3.5 Sicrhau bod achosion o lygredd a chamddefnyddio pŵer yn cael eu trin a'u trafod yn effeithiol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Diweddarwyd a chymeradwywyd '<u>Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)</u>' effeithiol gan y Cyngor ar 17 Mehefin 2021(cadarnhawyd y cofnodion ar 23 Medi 2021). • Ymchwiliadau Mewnol, Archwiliad Allanol effeithiol. • <u>Polisi Chwythu'r Chwiban</u> a Pholisi Disgyblu. • Mae Swyddog yn y tîm IA yn Dechnegydd Atal Twyll achrededig. • Mae swyddog(ion) yn y tîm IA yn meddu ar Dystysgrif mewn Arferion Ymchwilio gan CIPFA ('CCIP'). • Mae'r Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion <u>Menter Twyll Cenedlaethol</u> flynyddol Archwilio Cymru, a gydlynir gan yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd. • Cyflwynir adroddiad blynyddol IA ynghylch Atal Twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ddiwedd y flwyddyn. • Monitro ac ymateb i rybuddion o dwyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati). • Aelodaeth a chyfranogiad weithredol mewn grwpiau a rhwydweithiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati). • Mae IA yn cynnig cyngor i wasanaethau ynghylch gweithredu systemau a phrosesau newydd i sicrhau y caiff rheolaethau mewnol effeithiol eu cynnal. • Mae Swyddogion Enwebedig y Cyngor yn ymgymryd â hyfforddiant amrywiol ynghylch twyll er mwyn cynnal eu gwybodaeth a'u harbenigedd. • Pan fo hynny'n briodol, cyhoeddir gwybodaeth am erlyniadau llwyddiannus ar wefan y Cyngor (ac yn y wasg leol). • Caiff taliadau grant Covid-19 eu harchwilio cyn eu talu (gan ei bod yn haws stopio taliad na'i adfer). • Ychwanegwyd archwiliadau rheolaeth ariannol allweddol i'r cynllun archwilio, er mwyn archwilio rheolaethau, llywodraethu a risgiau tra bod staff yn gweithio gartref. • Gall cynllun archwilio blynyddol IA roi sylw i unrhyw anghenion i ail-flaenoriaethu gwaith, gan ganiatáu i IA ymateb i unrhyw newidiadau o ran risg yn y Cyngor. 	<p>gwrth-dwyll a llygredd effeithiol</p> <p>Prawf lleol o sicrwydd (lle y bo'n briodol)</p>	<p>✓</p>		<p>cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.</p>
--	---	---	---	----------	--	---

B. Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid							
Gan fod llywodraeth leol yn cael ei rhedeg er lles y cyhoedd, dylai sefydliadau sicrhau bod eu gweithgareddau'n agored. Dylid defnyddio sianeli cyfathrebu ac ymgynghori clir y gellir ymddiried ynddynt i ymgysylltu'n effeithiol â phob grŵp o randdeiliaid, fel dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â rhanddeiliaid sefydliadol.							
Is-egwyddorion	Ymddygiad	Tystiolaeth	Yn ddisgwyliedig	✓/X	Sgôr	Gweithred	
B1 Bod yn agored	Alun Williams B1.1 Sicrhau bod diwylliant agored ar waith, drwy ddangos, cofnodi a mynegi ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r holl <u>adroddiadau Blynyddol</u> statudol ar gael ar Wefan y Cyngor. <u>Cynllun cyhoeddi y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.</u> Mae lluo o feysydd gwasanaeth ar gael ar-lein gan gynnwys <u>gwybodaeth a hunan-wasanaeth treth gyngor.</u> Nodir nodau a gwerthoedd y Cyngor yn <u>Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022.</u> <u>Gwefan Cyngor Sir Ceredigion.</u> Darlledir cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet. Mae cyfeiriadau e-bost generig wedi cael eu creu ar gyfer MO a Moeseg a Safonau. Ymatebion rheolaidd ac amserol i'r wasg ac ymholiadau eraill i Reolwyr ac aelodau, yn ogystal ag ymatebion FOI cynhwysfawr. Mae adolygiad o'r cynllun Cyhoeddi FOI yn mynd rhagddo. <u>Polisi Rhyddid Gwybodaeth (Mawrth 2018).</u> Mae Rheolwr Corfforaethol Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth yn ei swydd. <u>Hysbysiad Preifatrwydd Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth.</u> <u>Polisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (Mawrth 2018).</u> 	Adroddiad Blynyddol Cynllun cyhoeddi FOI Gwybodaeth ar-lein am Dreth Gyngor Nodau a Gwerthoedd yr Awdurdod Gwefan yr Awdurdod	✓	✓	7/8	Efallai y bydd gofyn gwneud Mân addasiadau derbynol Diweddarwyd y polisi FOI a'r polisi EIR. Mae adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi FOI yn mynd rhagddo.
	Lowri Edwards B1.2 Gwneud penderfyniadau sy'n agored ynghylch camau gweithredu, cynlluniau, defnyddio adnoddau, rhagolygon, allbynnau a chanlyniadau. Ceir rhagdybiaeth o blaid bod yn agored. Os na wneir hyn, dylid cyfiawnhau'r rhesymau dros gadw penderfyniad yn gyfrinachol	<ul style="list-style-type: none"> Mae holl gyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau yn agored i'r cyhoedd, a chyhoeddir yr agendâu a'r cofnodion ar wefan y Cyngor (ac eithrio adroddiadau esempt); Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo <u>Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd Trosolwg a Chraffu (2018) (Dogfen N yn y Cyfansoddiad)</u>, ac fe'i defnyddiwyd ar sawl achlysur. Protocol ar gyfer siarad yn y Pwyllgor Rheoli Datblygiad yn ei le (Rhan 4, Dogfen I yn y <u>Cyfansoddiad</u>). Y Cyngor wedi cymeradwyo protocol ar gyfer mynediad gan Aelodau'r Cabinet i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (Rhan 5 Dogfen M2 yn y <u>Cyfansoddiad</u>). 	Cofnod o wneud penderfyniadau a deunyddiau ategol	✓	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.
	Lowri Edwards B1.3 Darparu tystiolaeth a rhesymau clir dros benderfyniadau mewn cofnodion cyhoeddus ac mewn esboniadau i randdeiliaid, a bod yn glir ynghylch y meini prawf, y sail resymegol a'r ystyriaethau a ddefnyddiwyd. Sicrhau maes o	<ul style="list-style-type: none"> Lluniwyd <u>offeryn a chanllawiau Asesu Effaith Integredig ('IIA')</u> i lywio proses benderfynu effeithiol, ac maent yn cael eu rhoi ar waith. Diweddarwyd templed yr adroddiadau i'r Cyngor / Cabinet er mwyn cynnwys cyfeiriad at y goblygiadau cyfreithiol, y goblygiadau o ran staffio, y goblygiadau o ran eiddo / asedau a risgiau. 	Protocolau gwneud penderfyniadau Pro-forma ar gyfer adroddiadau Cofnod o gyngor proffesiynol wrth wneud penderfyniadau	✓	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.

	<p>law fod effaith a chanlyniadau'r penderfyniadau hynny'n glir</p>	<ul style="list-style-type: none"> Defnyddir <u>templedi safonol a chanllawiau</u> ar gyfer adroddiadau i'r Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac mae pob un ohonynt yn cynnwys canlyniadau IIA. Lle bo'n briodol, mae eitemau y mae angen i'r Cabinet, y Cyngor a'r Pwyllgorau benderfynu arnynt yn destun cyngor cyfreithiol ac ariannol y cyfeirir ato ym mhob adroddiad. Mae Protocol ar waith ar gyfer perthnasoedd gwaith rhwng Aelodau a Swyddogion (e.e. Protocol Swyddog-Aelod). (<u>Rhan 5 o'r Cyfansoddiad</u>). Cyhoeddir calendr o <u>ddyddiadau cyfarfodydd</u>, gan gynnwys blaenraglenni gwaith y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau, ar wefan y Cyngor. Cyhoeddir adroddiadau blynyddol, Datganiadau o'r cyfrifon, adroddiadau cynnydd am wella yn unol â'r amserlen ofynnol ac maent ar gael ar <u>wefan y Cyngor</u>. Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sefydliadol ar gael fel modiwl dewisol o'r Rhaglen Rheolwyr Corfforaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r defnydd o'r IIAs. 	<p>Adroddiadau cyfarfodydd yn dangos manylion am y cyngor a roddwyd</p> <p>Trafodaeth rhwng Aelodau a Swyddogion ar anghenion gwybodaeth Aelodau i gefnogi gwneud penderfyniadau</p> <p>Cytundeb ar y wybodaeth a gaiff ei darparu a'r terfynau amser</p> <p>Dilynir calendr o ddyddiadau ar gyfer cyflwyno, cyhoeddi a dosbarthu adroddiadau yn amserol</p>	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>		
G1 Defnyddio arferion gwaith da o ran tryloywder	Lowri Edwards/Arwyn Morris G1.1 Ysgrifennu a rhannu adroddiadau â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill mewn ffordd ddealladwy sy'n briodol ar gyfer y gynulleidfa darged a sicrhau eu bod yn hawdd cael gafael arnynt a'u pwysu a'u mesur	<ul style="list-style-type: none"> • <u>Gwefan y Cyngor</u>. • Darlledir cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet ar y we. • Ceir templedi safonol ar gyfer y Cabinet, y Pwyllgorau Craffu a'r Cyngor. • Cydymffurfio â <u>Safonau'r Gymraeg</u>. • Defnyddio Modern.Gov er mwyn cyhoeddi agendâu a Gwybodaeth am Gynghorwyr. • Mae'r Cyngor yn ymbaratoi ar gyfer y newidiadau a ddaw yn sgil Deddf 2021, gan gynnwys y gofyniad i'r Cyngor ymgynghori a chyhoeddi strategaeth cyfranogiad y cyhoedd i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol ac i wella tryloywder. • Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 sy'n caniatáu mynediad o bell i gyfarfodydd ac sy'n nodi'r gofynion o ran mynediad y cyhoedd at ddogfennau/cyhoeddi dogfennau. • Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf 2021, a fydd yn cynnwys sut y byddwn yn annog cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau hefyd, er ein bod yn aros am ganllawiau terfynol gan Lywodraeth Cymru am y rhan hon o'r ddeddfwriaeth. • Mae <u>map ffyrdd</u> y Cyngor yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i ddinasyddion am y gwasanaethau a ddarparir oherwydd pandemig Covid-19, er mwyn cynnig eglurder i breswylwyr y Sir. • Mae'r Cyngor wedi bod allan i dendr, gan ddyfarnu'r contract er mwyn gosod offer yn Siambr y Cyngor a fydd yn galluogi i gyfarfodydd hybrid gael eu cynnal, yn ogystal â bod yn gallu darlledu'r cyfarfodydd hynny. Gosodir yr offer dros y gaeaf. • Mae'r Cyngor yn darparu ffyrdd amgen i ddinasyddion droi at wybodaeth os nad ydynt yn gallu manteisio ar wasanaethau digidol. Gall y Dinesydd ffonio Canolfan Gyswllt y Cyngor neu ymweld â'i Lyfrgelloedd, lle y gellir troi at gyfrifiaduron neu fanteisio ar wasanaeth Wi-Fi 4G am ddim y gall unrhyw un ei ddefnyddio ar eu dyfais eu hunain. 	Gwefan	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.
			Darlledir cyfarfodydd y Cyngor ar y we	✓		
	Lowri Edwards G1.2 Taro cydbwysedd rhwng darparu swm priodol	<ul style="list-style-type: none"> • Mae manylion cyswllt y Cynghorwyr, eu cofnodion presenoldeb ac aelodaeth y Pwyllgorau ar gael ar <u>Wefan y Cyngor</u>. 	Adroddiadau blynyddol y Cynghorwyr	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni

	o wybodaeth i fodloni'r galwadau am dryloywder a gwella craffu cyhoeddus, heb iddi fod yn rhy feichus i'w darparu nac i ddefnyddwyr ei deall	<ul style="list-style-type: none"> Mae adroddiadau blynyddol Cyngorwyr ar gael ar Wefan y Cyngor. Mae'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu ar gael ar <u>Wefan y Cyngor</u>. <u>Mae Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democraidd ar gael ar Wefan y Cyngor</u>. 	Adroddiad blynyddol	✓		arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.
G2 Defnyddio arferion gwaith da o ran adrodd	Alun Williams G2.1 Adrodd o leiaf bob blwyddyn ar berfformiad, gwerth am arian a gwarchod adnoddau	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddir <u>Adroddiad Blynyddol y Cyngor am yr Amcanion Llesiant a Gwella</u> ar wefan Sir Ceredigion i roi gwybod i ddinasyddion Ceredigion am weithgareddau a chamau gweithredu a gyflawnir gan y Cyngor er mwyn cynorthwyo ei Amcanion Llesiant a Gwella. Mae hwn hefyd yn rhan o hunanasesiad y Cyngor. Mae crynodeb o'r cynllun hefyd ar gael mewn swyddfeydd cyhoeddus i'n dinasyddion ei weld. Cyhoeddir <u>datganiadau ariannol blynyddol</u> ar Wefan y Cyngor. 	Adroddiad blynyddol ffurfiol sy'n cynnwys pwyntiau allweddol a godwyd gan graffwyr allanol ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth ar ddarparu gwasanaethau	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.
			Datganiadau cyllid blynyddol	✓		
	Alun Williams G2.2 Sicrhau bod yr Aelodau a'r uwch-reolwyr yn ysgwyddo perchnogaeth dros y canlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> Cymeradwyaeth briodol. Trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol. Perchnogaeth dros gynllunio a thrawsnewid. 	Cymeradwyaeth briodol	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.
	Elin Prysor G2.3 Sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i asesu'r graddau y mae'r egwyddorion a geir yn y Fframwaith wedi'u rhoi ar waith, a chyhoeddi canlyniadau'r asesiad hwn, gan gynnwys cynllun gweithredu ar gyfer gwella a thystiolaeth o lywodraethu da (datganiad llywodraethu blynyddol)	<ul style="list-style-type: none"> Mae <u>AGS</u> y Cyngor yn dangos sut y mae'n cydymffurfio â saith egwyddor graidd y Fframwaith Llywodraethu a'r is-egwyddorion a geir yn y Fframwaith ac yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, gan gynnwys y modd y mae'n rhoi trefniadau priodol ar waith i lywodraethu ei waith, yn hwyluso defnydd effeithiol o'i swyddogaethau, ac yn trefnu i reoli risgiau (lluniwyd y Fframwaith Llywodraethu yn 2010 ac fe'i hadolygwyd yn unol â Fframwaith CIPFA/SOLACE, <i>Delivering Good Governance in Local Government</i> (2016)). Mae hefyd yn cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cynhaliwyd asesiad o'r fframwaith llywodraethu corfforaethol i sicrhau cydymffurfiaeth e.e. fe'i ddiweddarwyd yng ngoleuni'r newidiadau y bu'n rhaid eu gwneud oherwydd pandemig COVID-19. Y Cyngor sy'n penderfynu a ddylid cymeradwyo'r <u>AGS</u> e.e. diweddarwyd a chymeradwywyd y Datganiad gan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2021 (ochr yn ochr â'r cyfrifon). Mae <u>Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol</u> y Cyngor yn dangos sut y mae wedi rhoi'r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith i gyflawni'i waith yn effeithiol. Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn ddatganiad cyhoeddus sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn bodloni'r ymrwymiad hwnnw. 	Datganiad Llywodraethu Blynyddol	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.

	Elin Prysor G2.4 Sicrhau bod y Fframwaith yn cael ei ddefnyddio ar gyfer sefydliadau a reolir ar y cyd neu a rennir, fel y bo'n briodol	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff <u>AGS</u> ei rannu gyda'r cyfrifon, ei adolygu a'i ddiweddarau, gydag Aelodau a Swyddogion yn darparu proses ymgysylltu ehangach. 	Datganiad Llywodraethu Blynyddol	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.
	Steve Johnson G2.5 Sicrhau bod y wybodaeth am berfformiad a ddarperir gyda'r datganiadau ariannol yn cael ei pharatoi ar sail gyson ac amserol a bod modd cymharu'r datganiadau â sefydliadau tebyg	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n ofynnol cynnwys goblygiadau ariannol ym mhob adroddiad i'r Cabinet. Mae'r <u>Rheoliadau Ariannol a Rheolau'r Weithdrefn Ariannol (Dogfen F yn y Cyfansoddiad) a Rheolau'r Weithdrefn Gontractau (Dogfen G yn y Cyfansoddiad)</u> yn gyfredol. Cymeradwywyd <u>Strategaeth Gaffael 2018-2022</u> yn 2018. • Arferion cyfrifyddu – Codau Ymarfer yn cael eu dilyn. Paratoir dangosyddion darbodus a darperir adroddiadau arnynt i'r Cyngor. Cânt eu monitro trwy gydol y flwyddyn. Mae'r gyllideb yn cael ei monitro'n gyson drwy gydol y flwyddyn. Mae IA hefyd yn adolygu'r rheolaethau dros gasglu a monitro incwm. 	Y fformat yn dilyn arferion gorau	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.
G3 Sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol	Elin Prysor G3.1 Sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu ar sail y camau unioni a argymhellir gan archwilwyr allanol	<ul style="list-style-type: none"> • Ceir perthynas waith dda â'r rheoleiddwyr allanol, gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn, AGC, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ('FSA') a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, fel rheoleiddwyr allweddol. • Cofnodwyd Protocol Archwilio Cymru ac mae gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau y rhoddir sylw i'r holl 'Ffurflenni Ymateb Rheolwyr' o bob adroddiad Archwilio Cymru ac y cyflwynir ymatebion y Gwasanaeth i'r Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac Archwilio Cymru. • O ran monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion, y Swyddog Llywodraethu yw pwynt cyswllt Archwilio Cymru ar gyfer Ffurflenni Ymateb Rheolwyr ('MRFs') heb eu llenwi ar gyfer 2019/20 & 2020/21, a materion parhaus ynghylch llywodraethu/MRFs sy'n ymwneud â pherfformiad. Nodir y system hon mewn Protocol, a gymeradwywyd gan y Grŵp Arweiniol ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a chyflwynwyd fersiwn wedi ddiweddarau (i adlewyrchu'r ffaith bod y Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol yn ei swydd) yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 9.9.2021. • Cynhelir cyfarfodydd misol gydag Archwilio Cymru hefyd i drafod gwaith parhaus a materion i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a chynhelir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru. • Caiff argymhellion gan Archwilio Cymru eu cyflawni fel rhan o'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol. • Cyflwynir holl adroddiadau Archwilio Cymru i'r grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, sy'n monitro'r gwaith o gyflawni'r camau unioni. 	Argymhellion wedi llywio gwelliant cadarnhaol	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Monitro cynnydd Camau Gweithredu/argymhellion.

	<p>Amanda Roberts / Alex Jenkins G3.2 Sicrhau bod gwasanaeth archwilio mewnol effeithiol, sy'n gallu cysylltu'n uniongyrchol â'r Aelodau, ar waith, ei fod yn rhoi sicrwydd o ran trefniadau llywodraethu, a bod ei argymhellion yn cael eu rhoi ar waith</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r broses o fonitro'r cynnydd a wneir o ran y Camau Gweithredu yn cael ei datblygu. Tan 31/12/21, roedd CMIA a oedd yn meddu ar gymhwyster CIPFA yn bennaeth ar y swyddogaeth IA, ac mae'r CMIA o 1/1/22 ymlaen yn astudio am gymhwyster IIA. Mae gan y ddau CMIA brofiad sylweddol ym maes llywodraeth leol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan dîm sy'n meddu ar sgiliau a gwybodaeth briodol. Mae dau aelod o Staff yn astudio am gymhwyster gan y Sefydliad Siartredig Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd, ac mae dau yn datblygu sgiliau archwilio TGCh. Mae Swyddogion IA yn dilyn cymwysterau archwilio er mwyn gwella eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cymhwysedd. Cwblhawyd proses i ailstrwythuro IA ym mis Mai 2019, ac un arall ym mis Tachwedd 2020. Mae pob swydd wedi'i llenwi er 1 Rhagfyr 2020. Bydd CMIA newydd yn eu lle o 1 Ionawr 2022, ac mae ganddynt brofiad sylweddol o faes IA, a bydd ganddynt ffenestr 6-wythnos i 'gysgod' y CMIA presennol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan Reolwr Archwilio gwybodus a medrus. Mae gan rôl CMIA fynediad rhydd a dilyffethair i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac mae'r ddau yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn (ac mae'r cyfarfodydd hyn yn parhau o bell yn ystod pandemig Covid-19). Mae blaenraglen waith gadarn sy'n seiliedig ar risg a gweithgarwch cynllunio busnes yn ei lle. Adroddir yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am weithgarwch IA, h.y. Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn monitro perfformiad cynnydd a gwelliant a rhoddir crynodeb o'r gwaith a'r farn archwilio ynghylch sicrwydd bob blwyddyn mewn Adroddiad Blyneddol Archwilio Mewnol ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhelir adolygiadau dilynol er mwyn monitro bod camau gweithredu cywirol yn cael eu cymryd. Adolygir Siarter Archwilio Mewnol yn rheolaidd a chaiff ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (cymeradwywyd y fersiwn diwethaf gan y Pwyllgor Archwilio ar 24/2/21). Mae CMIA yn rhoi barn wrthrychol flynyddol ar sicrwydd ym mhrosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r Cyngor yn seiliedig ar y sicrwydd unigol a roddir i Reolwyr ar ôl pob adolygiad archwilio ac mae hyn yn cyfrannu at yr <u>AGS</u>. Cyflwynir adroddiadau blyneddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am gydymffurfiaeth â PSIAS gyda chynllun gwella sy'n deillio o hynny. Adolygiad asesu gan gymheiriaid bob pum mlynedd (cynhelir yr un nesaf tua mis Mawrth 2022, y mae'r paratodau eisoes wedi cychwyn ar ei gyfer trwy gyfrwng Grŵp Prif Archwilwyr Cymru). 	<p>Cydymffurfio â Datganiad CIPFA ar Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol (2010) a datganiad 2019 CIPFA ar rôl Archwilio Mewnol</p>	<p>✓</p>	<p>9/10</p>	<p>Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.</p> <p>Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn cynnwys nifer lawr y staff bellach. Mae hyfforddiant yn mynd rhagddo.</p> <p>Mae camau gweithredu yn eu lle i sicrhau pontio esmwyth wrth gyfnewid rôl CMIA</p> <p>Trefnu adolygiad cymheiriaid 5 mlynedd gydag Ynys Môn</p>
--	---	--	--	----------	-------------	--

		<ul style="list-style-type: none"> Cenhadaeth IA yw gwella a diogelu gwerth sefydliadol trwy ddarparu sicrwydd, cyngor a mewnwelediad gwrthrychol sy'n seiliedig ar risg. Nodir manylion hyn yn y Siarter Archwilio mewnol, sy'n nodi hawl mynediad IA hefyd (yn unol â Rheoliadau Ariannol/Cyfansoddiad y Cyngor). 				
Amanda Roberts / Alex Jenkins G3.3 Croesawu her gan gymheiriaid, adolygiadau ac arolygiadau gan gyrff rheoleiddiol, a rhoi'r argymhellion ar waith	<ul style="list-style-type: none"> Ceir perthynas waith dda â Llywodraeth Cymru, y prif reoleiddiwr. Ceir deialog reolaidd â chynrychiolwyr Archwilio Cymru. Rhoddir argymhellion Archwilio Cymru ar waith trwy'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol. Mae'r Cyngor yn dysgu ac mae'n mynd ati i wella o hyd. Cynhelir asesiad allanol bob pum mlynedd o IA, yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan PSIAS. Cynhaliwyd yr Asesiad Allanol diwethaf o'r gwasanaeth Archwilio Mewnol ym mis Tachwedd 2016 gan Gyngor Sir Conwy ac adroddwyd amdano i'r Pwyllgor Archwilio, ynghyd â'r Cynllun Gwella dilynol (bydd yr nesaf yn barod tua mis Mawrth 2022, ac mae'r paratodau eisoes wedi cael eu gwneud ar ei gyfer trwy gyfrwng Grŵp Prif Archwilwyr Cymru). Adroddir am gynnydd, perfformiad a gwelliant IA i'r Pwyllgor Archwilio bob chwarter. 	Argymhellion wedi llywio gwelliant cadarnhaol	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.	
Elin Prysor G3.4 Cael sicrwydd o ran y risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau trwy drydydd parti, a darparu tystiolaeth o hyn yn y datganiad llywodraethu blynyddol	<ul style="list-style-type: none"> <u>AGS.</u> Mae'r Aelodau a'r Swyddogion yn cynnal adolygiad o'r <u>AGS</u> bob blwyddyn. 	Datganiad llywodraethu blynyddol	✓	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.	
Alun Williams / Diana Davies G3.5 Wrth weithio mewn partneriaeth, sicrhau bod y trefniadau atebolrwydd yn glir a bod yr angen am atebolrwydd cyhoeddus ehangach wedi'i gydnabod a'i fodloni	<ul style="list-style-type: none"> Cylch gorchwyl a <u>Chynllun Llesiant BGC.</u> Adroddiad blynyddol gan BGC. Mae Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gadw llygad ar effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd. Caiff cytundebau Partneriaeth ac Atebolrwydd eu sefydlu mewn prosiectau cydweithredol. 	<p>Cylch gorchwyl Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r cynlluniau llesiant</p> <p>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymgysylltu â chraffu</p>	<p>✓</p> <p>✓</p>	9/10	Ystyrir bod y llywodraethu cyffredinol da yn cydymffurfio ac yn bodloni arfer gorau. Nid oes angen camau pellach.	

Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-22



Cymeradwywyd gan y Cyngor [x]

Cynnwys

1	Crynodeb Gweithredol.....	3
2	Asesiad o effeithiolrwydd prif elfennau'r fframwaith llywodraethu	5
3	Cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2021-22	7
4	Barn am lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi.....	36
5	Y materion a nodwyd ar gyfer y llynedd (2021-2022)	42
6	Cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer materion i'w hystyried yn ystod 2022-2023.....	67
7	Casgliad.....	72
8	Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.....	72

DRAFT

1 CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Cyngor Sir Ceredigion ('y Cyngor') yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, bod cyfrif priodol amdano a'i fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Cyngor hefyd wedi ymrwymo i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ei ddinasyddion. Caiff yr ymrwymiad hwnnw ei egluro yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 y Cyngor ac mae'n disgrifio sut y bydd y Cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau sydd o'i flaen ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer y cyfnod hwn yw bod y Cyngor *'yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog cynaliadwy sy'n rhoi gwerth am arian er mwyn cynnal economi gref, amgylchedd iach a hyrwyddo lles ein pobl a'n cymunedau'* a bwriedir gwireddu'r weledigaeth trwy gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol, sef:

1. Hybu'r Economi;
2. Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl;
3. Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd; a
4. Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol.

I fod yn llwyddiannus, rhaid bod gan y Cyngor sylfaen gref o drefniadau llywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn. Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, yn unol â'n gwerthoedd. Ategir y Cod Lleol gan Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu sy'n egluro'r sicrwydd y bydd y Cyngor yn ceisio ei gael, a'r modd y gwneir hynny.

Mae copi o God Llywodraethu Corfforaethol Lleol a Datganiad Llywodraethu Blynnyddol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor yn <https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/councillors-committees/annual-governance-statement/>.

Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae dyletswydd ar y Cyngor hefyd i drefnu ei fod yn sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y caiff ei swyddogaethau eu cyflawni, gan ystyried cyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ei fusnes a hwyluso camau i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risgiau. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) mewn grym i raddau helaeth ac mae'r Cyngor yn parhau i wneud y gwaith paratoi angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth yr adrannau hyn o'r Ddeddf a chydymffurfiaeth gydag adrannau o'r Ddeddf nad ydynt mewn grym eto.

Tudalen 619

Datblygwyd Fframwaith Llywodraethu yn 2010 ac mae wedi'i ddiwygio yn unol â fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government 2016*. Defnyddir y fframwaith i adolygu'r trefniadau llywodraethu bob blwyddyn.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn cyflwyno trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ymgymryd â datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus i bennu a chyhoeddi amcanion llesiant y bwriedir iddynt gyfrannu cymaint ag y modd i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae disgwyl hefyd iddynt gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni eu hamcanion.

Yn dilyn yr adolygiad ac yn unol â gofynion y Fframwaith, cymeradwywyd y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn wreiddiol gan y Cyngor ar 29 Mehefin 2017 a chymeradwywyd fersiwn wedi'i ddiweddarau gan y Cyngor ar 19 Mawrth 2020.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn dod â holl drefniadau'r Cyngor ar gyfer llywodraethu ac atebolrwydd ynghyd mewn un ddogfen. Mae'r Cod yn seiliedig ar y canllawiau arfer gorau a nodir yn fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government*.

Adolygwyd y Cod 2022/23 ymhellach er mwyn ystyried newidiadau parhaus i drefniadau llywodraethu oherwydd pandemig y coronafeirws.

Mae Fframwaith Llywodraethu y Cyngor yn seiliedig ar y fframwaith rhyngwladol *International Framework: Good Governance in the Public Sector* (CIPFA/IFAC, 2014) a'r saith egwyddor a ganlyn:

- A: Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith
- B: Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu mewn modd cynhwysfawr â rhanddeiliaid
- C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
- D: Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig gystal ag y bo modd
- E: Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo
- F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus yn gadarn
- G: Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol

Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio Datganiad Llywodraethu Blynyddol (y ddogfen hon), sy'n esbonio sut y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'r saith egwyddor craidd a'r is-egwyddorion sydd yn ei Fframwaith Llywodraethu a'r Cod Llywodraethu

Corfforaethol Lleol, a sut y mae'n bodloni gofyniad Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn rhoi sicrwydd ynghylch cydymffurfio ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Mae Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn cydnabod pwysigrwydd cael sylfaen gref o ran trefniadau llywodraethu da a rheolaeth ariannol gadarn. Maent yn addo ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion a gaiff eu hamlygu yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, a gwella trefniadau llywodraethu'r Cyngor ymhellach.

Mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr yn cadarnhau eu bod wedi cael eu hysbysu ynghylch goblygiadau'r adolygiad gan yr uwch-reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio, ac maent yn fodlon y bydd y camau a amlinellir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn mynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella.

Llofnodwyd ar ran **Cyngor Sir Ceredigion**

Arweinydd y Cyngor

Dyddiad: xx/xx/xxxx

Prif Weithredwr

Dyddiad: xx/xx/xxxx

2 Asesiad o effeithiolrwydd prif elfennau'r Fframwaith Llywodraethu

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddangos bod ganddo'r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith i berfformio'n effeithiol.

Mae Arweinydd y Cyngor yn darparu cyfeiriad strategol clir ac mae'r Cyfansoddiad yn diffinio rolau'r Cyngorwyr a'r Swyddogion yn glir. Mae Timau Archwilio Mewnol ac Allanol, y Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Archwilio wedi ymrwymo i sicrhau bod y trefniadau llywodraethu yn effeithiol ac yn gadarn.

Mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu yn erbyn fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government (2016)*. Roedd yr adolygiad yn cynnwys gweithdy ar gyfer Aelodau/Swyddogion, lle y dadansodwyd ac adolygwyd dogfen Fframwaith Llywodraethu y Cyngor, ac roedd yr Aelodau canlynol yn bresennol ynddo: Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Aelod Lleyg y Pwyllgor Archwilio a Chadeirydd y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. Yn ogystal, roedd y Swyddog Monitro; y Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol; y Swyddog Llywodraethu; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau

Tudalen 621

Democrataidd; y Swyddog Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol a'r Rheolwr Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd wedi cymryd rhan. Yn dilyn y gweithdy, bu cyfle pellach i'r sawl a oedd yn bresennol i ystyried dogfen Fframwaith Llywodraethu y Cyngor a bu cyfle i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Economi ac Adfywio; y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael; a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid, i ystyried y ddogfen Fframwaith Llywodraethu.

Yn ystod y gweithdy, cyflwynwyd a sgoriwyd pob ymddygiad ar sail system sgorio, fel a ganlyn:

- 1/2 Annerbyniol – angen gweithredu'n syth
- 3/4 Yn llai na boddhaol – angen gweithredu ar frys (cyn pen 3-6 mis)
- 5/6 Boddhaol – angen gweithredu (cyn diwedd y flwyddyn, 9-12 mis)
- 7/8 Derbyniol – gallai fod angen mân addasiadau
- 9/10 Da – ystyrir bod y Llywodraethu, yn gyffredinol, yn dda a'i fod yn bodloni arfer gorau – nid oes angen unrhyw gamau gweithredu pellach

Mae pob sgôr yn y Ddogfen Fframwaith Reoleiddio yn sgôr allan o 10 e.e. mae sgôr 7/8 yn golygu sgôr rhwng 7 a 8 allan o gyfanswm o 10 marc.

Dosbarthwyd y Fframwaith Llywodraethu i swyddogion eraill sydd â chyfrifoldebau llywodraethu/rheoli yn y Cyngor hefyd. Cyflwynir y fframwaith adolygu i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Ionawr 2022.

Mae effeithiolrwydd y Fframwaith Llywodraethu yn seiliedig ar dystiolaeth a sicrwydd sy'n deillio o:

- Archwiliadau ac Arolygiadau Mewnol ac Allanol;
- Rheolaeth Ariannol;
- Rheoli Risgiau a Pherfformiad;
- Safonau Moesegol a Chyfreithiol;
- Y Cyfarwyddwyr Corfforaethol ac Uwch-Reolwyr Eraill, gan gynnwys Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro;
- Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu; a'r
- Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Yn ogystal, mae'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad annibynnol o'r Fframwaith Llywodraethu ac o'r dull sgorio a'r dystiolaeth bob blwyddyn. Cwblhawyd yr adolygiad o Fframwaith 2020/21 ym mis Ebrill 2021, gan

gynnig sicrwydd 'uchel' bod system gadarn o ran craffu a chadernid yn ei lle. Adroddwyd hyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Ebrill 2021. Mae'r adolygiad o Fframwaith 2021/22 yn mynd rhagddo o hyd.

Mae'r Cyngor wedi llunio Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n amlinellu'r systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli'r awdurdod, ac sy'n amlinellu'r gweithgareddau a ddefnyddir ganddo i fod yn atebol i'r gymuned, ymgysylltu â hi a'i harwain. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro'r modd y caiff ei amcanion strategol eu cyflawni, gan ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol cost-effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r cod hwnnw, a bwriedir iddi reoli risg at lefel resymol. Ni all ddileu pob risg y bydd yr awdurdod yn methu â chyflawni ei bolisiau, ei nodau a'i amcanion, ac felly dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei roi. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus y bwriedir iddi adnabod a blaenoriaethu'r risgiau sy'n ymwneud â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Cyngor; gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n digwydd a'u heffaith os byddant yn digwydd; a rheoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol ar gael ar wefan y Cyngor yn <https://www.ceredigion.gov.uk/your-council/councillors-committees/annual-governance-statement/>.

3 Cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2021-22

Mae'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol yn amlinellu ymrwymiad yr awdurdod lleol i egwyddorion llywodraethu da. Yn y paragraffau canlynol, amlinellir y cyflawniadau ym maes Llywodraethu Corfforaethol yn ystod 2021-22.

A. Ymddwyn gydag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith:

- Cod Ymddygiad i Aelodau (diweddarwyd yn 2016) sydd ar gael ar wefan y Cyngor, ei fewnrwyd (CeriNet) dan Adnoddau Cynghorwyr, ac yn y Cyfansoddiad. Yn ogystal, Siart Llif Cod Ymddygiad yr Aelodau (diweddarwyd yn 2016).
- Cod Ymddygiad i Swyddogion* (sy'n cael ei adolygu'n sylweddol ar hyn o bryd), sydd ar gael gyda'r holl bolisiau a strategaethau Corfforaethol trwy wefan y Cyngor/CeriNet.
- Rhoddir darpariaeth ymsefydlu a hyfforddiant dilynol am y Cod Ymddygiad a moeseg i'r holl Aelodau.
- Cynhaliwyd Archwiliad Moeseg yn ystod 2019. Mae Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg yn mynd rhagddo hefyd (yn destun adolygiad ar hyn o bryd).
- Darparwyd hyfforddiant ynghylch Moeseg/Twyll ar y cyd ag yswiriwr y Cyngor yn ystod gweithdy chwarterol y Rheolwyr Corfforaethol ar 28.5.2021. Mae sleidiau o'r cyflwyniad yn ffurfio sail modiwl e-ddysgu ar

Tudalen 623

gyfer yr holl Staff a Gwasanaethau Llywodraethu ac Archwilio Mewnol ('IA') sy'n gweithio gyda Dysgu a Datblygu i baratoi sefyllfaoedd ar gyfer hyfforddiant. Cefnogwyd yr hyfforddiant gan adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o Strategaeth Gwrth-dwyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian) y Cyngor. Rhoddir cyngor dydd i ddydd gan y Swyddog Monitro ('MO') a'r Swyddog Cymorth Craffu.

- Mae MO yn cynghori'r Pwyllgor a'r Aelodau ac anfonir cyngor rheolaidd rhagweithiol a nodiadau atgoffa i Aelodau a Swyddogion yn ôl y gofyn. Rhoddir cyngor/goblygiadau Cyfreithiol ac Ariannol am yr holl adroddiadau priodol y mae gofyn gwneud penderfyniad amdanynt, mae Prif Swyddogion yn darparu cymorth a chynghori i Aelodau ac mae gweithgarwch adrodd yn mynnu bod cyngor ariannol a chyfreithiol/goblygiadau yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau/penderfyniadau, a gyhoeddir pan fo hynny'n briodol. Mae eitemau yr adroddir amdanynt i Aelodau er mwyn gwneud penderfyniadau amdanynt trwy'r Cabinet, y Cyngor a Phwyllgorau yn destun cyngor ariannol a chyfreithiol, y cyfeirir ato ym mhob adroddiad. Yn ogystal, mae MO yn gweithredu polisi drws 'agored' i Aelodau sy'n dymuno cael cyngor ynghylch 'ymddygiad' a 'llywodraethu'.
- Adolygiad Datblygiad Personol.
- Cymeradwyaeth unigol o ran cydymffurfiaeth.
- Cofrestr o fuddiannau Aelodau, sydd ar gael gan Wasanaethau Democrataidd y Cyngor, a adolygir gan MO ac a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Mae ffurflenni Datgelu Budd a Lletygarwch i Swyddogion ac Aelodau ar CeriNet.
- Mae MO yn dosbarthu nodyn atgoffa ynghylch datganiadau budd/lletygarwch i Staff bob chwarter.
- Mae datganiadau budd gan Aelodau a Swyddogion yn ystod cyfarfodydd ac mae Cofnodion yr holl bwyllgorau yn cynnwys Datganiadau Budd-Swyddogion ac Aelodau.
- Nodiadau atgoffa rheolaidd trwy gyfrwng Diweddariadau Newyddion ar system CeriNet, MO yn monitro ac yn adolygu datganiadau Prif Swyddogion bob blwyddyn ac yn rhoi cyngor i Brif Swyddogion am yr angen i ddatgelu cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill, gan gynnwys cynghori Prif Swyddogion yn y Grŵp Arweiniol. Hysbysir Prif Swyddogion trwy gyfrwng diweddariad newyddion system CeriNet o neges e-bost MO ynghylch datgelu buddiannau a Lletygarwch ac anfonir nodyn atgoffa at Brif Swyddogion.
- Datganiadau Buddiannau blynyddol Prif Swyddogion a'u hymrwymiaadau parhaus i ddatgelu buddiannau. Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion.
- Cyhoeddwyd diweddariad i'r cyngor am Ddatganiadau Budd a Lletygarwch ar 16 Rhagfyr 2021 ac ar 20 Gorffennaf 2021 ar CeriNet, hefyd ynghylch Grantiau NDR Cronfa Busnes Cyfyngiadau Covid-19 ar gyfer busnesau (Diweddariad newyddion a gyhoeddwyd ar 8.1.2021) a dolenni i'r ffurflenni perthnasol a'r Cod Ymddygiad i Gyflogaion Llywodraeth Leol, ynghyd â nodyn atgoffa y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu geisiadau am gyngor i'r MO.
- Datganiadau budd gan Aelodau a Swyddogion yn ystod cyfarfodydd, cyfle i gyfeirio at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati. MO i roi cyngor

Tudalen 624

pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgelu buddiannau mewn sefydliadau sy'n gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor, neu y gallent wneud hynny, gan gynnwys:

- Contractwyr;
- Llywodraethwyr Ysgol;
- Clercod cyngorau Tref a Chymuned;
- Aelodau cyngorau Tref a Chymuned;
- Llywodraethwyr Ysgol.
- MO i roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgan:
- Swyddi cyfarwyddwyr; a
- Chyflogaeth arall

Gan gynnwys os ydynt yn gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor neu beidio.

- Mae gofyn i aelodau ddiweddarau'r Gofrestr Fuddiannau yn unol â'r Cod Ymddygiad, ac yn ogystal, bob blwyddyn, sy'n gyfle i gyfeirio at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati. Mae hyn bellach yn cynnwys aelodau annibynnol/lleyg o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cyhoeddwyd llyfryn Cofrestr Buddiannau ar gyfer pob Aelod ar Wefan y Cyngor.
- Mae cyfatebiaeth NFI yn amlygu Staff sy'n gyfarwyddwyr cwmnïau y maent wedi cael cyswllt gyda'r Cyngor – bydd IA yn ymchwilio i unrhyw achos o beidio datgan ac yn adrodd amdano i MO.
- Cynhelir adolygiad ar hyn o bryd o'r cyrff allanol sydd wedi penodi Aelodau, gan gynnwys gwerth ychwanegol, a hefyd, caiff y Cyfansoddiad ei ddiweddarau.
- Ffurflenni Goddefebau wedi'u diweddarau ar gyfer Aelodau wedi'u llenwi (2020).
- Rhaid i Athrawon a Swyddogion Cymwys Proffesiynol fodloni gofynion eu sefydliad/corff proffesiynol.
- Mae aelodau yn cwblhau modiwl hyfforddiant AD.
- Darparir hyfforddiant am safonau ymddygiad i Reolwyr ar gyfer Staff.
- Mae'r Llawlyfr i Gyflogeion yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, mae ar gael ar CeriNet, mae'n nodi'r ymddygiad a ddisgwylir gan Gyflogeion ac mae'n cynnwys y Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol.
- Mae MO yn dosbarthu diweddariadau/penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru i arweinwyr grwpiau gwleidyddol, a'u rôl nhw yw pennu'r achosion honedig o dorri'r amodau gan aelodau etholedig a chyfetholedig yn erbyn cod ymddygiad statudol eu hawdurdod.
- Prif ddyletswyddau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yw gwella safonau ymddygiad Aelodau a gweithrediad y Cod Ymddygiad i Aelodau. Bydd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau ddyletswyddau newydd nawr (o fis Mai 2022) dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021'), a fydd yn cynnwys:
 - Monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor gyda'u dyletswyddau dan A.52(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000;
 - Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor am faterion sy'n ymwneud â'u dyletswyddau dan A.52A (1) Deddf Llywodraeth Leol 2000.
 - Mae'r ddyletswydd i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn ymwneud â safonau ymddygiad, a sicrhau bod hyn

Tudalen 625

yn amlwg ac yn cael ei ddangos yn gyson a gyda thystiolaeth er mwyn diogelu enw da y Cyngor.

- Pwyllgor Moeseg a Safonau yn hyrwyddo cydymffurfiaeth foesebol er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd ymddiriedaeth a hyder bod Aelodau a Swyddogion yn gweithio yn unol â'r safonau moesegol a moesol uchaf.
- Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi bod yn rhagweithiol, gan arwain ar sesiynau hyfforddiant a rhoi gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer trefniadau goddefebau. Adolygwyd y strwythur yn ddiweddar er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Materion ynghylch ymddygiad a safonau aelodau a ystyrir gan Bwyllgor Moeseg a Safonau y Cyngor. Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd, ac fe'u cadeirir gan unigolyn annibynnol – pennu goddefebau, ac ystyried materion strategol/polisi a chael diweddariadau gan achosion APW a Llyfr Achosion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Adroddwyd Adroddiad Pwyllgor Moeseg a Safonau Blynnyddol i'r Cyngor ym mis Hydref 2021.
- Cynhaliodd Cyngor Sir Gâr archwiliad annibynnol o foesebol o fewn y Cyngor yn ystod 2019. Cynhelir Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg ar hyn o bryd (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).
- Mae perthynas waith dda yn bodoli gyda Llywodraeth Cymru fel rheolydd allweddol. Cynhelir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru.
- Mae'r Cabinet wedi adolygu a chymeradwyo'r weledigaeth hon ar gyfer y Cyngor ac mae'r weledigaeth yn nodi nifer o Amcanion Strategol dros y tymor hir.
- Mae'r Strategaeth Gorfforaethol (2017-2022) yn cynnwys blaenoriaethau'r Cyngor.
- Mae'r Amcanion Llesiant a Gwella yn datblygu'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 ac fe'u hadolygir bob blwyddyn. Datblygir y rhain trwy ymgynghori â'r cyhoedd ac Aelodau. Ystyriodd y Cyngor Adroddiad Blynnyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21, gan gymeradwyo'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Deialog reolaidd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a rheolyddion eraill gan gynnwys Estyn, AGC, ICO ac IPCO.
- Cyfansoddiad y Cyngor, sy'n destun adolygiadau rheolaidd, gyda diweddariadau parhaus yn ôl y gofyn, gan gynnwys cyflwyno newidiadau arfaethedig i Weithgor Trawsbleidiol gyda Chydbwysedd Gwleidyddol am y Cyfansoddiad, i wneud argymhellion am newidiadau i'r Cyfansoddiad i'r Cyngor. Mae diwygiad pellach yn 2021 yn mynd rhagddo, gan bod y Cyfansoddiad yn ddogfen fyw, er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn unol â'r angen. Cymeradwyodd y Cyngor y diwygiadau ar 18.3.21 a 23.9.21. Mae'r Gweithgor Trawsbleidiol am y Cyfansoddiad yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried cynigion ynghylch diweddariadau i'r Cyfansoddiad. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar 15.2.21, 19.4.21, 30.6.21, 10.8.21 ac 8.11.21. MO/Swyddog Llywodraethu i adrodd i'r Cyngor er mwyn diweddarau dirprwyaethau a'r Cyfansoddiad.
- Rhaid i bob aelod o Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol, a gyflwynwyd ym mis Medi 2017, ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ('WFGA') (rhwng mis medi 2017 a mis Tachwedd 2021, fe'i cwblhawyd gan 2,834 o gyflogeion, yr oedd 343 o'r rhain wedi gwneud

hynny yn Gymraeg a 2,491 yn Saesneg). Rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, roedd 242 o gyflogeion wedi cwblhau'r modiwl at ei gilydd, 40 yn Gymraeg, 202 yn Saesneg (mae'r ffigurau yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael hefyd). Rhoddwyd nodiadau atgoffa i Staff nad oeddent wedi cwblhau'r modiwl eto, ac mae Grwpiau Arwain yn cael adroddiadau achlysurol.

- Cynhaliwyd Cynhadledd Safonau 2018 ar y cyd gan Gyngor Sir Powys a Cheredigion (fe'i chynhaliwyd ar 14 Medi 2018). Y bwriad oedd cynnal cynhadledd debyg gan Gyngorau Gogledd Cymru yn 2021 – fe'i gohiriwyd oherwydd Covid.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnal ymarfer meincnodi bob blwyddyn er mwyn cynnig sicrwydd pellach am yr adolygiad o'r broses DLIB.
- Mae IA yn adolygu ac yn adrodd am y broses bob blwyddyn. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried adroddiadau llywodraethu a chan reolydd allanol. Caiff ei gadeirio gan aelod anweithredol.
- Adroddwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Cyngor ar 23.9.2021 ac fe'i cymeradwywyd.
- Cyflwynwyd Strwythur Llywodraethu Covid-19 gan y Cyngor, i gynnwys pwerau dirprwyedig dros dro ar gyfer Prif Weithredwr a Grŵp Arweiniol y Cyngor trwy ddefnyddio Penderfyniadau Brys ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud ag ymateb COVID-19 y Cyngor), yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Adolygwyd Penderfyniad Brys yr Arweinydd yn rheolaidd, a daeth i ben ar 31.8.2021.
- Mae'r grŵp Rheoli Aur yn parhau dan weithdrefnau gweithredol yn unol â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004
- Cyhoeddir Cofnod o Benderfyniadau'r grŵp Rheoli Aur ar wefan y Cyngor). O ganlyniad i bandemig Covid-19, bu'n rhaid i'r grŵp Rheoli Aur wneud penderfyniadau am resymau brys (dan drosglwyddiad pŵer y swyddogaeth weithredol dros dro a oedd mewn grym tan 31.8.2021 ac ar gyfer gweithdrefnau gweithredol dan Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn dilyn y dyddiad hwnnw).
- Cynhyrwyd map ffyrdd, sy'n amlinellu'r gwasanaethau a ddarparir gan y Cyngor a'r rhai nas darparir gan y Cyngor, ynghyd â chynlluniau'r Cyngor, a gaiff ei adolygu'n rheolaidd, ar gyfer Ceredigion, gan gynnig trosolwg o'r gwasanaethau a ddarparir yng ngoleuni Pandemig Covid-19, y canllawiau presennol a nifer yr achosion yng Ngheredigion.
- Diweddarwyd a chymeradwywyd 'Strategaeth i Oresgyn Twyll, Llygredd a Llwgwrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' effeithiol gan y Cyngor ar 17.6.21(cadarnhawyd y cofnodion ar 23.9.21).
- Cyflwynir Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ynghylch Atal Twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ddiwedd y flwyddyn.
- Diweddarir aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am dwyll gan gynnwys adroddiad atal twyll blynyddol Archwilio Mewnol a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ddiwedd y flwyddyn.
- Cedwir Cofrestr Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol i Swyddogion ac mae Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Gyflogeion Llywodraeth Leol ar gael i gyflogeion ar CeriNet.
- Mae Polisi Chwythu'r Chwiban ar gael i Gyflogeion ar Chontractwyr (diweddarwyd 2018) ar CeriNet a chaiff ei ddiweddarau yn ôl yr angen.

Tudalen 627

- MO yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ('CLO'), ac mae'n cynghori'r sawl sy'n Chwythu'r Chwiban, pan fo hynny'n briodol.
- Rhaid i bob aelod o Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban. Mae MO yn cadw cofrestr o gyfeiriadau ac yn adrodd i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu bob 6 mis. O ran manteisio ar y modiwl e-ddysgu Gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban, rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, cwblhaodd 237 o Staff y Modiwl, 42 yn Gymraeg a 195 yn Saesneg (*mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael).
- Rhoddir sylw i'r holl gwynion yn unol â'r gweithdrefnau corfforaethol, sy'n cynnwys camau ffurfiol ac anffurfiol, a chaiff y rhain eu cyfleu i Staff yn rheolaidd.
- Caiff y system gwynion ei monitro gan y Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth Corfforaethol. Adolygwyd y Polisi Cwynion Corfforaethol, cyflwynwyd y Polisi newydd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7.7.21 ac i'r Cyngor ar 23.9.2021, ac mae Polisi a Gweithdrefnau Pryderon a Chwynion Diwygiedig 2021, ei weithrediad a'i gyhoeddiad wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor.
- Gweithredir gwelliannau o ganlyniad i'r cwynion/argymhellion a gafwyd.
- Hysbysiad Preifatrwydd Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor.
- Mae'r Adroddiad Cwynion Blynyddol, gan gynnwys y Gwersi a Ddysgwyd o'r cwynion, wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cabinet cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor, ei gyflwyno i'r Cyngor a'i nodi.
- Cyhoeddir cofnodion yr holl bwyllgorau ar Wefan y Cyngor. Mae holl agendâu/cofnodion Pwyllgorau yn cynnwys eitem am ddatgelu buddiannau.
- Cyhoeddir Hysbysiadau o Benderfyniadau'r Cabinet ar Wefan y Cyngor.
- Caiff pwerau statudol a goblygiadau cyfreithiol eu cynnwys ym mhob adroddiad Cabinet lle y gwneir penderfyniad.
- Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer cyhoeddi cofrestr penderfyniadau dirprwyedig yn parhau. Cyhoeddir Cofnod Penderfyniadau y Grŵp Rheoli Aur (cofrestr penderfyniadau) yn rheolaidd, fe'i cyflwynir i'r Grŵp Rheoli Aur (a'i gymeradwyo) ac ar ôl hynny i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu (20.1.2021, 16.6.21 ac 1.12.2021) ac fe'i cyhoeddir ar Wefan y Cyngor. O ran penderfyniadau dirprwyedig eraill, cyhoeddir penderfyniadau dirprwyedig y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar gyfer pob Pwyllgor Rheoli Datblygu.
- Cyhoeddir Cofrestr o Gontractau ar Wefan y Cyngor.
- Mae'r Cyngor yn gwneud paratodau i gydymffurfio â Deddf 2021 ynghylch y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (cyflwynwyd Adroddiad am newidiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24.2.2021 a 3.6.2021 (gan gynnwys gofyniad gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru i gael Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu)), a chymeradwywyd newidiadau ynghylch recriwtio gan y Cyngor ar 18.3.2021, fel a ganlyn:
 - a) newid enw'r Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a swyddogaethau ychwanegol ynghylch perfformiad a delio â chwynion a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021;
 - b) cychwyn y broses recriwtio ar gyfer aelodau lleyg annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;
 - c) y cynigion ar gyfer Panel Dethol y Rhestr Fer; a'r

d) Disgrifiad Rôl a'r Fanyleb Person.

- Newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad ynghylch y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn unol â Deddf 2021 a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 23.9.21. Mae'r newidiadau a wnaethpwyd yn ystod 2021-2022 yn cynnwys paratodau ar gyfer:
 - newidiadau i'r cylch gorchwyl/cylch gwaith/cyfansoddiad;
 - newid yr enw i'r 'Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu';
 - Yr aelodaeth fydd 2/3 Cynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (fel y'u diffinnir yn y Ddeddf) – recriwtio wedi'i gwblhau, ac eithrio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer yr ymgeiswyr llwyddiannus.
 - Dyletswydd y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Is-Gadeirydd ei hun;
 - Rhaid i'r Cadeirydd fod yn unigolyn lleyg.
 - Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac
 - yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol sy'n gallu cadeirio.
- Cyflwynwyd Adroddiad am faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 21.5.2021, a oedd yn cytuno argymhell i'r Cyngor y dylai'r Pwyllgor gynnwys 6 Aelod o'r Cyngor Sir a 3 aelod lleyg (9 at ei gilydd). Cyflwynwyd adroddiad am faint y Pwyllgor i'r Cyngor ar 17.6.2021 a chytunodd y Cyngor i'r un cyfansoddiad o ran aelodau o 5.5.2022.
- Mae swyddogion megis Archwilwyr Mewnol yn llofnodi datganiad blynyddol am y Cod Moeseg.
- Cymeradwywyd y Siarter Archwilio Mewnol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24 Chwefror 2021.
- Dosbarthwyd yr Holiadur Dadansoddi Anghenion Hyfforddiant ar ffurf cylchlythyr gan y Cyngor i'r Staff, yn holi eu barn am ddiwylliant moesegol y Cyngor a'r modiwl hyfforddiant bwriadedig er mwyn ymateb i'r adborth.
- Mae hyfforddiant ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth a recriwtio a dethol, gan gynnwys cyfle cyfartal, yn orfodol i holl Reolwyr Cyngor Sir Ceredigion.
- Cymeradwywyd Strategaeth Gaffael 2018-2022 gan y Cyngor ar 19 Mehefin 2018 a chyflwynir hyfforddiant ynghylch caffael i'r Staff hefyd.
- Polisi DBS a Pholisi Recriwtio y Cyngor.
- Mae Amodau a Thelerau safonol ar gyfer yr holl Gyflenwyr Nwyddau a gwasanaethau yn cynnwys amodau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.
- Defnyddir meddalwedd fewnol i ôl-wirio taliadau dyblyg drwgdybiedig.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu Polisi Caethwasiaeth Fodern (a anfonir at gontractwyr y Cyngor), Datganiad Blynyddol Atal Caethwasiaeth 2019-2020 a Chod Ymarfer Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi.
- Mae MO a'r Gwasanaethau Cyfreithiol ar gael i roi cyngor pan fo hynny'n briodol, gan gynnwys ymlaen llaw ac yn ystod cyfarfodydd ac mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gael i roi cyngor pan fo hynny'n briodol.
- Mae MO yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Arweiniol/Cabinet/Cyngor ac mae'n mynychu nifer o gyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd, yn ôl y gofyn, os bydd ar gael ar y pryd. Yn absenoldeb yr MO, bydd y Dirprwy MO yn mynychu cyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor.
- Bydd Deddf 2021 yn cael effaith ar gyrff corfforaethol, gan gynnwys y Cyngor, ac mae'r paratodau er mwyn cydymffurfio yn parhau, gan

Tudalen 629

gynnwys trwy gyfrwng y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad (mae aelodau pob grŵp gwleidyddol yn mynychu hwn), adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cyngor, ac mae Cynllun gweithredu y Cyngor wedi cael ei baratoi a'i ddiweddarau'n rheolaidd, a chynhelir cyfarfodydd gyda Swyddogion a CLOs perthnasol, pan fo hynny'n briodol.

- Mae disgrifiadau swydd a manylebau person yn diffinio'r rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ofynnol ar gyfer swyddi yn glir ac mae disgrifiadau Rôl Aelodau yn nodi eu gwahanol gyfrifoldebau.
- Cydymffurfiaeth gyda Datganiad CIPFA ynghylch Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol (CIPFA, cyhoeddwyd 13 Ebrill 2016).
- Cydymffurfiaeth gyda Datganiad CIPFA ynghylch Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus (CIPFA, cyhoeddwyd 9 Ebrill 2019) a chyhoeddwyd y cyfraniad yn nogfen gysylltiedig CIPFA, *Putting Principles into Practice* (2019)).
- Caiff Cylch gorchwyl ei gynnwys yn y Cyfansoddiad a diweddarwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn unol â Deddf 2021.
- Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Rheoliadau Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad).
- Rheolau Gweithdrefn Contract (Dogfen G yng Nghyfansoddiad y Cyngor).
- Cydymffurfiaeth gyda Chodau Penodol e.e. Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus i Archwilwyr Mewnol ('PSIAS', Mawrth 2017)
- Swyddogion statudol sy'n atebol i'r Prif Weithredwr ('CE') a'r Cyngor.
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng CE, Swyddog A.151 ac MO, y mae ganddynt fynediad uniongyrchol i'r CE ac sy'n adrodd i'r Cyngor yn gyffredinol ac fel rhan o ddyletswydd statudol. Mae'r MO a'r Swyddog A.151 yn aelodau allweddol o'r Grŵp Arweiniol.
- Mae gan y Rheolwr Corfforaethol – archwilio Mewnol ('CMIA') fynediad rhydd a dilyffethair i Aelodau a Swyddogion ar bob lefel, a hawl fynediad yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor a'r Siarter Archwilio Mewnol.
- Ymchwiliadau mewnol, Archwilio Allanol effeithiol.
- Polisi Disgyblu (Tachwedd 2017).
- Mae Swyddog yn y tîm IA yn Dechnegydd Atal Twyll achrededig ac mae Swyddog(ion) yn y tîm IA yn meddu ar Dystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwilio ('CCIP').
- Mae'r Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Menter Twyll Genedlaethol flynyddol Archwilio Cymru, a gaiff ei chydlynu gan yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd.
- Monitro ac ymateb i rybuddion ynghylch twyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati).
- Aelodaeth a chyfranogiad weithredol mewn grwpiau a rhwydweithiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati).
- Mae IA yn cynnig cyngor i wasanaethau ynghylch gweithredu systemau a phrosesau newydd er mwyn sicrhau y caiff trefniadau rheoli mewnol effeithiol eu cynnal.
- Mae Swyddogion Enwebedig y Cyngor yn ymgymryd â hyfforddiant amrywiol ynghylch twyll er mwyn cynnal eu gwybodaeth a'u harbenigedd.
- Pan fo hynny'n briodol, cyhoeddir erlyniadau llwyddiannus ar wefan y Cyngor (ac yn y wasg leol).
- Caiff taliadau grant Covid-19 eu harchwilio cyn eu talu (gan ei bod yn haws stopio taliad na'i adfer).

Tudalen 630

- Ychwanegir archwiliadau rheoli ariannol allweddol i'r cynllun archwilio, i archwilio camau rheoli, llywodraethu a risgiau pan fo'r staff yn gweithio gartref.
- Gall cynllun archwilio blynyddol IA roi sylw i unrhyw weithgarwch ail-flaenoriaethu gwaith sy'n angenrheidiol, gan ganiatáu i'r IA ymateb i unrhyw newidiadau o ran y risg yn y Cyngor.

B. Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu mewn modd cynhwysfawr â rhanddeiliaid:

- Mae'r holl adroddiadau Blynyddol statudol ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Cynllun cyhoeddi y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, Polisi Rhyddid Gwybodaeth (Mawrth 2018) a Hysbysiad Preifatrwydd Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth. Ymatebion rheolaidd ac amserol i'r wasg ac ymholiadau eraill i Reolwyr ac aelodau, yn ogystal ag ymatebion FOI cynhwysfawr. Mae'r adolygiad o gynllun Cyhoeddi FOI yn mynd rhagddo.
- Mae'r Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth Corfforaethol yn eu swydd.
- Mae lluo o feysydd gwasanaeth ar gael ar-lein gan gynnwys gwybodaeth a hunan-wasanaeth treth gyngor.
- Nodir nodau a gwerthoedd y Cyngor yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022. Caiff yr Amcanion Llesiant a Gwella eu cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 y Cyngor ac fe'u hadolygir bob blwyddyn. Ystyriodd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21 drafft, gan gymeradwyo'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Darlledir cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet. Mae holl gyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau yn agored i'r cyhoedd a chyhoeddir agendâu a phapurau ar wefan y Cyngor (ac eithrio adroddiadau wedi'u heithrio).
- Caiff cyfeiriadau e-bost MO a Moeseg a Safonau generig eu creu.
- Polisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (Mawrth 2018).
- Cymeradwywyd Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd Trosolwg a Chraffu (2018) (Dogfen N Cyfansoddiad) gan y Cyngor ac fe'i ddefnyddiwyd sawl gwaith. Yn ogystal, Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhestr Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth.
- Protocol er mwyn siarad yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu (Cyfansoddiad I Dogfen Rhan 4).
- Mae Protocol mewn grym ar gyfer perthnasoedd gwaith rhwng Aelodau a Swyddogion e.e. Protocol Swyddog-Aelod) (Rhan 5 Cyfansoddiad) a chymeradwywyd Protocol mynediad gan Aelodau'r Cabinet i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gan y Cyngor (Cyfansoddiad M2 Dogfen Rhan 5).
- Cymeradwywyd offeryn ac arweiniad Asesiad Effaith Integredig ('IIA') i'w weithredu.
- Datblygwyd canllawiau ac offeryn IIA er mwyn cyfrannu at wneud penderfyniadau effeithiol ac maent yn cael eu gweithredu, ac adroddir casgliadau IIA i'r Cyngor, y Cabinet ac i Drosolwg a Chraffu. Aeth 10 IIA i'r Cabinet yn ystod 2021-22 tan 1.12.2021. Pwyllgorau, sy'n cynnwys ymgynghori.
- Defnyddir canllawiau a thempledi safonol er mwyn adrodd i'r Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac mae'r rhain oll yn cynnwys canlyniadau IIA.

Tudalen 631

- Asesir yr holl IIA ar gyfer y Cabinet gan y Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb, gan gynnwys a oes gweithgarwch ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori wedi digwydd a phroses wybodus o wneud penderfyniadau.
- Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sefydliadol ar gael fel modiwl dewisol yn y Rhaglen Rheolwr Corfforaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a defnyddio'r IIAs.
- Cyflwynwyd prosesau i fonitro adborth e.e. cyflwynir unrhyw adroddiadau ymgynghori/ymgysylltu i'r pwyllgor Craffu ac i'r Cabinet er mwyn cyfrannu at eu penderfyniadau.
- Cofnodir adborth o weithgarwch ymgysylltu a sut yr ystyriwyd safbwyntiau pobl yn yr IIAs.
- Diweddarwyd templed adrodd y Cyngor/Cabinet er mwyn cynnwys cyfeiriad at oblygiadau cyfreithiol, goblygiadau staffio, goblygiadau o ran eiddo/asedau a risgiau.
- Pan fo hynny'n briodol, mae eitemau yr adroddir amdanynt er mwyn cael penderfyniadau trwy'r Cabinet, y Cyngor a Phwyllgorau yn destun cyngor cyfreithiol ac ariannol, a gwneir cyfeiriad at y cyngor hwn ym mhob adroddiad.
- Cyhoeddir calendr o ddyddiadau cyfarfodydd, gan gynnwys blaenraglenni gwaith y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau ar wefan y Cyngor.
- Cyhoeddir yr holl adroddiadau blynyddol, Datganiadau o gyfrifon, adroddiadau cynnydd Gwelliant o fewn amserlenni ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.
- Mae'r Rhestr Gyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori yn cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid cynnal ymgynghoriad am newid arfaethedig ac mae canllawiau ynghylch lledaenu canlyniadau ymgynghori ar gael i Swyddogion.
- Mae tudalen Ymgysylltu Cymunedol, Ymgynghoriadau a Phartneriaethau wedi cael ei chreu ar CeriNet, sy'n cynnwys dolenni i'r Polisi Ymgysylltu Cymunedol (11 Ionawr 2013), Rhestr Gyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori, Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth ac Offeryn Gwneud Penderfyniadau Ymgynghori
- Mae'r gwaith wedi cychwyn i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf 2021, a fydd yn cynnwys sut y bydd y Cyngor yn annog cyfranogiad mewn gweithgarwch gwneud penderfyniadau hefyd, er ein bod yn aros am ganllawiau terfynol gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rhan hon o'r ddeddfwriaeth.
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Safonau Cyfranogi.
- Mae Rhestr Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth gan gynnwys rhanddeiliaid y dylai'r awdurdod ymgysylltu â nhw yn ei lle.
- Adroddir adroddiadau cryno am weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn ôl i'r Aelodau a defnyddwyr gwasanaeth.
- Cofnodion cyfarfodydd ymgysylltu strwythuredig, digwyddiadau a grwpiau ymgysylltu gyda phobl y mae ganddynt nodweddion gwarchoddedig.
- Lluniwyd Polisi Ymgysylltu Drafft newydd er mwyn ystyried y fethodoleg ymgysylltu ddiweddaraf, gan gynnwys ymgysylltu digidol. Ymgynghorir am hwn a chytunir arno yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.
- Mae Strategaeth Ymgysylltu newydd ddrafft ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, 'Siarad, Gwrando a Chydweithio' wedi cael ei pharatoi. Ymgynghorir am hon a chytunir arni yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.

Tudalen 632

- Mae'r Cyngor, ar y cyd â phartneriaid, wedi cyflawni gwaith ymgysylltu sylweddol er mwyn paratoi Asesiad Llesiant a Chynllun Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ('BGC').
- Mae'r gwaith wedi cychwyn ar y broses o baratoi'r asesiad Llesiant Lleol nesaf a gyhoeddir ym mis Mawrth 2022.
- Ymgynghoriadau 2020-21.
- Caiff ymgynghoriadau eu hyrwyddo trwy gyfrwng Cyfryngau Cymdeithasol.
- Lledaenir canlyniadau gweithgarwch ymgynghori a chaiff adroddiadau am ymarferion ymgysylltu ac ymgynghoriadau a gwblhawyd eu postio ar dudalen y Cyngor ar y we ynghylch ymgynghoriadau cyhoeddus er mwyn rhoi adborth i'r cyhoedd.
- Mae Cylch Gorchwyl BGC ar gael ar Wefan y Cyngor, mae Cylch Gorchwyl Grwpiau Prosiect BGC ar gael ac mae trefniadau Craffu ar gyfer BGC wedi cael eu gwneud.
- Cynhaliwyd Asesiad Llesiant (BGC) sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad Cynllun Llesiant Lleol BGC, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018.
- Adolygwyd y Polisi Cwynion Corfforaethol, cyflwynwyd Polisi newydd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7.7.21 ac i'r Cyngor ar 23.9.2021, ac mae Polisi a Gweithdrefnau Pryderon a Chwynion 2021 Diwygiedig, ei weithrediad a'i gyhoeddi, wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor.
- Adolygwyd Polisi a Gweithdrefn Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Datblygwyd offeryn gwneud Penderfyniadau Ymgynghori (siart llif a Choeden Ymgynghori) ar gyfer Staff ac Aelodau ac mae'n cynnwys defnyddio adborth.
- Mae gweithgarwch ymgynghori pellach yn cynnwys:
 - Mae swydd Ymgysylltu a Chydraddoldeb newydd wedi cael ei chreu trwy ailstrwythuro'r gwasanaeth Polisi a Pherfformiad; ac
 - Mae'r holl ymgynghoriadau cyfredol ar gael ar wefan y Cyngor.
- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol (diwygiwyd Awst 2018).
- Defnyddir cyfryngau cymdeithasol er mwyn ceisio safbwyntiau'r cyhoedd ynghylch materion a ystyrir gan Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.
- Oherwydd Covid-19, mae'r Cyngor wedi ymgynghori o bell trwy gyfrwng cynadleddau fideo ac arolygon electronig.
- Cyhoeddwyd canllawiau ar fewnwyd Cyngor Ceredigion i'r holl Staff eu dilyn ynghylch lledaenu adborth i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'r arwyddion a welwyd yn ddiweddar yn dynodi bod Swyddogion yn gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn.
- Cynhelir ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori ar y cyd.
- Cynhelir prosiectau ar y cyd gyda rhanddeiliaid sefydliadol ac mae trefniadau llywodraethu clir mewn grym.
- Mae Templedi a Chanllawiau Safonau Cydweithio ar gyfer Prosiectau Strategol Newydd ar gael.
- Mae partneriaethau yn cynnwys:
 - BGC;
 - Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru;
 - Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (adolygwyd yn 2019 ac yn destun gweithgarwch Craffu);
 - Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru; a
 - Thyfu Canolbarth Cymru.

Tudalen 633

- Cwblhawyd yr adolygiad ffurfiol o bartneriaethau sy'n eistedd dan BGC. Mae'r strwythur partneriaeth newydd wedi bod yn weithredol er mis Mehefin 2018 ac adolygir y partneriaethau yn gyson.
- Gweithgarwch rheolaidd i adrodd am gyfarfodydd partneriaeth a gweithgarwch i'r Grŵp Arweiniol a'r Cabinet.
- Sefydlwyd partneriaethau megis Tyfu Canolbarth Cymru gyda threfniadau llywodraethu. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Tyfu Canolbarth Cymru
- Mae metrigau partneriaeth yn destun gweithgarwch adolygu mewnol, pan fo hynny'n briodol.
- Adroddir am fframwaith partneriaeth monitro sy'n adrodd am yr holl benderfyniadau allweddol a wneir gan bartneriaethau sy'n bodoli eisoes i'r Grŵp Arweiniol.
- Rhoddir cyngor i Aelodau a Swyddogion sy'n gwasanaethu ar gyrrff allanol.
- Mae'r Tîm Cyfreithiol yn ymwneud â'r gwaith o ddrafftio ac adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Cytundebau Rhyng-Awdurdod ('IAAs') a phwyllgorau ffurfiol.
- Datblygwyd cyfres o ddogfennau sy'n ymwneud â phrosiectau cydweithio strategol y mae'r Awdurdod yn ystyried ymrwymo iddynt. Mae'r dogfennau yn cynnwys canllawiau, safonau a thempledi niferus ar gyfer camau amrywiol prosiectau cydweithio.
- Cynhaliwyd Hunanasesiad o'r Grŵp Gweithredol.
- Mae gofyn i'r holl gynigion ynghylch ad-drefnu ysgolion fod wedi ymgynghori'n ffurfiol gyda rhanddeiliaid trwy gydymffurfio gyda Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru.
- Canllawiau ynghylch Brandio Corfforaethol (Mai 2019).
- Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol (2019-2022).
- Cyflawnwyd cyswllt Cymunedol Effeithiol gyda'r gwaith asesu llesiant a gyda defnyddwyr gwasanaeth o wahanol gefndiroedd er mwyn cyfrannu at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.
- Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru ar yr adolygiad o'n Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Lluniwyd fframwaith ymgynghori ac ymgysylltu a set o gwestiynau ar y cyd ac o ganlyniad, cafwyd adborth gan bobl sy'n meddu ar nodweddion gwarchoddedig.
- Cyhoeddir adroddiad blynyddol am y cynnydd a sicrhawyd yn erbyn amcanion Llesiant a blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor ar Wefan y Cyngor.
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu CCUHP – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

C. Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy:

- Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022.
- Caiff Amcanion Llesiant a Gwella y Cyngor eu cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 y Cyngor ac fe'u hadolygir bob blwyddyn a'u hadrodd yn adroddiad blynyddol yr amcanion Llesiant a Gwella a gyhoeddir ar wefan Cyngor Sir Ceredigion. Ystyriodd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21 drafft, gan gymeradwyo'r

Tudalen 634

Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.

- Amlinellir gwybodaeth ynghylch perfformiad yn Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella y Cyngor.
- Mae'r Cyngor wedi pennu diben a gweledigaeth y Cyngor ac mae'r rhain yn cael eu cynnwys yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-22. Mae'r strategaeth hon yn dangos sut y bydd yr awdurdod yn cynorthwyo ac yn hyrwyddo llesiant dinasyddion Ceredigion.
- Cyhoeddwyd Cynllun Llesiant Lleol BGC ym mis Mai 2018.
- Mae'r Awdurdod wedi cymryd y camau canlynol tuag at weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:
Paratoi datganiad ac amcanion llesiant;
 - Ymgorffori'r Nodau Llesiant a'r egwyddor datblygiad Cynaliadwy yn y broses cynllunio busnes;
 - Datblygu canllawiau ac offeryn IIA newydd (cyflwynwyd hyfforddiant i Swyddogion ac Aelodau);
 - Sefydlu grŵp a chynllun gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
 - Caiff y Cyfansoddiad ei fonitro a'i adolygu yn barhaus;
 - Cyhoeddwyd asesiad Llesiant Lleol BGC ym mis Mawrth 2017;
 - Cytunwyd ar drefniadau craffu ar gyfer BGC;
 - Adroddiadau Cabinet, gan gynnwys yr asesiad effaith Cymdeithasol/economaidd/amgylcheddol;
 - Datblygwyd modiwl e-ddysgu gorfodol am y Ddeddf ac mae wedi cael ei hyrwyddo ymhlith holl Staff y Cyngor;
 - Rhaid cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb, cymunedol a'r iaith Gymraeg am yr holl gynigion ynghylch ailstrwythuro ysgolion fel sy'n ofynnol dan God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru; ac
 - Mae aelodau wedi cyfrannu at Fframwaith Craffu Swyddog Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â DLICD
- Mae'r holl drefniadau Cynllunio yn adlewyrchu'r Edau Aur ac yn ffurfio'r cysylltiadau gyda chynlluniau Corfforaethol, gan gynnwys;
 - Cynllun Strategol;
 - Adrodd am Reoli Perfformiad Corfforaethol; ac
 - Amcanion Gwella Llesiant
- Mae Polisi Cymunedol ac Ymgysylltu (11 Ionawr 2013) ar gael.
- Datblygwyd Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2014 er mwyn darparu adnodd hawdd i'w ddefnyddio i Swyddogion wrth ddatblygu a chynnal gweithgarwch ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd gyda'u cymunedau, yn unol ag Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd.
- Adroddir diweddariadau am arbedion yn y gyllideb ac am waith y Grŵp Datblygu i'r Grŵp Ymgynghori Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd.
- Mae'r broses o bennu cyllidebau yn destun gweithgarwch craffu manwl gan y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.
- Mae'r broses cynllunio busnes yn cynnwys neilltuo adnoddau a chaiff Cynlluniau Busnes eu paratoi bob blwyddyn a'u monitro bob chwarter gan Fwrdd Perfformiad, sy'n cynnwys aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

Tudalen 635

- Mae trefniadau perfformiad chwarterol yn darparu protocol herio er mwyn sicrhau y cyflawnir canlyniadau.
- Mae trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol yn cynnwys asesiad chwarterol o'r risgiau wrth geisio cyflawni canlyniadau neu ddarparu'r gwasanaeth.
- Mae gweithgarwch rheoli risg yn cynnwys cofnodion risg ar gyfer;
 - Cynlluniau Busnes (Lefel 1); a
 - Chynlluniau Gwasanaeth (Lefel 2).
- Caiff mesurau perfformiad lleol eu cynnwys mewn cynlluniau cyflawni Busnes a gwasanaeth.
- Mae Cynlluniau Cyfalaf yn cynnwys;
 - Hawliau Tramwy;
 - Priffyrdd;
 - Cynllun Cyllideb Blynyddol; a
 - Thrawsnewid.
- Cymeradwywyd y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheoli Risg gan y Cabinet ar 24 Medi 2019.
- Cyflwynir hyfforddiant Rheoli Risg i Aelodau a Rheolwyr Uwch.
- Datblygwyd pecyn e-ddysgu rheoli risg i'r holl Staff eraill a chynhaliwyd hyfforddiant yn 2019, a threfnwyd gweithdy gydag yswirwyr ar gyfer Rheolwyr uwch.
- Caiff cyhoeddi perfformiad gwasanaeth, gan gynnwys data ynghylch costau a gwerth am arian, ei ystyried yn rheolaidd mewn adroddiadau gwasanaeth.
- Mae'r Archwilydd a benodir yn ystyried trefniadau'r Cyngor er mwyn sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Yn ei lythyr, mae wedi datgan bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ynghylch ei ddefnydd o adnoddau.
- Cyhoeddwyd yr Archwiliad mwyaf diweddar o Gynllun Gwella y Cyngor (2020-2021) ym mis Tachwedd 2020. Daeth yr adroddiad i'r canlyniad cadarnhaol bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn ffordd ddigonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau.
- Caiff ffurflen arfarnu cyfalaf ei llenwi ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd, sy'n cynnwys y gofyniad ar gyfer y prosiect, ac fe'i ddefnyddir i asesu gwerth am arian a goblygiadau refeniw prosiectau mawr.
- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys Strategaeth Buddsoddiad Cyfalaf hefyd.
- Mae datganiad polisi caffael Cymru yn cyd-fynd â Strategaeth Caffael 2018-2022 y Cyngor.
- Mae canllawiau ac offeryn IIA ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn cynorthwyo gweithgarwch gwneud penderfyniadau.
- Cyhoeddir pob adroddiad a'r holl gofnodion mewn ffordd amserol ac mae modd eu harchwilio. Mae pob cyfarfod yn gyfarfod cyhoeddus, yn unol ag ystyriaethau gwybodaeth wedi'i heithrio yn unol â diffiniad Deddf Llywodraeth Leol 1972.
- Anogir gweithgarwch Craffu cyn gwneud penderfyniadau pan fo modd.
- Y Rhaglen Trawsnewid.
- Mae Rhestrau Cyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori ar gael ar CeriNet.
- Cynllun Gweithredu Grŵp DLICD.

- Cyflwynir Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, ac adroddiad monitro 2020-2021 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Blynyddol i'w gymeradwyo, ac ar ôl eu cymeradwyo, fe'u cyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Safonau'r Gymraeg ac adroddiad monitro Safonau'r Gymraeg Blynyddol.
- Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant e-ddysgu gorfodol am Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.
- Cyflwynwyd Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Blynyddol 2020/21 i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol ar 27.10.21 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 9/12/21.

D. Penderfynu ar yr ymyriadau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig gystal ag y bo modd:

- Mae arweiniad ac offeryn IIA ar gael a chyflwynwyd hyfforddiant i Swyddogion ac Aelodau.
- Defnyddir templedi adrodd safonol yn y broses o wneud penderfyniadau.
- Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sefydliadol ar gael fel modiwl dewisol yn y Rhaglen i Reolwyr Corfforaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch y broses o wneud penderfyniadau, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a defnyddio'r IIAs, ac mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac MO (CLO-Cyfreithiol a Llywodraethu) yn rhoi cyngor yn ôl yr angen.
- Cyhoeddir Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg (a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 24.9.10) gyda rhaglen hyfforddiant ar gyfer Aelodau, Rheolwyr Uwch a Rheolwyr ar CeriNet ac maent ar gael i bob Aelod o Staff.
- Diwygiwyd dogfennau i adlewyrchu risgiau ychwanegol a gwybodaeth gefndirol er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus. Adroddir y Gofrestr Risg Corfforaethol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn rheolaidd (9.9.2021, 3.6.2021).
- Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi cael ei diweddarau'n rheolaidd a chymeradwywyd y fersiwn cyfredol dyddiedig 2021/22 Ymlaen gan y Cyngor ar 5.3.2021.
- Mae offeryn coeden benderfynu ymgynghori yn cynnwys adran sy'n cynnig arweiniad ynghylch lledaenu canlyniadau ymgynghori.
- Her gyllid ynghylch arbedion ar Wefan y Cyngor.
- Mae trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau chwarterol canlynol:
 - Adroddiad Gwasanaeth y Prif Swyddog Corfforaethol;
 - Bwrdd Perfformiad; a
 - Chyfarfodydd Panel Gweithredol.
- Gweithredir y broses Cynllunio Busnes ar gyfer 2021-22 a rhennir Cynlluniau Busnes Lefel 1 gyda'r Tîm Perfformiad ac Ymchwil.
- Nodwyd mesurau perfformiad ym mhob Cynllun Busnes Lefel 1 ac mae'r rhain yn eu tro yn cael eu trosi i'r Dangosfwrdd adrodd ar gyfer pob gwasanaeth. Craffwyd y mesurau hyn yn ofalus ac fe'u cymeradwywyd yn derfynol gan arweinwyr uwch. Mae gwasanaethau yn adrodd yn erbyn y mesurau hyn fel rhan o'r broses rheoli perfformiad ar gyfer y flwyddyn.
- Mae Cynlluniau Busnes yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y gyllideb a chyllid ac maent yn rhan o'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol chwarterol.

Tudalen 637

- Defnyddir calendr i adrodd terfynau amser a chyhoeddir dyddiadau Bwrdd/Panel Gweithredol gydag adroddiadau.
- Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol 2019-2022.
- Mae gan BGC Ceredigion Gynllun Llesiant Lleol a ddatblygwyd ac a gyflawnwyd ar y cyd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allanol.
- Cynhaliwyd Aseiad Llesiant Lleol gan y BGC sydd wedi cyfrannu at y Cynllun Llesiant Lleol ac Amcanion Llesiant y Cyngor ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r holl brosiectau cydweithio mawr wedi pennu trefniadau llywodraethu a rheoli gan gynnwys rheoli risg.
- Ystyrir pob prosiect gan Banel Rheoli Prosiectau Corfforaethol, a fynychir gan IA hefyd ac mae'n fforwm effeithiol ar gyfer cynghori/herio ac amlygu risgiau wrth i feysydd Gwasanaeth ddatblygu prosiectau, gan gynnwys prosiectau cydweithio.
- Mae'r Panel Rheoli Prosiectau Corfforaethol yn helpu i sicrhau bod prosiectau yn ystyried yr elfennau canlynol yn gynnar: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; arweiniad arall; cyllid, caffael, llywodraethu a threfniadau cyfreithiol; goblygiadau AD; Iechyd a Diogelwch; ac Archwilio. Gwella trefniadau prosiect cyn adrodd i'r Grŵp Datblygu a phrosesau awdurdodi eraill.
- Ystyrir newidiadau deddfwriaethol e.e. mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â gweithredu newidiadau deddfwriaethol megis newidiadau Deddf LGEW 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir. Cynhelir cyfarfodydd ac mae gwaith paratoi yn cael ei wneud, er enghraifft, ynghylch gofyniad Deddf 2021 am Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys risgiau posibl ac a rennir (sefydlwyd grŵp CJC, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 19 Ebrill 2021, i ystyried y gofyniad i sefydlu CJC Canolbarth Cymru yn unol â Deddf 2021).
- Sefydlwyd Grŵp Rheoli Prosiect Corfforaethol er mwyn ffurfioli gweithgarwch datblygu a rheoli prosiectau.
- Sicrhau bod Staff sy'n meddu ar sgiliau rheoli prosiect ar gael.
- Mae hyn yn helpu i sicrhau bod prosiectau yn ystyried y canlynol yn gynnar: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; arweiniad arall; cyllid, caffael, llywodraethu a threfniadau cyfreithiol; goblygiadau AD; Iechyd a Diogelwch; ac Archwilio. Gwella trefniadau prosiect cyn adrodd i'r Grŵp Datblygu a phrosesau awdurdodi eraill.
- Mae'n helpu i nodi'r gofynion ynghylch cyfalaf i'w cynnwys mewn rhaglenni cyfalaf yn y dyfodol.
- Pennwyd a chymeradwywyd dangosyddion perfformiad lleol ar gyfer pob elfen gwasanaeth ac maent wedi cael eu cynnwys yn y cynllun gwasanaeth, ac adroddir amdanynt yn rheolaidd.
- Fframwaith Cyllideb.
- Cyfrifyddu Gwasanaeth – Monitro cyllideb.
- Mae Rheoliadau Ariannol a Rheolau am y Weithdrefn Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad), ynghyd â Chanllawiau Rheoli Cyllidebol wedi cael eu diweddarau. Datganiadau Sicrwydd Prif Swyddog.
- Mae'r trefniadau rheoli mewnol sydd mewn grym yn destun gweithgarwch adolygu rheolaidd gan Archwilywyr Mewnol, yn unol â'r cynllun archwilio blynyddol sy'n seiliedig ar risg.
- Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022.
- Cymeradwywyd Cynllun a Strategaeth Archwilio Mewnol 2021/2021 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24 Chwefror 2021.

- Mae'r cynllun arbedion corfforaethol wedi bod trwy broses lywodraethu gadarn er mwyn sicrhau bod yr holl arbedion yn cysylltu â'r canlyniadau gwasanaeth a ddymunir.
- Caiff Buddion Cymunedol eu hymwreiddio yn ein Prosesau a'n Polisiâu ac maent wedi cael eu gweithredu a'u monitro ac adroddwyd amdanynt yn rheolaidd.
- Caiff Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ei hintegreiddio yn ein prosesau.

E. Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo:

- Mae trefniadau ymsefydlu corfforaethol ac ar gyfer rheolwyr llinell bellach mewn grym. Cyflwynwyd cynlluniau Datblygu Rheolwyr Corfforaethol ac ymsefydlu Corfforaethol ym mis Ebrill 2018. Mae sesiynau ymsefydlu corfforaethol yn rhan o'r gofynion hyn, rhaid i bob aelod o Staff newydd fynychu sesiwn ymsefydlu. Mae Rheolwyr Uwch yn cyflwyno yn y sesiynau wyneb-yn-wyneb hyn.
- Darparir rhaglen ymsefydlu ar gyfer Aelodau newydd. Darparir hyfforddiant parhaus i Aelodau a threfnir darpariaeth ynghylch materion penodol e.e. rheoli Trysorlys, a hefyd, cynhelir adolygiad parhaus o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant sgiliau a diweddarau, gan gynnwys Cynllun Adolygu Datblygiad Personol (defnyddir y wybodaeth i ddatblygu Cynllun Hyfforddiant Aelodau) a darparir rhaglen ymsefydlu gynhwysfawr newydd ar ôl yr etholiad (o fis Mai 2022), a fydd yn cynnwys modiwlau e-ddysgu ychwanegol.
- Cynllun datblygu aelodau.
- Mae paratodau yn cael eu gwneud ar gyfer (fel rhan o'r rhaglen ymsefydlu i Aelodau (o fis Mai 2022)) hyfforddiant i Aelodau'r Cabinet, hyfforddiant i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg (rôl), hyfforddiant am Ddyletswyddau Arweinydd Grŵp Gwleidyddol a hyfforddiant ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (rôl).
- Cyflawnwyd Datblygiad/Hyfforddiant fel rhan o fanylebion person ar gyfer prif swyddi cyllid a chyfreithiol (cymhwyster gorfodol, gofynion y swydd).
- Adolygiadau personol ar gyfer Swyddogion a darparu cyfleoedd i Swyddogion gael hyfforddiant diweddarau a sgiliau parhaus.
- Caiff CeriNet (yr adnodd a'r mewnrwyd AD i Staff a rheolwyr) ei adolygu'n barhaus a'i wella er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd. Mae ei gyflwyno wedi gwella effeithiolrwydd. Mae gwybodaeth ynghylch ymsefydlu ar gael, ynghyd â'r Pecyn Cymorth i Reolwyr a'r llawlyfr Staff.
- Bellach, rheolir Dysgu a Datblygu trwy system Ceri a chynigir cyfleoedd i bob aelod o Staff, a hefyd, cynigir cyfleoedd i'r rhai sy'n cyflawni Rôl Arwain neu y maent yn dymuno bod yn arweinwyr. Cyflwynir modiwlau e-ddysgu er mwyn sicrhau bod hyfforddiant a datblygu yn gost-effeithiol lle bynnag y bo modd.
- Caiff pecynnau e-ddysgu eu datblygu a'u cyflwyno'n rheolaidd ar gyfer hyfforddiant gorfodol ac anorfodol.
- Mae pecyn cymorth cynllunio Gweithlu Strategol yn cynnwys adnabod anghenion hyfforddiant a dysgu pob maes gwasanaeth.
- Mae Arfarniadau Perfformiad yn cofnodi anghenion hyfforddiant a datblygu trwy system Ceri.

Tudalen 639

- Cynllun Perfformiad a Datblygiad Personol blynyddol parhaus – mae Adolygiadau Perfformiad yn cysylltu ag amcanion Corfforaethol a strategol.
- Mae proses Adolygu Datblygiad Personol yn ei lle ar gyfer Aelodau.
- Nod y Cyngor yw sicrhau'r lefel safonol ar gyfer Siarter Cymru o ran Cymorth a Datblygiad Aelodau.
- Mae'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn darparu'r fforwm ar gyfer anghenion rheoli perfformiad ac ar ôl hynny, paratoi'r cynlluniau gweithredu er mwyn darparu gwelliannau corfforaethol wrth adolygu perfformiad Staff. Cryfhawyd y rhain ymhellach wrth gyflwyno arfarniadau blynyddol ar gyfer yr holl Staff trwy gyfrwng system AD Ceri.
- Gall yr holl Staff fanteisio ar ddigwyddiadau dysgu a datblygu trwy gyfleuster hunan-wasanaeth Ceri. Yn ogystal, gall rheolwyr archebu lle i Staff ar ddigwyddiadau perthnasol trwy'r cyfleuster Hunan-wasanaeth i Reolwyr.
- Cryfhawyd cynlluniau datblygu staff sy'n gysylltiedig ag arfarniadau wrth gyflwyno'r modiwl Rheoli Perfformiad yn Ceri.
- Mae Rhaglen Rheolwyr Ceredigion yn cynnig datblygiad personol gan gynnwys trefniadau llywodraethu a gwybodaeth sefydliadol.
- Mae Cynllun Gweithlu 2017-2022 yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer datblygiad Staff mewn themâu allweddol.
- Mae aelodau yn mynychu digwyddiadau, seminarau a chynadleddau amrywiol (gweler uchod).
- Defnyddio ymarferion meincnodi ac ymchwil.
- Mae system gyflogres AD Ceri wedi sicrhau bod data ystyrlon am Staff bellach ar gael i Reolwyr bob mis er mwyn monitro costau, trosiant ac absenoldeb.
- Gweithrediad effeithiol partneriaethau sy'n cyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt. Datblygwyd Partneriaethau effeithiol mewn sawl maes a gwasanaeth gan gynnwys:
 - Gwella Ysgolion;
 - Iechyd a Gofal cymdeithasol;
 - Porth Agored; a
 - Gwastraff.
- Caiff partneriaethau ychwanegol eu cynnwys yn y Rhestr Prosiectau Cydweithio strategol.
- Mae Strategaeth Adnoddau Dynol ar gael ar y Fewnrwyd.
- Cyflawnir gwaith cynllunio gweithlu strategol gan ddefnyddio'r pecyn offer cynllunio gweithlu Strategol a chaiff hwn ei gwblhau gan bob maes gwasanaeth. Cyfrannodd canlyniadau'r pecyn cymorth hwn at y cynllun gweithlu ar gyfer 2017-2022. Mae Cynllun Gweithlu 2017-2022 yn canolbwyntio ar 4 thema allweddol:
 1. Ymgysylltu a Chyfle;
 2. Gweithlu Hyblyg ac Ystwyth;
 3. Hyrwyddo gweithlu dwyieithog; a
 4. Datblygu Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.
- Adroddir diweddariadau am gynnydd y cynllun gweithlu i'r pwyllgor craffu.
- Mae'r strwythur Arwain a Rheolwyr Uwch wedi diffinio'r rolau hyn, gan gynnwys sut y maent yn integreiddio â'i gilydd.
- Cynhelir gweithgarwch cynllunio ar gyfer olyniaeth trwy gyfrwng trafodaethau a chymau gweithredu o fewn meysydd gwasanaeth a gyda phartneriaid ac ni ellir wastad dangos tystiolaeth o hyn. Datblygir hyn ymhellach trwy gyfrwng y pecyn cymorth cynllunio gweithlu Strategol.

Tudalen 640

- Mae cyfarfod ar y cyd o Reolwyr Uwch yn sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn glir.
- Mae disgrifiadau swydd yn diffinio'r rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ofynnol gan swyddi mewn ffordd glir.
- Mae'r Cyfansoddiad yn nodi rolau a chyfrifoldebau Aelodau (Rhan 3.4 Tabl 4) a Swyddogion uwch (rhan 2 Erthygl 2) ac mae Cynllun Dirprwyo (Y Cyfansoddiad Rhan 3.5) yn bodoli ac yn nodi cyfrifoldebau Aelodau a Swyddogion yn glir.
- Mae'r Pecyn Cymorth Cynllunio Strategol yn cynnwys elfen o gynllunio ar gyfer olyniaeth a rheoli talent.
- Mae protocolau yn eu lle ar gyfer perthnasoedd gwaith rhwng Aelodau a Swyddogion (e.e. Protocol Swyddog-Aelod).
- Mae Codau Ymddygiad i Swyddogion ac Aelodau mewn grym.
- Mae gweithgorau Swyddogion ac Aelodau mewn grym ac yn gweithio'n effeithiol.
- Adolygir Rheolau Gweithdrefnau Contract ('CPR') (Rhan 4 Dogfen G Cyfansoddiad) a Rheoliadau Ariannol a gweithdrefnau ariannol cysylltiedig (Rhan 4 Dogfen F Cyfansoddiad) yn rheolaidd e.e. diweddarwyd CPR ym mis Mawrth 2019.
- Sefydlwyd strwythur Corfforaethol y Cyngor er mwyn sicrhau y gall y Swyddogion Statudol gyflawni eu rolau mewn ffordd effeithiol.
- Mae'r CE yn gyfrifol am adolygu'r strwythur hwn, yn ôl yr angen.
- Ar 15.10.21, penderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y set ddiwygiedig o Ddisgrifiadau Rôl Aelodau, a gynlluniwyd i gael eu defnyddio law yn llaw â Fframwaith Datblygu aelodau (Cymhwysedd) Cymru, Manylebau Person a Disgrifiadau Rôl Aelodau Fframwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ('CLILC'), sy'n cynnwys disgrifiad o rôl yr Arweinydd (Paratowyd adroddiad er gwybodaeth i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd ar 19.1.21).
- Mynediad i sesiynau briffio gwybodaeth/cyrsiau am ddeddfwriaeth newydd.
- Trefnir Gweithdai Aelodau yn ôl yr angen.
- Rhestr Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth a grwpiau ffocws Defnyddwyr Gwasanaeth.
- Polisi Ymgysylltu Cymunedol.
- Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd y Pwyllgor Craffu (2016) (Dogfen N Cyfansoddiad) Mae'r Cyngor yn ymgynghori ac yn ymgysylltu gyda phreswylwyr lleol, cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn y sir yn barhaus er mwyn deall eu safbwyntiau a'u barn wrth ddatblygu cynlluniau a/neu strategaethau newydd. Rhoddir ystyriaeth briodol i adborth cyn cytuno ar fersiynau terfynol.
- Cyflawnir gweithgarwch hunan-asesu craffu bob blwyddyn gan gynnwys arolwg.
- Cyhoeddir cofnodion presenoldeb bob blwyddyn.
- Anogir a chynorthwyr aelodau i gwblhau Adroddiadau Blynyddol, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynychu Cyfarfodydd Rhwydweithio Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Cymru Gyfan er mwyn datblygu a chymharu'r rôl o fewn Awdurdodau Lleol.
- Gweithredu polisiâu Adnoddau Dynol priodol a sicrhau eu bod yn gweithio mewn ffordd effeithiol.
- Polisi Gweithle Di-Fwg a Pholisi Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau.

Tudalen 641

- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno amrediad o adnoddau a dewisiadau er mwyn gwella iechyd a lles Staff e.e. cyflwynwyd Strategaeth Iechyd a Llesiant 2021-2026 er mwyn cynorthwyo'r gwelliant yn iechyd a lles y gweithlu.
- Mae'r Cyngor wedi penodi Swyddog Iechyd a Lles Cyflogeion er mwyn cydlynu a hyrwyddo iechyd a lles yn y gweithlu.
- Cyflwynwyd pecyn cymorth Gofal yn Gyntaf i gyflogeion, sy'n cynnig:
 - Gwasanaeth cwnsela; a
 - Chyngor ynghylch materion ariannol, cyfreithiol, defnyddwyr, gofal i'r henoed, gofal plant a chyflogaeth.
- Mae'r cymorth arall sydd ar gael i Staff yn cynnwys:
 - Rhaglen iechyd a lles Rhyngweithiol Therapi Ymddygiad Gwybyddol;
 - Cynllun gofal llygaid;
 - Cynllun talebau gofal plant;
 - Iechyd Da; a
 - Hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar ar gyfer Staff a Rheolwyr.

F. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus yn gadarn:

- Cymeradwywyd y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheoli Risg gan y Cabinet ar 24 Medi 2019 ac mae'r Fframwaith yn cael ei ddiweddarau o hyd. Mae'r Cyngor yn parhau i ffurfio strategaethau a chynlluniau, gan ystyried y risgiau a achosir gan bandemig Covid-19
- Ystyrir y Gofrestr Risg Corfforaethol yn ystod holl gyfarfodydd y Grŵp Arweiniol, cyfarfodydd y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a'r cyfarfodydd Rheoli Perfformiad Corfforaethol, a chan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel eitem sefydlog ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Adroddir diweddariadau yn ystod pob Cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn cynnig gwybodaeth a sicrwydd parhaus bod risgiau yn parhau i gael eu rheoli. Mae'r Pwyllgor yn cyfeirio materion i Bwyllgorau Craffu pan fo hynny'n briodol.
- Mae Rheoli Risg yn rhan annatod o weithgarwch cynllunio busnes gweithredol a phennu Strategaethau a Pholisïau.
- Cofnodir holl Risgiau trawsnewid a phrosiectau. Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd yn monitro Risgiau Trawsnewid yn rheolaidd a chyfeirir Trawsnewid a Risgiau i Baneli a chyfarfodydd Llywodraeth Leol ar cyd.
- Roedd yr holl Gynlluniau yn cynnwys cofnodion Risgiau, gan gynnwys:
 - Y Cynllun Ariannol tymor Canolig;
 - Cynlluniau Busnes (lefel 1); a
 - Chynlluniau Gwasanaeth (lefel 2).
- Caiff cynlluniau Busnes/Gwasanaeth eu monitro er mwyn sicrhau y cyflawnir canlyniadau cyflawni.
- Caiff trefniadau Rheoli Risg Corfforaethol eu harchwilio'n rheolaidd a chaiff gweithgarwch rheoli risg ei gynnwys mewn rhaglenni archwilio sefydliad/gwasanaeth Gwasanaethau unigol.
- Mae 'risgiau' yn sail i raglenni gwaith archwilio yr Archwilwyr Mewnol, fel sy'n ofynnol gan system meddalwedd rheoli archwilio MKI/Pentana. Diweddarwyd templed adroddiadau Cyngor / Cabinet er mwyn cynnwys cyfeiriad at oblygiadau cyfreithiol, goblygiadau staffio, goblygiadau eiddo/asedau a risgiau.

Tudalen 642

- Mae Perfformiad Corfforaethol yn gofyn am ddiweddariadau rheolaidd o ran Risg.
- Diwygiodd y Cyngor ei drefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn 2017 er mwyn gwella'r broses o fonitro ei gynlluniau busnes a'i ddangosyddion perfformiad, gan gynnwys Dangosyddion Strategol Cenedlaethol ('NSI'), PAM a Dangosyddion Lleol. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r Amcanion Gwella a Llesiant a Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 hefyd.
- Mae Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter. Mae pob Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn adrodd i'r Panel hwn a chyhoeddir y Dyddiadau ar gyfer adrodd yn yr adroddiad. Mae Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn mynychu ar sail yr egwyddor y gallant nodi meysydd y mae gofyn eu cynnwys yn eu Blaenraglenni Gwaith priodol nhw.
- Cyflawnir gweithgarwch Monitro Risg Prosiectau Penodol a chaiff yr holl Risgiau eu neilltuo i Swyddog Arweiniol Corfforaethol (Perchennog y Risg).
- Ystyriodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Amcanion Gwella a Llesiant 2020-21 a chymeradwyodd yr Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21 ym mis Hydref 2020 (Yn ogystal, cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol Amcanion Gwella a Llesiant 2020-2021 gan Bwyllgor Cydlynw Trosolwg a Chraffu y Cyngor ar 15.9.21, a chan y Cabinet ar 5.10.21).
- Casglwyd gwybodaeth feincnodi fel rhan o weithgarwch ailfodelu gwasanaeth.
- Aseidiadau mewnol ac allanol gan:
 - Archwilio Cymru;
 - Estyn;
 - Arolygiaeth Gofal Cymru ('AGGC'); Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ('ICPO'); a
 - Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ('ICO').
- Aseidiadau allanol, gan gynnwys y Cod Ymddygiad.
- Hunanasesiad (Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu) – mae ymarfer hunanasesu yn mynd rhagddo i'w gyflwyno yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 10.3.2022.
- Mae Gwasanaethau unigol yn cynnal gweithgarwch hunanasesu trwy gyfrwng matrices perfformio.
- Mae IA yn cynnal hunanasesiad blynyddol ac maent yn cael adolygiad cymheiriaid / asesiad allanol annibynnol bob 5 mlynedd gan PSIAS.
- Perfformiad costau (gan ddefnyddio mewnbynnau ac allbynnau).
- Mae Prif Swyddogion yn darparu cymorth a chynngor i Aelodau. Darparir cynngor gan y Prif Swyddog Ariannol hefyd.
- Mae gofynion adrodd yn mynnu bod goblygiadau/cynngor cyfreithiol ac ariannol yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau/penderfyniadau, a gyhoeddir pan fo hynny'n briodol.
- Cyhoeddir pob adroddiad a'r holl gofnodion mewn ffordd amserol ac maent ar gael i'w harchwilio gan gynnwys.
- Dewisiadau ar gyfer argymhellion.
- Gall Pwyllgorau Craffu ofyn am adroddiadau ar unrhyw adeg a gwahoddir Cadeiryddion Craffu i fynd â materion yn ôl gerbron y Cabinet
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyfeirio materion i'r pwyllgor Craffu ac mae'n cael adroddiadau yn ôl.
- Mae croeso i'r cyhoedd fynychu pob cyfarfod, yn unol ag ystyriaethau gwybodaeth wedi'i heithrio yn unol â'r diffiniad yn Neddf Llywodraeth Leol 1972.

Tudalen 643

- Cytundeb am y wybodaeth y bydd gofyn ei chael a'r amserlenni
- Mae trefniadau craffu mewn grym a gefnogir ac sy'n cynnig cyfleoedd i herio gweithgarwch gwneud penderfyniadau ac adolygu darpariaeth gwasanaethau. Nod y swyddogaeth graffu yw cynnig gwerth ychwanegol i'r agenda gwelliant parhaus yn eu rôl fel "cyfaill beirniadol". Yn ogystal, mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cynnig cyfleoedd i wneud gwaith datblygu polisi a chyn gwneud penderfyniadau, sy'n swyddogaeth craffu, a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Nod y Cyngor yw craffu, pan fo modd, cyn y caiff penderfyniadau eu gwneud.
- Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo Protocol Trosolwg a Chraffu Ymgysylltu â'r Cyhoedd (2016) (Dogfen N Cyfansoddiad) ac fe'i ddefnyddiwyd sawl gwaith.
- Mae trefniadau wedi cael eu gwneud i geisio safbwyntiau'r cyhoedd, a gesglir trwy gyfryngau cymdeithasol a'u rhannu gyda Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu er mwyn iddynt eu hystyried.
- Bydd Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y Cyngor yn gyfrifol am gymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol BGC.
- Gwaith a gyflawnir gyda Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn datblygu Fframwaith Craffu mewn perthynas â DLICD.
- Cyhoeddir adroddiadau a hefyd, yr holl agendâu, cofnodion, Blaenraglen Waith a phob Cylch Gorchwyl ar wefan y Cyngor.
- Mae Bwrdd Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter, ac estynnir gwahoddiad i Gadeiryddion Pwyllgorau Craffu fynychu.
- Pennir dyddiadau adrodd ar ddechrau pob blwyddyn.
- Mae gweithgarwch monitro'r gyllideb yn digwydd yn gyson trwy gydol y flwyddyn, o fewn gwasanaethau, i weithgorau Swyddogion sy'n Aelodau a'r Cabinet e.e. Grŵp Datblygu a CMG ac arbedion y rhaglen drawsnewid i'r Grŵp Trawsbleidiol Ymgynghorol am Drawsnewid ac Effeithlonrwydd, y caiff Cadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eu gwahodd i'w harsylwi law yn llaw â chyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad.
- Cyflawnir gwaith monitro ariannol yn rheolaidd ar draws y Cyngor dan drefniant cyfrifyddu datganoledig a chaiff gwaith adrodd ffurfiol ei gyflwyno i'r Cabinet. Caiff gwaith monitro ei gynnwys yn yr adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol hefyd.
- Mae goblygiadau ariannol yn ofyniad i'w gynnwys yn holl adroddiadau Cyfarfodydd y Cabinet.
- Mae'r Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad) a'r Rheolau Gweithdrefn Contract (Dogfen G Cyfansoddiad) oll wedi cael eu diweddarau. Cymeradwywyd y Strategaeth Gaffael 2018-2022 gyfredol yn 2018.
- Arferion cyfrifyddu – cydymffurfir â Chodau Ymarfer. Caiff Dangosyddion Darbodus eu paratoi ac fe'u hadroddir i'r Cyngor a'u monitro trwy gydol y flwyddyn. Cyflawnir gweithgarwch rheolaidd i fonitro'r gyllideb trwy gydol y flwyddyn. Mae IA yn adolygu trefniadau rheoli o ran monitro a chasglu incwm hefyd.
- Cyflwynir diweddariadau mewn perthynas â Pharhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl yn rheolaidd yn unol â'r Gofrestr Risg Corfforaethol, CORP04 Risg ac mae'r Grŵp Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl yn cyfarfod bob mis.
- Asesir risg y Cynllun Archwilio Mewnol blynyddol ac mae'n ystyried nodau ac amcanion y Cyngor, a'i bolisiau a'i weithdrefnau corfforaethol; i gynnwys adolygiad o'r trefniadau corfforaethol Rheoli Risg, a phrofi'r trefniadau rheoli

Tudalen 644

lliniarol sydd mewn grym ar gyfer sampl o risgiau a nodir yn y Gofrestr Risg Corfforaethol.

- Cymeradwywyd y Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynnyddol 2021-2022 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24 Chwefror 2021, ac mae'n parhau i ystyried risgiau ychwanegol a gyflwynir gan y pandemig.
- Gall cynllun archwilio blynnyddol IA roi sylw i unrhyw weithgarwch angenrheidiol i ail-flaenoriaethu gwaith, gan ganiatáu i IA fod yn ymatebol i unrhyw newidiadau o ran risg yn y Cyngor.
- Mae adroddiadau archwilio mewnol a gyflwynir i Reolwyr yn amlygu'r risgiau o beidio gweithredu unrhyw gamau IA a argymhellir. Cynhelir archwiliad dilynol o'r cynlluniau gweithredu a gyflwynir. Os bydd CMIA o'r farn nad yw Rheolwr wedi rhoi sylw i unrhyw risgiau sylfaenol, adroddir am hyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac mae gan hwn y disgresiwn i ofyn i'r Rheolwr hwnnw fynychu ac esbonio'r rheswm dros beidio sicrhau cydymffurfiaeth.
- Bydd yr Archwilydd a benodir yn ystyried trefniadau'r Cyngor er mwyn sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei lythyr lle y mae'n nodi bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ynghylch defnyddio ei adnoddau.
- Mae Amcanion y Cyngor yn cyd-fynd â Strategaethau.
- Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Rheoli Parhad Busnes a Materion Brys i adolygu Cynlluniau a Threfniadau Parhad Busnes a Materion Brys Meysydd Gwasanaeth a Chorfforaethol, yn ogystal ag argymhellion sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac ymarferion i ddangos tystiolaeth o risg, nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a chofnodi unrhyw wersi a ddysgwyd er mwyn ymateb iddynt.
- Mae gwerthuso risg wastad yn ymddangos ar agendâu.
- Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol Chwarterol rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu at ddibenion monitro (e.e. cyflwynwyd Adroddiad Cynnydd Archwilio mewnol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Mehefin 2021 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 9 Medi 2021).
- Darparir crynodeb o'r gwaith a'r farn archwilio ynghylch y sicrwydd a roddir yn flynyddol yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynnyddol ar ddiwedd y flwyddyn. Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynnyddol IA ar gyfer 2020/21 gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 3 Mehefin 2021.
- Adolygiadau IA dilynol i fonitro gweithrediad y camau gweithredu gofynnol.
- Caiff trefniadau rheoli mewnol, risg a phrosesau llywodraethu eu monitro yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol (cymeradwywyd y fersiwn diwethaf gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24/2/21) a'r Cynllun a'r Strategaeth Archwilio Mewnol Blynnyddol.
- Cydymffurfiaeth gyda'r Cod Ymarfer ynghylch Rheoli Risg Twyll a Llygredd ('CIPFA', 2014).
- Mae gan Archwilwyr Mewnol weithdrefnau yn eu lle os darganfyddir twyll.
- Mae Swyddog yn y tîm IA yn Dechnegydd Gwrth Dwyll achrededig.
- Mae Swyddog(ion) yn y tîm IA yn dal Tystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwilio ('CCIP').
- Diweddarwyd a chymeradwywyd 'Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' gan y Cyngor ar 17 Mehefin 2021 (cadarnhawyd y cofnodion ar 23 Medi 2021) ac fe'i hysgrifennwyd mewn perthynas â'r Cod Ymarfer a'i diweddarau i sicrhau y caiff yr holl ofynion eu cynnwys.
- Mae IA yn gwneud gwaith atal twyll yn ôl y gofyn (yn ogystal â delio gyda gweithgarwch darganfod twyll fel yr ystyriwyd yn gynharach) ac mae'n

Tudalen 645

cyflwyno Adroddiad Atal Twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bob blwyddyn (Cyflwynwyd Adroddiad Atal Twyll 2020/21 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 3 Mehefin 2021).

- Mae'r Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Menter Twyll Genedlaethol flynyddol Archwilio Cymru, a gydlynir gan IA ar hyn o bryd.
- Monitro ac ymateb i rybuddion o dwyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati);
- Aelodaeth a chyfranogiad gweithredol mewn rhwydweithiau a grwpiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati);
- Mae IA yn cynnig cyngor i wasanaethau ynghylch gweithredu systemau a phrosesau newydd er mwyn sicrhau y caiff trefniadau rheoli mewnol effeithiol eu cynnal;
- Mae Swyddogion enwebedig o'r Cyngor yn ymgymryd â hyfforddiant twyll amrywiol er mwyn cynnal eu gwybodaeth a'u harbenigedd;
- Pan fo hynny'n briodol, cyhoeddir erlyniadau llwyddiannus ar wefan y Cyngor (ac yn y wasg leol).
- Archwiliwyd taliadau grant Covid-19 cyn eu talu (gan ei bod yn haws stopio taliad na'i adfer);
- Ychwanegwyd archwiliadau rheolaeth ariannol allweddol i'r cynllun archwilio, er mwyn gwirio trefniadau rheoli, llywodraethu a risgiau tra bod staff yn gweithio gartref
- Cymeradwywyd DLIB 2020/21 gan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2021 gyda'r Datganiad o'r Cyfrifon. Mae DLIB yn cynnwys barn flynyddol CMIA ynghylch sicrwydd.
- Tan 31/12/21, mae pennaeth y swyddogaeth IA yn CMIA sy'n meddu ar gymhwyster CIPFA, ac mae'r CMIA o 1/1/22 ymlaen yn astudio er mwyn sicrhau cymhwyster IIA. Mae gan y ddau CMIA brofiad helaeth ym maes llywodraeth leol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan dîm sy'n meddu ar sgiliau a gwybodaeth briodol. Cynhelir gwaith adrodd rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch gweithgarwch IA. Mae gweithgarwch cynllunio busnes a blaenraglen waith gadarn sy'n seiliedig ar risg yn eu lle.
- Mae IA yn gwerthuso ac yn gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu yn unol â PSIAS, a gaiff ei hunanasesu a'i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bob blwyddyn, ynghyd ag unrhyw welliannau sy'n ofynnol. Cynhelir adolygiad cymheiriaid bob 5 mlynedd (bydd gofyn cynnal yr un nesaf tua mis Mawrth 2022, ac mae'r paratodau ar gyfer hwn eisoes wedi cychwyn trwy gyfrwng Grŵp Prif Archwilwyr Cymru – gweler isod).
- Mae IA yn cynnig sicrwydd unigol i Reolwyr ar ôl pob adolygiad archwilio – yna, defnyddir y rhain i gynnig lefel gorfforaethol gyffredinol o sicrwydd bob blwyddyn, sy'n cyfrannu i'r DLIB.
- Gweithredwyd proses i ailstrwythuro IA ym mis Mai 2019, a chynhaliwyd un arall ym mis Tachwedd 2020. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn manteisio ar adnoddau llawn er 1 Rhagfyr 2020.
- Bydd CMIA newydd yn y swydd o 1 Ionawr 2022, ac mae ganddynt brofiad sylweddol ym maes IA, a bydd ganddynt ffenestr 6-wythnos i 'gysgodi'r' CMIA presennol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan Reolwr Archwilio gwybodus a medrus (gweler pwynt G3.2 isod).
- Mae dau aelod o'r tîm yn astudio am gymhwyster hyfforddiant proffesiynol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd.

Tudalen 646

- Sefydlwyd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n pennu ei gynllun gwaith ei hun. Cadeirir y Pwyllgor gan Aelod o grŵp y gwrthbleidiau (tan fis Mai 2022, pan fydd Unigolyn Lleyg yn Gadeirydd, yn unol â darpariaethau Deddf 2021).
- Gwaith paratoi parhaus a gweithredu newidiadau sy'n effeithio ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yng ngoleuni Deddf 2021. Hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, mewn adroddiad yn ystod Cyfarfod ar 24.2.2021, o'r newidiadau i'w rôl ynghylch adroddiadau hunanasesu y Cyngor, ac ynghylch asesiadau perfformiad panel, yn ogystal â'r newid enw, ynghyd â newidiadau i'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd a'r cyfansoddiad.
- Diweddarwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6 Rhagfyr 2018.
- Cyflwynwyd adroddiad am y diweddaraf am Ddeddf 2021 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 3.6.2021, gan gynnwys rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ynghylch newidiadau i'r Cyfansoddiad sy'n effeithio ar y Pwyllgor, gan gynnwys:
 - Recriwtio aelodau lleyg ac Is-Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu CJC Canolbarth Cymru; ac
 - Ynghylch swyddogaethau'r Pwyllgor sy'n ymwneud ag:
 - adolygu ac asesu asesiad perfformiad y Cyngor;
 - ystyried adroddiad Hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor;
 - ystyried unrhyw adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ac ymateb drafft y Cyngor;
 - adolygu swyddogaeth delio gyda chwynion y Cyngor; a'r
 - rôl ynghylch Asesiadau Perfformiad Panel (o fis Mai 2022).
- Mae'r newidiadau a wnaethpwyd yn ystod 2021-2022 yn cynnwys paratodau ar gyfer:
 - newidiadau i'r cylch gorchwyl/cylch gwaith/cyfansoddiad (gan gynnwys argymhellion i'r Cyngor gan y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad a newidiadau i'r Cyfansoddiad a gymeradwywyd gan y Cyngor yn ystod ei Gyfarfod ar 23.9.2021);
 - newid yr enw i'r 'Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu';
 - Bydd yr aelodaeth yn cynnwys 2/3 Chynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (fel y diffinnir yn y Ddeddf) – cwblhawyd y broses recriwtio (cymeradwyodd y Cyngor y penodiadau ar 9.12.21);
 - Dyletswydd y pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd ei hun;
 - Rhaid i'r cadeirydd fod yn unigolyn lleyg – cwblhawyd y broses recriwtio (cymeradwyodd y Cyngor y penodiadau ar 9.12.21) a phenodir y Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd o blith yr Aelodau Lleyg;
 - Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac
 - Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol fydd yn gallu cadeirio.
- Cwblhawyd adolygiad o faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a chymeradwywyd y penderfyniad i newid ei faint o fis Mai 2022 (9).
- Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Aelod Lleyg effeithiol ac ystyrir bod Aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyd-fynd â Deddf 2021: cwblhawyd y broses o recriwtio aelod Lleyg, gan ystyried gofynion Deddf 2021 a therfynu cyfnod yr aelodau lleyg presennol yn y rôl. Cymeradwywyd Cyfeiriad Swydd, Manyleb person a meini prawf gan y Cyngor ar 10/12/20.

Tudalen 647

- Mae manylion aelodaeth ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r holl Bwyllgorau Craffu ar gael ar wefan y Cyngor.
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng CMIA a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, rhoddir cyngor gan MO a chyfarfodydd rheolaidd hefyd, yn ôl yr angen rhwng MO a'r Cadeirydd, ac MO, CMIA ac Archwilio Cymru.
- Cyfarfodydd rheolaidd rhwng Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r rheolydd allanol, Archwilio Cymru (gyda a heb Swyddogion)
- Hyfforddiant i Aelodau a rhoddir hyfforddiant/diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynychu grŵp rhwydwaith Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Cymru i ddatblygu a chymharu'r rôl o fewn Awdurdodau Lleol.
- Cymeradwywyd Strategaeth TGCh a Digidol newydd ar gyfer 2018-2022 ac mae'r holl bolisiau wedi cael eu diweddarau, gan gynnwys (cymeradwywyd pob un ym mis Chwefror 2019):
 - Polisi Diogelu Data a GDPR;
 - Polisi Diogelwch Gwybodaeth; a
 - Pholisi Rheoli Cofnodion.
- Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwlau hyfforddiant E-ddysgu gorfodol ynghylch Diogelu Data a Diogelwch Gwybodaeth.
- Swyddog Diogelu Data Dynodedig.
- Cyswllt Cwsmeriaid y Swyddog Arweiniol Corfforaethol yw'r Perchennog Risg Gwybodaeth Uwch ('SIRO') ac mae wedi mynychu hyfforddiant priodol ar gyfer y rôl hwnnw.
- Nodir y Swyddogion cyfrifol canlynol:
 - Swyddog Diogelwch TG ('ITSO'); a
 - Swyddog Rheoli Cofnodion a Gwybodaeth ('IRMO')
- Yn ogystal, mae'r Grŵp Diogelu Data Corfforaethol a'r Cyfarfod Parhad Busnes ac Argyfyngau yn ystyried diogelwch Gwybodaeth.
- Gweithredwyd Archwiliad Mewnol Rheolaidd o ofynion a gweithdrefnau Cofrestru diogelu data yn dilyn archwiliad Archwilio Cymru.
- Llofnododd Cyngor Sir Ceredigion Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ('WASPI'), felly mae'n defnyddio fframwaith WASPI ar gyfer Cytundebau Rhannu Gwybodaeth.
***Mae'r cytundeb yn set gyffredin o egwyddorion a safonau y bydd sefydliadau partner yn rhannu gwybodaeth bersonol oddi tanynt. Bydd sefydliadau sy'n mabwysiadu'r Cytundeb yn dangos eu hymrwymiad wrth fodloni'r amodau, y rhwymedigaethau a'r gofynion cytunedig o fewn y fframwaith.
- Yn rhan fwyaf yr achosion, anfonir cytundebau ymlaen i'r Swyddog Diogelu Data.
- Ceir cofrestr gyhoeddus ar Wefan WASPI hefyd.
- Asesiadau allanol rheolaidd e.e. Cydymffurfio gyda'r Cod Ymddygiad.
- Tystiolaeth a monitro perfformiad mewnol.
- Caiff data ei groes-gyfateb ar draws y gwahanol wasanaethau.
- Caiff gwerthoedd Dangosyddion Perfformiad eu dilysu gyda chymorth tystiolaeth.
- Amserlen Gadw – fe'i chyhoeddir ar y fewnrwyd bellach.
- Sefydlwyd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ('MTFS') gyfredol yn ystod blwyddyn 2013-14 ac fe'i diweddarwyd mewn ffordd sylfaenol a'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2016. Mae'r MTFS Gyfredol ar

gyfer y cyfnod ar ôl 2018/2019 ond mae bellach wedi cael ei diwygio i adlewyrchu setliad refeniw amodol 2021/2022 a'i diweddarau i:

- Adlewyrchu effaith Covid-19
- Adlewyrchu 'Rhoi Hwb i Economi Ceredigion – Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35'
- Diwygio'r cynllun arbedion trawsnewid
- Rhagweld pwysau o ran y costau yn y dyfodol
- Adlewyrchu newidiadau data, rheoliadau, cynlluniau, polisiau a strategaethau

ac fe'i chyflwynir i'r Cabinet i'w chymeradwyo ar 23,2,2021, gyda'r nod o gyflwyno'r gymeradwyaeth i'r Cyngor ar 5.2.2021.

- Bellach, mae hwn yn cynnwys fframwaith polisi er mwyn pennu'r cyllidebau bob blwyddyn, yn ogystal â chynllun tair blynedd. Mae'r MTFS yn cynnwys risg corfforaethol a gaiff ei ddiweddarau o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Roedd y gweithgarwch blyneddol er mwyn pennu'r gyllideb yn cynnwys asesiad risg hefyd. Mae'r Cyngor yn ymateb i'r cynnig yn Adroddiad Gwella Blyneddol Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cymru bellach) 2016, gan ystyried yr adroddiad yng ngoleuni MTFS trwy sicrhau bod trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i fodloni'r sialensiau sylweddol a fydd yn codi yn y dyfodol.
- Datblygwyd Cynllun Strategol ac mae wedi gwella'r rhaglen waith sy'n angenrheidiol er mwyn ystyried blaenoriaethau gwasanaeth wrth roi sylw i gyfyngiadau ariannol.
- Pennir amserlen/cynllun prosiect cyllideb flynyddol er mwyn sicrhau y caiff cyllideb gytbwys ei chymeradwyo o fewn y cyfnod statudol yn unol â fframwaith cyllideb y Cyngor.
- Cyflwynir adroddiadau cyllideb rheolaidd i'r Cabinet a'r Grŵp Arweiniol trwy gydol y flwyddyn a chaiff cyllidebau gweithredol eu monitro bob mis.
- Cynhelir cyfarfodydd chwarterol o'r Panel Gweithredol yn ôl y gofyn gyda Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, ynghyd ag Arweinydd y Cyngor, y CE, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros Gyllid a'r Aelod Cabinet sy'n meddu ar gyfrifoldeb dros Gyllid.

G. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol:

- Gwefan y Cyngor.
- Darlledir cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet.
- Templedi safonol ar gyfer y Cabinet, Craffu a'r Cyngor.
- Cydymffurfiaeth gyda Safonau'r Gymraeg.
- Defnyddio Modern.Gov er mwyn cyhoeddi agendâu a Gwybodaeth am Gynghorwyr.
- Mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu newidiadau a gyflwynir gan Ddeddf 2021, sy'n cynnwys bod y Cyngor yn ymgynghori ac yn cyhoeddi strategaeth cyfranogi â'r cyhoedd gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol a gwella tryloywder.
- Cydymffurfiaeth y Cyngor gyda Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws)(Cyfarfodydd)(Cymru) 2020, sy'n caniatáu mynediad o bell i gyfarfodydd a gofynion ynghylch mynediad i'r cyhoedd/cyhoeddi dogfennau.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf 2021, a fydd yn cynnwys sut y byddwn yn annog

cyfranogiad mewn gweithgarwch gwneud penderfyniadau hefyd, er ein bod yn aros am ganllawiau terfynol gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rhan hon o'r ddeddfwriaeth.

- Mae Map ffyrdd y Cyngor yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i ddinasyddion ynghylch y gwasanaethau ddarparir oherwydd pandemig Covid-19, er mwyn cynnig eglurder i breswylwyr y Sir.
- Mae'r Cyngor wedi bod allan i dendr ac wedi dyfarnu'r contract am osod offer yn Siambr y Cyngor a fydd yn galluogi i gyfarfodydd hybrid gael eu cynnal, yn ogystal â'r gallu i ddarparu'r cyfarfodydd hynny. Gosodir yr offer yn ystod y gaeaf.
- Mae'r Cyngor yn cynnig ffyrdd amgen i ddinasyddion droi at wybodaeth os nad ydynt yn gallu manteisio ar wasanaethau digidol. Gallant ffonio Canolfan Gyswilt y Cyngor neu ymweld â'i Lyfrgelloedd lle y gall y cyhoedd droi at gyfrifiaduron sydd ar gael neu wasanaeth Wi-Fi 4G am ddim, sy'n caniatáu i unrhyw un ddefnyddio eu dyfais eu hunain.
- Mae manylion cyswilt Cynghorwyr, eu cofnodion presenoldeb, eu haelodaeth o Bwyllgorau a'r Datganiadau Diddordeb ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Mae adroddiadau blynyddol Cynghorwyr ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Mae'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Mae Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd ar gael ar Wefan y Cyngor.
- Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol am Amcanion Gwella a Llesiant y Cyngor Sir ar wefan Sir Ceredigion er mwyn hysbysu dinasyddion Ceredigion o'r gweithgareddau a'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd er mwyn cefnogi ei Amcanion Gwella a Llesiant. Mae hyn yn rhan o hunanasesiad y Cyngor hefyd. Mae cynllun cryno ar gael hefyd mewn swyddfeydd cyhoeddus ar gyfer ein dinasyddion.
- Cyhoeddir datganiadau ariannol blynyddol ar Wefan y Cyngor.
- Cymeradwyaeth briodol.
- Trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.
- Perchnogaeth o waith cynllunio a thrawsnewid.
- DLIB.
- Mae DLIB y Cyngor yn dangos tystiolaeth o'r ffordd y mae'n cydymffurfio â saith Egwyddor graidd y Fframwaith Llywodraethu a'r is-egwyddorion sydd yn y Fframwaith ac yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, gan gynnwys sut y mae'n gweithredu trefniadau cywir er mwyn llywodraethu ei faterion, yn hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau ac yn gwneud trefniadau ar gyfer rheoli risg (datblygwyd y Fframwaith Llywodraethu yn 2010 ac fe'i ddiwygiwyd yn unol â Fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government* CIFA/SOLACE 2016). Mae'n cydymffurfio hefyd gyda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Cynhaliwyd asesiad o'r fframwaith ar gyfer llywodraethu corfforaethol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth e.e. wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau sy'n angenrheidiol oherwydd pandemig Covid-19. Penderfyniad gan y Cyngor ynghylch a gymeradwyir DLIB e.e. ei ddiweddarau a'i gymeradwyo gan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2021 (gyda chyfrifon).
- Mae Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol y Cyngor yn dangos sut y mae'n meddu ar y trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol mewn grym er mwyn sicrhau perfformiad effeithiol, ac mae'n ddatganiad cyhoeddus sy'n nodi'r ffordd y bydd y Cyngor yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw.

Tudalen 650

- Rhannwyd DLIB gyda chyfrifon, fe'i adolygwyd a'i ddiweddarwyd gydag Aelodau a Swyddogion gan gynnig proses ymgysylltu ehangach. Mae Aelodau a Swyddogion yn cynnal adolygiad o'r DLIB bob blwyddyn.
- Mae goblygiadau ariannol yn ofyniad er mwyn eu cynnwys yn holl adroddiadau Cyfarfodydd y Cabinet. Diweddarwyd Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad), a'r Rheolau Gweithdrefn Contract (Dogfen G Cyfansoddiad). Cymeradwywyd y Strategaeth Gaffael 2018-2022 gyfredol yn 2018.
- Arferion cyfrifyddu – cydymffurfir â Chodau Ymarfer, caiff Dangosyddion Darbodus eu paratoi a'u hadrodd i'r Cyngor a'u monitro trwy gydol y flwyddyn. Cynhelir gweithgarwch rheolaidd er mwyn monitro'r gyllideb trwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal, mae IA yn adolygu trefniadau rheoli ynghylch casglu a monitro incwm.
- Mae perthynas waith dda yn bodoli gyda Llywodraeth Cymru fel rheolydd allweddol a gyda rheolyddion allanol, gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn, AGC, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ('FSA') a'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel rheolyddion allweddol. Cynhelir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru.
- Cofnodir Protocol Archwilio Cymru ac mae gweithdrefnau mewn grym er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i'r holl 'Ffurflenni Ymateb Rheolwyr' o bob adroddiad Archwilio Cymru, a bod ymatebion Gwasanaeth yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac Archwilio Cymru.
- O ran monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion, y Swyddog Llywodraethu yw pwynt cyswllt Archwilio Cymru ar gyfer Ffurflenni Ymateb Rheolwyr ('MRFs') heb eu cyflwyno ar gyfer 2019/20 a 2020/21, a materion llywodraethu/MRFs sy'n ymwneud â llywodraethu parhaus. Cyflwynir y system hon mewn Protocol, a gymeradwywyd gan y Grŵp Arweiniol ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a chyflwynwyd fersiwn wedi'i ddiweddarau (er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y Swyddog Gwella a Pherfformiad Corfforaethol yn eu swydd) i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod ei gyfarfod ar 9.9.2021.
- Cynhelir cyfarfodydd misol gydag Archwilio Cymru hefyd er mwyn trafod gwaith parhaus a materion i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a cheir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru.
- Rhoddir sylw i argymhellion gan Archwilio Cymru yn y trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.
- Cyflwynir holl adroddiadau Archwilio Cymru i'r grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, sy'n monitro gweithrediad y camau gweithredu cywiro gofynnol.
- Mae proses er mwyn monitro cynnydd Camau Gweithredu yn cael ei datblygu.
- Tan 31/12/21, mae pennaeth y swyddogaeth IA yn CMIA sy'n meddu ar gymhwyster CIPFA, ac mae'r CMIA o 1/1/22 ymlaen yn astudio er mwyn sicrhau cymhwyster IIA. Mae gan y ddau CMIA brofiad helaeth ym maes llywodraeth leol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan dîm sy'n meddu ar sgiliau a gwybodaeth briodol. Mae dau aelod o Staff yn astudio ar gyfer cymhwyster Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd, ac mae dau yn datblygu sgiliau archwilio TGCh.
- Mae Swyddogion IA yn astudio am gymwysterau archwilio er mwyn gwella eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cymhwysedd.

Tudalen 651

- Gweithredwyd proses i ailstrwythuro IA ym mis Mai 2019, a chynhaliwyd un arall ym mis Tachwedd 2020. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn manteisio ar adnoddau llawn er 1 Rhagfyr 2020.
- Bydd CMIA newydd yn y swydd o 1 Ionawr 2022, ac mae ganddynt brofiad sylweddol ym maes IA, a bydd ganddynt ffenestr 6-wythnos i 'gysgodi'r' CMIA presennol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan Reolwr Archwilio gwybodus a medrus.
- Mae rôl CMIA yn cael mynediad rhydd a dilyffethair i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac mae'r ddau yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn (ac mae'r cyfarfodydd hyn yn parhau o bell yn ystod pandemig Covid-19).
- Mae gweithgarwch cynllunio busnes a blaenraglen waith gadarn sy'n seiliedig ar risg yn eu lle.
- Cyflawnir gwaith adrodd rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ynghylch gweithgarwch IA, h.y. Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn monitro perfformiad cynnydd a gwella a rhoddir crynodeb o'r gwaith a'r farn archwilio ynghylch sicrwydd mewn Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol bob blwyddyn ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhelir adolygiadau dilynol er mwyn monitro camau gweithredu cywirol.
- Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol yn rheolaidd (cymeradwywyd y fersiwn diwethaf gan y Pwyllgor Archwilio ar 24/2/21).
- Mae CMIA yn cynnig barn wrthrychol flynyddol am sicrwydd ynghylch prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu y Cyngor, ar sail y sicrwydd unigol a roddir i Reolwyr ar ôl pob adolygiad archwilio, ac mae'n cyfrannu i'r DLIB.
- Adroddir am gydymffurfiaeth gyda PSIAS bob blwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a bydd cynllun gwella yn dilyn hyn. Cynhelir gweithgarwch adolygu asesu gan gymheiriaid bob pum mlynedd (bydd gofyn cynnal yr un nesaf tua mis Mawrth 2022, ac mae'r gwaith paratoi eisoes wedi cychwyn ar gyfer hwn trwy gyfrwng Grŵp Prif Archwilwyr Cymru).
- Cenhadaeth IA yw gwella a diogelu gwerth sefydliadol trwy gynnig sicrwydd, cyngor a dirnadaeth wrthrychol ac sy'n seiliedig ar risg. Nodir manylion hyn yn y Siarter Archwilio fewnol, sy'n nodi hawl mynediad IA hefyd (yn unol â Rheoliadau Ariannol/Cyfansoddiad y Cyngor).
- Rhoddir sylw i argymhellion gan Archwilio Cymru yn y trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol.
- Mae'r Cyngor yn dysgu ac mae'n ceisio sicrhau gwelliant yn barhaus.
- Cynhelir asesiad allanol bob pum mlynedd o IA yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan PSIAS.
- Cynhaliwyd yr Asesiad Allanol Archwilio Mewnol diwethaf ym mis Tachwedd 2016 gan Gyngor Sir Conwy ac adroddwyd amdano i'r Pwyllgor Archwilio, ynghyd â'r Cynllun gwella a oedd wedi deillio ohono (bydd gofyn cynnal yr un nesaf tua mis Mawrth 2022, ac mae'r gwaith paratoi eisoes wedi cychwyn ar gyfer hwn trwy gyfrwng Grŵp Prif Archwilwyr Cymru).
- Adroddir am gynnydd, perfformiad a gwelliant i'r Pwyllgor Archwilio bob chwarter.
- Cynllun Llesiant a chylch gorchwyl BGC, ac adroddiad blynyddol gan BGC.
- Mae Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd.
- Pennir cytundebau Atebolrwydd a Phartneriaeth mewn prosiectau ar y cyd.

4 Barn am lefel y sicrwydd y gall y trefniadau llywodraethu ei rhoi

Mae'r Rheolwr Corfforaethol – Archwilio Mewnol (CMIA) yn paratoi Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar ddiwedd y flwyddyn, a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ym mis Mehefin fel rheol (cyflwynwyd ar 3 Mehefin 2021). Mae'r adroddiad yn amlinellu canlyniadau unigol a chyfunol yr adolygiadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn, ac mae'n rhoi'r farn archwilio gyffredinol am sicrwydd yn seiliedig ar y gwaith archwilio hwnnw. Mae'r sicrwydd a roddir hefyd yn rhoi sylw i gynnydd o ran gweithredu gwelliannau, ystyriaeth o'r gofrestr risgiau, a'r sicrwydd a roddir mewn adroddiadau a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr allanol. Caiff manylion ynghylch cwmpas y gwaith archwilio, a'r angen i ailflaenoriaethu'n gyson er mwyn sicrhau bod gwaith digonol yn cael ei gyflawni ar gyfer rhoi sicrwydd, eu nodi yn yr adroddiad.

Mae'r Adroddiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn yn cynnwys canlyniadau hunanasesiad blynyddol y gwasanaeth archwilio mewnol, sy'n seiliedig ar dempled Nodyn Cymhwys CIPFA i Lywodraeth Leol. Roedd y templed yn destun adolygiad allanol gan gymheiriaid yn ystod 2016-17, a'r bwriad yw ailadrodd asesiad allanol bob pum mlynedd fel sy'n ofynnol gan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) (cynhelir yr adolygiad nesaf yn 2022). Mae'r cynlluniau gwella sy'n deillio o'r asesiadau hyn yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiadau Cynnydd chwarterol a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a chânt eu hadolygu'n flynyddol yn yr Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol.

Mae'r Cynlluniau Gwella yn nodi'r gwelliannau a wnaed ac y bwriedir eu gwneud yn sgil yr argymhellion sy'n codi o'r asesiadau, ynghyd â chanlyniadau Rhaglen Gwella Sicrwydd Ansawdd y gwasanaeth yn unol â gofynion PSIAS, er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn medru monitro cynnydd y gwasanaeth.

Darparwyd Adroddiad am Gynllun Gweithredu Cynnydd a Blwyddyn Gyfredol Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021-2022 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 3 Mehefin 2021.

Mae Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 1/4/2021-30/6/2021 (a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 9 Medi 2021) ac Adroddiad Cynnydd Chwarter 3 (a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 19 Ionawr 2022) yn cynnwys y camau gweithredu a gymerwyd hyd yma er mwyn cyflawni'r gwelliannau arfaethedig a nodwyd.

Mae strwythur staffio y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi bod yn gyflawn yn ystod y flwyddyn 2021-2022.

Ar 24 Chwefror 2021 hefyd, cyflwynodd CMIA y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Diben hwn yw sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni ar lefel ddigon eang i ategu'r farn flynyddol

am effeithiolrwydd y systemau llywodraethu, gwaith rheoli risgiau, a rheolaeth fewnol ar draws y Cyngor. Roedd y Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2021/22 yn crynhoi'r meysydd gwaith yr oedd yr Adran Archwilio Mewnol yn bwriadu canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn, gan ystyried y sefyllfa oherwydd y pandemig.

Mae'r gwasanaeth wedi cael ei ddarparu ar sail fwy adweithiol eleni, yn yr un modd â'r flwyddyn flaenorol, oherwydd yr amryw risgiau a gyflwynwyd yn sgil newidiadau angenrheidiol i arferion gweithio'r Cyngor, er enghraifft grantiau untro'n cael eu rhoi, grwpiau'n cael eu sefydlu i dargedu meysydd penodol lle'r oedd newid yn digwydd, mwy o staff yn gweithio gartref, ac ati. Mae gwaith archwilio mewnol wedi'i asesu yn barhaus ac mae anghenion a blaenoriaethau cyfnewidiol y Cyngor wedi cael eu hystyried yn rheolaidd. Yn ychwanegol i'r gwaith adweithiol hwn, rhoddir sicrwydd ar gyfer 2021/22 ar adolygiadau a gynllunnir ac sy'n cael eu cario ymlaen neu'n cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn er mwyn asesu lefel flynyddol y sicrwydd ar gyfer y Cyngor. Mae'r holl gamau gweithredu a gymerwyd wedi bod yn gyson â'r nodyn cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Cyngori ar Safonau Archwilio Mewnol. At hynny, mae rhagor o adnoddau wedi'u neilltuo i ddatblygu'r system mapio sicrwydd er mwyn ategu ymhellach y sicrwydd a roddir ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae gan y Cyngor, er enghraifft, rwymedigaeth daer i ddyfarnu grantiau amrywiol i fusnesau cymwys yn y Sir, ac oherwydd hawliadau twyllodrus posibl, mae'r Archwiliad Mewnol wedi parhau i adolygu sampl o geisiadau cyn talu (mae'n haws stopio taliadau nag adfer yr arian wedi hynny), gan ychwanegu gwerth i weithrediadau'r Cyngor o ganlyniad i amgylchiadau sy'n newid, fel y'i cefnogir gan nodiadau arweiniad y Bwrdd Cyngori Safonau Archwilio Mewnol.

Mae CMIA yn disgwyl dod i'r casgliad yn ei Hadroddiad Blynyddol 2021/22 a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, sy'n seiliedig ar:

- y nifer, y cwmpas a'r sicrwydd a gafwyd o'r adolygiadau mewnol ac allanol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2022,
- a'r ffaith bod y rheolwyr (pan ar gael) wedi derbyn y camau a gymerwyd, bod y Cyngor yn meddu ar fframwaith llywodraethu boddhaol, trefniadau rheoli risg a bod rheolaethau mewnol yn eu lle i gyflawni amcanion y sefydliad yn ystod y flwyddyn.

Fodd bynnag, oherwydd effaith barhaus y pandemig, dylid nodi na chafodd unrhyw ysgolion eu hadolygu yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, cynhaliwyd archwiliadau penodol wrth archwilio grantiau EIG a PDG.

Bydd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn destun adolygiad gan Lywodraethu ac Archwilio Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r wybodaeth sydd ganddo ac â deddfwriaeth. Yn ogystal, mae'r Adran Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad annibynnol blynyddol o'r Fframwaith Llywodraethu Blynyddol ac o'r dull sgorio a'r dystiolaeth, fel y nodir ym Mhwynt 2 uchod.

Tudalen 654

Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid y Cyngor yw Uwchberchennog Risg Gwybodaeth yr awdurdod, ac mae'n gyfrifol hefyd am Ddiogelu Data a Diogelwch TGCh.

Yn draddodiadol, roedd Fforwm SIRO yn cynnwys arbenigwyr am faterion: E.e. Cyfleusterau, Diogelu Data, Diogelwch TG, Pennaeth TG, Cyfreithiol, AD a rhywfaint o gynrychiolaeth adrannol. Mae hwn yn cyfarfod bob chwarter i drafod materion sy'n ymwneud â risg gwybodaeth a rheoli gwybodaeth.

Mae rolau allweddol a threfniadau craffu presennol y Tîm Asedau Gwybodaeth fel a ganlyn:

- Swyddog Diogelwch TG ('ITSO') sy'n cynghori ynghylch diogelwch data, a chynghorwyr ac ymgynghorwyr allanol a ddefnyddir o bryd i'w gilydd i roi prawf ar drefniadau diogelwch yr Awdurdod a chynghori yn eu cylch;
- Swyddog Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion ('IRMO') sy'n cynghori ynghylch cydymffurfio â'r gyfraith ac sy'n sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith ac y glynir wrthynt;
- Mae'r Grŵp Corfforaethol Diogelu Data (a elwir yn fewnol yn gyfarfod Grŵp Corfforaethol Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth / Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol) yn cwrdd bob chwarter, a chaiff ei gadeirio gan y Pennaeth Polisi Gwasanaeth (Dirprwy HOS ICT&CS); a
- Chyflwynir Adroddiadau Blynyddol yn ôl yr angen i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu y Cyngor.

Yn ogystal:

- ITSO yw Is-gadeirydd Fforwm Diogelwch Sector Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (Cymru WARP) sy'n cwrdd bob chwarter.
- IRMO yw Cadeirydd Cymdeithas Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion Cymru ac mae'n trefnu digwyddiadau ar draws Cymru.
- Mae IRMO yn aelod o Banel Sicrhau Ansawdd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Yn dilyn yr adolygiad o'r Fframwaith Llywodraethu, bernir bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dda ar y sail bod mwyafrif y sgorau a roddwyd yn 9/10.

Mae cyflwyno'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n amlinellu'r ffordd y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i egwyddorion craidd Fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government* CIPFA/SOLACE yn cynnig arweiniad i'r holl Aelodau a Swyddogion am yr agenda llywodraethu.

Bydd adolygu'r Cod Llywodraethu Lleol yn rheolaidd yn rhoi lefel uchel o sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu'n addas i'w diben.

Pandemig y Coronafeirws

Oherwydd argyfwng pandemig y coronafeirws, caewyd holl swyddfeydd y Cyngor i'r cyhoedd ar 23 Mawrth 2020.

Yng ngoleuni'r argyfwng cenedlaethol a'r sefyllfa frys a gododd o ganlyniad i'r pandemig, ac er mwyn diogelu buddiannau'r Cyngor a'r cyhoedd, mewn amgylchiadau lle y bernir bod y penderfyniad yn un brys ac y byddai unrhyw oedi'n niweidio buddiannau'r Cyngor neu'r cyhoedd yn ddifrifol, rhoddodd Arweinydd y Cyngor bwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr a Grŵp Arweiniol y Cyngor wneud penderfyniadau ynghylch ymateb y Cyngor i COVID-19.

Gwnaethpwyd y penderfyniad yn unol â rhan 4 Cyfansoddiad y Cyngor.

Mae Hysbysiad y Cofnod o Benderfyniadau Brys ar gael ar wefan y Cyngor ar dudalen y Cyngor ar gyfer Strwythur Llywodraethu er mwyn gwneud penderfyniadau yn ystod COVID-19 (<https://www.ceredigion.gov.uk/resident/coronavirus-covid-19/governance/>).

Adolygwyd y penderfyniad, ac ym mis Hydref 2020, Chwefror 2021, Mawrth 2021 a Mai 2021, cymeradwyodd yr Arweinydd benderfyniadau diwygiedig (ar gael ar wefan y Cyngor hefyd).

Yn ystod y cyfnod dan sylw, mae cyfarfodydd y Grŵp Rheoli Aur wedi'u cynnal er mwyn trafod pandemig Covid-19 a dulliau o ymdrin yn effeithiol â'r sefyllfa. Mae'r Grŵp Rheoli Aur yn dal i gwrdd sawl gwaith yr wythnos.

Sefydlwyd fforwm y Grŵp Rheoli Aur ar unwaith i hwyluso gweithrediadau a darparu proses gadarn ar gyfer gwneud penderfyniadau o'r cychwyn cyntaf, ac roedd yn cynnal cyfarfodydd rhith bob dydd.

Daeth swyddogaeth Weithredol Dros Dro i drosglwyddo pwerau i ben ar 31 Awst 2021. O 1 Medi 2021 tan nawr, mae'r Grŵp Rheoli Aur wedi bod yn gwneud penderfyniadau gweithredol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

Mae llythyr Archwilio Cymru i'r Cyngor ynghylch Adfer yn sgil Covid-19 – Sicrwydd Dros Dro, dyddiedig 19 Hydref 2020, yn crynhoi ei gasgliadau dros dro ar sail camau parhaus i fonitro'r broses o addasu i effaith barhaus y pandemig. Yn yr Atodiad, mae Archwilio Cymru yn cyfeirio at y bwriad, yn rhan o drefniadau addasu'r Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniadau, i'r Lòg Penderfyniadau gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac i adroddiad gael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. Nododd y Pwyllgor Archwilio gynnwys y llythyr hwn yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd 2020 a chyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 20 Ionawr 2020, a oedd yn nodi cynnwys yr Adroddiad a chynnwys Lòg Penderfyniadau cyfarfodydd y Grŵp Arwain Covid-19, sef y Grŵp Rheoli Aur.

Cyhoeddwyd y Lòg gyntaf ar wefan y Cyngor ar 5 Tachwedd 2020 (ar gyfer penderfyniadau a wnaed hyd at 30 Medi 2020). Mae'r penderfyniadau a wnaed

Tudalen 656

rhwng 1 Hydref 2020 a 30 Tachwedd 2020 wedi'u cyhoeddi erbyn hyn hefyd ac mae'r penderfyniadau a wnaethpwyd tan ddiwedd mis Rhagfyr 2021 yn cael eu paratoi i'w cyhoeddi.

Roedd gan y Cyngor weledigaeth glir y gallai pob unigolyn, busnes a gwasanaeth yn ddieithriad ei deall a chytuno arni er mwyn sicrhau bod Ceredigion yn llwyddo nid yn unig i leihau nifer y marwolaethau a ragwelid yn ystod penllanw cyntaf yr haint ond, yn bwysicach na hynny, nifer y marwolaethau a ragwelid yn ystod unrhyw benllanw yn y dyfodol. Mae'r weledigaeth wedi'i gweithredu mewn tri chfnod hyd yma:

- Cyfnod 1: Bod yn barod – Cau pob gwasanaeth nad yw'n hanfodol
- Cyfnod 2: Gweithredu – Darparu gwasanaethau dan amodau cyfnod clo
- Cyfnod 3: Addasu a chydnerthedd hirdymor

Mae Cyfnod 3 yn darparu cyfnod addasu rhwng y ddau gyfnod cyntaf a phedwerydd cyfnod, sef y cyfnod adfer. Er mwyn i hynny allu digwydd, rhaid i'r cyfnod addasu ystyried tair prif elfen a fydd yn hollbwysig ar gyfer delio â COVID-19, gan sicrhau ar yr un pryd bod elfennau o'r cyfnod clo yn cael eu llacio'n ddiogel ac mewn dull strwythuredig a reolir. Y tair elfen yw:

Cyfyngu + Ynysu + Dileu

Wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo gael eu llacio'n raddol ac wrth i Lywodraeth Cymru ddiwygio ei chanllawiau, mae'r Cyngor wrthi'n ystyried sut a phryd y gall ailgyflwyno ei wasanaethau neu sut y byddant yn cael eu darparu mewn ffordd wahanol. Nodir hynny mewn '[Cynllun y ffordd ymlaen](#)' ar wefan y Cyngor.

Gobeithir y bydd sectorau busnes a grwpiau cymunedol hefyd yn cyfrannu at y cynllun hwn er mwyn sicrhau eglurder i holl drigolion Ceredigion.

Ar ôl rhoi'r gorau yn syth ar y dechrau i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus, mae cyfarfodydd y Cyngor wedi'u hailgyflwyno ar lwyfan rhith.

Gall aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd o bell drwy anfon e-bost i'r Gwasanaethau Democraidd er mwyn cael y manylion cofrestru. Mae rhestr lawn o gyfarfodydd o bell ar gael ar wefan y Cyngor. Gellir gwyllo'r cyfarfodydd hyn ar dudalen Facebook y Cyngor hefyd.

5 Y materion a nodwyd ar gyfer y llynedd (2021-2022)

Mae'r tabl canlynol yn cofnodi'r camau gweithredu a gymerwyd yn ystod 2021-22 i ddatrys y materion a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2020-2021:

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu'n amlwg ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan warchod enw da'r sefydliad drwy wneud hynny	<p>Y Swyddog Monitro i roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgelu buddiannau mewn sefydliadau sy'n gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor, neu y gallent wneud hynny, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Contractwyr; • Llywodraethwyr Ysgol; • Clercod cynghorau Tref a Chymuned; • Aelodau cynghorau Tref a Chymuned; • Llywodraethwyr Ysgol. <p>MO a CLO Gwasanaethau Democraataidd i barhau i gynnal adolygiad o Aelodau sy'n dal swyddi cyfarwyddwr, ymddiriedolaethau neu aelodaeth pan gânt eu penodi i gyrff allanol, a phwyllgorau, y Swyddog Monitro i ystyried adborth aelodau a gwerth ychwanegol, gan barhau i ddiweddarau'r Cod Ymddygiad ar gyfer Swyddogion ac Aelodau.</p>	<p>Mae hon yn ddyletswydd barhaus. Bydd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau ddyletswyddau newydd nawr (o fis Mai 2022) dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a fydd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor gyda'u dyletswyddau dan A.52(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000; • Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor am faterion sy'n ymwneud â'u dyletswyddau dan A.52A (1) Deddf Llywodraeth Leol 2000. • Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, paratoi adroddiad blynyddol i'r Cyngor ynghylch y flwyddyn honno yn unol â 56B Pennod 1 Rhan 3 Deddf Llywodraeth Leol 2000. 	EP/LE	Mawrth 2022

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	<p>Y Swyddog Monitro i roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgan</p> <ul style="list-style-type: none"> • Swyddi cyfarwyddwyr; a • Chyflogaeth arall <p>Gan gynnwys os ydynt yn gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor neu beidio.</p> <p>Y Swyddog Monitro i barhau i gynghori Aelodau ymhellach am yr angen i ddatgan lletygarwch/rhoddion.</p> <p>Y Swyddog Monitro i roi cyngor i Brif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill, 	<p>Mae'r ddyletswydd i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn ymwneud â safonau ymddygiad, a sicrhau bod hyn yn amlwg ac yn cael ei ddangos yn gyson a gyda thystiolaeth er mwyn diogelu enw da y Cyngor.</p> <p>Mae cyngor y Swyddog Monitro i Swyddogion ynghylch datgelu buddiannau yn gam gweithredu sy'n parhau, a gyflawnir yn rheolaidd trwy gyfrwng Diweddariadau Newyddion ar system Cerinet.</p> <p>Yn fwyaf diweddar, cyhoeddwyd Diweddariad am Ddatgelu Buddiannau a Lletygarwch Cyflogeion y Cyngor ar 20 Gorffennaf 2021 ar Safle CeriNet y Cyngor, gan gynnwys dolenni i ffurflenni perthnasol a'r Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol, ynghyd â nodyn atgoffa y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu geisiadau am gyngor i'r Swyddog Monitro.</p> <p>Cyhoeddwyd diweddariad am y Datganiad Cyflogeion a'r Gofrestr Buddiannau, gan gynnwys ynghylch</p>		

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		<p>Grantiau NDR Cronfa Busnes Cyfyngiadau COVID-19 ar gyfer busnesau ar 8 Ionawr 2021 ar Safle CeriNet y Cyngor.</p> <p>Cynhelir adolygiad ar hyn o bryd o'r cyrff allanol sydd wedi penodi Aelodau, gan gynnwys gwerth ychwanegol, a hefyd, diweddarau'r Cyfansoddiad.</p> <p>Ar hyn o bryd, cynhelir adolygiad sylweddol o'r Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol, a hefyd, y Datganiadau Budd a Lletygarwch ar gyfer Staff. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd a chafwyd mewnbyn gan y Swyddog Monitro, y Swyddog Llywodraethu, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth a'r Swyddog Rheoli Cofnodion a Gwybodaeth Diogelu Data.</p> <p>Yn ogystal, anfonwyd Aseiad drafft o'r Effaith ar Ddiogelu Data i'r Swyddog Diogelu Data ei ystyried mewn perthynas â'r newidiadau a gynigiwyd i'r Cod Ymddygiad a'r Datganiadau, a rhoddwyd</p>		

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		<p>diweddariadau cynnydd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod ei Gyfarfod ar 25.11.2021 (rhoddir diweddariad cynnydd pellach yn ystod ei Gyfarfod ar 19.1.2022).</p> <p>Ar ôl cwblhau proses DPIA, anfonir y dogfennau drafft at y Grŵp Arweiniol, Undebau Llafur a'r Cyngor.</p> <p>Yn ogystal, ystyrir a ddylid cyhoeddi Buddiannau Busnes Prif Swyddogion ar wefannau'r Cyngor, a chynhelir Cyfarfodydd rhwng yr MO, y Swyddog Llywodraethu, y Swyddog Diogelu Data a CLO – Pobl a Threfniadaeth.</p>		
A1.3 Arwain trwy esiampl a defnyddio'r gwerthoedd neu'r egwyddorion gweithredol safonol hyn fel fframwaith er mwyn gwneud penderfyniadau a chymryd camau eraill	Y Grŵp Arweiniol i gael diweddariad am e-ddysgu gydag AD yn adrodd i'r Grŵp Arweiniol (Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ('WFGA').	<p>Cyflwynwyd y modiwl e-ddysgu gorfodol ym mis Medi 2017 a than fis Tachwedd 2021, mae wedi cael ei gwblhau gan 2,834 o gyflogeion. O blith y rhain, cwblhaodd 343 y modiwl Cymraeg a chwblhaodd 2,491 y modiwl Saesneg.</p> <p>Rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, roedd 242 o gyflogeion wedi</p>	GE	Mawrth 2022

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	<p>Parhau i adolygu'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn unol â'r angen.</p>	<p>cwblhau'r modiwl e-ddysgu, 40 yn Gymraeg a 202 yn Saesneg (mae'r ffigurau yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael). Anfonir nodiadau atgoffa i staff nad ydynt wedi cyflawni'r modiwl eto a bydd y Grŵp Arweiniol yn cael adroddiadau am weithgarwch cwblhau modiwlau e-ddysgu gorfodol o bryd i'w gilydd.</p> <p>Mae adolygu'r Cyfansoddiad er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn unol â'r angen yn dasg barhaus, gan bod y Cyfansoddiad yn ddogfen fyw. Cyflwynwyd diwygiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad ddiwethaf i'r Cyngor yn ystod y Cyfarfod ar 23 Medi 2021, a chyn hyn, yn ystod ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2021. Mae Gweithgor Trawsbleidiol y Cyngor ar y Cyfansoddiad yn cyfarfod yn rheolaidd, a chynhaliwyd cyfarfodydd ar 15 Chwefror 2021, 19 Ebrill 2021, 30 Mehefin 2021, 10 Awst 2021 ac 8</p>	EP/HR	Mawrth 2022

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		<p>Tachwedd 2021, a bwriedir cynnal y Cyfarfod nesaf ar 11 Chwefror 2022.</p> <p>Mae diwygiadau arwyddocaol i'r Cyfansoddiad wedi cynnwys diwygiadau er mwyn cydymffurfio â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i weithredu newidiadau fel yr argymhellwyd gan Archwilio Cymru yn ei Adolygiad o Wasanaeth Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion 2020-21 (Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Hydref 2021).</p> <p>Cynhelir ymarfer cymharu o'r Cyfansoddiad Cyfredol yn erbyn y Cyfansoddiad Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan CLILC.</p>		
A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu	Mae'r Cyngor yn gwneud paratodau i gydymffurfio gyda Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ynghylch y Pwyllgor Archwilio (cylch	Cyflwynwyd newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn cydymffurfio gyda Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i Weithgor	EP/AW/HR	Mawrth 2022

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
<p>safonol drwy bolisiau a phrosesau priodol a adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol</p>	<p>gorchwyl, cylch gwaith a chyfansoddiad i'w hadolygu): Mae newidiadau'n cynnwys: - newid yr enw i'r 'Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu; - Yr Aelodaeth fydd 2/3 Cynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (yn unol â'r diffiniad yn y Ddeddf); - mae dyletswydd ar y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd ei hun; -Rhaid i'r Cadeirydd fod yn unigolyn lleyg; -Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac - yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol fydd yn gallu cadeirio.</p>	<p>Trawsbleidiol y Cyngor ar y Cyfansoddiad ar 19 Ebrill 2021, 30 Mehefin 2021 a 10 Awst 2021, a wnaeth argymhellion priodol i'r Cyngor. Cyflwynwyd Adroddiad am y newidiadau arfaethedig hyn i'r Cyngor yn ystod ei Gyfarfod ar 23 Medi 2021. Penderfynodd y Cyngor gytuno i'r newidiadau arfaethedig.</p> <p>Cyflwynwyd Adroddiad pellach am newidiadau sy'n ymwneud â'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu y Cyngor yn ystod ei Gyfarfod ar 3 Mehefin 2021, gan gynnwys diweddariadau i'r Cyfansoddiad, gan hysbysu am y gofynion i CJC Canolbarth Cymru i gael Is-bwyllgor Archwilio a Llywodraethu.</p> <p>Yn ogystal, cyflwynwyd adroddiad am newidiadau dan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n</p>		<p>Newidiadau ynghylch y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a Deddf 2021 wedi'u Cwblhau</p>

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		<p>effeithio ar y Pwyllgor i'r Pwyllgor yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ar 24 Chwefror 2021, gan gynnwys recriwtio aelodau lleyg i'r Pwyllgor. Yna cyflwynwyd y newidiadau a'r cynigion hyn ynghylch recriwtio i'r Cyngor ar 18 Mawrth 2021, ac fe'u cymeradwywyd ganddo. Nododd y Cyngor gynnwys yr Adroddiad, ynghyd â'r dyddiadau gweithredu perthnasol, gan gymeradwyo:</p> <p>a) newid enw y Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ynghyd â swyddogaethau ychwanegol yn ymwneud â delio gyda chwynion a pherfformiad y byddent yn dod i rym o 1 Ebrill 2021;</p> <p>b) cychwyn ar y broses recriwtio am aelodau lleyg annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio;</p> <p>c) y cynigion ar gyfer Panel Dethol y Rhestr Fer; a'r</p> <p>d) Disgrifiad Rôl a'r Fanyleb Person.</p>		

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		<p>Cyflwynwyd Adroddiad am faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 21 Mai 2021, a gytunodd argymhell i'r Cyngor y dylai'r Pwyllgor gynnwys 6 Aelod o'r Cyngor Sir a 3 aelod lleyg (9 at ei gilydd). Yna, cyflwynwyd Adroddiad am faint y Pwyllgor i'r Cyngor ar 17 Mehefin 2021 a chytunodd y Cyngor ar y cyfansoddiad hwnnw o ran aelodau o 5 Mai 2022. Mae'r broses recriwtio wedi cael ei chwblhau erbyn hyn, a phenderfynodd y Cyngor ar 9 Rhagfyr 2021 benodi tri ymgeisydd a argymhellwyd gan Banel Dethol y Rhestr Fer.</p> <p>Mae'r broses o gyhoeddi cofrestr y penderfyniadau dirprwyedig yn parhau. Mae Lòg Penderfyniadau y Grŵp Rheoli Aur, cofrestr penderfyniadau, wedi cael ei</p>		

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi'r Gofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig. 	<p>chyhoeddi a'i diweddarau bob chwarter, a'i chyflwyno i'r Grŵp Rheoli Aur (ac yna ei chymeradwyo), ac wedi hynny, i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu (yn fwyaf diweddar ar 1 Rhagfyr 2021 a chyn hyn, ar 16 Mehefin 2021) ac fe'i chyhoeddwyd ar wefan y Cyngor.</p> <p>Cynigiwyd yn y Cyfarfod hwn y dylid cyhoeddi'r Lòg Penderfyniadau yn fwy rheolaidd ac mae MO/Swyddog Llywodraethu yn trefnu y bydd yn cael ei gyhoeddi yn fwy rheolaidd (cyhoeddwyd penderfyniadau a wnaethpwyd tan 30 Tachwedd 2021 a chyhoeddir penderfyniadau a wnaethpwyd tan 31 Rhagfyr 2021 cyn bo hir (Rhagfyr 2021).</p> <p>Yna, cyflwynir y Log Penderfyniadau ar gyfer penderfyniadau a wnaethpwyd rhwng 1 Rhagfyr 2021 a 31 Rhagfyr 2021 i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu yn ystod ei Gyfarfod ar 10 Chwefror 2022.</p>		

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	<ul style="list-style-type: none"> Gwaith parhaus i fonitro'r niferoedd sy'n dilyn y modiwl e-ddysgu Gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban. Mae'n is na'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd. 	<p>Mewn perthynas â phenderfyniadau dirprwyedig eraill, cyhoeddir penderfyniadau dirprwyedig y Pwyllgor Rheoli Datblygiad ar gyfer pob Pwyllgor Rheoli Datblygiad. Mae unrhyw waith penderfyniadau eraill yn mynd rhagddo, fodd bynnag, yn arbennig, mae gwaith yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd i baratoi Cofrestr Gorchymyn Cadw Coed (TPO).</p> <p>O ran y niferoedd a fanteisiodd ar y modiwl Chwythu'r Chwiban e-ddysgu Gorfodol, rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, cwblhaodd 237 o Staff y Modiwl, 42 yn Gymraeg a 195 yn Saesneg (*mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael)</p> <p>Mae'r adolygiad o'r Polisi Cwynion Corfforaethol wedi cael ei gwblhau. Cyflwynwyd y polisi newydd i'r</p>		<p>Mae'r adolygiad o'r Polisi Cwynion / Canmoliaeth wedi cael ei gwblhau</p>

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	<ul style="list-style-type: none"> Adolygir y polisi Cwynion / Canmoliaeth yn ystod 2020- 2021. <p>Darparir hyfforddiant Moeseg / Twyll.</p>	<p>Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7 Gorffennaf ac fe'i cyflwynwyd i'r Cyngor ar 23 Medi. Penderfynodd y Cyngor gymeradwyo'r Polisi a'r Gweithdrefnau Cwynion 2021 diwygiedig.</p> <p>Bellach, mae'r modiwl hyfforddiant Moeseg / Twyll, a baratowyd ar y cyd â Zurich (yswiriwr y Cyngor), wedi cael ei gwblhau. Cyflwynwyd yr hyfforddiant gan Anthony Connolly o Zurich ar 28 Mai 2021 yn ystod gweithdy chwarterol y Rheolwyr Corfforaethol. Defnyddir y sleidiau o'r cyflwyniad fel sylfaen modiwl e-ddysgu ar gyfer yr holl staff. Mae'r Gwasanaethau Archwilio a Llywodraethu Mewnol wedi paratoi cwestiynau ac atebion drafft ar gyfer y modiwl e-ddysgu ac mae wedi darparu'r rhain i'r adran Dysgu a</p>		

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		<p>Datblygu, a byddant yn eu defnyddio fel sylfaen y modiwl.</p> <p>Cefnogir hyn hefyd gan yr adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian) y Cyngor.</p> <p>Mae archwiliad mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg yn mynd rhagddo hefyd (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd).</p>		

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
A3.1 Sicrhau bod aelodau a Staff yn dangos ymrwymiad cadarn i'r gyfraith, yn ogystal â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau perthnasol	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cael effaith ar gyrrff corfforaethol, gan gynnwys y Cyngor, ac mae'r paratodau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth yn mynd rhagddynt. 	Fel yr uchod, mae cydymffurfiaeth gyda Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn parhau, gan gynnwys trwy gyfrwng y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad (Aelodau o bob grŵp gwleidyddol yn bresennol), adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cyngor, ac mae cynllun Gweithredu y Cyngor wedi cael ei baratoi a'i ddiweddarau'n rheolaidd, a chynhaliwyd cyfarfodydd gyda Swyddogion a CLOs perthnasol, pan fo hynny'n briodol.	EP	Mawrth 2022
B1.1 Sicrhau bod diwylliant agored ar waith, drwy ddangos, cofnodi a mynegi ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored	Diweddarwyd y polisi FOI ac EIR. Mae adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi FOI yn mynd rhagddo.	Bwriedir cynnal adolygiad o Gynllun Cyhoeddi FOI yn ystod y flwyddyn nesaf.	LE/AW/MNH	Mawrth 2022
B3.1 Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrlon â dinasyddion unigol, defnyddwyr	O ganlyniad i bandemig Covid-19, mae angen i benderfyniadau gael eu gwneud gan y Grŵp Rheoli Aur ar hyn o bryd am resymau brys, felly mae'n amhosibl i nifer o wasanaethau	Lluniwyd Tudalen Ymgysylltu, Ymgynghoriadau a Phartneriaethau Cymunedol ar safle newydd Ceri Net. https://cerinet.ceredigion.gov.uk/our-	AW/LE/MS	Mawrth 2022

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
<p>gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn eu cylch, neu'n eu cynnwys ynddynt, i sicrhau bod gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig</p>	<p>ymgyngori wyneb yn wyneb yn y gymuned ar hyn o bryd, felly diwygiwyd y sgorio i adlewyrchu hyn.</p>	<p><u>council/community-engagement-consultation-and-partnerships/#</u></p> <p>Mae hyn yn cynnwys dolenni i'n Rhestr Gyfeirio Polisi Ymgysylltu Cymunedol, Ymgysylltu ac Ymgynghori cyfredol, Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth ac Offeryn Gwneud Penderfyniadau Ymgynghori.</p> <p>Bellach, asesir yr holl Aseidiadau Effaith Integredig (IIAs) ar gyfer y Cabinet gan y Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys a yw gweithgarwch ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori effeithiol wedi digwydd, gan gyfrannu at ein proses strategol o wneud penderfyniadau.</p> <p>Lluniwyd Strategaeth Ymgysylltu ddrafft newydd i Gyngor Sir</p>		

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	<p>Mae'r Polisi Ymgysylltu Cymunedol yn destun adolygiad a bydd yn cynnwys darpariaethau ynghylch sut yr ymgysylltir gyda rhanddeiliaid yn y dyfodol.</p>	<p>Ceredigion, 'Siarad, Gwranddo a Gweithio gyda'n Gilydd. Ymgynghorir am hon a chytunir arni yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.</p> <p>Mae'r gwaith wedi cychwyn i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a fydd yn cynnwys sut y byddwn yn annog cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau hefyd, er ein bod yn aros am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rhan hon o'r ddeddfwriaeth.</p>		
<p>B3.4 Gweithredu mecanweithiau adborth effeithiol er mwyn dangos sut yr ystyriwyd eu safbwyntiau</p>	<p>Mae gofyn gwneud gwaith pellach ynghylch monitro adborth a bydd y swydd Cydraddoldeb ac Ymgysylltu newydd yn rhoi sylw i hyn.</p>	<p>Cofnodir adborth o weithgarwch ymgysylltu a sut yr ystyriwyd safbwyntiau pobl yn yr IIAs.</p> <p>Cyhoeddir adroddiadau am ymarferion ymgysylltu ac ymgynghoriadau ar ein tudalen ar y we ynghylch ymgynghoriadau</p>	<p>AW/MS</p>	<p>Mawrth 2022</p>

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		<p>cyhoeddus er mwyn rhoi adborth i'r cyhoedd.</p> <p>http://www.ceredigion.gov.uk/your-council/consultations/</p> <p>Cyflwynir unrhyw adroddiadau ymgysylltu / ymgynghori i'r pwyllgor Craffu a'r Cabinet er mwyn cyfrannu at eu gweithgarwch gwneud penderfyniadau.</p>		
<p>C1.5 Rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaethau'n effeithiol o ran pennu blaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael</p>	<p>Cyhoeddi perfformiad y gwasanaeth gan gynnwys data am y costau a gwerth am arian.</p>	<p>Caiff data perthnasol ynghylch costau a gwerth am arian ei ystyried yn gyson mewn adroddiadau gwasanaeth.</p> <p>Nid yw data ynghylch costau a gwerth am arian yng nghyd-destun rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth, ar gael i nac yn cael ei ddal gan y Gwasanaeth Perfformiad.</p>	<p>AW</p>	<p>Mawrth 2022 – Wedi'i gwblhau</p>
<p>D2.3 Ystyried a monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth</p>	<p>Ystyrir newidiadau deddfwriaethol e.e. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.</p>	<p>Fel yr uchod, mae'r gwaith yn parhau mewn perthynas â gwneud newidiadau deddfwriaethol, megis</p>	<p>AW/EP</p>	<p>Mawrth 2022</p>

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir		<p>newidiadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir.</p> <p>Cynhelir cyfarfodydd ac mae gwaith paratoi yn cael ei wneud, er enghraifft, ynghylch gofyniad Deddf 2021 am Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys risgiau posibl a risgiau a rennir (sefydlwyd grŵp CJC, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 19 Ebrill 2021, i ystyried y gofyniad i sefydlu CJC Canolbarth Cymru yn unol â Deddf 2021).</p> <p>Mae trefniadau Craffu ar y Cyd priodol yn eu lle mewn perthynas â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru. Yn yr un modd, bydd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru</p>		

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		drefniadau priodol yn eu lle (Pwyllgor Craffu, Safonau a Llywodraethu ac Archwilio ar y cyd) – trefniadau sy'n cydymffurfio gyda deddfwriaeth a'i Rheolau Sefydlog.		
D2.5 Pennu dangosyddion perfformiad lleol priodol (yn ogystal â dangosyddion perfformiad statudol perthnasol neu genedlaethol eraill) fel rhan o'r broses gynllunio er mwyn nodi sut y caiff perfformiad gwasanaethau a phrosiectau ei fesur	Mae gwaith pellach yn mynd yn ei flaen i gysylltu'r mesurau Perfformiad Lleol gyda holl Amcanion cynllun Busnes lefel 1.	Gweithredir y broses Cynllunio Busnes ar gyfer 2021-22 a rhennir Cynlluniau Busnes Lefel 1 gyda'r Tîm Perfformiad ac Ymchwil. Nodwyd mesurau perfformiad ym mhob Cynllun Busnes Lefel 1 a fydd yn eu tro yn trosi i'r Dangosfwrdd adrodd ar gyfer pob gwasanaeth. Craffwyd y mesurau hyn ac fe'u cymeradwywyd yn derfynol gan arweinwyr uwch. Yna, bydd gwasanaethau yn adrodd yn erbyn y mesurau hyn fel rhan o'r broses rheoli perfformiad ar gyfer y flwyddyn.	AW	Mawrth 2022
F3.5 Sicrhau pwyllgor archwilio neu grŵp neu swyddogaeth gyfatebol	Adolygu cylch gorchwyl, cylch gwaith a chyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio yng ngoleuni Deddf Llywodraeth Leol ac	Fel yr uchod, mae gwaith yn parhau mewn perthynas â newidiadau sy'n effeithio ar y Pwyllgor Archwilio a	EP/AR/HR	Mawrth 2022 – Wedi'i gwblhau

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
<p>sy'n annibynnol ar y pwyllgor gweithredol ac sy'n atebol i'r corff llywodraethu: mae'n cynnig ffynhonnell bellach sicrwydd effeithiol ynghylch trefniadau i reoli risg a chynnal amgylchedd rheoli effeithiol y gwrandawir ar ei argymhellion ac y gweithredir yn eu cylch</p>	<p>Etholiadau (Cymru) 2021. Mae newidiadau'n cynnwys: - newid yr enw i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;</p> <p>-- Yr aelodaeth fydd 2/3 Cynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (fel y cânt eu diffinio yn y Ddeddf); - mae dyletswydd ar y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd ei hun;</p> <p>-Rhaid i'r Cadeirydd fod yn unigolyn lleyg;</p> <p>-Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac</p> <p>- yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol fydd yn gallu cadeirio.</p> <p>Mae adolygiad yn mynd rhagddo o faint y Pwyllgor Archwilio.</p> <p>Caiff aelodau lleyg eu recriwtio yn ystod 2020/21, gan ystyried unrhyw ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau</p>	<p>Llywodraethu yng ngoleuni Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mewn adroddiad yn ystod y cyfarfod ar 24 Chwefror 2021, hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o'r newidiadau i'w rôl ynghylch adroddiadau hunanasesu y Cyngor, ac ynghylch asesiadau perfformiad panel, yn ogystal â'r cam o newid enw, a'r newidiadau i'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd a'r cyfansoddiad.</p> <p>Fel yr uchod, cyflwynwyd adroddiad yn cynnig diweddariad am Ddeddf 2021 i'r Pwyllgor yn ystod y Cyfarfod ar 3 Mehefin 2021, a oedd yn cynnwys rhoi diweddariad i'r pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am newidiadau i'r Cyfansoddiad sy'n effeithio ar y Pwyllgor, gan gynnwys:</p>		

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	(Cymru) 2021 a therfynu cyfnod aelod lleyg presennol yn y swydd.	<ul style="list-style-type: none"> - Recriwtio aelodau lleyg ac Is-Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu CJC Canolbarth Cymru; ac - Ynghylch swyddogaethau'r Pwyllgor sy'n ymwneud ag: <ul style="list-style-type: none"> o adolygu ac asesu asesiad perfformiad y Cyngor; o ystyried adroddiad Hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor; o ystyried unrhyw adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ac ymateb drafft y Cyngor; o adolygiad o swyddogaeth y Cyngor er mwyn delio gyda chwynion; a'r o rôl ynghylch Asesiadau Perfformiad Panel (o fis Mai 2022). <p>Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo (Cyfarfod 23 Medi 2021) diwygiadau i gylich gorchwyl y Pwyllgor</p>		

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		<p>Llywodraethu ac Archwilio, yn dilyn argymhellion y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad. Diweddarwyd y Cyfansoddiad gyda chylch gorchwyl er mwyn adlewyrchu dyletswyddau cyfredol y Pwyllgor o Ddeddf 2021, a chaiff dyletswyddau ar gyfer y Pwyllgor yn y dyfodol eu cynnwys yn y cylch gorchwyl ar yr dyddiad priodol.</p>		
<p>G1.1 Ysgrifennu a chyfleu adroddiadau i'r cyhoedd ac i randdeiliaid eraill mewn arddull dealladwy sy'n briodol i'r gynulleidfa dan sylw a sicrhau eu bod yn hawdd troi atynt a'u cwestiynu</p>	<p>Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu newidiadau i'w cyflwyno gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n cynnwys bod y Cyngor yn ymgynghori ac yn cyhoeddi strategaeth gyfranogi gyhoeddus gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol, a gwella tryloywder.</p>	<p>Mae'r gwaith yn mynd rhagddo i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a fydd hefyd yn cynnwys sut y byddwn yn annog cyfranogiad wrth wneud penderfyniadau, er ein bod yn aros am arweiniad gan Lywodraeth Cymru am y rhan hon o'r ddeddfwriaeth.</p> <p>Mae'r Cyngor wedi bod allan i dendr ac mae wedi dyfarnu'r contract am osod offer yn Siambr y Cyngor, a</p>	<p>LE/AM</p>	<p>Mawrth 2022 (– Wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2022)</p>

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		<p>fydd yn galluogi i gyfarfodydd hybrid gael eu cynnal, yn ogystal â gallu darlledu'r cyfarfodydd hynny.</p> <p>Gosodir yr offer dros y gaeaf a bydd y system yn ei lle erbyn mis Mawrth 2022.</p>		
<p>G3.1 Sicrhau y gweithredir ynghylch argymhellion sy'n ymwneud â chamau cywiro gan archwilwyr allanol</p>	<p>Monitro cynnydd Camau gweithredu/argymhellion</p>	<p>Dogfennwyd 'Protocol Archwilio Cymru' ac mae gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau y rhoddir sylw i'r holl 'Ffurflenni Ymateb Rheolwyr' o bob adroddiad AW ac y cyflwynir ymatebion gwasanaeth i LG, GAC ac AW.</p> <p>Y Swyddog Llywodraethu yw pwynt cyswllt AW ar gyfer Ffurflenni Ymateb Rheolwyr ('MRFs') heb eu cyflwyno ar gyfer 2019/20 a 2020/21, a materion parhaus sy'n ymwneud â llywodraethu/MRFs sy'n ymwneud â llywodraethu. Y Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol yw'r pwynt cyswllt AW ar gyfer MRFs sy'n ymwneud â pherfformiad a</p>	<p>EP/AW/SJ</p>	<p>Mawrth 2022</p>

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		<p>materion perfformiad. Nodir y system hon mewn Protocol, a gymeradwywyd gan y Grŵp Arweiniol ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Cyflwynwyd fersiwn wedi'i ddiweddarau o'r Protocol (i adlewyrchu'r ffaith bod y Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol yn ei swydd) i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod ei Gyfarfod ar 9 Medi 2021.</p> <p>Yn ogystal, mae'r Swyddog Llywodraethu a'r Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol wedi paratoi taenlen ar gyfer MRFs cyfredol, yn ogystal ag MRFs hanesyddol (a gaiff ei monitro gan y Swyddog Llywodraethu), i'w chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Monitro er mwyn monitro ymatebion MRF.</p> <p>Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd misol gydag AW i drafod gwaith parhaus a</p>		

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad / Cynnydd hyd yma	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
		<p>materion i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.</p> <p>Felly, mae'r camau gweithredu hyn yn parhau, ond mae'r systemau/archwiliadau priodol yn eu lle.</p>		

Sylwer: Caiff unrhyw gamau gweithredu heb eu cwblhau'n llawn erbyn y dyddiad cwblhau eu cario ymlaen i Gynllun Gweithredu 2021-2022

DRAFT

6 Cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer materion i'w hystyried yn ystod 2022-2023

Yn sgil gweithredu ac adolygu fframwaith CIPFA/SOLACE, *Delivering Good Governance in Local Government (2016)*, nodwyd y materion a ganlyn i'w datrys yn ystod 2022-23:

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
A1.1 Sicrhau bod yr Aelodau a'r Swyddogion yn ymddwyn gydag uniondeb ac yn arwain diwylliant lle maent yn gweithredu'n amlwg ac yn gyson er budd y cyhoedd, gan warchod enw da'r sefydliad drwy wneud hynny	<p>MO i barhau i gynghori Aelodau ymhellach am yr angen i ddatgan am letygarwch/rhoddion.</p> <p>MO i barhau i gynghori'r Prif Swyddogion ymhellach am yr angen i ddatgan:</p> <ul style="list-style-type: none"> cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill, Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion <p>MO a CLO Gwasanaethau Democraidd i barhau i adolygu Aelodau sy'n dal swyddi cyfarwyddwr, ymddiriedolaethau, neu aelodaeth pan gânt eu penodi i gyrrff allanol, a phwyllgorau, MO i ystyried adborth gan aelodau a gwerth ychwanegol a</p>	Ymgorffori ymddwyn gydag uniondeb ymhellach.	EP/LE	Mawrth 2023

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
	<p>pharhau i ddiweddarau'r Cod Ymddygiad i Swyddogion ac Aelodau</p> <p>Diweddarau ffurflenni Goddefebau i Aelodau</p> <p>Stopiwyd yr arfarniadau oherwydd Pandemig Covid-19 ond maent bellach wedi ailgychwyn (fe'u cynhaliwyd ym mis Mai 2021 ac maent yn parhau i gael eu gynnal dan drefniant rhith.)</p> <p>Cyhoeddir y Cod Ymddygiad diwygiedig i Swyddogion ar ôl iddo gael ei ddiweddarau a'i gymeradwyo.</p> <p>Swyddogion i gwblhau modiwl e-hyfforddiant Gorfodol ynghylch Moeseg/Twyll ar ôl iddo gael ei gwblhau a'i gymeradwyo.</p>			
A1.3 Arwain drwy esiampl a defnyddio'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol hyn fel fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau a chamau gweithredu eraill	Rhoddir diweddariad i'r Grŵp Arweiniol am e-ddysgu a bydd AD yn adrodd i'r Grŵp Arweiniol.	Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol ymhellach ac arwain drwy esiampl er mwyn gwneud penderfyniadau'n effeithiol.	GE	Mawrth 2023

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
A1.4 Arddangos, mynegi ac ymgorffori'r egwyddorion neu'r gwerthoedd gweithredu safonol drwy bolisiâu a phrosesau priodol a adolygir yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gweithredu'n effeithiol	<p>Cyhoeddi'r Gofrestr Penderfyniadau Dirprwyedig.</p> <p>Monitro parhaus o'r niferoedd sy'n ymgymryd â'r modiwl e-ddysgu Gorfodol am Chwythu'r Chwiban. Mae'n is na'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd.</p> <p>Adolygu Polisi Chwythu'r Chwiban.</p>	<p>Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol ymhellach a chyfathrebu drwy gyhoeddi dogfennau.</p> <p>Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol ymhellach ac arwain drwy esiampl.</p> <p>Ymgorffori'r egwyddorion Gweithredu Safonol ymhellach.</p>	EP/ HR	Mawrth 2023
B1.1 Sicrhau bod diwylliant agored ar waith, drwy ddangos, cofnodi a mynegi ymrwymiad y sefydliad i fod yn agored	Cwblhau adolygiad o'r Cynllun Cyhoeddi FOI, sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.	Dangos ymrwymiad i fod yn agored.	LE/AW/MNH	Mawrth 2023
B3.1 Sefydlu polisi clir ar y math o faterion y bydd y sefydliad yn ymgynghori'n ystyrion â dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid eraill yn eu cylch, neu'n eu	Oherwydd pandemig Covid-19, bu'n rhaid i'r Grŵp Rheoli Aur wneud penderfyniadau am resymau brys (dan drosglwyddiad pŵer y swyddogaeth weithredol dros dro sydd mewn grym tan 31.8.2021 ac ar gyfer gweithdrefnau	Gwella Ymgysylltu â'r Gymuned.	AW	Mawrth 2023

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
cynnwys ynddynt, i sicrhau bod gwasanaeth (neu ddarpariaeth arall) yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau arfaethedig	<p>gweithredol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004), felly mae wedi bod yn amhosibl i nifer o wasanaethau ymgynghori wyneb yn wyneb yn y gymuned ar hyn, felly diwygiwyd y sgorio i adlewyrchu hyn.</p> <p>Parhau i symud ymlaen gyda'r adolygiad o'r Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn cynnwys darpariaethau ynghylch sut yr ymgysylltir gyda rhanddeiliaid yn y dyfodol.</p>			
D2.3 Ystyried a monitro'r risgiau sy'n wynebu pob partner wrth gydweithio gan gynnwys risgiau a rennir	<p>Parhau i ystyried newidiadau deddfwriaethol e.e. Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.</p> <p>Gweithredu newidiadau deddfwriaethol, megis ynghylch Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir.</p>	Rheoli risg a chydymffurfio gyda deddfwriaeth er mwyn dangos ymrwymiad i'r gyfraith.	AW/EP	Mawrth 2023

Mater	Cam gweithredu	Canlyniad	Swyddog Arweiniol	Dyddiad cwblhau
G3.1 Sicrhau y gweithredir ar sail argymhellion ynghylch camau cywiro, a wneir gan archwilwyr allanol	Monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion.	Sicrwydd a rheoli risg	EP/AW/SJ	Mawrth 2023

DRAFT

7 Casgliad

Mesurodd yr adolygiad blynyddol o'r fframwaith llywodraethu gynnydd yn erbyn Fframwaith newydd *Delivering Good Governance* (2016) CIPFA/SOLACE a chanfuwyd bod y trefniadau llywodraethu cyffredinol yn dderbyniol neu'n dda.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn ystod y flwyddyn, gan gofnodi llwyddiant yn erbyn pob un o'r saith egwyddor graidd.

Mae datblygu Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol sy'n dod â'r holl godau a'r holl ddogfennau lleol ynghyd mewn un ddogfen yn rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu clir ar waith. Galluogodd hynny y Cyngor i ymateb yn gyflym i'r bygythiadau a ddaeth yn sgil pandemig y coronafeirws.

Mae'r Cyngor wedi nodi nifer o fân faterion i'w datrys yn ystod 2022/23 ac mae wedi'u nodi mewn cynllun gweithredu er mwyn eu cwblhau (gweler uchod). Caiff y camau gweithredu a gymrwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig eu cofnodi, fel y bo'n briodol.

8 Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Dros y flwyddyn nesaf, rydym yn bwriadu cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion uchod er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon y bydd y camau hyn yn mynd i'r afael â'r angen am welliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd, trwy gydol 2022/23, a byddwn yn monitro'r modd y caiff y camau eu rhoi ar waith a'r modd y maent yn gweithredu, fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf. Cydnabyddir y gallai'r pandemig atal rhai o'r camau hyn, a rhoddir sylw i hynny ac adroddir yn briodol wrth y Cyngor yn ei gylch yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23.

Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol



Cymeradwywyd gan y Cyngor ar [nodwch ddyddiad]

Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol**Cynnwys**

1	Cyflwyniad	3
2	Pandemig y Coronafeirws	3
3	Cyfrifoldebau dros Lywodraethu Corfforaethol	4
4	Monitro ac Adolygu	4
5	Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol	5
6	Y Fframwaith Llywodraethu	6
	○ Egwyddor A: Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith.	7
	○ Egwyddor B: Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid.	14
	○ Egwyddor C: Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy.	17
	○ Egwyddor D: Penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i wneud y gorau o'r camau i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig	19
	○ Egwyddor E: Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion tu mewn iddo.	22
	○ Egwyddor F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus mewn ffordd gadarn	26
	○ Egwyddor G Defnyddio arferion gweithio da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol	35
7	Dogfennau Cysylltiedig	39

1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwmo i ddangos ei fod wedi rhoi'r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol ar waith er mwyn iddo berfformio'n effeithiol. Mae'r Cod Llywodraethu Lleol hwn yn ddatganiad cyhoeddus sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn bodloni'r ymrwymiad hwn.

Defnyddir y term llywodraethu corfforaethol i ddisgrifio'r ffordd y mae sefydliadau'n cyfarwyddo ac yn rheoli'r hyn y maent yn ei wneud i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid, gan weithredu er budd y cyhoedd ar bob adeg.

Mae llywodraethu corfforaethol da yn peri iddi fod yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflawni eu swyddogaethau mewn ffordd sy'n dangos atebolrwydd, tryloywder, effeithiolrwydd, uniondeb, didueddrwydd a chynwysoldeb. Llywodraethu corfforaethol yw'r strwythur hefyd ar gyfer pennu amcanion strategol a monitro perfformiad.

2. Pandemig y Coronafeirws

Oherwydd argyfwng pandemig y coronafeirws, caewyd pob un o swyddfeydd y Cyngor i'r cyhoedd ar 23 Mawrth 2020.

Yng ngoleuni'r argyfwng cenedlaethol a'r sefyllfa argyfyngus a oedd yn codi o ganlyniad i'r pandemig, ac i ddiogelu'r Cyngor a buddiannau'r cyhoedd, rhoddodd Arweinydd y Cyngor bwerau dirprwyedig dros dro i Brif Weithredwr a Grŵp Arweiniol y Cyngor wneud penderfyniadau o ran ymateb y Cyngor i COVID-19, a hynny mewn sefyllfaoedd lle y tybir bod angen gwneud penderfyniadau ar fyrder oherwydd y byddai oedi'n gwneud niwed difrifol i fuddiannau'r Cyngor neu i fuddiannau'r cyhoedd.

Gwnaed y penderfyniad yn unol â Rhan 4 Cyfansoddiad y Cyngor. Mae'r Cofnod o'r Penderfyniad Brys ar gael ar wefan y Cyngor ar dudalen y Cyngor am y Strwythur Llywodraethu i wneud penderfyniadau yn ystod COVID-19 (<https://www.ceredigion.gov.uk/preswylwr/coronafeirws-covid-19/llywodraethiant/>). Adolygwyd y penderfyniad, ac ym mis Hydref 2020, mis Chwefror 2021, mis Mawrth 2021 a mis Mai 2021, cymeradwyodd yr Arweinydd benderfyniadau diwygiedig (y maent ar gael ar wefan y Cyngor hefyd).

Yn ystod y cyfnod, cynhaliwyd cyfarfodydd Grŵp Rheoli Aur i drafod pandemig Covid-19 a sut i ymdrin yn effeithiol â'r sefyllfa. Mae'r Grŵp Rheoli Aur yn parhau i gwrdd yn rheolaidd.

Sefydlwyd y fforwm Rheoli Aur ar unwaith i hwyluso gweithrediadau ac i ddarparu proses benderfynu gadarn o'r dechrau'n deg trwy gynnal cyfarfodydd rhithwir dyddiol.

Daeth trosglwyddiad pwerau y swyddogaeth Weithredol Dros Dro i ben ar 31 Awst 2021. O 1 Medi 2021 tan nawr, mae'r grŵp Rheoli Aur wedi bod yn gwneud penderfyniadau gweithredol dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

Mae llythyr Archwilio Cymru at y Cyngor ar 19 Hydref 2020 am Adfer yn sgil COVID-19 – Sicrwydd Dros Dro yn crynhoi ei gasgliadau dros dro ar sail gwaith parhaus i fonitro'r broses o addasu i effaith barhaus y pandemig. Yn yr Atodiad, mae Archwilio

Cymru'n cyfeirio, fel rhan o'r camau a gymerwyd gan y Cyngor i addasu ei drefniadau penderfynu, at y bwriad i gyhoeddi'r Cofnod Penderfyniadau ar wefan y Cyngor ac i roi adroddiad yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu. Nododd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gynnwys y llythyr hwn yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd 2020 ac ar 20 Ionawr 2021, cyflwynwyd Adroddiad gan y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu/Swyddog Monitro i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu a oedd yn nodi cynnwys yr Adroddiad a chynnwys Cyfarfodydd Grŵp Rheoli Aur COVID-19 y Grŵp Arweiniol ar sail y Cofnod Penderfyniadau.

Cyhoeddwyd y Cofnod Penderfyniadau ar wefan y Cyngor ar 5 Tachwedd 2020 (ar gyfer penderfyniadau a wnaed hyd at 30 Medi 2020). Erbyn hyn, cyhoeddwyd y penderfyniadau a wnaed rhwng 1 Hydref 2020 a 30 Tachwedd 2021 hefyd (ac mae paratoadau yn mynd rhagddynt i gyhoeddi'r Cofnod Penderfyniadau tan fis Rhagfyr 2021).

Roedd gan y Cyngor weledigaeth glir y gallai pob unigolyn, busnes a gwasanaeth ei deall a chytuno arni i sicrhau bod Ceredigion yn llwyddo nid yn unig i leihau nifer y marwolaethau a ragwelwyd yn ystod ton gyntaf y pandemig ond, yn bwysicach na hynny, y rheini y gallent godi yn ystod unrhyw donnau eraill. Gwnaed hyn mewn tri cham hyd yma:

Cam 1: Paratoi – Cau pob gwasanaeth nad yw'n hanfodol

Cam 2: Gweithredu – Darparu gwasanaethau dan amodau cyfnod clo

Cam 3: Addasu a chydnerthedd hirdymor

Mae Cam 3 yn darparu cyfnod addasu ar ôl y ddau gam cyntaf cyn camu ymlaen at bedwerydd cam adfer. I sicrhau bod modd i hyn ddigwydd, rhaid i'r cyfnod addasu ystyried tair prif elfen a fydd yn hollbwysig i ymdrin â COVID-19, gan fynd ati ar yr un pryd i lacio rhai o gyfyngiadau'r cyfnod clo yn ddiogel ac mewn modd strwythuredig a rheoledig.

Y tair elfen yw:

Cyfyngu + Ynysu + Dileu

Wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo gael eu llacio'n raddol ac wrth i Lywodraeth Cymru ddiwygio ei chanllawiau, mae'r Cyngor yn ystyried sut a phryd y gall ailddechrau ei wasanaethau neu sut y gall eu darparu'n wahanol. Cofnodir hyn yng 'Nghynllun y Ffordd Ymlaen i Geredigion' ar wefan y Cyngor.

Y gobaith yw y bydd sectorau busnes a grwpiau cymunedol hefyd yn cyfrannu at y cynllun hwn ar gyfer y ffordd ymlaen i roi eglurder i holl breswylwyr Ceredigion.

Ar ôl atal cyfarfodydd cyhoeddus ar unwaith ar ddechrau'r pandemig, mae cyfarfodydd y Cyngor wedi ailddechrau trwy lwyfan rhithwir.

Gall aelodau'r cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd o bell trwy anfon neges e-bost at y Gwasanaethau Democritaidd i ofyn am y manylion cofrestru. Mae rhestr lawn o'r cyfarfodydd a gynhelir o bell ar gael ar wefan y Cyngor. Gellir gwyllo'r cyfarfodydd hyn ar dudalen Facebook y Cyngor hefyd.

3. Cyfrifoldebau dros Lywodraethu Corfforaethol

Tudalen 692

Mae cyfrifoldeb ar bob Aelod a Swyddog i gynnal egwyddorion llywodraethu da. Hwn yw un o brif gyfrifoldebau Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr.

Mae'r Grŵp Arweiniol, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, yn gyfrifol am ddatblygu, cyflwyno ac adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol cadarn.

4. Monitro ac Adolygu

Mae'n ofynnol i'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr sicrhau bod trefniadau llywodraethu corfforaethol yn cael eu hadolygu'n flynyddol i fesur i ba raddau y mae'r Cyngor yn bodloni gofynion yr egwyddorion craidd a'r is-egwyddorion a geir yng Nghod Fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).

Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r trefniadau llywodraethu fel y'u disgrifir yn y Cod hwn. Mae cylch gorchwyl llawn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi'i gynnwys yn y Cyfansoddiad.

Adroddir ar ganlyniadau'r adolygiad trwy'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Adolygir unrhyw newidiadau i'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac fe'u cymeradwyir gan y Cyngor.

Trwy'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, bydd y Cyngor yn sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd hyn yn cynnwys ystyried:

- Gwaith Archwilio Mewnol ac Archwilio Allanol
- Barn arolygiaethau ac asiantaethau adolygu eraill
- Barn Swyddogion Statudol y Cyngor
- Materion cyffredinol sy'n ymwneud â gweithredu'r Cod
- Y broses o baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r camau y bwriedir eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion llywodraethu sy'n codi

5. Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ('DLIB')

Bob Blwyddyn, bydd y Cyngor yn cyhoeddi DLIB.

Bydd yn darparu asesiad cyffredinol o drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor ac arfarniad o'r trefniadau rheoli sydd ar waith i reoli prif risgiau'r Cyngor.

Bydd y Datganiad hefyd yn rhoi manylion y meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau.

Adolygir y Datganiad gan y Grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, cyn i'r Cyngor ei gymeradwyo'n derfynol ac i Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr ei lofnodi.

Cyhoeddir y Datganiad ar wefan y Cyngor ac fel rhan o Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol y Cyngor ac fe'i adolygir gan ein Harchwilwyr Allanol.


6. Y Fframwaith Llywodraethu

Datblygwyd y Cod yn unol â fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government* (Rhifyn 2016) a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA)/Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE), a nodiadau cyfarwyddyd fframwaith *Delivering Good Governance in Local Government – Guidance notes for Welsh authorities* (Rhifyn 2016) gan (CIPFA)/Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol.

Mae Ffigur 1 isod yn diffinio'r perthnasoedd rhwng yr Egwyddorion ar gyfer Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus:

Figure 1: Relationships between the Principles for Good Governance in the Public Sector

**Achieving the Intended Outcomes
While Acting in the Public Interest at all Times**



Diben y Cod Llywodraethu Corfforaethol hwn yw dangos bod strwythurau llywodraethu'r Cyngor yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd a'r is-egwyddorion a geir yn y Fframwaith, ac mae'r tabl isod yn dangos trefniadau llywodraethu'r Cyngor mewn perthynas ag ef.

Egwyddor Llywodraethu Da	Sut ydym ni'n bodloni'r Egwyddorion hyn
<p>A: Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cadarn i werthoedd moesegol, a pharchu rheolaeth y gyfraith</p>	<ul style="list-style-type: none"> • <u>Cod Ymddygiad i Aelodau</u> (diweddarwyd yn 2016) sydd ar gael ar wefan y Cyngor, ei fewnrwyd (CeriNet) dan Adnoddau Cyngorwyr, ac yn y <u>Cyfansoddiad</u>. Yn ogystal, <u>Siart Llif Cod Ymddygiad yr Aelodau</u> (diweddarwyd yn 2016). • <u>Cod Ymddygiad i Swyddogion*</u> (sy'n cael ei adolygu'n sylweddol ar hyn o bryd), sydd ar gael gyda'r holl bolisiâu a strategaethau Corfforaethol trwy wefan y Cyngor/CeriNet. • Rhoddir darpariaeth ymsefydlu a hyfforddiant dilynol am y Cod Ymddygiad a moeseg i'r holl Aelodau. • Cynhaliwyd Archwiliad Moeseg yn ystod 2019. Mae Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg yn mynd rhagddo hefyd (yn destun adolygiad ar hyn o bryd). • Darparwyd hyfforddiant ynghylch Moeseg/Twyll ar y cyd ag yswiriwr y Cyngor yn ystod gweithdy chwarterol y Rheolwyr Corfforaethol ar 28.5.2021. Mae sleidiau o'r cyflwyniad yn ffurfio sail modiwl e-ddysgu ar gyfer yr holl Staff a Gwasanaethau Llywodraethu ac Archwilio Mewnol ('IA') sy'n gweithio gyda Dysgu a Datblygu i baratoi sefyllfaoedd ar gyfer hyfforddiant. Cefnogwyd yr hyfforddiant gan adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddar o Strategaeth Gwrth-dwyll, Llygredd a Llwgwrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian) y Cyngor. Rhoddir cyngor dydd i ddydd gan y Swyddog Monitro ('MO') a'r Swyddog Cymorth Craffu. • Mae MO yn cynghori'r Pwyllgor a'r Aelodau ac anfonir cyngor rheolaidd rhagweithiol a nodiadau atgoffa i Aelodau a Swyddogion yn ôl y gofyn. Rhoddir cyngor/goblygiadau Cyfreithiol ac Ariannol am yr holl adroddiadau priodol y mae gofyn gwneud penderfyniad amdanynt, mae Prif Swyddogion yn darparu cymorth a chyngor i Aelodau ac mae gweithgarwch adrodd yn mynnu bod cyngor ariannol a chyfreithiol/goblygiadau yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau/penderfyniadau, a gyhoeddir pan fo hynny'n briodol. • Mae eitemau yr adroddir amdanynt i Aelodau er mwyn gwneud penderfyniadau amdanynt trwy'r Cabinet, y Cyngor a Phwyllgorau yn destun cyngor ariannol a chyfreithiol, y cyfeirir ato ym mhob adroddiad. Yn ogystal, mae MO yn gweithredu polisi drws 'agored' i Aelodau sy'n dymuno cael cyngor ynghylch 'ymddygiad' a 'llywodraethu'. • Adolygiad Datblygiad Personol. • Cymeradwyaeth unigol o ran cydymffurfiaeth. • <u>Cofrestr o fuddiannau Aelodau</u>, sydd ar gael gan Wasanaethau Democrataidd y Cyngor, a adolygir gan MO ac a gyhoeddir ar wefan y Cyngor. • Mae ffurflenni <u>Datgelu Budd a Lletygarwch</u> i Swyddogion ac Aelodau ar CeriNet. • Mae MO yn dosbarthu nodyn atgoffa ynghylch datganiadau budd/lletygarwch i Staff bob chwarter. • Mae datganiadau budd gan Aelodau a Swyddogion yn ystod cyfarfodydd ac mae <u>Cofnodion</u> yr holl bwyllgorau yn cynnwys Datganiadau Budd-Swyddogion ac Aelodau.

	<ul style="list-style-type: none"> • Nodiadau atgoffa rheolaidd trwy gyfrwng Diweddariadau Newyddion ar system CeriNet, MO yn monitro ac yn adolygu datganiadau Prif Swyddogion bob blwyddyn ac yn rhoi cyngor i Brif Swyddogion am yr angen i ddatgelu cysylltiadau personol agos gyda Swyddogion neu Aelodau eraill, gan gynnwys cynghori Prif Swyddogion yn y Grŵp Arweiniol. Hysbysir Prif Swyddogion trwy gyfrwng diweddariad newyddion system CeriNet o neges e-bost MO ynghylch datgelu buddiannau a Lletygarwch ac anfonir nodyn atgoffa at Brif Swyddogion. • Datganiadau Buddiannau blynyddol Prif Swyddogion a'u hymrwymiaid parhaus i ddatgelu buddiannau. Adolygiad parhaus o ddatganiadau busnes Prif Swyddogion. • Cyhoeddwyd diweddariad i'r cyngor am Ddatganiadau Budd a Lletygarwch ar 16 Rhagfyr 2021 ac ar <u>20 Gorffennaf 2021 ar CeriNet</u>, hefyd ynghylch Grantiau NDR Cronfa Busnes Cyfyngiadau Covid-19 ar gyfer busnesau (Diweddariad newyddion a gyhoeddwyd ar 8.1.2021) a dolenni i'r ffurflenni perthnasol a'r Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol, ynghyd â nodyn atgoffa y dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu geisiadau am gyngor i'r MO. • Datganiadau budd gan Aelodau a Swyddogion yn ystod cyfarfodydd, cyfle i gyfeirio at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati. MO i roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgelu buddiannau mewn sefydliadau sy'n gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor, neu y gallent wneud hynny, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Contractwyr; • Llywodraethwyr Ysgol; • Clercod cynghorau Tref a Chymuned; • Aelodau cynghorau Tref a Chymuned; • Llywodraethwyr Ysgol. • MO i roi cyngor pellach i Swyddogion am yr angen i ddatgan: • Swyddi cyfarwyddwyr; a • Chyflogaeth arall <p style="margin-left: 20px;">Gan gynnwys os ydynt yn gwrthdaro gyda buddiannau'r Cyngor neu beidio.</p> • Mae gofyn i aelodau ddiweddarau'r Gofrestr Fuddiannau yn unol â'r Cod Ymddygiad, ac yn ogystal, bob blwyddyn, sy'n gyfle i gyfeirio at unrhyw rolau/cysylltiadau personol agos ac ati. Mae hyn bellach yn cynnwys aelodau annibynnol/lleyg o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Cyhoeddwyd llyfryn Cofrestr Buddiannau ar gyfer pob Aelod ar Wefan y Cyngor. • Mae cyfatebiaeth NFI yn amlygu Staff sy'n gyfarwyddwyr cwmnïau y maent wedi cael cyswllt gyda'r Cyngor – bydd IA yn ymchwilio i unrhyw achos o beidio datgan ac yn adrodd amdano i MO. • Cynhelir adolygiad ar hyn o bryd o'r cyrff allanol sydd wedi penodi Aelodau, gan gynnwys gwerth ychwanegol, a hefyd, caiff y Cyfansoddiad ei ddiweddarau. • Ffurflenni Goddefebau wedi'u diweddarau ar gyfer Aelodau wedi'u llenwi (2020). • Rhaid i Athrawon a Swyddogion Cymwys Proffesiynol fodloni gofynion eu sefydliad/corff proffesiynol. • Mae aelodau yn cwblhau modiwl hyfforddiant AD. • Darparir hyfforddiant am safonau ymddygiad i Reolwyr ar gyfer Staff.
--	---

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Llawlyfr i Gyflogeion yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, mae ar gael ar <u>CeriNet</u>, mae'n nodi'r <u>ymddygiad</u> a ddisgwylir gan Gyflogeion <u>ac mae'n cynnwys y Cod Ymddygiad i Gyflogeion Llywodraeth Leol</u>. • Mae MO yn dosbarthu diweddariadau/penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru i arweinwyr grwpiau gwleidyddol, a'u rôl nhw yw pennu'r achosion honedig o dorri'r amodau gan aelodau etholedig a chyfetholedig yn erbyn cod ymddygiad statudol eu hawdurdod. • Prif ddyletswyddau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yw gwella safonau ymddygiad Aelodau a gweithrediad y <u>Cod Ymddygiad i Aelodau</u>. Bydd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau ddyletswyddau newydd nawr (o fis Mai 2022) dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('Deddf 2021'), a fydd yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor gyda'u dyletswyddau dan A.52(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000; ○ Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor am faterion sy'n ymwneud â'u dyletswyddau dan A.52A (1) Deddf Llywodraeth Leol 2000. ○ Mae'r ddyletswydd i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn ymwneud â safonau ymddygiad, a sicrhau bod hyn yn amlwg ac yn cael ei ddangos yn gyson a gyda thystiolaeth er mwyn diogelu enw da y Cyngor. • Pwyllgor Moeseg a Safonau yn hyrwyddo cydymffurfiaeth foesebol er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd ymddiriedaeth a hyder bod Aelodau a Swyddogion yn gweithio yn unol â'r safonau moesegol a moesol uchaf. • Mae'r Pwyllgor Moeseg a Safonau wedi bod yn rhagweithiol, gan arwain ar sesiynau hyfforddiant a rhoi gweithdrefnau yn eu lle ar gyfer trefniadau goddefebau. Adolygwyd y strwythur yn ddiweddar er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. • Materion ynghylch ymddygiad a safonau aelodau a ystyrir gan Bwyllgor Moeseg a Safonau y Cyngor. Cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd, ac fe'u cadeirir gan unigolyn annibynnol – pennu goddefebau, ac ystyried materion strategol/polisi a chael diweddariadau gan achosion APW a Llyfr Achosion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. • Adroddwyd Adroddiad Pwyllgor Moeseg a Safonau Blynyddol i'r Cyngor ym mis Hydref 2021. • Cynhaliodd Cyngor Sir Gâr archwiliad annibynnol o foesebol o fewn y Cyngor yn ystod 2019. Cynhelir Archwiliad Mewnol dilynol o drefniadau'r Cyngor ynghylch Moeseg ar hyn o bryd (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd). • Mae perthynas waith dda yn bodoli gyda Llywodraeth Cymru fel rheolydd allweddol. Cynhelir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru. • Mae'r Cabinet wedi adolygu a chymeradwyo'r weledigaeth hon ar gyfer y Cyngor ac mae'r weledigaeth yn nodi nifer o Amcanion Strategol dros y tymor hir. • Mae'r <u>Strategaeth Gorfforaethol (2017-2022)</u> yn cynnwys blaenoriaethau'r Cyngor. • Mae'r <u>Amcanion Llesiant a Gwella</u> yn datblygu'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 ac fe'u hadolygir bob
--	---

	<p>blwyddyn. Datblygir y rhain trwy ymgynghori â'r cyhoedd ac Aelodau. Ystyriodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21, gan gymeradwyo'r <u>Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23</u> ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deialog reolaidd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a rheolyddion eraill gan gynnwys Estyn, AGC, ICO ac IPCO. • Cyfansoddiad y Cyngor, sy'n destun adolygiadau rheolaidd, gyda diweddariadau parhaus yn ôl y gofyn, gan gynnwys cyflwyno newidiadau arfaethedig i Weithgor Trawsbleidiol gyda Chydbwysedd Gwleidyddol am y Cyfansoddiad, i wneud argymhellion am newidiadau i'r Cyfansoddiad i'r Cyngor. Mae diwygiad pellach yn 2021 yn mynd rhagddo, gan bod y Cyfansoddiad yn ddogfen fyw, er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol ac yn unol â'r angen. Cymeradwyodd y Cyngor y diwygiadau ar 18.3.21 a 23.9.21. Mae'r Gweithgor Trawsbleidiol am y Cyfansoddiad yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried cynigion ynghylch diweddariadau i'r Cyfansoddiad. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar 15.2.21, 19.4.21, 30.6.21, 10.8.21 ac 8.11.21. MO/Swyddog Llywodraethu i adrodd i'r Cyngor er mwyn diweddarau dirprwyaethau a'r Cyfansoddiad. • Cynhelir ymarfer cymharu o'r Cyfansoddiad Cyfredol yn erbyn y Cyfansoddiad Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan CLILC. • Rhaid i bob aelod o Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol, a gyflwynwyd ym mis Medi 2017, ynghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 ('WFGA') (hyd at 31.3.21 fe'i cwblhawyd gan 2,592 o gyflogeion, yr oedd 303 o'r rhain wedi gwneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg a 2,289 trwy gyfrwng y Saesneg). Ar gyfer y flwyddyn tan 31.3.21, roedd 493 o gyflogeion wedi cwblhau'r modiwl at ei gilydd, 92 trwy gyfrwng y Gymraeg, 399 trwy gyfrwng y Saesneg. Rhoddwyd nodiadau atgoffa i Staff nad oeddent wedi cwblhau'r modiwl eto, ac mae Grwpiau Arwain yn cael adroddiadau achlysurol. • Cynhaliwyd Cynhadledd Safonau 2018 ar y cyd gan Gyngor Sir Powys a Cheredigion (fe'i chynhaliwyd ar 14 Medi 2018). Y bwriad oedd cynnal cynhadledd debyg gan Gyngorau Gogledd Cymru yn 2021 – fe'i gohiriwyd oherwydd Covid. • Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnal ymarfer meincnodi bob blwyddyn er mwyn cynnig sicrwydd pellach am yr adolygiad o'r broses <u>DLIB</u>. • Mae IA yn adolygu ac yn adrodd am y broses bob blwyddyn. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyfarfod yn rheolaidd i ystyried adroddiadau llywodraethu a chan reolydd allanol. Caiff ei gadeirio gan aelod anweithredol. • Adroddwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Cyngor ar 23.9.2021 ac fe'i cymeradwywyd. • Cyflwynwyd Strwythur Llywodraethu Covid-19 gan y Cyngor, i gynnwys pwerau dirprwyedig dros dro ar gyfer Prif Weithredwr a Grŵp Arweiniol y Cyngor trwy ddefnyddio Penderfyniadau Brys ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud ag ymateb COVID-19 y Cyngor), yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Adolygwyd Penderfyniad Brys yr Arweinydd yn rheolaidd, a daeth i ben ar 31.8.2021. • Mae'r grŵp Rheoli Aur yn parhau dan weithdrefnau gweithredol yn unol â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004
--	---

	<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddir Cofnod o Benderfyniadau'r grŵp Rheoli Aur ar wefan y Cyngor). • O ganlyniad i bandemig Covid-19, bu'n rhaid i'r grŵp Rheoli Aur wneud penderfyniadau am resymau brys (dan drosglwyddiad pŵer y swyddogaeth weithredol dros dro a oedd mewn grym tan 31.8.2021 ac ar gyfer gweithdrefnau gweithredol dan Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 yn dilyn y dyddiad hwnnw). • Cynhyrchwyd map ffyrdd, sy'n amlinellu'r gwasanaethau a ddarparir gan y Cyngor a'r rhai nas darparir gan y Cyngor, ynghyd â chynlluniau'r Cyngor, a gaiff ei adolygu'n rheolaidd, ar gyfer Ceredigion, gan gynnig trosolwg o'r gwasanaethau a ddarparir yng ngoleuni Pandemig Covid-19, y canllawiau presennol a nifer yr achosion yng Ngheredigion. • Diweddarwyd a chymeradwywyd 'Strategaeth i Oresgyn Twyll, Llygredd a Llwgwrwbrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' effeithiol gan y Cyngor ar 17.6.21 (cadarnhawyd y cofnodion ar 23.9.21). • Cyflwynir Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ynghylch Atal Twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ddiwedd y flwyddyn. • Diweddarir aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am dwyll gan gynnwys adroddiad atal twyll blynyddol Archwilio Mewnol a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ddiwedd y flwyddyn. • Cedwir Cofrestr Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol i Swyddogion ac mae Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol ar Gyflogeion Llywodraeth Leol ar gael i gyflogeion ar CeriNet. • Mae Polisi Chwythu'r Chwiban ar gael i Gyflogeion ar Chontractwyr (diweddarwyd 2018) ar CeriNet a chaiff ei ddiweddarau yn ôl yr angen. • MO yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol ('CLO'), ac mae'n cynghori'r sawl sy'n Chwythu'r Chwiban, pan fo hynny'n briodol. • Rhaid i bob aelod o Staff gwblhau modiwl hyfforddiant E-ddysgu gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban. Mae MO yn cadw cofrestr o gyfeiriadau ac yn adrodd i'r Pwyllgor Cydlynw Trosolwg a Chraffu bob 6 mis. O ran manteisio ar y modiwl e-ddysgu Gorfodol ynghylch Chwythu'r Chwiban, rhwng mis Ebrill a mis Tachwedd 2021, cwblhaodd 237 o Staff y Modiwl, 42 trwy gyfrwng y Gymraeg a 195 yn Saesneg (*mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi gadael). • Rhoddir sylw i'r holl gwynion yn unol â'r gweithdrefnau corfforaethol, sy'n cynnwys camau ffurfiol ac anffurfiol, a chaiff y rhain eu cyfleu i Staff yn rheolaidd. • Caiff y system gwynion ei monitro gan y Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth Corfforaethol. Adolygwyd y Polisi Cwynion Corfforaethol, cyflwynwyd y Polisi newydd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7.7.21 ac i'r Cyngor ar 23.9.2021, ac mae Polisi a Gweithdrefnau Pryderon a Chwynion Diwygiedig 2021, ei weithrediad a'i gyhoeddiad wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor. • Gweithredir gwelliannau o ganlyniad i'r cwynion/argymhellion a gafwyd. • Hysbysiad Preifatrwydd Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor. • Mae'r Adroddiad Cwynion Blynyddol, gan gynnwys y Gwersi a Ddysgwyd o'r cwynion, wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio
--	--

	<p>a Llywodraethu a'r Cabinet cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor, ei gyflwyno i'r Cyngor a'i nodi.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddir cofnodion yr holl bwyllgorau ar Wefan y Cyngor. Mae holl agendâu/cofnodion Pwyllgorau yn cynnwys eitem am ddatgelu buddiannau. • Cyhoeddir Hysbysiadau o Benderfyniadau'r Cabinet ar Wefan y Cyngor. • Caiff pwerau statudol a goblygiadau cyfreithiol eu cynnwys ym mhob adroddiad Cabinet lle y gwneir penderfyniad. • Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer cyhoeddi cofrestr penderfyniadau dirprwyedig yn parhau. Cyhoeddir <u>Cofnod Penderfyniadau y Grŵp Rheoli Aur</u> (cofrestr penderfyniadau) yn rheolaidd, fe'i cyflwynir i'r Grŵp Rheoli Aur (a'i gymeradwyo) ac ar ôl hynny i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu (20.1.2021, 16.6.21 ac 1.12.2021) ac fe'i cyhoeddir ar Wefan y Cyngor. O ran penderfyniadau dirprwyedig eraill, cyhoeddir penderfyniadau dirprwyedig y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar gyfer pob Pwyllgor Rheoli Datblygu. • Cyhoeddir Cofrestr o Gontractau ar Wefan y Cyngor. • Mae'r Cyngor yn gwneud paratodau i gydymffurfio â Deddf 2021 ynghylch y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (cyflwynwyd Adroddiad am newidiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24.2.2021 a 3.6.2021 (gan gynnwys gofyniad gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru i gael Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu)), a chymeradwywyd newidiadau ynghylch recriwtio gan y Cyngor ar 18.3.2021, fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> a) newid enw'r Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a swyddogaethau ychwanegol ynghylch perfformiad a delio â chwynion a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2021; b) cychwyn y broses recriwtio ar gyfer aelodau lleyg annibynnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu; c) y cynigion ar gyfer Panel Dethol y Rhestr Fer; a'r d) Disgrifiad Rôl a'r Fanyleb Person. • Newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad ynghylch y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn unol â Deddf 2021 a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 23.9.21. Mae'r newidiadau a wnaethpwyd yn ystod 2021-2022 yn cynnwys paratodau ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> - newidiadau i'r cylch gorchwyl/cylch gwaith/cyfansoddiad; - newid yr enw i'r 'Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'; - Yr aelodaeth fydd 2/3 Cynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (fel y'u diffinnir yn y Ddeddf) – recriwtio wedi'i gwblhau, ac eithrio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer yr ymgeiswyr llwyddiannus. - Dyletswydd y Pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Is-Gadeirydd ei hun; - Rhaid i'r Cadeirydd fod yn unigolyn lleyg. - Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac - yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol sy'n gallu cadeirio. • Cyflwynwyd <u>Adroddiad</u> am faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 21.5.2021, a oedd yn cytuno argymhell i'r Cyngor y dylai'r Pwyllgor gynnwys 6 Aelod o'r
--	--

Tudalen 700

	<p>Cyngor Sir a 3 aelod lleyg (9 at ei gilydd). Cyflwynwyd <u>adroddiad</u> am faint y Pwyllgor i'r Cyngor ar 17.6.2021 a chytunodd y Cyngor i'r un cyfansoddiad o ran aelodau o 5.5.2022.</p> <ul style="list-style-type: none">• Mae swyddogion megis Archwilwyr Mewnol yn llofnodi datganiad blynyddol am y Cod Moeseg.• Cymeradwywyd y Siarter Archwilio Mewnol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24 Chwefror 2021.• Dosbarthwyd yr Holiadur Dadansoddi Anghenion Hyfforddiant ar ffurf cylchlythyr gan y Cyngor i'r Staff, yn holi eu barn am ddiwylliant moesegol y Cyngor a'r modiwl hyfforddiant bwriadedig er mwyn ymateb i'r adborth.• Mae hyfforddiant ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth a recriwtio a dethol, gan gynnwys cyfle cyfartal, yn orfodol i holl Reolwyr Cyngor Sir Ceredigion.• Cymeradwywyd Strategaeth Gaffael 2018-2022 gan y Cyngor ar 19 Mehefin 2018 a chyflwynir hyfforddiant ynghylch caffael i'r Staff hefyd.• Polisi DBS a Pholisi Recriwtio y Cyngor.• Mae Amodau a Thelerau safonol ar gyfer yr holl Gyflenwyr Nwyddau a gwasanaethau yn cynnwys amodau sy'n ymwneud â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.• Defnyddir meddalwedd fewnol i ôl-wirio taliadau dyblyg drwgdybiedig.• Mae'r Cyngor wedi datblygu Polisi Caethwasiaeth Fodern (a anfonir at gontractwyr y Cyngor), Datganiad Blynyddol Atal Caethwasiaeth 2019-2020 a Chod Ymarfer Cyflogaeth Foesebol mewn Cadwyni Cyflenwi.• Mae MO a'r Gwasanaethau Cyfreithiol ar gael i roi cyngor pan fo hynny'n briodol, gan gynnwys ymlaen llaw ac yn ystod cyfarfodydd ac mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gael i roi cyngor pan fo hynny'n briodol.• Mae MO yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Arweiniol/Cabinet/Cyngor ac mae'n mynychu nifer o gyfarfodydd cyhoeddus yn rheolaidd, yn ôl y gofyn, os bydd ar gael ar y pryd. Yn absenoldeb yr MO, bydd y Dirprwy MO yn mynychu cyfarfodydd y Cabinet a'r Cyngor.• Bydd Deddf 2021 yn cael effaith ar gyrff corfforaethol, gan gynnwys y Cyngor, ac mae'r paratodau er mwyn cydymffurfio yn parhau, gan gynnwys trwy gyfrwng y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad (mae aelodau pob grŵp gwleidyddol yn mynychu hwn), adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Cyngor, ac mae Cynllun gweithredu y Cyngor wedi cael ei baratoi a'i ddiweddarau'n rheolaidd, a chynhelir cyfarfodydd gyda Swyddogion a CLOs perthnasol, pan fo hynny'n briodol.• Mae disgrifiadau swydd a manylebau person yn diffinio'r rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ofynnol ar gyfer swyddi yn glir ac mae disgrifiadau Rôl Aelodau yn nodi eu gwahanol gyfrifoldebau.• Cydymffurfiaeth gyda Datganiad CIPFA ynghylch Rôl y Prif Swyddog Ariannol mewn Llywodraeth Leol (CIPFA, cyhoeddwyd 13 Ebrill 2016).• Cydymffurfiaeth gyda Datganiad CIPFA ynghylch Rôl y Pennaeth Archwilio Mewnol mewn Sefydliadau Gwasanaeth Cyhoeddus (CIPFA, cyhoeddwyd 9 Ebrill 2019) a chyhoeddwyd y cyfraniad yn nogfen gysylltiedig CIPFA, <i>Putting Principles into Practice</i> (2019)).
--	--

Tudalen 701

	<ul style="list-style-type: none">• Caiff Cylch gorchwyl ei gynnwys yn y Cyfansoddiad a diweddarwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn unol â Deddf 2021.• Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.• Rheolau Gweithdrefn Ariannol a Rheoliadau Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad).• <u>Rheolau Gweithdrefn Contract</u> (Dogfen G yng Nghyfansoddiad y Cyngor).• Cydymffurfiaeth gyda Chodau Penodol e.e. Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus Archwilwyr Mewnol ('PSIAS', Mawrth 2017)• Swyddogion statudol sy'n atebol i'r Prif Weithredwr ('CE') a'r Cyngor.• Cyfarfodydd rheolaidd rhwng CE, Swyddog A.151 ac MO, y mae ganddynt fynediad uniongyrchol i'r CE ac sy'n adrodd i'r Cyngor yn gyffredinol ac fel rhan o ddyletswydd statudol. Mae'r MO a'r Swyddog A.151 yn aelodau allweddol o'r Grŵp Arweiniol.• Mae gan y Rheolwr Corfforaethol – archwilio Mewnol ('CMIA') fynediad rhydd a dilyffethair i Aelodau a Swyddogion ar bob lefel, a hawl mynediad yn unol â Chyfansoddiad y cyngor a'r Siarter Archwilio Mewnol.• Ymchwiliadau mewnol, Archwilio Allanol effeithiol.• <u>Polisi Disgyblu (Tachwedd 2017).</u>• Mae Swyddog yn y tîm IA yn Dechnegydd Atal Twyll achrededig ac mae Swyddog(ion) yn y tîm IA yn meddu ar Dystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwilio ('CCIP').• Mae'r Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Menter Twyll Genedlaethol flynyddol Archwilio Cymru, a gaiff ei chydlynu gan yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd.• Monitro ac ymateb i rybuddion ynghylch twyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati).• Aelodaeth a chyfranogiad weithredol mewn grwpiau a rhwydweithiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati).• Mae IA yn cynnig cyngor i wasanaethau ynghylch gweithredu systemau a phrosesau newydd er mwyn sicrhau y caiff trefniadau rheoli mewnol effeithiol eu cynnal.• Mae Swyddogion Enwebedig y Cyngor yn ymgymryd â hyfforddiant amrywiol ynghylch twyll er mwyn cynnal eu gwybodaeth a'u harbenigedd.• Pan fo hynny'n briodol, cyhoeddir erlyniadau llwyddiannus ar wefan y Cyngor (ac yn y wasg leol).• Caiff taliadau grant Covid-19 eu harchwilio cyn eu talu (gan ei bod yn haws stopio taliad na'i adfer).• Ychwanegir archwiliadau rheoli ariannol allweddol i'r cynllun archwilio, i archwilio camau rheoli, llywodraethu a risgiau pan fo'r staff yn gweithio gartref.• Gall cynllun archwilio blynyddol IA roi sylw i unrhyw weithgarwch ail-flaenoriaethu gwaith sy'n angenrheidiol, gan ganiatáu i'r IA ymateb i unrhyw newidiadau o ran y risg yn y Cyngor.
--	--

Tudalen 702

Egwyddor Llywodraethu Da	Sut ydym ni'n bodloni'r Egwyddorion hyn
<p>B: Sicrhau ei fod yn agored a'i fod yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r holl adroddiadau Blynyddol statudol ar gael ar Wefan y Cyngor. • Cynllun cyhoeddi y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, Polisi Rhyddid Gwybodaeth (Mawrth 2018) a Hysbysiad Preifatrwydd Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth. Ymatebion rheolaidd ac amserol i'r wasg ac ymholiadau eraill i Reolwyr ac aelodau, yn ogystal ag ymatebion FOI cynhwysfawr. Mae'r adolygiad o gynllun Cyhoeddi FOI yn mynd rhagddo. • Mae'r Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth Corfforaethol yn eu swydd. • Mae llu o feysydd gwasanaeth ar gael ar-lein gan gynnwys gwybodaeth a hunan-wasanaeth treth yngor. • Nodir nodau a gwerthoedd y Cyngor yn Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022. Caiff yr <u>Amcanion Llesiant a Gwella</u> eu cynnwys yn <u>Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022</u> y Cyngor ac fe'u hadolygir bob blwyddyn. Ystyriodd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21 drafft, gan gymeradwyo'r <u>Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23</u> ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor. • Darlledir cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet. Mae holl gyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau yn agored i'r cyhoedd a chyhoeddir agendâu a phapurau ar wefan y Cyngor (ac eithrio adroddiadau wedi'u heithrio). • Caiff cyfeiriadau e-bost MO a Moeseg a Safonau generig eu creu. • Polisi Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (Mawrth 2018). • Cymeradwywyd Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd Trosolwg a Chraffu (2018) (Dogfen N Cyfansoddiad) gan y Cyngor ac fe'i ddefnyddiwyd sawl gwaith. Yn ogystal, <u>Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Rhestr Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth</u>. • Protocol er mwyn siarad yn y Pwyllgor Rheoli Datblygu (Cyfansoddiad I Dogfen Rhan 4). • Mae Protocol mewn grym ar gyfer perthnasoedd gwaith rhwng Aelodau a Swyddogion e.e. Protocol Swyddog-Aelod) (Rhan 5 Cyfansoddiad) a chymeradwywyd Protocol mynediad gan Aelodau'r Cabinet i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu gan y Cyngor (Cyfansoddiad M2 Dogfen Rhan 5). • Cymeradwywyd offeryn ac arweiniad Asesiad Effaith Integredig ('IIA') i'w weithredu. • Datblygwyd canllawiau ac offeryn IIA er mwyn cyfrannu at wneud penderfyniadau effeithiol ac maent yn cael eu gweithredu, ac adroddir casgliadau IIA i'r Cyngor, y Cabinet ac i Drosolwg a Chraffu. Aeth 10 IIA i'r Cabinet yn ystod 2021-22 tan 1.12.2021. Pwyllgorau, sy'n cynnwys ymgynghori. • Defnyddir canllawiau a thempledi safonol er mwyn adrodd i'r Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac mae'r rhain oll yn cynnwys canlyniadau IIA. • Asesir yr holl IIA ar gyfer y Cabinet gan y Swyddog Ymgysylltu a Chydraddoldeb, gan gynnwys a oes gweithgarwch ymgysylltu, cynnwys ac ymgynghori wedi digwydd a phroses wybodus o wneud penderfyniadau.

Tudalen 703

	<ul style="list-style-type: none">• Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sefydliadol ar gael fel modiwl dewisol yn y Rhaglen Rheolwr Corfforaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a defnyddio'r IIAs.• Cyflwynwyd prosesau i fonitro adborth e.e. cyflwynir unrhyw adroddiadau ymgynghori/ymgysylltu i'r pwyllgor Craffu ac i'r Cabinet er mwyn cyfrannu at eu penderfyniadau.• Cofnodir adborth o weithgarwch ymgysylltu a sut yr ystyriwyd safbwyntiau pobl yn yr IIAs.• Diweddarwyd templed adrodd y Cyngor/Cabinet er mwyn cynnwys cyfeiriad at oblygiadau cyfreithiol, goblygiadau staffio, goblygiadau o ran eiddo/asedau a risgiau.• Pan fo hynny'n briodol, mae eitemau yr adroddir amdanynt er mwyn cael penderfyniadau trwy'r Cabinet, y Cyngor a Phwyllgorau yn destun cyngor cyfreithiol ac ariannol, a gwneir cyfeiriad at y cyngor hwn ym mhob adroddiad.• Cyhoeddir <u>calendr</u> o ddyddiadau cyfarfodydd, gan gynnwys blaenraglenni gwaith y Cyngor, y Cabinet a Phwyllgorau ar wefan y Cyngor.• Cyhoeddir yr holl adroddiadau blynyddol, Datganiadau o gyfrifon, adroddiadau cynnydd Gwelliant o fewn amserlenni ac maent ar gael ar wefan y Cyngor.• Mae'r Rhestr Gyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori yn cynorthwyo wrth wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid cynnal ymgynghoriad am newid arfaethedig ac mae canllawiau ynghylch lledaenu <u>canlyniadau ymgynghori</u> ar gael i Swyddogion.• Mae tudalen Ymgysylltu Cymunedol, Ymgynghoriadau a Phartneriaethau wedi cael ei chreu ar CeriNet, sy'n cynnwys dolenni i'r <u>Polisi Ymgysylltu Cymunedol</u> (11 Ionawr 2013), <u>Rhestr Gyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori</u>, <u>Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth ac Offeryn Gwneud Penderfyniadau Ymgynghori</u>• Mae'r gwaith wedi cychwyn i baratoi <u>Polisi Ymgysylltu Cymunedol</u> a fydd yn bodloni gofynion Deddf 2021, a fydd yn cynnwys sut y bydd y Cyngor yn annog cyfranogiad mewn gweithgarwch gwneud penderfyniadau hefyd, er ein bod yn aros am ganllawiau terfynol gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rhan hon o'r ddeddfwriaeth.• Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Safonau Cyfranogi.• Mae <u>Rhestr Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth</u> gan gynnwys rhanddeiliaid y dylai'r awdurdod ymgysylltu â nhw yn ei lle.• Adroddir adroddiadau cryno am weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn ôl i'r Aelodau a defnyddwyr gwasanaeth.• Cofnodion cyfarfodydd ymgysylltu strwythuredig, digwyddiadau a grwpiau ymgysylltu gyda phobl y mae ganddynt nodweddion gwarchoddedig.• Lluniwyd Polisi Ymgysylltu Drafft newydd er mwyn ystyried y fethodoleg ymgysylltu ddiweddaraf, gan gynnwys ymgysylltu digidol. Ymgynghorir am hwn a chytunir arno yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.• Mae Strategaeth Ymgysylltu newydd ddrafft ar gyfer Cyngor Sir Ceredigion, 'Siarad, Gwrando a Chydweithio' wedi cael ei pharatoi.
--	--

	<p>Ymgynghorir am hon a chytunir arni yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor, ar y cyd â phartneriaid, wedi cyflawni gwaith ymgysylltu sylweddol er mwyn paratoi <u>Aseiad Llesiant</u> a Chynllun Llesiant Lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ('BGC'). • Mae'r gwaith wedi cychwyn ar y broses o baratoi'r aseiad Llesiant Lleol nesaf a gyhoeddir ym mis Mawrth 2022. • Ymgynghoriadau 2020-21. • Caiff ymgynghoriadau eu hyrwyddo trwy gyfrwng Cyfryngau Cymdeithasol. • Lledaenir canlyniadau gweithgarwch ymgynghori a chaiff adroddiadau am ymarferion ymgysylltu ac ymgynghoriadau a gwblhawyd eu postio ar dudalen y Cyngor ar y we ynghylch ymgynghoriadau cyhoeddus er mwyn rhoi adborth i'r cyhoedd. • Mae Cylch Gorchwyl BGC ar gael ar Wefan y Cyngor, mae Cylch Gorchwyl Grwpiau Prosiect BGC ar gael ac mae trefniadau Craffu ar gyfer BGC wedi cael eu gwneud. • Cynhaliwyd <u>Aseiad Llesiant</u> (BGC) sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad <u>Cynllun Llesiant Lleol BGC</u>, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018. • Adolygwyd y Polisi Cwynion Corfforaethol, cyflwynwyd Polisi newydd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ar 7.7.21 ac i'r Cyngor ar 23.9.2021, ac mae Polisi a Gweithdrefnau Pryderon a Chwynion 2021 Diwygiedig, ei weithrediad a'i gyhoeddi, wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor. • Adolygwyd Polisi a Gweithdrefn Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol. • Datblygwyd offeryn gwneud Penderfyniadau Ymgynghori (siart llif a Choeden Ymgynghori) ar gyfer Staff ac Aelodau ac mae'n cynnwys defnyddio adborth. • Mae gweithgarwch ymgynghori pellach yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Mae swydd Ymgysylltu a Chydraddoldeb newydd wedi cael ei chreu trwy ailstrwythuro'r gwasanaeth Polisi a Pherfformiad; ac ○ Mae'r holl ymgynghoriadau cyfredol ar gael ar wefan y Cyngor. • <u>Polisi Cyfryngau Cymdeithasol</u> (diwygiwyd Awst 2018). • Defnyddir cyfryngau cymdeithasol er mwyn ceisio safbwyntiau'r cyhoedd ynghylch materion a ystyrir gan Bwyllgorau Trosolwg a Craffu. • Oherwydd Covid-19, mae'r Cyngor wedi ymgynghori o bell trwy gyfrwng cynadleddau fideo ac arolygon electronig. • Cyhoeddwyd canllawiau ar fewnwyd Cyngor Ceredigion i'r holl Staff eu dilyn ynghylch lledaenu adborth i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau. Mae'r arwyddion a welwyd yn ddiweddar yn dynodi bod Swyddogion yn gwneud cynnydd sylweddol yn y maes hwn. • Cynhelir ymarferion ymgysylltu ac ymgynghori ar y cyd. • Cynhelir prosiectau ar y cyd gyda rhanddeiliaid sefydliadol ac mae trefniadau llywodraethu clir mewn grym. • Mae Templedi a Chanllawiau Safonau Cydweithio ar gyfer Prosiectau Strategol Newydd ar gael. • Mae partneriaethau yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ <u>BGC</u>; ○ Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru;
--	---

Tudalen 705

	<ul style="list-style-type: none"> ○ Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (<u>adolygwyd yn 2019 ac yn destun gweithgarwch Craffu</u>); ○ Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru; a ○ Thyfu Canolbarth Cymru. <ul style="list-style-type: none"> ● Cwblhawyd yr adolygiad ffurfiol o bartneriaethau sy'n eistedd dan BGC. Mae'r strwythur partneriaeth newydd wedi bod yn weithredol er mis Mehefin 2018 ac adolygir y partneriaethau yn gyson. ● Gweithgarwch rheolaidd i adrodd am gyfarfodydd partneriaeth a gweithgarwch i'r Grŵp Arweiniol a'r Cabinet. ● Sefydlwyd partneriaethau megis <u>Tyfu Canolbarth Cymru</u> gyda threfniadau llywodraethu. Sefydlwyd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Tyfu Canolbarth Cymru ● Mae metrigau partneriaeth yn destun gweithgarwch adolygu mewnol, pan fo hynny'n briodol. ● Adroddir am fframwaith partneriaeth monitro sy'n adrodd am yr holl benderfyniadau allweddol a wneir gan bartneriaethau sy'n bodoli eisoes i'r Grŵp Arweiniol. ● Rhoddir cyngor i Aelodau a Swyddogion sy'n gwasanaethu ar gyrff allanol. ● Mae'r Tîm Cyfreithiol yn ymwneud â'r gwaith o ddrafftio ac adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Cytundebau Rhyng-Awdurdod ('IAAs') a phwyllgorau ffurfiol. ● Datblygwyd cyfres o ddogfennau sy'n ymwneud â phrosiectau cydweithio strategol y mae'r Awdurdod yn ystyried ymrwymo iddynt. Mae'r dogfennau yn cynnwys canllawiau, safonau a thempledi niferus ar gyfer camau amrywiol prosiectau cydweithio. ● Cynhaliwyd Hunanasesiad o'r Grŵp Gweithredol. ● Mae gofyn i'r holl gynigion ynghylch ad-drefnu ysgolion fod wedi ymgynghori'n ffurfiol gyda rhanddeiliaid trwy gydymffurfio gyda Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. ● <u>Canllawiau ynghylch Brandio Corfforaethol</u> (Mai 2019). ● <u>Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol</u> (2019-2022). ● Cyflawnwyd cyswllt Cymunedol Effeithiol gyda'r gwaith asesu llesiant a gyda defnyddwyr gwasanaeth o wahanol gefndiroedd er mwyn cyfrannu at y <u>Cynllun Cydraddoldeb Strategol</u> newydd. ● Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru ar yr adolygiad o'n <u>Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol</u>. Lluniwyd fframwaith ymgynghori ac ymgysylltu a set o gwestiynau ar y cyd ac o ganlyniad, cafwyd adborth gan bobl sy'n meddu ar nodweddion gwarchoddedig. ● Cyhoeddir adroddiad blynyddol am y cynnydd a sicrhawyd yn erbyn amcanion Llesiant a blaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor ar Wefan y Cyngor. ● Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu CCUHP – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
--	---

Egwyddor Llywodraethu Da	Sut ydym ni'n bodloni'r Egwyddorion hyn
C: Diffinio canlyniadau yn	● <u>Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022.</u>

<p>nhermau manteision economaidd, cymdeithasol amgylcheddol cynaliadwy. ac</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff Amcanion Llesiant a Gwella y Cyngor eu cynnwys yn <u>Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022 y Cyngor</u> ac fe'u hadolygir bob blwyddyn a'u hadrodd yn adroddiad blynyddol yr amcanion Llesiant a Gwella a gyhoeddir ar wefan Cyngor Sir Ceredigion. Ystyriodd y Cyngor yr Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella 2020-21 drafft, gan gymeradwyo'r Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor. • Amlinellir gwybodaeth ynghylch perfformiad yn Adroddiad Blynyddol Amcanion Llesiant a Gwella y Cyngor. • Mae'r Cyngor wedi pennu diben a gweledigaeth y Cyngor ac mae'r rhain yn cael eu cynnwys yn <u>Strategaeth Gorfforaethol 2017-22</u>. Mae'r strategaeth hon yn dangos sut y bydd yr awdurdod yn cynorthwyo ac yn hyrwyddo llesiant dinasyddion Ceredigion. • Cyhoeddwyd <u>Cynllun Llesiant Lleol BGC</u> ym mis Mai 2018. • Mae'r Awdurdod wedi cymryd y camau canlynol tuag at weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: <ul style="list-style-type: none"> ○ Paratoi datganiad ac amcanion llesiant; ○ Ymgorffori'r Nodau Llesiant a'r egwyddor datblygiad Cynaliadwy yn y broses cynllunio busnes; ○ Datblygu <u>canllawiau ac offeryn IIA</u> newydd (cyflwynwyd hyfforddiant i Swyddogion ac Aelodau); ○ Sefydlu grŵp a chynllun gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; ○ Caiff y Cyfansoddiad ei fonitro a'i adolygu yn barhaus; ○ Cyhoeddwyd asesiad Llesiant Lleol BGC ym mis Mawrth 2017; ○ Cytunwyd ar drefniadau craffu ar gyfer BGC; ○ Adroddiadau Cabinet, gan gynnwys yr asesiad effaith Cymdeithasol/economaidd/amgylcheddol; ○ Datblygwyd modiwl e-ddysgu gorfodol am y Ddeddf ac mae wedi cael ei hyrwyddo ymhlith holl Staff y Cyngor; ○ Rhaid cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb, cymunedol a'r iaith Gymraeg am yr holl gynigion ynghylch ailstrwythuro ysgolion fel sy'n ofynnol dan God Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru; ac ○ Mae aelodau wedi cyfrannu at Fframwaith Craffu Swyddog Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â DLICD. • Mae'r holl drefniadau Cynllunio yn adlewyrchu'r Edau Aur ac yn ffurfio'r cysylltiadau gyda chynlluniau Corfforaethol, gan gynnwys; <ul style="list-style-type: none"> ○ Cynllun Strategol; ○ Adrodd am Reoli Perfformiad Corfforaethol; ac ○ Amcanion Gwella Llesiant • Mae <u>Polisi Cymunedol ac Ymgysylltu (11 Ionawr 2013)</u> ar gael. • Datblygwyd <u>Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Cyhoedd 2014</u> er mwyn darparu adnodd hawdd i'w ddefnyddio i Swyddogion wrth ddatblygu a chynnal gweithgarwch ymgysylltu effeithiol â'r cyhoedd gyda'u cymunedau, yn unol ag Egwyddorion Cenedlaethol Ymgysylltu â'r Cyhoedd. • Adroddir diweddariadau am arbedion yn y gyllideb ac am waith y Grŵp Datblygu i'r Grŵp Ymgynghori Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd.
--	---

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r broses o bennu cyllidebau yn destun gweithgarwch craffu manwl gan y pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. • Mae'r broses cynllunio busnes yn cynnwys neilltuo adnoddau a chaiff Cynlluniau Busnes eu paratoi bob blwyddyn a'u monitro bob chwarter gan Fwrdd Perfformiad, sy'n cynnwys aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. • Mae trefniadau perfformiad chwarterol yn darparu protocol herio er mwyn sicrhau y cyflawnir canlyniadau. • Mae trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol yn cynnwys asesiad chwarterol o'r risgiau wrth geisio cyflawni canlyniadau neu ddarparu'r gwasanaeth. • Mae gweithgarwch rheoli risg yn cynnwys cofnodion risg ar gyfer; <ul style="list-style-type: none"> ○ Cynlluniau Busnes (Lefel 1); a ○ Chynlluniau Gwasanaeth (Lefel 2). • Caiff mesurau perfformiad lleol eu cynnwys mewn cynlluniau cyflawni Busnes a gwasanaeth. • Mae Cynlluniau Cyfalaf yn cynnwys; <ul style="list-style-type: none"> ○ Hawliau Tramwy; ○ Priffyrdd; ○ Cynllun Cyllideb Blynyddol; a ○ Thrawsnewid. • Cymeradwywyd y Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheoli Risg gan y Cabinet ar 24 Medi 2019. • Cyflwynir hyfforddiant Rheoli Risg i Aelodau a Rheolwyr Uwch. • Datblygwyd pecyn e-ddysgu rheoli risg i'r holl Staff eraill a chynhaliwyd hyfforddiant yn 2019, a threfnwyd gweithdy gydag yswirwyr ar gyfer Rheolwyr uwch. • Caiff cyhoeddi perfformiad gwasanaeth, gan gynnwys data ynghylch costau a gwerth am arian, ei ystyried yn rheolaidd mewn adroddiadau gwasanaeth. • Mae'r Archwilydd a benodir yn ystyried trefniadau'r Cyngor er mwyn sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Yn ei lythyr, mae wedi datgan bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ynghylch ei ddefnydd o adnoddau. • Cyhoeddwyd yr Archwiliad mwyaf diweddar o Gynllun Gwella y Cyngor (2020-2021) ym mis Tachwedd 2020. Daeth yr adroddiad i'r canlyniad cadarnhaol bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau a'i fod wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru mewn ffordd ddigonol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau. • Caiff ffurflen arfarnu cyfalaf ei llenwi ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd, sy'n cynnwys y gofyniad ar gyfer y prosiect, ac fe'i ddefnyddir i asesu gwerth am arian a goblygiadau referniw prosiectau mawr. • <u>Strategaeth Ariannol Tymor Canolig</u>, sy'n cynnwys Strategaeth Buddsoddiad Cyfalaf hefyd. • Mae datganiad polisi caffael Cymru yn cyd-fynd â <u>Strategaeth Caffael 2018-2022</u> y Cyngor. • Mae <u>canllawiau ac offeryn IIA</u> ar gael ac yn cael ei ddefnyddio er mwyn cynorthwyo gweithgarwch gwneud penderfyniadau. • Cyhoeddir pob adroddiad a'r holl <u>gofnodion</u> mewn ffordd amserol ac mae modd eu harchwilio. Mae pob cyfarfod yn gyfarfod cyhoeddus,
--	--

Tudalen 708

	<p>yn unol ag ystyriaethau gwybodaeth wedi'i heithrio yn unol â diffiniad Deddf Llywodraeth Leol 1972.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Anogir gweithgarwch Craffu cyn gwneud penderfyniadau pan fo modd. • Y Rhaglen Trawsnewid. • Mae <u>Rhestrau Cyfeirio Ymgysylltu ac Ymgynghori</u> ar gael ar CeriNet. • Cynllun Gweithredu Grŵp DLICD. • Cyflwynir Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, ac adroddiad monitro 2020-2021 y Cynllun Cydraddoldeb Strategol Blynyddol i'w gymeradwyo, ac ar ôl eu cymeradwyo, fe'u cyhoeddir ar wefan y Cyngor. • Safonau'r Gymraeg ac adroddiad monitro Safonau'r Gymraeg Blynyddol. • Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwl hyfforddiant e-ddysgu gorfodol am Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. • Cyflwynwyd Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Blynyddol 2020/21 i'r Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol ar 27.10.21 ac fe'i <u>cymeradwywyd gan y Cyngor ar 9/12/21.</u>
--	---

Egwyddor Llywodraethu Da	Sut ydym ni'n bodloni'r Egwyddorion hyn
<p>D: Penderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i wneud y gorau o'r camau i gyflawni'r canlyniadau arfaethedig</p>	<ul style="list-style-type: none"> • <u>Mae arweiniad ac offeryn IIA</u> ar gael a chyflwynwyd hyfforddiant i Swyddogion ac Aelodau. • Defnyddir templedi adrodd safonol yn y broses o wneud penderfyniadau. • Mae hyfforddiant Ymwybyddiaeth Sefydliadol ar gael fel modiwl dewisol yn y Rhaglen i Reolwyr Corfforaethol, sy'n cynnwys gwybodaeth ynghylch y broses o wneud penderfyniadau, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a defnyddio'r IIAs, ac mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ac MO (CLO-Cyfreithiol a Llywodraethu) yn rhoi cyngor yn ôl yr angen. • Cyhoeddir Polisi, Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg (a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 24.9.10) gyda rhaglen hyfforddiant ar gyfer Aelodau, Rheolwyr Uwch a Rheolwyr ar CeriNet ac maent ar gael i bob Aelod o Staff. • Diwygiwyd dogfennau i adlewyrchu risgiau ychwanegol a gwybodaeth gefndirol er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus. Adroddir y Gofrestr Risg Corfforaethol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn rheolaidd (9.9.2021, 3.6.2021). • Mae'r <u>Strategaeth Ariannol Tymor Canolig</u> wedi cael ei diweddarau'n rheolaidd a chymeradwywyd y fersiwn cyfredol dyddiedig 2021/22 Ymlaen gan y Cyngor ar 5.3.2021. • Mae <u>offeryn coeden benderfynu ymgynghori</u> yn cynnwys adran sy'n cynnig arweiniad ynghylch lledaenu canlyniadau ymgynghori. • Her gyllid ynghylch arbedion ar Wefan y Cyngor. • Mae trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cynnwys yr elfennau chwarterol canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ○ Adroddiad Gwasanaeth y Prif Swyddog Corfforaethol; ○ Bwrdd Perfformiad; a ○ Chyfarfodydd Panel Gweithredol.

	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredir y broses Cynllunio Busnes ar gyfer 2021-22 a rhennir Cynlluniau Busnes Lefel 1 gyda'r Tîm Perfformiad ac Ymchwil. • Nodwyd mesurau perfformiad ym mhob Cynllun Busnes Lefel 1 ac mae'r rhain yn eu tro yn cael eu trosi i'r Dangosfwrdd adrodd ar gyfer pob gwasanaeth. Craffwyd y mesurau hyn yn ofalus ac fe'u cymeradwywyd yn derfynol gan arweinwyr uwch. Mae gwasanaethau yn adrodd yn erbyn y mesurau hyn fel rhan o'r broses rheoli perfformiad ar gyfer y flwyddyn. • Mae Cynlluniau Busnes yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y gyllideb a chyllid ac maent yn rhan o'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol chwarterol. • Defnyddir calendr i adrodd terfynau amser a chyhoeddir dyddiadau Bwrdd/Panel Gweithredol gydag adroddiadau. • <u>Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol 2019-2022.</u> • Mae gan BGC Ceredigion <u>Gynllun Llesiant Lleol</u> a ddatblygwyd ac a gyflawnwyd ar y cyd gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allanol. • Cynhaliwyd Asesiad Llesiant Lleol gan y BGC sydd wedi cyfrannu at y <u>Cynllun Llesiant Lleol</u> ac Amcanion Llesiant y Cyngor ar gyfer y dyfodol. • Mae'r holl brosiectau cydweithio mawr wedi pennu trefniadau llywodraethu a rheoli gan gynnwys rheoli risg. • Ystyrir pob prosiect gan Banel Rheoli Prosiectau Corfforaethol, a fynychir gan IA hefyd ac mae'n fforwm effeithiol ar gyfer cynghori/herio ac amlygu risgiau wrth i feysydd Gwasanaeth ddatblygu prosiectau, gan gynnwys prosiectau cydweithio. • Mae'r Panel Rheoli Prosiectau Corfforaethol yn helpu i sicrhau bod prosiectau yn ystyried yr elfennau canlynol yn gynnar: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; arweiniad arall; cyllid, caffael, llywodraethu a threfniadau cyfreithiol; goblygiadau AD; Iechyd a Diogelwch; ac Archwilio. Gwella trefniadau prosiect cyn adrodd i'r Grŵp Datblygu a phrosesau awdurdodi eraill. • Ystyrir newidiadau deddfwriaethol e.e. mae gwaith yn mynd rhagddo mewn perthynas â gweithredu newidiadau deddfwriaethol megis newidiadau Deddf LGEW 2021 ac ystyried/monitro risgiau y mae pob partner yn eu hwynebu wrth gydweithio, gan gynnwys risgiau a rennir. Cynhelir cyfarfodydd ac mae gwaith paratoi yn cael ei wneud, er enghraifft, ynghylch gofyniad Deddf 2021 am Gyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys risgiau posibl ac a rennir (sefydlwyd grŵp CJC, a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 19 Ebrill 2021, i ystyried y gofyniad i sefydlu CJC Canolbarth Cymru yn unol â Deddf 2021). • Mae trefniadau Craffu ar y Cyd priodol mewn grym mewn perthynas â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru. Yn yr un modd, bydd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru is-drefniadau priodol mewn grym (Cyd-bwyllgor Craffu, Safonau ac Archwilio a Llywodraethu)-trefniadau sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth a'i Reolau Sefydlog. • Sefydlwyd Grŵp Rheoli Prosiect Corfforaethol er mwyn ffurfioli gweithgarwch datblygu a rheoli prosiectau. • Sicrhau bod Staff sy'n meddu ar sgiliau rheoli prosiect ar gael. • Mae hyn yn helpu i sicrhau bod prosiectau yn ystyried y canlynol yn gynnar: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; arweiniad arall; cyllid, caffael, llywodraethu a threfniadau cyfreithiol; goblygiadau AD;
--	--

Tudalen 710

	<p>lechyd a Diogelwch; ac Archwilio. Gwella trefniadau prosiect cyn adrodd i'r Grŵp Datblygu a phrosesau awdurdodi eraill.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n helpu i nodi'r gofynion ynghylch cyfalaf i'w cynnwys mewn rhaglenni cyfalaf yn y dyfodol. • Pennwyd a chymeradwywyd dangosyddion perfformiad lleol ar gyfer pob elfen gwasanaeth ac maent wedi cael eu cynnwys yn y cynllun gwasanaeth, ac adroddir amdanynt yn rheolaidd. • Fframwaith Cyllideb. • Cyfrifyddu Gwasanaeth – Monitro cyllideb. • Mae <u>Rheoliadau Ariannol a Rheolau am y Weithdrefn Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad)</u>, ynghyd â Chanllawiau Rheoli Cyllidebol wedi cael eu diweddarau. Datganiadau Sicrwydd Prif Swyddog. • Mae'r trefniadau rheoli mewnol sydd mewn grym yn destun gweithgarwch adolygu rheolaidd gan Archwilwyr Mewnol, yn unol â'r cynllun archwilio blynyddol sy'n seiliedig ar risg. • <u>Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022</u>. • Cymeradwywyd Cynllun a Strategaeth Archwilio Mewnol 2021/2021 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24 Chwefror 2021. • Mae'r cynllun arbedion corfforaethol wedi bod trwy broses lywodraethu gadarn er mwyn sicrhau bod yr holl arbedion yn cysylltu â'r canlyniadau gwasanaeth a ddymunir. • Caiff Buddion Cymunedol eu hymwreiddio yn ein Prosesau a'n Polisiâu ac maent wedi cael eu gweithredu a'u monitro ac adroddwyd amdanynt yn rheolaidd. • Caiff Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ei hintegreiddio yn ein prosesau.
--	---

Egwyddor Llywodraethu Da	Sut ydym ni'n bodloni'r Egwyddorion hyn
<p>E: Datblygu capasiti'r sefydliad, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion tu mewn iddo</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae trefniadau ymsefydlu corfforaethol ac ar gyfer rheolwyr llinell bellach mewn grym. Cyflwynwyd cynlluniau Datblygu Rheolwyr Corfforaethol ac ymsefydlu Corfforaethol ym mis Ebrill 2018. Mae sesiynau ymsefydlu corfforaethol yn rhan o'r gofynion hyn, rhaid i bob aelod o Staff newydd fynychu sesiwn ymsefydlu. Mae Rheolwyr Uwch yn cyflwyno yn y sesiynau wyneb-yn-wyneb hyn. • Darparir rhaglen ymsefydlu ar gyfer Aelodau newydd. Darparir hyfforddiant parhaus i Aelodau a threfnir darpariaeth ynghylch materion penodol e.e. rheoli Trysorlys, a hefyd, cynhelir adolygiad parhaus o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant sgiliau a diweddarau, gan gynnwys Cynllun Adolygu Datblygiad Personol (defnyddir y wybodaeth i ddatblygu Cynllun Hyfforddiant Aelodau) a darparir rhaglen ymsefydlu gynhwysfawr newydd ar ôl yr etholiad (o fis Mai 2022), a fydd yn cynnwys modiwlau e-ddysgu ychwanegol. • Cynllun datblygu aelodau. • Mae paratodau yn cael eu gwneud ar gyfer (fel rhan o'r rhaglen ymsefydlu i Aelodau (o fis Mai 2022)) hyfforddiant i Aelodau'r Cabinet, hyfforddiant i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg (rôl), hyfforddiant am Ddyletswyddau Arweinydd Grŵp Gwleidyddol a hyfforddiant ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (rôl).

Tudalen 711

	<ul style="list-style-type: none">• Cyflawnwyd Datblygiad/Hyfforddiant fel rhan o fanylebion person ar gyfer prif swyddi cyllid a chyfreithiol (cymhwyster gorfodol, gofynion y swydd).• Adolygiadau personol ar gyfer Swyddogion a darparu cyfleoedd i Swyddogion gael hyfforddiant diweddar a sgiliau parhaus.• Caiff CeriNet (yr adnodd a'r mewnrwyd AD i Staff a rheolwyr) ei adolygu'n barhaus a'i wella er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd. Mae ei gyflwyno wedi gwella effeithiolrwydd. Mae gwybodaeth ynghylch ymsefydlu ar gael, ynghyd â'r Pecyn Cymorth i Reolwyr a'r llawlyfr Staff.• Bellach, rheolir Dysgu a Datblygu trwy system Ceri a chynigir cyfleoedd i bob aelod o Staff, a hefyd, cynigir cyfleoedd i'r rhai sy'n cyflawni Rôl Arwain neu y maent yn dymuno bod yn arweinwyr. Cyflwynir modiwlau e-ddysgu er mwyn sicrhau bod hyfforddiant a datblygu yn gost-effeithiol lle bynnag y bo modd.• Caiff pecynnau e-ddysgu eu datblygu a'u cyflwyno'n rheolaidd ar gyfer hyfforddiant gorfodol ac anorfodol.• Mae pecyn cymorth cynllunio Gweithlu Strategol yn cynnwys adnabod anghenion hyfforddiant a dysgu pob maes gwasanaeth.• Mae Arfarniadau Perfformiad yn cofnodi anghenion hyfforddiant a datblygu trwy system Ceri.• Cynllun Perfformiad a Datblygiad Personol blynyddol parhaus – mae Adolygiadau Perfformiad yn cysylltu ag amcanion Corfforaethol a strategol.• Mae proses Adolygu Datblygiad Personol yn ei lle ar gyfer Aelodau.• Nod y Cyngor yw sicrhau'r lefel safonol ar gyfer Siarter Cymru o ran Cymorth a Datblygiad Aelodau.• Mae'r trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn darparu'r fforwm ar gyfer anghenion rheoli perfformiad ac ar ôl hynny, paratoi'r cynlluniau gweithredu er mwyn darparu gwelliannau corfforaethol wrth adolygu perfformiad Staff. Cryfhawyd y rhain ymhellach wrth gyflwyno arfarniadau blynyddol ar gyfer yr holl Staff trwy gyfrwng system AD Ceri.• Gall yr holl Staff fanteisio ar ddigwyddiadau dysgu a datblygu trwy gyfleuster <u>hunan-wasanaeth Ceri</u>. Yn ogystal, gall rheolwyr archebu lle i Staff ar ddigwyddiadau perthnasol trwy'r cyfleuster Hunan-wasanaeth i Reolwyr.• Cryfhawyd cynlluniau datblygu staff sy'n gysylltiedig ag arfarniadau wrth gyflwyno'r modiwl Rheoli Perfformiad yn Ceri.• Mae Rhaglen Rheolwyr Ceredigion yn cynnig datblygiad personol gan gynnwys trefniadau llywodraethu a gwybodaeth sefydliadol.• Mae <u>Cynllun Gweithlu 2017-2022</u> yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer datblygiad Staff mewn themâu allweddol.• Mae aelodau yn mynychu digwyddiadau, seminarau a chynadleddau amrywiol (gweler uchod).• Defnyddio ymarferion meincnodi ac ymchwil.• Mae system gyflogres AD Ceri wedi sicrhau bod data ystyrlon am Staff bellach ar gael i Reolwyr bob mis er mwyn monitro costau, trosiant ac absenoldeb.
--	--

	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithrediad effeithiol partneriaethau sy'n cyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt. Datblygwyd Partneriaethau effeithiol mewn sawl maes a gwasanaeth gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Gwella Ysgolion; ○ Iechyd a Gofal cymdeithasol; ○ Porth Agored; a ○ Gwastraff. • Caiff partneriaethau ychwanegol eu cynnwys yn y Rhestr Prosiectau Cydweithio strategol. • Mae Strategaeth Adnoddau Dynol ar gael ar y Fewnrwyd. • Cyflawnir gwaith cynllunio gweithlu strategol gan ddefnyddio'r pecyn offer cynllunio gweithlu Strategol a chaiff hwn ei gwblhau gan bob maes gwasanaeth. Cyfrannodd canlyniadau'r pecyn cymorth hwn at y cynllun gweithlu ar gyfer 2017-2022. Mae <u>Cynllun Gweithlu 2017-2022</u> yn canolbwyntio ar 4 thema allweddol: <ol style="list-style-type: none"> 1. Ymgysylltu a Chyfle; 2. Gweithlu Hyblyg ac Ystwyth; 3. Hyrwyddo gweithlu dwyieithog; a 4. Datblygu Rheolaeth ac Arweinyddiaeth. • Adroddir diweddariadau am gynnydd y cynllun gweithlu i'r pwyllgor craffu. • Mae'r strwythur Arwain a Rheolwyr Uwch wedi diffinio'r rolau hyn, gan gynnwys sut y maent yn integreiddio â'i gilydd. • Cynhelir gweithgarwch cynllunio ar gyfer olyniaeth trwy gyfrwng trafodaethau a chymau gweithredu o fewn meysydd gwasanaeth a gyda phartneriaid ac ni ellir wastad dangos tystiolaeth o hyn. Datblygir hyn ymhellach trwy gyfrwng y pecyn cymorth cynllunio gweithlu Strategol. • Mae cyfarfod ar y cyd o Reolwyr Uwch yn sicrhau bod rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn glir. • Mae disgrifiadau swydd yn diffinio'r rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ofynnol gan swyddi mewn ffordd glir. • Mae'r <u>Cyfansoddiad</u> yn nodi rolau a chyfrifoldebau Aelodau (Rhan 3.4 Tabl 4) a Swyddogion uwch (rhan 2 Erthygl 2) ac mae Cynllun Dirprwyo (<u>Y Cyfansoddiad</u> Rhan 3.5) yn bodoli ac yn nodi cyfrifoldebau Aelodau a Swyddogion yn glir. • Mae'r Pecyn Cymorth Cynllunio Strategol yn cynnwys elfen o gynllunio ar gyfer olyniaeth a rheoli talent. • Mae protocolau yn eu lle ar gyfer perthnasoedd gwaith rhwng Aelodau a Swyddogion (e.e. Protocol Swyddog-Aelod). • Mae Codau Ymddygiad i Swyddogion ac Aelodau mewn grym. • Mae gweithgorau Swyddogion ac Aelodau mewn grym ac yn gweithio'n effeithiol. • Adolygir <u>Rheolau Gweithdrefnau Contract ('CPR')</u> (Rhan 4 Dogfen G Cyfansoddiad) a <u>Rheoliadau Ariannol</u> a gweithdrefnau ariannol cysylltiedig (Rhan 4 Dogfen F Cyfansoddiad) yn rheolaidd e.e. diweddarwyd CPR ym mis Mawrth 2019. • Sefydlwyd strwythur Corfforaethol y Cyngor er mwyn sicrhau y gall y Swyddogion Statudol gyflawni eu rolau mewn ffordd effeithiol. • Mae'r CE yn gyfrifol am adolygu'r strwythur hwn, yn ôl yr angen.
--	--

Tudalen 713

- Ar 15.10.21, penderfynodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y set ddiwygiedig o Ddisgrifiadau Rôl Aelodau, a gynlluniwyd i gael eu defnyddio law yn llaw â Fframwaith Datblygu aelodau (Cymhwysedd) Cymru, Manylebau Person a Disgrifiadau Rôl Aelodau Fframwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ('CLILC'), sy'n cynnwys disgrifiad o rôl yr Arweinydd (Paratowyd adroddiad er gwybodaeth i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd ar 19.1.21).
- Mynediad i sesiynau briffio gwybodaeth/cyrsiau am ddeddfwriaeth newydd.
- Trefnir Gweithdai Aelodau yn ôl yr angen.
- Rhestr Ymgysylltu gyda Defnyddwyr Gwasanaeth a grwpiau ffocws Defnyddwyr Gwasanaeth.
- Polisi Ymgysylltu Cymunedol.
- Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd y Pwyllgor Craffu (2016) (Dogfen N Cyfansoddiad) Mae'r Cyngor yn ymgynghori ac yn ymgysylltu gyda phreswylwyr lleol, cwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn y sir yn barhaus er mwyn deall eu safbwyntiau a'u barn wrth ddatblygu cynlluniau a/neu strategaethau newydd. Rhoddir ystyriaeth briodol i adborth cyn cytuno ar fersiynau terfynol.
- Cyflawnir gweithgarwch hunan-asesu craffu bob blwyddyn gan gynnwys arolwg.
- Cyhoeddir cofnodion presenoldeb bob blwyddyn.
- Anogir a chynorthwyr aelodau i gwblhau Adroddiadau Blynyddol, a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.
- Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynychu Cyfarfodydd Rhwydweithio Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Cymru Gyfan er mwyn datblygu a chymharu'r rôl o fewn Awdurdodau Lleol.
- Gweithredu polisiâu Adnoddau Dynol priodol a sicrhau eu bod yn gweithio mewn ffordd effeithiol.
- Polisi Gweithle Di-Fwg a Pholisi Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau.
- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno amrediad o adnoddau a dewisiadau er mwyn gwella iechyd a lles Staff e.e. cyflwynwyd Strategaeth Iechyd a Llesiant 2021-2026 er mwyn cynorthwyo'r gwelliant yn iechyd a lles y gweithlu.
- Mae'r Cyngor wedi penodi Swyddog Iechyd a Lles Cyflogeion er mwyn cydlynu a hyrwyddo iechyd a lles yn y gweithlu.
- Cyflwynwyd pecyn cymorth Gofal yn Gyntaf i gyflogeion, sy'n cynnig:
 - Gwasanaeth cwnsela; a
 - Chyngor ynghylch materion ariannol, cyfreithiol, defnyddwyr, gofal i'r henoed, gofal plant a chyflogaeth.
- Mae'r cymorth arall sydd ar gael i Staff yn cynnwys:
 - Rhaglen iechyd a lles Rhyngweithiol Therapi Ymddygiad Gwybyddol;
 - Cynllun gofal llygaid;
 - Cynllun talebau gofal plant;
 - Iechyd Da; a
 - Hyfforddiant ymwybyddiaeth ofalgar ar gyfer Staff a Rheolwyr.

Egwyddor Llywodraethu Da	Sut ydym ni'n bodloni'r Egwyddorion hyn
<p>F: Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a thrwy reoli arian cyhoeddus mewn ffordd gadarn</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cymeradwywyd y <u>Strategaeth a'r Polisi Rheoli Risg a'r Fframwaith Rheoli Risg</u> gan y Cabinet ar 24 Medi 2019 ac mae'r Fframwaith yn cael ei ddiweddarau o hyd. Mae'r Cyngor yn parhau i ffurfio strategaethau a chynlluniau, gan ystyried y risgiau a achosir gan bandemig Covid-19 • Ystyrir y Gofrestr Risg Corfforaethol yn ystod holl gyfarfodydd y Grŵp Arweiniol, cyfarfodydd y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol a'r cyfarfodydd Rheoli Perfformiad Corfforaethol, a chan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel eitem sefydlog ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Adroddir diweddariadau yn ystod pob Cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er mwyn cynnig gwybodaeth a sicrwydd parhaus bod risgiau yn parhau i gael eu rheoli. Mae'r Pwyllgor yn cyfeirio materion i Bwyllgorau Craffu pan fo hynny'n briodol. • Mae Rheoli Risg yn rhan annatod o weithgarwch cynllunio busnes gweithredol a phennu Strategaethau a Pholisïau. • Cofnodir holl Risgiau trawsnewid a phrosiectau. Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd yn monitro Risgiau Trawsnewid yn rheolaidd a chyfeirir Trawsnewid a Risgiau i Baneli a chyfarfodydd Llywodraeth Leol ar y cyd. • Roedd yr holl Gynlluniau yn cynnwys cofnodion Risgiau, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ Y Cynllun Ariannol tymor Canolig; ○ Cynlluniau Busnes (lefel 1); a ○ Chynlluniau Gwasanaeth (lefel 2). • Caiff cynlluniau Busnes/Gwasanaeth eu monitro er mwyn sicrhau y cyflawnir canlyniadau cyflawni. • Caiff trefniadau Rheoli Risg Corfforaethol eu harchwilio'n rheolaidd a chaiff gweithgarwch rheoli risg ei gynnwys mewn rhaglenni archwilio sefydliad/gwasanaeth Gwasanaethau unigol. • Mae 'risgiau' yn sail i raglenni gwaith archwilio yr Archwilwyr Mewnol, fel sy'n ofynnol gan system meddalwedd rheoli archwilio MKI/Pentana. Diweddarwyd templed adroddiadau Cyngor / Cabinet er mwyn cynnwys cyfeiriad at oblygiadau cyfreithiol, goblygiadau staffio, goblygiadau eiddo/asedau a risgiau. • Mae Perfformiad Corfforaethol yn gofyn am ddiweddariadau rheolaidd o ran Risg. • Diwygiodd y Cyngor ei drefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn 2017 er mwyn gwella'r broses o fonitro ei gynlluniau busnes a'i ddangosyddion perfformiad, gan gynnwys Dangosyddion Strategol Cenedlaethol ('NSI'), PAM a Dangosyddion Lleol. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r Amcanion Gwella a Llesiant a <u>Strategaeth Gorfforaethol 2017-2022</u> hefyd. • Mae Panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter. Mae pob Swyddog Arweiniol Corfforaethol yn adrodd i'r Panel hwn a chyhoeddir y Dyddiadau ar gyfer adrodd yn yr adroddiad. Mae Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn mynychu ar sail yr egwyddor y gallant nodi meysydd y mae gofyn eu cynnwys yn eu <u>Blaenraglenni Gwaith</u> priodol nhw.

Tudalen 715

	<ul style="list-style-type: none">• Cyflawnir gweithgarwch Monitro Risg Prosiectau Penodol a chaiff yr holl Risgiau eu neilltuo i Swyddog Arweiniol Corfforaethol (Perchennog y Risg).• Ystyriodd y Cyngor Adroddiad Blynyddol Amcanion Gwella a Llesiant 2020-21 a chymeradwyodd yr Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23 ar 21.10.21 ym mis Hydref 2020 (Yn ogystal, cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol Amcanion Gwella a Llesiant 2020-2021 gan Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y Cyngor ar 15.9.21, a chan y Cabinet ar 5.10.21).• Casglwyd gwybodaeth feincnodi fel rhan o weithgarwch ailfodelu gwasanaeth.• Asesiadau mewnol ac allanol gan:<ul style="list-style-type: none">○ Archwilio Cymru;○ Estyn;○ Arolygiaeth Gofal Cymru ('AGGC'); Swyddfa'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio ('ICPO'); a○ Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ('ICO').• Asesiadau allanol, gan gynnwys y Cod Ymddygiad.• Hunanasesiad (Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu) – mae ymarfer hunanasesu yn mynd rhagddo i'w gyflwyno yn ystod Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 10.3.2022.• Mae Gwasanaethau unigol yn cynnal gweithgarwch hunanasesu trwy gyfrwng matrices perfformio.• Mae IA yn cynnal hunanasesiad blynyddol ac maent yn cael adolygiad cymheiriaid / asesiad allanol annibynnol bob 5 mlynedd gan PSIAS.• Perfformiad costau (gan ddefnyddio mewnbynnau ac allbynnau).• Mae Prif Swyddogion yn darparu cymorth a chyngor i Aelodau. Darparir cyngor gan y Prif Swyddog Ariannol hefyd.• Mae gofynion adrodd yn mynnu bod goblygiadau/cyngor cyfreithiol ac ariannol yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau/penderfyniadau, a gyhoeddir pan fo hynny'n briodol.• Cyhoeddir pob adroddiad a'r holl <u>gofnodion</u> mewn ffordd amserol ac maent ar gael i'w harchwilio gan gynnwys.• Dewisiadau ar gyfer argymhellion.• Gall Pwyllgorau Craffu ofyn am adroddiadau ar unrhyw adeg a gwahoddir Cadeiryddion Craffu i fynd â materion yn ôl gerbron y Cabinet• Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyfeirio materion i'r pwyllgor Craffu ac mae'n cael adroddiadau yn ôl.• Mae croeso i'r cyhoedd fynychu pob cyfarfod, yn unol ag ystyriaethau gwybodaeth wedi'i heithrio yn unol â'r diffiniad yn Neddf Llywodraeth Leol 1972.• Cytundeb am y wybodaeth y bydd gofyn ei chael a'r amserlenni• Mae trefniadau craffu mewn grym a gefnogir ac sy'n cynnig cyfleoedd i herio gweithgarwch gwneud penderfyniadau ac adolygu darpariaeth gwasanaethau. Nod y swyddogaeth graffu yw cynnig gwerth ychwanegol i'r agenda gwelliant parhaus yn eu rôl fel "cyfaill beirniadol". Yn ogystal, mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cynnig cyfleoedd i wneud gwaith datblygu polisi a chyn gwneud penderfyniadau, sy'n swyddogaeth craffu, a ddatblygwyd dros y
--	--

	<p>blynyddoedd diwethaf. Nod y Cyngor yw craffu, pan fo modd, cyn y caiff penderfyniadau eu gwneud.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo <u>Protocol Trosolwg a Chraffu Ymgysylltu â'r Cyhoedd (2016)</u> (Dogfen N Cyfansoddiad) ac fe'i ddefnyddiwyd sawl gwaith. • Mae trefniadau wedi cael eu gwneud i geisio safbwyntiau'r cyhoedd, a gesglir trwy gyfryngau cymdeithasol a'u rhannu gyda Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu er mwyn iddynt eu hystyried. • Bydd Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu y Cyngor yn gyfrifol am gymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol BGC. • Gwaith a gyflawnir gyda <u>Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol</u> er mwyn datblygu Fframwaith Craffu mewn perthynas â DLICD. • Cyhoeddir adroddiadau a hefyd, yr holl agendâu, cofnodion, <u>Blaenraglen Waith</u> a phob Cylch Gorchwyl ar wefan y Cyngor. • Mae Bwrdd Rheoli Perfformiad Corfforaethol yn cyfarfod bob chwarter, ac estynnir gwahoddiad i Gadeiryddion Pwyllgorau Craffu fynychu. • Pennir dyddiadau adrodd ar ddechrau pob blwyddyn. • Mae gweithgarwch monitro'r gyllideb yn digwydd yn gyson trwy gydol y flwyddyn, o fewn gwasanaethau, i weithgorau Swyddogion sy'n Aelodau a'r Cabinet e.e. Grŵp Datblygu a CMG ac arbedion y rhaglen drawsnewid i'r Grŵp Trawsbleidiol Ymgynghorol am Drawsnewid ac Effeithlonrwydd, y caiff Cadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eu gwahodd i'w harsylwi law yn llaw â chyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad. • Cyflawnir gwaith monitro ariannol yn rheolaidd ar draws y Cyngor dan drefniant cyfrifyddu datganoledig a chaiff gwaith adrodd ffurfiol ei gyflwyno i'r Cabinet. Caiff gwaith monitro ei gynnwys yn yr adroddiadau rheoli perfformiad chwarterol hefyd. • Mae goblygiadau ariannol yn ofyniad i'w gynnwys yn holl adroddiadau Cyfarfodydd y Cabinet. • Mae'r <u>Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol</u> (Dogfen F Cyfansoddiad) a'r <u>Rheolau Gweithdrefn Contract</u> (Dogfen G Cyfansoddiad) oll wedi cael eu diweddarau. Cymeradwywyd y <u>Strategaeth Gaffael 2018-2022</u> gyfredol yn 2018. • Arferion cyfrifyddu – cydymffurfir â Chodau Ymarfer. Caiff Dangosyddion Darbodus eu paratoi ac fe'u hadroddir i'r Cyngor a'u monitro trwy gydol y flwyddyn. Cyflawnir gweithgarwch rheolaidd i fonitro'r gyllideb trwy gydol y flwyddyn. Mae IA yn adolygu trefniadau rheoli o ran monitro a chasglu incwm hefyd. • Cyflwynir diweddariadau mewn perthynas â Pharhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl yn rheolaidd yn unol â'r Gofrestr Risg Corfforaethol, CORP04 Risg ac mae'r Grŵp Parhad Busnes ac Argyfyngau Sifil Posibl yn cyfarfod bob mis. • Asesir risg y Cynllun Archwilio Mewnol blynyddol ac mae'n ystyried nodau ac amcanion y Cyngor, a'i bolisïau a'i weithdrefnau corfforaethol; i gynnwys adolygiad o'r trefniadau corfforaethol Rheoli Risg, a phrofi'r trefniadau rheoli lliniarol sydd mewn grym ar gyfer sampl o risgiau a nodir yn y Gofrestr Risg Corfforaethol. • Cymeradwywyd y Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2021-2022 gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 24 Chwefror
--	--

	<p>2021, ac mae'n parhau i ystyried risgiau ychwanegol a gyflwynir gan y pandemig.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gall cynllun archwilio blynyddol IA roi sylw i unrhyw weithgarwch angenrheidiol i ail-flaenoriaethu gwaith, gan ganiatáu i IA fod yn ymatebol i unrhyw newidiadau o ran risg yn y Cyngor. • Mae adroddiadau archwilio mewnol a gyflwynir i Reolwyr yn amlygu'r risgiau o beidio gweithredu unrhyw gamau IA a argymhellir. Cynhelir archwiliad dilynol o'r cynlluniau gweithredu a gyflwynir. Os bydd CMIA o'r farn nad yw Rheolwr wedi rhoi sylw i unrhyw risgiau sylfaenol, adroddir am hyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ac mae gan hwn y disgresiwn i ofyn i'r Rheolwr hwnnw fynychu ac esbonio'r rheswm dros beidio sicrhau cydymffurfiaeth. • Bydd yr Archwilydd a benodir yn ystyried trefniadau'r Cyngor er mwyn sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei lythyr lle y mae'n nodi bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau ynghylch defnyddio ei adnoddau. • Mae Amcanion y Cyngor yn cyd-fynd â Strategaethau. • Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o'r Grŵp Rheoli Parhad Busnes a Materion Brys i adolygu Cynlluniau a Threfniadau Parhad Busnes a Materion Brys Meysydd Gwasanaeth a Chorfforaethol, yn ogystal ag argymhellion sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac ymarferion i ddangos tystiolaeth o risg, nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a chofnodi unrhyw wersi a ddysgwyd er mwyn ymateb iddynt. • Mae gwerthuso risg wastad yn ymddangos ar agendâu. • Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol Chwarterol rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu at ddibenion monitro (e.e. cyflwynwyd Adroddiad Cynnydd Archwilio mewnol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Mehefin 2021 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 9 Medi 2021). • Darparir crynodeb o'r gwaith a'r farn archwilio ynghylch y sicrwydd a roddir yn flynyddol yn yr Adroddiad Archwilio Mewnol Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn. Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol IA ar gyfer 2020/21 gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 3 Mehefin 2021 • Adolygiadau IA dilynol i fonitro gweithrediad y camau gweithredu gofynnol. • Caiff trefniadau rheoli mewnol, risg a phrosesau llywodraethu eu monitro yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol (cymeradwywyd y fersiwn diwethaf gan y <u>Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu</u> ar 24/2/21) a'r Cynllun a'r Strategaeth Archwilio Mewnol Blynyddol. • Cydymffurfiaeth gyda'r Cod Ymarfer ynghylch Rheoli Risg Twyll a Llygredd ('CIPFA', 2014). • Mae gan Archwilwyr Mewnol weithdrefnau yn eu lle os darganfyddir twyll. • Mae Swyddog yn y tîm IA yn Dechnegydd Gwrth Dwyll achrededig. • Mae Swyddog(ion) yn y tîm IA yn dal Tystysgrif CIPFA mewn Arferion Ymchwilio ('CCIP'). • Diweddarwyd a chymeradwywyd 'Strategaeth i Atal Twyll, Llygredd a Llwgrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian)' gan y Cyngor ar 17 Mehefin 2021 (cadarnhawyd y cofnodion ar 23 Medi 2021) ac fe'i
--	--

	<p>hysgrifennwyd mewn perthynas â'r Cod Ymarfer a'i diweddarau i sicrhau y caiff yr holl ofynion eu cynnwys.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae IA yn gwneud gwaith atal twyll yn ôl y gofyn (yn ogystal â delio gyda gweithgarwch darganfod twyll fel yr ystyriwyd yn gynharach) ac mae'n cyflwyno Adroddiad Atal Twyll i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bob blwyddyn (<u>Cyflwynwyd Adroddiad Atal Twyll 2020/21 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 3 Mehefin 2021.</u> • Mae'r Cyngor yn cydymffurfio gyda gofynion Menter Twyll Genedlaethol flynyddol Archwilio Cymru, a gydlynir gan IA ar hyn o bryd. • Monitro ac ymateb i rybuddion o dwyll (NAFN, rhwydweithiau ehangach, cymheiriaid, ac ati); • Aelodaeth a chyfranogiad gweithredol mewn rhwydweithiau a grwpiau proffesiynol (Tisonline, KHub, ac ati); • Mae IA yn cynnig cyngor i wasanaethau ynghylch gweithredu systemau a phrosesau newydd er mwyn sicrhau y caiff trefniadau rheoli mewnol effeithiol eu cynnal; • Mae Swyddogion enwebedig o'r Cyngor yn ymgymryd â hyfforddiant twyll amrywiol er mwyn cynnal eu gwybodaeth a'u harbenigedd; • Pan fo hynny'n briodol, cyhoeddir erlyniadau llwyddiannus ar wefan y Cyngor (ac yn y wasg leol). • Archwiliwyd taliadau grant Covid-19 cyn eu talu (gan ei bod yn haws stopio taliad na'i adfer); • Ychwanegwyd archwiliadau rheolaeth ariannol allweddol i'r cynllun archwilio, er mwyn gwirio trefniadau rheoli, llywodraethu a risgiau tra bod staff yn gweithio gartref • Cymeradwywyd <u>DLIB 2020/21</u> gan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2021 gyda'r Datganiad o'r Cyfrifon. Mae DLIB yn cynnwys barn flynyddol CMIA ynghylch sicrwydd. • Tan 31/12/21, mae pennaeth y swyddogaeth IA yn CMIA sy'n meddu ar gymhwyster CIPFA, ac mae'r CMIA o 1/1/22 ymlaen yn astudio er mwyn sicrhau cymhwyster IIA. Mae gan y ddau CMIA brofiad helaeth ym maes llywodraeth leol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan dîm sy'n meddu ar sgiliau a gwybodaeth briodol. Cynhelir gwaith adrodd rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynghylch gweithgarwch IA. Mae gweithgarwch cynllunio busnes a blaenraglen waith gadarn sy'n seiliedig ar risg yn eu lle. • Mae IA yn gwerthuso ac yn gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu yn unol â PSIAS, a gaiff ei hunanasesu a'i adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bob blwyddyn, ynghyd ag unrhyw welliannau sy'n ofynnol. Cynhelir adolygiad cymheiriaid bob 5 mlynedd (bydd gofyn cynnal yr un nesaf tua mis Mawrth 2022, ac mae'r paratodau ar gyfer hwn eisoes wedi cychwyn trwy gyfrwng Grŵp Prif Archwilwyr Cymru – gweler isod). • Mae IA yn cynnig sicrwydd unigol i Reolwyr ar ôl pob adolygiad archwilio – yna, defnyddir y rhain i gynnig lefel gorfforaethol gyffredinol o sicrwydd bob blwyddyn, sy'n cyfrannu i'r <u>DLIB</u>. • Gweithredwyd proses i ailstrwythuro IA ym mis Mai 2019, a chynhaliwyd un arall ym mis Tachwedd 2020. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn manteisio ar adnoddau llawn er 1 Rhagfyr 2020.
--	---

	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd CMIA newydd yn y swydd o 1 Ionawr 2022, ac mae ganddynt brofiad sylweddol ym maes IA, a bydd ganddynt ffenestr 6-wythnos i 'gysgodi'r' CMIA presennol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan Reolwr Archwilio gwybodus a medrus (gweler pwynt G3.2 isod). • Mae dau aelod o'r tîm yn astudio am gymhwyster hyfforddiant proffesiynol Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd. • Sefydlwyd Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sy'n pennu ei gynllun gwaith ei hun. Cadeirir y Pwyllgor gan Aelod o grŵp y gwrthbleidiau (tan fis Mai 2022, pan fydd Unigolyn Lleyg yn Gadeirydd, yn unol â darpariaethau Deddf 2021). • Gwaith paratoi parhaus a gweithredu newidiadau sy'n effeithio ar y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yng ngoleuni Deddf 2021. Hysbyswyd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, mewn adroddiad yn ystod Cyfarfod ar 24.2.2021, o'r newidiadau i'w rôl ynghylch adroddiadau hunanasesu y Cyngor, ac ynghylch asesiadau perfformiad panel, yn ogystal â'r newid enw, ynghyd â newidiadau i'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd a'r cyfansoddiad. • Diweddarwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 6 Rhagfyr 2018. • Cyflwynwyd adroddiad am y diweddaraf am Ddeddf 2021 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 3.6.2021, gan gynnwys rhoi diweddiariad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ynghylch newidiadau i'r Cyfansoddiad sy'n effeithio ar y Pwyllgor, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> -Recriwtio aelodau lleyg ac Is-Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu CJC Canolbarth Cymru; ac -Ynghylch swyddogaethau'r Pwyllgor sy'n ymwneud ag: <ul style="list-style-type: none"> ○ adolygu ac asesu asesiad perfformiad y Cyngor; ○ ystyried adroddiad Hunanasesu blynyddol drafft y Cyngor; ○ ystyried unrhyw adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol ac ymateb drafft y Cyngor; ○ adolygu swyddogaeth delio gyda chwynion y Cyngor; a'r ○ rôl ynghylch Asesiadau Perfformiad Panel (o fis Mai 2022). • Mae'r newidiadau a wnaethpwyd yn ystod 2021-2022 yn cynnwys paratodau ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> ○ Newidiadau i'r cylch gorchwyl/cylch gwaith/cyfansoddiad (gan gynnwys argymhellion i'r Cyngor gan y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad a newidiadau i'r Cyfansoddiad a gymeradwywyd gan y Cyngor yn ystod ei Gyfarfod ar 23.9.2021); ○ Newid yr enw i'r 'Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu; ○ Bydd yr aelodaeth yn cynnwys 2/3 Chynghorydd ac 1/3 Unigolyn Lleyg (fel y diffinnir yn y Ddeddf) – cwblhawyd y broses recriwtio (cymeradwyodd y Cyngor y penodiadau ar 9.12.21); ○ Dyletswydd y pwyllgor i benodi ei Gadeirydd a'i Ddirprwy Gadeirydd ei hun; ○ Rhaid i'r cadeirydd fod yn unigolyn lleyg – cwblhawyd y broses recriwtio (cymeradwyodd y Cyngor y penodiadau ar
--	--

Tudalen 720

	<p>9.12.21) a phenodir y Cadeirydd/Dirprwy Gadeirydd o blith yr Aelodau Lleyg;</p> <ul style="list-style-type: none">○ Ni ddylai'r Dirprwy Gadeirydd fod yn aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Awdurdod Lleol; ac○ Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Dirprwy, dim ond Aelodau anweithredol fydd yn gallu cadeirio. <ul style="list-style-type: none">• Cwblhawyd adolygiad o faint y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a chymeradwywyd y penderfyniad i newid ei faint o fis Mai 2022 (9).• Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Aelod Lleyg effeithiol ac ystyrir bod Aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyd-fynd â Deddf 2021: cwblhawyd y broses o recriwtio aelod Lleyg, gan ystyried gofynion Deddf 2021 a therfynu cyfnod yr aelodau lleyg presennol yn y rôl. Cymeradwywyd Cyfeiriad Swydd, Manyleb person a meini prawf gan y Cyngor ar 10/12/20.• Mae <u>manylion aelodaeth</u> ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r holl Bwyllgorau Craffu ar gael ar wefan y Cyngor.• Cyfarfodydd rheolaidd rhwng CMIA a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, rhoddir cyngor gan MO a chyfarfodydd rheolaidd hefyd, yn ôl yr angen rhwng MO a'r Cadeirydd, ac MO, CMIA ac Archwilio Cymru.• Cyfarfodydd rheolaidd rhwng Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r rheolydd allanol, Archwilio Cymru (gyda a heb Swyddogion)• Hyfforddiant i Aelodau a rhoddir hyfforddiant/diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.• Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynychu grŵp rhwydwaith Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Cymru i ddatblygu a chymharu'r rôl o fewn Awdurdodau Lleol.• Cymeradwywyd <u>Strategaeth TGCh a Digidol newydd ar gyfer 2018-2022</u> ac mae'r holl bolisiâu wedi cael eu diweddarau, gan gynnwys (cymeradwywyd pob un ym mis Chwefror 2019):<ul style="list-style-type: none">○ <u>Polisi Diogelu Data a GDPR;</u>○ <u>Polisi Diogelwch Gwybodaeth;</u> a○ <u>Pholisi Rheoli Cofnodion.</u>• Rhaid i'r holl Staff gwblhau modiwlau hyfforddiant E-ddysgu gorfodol ynghylch Diogelu Data a Diogelwch Gwybodaeth.• Swyddog Diogelu Data Dynodedig.• Cyswllt Cwsmeriaid y Swyddog Arweiniol Corfforaethol yw'r Perchennog Risg Gwybodaeth Uwch ('SIRO') ac mae wedi mynychu hyfforddiant priodol ar gyfer y rôl hwnnw.• Nodir y Swyddogion cyfrifol canlynol:<ul style="list-style-type: none">○ Swyddog Diogelwch TG ('ITSO'); a○ Swyddog Rheoli Cofnodion a Gwybodaeth ('IRMO')• Yn ogystal, mae'r Grŵp Diogelu Data Corfforaethol a'r Cyfarfod Parhad Busnes ac Argyfyngau yn ystyried diogelwch Gwybodaeth.• Gweithredwyd Archwiliad Mewnol Rheolaidd o ofynion a gweithdrefnau Cofrestru diogelu data yn dilyn archwiliad Archwilio Cymru.
--	---

Tudalen 721

	<ul style="list-style-type: none">• Llofnododd Cyngor Sir Ceredigion Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ('WASPI'), felly mae'n defnyddio fframwaith <u>WASPI</u> ar gyfer Cytundebau Rhannu Gwybodaeth. ***Mae'r cytundeb yn set gyffredin o egwyddorion a safonau y bydd sefydliadau partner yn rhannu gwybodaeth bersonol oddi tanynt. Bydd sefydliadau sy'n mabwysiadu'r Cytundeb yn dangos eu hymrwymiad wrth fodloni'r amodau, y rhwymedigaethau a'r gofynion cytunedig o fewn y fframwaith.• Yn rhan fwyaf yr achosion, anfonir cytundebau ymlaen i'r Swyddog Diogelu Data.• Ceir cofrestr gyhoeddus ar Wefan WASPI hefyd.• Aseidiadau allanol rheolaidd e.e. Cydymffurfio gyda'r Cod Ymddygiad.• Tystiolaeth a monitro perfformiad mewnol.• Caiff data ei groes-gyfateb ar draws y gwahanol wasanaethau.• Caiff gwerthoedd Dangosyddion Perfformiad eu dilysu gyda chymorth tystiolaeth.• Amserlen Gadw – fe'i <u>chyhoeddir</u> ar y fewnrwyd bellach.• Sefydlwyd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ('MTFS') gyfredol yn ystod blwyddyn 2013-14 ac fe'i diweddarwyd mewn ffordd sylfaenol a'i chymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2016. Mae'r MTFS Gyfredol ar gyfer y cyfnod ar ôl 2018/2019 ond mae bellach wedi cael ei diwygio i adlewyrchu setliad refeniw amodol 2021/2022 a'i diweddarau i:<ul style="list-style-type: none">○ Adlewyrchu effaith Covid-19○ Adlewyrchu 'Rhoi Hwb i Economi Ceredigion – Strategaeth ar gyfer Gweithredu 2020-35'○ Diwygio'r cynllun arbedion trawsnewid○ Rhagweld pwysau o ran y costau yn y dyfodol○ Adlewyrchu newidiadau data, rheoliadau, cynlluniau, polisïau a strategaethauac fe'i chyflwynir i'r Cabinet i'w chymeradwyo ar 23,2,2021, gyda'r nod o gyflwyno'r gymeradwyaeth i'r Cyngor ar 5.2.2021.• Bellach, mae hwn yn cynnwys fframwaith polisi er mwyn pennu'r cyllidebau bob blwyddyn, yn ogystal â chynllun tair blynedd. Mae'r MTFS yn cynnwys risg corfforaethol a gaiff ei ddiweddarau o leiaf dair gwaith y flwyddyn. Roedd y gweithgarwch blynyddol er mwyn pennu'r gyllideb yn cynnwys asesiad risg hefyd. Mae'r Cyngor yn ymateb i'r cynnig yn Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cymru bellach) 2016, gan ystyried yr adroddiad yng ngoleuni MTFS trwy sicrhau bod trefniadau rheolaeth ariannol y Cyngor yn ddigon cadarn i fodloni'r sialensiau sylweddol a fydd yn codi yn y dyfodol.• Datblygwyd Cynllun Strategol ac mae wedi gwella'r rhaglen waith sy'n angenrheidiol er mwyn ystyried blaenoriaethau gwasanaeth wrth roi sylw i gyfyngiadau ariannol.• Pennir amserlen/cynllun prosiect cyllideb flynyddol er mwyn sicrhau y caiff cyllideb gytbwys ei chymeradwyo o fewn y cyfnod statudol yn unol â fframwaith cyllideb y Cyngor.• Cyflwynir adroddiadau cyllideb rheolaidd i'r Cabinet a'r Grŵp Arweiniol trwy gydol y flwyddyn a chaiff cyllidebau gweithredol eu monitro bob mis.
--	---

Tudalen 722

	<ul style="list-style-type: none"> Cynhelir cyfarfodydd chwarterol o'r Panel Gweithredol yn ôl y gofyn gyda Swyddogion Arweiniol Corfforaethol, ynghyd ag Arweinydd y Cyngor, y CE, y Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros Gyllid a'r Aelod Cabinet sy'n meddu ar gyfrifoldeb dros Gyllid.
--	---

Egwyddor Llywodraethu Da	Sut ydym ni'n bodloni'r Egwyddorion hyn
<p>G. Defnyddio arferion gweithio da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i sicrhau atebolrwydd effeithiol</p>	<ul style="list-style-type: none"> <u>Gwefan</u> y Cyngor. Darllidir cyfarfodydd y Cyngor a'r Cabinet. Templedi safonol ar gyfer y Cabinet, Craffu a'r Cyngor. Cydymffurfiaeth gyda <u>Safonau'r Gymraeg</u>. Defnyddio Modern.Gov er mwyn cyhoeddi agendâu a Gwybodaeth am Gyngorwyr. Mae'r Cyngor yn paratoi i weithredu newidiadau a gyflwynir gan Ddeddf 2021, sy'n cynnwys bod y Cyngor yn ymgynghori ac yn cyhoeddi strategaeth cyfranogi â'r cyhoedd gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol a gwella tryloywder. Cydymffurfiaeth y Cyngor gyda Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws)(Cyfarfodydd)(Cymru) 2020, sy'n caniatáu mynediad o bell i gyfarfodydd a gofynion ynghylch mynediad i'r cyhoedd/cyhoeddi dogfennau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i baratoi Polisi Ymgysylltu Cymunedol a fydd yn bodloni gofynion Deddf 2021, a fydd yn cynnwys sut y byddwn yn annog cyfranogiad mewn gweithgarwch gwneud penderfyniadau hefyd, er ein bod yn aros am ganllawiau terfynol gan Lywodraeth Cymru ynghylch y rhan hon o'r ddeddfwriaeth. Mae <u>Map ffyrdd</u> y Cyngor yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i ddinasyddion ynghylch y gwasanaethau ddarparir oherwydd pandemig Covid-19, er mwyn cynnig eglurder i breswylwyr y Sir. Mae'r Cyngor wedi bod allan i dendr ac wedi dyfarnu'r contract am osod offer yn Siambr y Cyngor a fydd yn galluogi i gyfarfodydd hybrid gael eu cynnal, yn ogystal â'r gallu i ddarlledu'r cyfarfodydd hynny. Gosodir yr offer yn ystod y gaeaf. Mae'r Cyngor yn cynnig ffyrdd amgen i ddinasyddion droi at wybodaeth os nad ydynt yn gallu manteisio ar wasanaethau digidol. Gallant ffonio Canolfan Gyswllt y Cyngor neu ymweld â'i Lyfrgelloedd lle y gall y cyhoedd droi at gyfrifiaduron sydd ar gael neu wasanaeth Wi-Fi 4G am ddim, sy'n caniatáu i unrhyw un ddefnyddio eu dyfais eu hunain. Mae manylion cyswllt Cyngorwyr, eu cofnodion presenoldeb, eu haelodaeth o Bwyllgorau a'r Datganiadau Diddordeb ar gael ar <u>Wefan y Cyngor</u>. Mae adroddiadau blynyddol Cyngorwyr ar gael ar Wefan y Cyngor. Mae'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu ar gael ar <u>Wefan y Cyngor</u>. Mae <u>Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democrataidd</u> ar gael ar Wefan y Cyngor. Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol am Amcanion Gwella a Llesiant y Cyngor Sir ar wefan Sir Ceredigion er mwyn hysbysu dinasyddion

	<p>Ceredigion o'r gweithgareddau a'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd er mwyn cefnogi ei Amcanion Gwella a Llesiant. Mae hyn yn rhan o hunanasesiad y Cyngor hefyd. Mae cynllun cryno ar gael hefyd mewn swyddfeydd cyhoeddus ar gyfer ein dinasyddion.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddir datganiadau ariannol blynyddol ar Wefan y Cyngor. • Cymeradwyaeth briodol. • Trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol. • Perchnogaeth o waith cynllunio a thrawsnewid. • <u>DLIB.</u> • Mae <u>DLIB</u> y Cyngor yn dangos tystiolaeth o'r ffordd y mae'n cydymffurfio â saith Egwyddor graidd y Fframwaith Llywodraethu a'r is-egwyddorion sydd yn y Fframwaith ac yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol, gan gynnwys sut y mae'n gweithredu trefniadau cywir er mwyn llywodraethu ei faterion, yn hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau ac yn gwneud trefniadau ar gyfer rheoli risg (datblygwyd y Fframwaith Llywodraethu yn 2010 ac fe'i ddiwygiwyd yn unol â Fframwaith Darparu Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol CIFA/SOLACE 2016). Mae'n cydymffurfio hefyd gyda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. • Cynhaliwyd asesiad o'r fframwaith ar gyfer llywodraethu corfforaethol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth e.e. wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau sy'n angenrheidiol oherwydd pandemig Covid-19. Penderfyniad gan y Cyngor ynghylch a gymeradwyir DLIB e.e. ei ddiweddarau a'i gymeradwyo gan y Cyngor ar <u>25 Tachwedd 2021</u> (gyda chyfrifon). • Mae <u>Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol</u> y Cyngor yn dangos sut y mae'n meddu ar y trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol mewn grym er mwyn sicrhau perfformiad effeithiol, ac mae'n ddatganiad cyhoeddus sy'n nodi'r ffordd y bydd y Cyngor yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw. • Rhannwyd DLIB gyda chyfrifon, fe'i adolygwyd a'i ddiweddarwyd gydag Aelodau a Swyddogion gan gynnig proses ymgysylltu ehangach. Mae Aelodau a Swyddogion yn cynnal adolygiad o'r DLIB bob blwyddyn. • Mae goblygiadau ariannol yn ofyniad er mwyn eu cynnwys yn holl adroddiadau Cyfarfodydd y Cabinet. Diweddarwyd <u>Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol (Dogfen F Cyfansoddiad)</u>, <u>a'r Rheolau Gweithdrefn Contract (Dogfen G Cyfansoddiad)</u>. Cymeradwywyd y <u>Strategaeth Gaffael 2018-2022</u> gyfredol yn 2018. • Arferion cyfrifyddu – cydymffurfir â Chodau Ymarfer, caiff Dangosyddion Darbodus eu paratoi a'u hadrodd i'r Cyngor a'u monitro trwy gydol y flwyddyn. Cynhelir gweithgarwch rheolaidd er mwyn monitro'r gyllideb trwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal, mae IA yn adolygu trefniadau rheoli ynghylch casglu a monitro incwm. • Mae perthynas waith dda yn bodoli gyda Llywodraeth Cymru fel rheolydd allweddol a gyda rheolyddion allanol, gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn, AGC, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ('FSA') a'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel rheolyddion allweddol. Cynhelir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru.
--	---

	<ul style="list-style-type: none"> • Cofnodir Protocol Archwilio Cymru ac mae gweithdrefnau mewn grym er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i'r holl 'Ffurflenni Ymateb Rheolwyr' o bob adroddiad Archwilio Cymru, a bod ymatebion Gwasanaeth yn cael eu cyflwyno i'r Grŵp Arweiniol, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac Archwilio Cymru. • O ran monitro cynnydd camau gweithredu/argymhellion, y Swyddog Llywodraethu yw pwynt cyswllt Archwilio Cymru ar gyfer Ffurflenni Ymateb Rheolwyr ('MRFs') heb eu cyflwyno ar gyfer 2019/20 a 2020/21, a materion llywodraethu/MRFs sy'n ymwneud â llywodraethu parhaus. Cyflwynir y system hon mewn Protocol, a gymeradwywyd gan y Grŵp Arweiniol ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a chyflwynwyd fersiwn wedi'i ddiweddarau (er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y Swyddog Gwella a Pherfformiad Corfforaethol yn eu swydd) i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod ei gyfarfod ar 9.9.2021. • Cynhelir cyfarfodydd misol gydag Archwilio Cymru hefyd er mwyn trafod gwaith parhaus a materion i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a cheir deialog reolaidd gyda chynrychiolwyr o Archwilio Cymru. • Rhoddir sylw i argymhellion gan Archwilio Cymru yn y trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol. • Cyflwynir holl adroddiadau Archwilio Cymru i'r grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, sy'n monitro gweithrediad y camau gweithredu cywiro gofynnol. • Mae proses er mwyn monitro cynnydd Camau Gweithredu yn cael ei datblygu. • Tan 31/12/21, mae pennaeth y swyddogaeth IA yn CMIA sy'n meddu ar gymhwyster CIPFA, ac mae'r CMIA o 1/1/22 ymlaen yn astudio er mwyn sicrhau cymhwyster IIA. Mae gan y ddau CMIA brofiad helaeth ym maes llywodraeth leol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan dîm sy'n meddu ar sgiliau a gwybodaeth briodol. Mae dau aelod o Staff yn astudio ar gyfer cymhwyster Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol ar hyn o bryd, ac mae dau yn datblygu sgiliau archwilio TGCh. • Mae Swyddogion IA yn astudio am gymwysterau archwilio er mwyn gwella eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cymhwysedd. • Gweithredwyd proses i ailstrwythuro IA ym mis Mai 2019, a chynhaliwyd un arall ym mis Tachwedd 2020. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn manteisio ar adnoddau llawn er 1 Rhagfyr 2020. • Bydd CMIA newydd yn y swydd o 1 Ionawr 2022, ac mae ganddynt brofiad sylweddol ym maes IA, a bydd ganddynt ffenestr 6-wythnos i 'gysgodi'r' CMIA presennol, ac maent yn cael eu cynorthwyo gan Reolwr Archwilio gwybodus a medrus. • Mae rôl CMIA yn cael mynediad rhydd a dilyffethair i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac mae'r ddau yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn (ac mae'r cyfarfodydd hyn yn parhau o bell yn ystod pandemig Covid-19). • Mae gweithgarwch cynllunio busnes a blaenraglen waith gadarn sy'n seiliedig ar risg yn eu lle. • Cyflawnir gwaith adrodd rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ynghylch gweithgarwch IA, h.y. Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er
--	---

	<p>mwyn monitro perfformiad cynnydd a gwella a rhoddir crynodeb o'r gwaith a'r farn archwilio ynghylch sicrwydd mewn Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol bob blwyddyn ar ddiwedd y flwyddyn. Cynhelir adolygiadau dilynol er mwyn monitro camau gweithredu cywirol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn adolygu ac yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol yn rheolaidd (cymeradwywyd y fersiwn diwethaf gan y Pwyllgor Archwilio ar 24/2/21). • Mae CMIA yn cynnig barn wrthrychol flynyddol am sicrwydd ynghylch prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu y Cyngor, ar sail y sicrwydd unigol a roddir i Reolwyr ar ôl pob adolygiad archwilio, ac mae'n cyfrannu i'r <u>DLIB</u>. • Adroddir am gydymffurfiaeth gyda PSIAS bob blwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a bydd cynllun gwella yn dilyn hyn. Cynhelir gweithgarwch adolygu asesu gan gymheiriaid bob pum mlynedd (bydd gofyn cynnal yr un nesaf tua mis Mawrth 2022, ac mae'r gwaith paratoi eisoes wedi cychwyn ar gyfer hwn trwy gyfrwng Grŵp Prif Archwilwyr Cymru). • Cenhadaeth IA yw gwella a diogelu gwerth sefydliadol trwy gynnis sicrwydd, cyngor a dirnadaeth wrthrychol ac sy'n seiliedig ar risg. Nodir manylion hyn yn y Siarter Archwilio fewnol, sy'n nodi hawl mynediad IA hefyd (yn unol â Rheoliadau Ariannol/<u>Cyfansoddiad</u> y Cyngor). • Rhoddir sylw i argymhellion gan Archwilio Cymru yn y trefniadau Rheoli Perfformiad Corfforaethol. • Mae'r Cyngor yn dysgu ac mae'n ceisio sicrhau gwelliant yn barhaus. • Cynhelir asesiad allanol bob pum mlynedd o IA yn ôl yr hyn sy'n ofynnol gan PSIAS. • Cynhaliwyd yr Asesiad Allanol Archwilio Mewnol diwethaf ym mis Tachwedd 2016 gan Gyngor Sir Conwy ac adroddwyd amdano i'r Pwyllgor Archwilio, ynghyd â'r Cynllun gwella a oedd wedi deillio ohono (bydd gofyn cynnal yr un nesaf tua mis Mawrth 2022, ac mae'r gwaith paratoi eisoes wedi cychwyn ar gyfer hwn trwy gyfrwng Grŵp Prif Archwilwyr Cymru). • Adroddir am gynnydd, perfformiad a gwelliant i'r Pwyllgor Archwilio bob chwarter. • <u>Cynllun Llesiant</u> a chylch gorchwyl <u>BGC</u>, ac adroddiad blynyddol gan BGC. • Mae Pwyllgor Cydlynw Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol am gymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd. • Pennir cytundebau Atebolrwydd a Phartneriaeth mewn prosiectau ar y cyd.
--	--

7. Dogfennau Cysylltiedig

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu'r Prif Ddogfennau, y Prosesau sydd wedi Cyfrannu atynt a'r gwaith Monitro Rheoleiddiol sy'n mynd rhagddo i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r egwyddorion craidd.

Y Prif Ddogfennau sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Egwyddorion craidd		Prosesau Perthnasol / Monitro Rheoleiddiol
<p>Polisi Camddefnyddio Alcohol a Chyffuriau Datganiad Llywodraethu Blynyddol Datganiad Blynyddol o'r Cyfrifon Strategaeth Atal Twyll, Llygredd a Llwrwobrwyo (gan gynnwys Atal Gwyngalchu Arian) Cynllun Rheoli Asedau Eiddo Adroddiadau'r Cabinet a'r Pwyllgorau Cod Ymddygiad yr Aelodau Cod Ymddygiad y Swyddogion Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned Polisi Pryderon a Chwynion Llyfryn Gwybodaeth am Bryderon a Chwynion Cod Adroddiadau Cyfrinachol Cyfansoddiad Rheolau'r Weithdrefn Contractau 2017 Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol 2019-2022 gan gynnwys Cysylltiadau â'r Cyfryngau Strategaeth Gorfforaethol Iechyd, Diogelwch a Llesiant Cofrestr Risgiau Corfforaethol Strategaeth Gorfforaethol 2017 - 2022 Polisi Diogelu Data a Pholisi'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data Polisi Datgan a Chofrestru Lletygarwch a Buddiannau Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Democraidd Polisi Urddas yn y Gwaith Polisi Disgyblu Polisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd/Recriwtio Diogel Polisi Trais Domestig Polisi Ymgysylltu â'r Gymuned (2013)</p>	<p>Polisi Rheoli Perfformiad y Gweithwyr Polisi Rheoli Newid Polisi Ategol Grymoedd y Farchnad Polisi Rheoli Perfformiad Enghreifftiol Polisi Atal Caethwasiaeth Fodern Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2018-2019 ymlaen Lwfansau'r Aelodau 2019-2020 Llawlyfr yr Aelodau Datblygiad Personol yr Aelodau Rhestr o Daliadau'r Aelodau Strategaeth Dysgu a Datblygu'r Aelodau Cofnodion Cyfarfodydd Strategaeth Swyddfeydd Datganiadau o Fuddiannau'r Swyddogion a'r Aelodau Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu Polisiâu Tâl Polisi a Chanllawiau i Ddiogelu Plant ac Oedolion sydd mewn Perygl Polisi Cyfyngiadau Gwleidyddol Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Cyhoedd Strategaeth Gaffael 2018-22 Polisi Adeoli Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 Rhan II ('RIPA') Gwyliadwriaeth Gyfeiriedig, Defnyddio Ffynonellau Cuddwybodaeth Ddynol</p>	<p>Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Y Grŵp Arweiniol Fforwm Caffael Ceredigion Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Bwrdd Perfformiad Rheoli Perfformiad Corfforaethol Panel Gweithredol Rheoli Perfformiad Corfforaethol Pwyllgor y Gwasanaethau Democraidd Y Pwyllgor Moeseg a Safonau Fforwm y Gweithwyr Asiantaethau Arolygu ac Adolygu allanol Grŵp Iechyd Da Archwilio Mewnol Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru Y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Panel yr Heddlu a Throseddau Y Grŵp Trawsbleidiol ar Drawsnewid ac Effeithlonrwydd Y Gweithgor Trawsbleidiol ar y Cyfansoddiad Archwilio Cymru Pwyllgor y Gymraeg</p>

Tudalen 727

<p>Polisi Cwynion (cyhoeddus) 2015 Polisi Diogelu Data 2019 Strategaeth Economaidd 2020-2035 Polisi E-bost Polisi'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd Trosolwg a Chraffu Rhestr Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaethau Adroddiadau Archwilio Allanol Safonau Rheoli Cyllid Rheolau'r Weithdrefn Ariannol 2009 Blaenraglen Benderfyniadau Polisi Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 Gweithdrefn Cwynion Polisi Honorariwm Polisi Iechyd a Diogelwch 2019 Polisi Rheoli Incwm ac Adennill Costau Gwasanaethau Strategaeth TGCh a Digidol Polisi Diogelwch Gwybodaeth 2019 Adroddiadau Arolygiadau Pecyn Cymorth Asesu Effaith Integredig Cynllun Archwilio Mewnol</p>	<p>a Chael Gafael ar Ddata Cyfathrebu Dogfen Polisiâu a Gweithdrefnau Corfforaethol RIPA Cyfryngau Cymdeithasol Polisi Dethol a Recriwtio Polisi Gweithle Di-fwg Polisi Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion Cofnod Penderfyniadau Strategaeth Rheoli Risgiau Cynllun Dirprwyo Cynlluniau Gwasanaeth Polisi a Gweithdrefn Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol Polisi Golygyddol a Gweinyddol y Cyfryngau Cymdeithasol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020–2024 Polisi Rheoli Straen Polisi a Gweithdrefn Atal o'r Gwaith Strategaeth Hyfforddi a Datblygu Polisi Rheoli'r Trysorlys Cynllun Llesiant a Gwella Polisi Gweithredoedd Annerbyniol Polisi Chwythu'r Chwiban Safonau'r Gymraeg Cynllun y Gweithlu Cynllun Strategol Polisi Cydbwysedd Bywyd a Gwaith</p>	
---	--	--

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION**Adroddiad i'r: Cyngor****Dyddiad y cyfarfod: 3 Mawrth 2022****Teitl: Cymeradwyo Polisiâu Cyflogau Athrawon****Diben yr adroddiad: Cymeradwyo'r Polisi Cyflogau Athrawon Enghreifftiol i'w argymhell i Gyrrff Llywodraethu Ysgolion Ceredigion at ddibenion ei fabwysiadu.****Cael cymeradwyaeth ar gyfer y Polisi Cyflogau Athrawon Digyswllt Enghreifftiol ar gyfer athrawon a gyflogir yn ganolog.****Er: Penderfyniad****Portffolio Cabinet ac Y Cyngorydd Catrin Miles
Aelod Cabinet:**

Cyflwynwyd y drydedd ddogfen yn ymwneud â Chyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) gan y Gweinidog dros Addysg ym mis Mehefin 2021 ac mae'n cadarnhau trefniadau cyflogau athrawon yng Nghymru ar gyfer 2021/22. Dyma elfennau statudol Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru), sy'n ofynnol eu gweithredu:

- Cymhwyswyd codiad o 1.75% i'r holl bwyntiau graddfa statudol a lwfansau
- Bydd pob codiad cyflog yn daladwy o 1 Medi 2021.

Mae Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) yn gwneud darpariaeth ar gyfer dyfarniad cyflog mis Medi 2021 ac yn egluro'r sefyllfa o ran y brif raddfa gyflog pum pwynt, datblygiad cyflog a pherfformiad, a datblygiad cyflog ar yr ystod cyflog uchaf. Ychwanegwyd cyfres o egwyddorion gorfodol a dewisol hefyd ar gyfer cludadwyedd cyflog ac eglurhad o sefyllfa penaethiaid sy'n gyfrifol am fwy nag un ysgol. At hynny, o ganlyniad i'r wyl banc ychwanegol i ddathlu Jiwbilf Platinwm y Frenhines yn 2022, ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/2022, rhaid i athrawon fod ar gael i weithio am 194 diwrnod. (1258.5 awr o amser dan gyfarwyddyd).

Ar ôl ymgynghori â'n swyddogion undebau llafur lleol, mae rhestr gynhwysfawr o ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud a chydaddoldeb wedi'i chynnwys. Hefyd, er mwyn gwella'r ymrwymiad o ran cludadwyedd cyflog, cynigir bod y gwasanaeth diweddaraf o dan naill ai'r DCAAY(C) neu'r DCAAY yn cael ei gydnabod, ond yn cael ei adolygu'n flynyddol i ystyried unrhyw wahaniaeth rhwng y graddfeydd cyflog.

Mae'r Polisi Cyflogau Enghreifftiol, sy'n berthnasol i athrawon mewn ysgolion, a'r Polisi Cyflogau Athrawon Digyswllt Enghreifftiol, sy'n berthnasol i athrawon a

gyflogir yn ganolog, yn adlewyrchu'r newidiadau hyn ac yn mabwysiadu gofynion Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).

Bu'r Polisiâu Cyflogau ar gyfer 2021/22 yn destun ymgynghoriad gydag undebau llafur athrawon ar lefel leol a rhanbarthol.

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Crynodeb:

Hirdymor:

Caiff y polisi hwn ei ddiweddarau bob blwyddyn er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r Ddogfen flynyddol yn ymwneud â Chyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).

Cydweithio:

Ymgynghorwyd ag undebau llafur lleol a rhanbarthol ac maent wedi darparu adborth ar y polisi.

Cynnwys:

Atal:

Integreiddio:

Argymhellion:

Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r canlynol:

1. Polisi Cyflogau Athrawon Enghreifftiol 2021/22 a'i argymhell i'r Cyrff Llywodraethu er mwyn ei fabwysiadu yn ysgolion Ceredigion.

2. Polisi Cyflogau Athrawon Digyswllt Enghreifftiol ar gyfer athrawon a gyflogir yn ganolog.

Y rhesymau dros y penderfyniad:

Er mwyn sicrhau:

- **Cydymffurfiaeth â Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021**
- **Cysondeb ar draws ysgolion a gwasanaethau yng Ngheredigion**

Trosolwg a Chraffu: Fframwaith Polisi:

Mae Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol gymeradwyo Polisi Cyflogau. Mae'r polisi cyflogau wedi'i ddiweddarau er mwyn ei argymhell i Gyrff Llywodraethu ac mae'n cydymffurfio â Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2021.

Blaenoriaethau Corfforaethol:

Tudalen 731

Goblygiadau Cyllid a Chaffael:	O fewn y gyllideb.
Goblygiadau Cyfreithiol:	Methu â chadw at y gofynion statudol
Goblygiadau staffio:	
Goblygiadau o ran eiddo / asedau:	Dim
Risg:	Risg o beidio â chydymffurfio â Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru)
Pwerau Statudol:	Gofynion Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru)
Papurau Cefndir:	
Atodiadau:	Polisi Cyflogau Athrawon Enghreifftiol Polisi Cyflogau Athrawon Digyswllt Enghreifftiol
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Geraint Edwards
Swyddog Adrodd:	Geraint Edwards
Dyddiad:	10 Ionawr 2022

DRAFFT
Polisi Cyflogau Athrawon
Enghreifftiol

2021/2022

RHEOLI'R DDOGFEN	
Enw'r Polisi	Polisi Cyflogau Athrawon 2021/22
Gwasanaeth	Pobl a Threfniadaeth
Swyddogion Adolygu	Swyddogion Adnoddau Dynol
Y BROSES YMGYNGHORI	
<p>Ymgynghorwyd â'r Undebau Llafur canlynol ynghylch y Polisi hwn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) • Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon • Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau • Yr Undeb Addysg Genedlaethol • UCAC 	

Mabwysiadodd Corff Llywodraethu

Ysgol _____

y Polisi hwn yn ffurfiol ar _____ .

TABL CYNNWYS

1.	Cyflwyniad	4
2.	Datganiad o Fwriad	4
3.	Cydraddoldebau	4
4.	Swydd-ddisgrifiadau	5
5.	Gwerthuso	5
6.	Rhwymedigaethau'r Corff Llywodraethu	5
7.	Rhwymedigaethau'r Pennaeth	5
8.	Rhwymedigaethau'r Athrawon	6
9.	Differynnau	6
10.	Diogelu	6
11.	Medrusrwydd a Datblygiad Cyflog	6
12.	Pennu Cyflogau	7
13.	Cyflog y Pennaeth	7
14.	Cyflog y Dirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol	8
15.	Datblygiad Cyflog ar gyfer Aelodau'r Grŵp Arwain	9
16.	Cyflog Athrawon Dosbarth	10
17.	Ceisiadau am Dâl ar yr Ystod Cyflog Uwch	12
18.	Rôl Ymarferwr Arweiniol	14
19.	Athrawon heb gymhwyso	14
20.	Lwfansau a Thaliadau yn ôl Disgresiwn	15
21.	Cyfrifo Cyflogau ac Amser Athrawon Rhan-amser	18
22.	Athrawon a Gyflogir ar Fyr Rybudd (Cyflenwi)	18
Atodiad 1:	Ystodau Cyflog 2021/22	19
Atodiad 2:	Datganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon	23
Atodiad 3:	Meini Prawf ar gyfer Datblygu i'r Ystod Cyflog Uwch	24
Atodiad 4:	Ffurflen Gais ar gyfer yr Ystod Cyflog Uwch	25
Atodiad 5:	Siart Llif y Broses Adolygu Cyflogau	26
Atodiad 6:	Canllawiau ar Gyflogau'r Grŵp Arwain	27
Atodiad 7:	Ffurflen Adolygu Flynyddol y Grŵp Arwain	35
Atodiad 8:	Y Broses Apeliadau Cyflog	36
Atodiad 9:	Cyfrifo Cyflogau ac Amser Athrawon Rhan-amser	39
Atodiad 10:	Strwythur Staffio yr Ysgol	40

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Mae'r Polisi Cyflogau hwn yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cyflogau athrawon. Fe'i datblygwyd i gydymffurfio â gofynion y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (DCAAY(C)), ac mae wedi bod yn destun ymgynghori â'r holl gymdeithasau addysgu cydnabyddedig.
- 1.2. Mae'r polisi cyflog hwn ond yn berthnasol i'r rhai a gyflogir yn uniongyrchol gan Awdurdodau Lleol ac nid yw'n berthnasol i unrhyw un a gyflogir drwy asiantaeth.

2. DATGANIAD O FWRIAD

- 2.1. Prif ddyletswydd statudol Cyrff Llywodraethu yng Nghymru, fel y'i nodir ym mharagraff 21 (2) o Ddeddf Addysg 2002, yw cynnal yr ysgol gyda'r bwriad o hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol yn yr ysgol. Bwriedir i'r Polisi hwn gefnogi'r ddyletswydd statudol honno.
- 2.2. Bydd y gweithdrefnau ar gyfer pennu cyflogau yn yr Ysgol hon yn gyson ag egwyddorion bywyd cyhoeddus: gwrthrychedd, didwylledd ac atebolrwydd.
- 2.3. Bydd y Corff Llywodraethu yn gweithredu ag unplygrwydd, cyfrinachedd, gwrthrychedd a gonestrwydd er lles pennaf yr Ysgol mewn perthynas â gweithredu'r Polisi hwn.
- 2.4. Bydd y Corff Llywodraethu yn agored am benderfyniadau tâl a wnaethpwyd a chamau a gymerwyd, a bydd yn barod i egluro penderfyniadau a chamau i bobl sydd â diddordeb.
- 2.5. Bydd unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol i'r polisi hwn yn cydymffurfio â'r DCAAY(C), a byddant yn destun ymgynghoriad â phartïon perthnasol, gan gynnwys undebau llafur cydnabyddedig.

3. CYDRADDOLDEBAU

- 3.1. Mae'r Ysgol yn ymrwymedig i sicrhau cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn. Bydd y Corff Llywodraethu yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth cydraddoldeb berthnasol, gan gynnwys.
 - Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999;
 - Deddf Cydraddoldeb 2010;
 - Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996;
 - Rheoliadau Gweithwyr Rhan-amser (Atal Triniaeth Lai Ffatriol) 2000;
 - Rheoliadau Gweithwyr Cyfnod Penodol (Atal Triniaeth Lai Ffatriol) 2002; a
 - Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010
- 3.2. Cymhwysir y Polisi hwn yn gyson i bob cyflogai a hynny heb ystyried oedran, anabledd, hil, rhywedd (rhyw), ailbennu rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth, crefydd, cred na chyfeiriadedd rhywiol.

- 3.3. Bydd y Corff Llywodraethu yn hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, yn benodol mewn perthynas â phob penderfyniad ar hysbysebu swyddi, penodi, dyrchafu a thalu staff, a hyfforddi a datblygu staff.
- 3.4. Bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod prosesau talu'n dryloyw ac yn deg. Bydd pob penderfyniad a wneir yn cael ei gyfiawnhau a'i gofnodi'n wrthrychol. Bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud fesul achos, er mwyn ystyried amgylchiadau unigolion, er enghraifft absenoldeb hirdymor oherwydd mamolaeth neu afiechyd, gan gynnwys absenoldeb yn ymwneud â COVID.

4. SWYDD-DDISGRIFIADAU

- 4.1. Bydd y Pennaeth yn sicrhau bod gan bob aelod o'r staff swydd-ddisgrifiad yn unol â strwythur staffio yr Ysgol (**gweler Atodiad 10**), fel y cytunwyd gan y Corff Llywodraethu.

5. GWERTHUSIADAU

- 5.1. Bydd y Corff Llywodraethu yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 o ran gwerthuso Penaethiaid ac Athrawon trwy gymhwyso Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol.

6. RHWYMEDIGAETHAU'R CORFF LLYWODRAETHU

- 6.1. Bydd y corff llywodraethu yn gwneud y canlynol:
- cyflawni ei rwymedigaethau fel y'u nodir yn y DCAAY(C) a'r Amodau Gwasanaeth i Athrawon Ysgol yng Nghymru a Lloegr (y "Burgundy Book");
 - sefydlu Pwyllgor Cyflogau a Phwyllgor Apeliadau Cyflog;
 - gwneud pob penderfyniad ynghylch datblygiad cyflog, gan ystyried argymhellion y Pennaeth;
 - sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi penderfyniadau ynghylch cyflogau, yn unol â'r Polisi Cyflogau hwn a chynllun gwariant yr Ysgol;
 - sicrhau bod athrawon, trwy'r Pennaeth, yn cael gwybod am benderfyniadau ynghylch cyflogau sy'n effeithio arnynt, a bod cofnodion yn cael eu cadw o'r argymhellion a'r penderfyniadau a wneir; a
 - monitro'n flynyddol canlyniadau penderfyniadau ynghylch cyflogau, gan gynnwys i ba raddau y gall grwpiau gwahanol o athrawon ddatblygu ar gyfraddau gwahanol. Bydd canlyniad yr adolygiad yn cael ei rannu â chynrychiolwyr undebau llafur lefel ysgol.

7. RHWYMEDIGAETHAU'R PENNAETH

- 7.1. Bydd y Pennaeth yn gwneud y canlynol:
- sicrhau bod pob gwerthuswr (os nad y Pennaeth yw hwnnw) yn darparu gwybodaeth gywir, berthnasol, gyflawn ac amserol am argymhellion ynghylch cyflogau;
 - cymedroli asesiadau perfformiad ac argymhellion cychwynnol ynghylch cyflogau i sicrhau cysondeb a thegwch;

- cyflwyno argymhellion perthnasol ynghylch cyflogau i'r Pwyllgor Cyflogau, a sicrhau bod y Pwyllgor Cyflogau yn cael gwybodaeth berthnasol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch cyflogau;
- rhoi gwybod i'r Athrawon am Bolisi Cyflogau yr Ysgol, a sicrhau bod copi ar gael iddynt;
- rhoi gwybod i'r staff sy'n gweinyddu'r gyflogres a/neu'r staff adnoddau dynol yn yr Awdurdod Lleol am benderfyniadau ynghylch cyflogau y mae angen eu rhoi ar waith; a
- sicrhau bod adroddiad ar weithrediad y Polisi Cyflogau yn cael ei gyflwyno i'r Corff Llywodraethu a'r Undebau Llafur perthnasol yn flynyddol.

8. RHWYMEDIGAETHAU ATHRAWON

8.1. Bydd yr Athrawon yn gwneud y canlynol:

- ymgyswddo â darpariaethau'r Polisi Cyflogau hwn, y DCAAY(C), y safonau proffesiynol perthnasol, a'r holl bolisiâu perthnasol ar gyflogaeth ysgolion; a
- mynd i'r afael â'r prosesau a nodir yn y Polisi hwn, a hynny mewn modd cadarnhaol.

9. DIFFERYNNAU

9.1. Yn fframwaith y DCAAY(C), bydd differynnau priodol yn cael eu creu a'u cynnal rhwng swyddi yn yr Ysgol, gan gydnabod atebolrwydd a phwysau swydd, ac angen y Corff Llywodraethu i recriwtio a chadw digon o Athrawon o'r ansawdd gofynnol ar bob lefel.

10. DIOGELU

10.1. Lle mae penderfyniad tâl yn arwain, neu'n gallu arwain, at ddechrau cyfnod diogelu, bydd y Corff Llywodraethu yn cydymffurfio â darpariaethau perthnasol y DCAAY(C) ac yn rhoi'r rhybudd gofynnol cyn gynted â phosibl a chyn pen mis ar ôl y penderfyniad.

11. MEDRUSRWYDD A DATBLYGIAD CYFLOG

11.1. Lle mae athro yn destun camau ffurfiol Gweithdrefn Medrusrwydd yr Ysgol, bydd prosesau rheoli perfformiad yr Ysgol yn cael eu gohirio mewn perthynas â'r Athro dan sylw nes i'r Weithdrefn Medrusrwydd ddod i'w chasgliad.

11.2. Pan gwblheir y Weithdrefn Medrusrwydd, bydd yr athro yn ailddechrau prosesau rheoli perfformiad yn unol â Pholisi'r Ysgol.

- 11.3. Ni fydd datblygiad cyflog yn ganiataol yn unol â'r Polisi Cyflog hwn tra bydd Athro yn destun camau ffurfiol Gweithdrefn Medrusrwydd yr Ysgol.
- 11.4. Ar ôl cwblhau'r Weithdrefn Medrusrwydd, byddai'r Athro'n ailymuno â'r cylch Rheoli Perfformiad.
- 11.5. Ni fydd datblygiad cyflog yn cael ei gymhwyso'n ôl-weithredol mewn unrhyw achos yn ymwneud â medrusrwydd ffurfiol.

12. PENNU CYFLOGAU

- 12.1. Mae'r corff llywodraethu wedi dirprwyo ei bwerau pennu cyflog i'r Pwyllgor Cyflogau.

12.2. Pennu Cyflogau yn Flynyddol

- 12.2.1. Bydd cyflogau'r holl staff addysgu, gan gynnwys y rheiny yn y grŵp arwain, yn cael eu hadolygu'n flynyddol, a hynny'n weithredol o 1 Medi. Bydd y Corff Llywodraethu yn cwblhau adolygiadau blynyddol o gyflog Athrawon, ynghyd ag asesiadau o geisiadau i ddatblygu i'r Ystod Cyflog Uwch, erbyn 31 Hydref; bydd gwerthusiadau blynyddol y Pennaeth yn cael eu cwblhau erbyn 31 Rhagfyr.
- 12.2.2. Gall adolygiadau gael eu cynnal ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn, er mwyn adlewyrchu, er enghraifft, unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau neu newidiadau yn y swydd-ddisgrifiad sy'n arwain at newid yn y sail ar gyfer cyfrifo cyflog unigolyn.
- 12.2.3. Bydd y Corff Llywodraethu yn cymhwyso unrhyw godiadau cyflog cenedlaethol yn y dyfodol fel y'u nodir yn y DCAAY(C).

12.3. Rhoi gwybod am benderfyniad ynghylch cyflogau

- 12.3.1. Bydd datganiad ysgrifenedig yn cael ei roi i bob Athro yn nodi'r cyflog ac unrhyw fuddion ariannol eraill y caiff eu hawlio ar ôl penderfyniad. Lle bo hynny'n berthnasol, bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch ar ba sail y gwnaed y penderfyniad. Bydd hyn yn cael ei wneud erbyn 31 Hydref ar gyfer Athrawon, 31 Rhagfyr ar gyfer Pennaethiaid, neu cyn pen mis ar ôl gwneud y penderfyniad.

12.4. Y Weithdrefn ar gyfer Apeliadau

- 12.4.1. Mae gan y Corff Llywodraethu weithdrefn ar gyfer apeliadau mewn perthynas â chyflogau. Fe'i heglurir yn **Atodiad 8** i'r Polisi Cyflogau hwn.

13. CYFLOG Y PENNAETH

- 13.1. Bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod y broses o bennu cydnabyddiaeth ariannol y Pennaeth yn deg ac yn dryloyw.
- 13.2. Bydd y Corff Llywodraethu yn pennu ystod cyflog arweinyddiaeth saith pwynt, y gellir ei hadolygu yn ôl yr angen ar gyfer y Pennaeth, a hynny'n seiliedig ar faint

grŵp yr ysgol ac unrhyw ffactorau perthnasol ychwanegol, parhaol sydd wedi'u pennu yn fframwaith y DCAAY(C) (yn benodol paragraffau 9.2, 9.3 a 9.4).

- 13.3. Bydd y ffactorau ychwanegol i'w hystyried yn cynnwys holl gyfrifoldebau parhaol y swydd, yr heriau sy'n benodol i'r rôl, a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill, ynghyd ag unrhyw ffactorau sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw staff.
- 13.4. Gall y Corff Llywodraethu ailbennu ystod cyflog y Pennaeth os bydd angen newid grŵp y Pennaeth (gan gynnwys lle bo'r Pennaeth yn cymryd cyfrifoldeb dros fwy nag un ysgol mewn ffederasiwn ac yn dod yn atebol am yr ysgolion hynny'n barhaol). Gall ystod cyflog y Pennaeth hefyd gael ei hadolygu ar unrhyw adeg os ystyrir bod angen adlewyrchu newid arwyddocaol o ran cyfrifoldebau'r swydd.
- 13.5. Ni fydd taliadau ar gyfer cyfrifoldebau dros dro y Pennaeth yn cael eu cynnwys yn yr ystod cyflog, ond byddant yn cael eu pennu yn unol â'r DCAAY(C), fel yr eglurir yn **Atodiad 6**.
- 13.6. Yn yr Ysgol hon, bydd y Corff Llywodraethu yn defnyddio pwyntiau cyflog cyfeirio yn ôl disgrisiwn ar gyfer cyflog arweinwyr, fel y nodir yn Atodiad 1, ac mae wedi cytuno ar ystod cyflog saith cam, sef A xxx i A xxx (*y manylion i'w cynnwys yma gan yr ysgol*).
- 13.7. **Cyflog Adeg Penodi**
- 13.7.1. Yn achos penodiadau newydd, bydd y Corff Llywodraethu yn pennu'r ystod cyflog arweinwyr i'w hysbysebu, a bydd yn cytuno ar y cyflog cychwynol pan fydd y Pennaeth yn cael ei benodi, a hynny gan ystyried rôl lawn y Pennaeth a darpariaethau'r DCAAY(C).
- 13.7.2. Bydd y Corff Llywodraethu yn mabwysiadu proses tri cham wrth osod y cyflog ar gyfer Pennaeth newydd, fel y nodir yn **Atodiad 6**.
- 13.7.3. Bydd y Pwyllgor Cyflogau yn adolygu grŵp Pennaeth yr Ysgol ac ystod cyflog arweinwyr y Pennaeth, yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau perthynoleddau cyflog teg yn yr Ysgol.
- 13.7.4. Gweler **Atodiad 6** i'r Polisi Cyflogau hwn am ganllawiau ynghylch ystodau cyflog arweinwyr, ac **Atodiad 7** am Ddatganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau.
- 13.8. **Pennaethiaid sy'n gyfrifol ac yn atebol am fwy nag un ysgol yn barhaol**
- 13.8.1. Pan benodir Pennaeth i fod yn gyfrifol ac yn atebol yn barhaol am fwy nag un ysgol, dylai'r Corff Llywodraethu seilio'r penderfyniad ynghylch grŵp y Pennaeth ar gyfanswm nifer yr unedau disgyblion ar draws pob ysgol, a fydd yn rhoi maint grŵp ar gyfer y ffederasiwn yn unol ag **Atodiad 6**.
- 13.8.2. Bydd hefyd angen rhoi ystyriaeth i'r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Athrawon eraill a fydd, o ganlyniad i rôl y Pennaeth, yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol. Bydd y rhain yn seiliedig ar unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r swydd (nid yr Athro), a gofnodir. Ni ddylid cytuno i gynyddu'r

gydnabyddiaeth ariannol oni bai fod y swydd yn cronni cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i rôl fwy y Pennaeth – nid yw'n awtomatig.

14. CYFLOG Y DIRPRWY BENNAETH/PENNAETH CYNORTHWYOL

14.1. Yn yr Ysgol hon, bydd y Corff Llywodraethu yn defnyddio'r pwyntiau cyflog yn ôl disgrisiwn ar gyfer cyflogau arweinwyr, fel y nodir yn **Atodiad 1**.

14.2. Bydd y Corff Llywodraethu yn pennu ystod cyflog arweinwyr pum pwynt a gymerwyd o'r ystod cyflog arweinwyr yn y DCAAY(C) fel y nodir yn Atodiad 1. Gellir adolygu hyn yn ôl yr angen ar gyfer swyddi Dirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol yn seiliedig ar faint grŵp yr ysgol ac unrhyw ffactorau perthnasol ychwanegol parhaol, fel y'u pennir yn fframwaith y DCAAY(C).

14.3. Bydd yr ystod ar gyfer swyddi unigol yn cael ei phennu yn unol â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, a gall amrywio o swydd i swydd.

14.4. Yn yr ysgol hon, ystod cyflog pum cam y Dirprwy Bennaeth yw **A xx i A xxx** (*manylion y cyflog i'w nodi yma gan yr ysgol*).

14.5. Yn yr Ysgol hon, ystod cyflog pum cam y Pennaeth Cynorthwyol yw **A xx i A xxx** (*manylion y cyflog i'w nodi yma gan yr ysgol*).

14.6. Cyflog Adeg Penodi

14.6.1. Pan fydd angen gwneud penodiad newydd, bydd y Corff Llywodraethu yn pennu'r ystod cyflog arweinwyr ar gyfer y swydd i'w hysbysebu, a bydd yn cytuno ar y cyflog cychwynnol pan fydd y Dirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol yn cael ei benodi.

14.6.2. Bydd yr ystod cyflog yn cael ei phennu yn unol â'r DCAAY(C).

14.6.3. Bydd y Corff Llywodraethu yn mabwysiadu'r broses tri cham wrth osod y cyflog ar gyfer penodiadau newydd i'r tîm arwain ehangach, fel y nodir yn **Atodiad 6**.

15. DATBLYGIAD CYFLOG AR GYFER AELODAU'R GRŴP ARWAIN

15.1. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ystyried yn flynyddol a ddylid cynyddu cyflogau aelodau o'r grŵp arwain sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth oddi ar y tro diwethaf i gyflogau gael eu pennu ac, os yw'n penderfynu gwneud hynny, i ba gyflog o fewn yr ystod cyflog berthnasol, a bennir yn unol â'r DCAAY(C).

15.2. Bydd unigolyn wedi cwblhau 'blwyddyn o gyflogaeth' os bydd wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sy'n gyfwerth ag o leiaf 26 wythnos, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. I'r dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth yn cychwyn i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, pa un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn-amser, yn rhan-amser, yn rheolaidd neu fel arall.

-
- 15.3. Dylai'r cyflog ddatblygu'n flynyddol o 1 Medi, gan dybio o blaid cynnydd oni bai fod yr unigolyn wedi cael ei hysbysu trwy weithdrefnau medruswydd ffurfiol fod y gwasanaeth yn anfoddfaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.
- 15.4. Gall y Corff Llywodraethu ddyfarnu pwynt ychwanegol i unrhyw Bennaeth, Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol, yr oedd ei berfformiad yn y flwyddyn flaenorol yn rhagorol, yn enwedig mewn perthynas â'r amcanion y cytunwyd arnynt.
- 15.5. Gellir penderfynu peidio â dyfarnu datblygiad cyflog lle mae'r Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth neu'r Pennaeth Cynorthwyol yn destun achos medruswydd ffurfiol.
- 15.6. Bydd y Pwyllgor Cyflogau yn cofnodi ei benderfyniad ynghylch datblygiad cyflog ar y ffurflen Adolygu Cyflog Blynyddol yn **Atodiad 7**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei ddarparu i'r aelod o'r staff.
- 15.7. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr aelod o'r staff yn cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi yn y flwyddyn academaidd gyfredol.
- 15.8. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei chofnodi ar ffurflen yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau. Mae gan yr aelod o'r staff yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn apelio i'w gweld yn **Atodiad 8**.

16. CYFLOG ATHRAWON DOSBARTH

16.1. Cyflog Adeg Penodi

- 16.1.1. Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi gwag yn yr Ysgol yn cael eu hystyried gan y Pennaeth [a'r (*nodwch fanylion y pwyllgor*) os yw'n briodol]. Bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu naill ai'n fewnol neu'n allanol, yn lleol neu'n genedlaethol, fel y bo'n briodol.
- 16.1.2. Bydd yr hysbyseb yn cynnwys manylion yr ystod cyflog ac unrhyw lwfansau neu daliadau ychwanegol sy'n berthnasol i'r swydd.
- 16.1.3. Bydd y Corff Llywodraethu yn pennu'r cyflog cychwynnol ar gyfer swydd Athro dosbarth, yn unol â'r Brif Ystod Cyflog a'r Ystod Cyflog Uwch, y manylir arnynt yn **Atodiad 1**.
- 16.1.4. Bydd y corff llywodraethu'n pennu cyflog dechreuol ar gyfer swydd wag athro ystafell ddosbarth. Mae'r corff llywodraethu yn ymrwymedig i egwyddor cludadwyedd tâl i athrawon sy'n cael eu talu ar hyn o bryd yn unol â darpariaethau'r DCAAY(C) neu'r DCAAY, a bydd yn cymhwyso'r egwyddorion a nodir ym mharagraff 12.3 o'r DCAAY(C) yn ymarferol wrth wneud penodiadau newydd.
- 16.1.5. Wrth bennu'r cyflog cychwynnol ar gyfer athro dosbarth presennol mewn ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr ac sy'n cael ei dalu yn unol â'r DCAAY(C) neu'r DCAAY, bydd y corff llywodraethu yn talu'r athro ar y brif ystod cyflog neu'r ystod cyflog uwch, a hynny ar bwynt ar y raddfa sydd o leiaf yn

cynnal hawl blaenorol yr athro i dâl, ac unrhyw ddatblygiad cyflog, y byddai wedi ei gael pe byddai wedi aros yn ei swydd flaenorol.

- 16.1.6. Bydd cludadwyedd cyflog yn cael ei gymhwyso ar sail "pro rata" pan fydd athro yn symud i/o swydd addysgu ran-amser.
- 16.1.7. At hynny, os yw'r ymgeisydd llwyddiannus yn athro sydd wedi cael seibiant o'r gwasanaeth, yna gall y corff llywodraethu bennu ei bwynt ar y raddfa yn seiliedig ar ei gyflog terfynol blaenorol a dalwyd yn unol â'r DCAAY(C) neu'r DCAAY, gan gynnwys unrhyw gynyddrannau y byddai'r athro wedi bod â hawl i'w gael pe bai wedi aros yn ei swydd flaenorol ar yr adeg y digwyddodd y newid mewn cyflogaeth. Gall y Corff Llywodraethu ystyried unrhyw brofiad perthnasol a gafwyd o rôl addysgu mewn sector arall yng Nghymru neu awdurdodaeth neu gyfnod o gyflogaeth mewn sector perthnasol y tu allan i addysgu.
- 16.1.8. Rhaid i gludadwyedd cyflog rychwantu toriad yn y gwasanaeth addysgu am resymau iechyd a chymdeithasol fel rhesymau mamolaeth/tadolaeth, meddygol neu deuluol. Mewn sefyllfa lle mae'r cyflogwr newydd yn bwriadu cymryd safbwynt gwahanol, rhaid i'r seiliau dros wneud hynny fod yn anwahaniaethol mewn perthynas â chydaddoldeb a deddfwriaeth berthnasol arall.
- 16.1.9. Ni fydd y Corff Llywodraethu yn cyfyngu ar yr ystod cyflog a hysbysebir, na'r cyflog cychwynnol na'r rhagolygon ar gyfer datblygiad cyflog o ran swyddi Athrawon dosbarth, heblaw am isafswm y Brif Ystod Cyflog ac uchafswm yr Ystod Cyflog Uwch.
- 16.2. **Datblygiad Cyflog ar gyfer Athrawon sydd ar y Brif Ystod Cyflog ar hyn o bryd**
- 16.2.1. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ystyried yn flynyddol a ddylid cynyddu cyflogau athrawon (ac eithrio Athrawon Newydd Gymhwyso sy'n ymgymryd â'u blwyddyn ymsefydlu) sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth oddi ar y tro diwethaf i gyflogau gael eu pennu ac, os yw'n penderfynu gwneud hynny, i ba gyflog o fewn yr ystod cyflog berthnasol a bennir yn unol â'r DCAAY(C).
- 16.2.2. Dyfernir datblygiad cyflog i Athrawon yn eu blwyddyn ymsefydlu wedi iddynt gwblhau eu blwyddyn ymsefydlu yn llwyddiannus.
- 16.2.3. Bydd unigolyn wedi cwblhau 'blwyddyn o gyflogaeth' os bydd wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sy'n gyfwerth ag o leiaf 26 wythnos, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. I'r dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth y cychwyn i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, pa un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn-amser, yn rhan-amser, yn rheolaidd neu fel arall.
- 16.2.4. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ddyfarnu datblygiad cyflog o un pwynt i Athro sydd ar bwyntiau M1 i M5 o'r Brif Raddfa Gyflog wedi iddo gwblhau blwyddyn o gyflogaeth a gwblhawyd yn rôl Athro cymwysedig yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, oni bai fod yr Athro wedi cael gwybod trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod ei wasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.

- 16.2.5. Dylai'r cyflog ddatblygu'n flynyddol o 1 Medi, gan dybio o blaid cynnydd oni bai fod yr unigolyn wedi cael ei hysbysu trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod y gwasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.
- 16.2.6. Gall y Corff Llywodraethu ddyfarnu pwynt ychwanegol i unrhyw Athro ar y Brif Raddfa yr oedd ei berfformiad yn y flwyddyn flaenorol yn rhagorol, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu yn yr ystafell ddosbarth.
- 16.2.7. Gellir gwneud penderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog lle mae'r Athro yn destun gweithdrefnau medrusrwydd ffurfiol.
- 16.2.8. Bydd y Pwyllgor Cyflogau yn cofnodi ei benderfyniad ynghylch datblygiad cyflog yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon yn **Atodiad 2**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei darparu i'r athro.
- 16.2.9. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr Athro yn cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi yn y flwyddyn academaidd gyfredol.
- 16.2.10. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei chofnodi yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon. Mae gan yr athro yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn apelio i'w gweld yn **Atodiad 8**.
- 16.3. **Datblygiad Cyflog ar gyfer Athrawon sydd ar Ystod Cyflog Uwch ar hyn o bryd**
- 16.3.1. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ystyried yn flynyddol a ddylid cynyddu cyflogau athrawon ar yr ystod cyflog uwch sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth oddi ar y tro diwethaf i gyflogau gael eu pennu ac, os yw'n penderfynu gwneud hynny, i ba gyflog o fewn yr ystod cyflog berthnasol a bennir yn unol â'r DCAAY(C).
- 16.3.2. Bydd unigolyn wedi cwblhau 'blwyddyn o gyflogaeth' os bydd wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sy'n gyfwerth ag o leiaf 26 wythnos, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. I'r dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth y cychwyn i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, pa un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn-amser, yn rhan-amser, yn rheolaidd neu fel arall.
- 16.3.3. Yn y mwyafrif o achosion, dylai datblygiad ar y Raddfa Gyflog Uwch ddigwydd **pob dwy flynedd**, gan dybio o blaid cynnydd oni bai fod yr unigolyn wedi cael ei hysbysu trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod y gwasanaeth yn anfoddhaol, fel y nodir yn Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011.
- 16.3.4. Bydd y Pwyllgor Cyflogau yn cofnodi ei benderfyniad ynghylch datblygiad cyflog yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon sydd yn **Atodiad 2**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei darparu i'r athro.
- 16.3.5. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr Athro yn cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi yn y flwyddyn academaidd gyfredol.
-

16.3.6. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei chofnodi yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon. Mae gan yr athro yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn apelio i'w gweld yn **Atodiad 8**.

17. CEISIADAU AM GYFLOG AR YR YSTOD CYFLOG UWCH

17.1. Gall Athro cymwysedig wneud cais unwaith bob blwyddyn i gael ei dalu ar yr Ystod Cyflog Uwch, yn unol â'r DCAAY(C) a Pholisi Cyflogau yr Ysgol hon.

17.2. Cyfrifoldeb pob Athro yw penderfynu a ddylai gyflwyno cais.

17.3. Er mwyn i'r asesiad fod yn gadarn ac yn dryloyw, bydd yn broses sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

17.4. Bydd yr amcanion personol ar gyfer y cylch gwerthuso sydd ar ddod yn cael eu gosod a'u cadarnhau ar lefel sy'n ddigonol i sicrhau y gellir bodloni'r meini prawf sydd wedi'u cynnwys yn y DCAAY(C) ar gyfer symud ymlaen i'r Ystod Cyflog Uwch, gan gynnwys bod yr Athro yn gymwys iawn ym mhob elfen o'r safonau perthnasol, a bod ei gyflawniadau a'i gyfraniad i'r ysgol yn sylweddol ac yn barhaus.

17.5. Gall athrawon sydd wedi bod yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch, anabled neu resymau sy'n gysylltiedig â mamolaeth, ynghyd â'r rheiny nad ydynt yn destun Rheoliadau Gwerthuso 2011 (h.y. athro a gyflogir ar gontract byrdymor o lai nag un tymor), ddyfynnu tystiolaeth ysgrifenedig o gyfnod addas a pherthnasol cyn dyddiad y cais i gefnogi eu cais.

17.6. Y broses

17.6.1. Y dyddiad cau ar gyfer cais sydd i'w gyflwyno gan Athro i'w werthuswr yw **(yr ysgol i nodi dyddiad yma – fel arfer cyn diwedd Tymor yr Haf, h.y. 31 Awst)**.

17.6.2. Gellir gwneud eithriadau mewn rhai amgylchiadau penodol, e.e. yr Athrawon hynny sydd ar gyfnod mamolaeth neu sy'n absennol oherwydd salwch ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Mewn amgylchiadau o'r fath, gall yr athro ofyn – o leiaf pythefnos cyn y dyddiad cau a nodwyd – am estyniad o hanner tymor ar y mwyaf ar gyfer cyflwyno cais.

17.6.3. Mae'r broses ar gyfer cyflwyno cais fel a ganlyn:

- Mae'r athro yn rhoi gwybod i'r gwerthuswr yn ysgrifenedig ei fod yn dymuno cael ei ystyried i ddringo i'r Ystod Cyflog Uwch ac y dylai ei amcanion personol ar gyfer y cyfnod gwerthuso dwy flynedd sydd i ddod adlewyrchu'r cais hwn.

Yn dilyn cwblhau'r cyfnod gwerthuso perthnasol:

- Bydd y gwerthuswr yn llenwi ffurflen asesu, fel y gwelir yn **Atodiad 4**, gan nodi argymhelliad y gwerthuswr mewn perthynas â datblygu i'r Ystod Cyflog Uwch, yn dilyn cwblhau'r cyfnod gwerthuso perthnasol.

- Bydd y Pennaeth yn ystyried argymhelliad y gwerthuswr ac yn gwneud argymhelliad i'r Pwyllgor Cyflogau.
- Bydd y Pwyllgor Cyflogau yn gwneud penderfyniad ynghylch datblygiad cyflog, ar ôl cael cyngor gan y Pennaeth.
- Bydd yr athro yn cael hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad ei gais erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn berthnasol.
- Os yw'r cais yn aflwyddiannus, bydd yr hysbysiad ysgrifenedig yn egluro pa feysydd o berfformiad yr Athro nas ystyrir eu bod wedi bodloni'r meini prawf perthnasol a nodir yn y Polisi hwn (gweler "Asesu" isod).
- Os gofynnir amdano, bydd adborth ar lafar yn cael ei roi gan y Pennaeth. Fel arfer, bydd adborth ar lafar yn cael ei roi cyn pen 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad y rhoddwyd gwybod am ganlyniad y cais. Bydd adborth yn cael ei roi mewn modd cadarnhaol, a bydd yn cynnwys cyngor a chymorth ynghylch meysydd i'w gwella, er mwyn i'r athro fodloni'r meini prawf perthnasol.
- Os yw'r cais yn llwyddiannus, bydd yr athro yn symud i gam 1 o'r Ystod Cyflog Uwch ar 1 Medi yn y flwyddyn berthnasol, h.y. ar ôl llwyddo i gwblhau'r amcanion a osodwyd yn y flwyddyn academaidd hyd at 31 Awst 2020, bydd yr athro yn symud i'r cam cyntaf ar yr Ystod Cyflog Uwch ar 1 Medi 2020.

17.6.4. Gall ymgeiswyr aflwyddiannus apelio yn erbyn y penderfyniad, fel yr amlinellir yn **Atodiad 8**.

17.7. **Asesu**

17.7.1. Ni fydd cais yn llwyddiannus oni bai fod y Corff Llywodraethu yn fodlon bod holl ofynion y DCAAY(C) wedi'u bodloni, gan gynnwys:

- bod yr athro yn gymwys iawn ym mhob elfen o'r safonau perthnasol; a
- bod cyflawniadau'r athro, a'i gyfraniad at leoliad neu leoliadau addysgol, yn sylweddol ac yn gyson.

17.7.2. At ddibenion y Polisi Cyflogau hwn, bydd y Pwyllgor Cyflogau yn fodlon bod yr Athro wedi bodloni disgwyliadau'r Corff Llywodraethu ar gyfer symud ymlaen i'r Ystod Cyflog Uwch lle bydd meini prawf yr Ystod Cyflog Uwch (gweler **Atodiad 3**) wedi'u bodloni, fel y profwyd gan adolygiad gwerthuso llwyddiannus.

17.7.3. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion am ffynonellau tystiolaeth, ar gael ym Mholisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol.

18. **RÔL YMARFERWR ARWEINIOL**

- 18.1. Gall y Corff Llywodraethu greu swyddi Ymarferwyr Arweiniol ar gyfer athrawon sydd â'r prif ddiben o fodelu ac arwain ym maes gwella sgiliau addysgu.
- 18.2. Os bydd y Corff Llywodraethu yn dymuno creu swyddi o'r fath, bydd yn pennu'r cyfrifoldebau a'r ystod cyflog i'r swyddi hyn. Ymgynghorir â'r staff a'r undebau llafur perthnasol ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig o'r fath i'r strwythur staffio.
- 18.3. Polisi'r Corff Llywodraethu fydd penodi unrhyw Athro Ymarferydd Arweiniol newydd i ystod pum pwynt, fel sy'n briodol ym marn y Corff Llywodraethu.
- 18.4. Bydd yr ystod cyflog ar gyfer Ymarferwyr Arweiniol yn cydweddu â'r DCAAY(C), sef isafswm o £43,145 y flwyddyn ar hyn o bryd ac uchafswm o £65,590 y flwyddyn.
- 18.5. Yn yr Ysgol hon, bydd y Corff Llywodraethu yn defnyddio'r pwyntiau cyflog cyfeirio yn ôl disgrisiwn, fel y nodir yn **Atodiad 1**.
- 18.6. Bydd datblygiad cyflog ar gyfer Ymarferwyr Arweiniol yn cael ei bennu yn unol â'r broses a nodir yn 16.3.1 i 16.3.4 uchod.

19. ATHRAWON HEB GYMHWYSO

- 19.1. Bydd cyflog blynyddol yn cael ei dalu i athro ar yr ystod cyflog heb gymhwysu yn unol â DCAAY(C). Yn yr ysgol hon, bydd y Corff Llywodraethu yn defnyddio'r pwyntiau cyflog statudol fel y nodir yn **Atodiad 1**.
- 19.2. O dan Reoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010, mae yna amgylchiadau penodol lle caiff y rheiny heblaw Athrawon cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysgu wneud 'gwaith penodedig'.
- 19.3. Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol hyn, ac ni fydd ond yn cyflogi athrawon heb gymhwysu fel y nodir yn y Rheoliadau hyn.
- 19.4. Gall y Corff Llywodraethu dalu lwfans ychwanegol i Athro heb gymhwysu sy'n bodloni'r meini prawf fel y'u diffinnir yn y DCAAY(C).
- 19.5. Mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu ddyfarnu datblygiad cyflog o un pwynt i Athro sydd ar bwntiau 1 i 6 o Raddfa Gyflog yr Athrawon heb Gymhwysu wedi iddo gwblhau blwyddyn o gyflogaeth a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, oni bai fod yr Athro wedi cael gwybod trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod ei wasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.
- 19.6. Bydd unigolyn wedi cwblhau 'blwyddyn o gyflogaeth' os bydd wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sy'n gyfwerth ag o leiaf 26 wythnos, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. I'r dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth y cychwyn i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, p'un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn-amser, yn rhan-amser, yn rheolaidd neu fel arall.

- 19.7. Dylai datblygiad cyflog ar y Raddfa Gyflog Athrawon heb Gymhwyso 6 phwynt ddiwydd yn flynyddol o 1 Medi, gan dybio o blaid datblygiad oni bai fod yr unigolyn wedi cael gwybod trwy weithdrefnau medruswydd ffurfiol fod ei wasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.
- 19.8. Bydd y Pwyllgor Cyflogau yn cofnodi ei benderfyniad ynghylch datblygiad cyflog yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon yn **Atodiad 2**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei darparu i'r athro heb gymhwyso.
- 19.9. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr Athro heb gymhwyso yn cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi yn y flwyddyn academaidd gyfredol.
- 19.9.1. Gellir gwneud penderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog lle mae'r Athro yn destun gweithdrefnau medruswydd ffurfiol.
- 19.10. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei chofnodi yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon. Mae gan yr athro yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn apelio i'w gweld yn **Atodiad 8**.
- 19.11. Bydd Athro heb gymhwyso sy'n ennill statws athro cymwysedig yn cael ei dalu ar yr ystodau cyflog ar gyfer Athrawon cymwysedig, yn unol â'r Polisi Cyflogau hwn a'r DCAAY(C).

20. LWFANSAU A THALIADAU YN ÔL DISGRESIWN

20.1. Taliadau Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu (CAD)

- 20.1.1. Bydd y Corff Llywodraethu yn dyfarnu taliadau CAD1 a CAD2 i ddeiliaid swyddi fel y nodir yn strwythur staffio'r Ysgol (gweler **Atodiad 10**).
- 20.1.2. Bydd y taliadau hyn yn cael eu dyfarnu i Athrawon sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb ychwanegol, sydd wedi'i ddiffinio'n glir ac sy'n barhaus, a hynny yng nghyd-destun strwythur staffio'r Ysgol ac at ddiben sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn parhau i gael eu darparu, ac y gwneir yr Athro yn atebol amdano.
- 20.1.3. Bydd pob swydd-ddisgrifiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn egluro am ba gyfrifoldeb neu becyn o gyfrifoldebau y mae taliad CAD yn cael ei ddyfarnu.
- 20.1.4. Bydd y meini prawf ar gyfer dyfarnu taliad CAD1 a CAD2 yn cydweddu â'r DCAAY(C).
- 20.1.5. Yr ystod ar gyfer CAD1 yw £8,437 i £14,276 y flwyddyn.
- 20.1.6. Yr ystod ar gyfer CAD2 yw £2,924 i £7,140 y flwyddyn.
- 20.1.7. Yn yr ysgol hon, mae'r taliadau CAD a ddefnyddir ar hyn o bryd fel a ganlyn:

CAD1 - (*manyliion pob CAD1 i'w mewnosod yma gan yr ysgol*)
CAD2 - (*manyliion pob CAD2 i'w mewnosod yma gan yr ysgol*)

- 20.1.8. Gall y Corff Llywodraethu ddyfarnu taliad CAD3 rhwng £581 a £2,883 y flwyddyn am gyfnod penodol i athro ar gyfer prosiect gwella ysgol sydd â therfyn amser clir, neu ar gyfer cyfrifoldebau allanol untro.
- 20.1.9. Bydd hyd y cyfnod penodol, a chyfanswm y taliad blynyddol, yn cael eu pennu ar y cychwyn, a bydd taliad yn cael ei wneud yn fisol.
- 20.1.10. Os bydd y Corff Llywodraethu yn dymuno gwneud taliadau CAD3, bydd y cyfrifoldebau arfaethedig, ynghyd â lefel a hyd y taliad, yn cael eu pennu'n glir yn dilyn gwaith ymgynghori â'r staff perthnasol a chynrychiolwyr yr undebau.
- 20.1.11. Gall athro sy'n cael taliad CAD1 neu daliad CAD2 hefyd gael taliad CAD3 ar yr un pryd.
- 20.1.12. Ni fydd unrhyw ddiogelu'n berthnasol mewn perthynas â dyfarnu taliad CAD3.
- 20.1.13. Bydd taliad CAD1 neu CAD2 a ddyfernir i athro rhan-amser yn cael ei ddyfarnu ar sail pro rata, ond lle dyfarnir taliad CAD3 i athro rhan-amser, ni fydd yr egwyddor pro rata yn berthnasol.
- 20.2. Lwfansau Anghenion Addysgol Arbennig**
- 20.2.1. Bydd y Corff Llywodraethu yn dyfarnu lwfansau AAA yn unol â'r meini prawf a'r darpariaethau a nodir yn y DCAAY(C).
- 20.2.2. Bydd Lwfans AAA, heb fod yn llai na £2,310 y flwyddyn, nac yn fwy na £4,558 y flwyddyn, yn daladwy i Athro dosbarth yn unol â'r DCAAY(C).
- 20.2.3. Yn yr Ysgol hon, y gwerthoedd AAA yw: (*many lion pob Lwfans/gwerth AAA i'w mewnosod yma gan yr ysgol*)
- 20.2.4. Wrth benderfynu ar werth lwfans AAA, bydd y Corff Llywodraethu yn ystyried strwythur darpariaeth AAA yr Ysgol, a oes angen unrhyw gymwysterau gorfodol ar gyfer y swydd, cymwysterau neu arbenigedd yr Athro sy'n berthnasol i'r swydd, a gofynion perthynol y swydd.
- 20.3. Lwfansau Dros Dro**
- 20.3.1. Mae lwfansau dros dro yn daladwy i athrawon y neilltuir dyletswyddau Pennaeth, Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol iddynt, ac sy'n cyflawni'r dyletswyddau hyn yn unol â'r DCAAY(C).
- 20.3.2. Cyn pen pedair wythnos o ddechrau dyletswyddau dros dro, bydd y Corff Llywodraethu yn pennu a fydd deiliad y swydd dros dro yn cael lwfans ai peidio. Yn achos absenoldeb maith wedi'i gynllunio, efallai y bydd lwfans dros dro yn cael ei gytuno ymlaen llaw, a'i dalu o ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb.
- 20.3.3. Bydd unrhyw athro sy'n cyflawni dyletswyddau Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, neu Bennaeth Cynorthwyol, am gyfnod o bedair wythnos neu fwy, yn cael ei dalu ar bwynt priodol yn ystod cyflog Penaethiaid, ystod cyflog Dirprwy Benaethiaid neu

ystod cyflog Penaethiaid Cynorthwyol, fel y pennir gan y Pwyllgor Cyflogau. Bydd taliad yn cael ei ôl-ddyddio i ddechrau'r dyletswyddau, ond bydd fel arfer yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau misol.

20.3.4. Efallai y bydd lwfansau dros dro hefyd yn berthnasol i Athrawon sy'n cyflenwi ar gyfer cyd-weithwyr absennol sy'n cael taliad CAD a/neu lwfans AAA.

20.3.5. Gall lwfansau ychwanegol fod yn daladwy i Athrawon heb gymhwyso yn unol â'r DCAAY(C).

20.4. Taliadau Ychwanegol

20.4.1. Ac eithrio yn achos y rheini ar yr ystod arwain, caiff y Corff Llywodraethu wneud taliadau ychwanegol i athro, o ran:

- datblygiad proffesiynol parhaus a wneir y tu allan i'r diwrnod ysgol;
- gweithgareddau sy'n gysylltiedig â darparu hyfforddiant cychwynol athrawon yn rhan o'r hyn sy'n digwydd fel mater o drefn yn yr Ysgol;
- cymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu y tu allan i oriau ysgol y cytunwyd arno rhwng yr Athro a'r Pennaeth; a
- chyfrifoldebau a gweithgareddau ychwanegol yr Athro i ddarparu gwasanaethau ar gyfer codi safonau addysgol un neu ragor o ysgolion ychwanegol, neu mewn perthynas â hynny.

20.5. Buddion Cymhelliad Recriwtio neu Gadw

20.5.1. Gall y corff llywodraethu ddyfarnu cyfandaliadau, taliadau cyfnodol, neu ddarparu cymorth ariannol, cynhaliath neu fuddion eraill ar gyfer cymhelliad recriwtio neu gadw. Wrth benderfynu ar unrhyw ddyfarniadau o'r fath, bydd y Corff Llywodraethu yn ystyried y DCAAY(C) ynghyd â chynghor arbenigol o ran Adnoddau Dynol.

20.5.2. Ni cheir dyfarnu taliad o'r fath i Benaethiaid, Dirprwy Benaethiaid na Phenaethiaid Cynorthwyol heblaw i ad-dalu costau adleoli neu gostau tai rhesymol.

20.5.3. Bydd yr holl ystyriaethau eraill o ran recriwtio a chadw staff mewn perthynas â swydd Pennaeth, Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol yn cael eu hystyried wrth bennu'r ystod cyflog.

20.5.4. Caiff y rheswm dros ddyfarnu unrhyw daliad ychwanegol, hyd disgwylidig unrhyw gymhelliad neu fudd o'r fath, a'r dyddiad adolygu, pan geir eu tynnu'n ôl, ei egluro o'r cychwyn, yn ysgrifenedig.

20.5.5. Bydd y Corff Llywodraethu yn cynnal adolygiad blynyddol o'r holl ddyfarniadau o'r fath.

21. CYFRIFO CYFLOGAU AC AMSER ATHRAWON RHAN AMSER

- 21.1. Ystyrir bod Athrawon a gyflogir yn barhaus yn yr ysgol ond sy'n gweithio llai nag wythnos waith lawn yn rhai rhan-amser.
- 21.2. Rhoddir datganiad ysgrifenedig i Athrawon rhan-amser sy'n disgrifio eu rhwymedigaethau o ran oriau gwaith a'r mecanwaith safonol a ddefnyddir i bennu eu cyflog, yn amodol ar ddarpariaethau'r trefniadau oriau gwaith a chyflog statudol a thrwy gymharu ag wythnos addysgu amserlen yr Ysgol ar gyfer Athro llawn-amser mewn swydd gyfwerth. Nid yw hyn yn effeithio ar y taliad CAD3, nad yw'n un pro rata ar gyfer staff rhan-amser. Gweler **Atodiad 9** i gael rhagor o wybodaeth.

22. ATHRAWON A GYFLOGIR AR FYR RYBUDD (CYFLENWI)

- 22.1. Bydd athrawon a gyflogir ar sail cyflenwi yn cael eu talu'n ddyddiol, wedi'i gyfrifo yn unol â'r dybiaeth fod blwyddyn waith lawn yn cynnwys 195 o ddiwrnodau; bydd cyfnodau o gyflogaeth sy'n llai na diwrnod yn cael eu cyfrifo ar sail pro rata.
- 22.2. Os yw'r ysgol yn defnyddio asiantaeth, mae'r ysgol yn ymrwymo i addewid gwirfoddol o ran asiantaethau cyflenwi, lle bydd yn caffael gan asiantaethau a enwir ymhlith Asiantaethau Cyflenwi Cymeradwy fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn unig, ac yn ymrwymo i dalu cyfradd ddyddiol ofynnol o $M2 \div 195$ diwrnod. Yr eithriad fydd, pan na all yr asiantaethau ar fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol gyflenwi'r athro â'r sgiliau addas, gall yr ysgol fynd at asiantaethau eraill, ond gydag ymrwymiad i dalu'r gyfradd tâl M2, o leiaf.
- Dilëir lle nad yw'r Corff Llywodraethu wedi ymrwymo i addewid gwirfoddol o ran asiantaethau cyflenwi***

YSTODAU CYFLOG 2020/21

Y Brif Ystod Cyflog:

Pwynt	Gwerth
PYC2	£27,491
PYC 3	£29,699
PYC 4	£31,987
PYC 5	£34,506
PYC 6	£37,974

Yr Ystod Cyflog Uwch:

Pwynt	Gwerth
YCU 1	£39,368
YCU 2	£40,827
YCU 3	£42,333

Ystod Cyflog Ymarferydd Arweiniol:

Pwynt	Gwerth
YA1	£43,145
YA 2	£44,226
YA 3	£45,330
YA 4	£46,458
YA 5	£47,615
YA 6	£48,809
YA 7	£50,124
YA 8	£51,279

YA 9	£52,560
YA 10	£53,911
YA 11	£55,309
YA 12	£56,584
YA 13	£57,998
YA 14	£59,444
YA 15	£60,923
YA 16	£62,543
YA 17	£63,979
YA 18	£65,590

Ystod Cyflog Athrawon Heb Gymhwyso:

Pwynt	Gwerth
AHG1	£18,487
AHG 2	£20,637
AHG 3	£22,786
AHG 4	£24,936
AHG 5	£27,088
AHG 6	£29,238

Ystod Cyflog Arweinwyr:

Pwynt	Gwerth
A1	£42,934
A2	£44,008
A3	£45,107
A4	£46,230

A5	£47,381
A6	£48,571
A7	£49,877
A8	£51,029
A9	£52,302
A10	£53,646
A11	£55,038
A12	£56,307
A13	£57,714
A14	£59,153
A15	£60,624
A16	£62,237
A17	£63,665
A18*	£64,620
A18	£65,266
A19	£66,886
L20	£68,543
A21*	£69,544
A21	£70,240
A22	£71,984
A23	£73,766
A24*	£74,847
A24	£75,596
A25	£77,474
A26	£79,391
A27*	£80,553

A27	£81,358
A28	£83,376
A29	£85,441
A30	£87,568
A31*	£88,841
A31	£89,731
A32	£91,961
A33	£94,245
A34	£96,575
A35*	£97,996
A35	£98,976
A36	£101,426
A37	£103,947
A38	£106,520
A39*	£108,035
A39	£109,116
A40	£111,838
A41	£114,632
A42	£117,504
A43	£119,248

* Y pwyntiau hyn, ynghyd â Phwynt A43, yw'r pwyntiau uchaf ar y raddfa ar gyfer wyth ystod y Grŵp Penaethiaid

DATGANIAD YR ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYFLOGAU ATHRAWON

Enw:	Rhif Cyflogai:
Ysgol:	Dyddiad Dod i Rym:

MANYLION CYFLOG

Cyflog a Phwynt – Y Brif Ystod Cyflog (PYC2 - PYC6)	£	Pwynt
Cyflog a Phwynt – Yr Ystod Cyflog Uwch (YCU1 – YCU3)	£	Pwynt
Cyflog a Phwynt – Ystod Heb Gymhwyso (AHG1 - AHG6)	£	Pwynt
Cyflog ar Ystod Ymarferydd Arweiniol	£	Pwynt

LWFANSAU

Manylion e.e. dros dro (gyda dyddiadau), y rheswm dros y lwfans

Taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (Gweler Cyngor y Polisi Cyflogau) CAD1 / CAD2 / CAD3	CAD____ £
Recriwtio neu Gadw (gweler Cyngor y Polisi Cyflogau)	£
Lwfans Anghenion Addysgol Arbennig (gweler Cyngor y Polisi Cyflogau)	£
Lwfansau Eraill – Nodwch (gweler Cyngor y Polisi Cyflogau)	£
DIOGELU	£
CYFANSWM CYFLOG	£

Cyfarfod y Pwyllgor Cyflogau ar:

Llofnod y Pennaeth/Cadeirydd y Pwyllgor: Dyddiad:

MEINI PRAWF AR GYFER DATBLYGU I'R YSTOD CYFLOG UWCH**1. Rhinweddau Proffesiynol**

- 1.1. Yn cyfrannu'n sylweddol, lle y bo'n briodol, at weithredu polisiau ac arferion y gweithle, ac at hyrwyddo cyfrifoldeb ar y cyd am eu gweithredu.

2. Gwybodaeth a Dealltwriaeth Broffesiynol

- 2.1. Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth helaeth o sut y mae defnyddio ac addasu amrywiaeth o strategaethau addysgu, dysgu a rheoli ymddygiad, gan gynnwys sut y mae personoli'r dysgu i roi cyfleoedd i bob dysgwr wireddu ei botensial.
- 2.2. Yn meddu ar wybodaeth helaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r trefniadau a'r gofynion asesu ar gyfer y pynciau/meysydd cwricwlwm a addysgir ganddynt, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â chymwysterau ac arholiadau cyhoeddus.
- 2.3. Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gyfredol o'r mathau gwahanol o gymwysterau a manylebau, a'u haddasrwydd i ddiwallu anghenion dysgwyr.
- 2.4. Yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth fwy datblygedig o'u pynciau/meysydd cwricwlwm a'r addysgeg gysylltiedig, gan gynnwys sut y mae dysgu'n datblygu ynddynt.
- 2.5. Yn meddu ar wybodaeth a phrofiad digon manwl i allu rhoi cyngor ar ddatblygiad a lles plant a phobl ifanc.

3. Sgiliau Proffesiynol

- 3.1. Yn hyblyg, yn greadigol ac yn fedrus wrth gynllunio dilyniannau dysgu mewn gwersi, ac ar draws gwersi, sy'n effeithiol ac sy'n cael eu paru'n dda yn gyson ag amcanion dysgu ac anghenion dysgwyr, ac sy'n integreiddio datblygiadau diweddar, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â gwybodaeth am y pwnc/cwricwlwm.
- 3.2. Yn meddu ar sgiliau addysgu sy'n arwain at ddysgwyr yn cyflawni'n dda o ystyried eu cyrhaeddiad blaenorol, gan wneud cynnydd sydd cystal â dysgwyr tebyg yn genedlaethol, neu'n rhagori arnynt.
- 3.3. Yn hyrwyddo cydweithio a gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm.
- 3.4. Yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol cyd-weithwyr trwy hyfforddi a mentora, arddangos arfer effeithiol, a rhoi cyngor ac adborth.

ASESIAD O GAIS ATHRO I DDATBLYGU I'R YSTOD CYFLOG UWCH

I'w Lenwi gan Werthuswr yr Athro

Enw'r Athro:	
Swydd:	

Tystiolaeth o'r gwerthusiad diweddaraf
Nodwch pa ddatganiad gwerthuso sydd ynghlwm:

* Wedi bodloni'r meini prawf
(*Dilëir fel sy'n briodol)

* Heb fodloni'r meini prawf

Os na fodlonwyd y meini prawf yn llwyr, rhwch fanylion isod (gan barhau drosodd, os oes angen) o ran pa agweddau ar berfformiad yr athro nad ydynt yn bodloni'r meini prawf:

Llofnodwyd _____ (Gwerthuswr)

Dyddiad: _____

I'W GYFLWYNO I'R PENNAETH


At Ddefnydd yr Ysgol yn Unig

Daeth y ffurflen gais i law ar: _____

Cynhaliwyd yr asesiad
ar: _____

Gan: _____

**SIART LLIF O'R BROSES ADOLYGU CYFLOGAU
(ac eithrio'r Pennaeth)**



DIWEDD Y BROSES

CANLLAWIAU AR GYFLOGAU'R GRŴP ARWAIN**1. Y Pennaeth a'r Tîm Arwain (POB YSGOL)**

Mae Graddfa Gyflog Arweinyddiaeth 43 cam statudol wedi cael ei hailgyflwyno. Bydd Penaethiaid, Dirprwy Benaethiaid a Phenaethiaid Cynorthwyol yn cael eu talu yn ôl yr hyn a bennir gan y Corff Llywodraethu. Nodir hyn isod:

2. Grwpiau o Ysgolion (POB YSGOL)

Mae yna wyth grŵp o ysgolion wedi'u pennu o sgôr uned yr ysgol. Mae'r DCAAY(C) yn pennu isafswm ac uchafswm gwerth cyflog ar gyfer pob grŵp, ac mae'r cyfraddau cyflog dangosol a gyhoeddir ar y cyd gan y cyflogwyr a'r undebau llafur yn gosod gwerthoedd ynghlwm wrth bwyntiau cyflog unigol o fewn yr ystodau hynny.

Mae'r Corff Llywodraethu wedi sefydlu ystod cyflog saith pwynt ar gyfer y Pennaeth, ac ystod cyflog pum pwynt ar gyfer yr holl swyddi arwain eraill.

3. Sgôr Uned yr Ysgol**a. Pob Ysgol (ac eithrio Ysgolion Arbennig)**

Cyfrifir y sgôr uned i bennu grŵp Ysgol, gan ddefnyddio'r fformiwla yn y DCAAY(C). Yn yr Awdurdod hwn*, bydd yr ALI yn ailgyfrifo'r sgôr uned bob blwyddyn, a bydd y canlyniadau'n cael eu cymhwyso o 1 lonawr bob blwyddyn. Os oes gan ysgol sail resymol dros ddisgwyl newid yn niferoedd ei disgyblion, dylai ofyn am ailgyfrifiad gan yr Awdurdod ar yr adeg honno.

** Dilêwch os nad yw'n briodol*

Gwybodaeth am y modd y mae'r sgôr uned yn cael ei chyfrifo:

Pennir hwn yn ôl niferoedd y disgyblion, fel y'u dangosir ar y ffurflen STATS 1 (cyfrifiad ysgol blyneddol) ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru.

Ar gyfer pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen/CA1/CA2	7 uned
Ar gyfer pob disgybl yn CA3	9 uned
Ar gyfer pob disgybl yn CA4	11 uned
Ar gyfer pob disgybl yn CA5	13 uned

Bydd pob disgybl sydd â **datganiad o anghenion addysgol arbennig**, os yw mewn dosbarth arbennig sy'n cynnwys disgyblion o'r fath yn gyfan gwbl neu'n bennaf, yn cyfrif tair uned yn fwy nag y byddai fel arall. Os nad yw'r disgybl mewn dosbarth arbennig o'r fath, dylid cyfrif tair uned dim ond lle y mae'r corff perthnasol yn penderfynu gwneud hynny.

Bydd pob disgybl sy'n mynychu am lai na hanner diwrnod ar bob diwrnod y mae'n mynychu'r ysgol yn cyfrif hanner yr unedau y byddai fel arall yn eu cyfrif.

Cyfanswm y Sgôr Uned	Grŵp Ysgol
Hyd at 1,000	1
1,001 - 2,200	2
2,201 - 3,500	3
3,501 - 5,000	4
5,001 - 7,500	5
7,501 - 11,000	6
11,001 - 17,000	7
17,001 a throsodd	8

b. Sgôr Uned Ddiwygiedig (Ysgolion Arbennig yn Unig)

Cyfrifir y sgôr uned ddiwygiedig i bennu grŵp yr ysgol, gan ddefnyddio'r fformiwla yn y DCAAY(C). Yn yr Awdurdod hwn*, bydd yr ALI yn ailgyfrifo'r sgôr uned bob blwyddyn, a bydd y canlyniadau'n cael eu cymhwyso o 1 Ionawr bob blwyddyn. Os oes gan ysgol sail resymol dros ddisgwyl newid yn niferoedd ei disgyblion, dylai ofyn am ailgyfrifiad gan yr Awdurdod ar yr adeg honno.

* Dilëwch os nad yw'n briodol

Mae'n rhaid i ysgol arbennig gael ei neilltuo i grŵp Pennaeth yn unol â'r tabl canlynol trwy gyfeirio at ei sgôr uned ddiwygiedig, a gyfrifir yn unol ag is-adrannau (i) a (ii) isod:

Cyfanswm y Sgôr Uned	Grŵp Ysgol
Hyd at 2,200	2
2,201 - 3,500	3
3,501 - 5,000	4
5,001 - 7,500	5
7,501 - 11,000	6
11,001 - 17,000	7
17,001 a throsodd	8

(i) Gwybodaeth am y modd y caiff y gymhareb staff-disgyblion ei chyfrifo

Rhaid i gyfran y staff i ddisgyblion yn yr ysgol gael ei chyfrifo a'i mynegi ar ffurf canran ('y gymhareb staff-disgybl') yn unol â'r fformiwla ganlynol:

$$\frac{A}{B} \times 100$$

ATODIAD 6.

Lle A yw nifer yr Athrawon a'r Staff Cymorth wedi'i bwysoli'n unol ag (a) isod, a B yw nifer y disgyblion yn yr ysgol wedi'i bwysoli'n unol â (b) isod:

- Y pwysoliad ar gyfer Athro yw dwy uned am bob Athro cyfwerth ag amser llawn, a'r pwysoliad ar gyfer pob aelod o Staff Cymorth yw un uned am bob unigolyn cyfwerth ag amser llawn; ac
- Y pwysoliad ar gyfer disgybl llawn-amser yw un uned, a'r pwysoliad ar gyfer disgybl rhan-amser yw hanner uned.

Rhaid i addasydd cymhareb staff-disgybl gael ei gyfrifo yn unol â'r tabl canlynol, trwy gyfeirio at y gymhareb staff-disgybl a bennir yn unol â'r uchod:

Cymhareb Staff-Disgyblion	Addasydd y Gymhareb Staff-Disgyblion
1 - 20%	1
21 - 35%	2
36 - 50%	3
51 - 65%	4
66 - 80%	5
81% neu fwy	6

D.S. Ystyr 'aelod o staff cymorth' yw aelod o Staff yr ysgol nad yw'n:

- Athro;
- Unigolyn a gyflogir mewn perthynas â darparu prydau bwyd;
- Unigolyn a gyflogir mewn perthynas â diogelu neu gynnal a chadw adeiladau'r ysgol; neu
- Unigolyn a gyflogir mewn ysgol breswyl i oruchwylio a gofalu am blant y tu allan i oriau ysgol.

(ii) Gwybodaeth am y modd y caiff cyfanswm y sgôr uned ddiwygiedig ei gyfrifo

Pennir y cyfanswm hwn yn ôl niferoedd y disgyblion, fel y'u dangosir ar y ffurflen STATS 1 (cyfrifiad ysgol blynyddol) ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru.

Rhaid i'r corff perthnasol bennu cyfanswm sgôr uned yr ysgol yn unol â nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol, a gyfrifir fel a ganlyn:

Cyfnod Allweddol	Unedau Fesul Disgybl
Ar gyfer pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen, CA1 a CA2	10
Ar gyfer pob disgybl yn CA3	12
Ar gyfer pob disgybl yn CA4	14
Ar gyfer pob disgybl yn CA5	16

Rhaid i'r corff perthnasol bennu cyfanswm diwygiedig sgôr uned yr ysgol trwy luosi cyfanswm sgôr uned yr ysgol a bennwyd o dan yr adran hon (h.y. yn unol â'r tabl uchod) ag addasydd y gymhareb staff-disgybl a gyfrifwyd o dan adran 3.

D.S. Os caiff y Pennaeth ei benodi'n Bennaeth ar fwy nag un ysgol ar sail barhaol, rhaid i gorff perthnasol ysgol wreiddiol y Pennaeth, neu, o dan y Rheoliadau Cydweithredu (5), y corff cydweithredol, gyfrifo grŵp y Pennaeth trwy gyfuno sgôr uned yr holl ysgolion y mae'r Pennaeth yn gyfrifol amdanynt er mwyn canfod cyfanswm y sgôr uned, sydd wedyn yn pennu grŵp y Pennaeth.

4. Penodi Arweinwyr Newydd/Newidiadau i Strwythurau Cyflogau Arweinwyr presennol – Proses Tri Cham (POB YSGOL)

Dylai'r Corff Llywodraethu ddilyn y broses tri cham wrth bennu'r cyflog ar gyfer penodiadau newydd neu ddiwygio strwythurau cyflogau presennol o ran y Pennaeth neu'r tîm arwain ehangach.

- Cam 1** - Diffinio'r rôl a phennu'r grŵp Pennaeth
- Cam 2** - Gosod yr ystod cyflog ddangosol
- Cam 3** - Penderfynu ar y cyflog cychwynol a'r ystod cyflog unigol

Dylai'r holl benderfyniadau a'r rhesymau drostynt gael eu cofnodi'n drylwyr ar bob cam. Rhaid i bob penderfyniad ynghylch cyflogau gael ei wneud yn unol â meini prawf gwrthrychol, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith wahaniaethol ar unrhyw grŵp o Athrawon sydd â nodwedd warchoddedig benodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Awgrymir bod ysgolion yn gofyn am gyngor wrth gyfrifo a chofnodi penderfyniadau ynghylch strwythur cyflogau arweinwyr.

Cam 1 - Diffinio'r Rôl a Phennu Grŵp y Pennaeth

Ar y cam hwn, dylai'r Corff Llywodraethu ddiffinio'r swydd a nodi'r ystod cyflog gyffredinol fel canllaw i bennu'r lefel briodol o gyflog. Bydd angen i'r Corff Llywodraethu ddiffinio a nodi rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd penodol y swydd, yn ogystal â'r sgiliau a'r cymwyseddau perthnasol sy'n ofynnol.

ATODIAD 6.

Ar gyfer swyddi Penaethiaid, bydd y Corff Llywodraethu yn neilltuo Ysgol i grŵp Pennaeth (fel y diffinnir yn 3 uchod), a fydd yn pennu'r ystod cyflog briodol fel yr amlinellir isod:

Maint y Grŵp	Ystod y Camau	Ystod Cyflog (DCAAY(C) 2020)
1	A6 - A18*	£ 48,571- £ 64,620
2	A8 - A21*	£ 51,029- £ 69,544
3	A11 - A24*	£ 55,038- £ 74,847
4	A14 - A27*	£ 59,153- £ 80,553
5	A18 - A31*	£ 65,266- £ 88,841
6	A21 - A35*	£ 70,240- £ 97,996
7	A24 - A39*	£ 75,596- £ 108,035
8	A28 - A43	£ 83,376- £ 119,248

Ar gyfer swyddi eraill yn y grŵp arwain, dylai'r Corff Llywodraethu ystyried y modd y mae'r rôl yn cyd-fynd â strwythur arwain ehangach yr Ysgol. Ni ddylai'r ystod cyflog ar gyfer Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol orgyffwrdd ag ystod cyflog y Pennaeth heblaw **mewn amgylchiadau eithriadol**.

Cam 2 - Pennu'r Ystod Cyflog Ddangosol

Ar y cam hwn, bydd angen i'r Corff Llywodraethu ystyried cymhlethdod a her y rôl yng nghyd-destun penodol yr Ysgol, a gwneud penderfyniad ynghylch cyflog yng ngoleuni hyn.

Ar gyfer swyddi Penaethiaid, disgwylir y bydd y Corff Llywodraethu fel arfer yn dod i'r casgliad bod cyfanswm y sgôr uned yn llwyr gyfleu cymhlethdod rôl y Pennaeth, a bod yr ystod cyflog berthnasol yn cynnwys lefelau priodol o dâl, yn unol â'r DCAAY(C). Bydd angen i'r Corff Llywodraethu ystyried a ddylai'r ystod cyflog ddangosol ddechrau ar isafswm grŵp y Pennaeth, neu a yw'n dymuno i'r ystod ddechrau ar lefel uwch oherwydd lefel yr her sy'n gysylltiedig â'r swydd.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yna amgylchiadau lle ceir ffactorau ychwanegol sy'n awgrymu y dylai'r ystod cyflog ddangosol fod yn uwch na'r hyn a fyddai'n cael ei ddarparu gan y cyfrifiad sylfaenol yng Ngham 1.

Dyma rai enghreifftiau o ffactorau ychwanegol i'w hystyried (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pob posibilrwydd):

ATODIAD 6.

- Y cyd-destun a'r her a gyflwynir gan anghenion disgyblion e.e. os oes llawer o amddifadedd yn y gymuned (hawl i Brydau Ysgol am Ddim a/neu Saesneg fel Iaith Ychwanegol) neu niferoedd uchel o blant sy'n derbyn gofal neu blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac mae hyn yn effeithio ar yr her mewn perthynas â gwella deilliannau;
- Llawer iawn o gymhlethdod a her, e.e. atebolrwydd am nifer o ysgolion neu reoli ar draws nifer o safleoedd gwasgaredig, sy'n mynd yn eithaf pell y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir gan unrhyw Bennaeth ysgol(ion) o faint tebyg, ac nad yw eisoes wedi'i adlewyrchu yng nghyfanswm y sgôr uned a ddefnyddiwyd yng ngham 1;
- Atebolrwydd ychwanegol nas adlewyrchwyd yng ngham 1, e.e. arwain cynghrair ysgol addysgu; a
- Ffactorau a all amharu ar allu'r ysgol i ddenu ymgeiswyr â phrofiad a chymwysterau priodol ar gyfer swyddi arwain, e.e. lleoliad, cyfrwng iaith, maes pwnc/arbenigedd a/neu lefel o gymorth gan y tîm arwain ehangach.

Gall y Corff Llywodraethu bennu'r ystod cyflog ddangosol gydag **uchafswm hyd at 25% uwchlaw lefel uchaf ystod y grŵp Pennaeth perthnasol.**

Uwchlaw'r terfyn hwnnw, rhaid cael cyngor annibynnol allanol ac, os bydd y cyngor yn awgrymu bod ystod sy'n uwch na'r terfyn hwn yn briodol, rhaid i'r Corff Llywodraethu llawn lunio achos busnes, a chytuno arno.

Dylai'r Corff Llywodraethu sicrhau nad oes unrhyw beth yn cael ei gyfrif ddwywaith, e.e. o ran pethau a ystyriwyd yng ngham 1, megis cyfrifoldeb am ysgol ychwanegol a adlewyrchwyd eisoes yng nghyfanswm y sgôr uned; neu o ran defnyddio dangosyddion sy'n gorgyffwrdd, fel Prydau Ysgol am Ddim a'r premiwm disgybl.

NI DDYLAI'R Corff Llywodraethu gynyddu cyflog sylfaenol na thalu lwfans ychwanegol am gydweithio lleol rheolaidd sy'n rhan o rôl pob Pennaeth.

Ar gyfer rolau arwain eraill, mae'r broses yn eithaf tebyg. Bydd y Corff Llywodraethu yn dymuno ystyried y modd y dylai'r rolau arwain eraill gael eu pennu yn unol â'r lefel a bennwyd ar gyfer y Pennaeth, gan sicrhau bod digon o le i ddatblygu cyflog. Dylid hefyd ystyried unrhyw swyddi addysgu ac iddynt lwfansau ychwanegol.

Ar ddiwedd y cam hwn, dylai'r Corff Llywodraethu benderfynu lle yn yr ystod eang i bennu'r ystod cyflog ddangosol, gan nodi hyn yn glir wrth hysbysebu'r swydd. Dylid gwneud penderfyniad cyffredinol ynghylch safle ac ehangder yr ystod, gan sicrhau bod lle priodol i ddatblygu cyflog dros amser.

Dylai fod trywydd archwilio clir ar gyfer pob penderfyniad a wneir, a'r rhesymau drosto.

Disgwylir hefyd, lle y bo'n bosibl, y bydd yr Ysgol yn ymgymryd â phroses o feincodi cyflogau cyn pennu'r ystod cyflog ar gyfer swydd Pennaeth neu swyddi arwain eraill.

Yn achos y ffactorau hynny nad oes disgwyl iddynt barhau, fel cyfrifoldeb dros dro am ysgol ychwanegol, dylid adlewyrchu'r rhain trwy lwfans yn hytrach na'u cyfuno yn yr ystod cyflog ddangosol.

Cam 3 – Penderfynu ar y cyflog cychwynnol a'r Ystod Cyflog Unigol ar gyfer penodiadau newydd

Mae'r ddau gam cyntaf yn fodd i bennu'r ystod cyflog briodol. I bob pwrpas, diben y trydydd cam yw penderfynu ar y cyflog cychwynnol ar gyfer yr unigolyn y cynigir y swydd iddo.

Ar y cam hwn, bydd y Corff Llywodraethu yn ffafrio ymgeisydd ar gyfer y swydd, a bydd yn dymuno pennu'r cyflog cychwynnol ynn ngoleuni ffactorau sy'n benodol i'r ymgeisydd, er enghraifft i ba raddau y mae'r ymgeisydd yn bodloni gofynion penodol y swydd.

Bydd yn bwysig sicrhau bod yna le i ddatblygu cyflog dros amser.

Rhaid sicrhau bod yna drywydd archwilio clir ar gyfer unrhyw gyngor a roddir, yn ogystal â chofnod llawn a chywir o'r holl benderfyniadau a wneir, a'r rhesymau drostynt.

5. Sefydlu Ystod Cyflog uwchlaw Grŵp Pennaeth yr Ysgol (POB YSGOL)

Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir y bydd yr ystod cyflog o fewn terfynau grŵp y Pennaeth. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, e.e. lle gall fod anhawster mawr i benodi, neu lle bydd angen cymell Pennaeth i dderbyn cyfrifoldeb am ysgol fawr iawn neu i arwain sawl ysgol fawr, gall fod yn briodol ystyried estyn yr ystod cyflog unigol.

Mewn achosion o'r fath, gall y Corff Llywodraethu benderfynu y gall uchafswm yr ystod cyflog fod uwchlaw uchafswm grŵp y Pennaeth, **hyd at 25% yn ychwanegol**.

Os ystyrir bod yna amgylchiadau eithriadol sy'n gwarantu estyniad y tu hwnt i'r terfyn hwnnw, bydd achos busnes yn ofynnol. Bydd angen i'r Corff Llywodraethu geisio cyngor annibynnol allanol gan unigolyn neu gorff priodol, a all ystyried pa un a ellir cyfiawnhau mynd uwchlaw'r terfyn mewn achos penodol ai peidio.

Rhaid sicrhau bod yna drywydd archwilio clir ar gyfer unrhyw gyngor a roddir, yn ogystal â chofnod llawn a chywir o'r holl benderfyniadau a wneir, a'r rhesymau drostynt.

6. Taliadau Dros Dro i Benaethiaid (POB YSGOL)

Gall y Corff Llywodraethu ystyried tâl ychwanegol i'r Pennaeth am gyfrifoldebau a dyletswyddau ychwanegol sy'n amlwg yn rhai dros dro, neu ddyletswyddau sy'n ychwanegol at y swydd y pennwyd ei gyflog ar ei chyfer, e.e. os yw'n darparu gwasanaethau i ysgolion eraill. Yn cynnwys achosion lle caiff y Pennaeth ei benodi'n Bennaeth Dros Dro ar un neu ragor o ysgolion ychwanegol, ac nad yw hyn wedi'i gynnwys yn ffactor parhaol wrth gyfrifo'r ystod cyflog.

7. Diogelu Cyflog (POB YSGOL)

Os caiff yr Ysgol ei neilltuo i grŵp is, neu os bydd y Corff Llywodraethu yn dewis lleihau'r ystod cyflog arweinwyr, bydd gan yr aelod o staff yr hawl i gael swm wedi'i ddiogelu am hyd at dair blynedd, yn amodol ar y DCAAY(C).

**FFURFLEN ADOLYGU FLYNYDDOL AR GYFER
PENNAETH/DIRPRWY BENNAETH/PENNAETH CYNORTHWYOL**

(Medi 20___)

Enw: _____	Rhif Cyflogai: _____
Ysgol: _____	

*** Pennaeth:**

Grŵp Ysgol: _____ Ystod Cyflog y Pennaeth: £ _____ i £ _____

*** Dirprwy Bennaeth/Pennaeth Cynorthwyol:**

Ystod Cyflog: £ _____ i £ _____

Cyflog a Phwynt ym mis Awst £ _____ Pwynt: _____
20___: _____

Y rhesymeg a ddefnyddiwyd i bennu'r cyflog:

Cyflog a Phwynt Diwygiedig ym mis Awst £ _____ Pwynt: _____
20___: _____

Ardystiwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr/
y Pwyllgor Cyflogau: _____

Ardystiwyd gan y _____ Dyddiad: _____
Pennaeth: _____

*** Dilëir fel sy'n briodol**

Y BROSES APELIADAU CYFLOG

Mae'r Corff Llywodraethu yn ymrwymedig i sicrhau yr ymdrinnir ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau ynghylch cyflogau yn gyflym, yn deg ac mewn modd sy'n gyson â deddfwriaeth ar gydraddoldeb a deddfwriaeth berthnasol arall, yn ogystal â'r DCAAY(C).

Gall athrawon, gan gynnwys Penaethiaid, apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'u cyflog, neu unrhyw benderfyniad arall a wneir gan y Corff Llywodraethu (neu Bwyllgor neu unigolyn sy'n gweithredu ag awdurdod dirprwyedig) sy'n effeithio ar eu cyflog.

Gall y rhesymau dros apelio gynnwys y canlynol, ymhlith rhesymau eraill. Bod yr unigolyn neu'r Pwyllgor a wnaeth y penderfyniad:

- a) wedi cymhwyso darpariaeth y DCAAY(C) yn anghywir;
- b) wedi methu ystyried y canllawiau statudol yn briodol;
- c) wedi methu ystyried y dystiolaeth berthnasol yn briodol;
- d) wedi ystyried tystiolaeth amherthnasol neu anghywir;
- e) yn unochrog; neu
- f) wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon fel arall yn erbyn yr athro.

Yn achos y gwrandawriad sylwadau a'r gwrandawriad apêl, mae hawl gan yr athro i gael cydweithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur gydag ef.

Cam 1 – Trafodaeth Anffurfiol (Cam Dewisol)

Mae gan Athro sy'n anfodlon ar argymhelliad ynghylch cyflog y cyfle i drafod yr argymhelliad â'r Pennaeth, a hynny cyn i'r argymhelliad gael ei weithredu a chyn i'r Ysgol gadarnhau'r penderfyniad.

Os bydd yr Athro, ar ôl cael trafodaeth anffurfiol â'r unigolyn sy'n gwneud yr argymhelliad ynghylch cyflog, neu ar ôl cael yr hysbysiad o benderfyniad cyflog, o'r farn bod argymhelliad anghywir wedi'i wneud, gall gyflwyno ei sylwadau i Bwyllgor Cyflogau y Corff Llywodraethu (gweler Cam 2 isod).

Cam 2 – Gwrandawriad Sylwadau

1. Bydd yr Athro yn cael hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad ynghylch ei gyflog ac, os yw'n berthnasol, bydd yn cael gwybod ar ba sail y gwnaed y penderfyniad. Bydd y Pwyllgor Cyflogau yn sicrhau bod yr athro yn ymwybodol o'r broses ar gyfer cyflwyno sylwadau ac apelio yn erbyn y penderfyniad, os yw'n briodol.
2. Os bydd yr Athro yn dymuno cyflwyno sylwadau, dylai wneud hynny'n ysgrifenedig i Glerc y Llywodraethwyr cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael gwybod am y penderfyniad. Yr Athro sydd i benderfynu a fydd yn gofyn am wrandawriad sylwadau.
3. Bydd Clerc y Llywodraethwyr yn trefnu bod gwrandawriad sylwadau yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl, a fydd yn cael ei gadeirio gan y Pwyllgor Cyflogau. Efallai y bydd gofyn i'r Pennaeth fynd i'r gwrandawriad i egluro ar ba sail y gwnaed yr argymhelliad.

ATODIAD 8.

4. Bydd yr athro yn cael rhwng 5 a 10 diwrnod ysgol o rybudd am y gwrandawriad sylwadau. Gall yr athro fynd i'r gwrandawriad i gyflwyno tystiolaeth, i alw ar dystion, ac i ofyn cwestiynau i'r Pwyllgor Cyflogau.
5. Bydd y Pwyllgor Cyflogau yn penderfynu a ddylid diwygio'r penderfyniad gwreiddiol, a bydd yn ysgrifennu at yr athro i roi gwybod am y canlyniad o fewn 5 diwrnod ysgol ar ôl gwneud y penderfyniad.
6. Os bydd yr Athro yn dal i fod yn anfodlon, gall apelio yn erbyn y penderfyniad hwn cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael y llythyr yn rhoi gwybod iddo am y canlyniad gan y Pwyllgor, a hynny trwy symud ymlaen i Gam 3 y broses.

Cam 3 – Gwrandawriad Apêl

1. Dylai'r Athro nodi'n glir yn ysgrifenedig ar ba sail y mae'n apelio yn erbyn y penderfyniad, ac yna anfon y llythyr at Clerc y Llywodraethwyr cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael y canlyniad ysgrifenedig.
2. Bydd Clerc y Llywodraethwyr yn trefnu bod gwrandawriad apêl yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl, ond fel arfer cyn pen 20 diwrnod ysgol ar ôl cael y llythyr yn rhoi gwybod iddo am yr apêl.
3. Dylai'r athro gael rhwng 5 a 10 diwrnod ysgol o rybudd am y gwrandawriad.
4. Dylai'r apêl gael ei chlywed gan y Pwyllgor Apeliadau Cyflogau, sy'n cynnwys o leiaf tri llywodraethwr cymwys nad oeddent yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol, neu os oedd y Pwyllgor Cyflogau gwreiddiol yn cynnwys mwy na thri aelod, gan yr un faint o leiaf â nifer yr aelodau ar y Pwyllgor Cyflogau hwnnw.
5. Bydd penderfyniad y Pwyllgor Apeliadau Cyflogau yn derfynol.
6. Ymhlith y rhai y mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol yn y gwrandawriad apêl y mae:
 - Y Cadeirydd ac aelodau eraill y Pwyllgor Apeliadau
 - Yr Athro a'i gynrychiolydd neu gyd-weithiwr (os oes rhywun gyda'r Athro)
 - Tystion ar gyfer ochr y cyflogai (os yw'n briodol)
 - Aelod o'r Pwyllgor Cyflogau gwreiddiol, a fydd yn egluro'r rhesymau dros y penderfyniad gwreiddiol
 - Tystion ar gyfer yr ochr reoli (os yw'n briodol)
 - Clerc y gwrandawriad
 - Yr Ymgynghorydd Adnoddau Dynol, er mwyn rhoi cyngor i'r Pwyllgor Apeliadau (yn amodol ar ddarpariaethau unrhyw Gytundeb Lefel Gwasanaeth)

Gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer cyfarfodydd apêl ffurfiol

Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno pawb, ynghyd â'u rôl yn y trafodion.

- Bydd yr Athro yn cyflwyno ei achos, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth i'w hystyried ac unrhyw dystion y mae wedi galw arnynt;
- Gall aelodau'r Pwyllgor Apeliadau Cyflogau ofyn cwestiynau i'r Athro, a gall cynrychiolydd y Pwyllgor Cyflogau ofyn cwestiynau hefyd;
- Bydd cynrychiolydd y Pwyllgor Cyflogau yn datgan ei achos gan gynnwys y dystiolaeth a oedd yn sail i'r penderfyniad ac unrhyw dystion i gefnogi'r achos, os yw'n briodol
- Gall aelodau'r Pwyllgor Apeliadau Cyflogau ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Pwyllgor Cyflogau, a gall yr Athro ofyn cwestiynau hefyd;
- Gall y ddwy ochr wneud datganiad cloi os dymunant (yr athro yn gyntaf, ac wedyn cynrychiolydd y Pwyllgor Cyflogau). Ni ellir cyflwyno tystiolaeth newydd ar y cam hwn;
- Bydd y ddau barti yn gadael y gwrandawriad;
- Gall y Pwyllgor Apeliadau Cyflogau ofyn i'r Ymgynghorydd Adnoddau Dynol am gyngor (os yw'n berthnasol). Ar ôl i'r cyngor hwn gael ei roi, bydd yr Ymgynghorydd Adnoddau Dynol yn gadael y gwrandawriad ond gellir ei alw'n ôl i roi cyngor pellach (os yw'n berthnasol);
- Bydd y Pwyllgor Apeliadau Cyflogau yn ystyried yr holl dystiolaeth ac yn dod i benderfyniad terfynol;
- Bydd y Pwyllgor Apeliadau Cyflogau yn galw'r ddwy ochr yn ôl er mwyn rhoi gwybod i'r Athro am y penderfyniad (os yw'n aros am benderfyniad) neu, bydd yn dweud wrth y Clerc am ysgrifennu at yr Athro ar ran y Pwyllgor i'w hysbysu ynghylch y penderfyniad, a'r rhesymau drosto; a
- Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol am y newid cyflog, os yw hynny'n briodol.

CYFRIFO CYFLOGAU AC AMSER ATHRAWON RHAN-AMSER

Mae'n rhaid i Athro rhan-amser gael **Amserlen Wythnosol Athrawon Ysgol (AWAY)**, ac mae'n rhaid talu cyfran o'r amserlen hon iddo.

Mae'n rhaid i bob ysgol greu AWAY ar gyfer pob Athro. Mae'r amserlen hon yn cyfeirio at oriau sesiynau ysgol sydd wedi'u hamserlennu ar gyfer addysgu, gan gynnwys CPA ond ac eithrio amseroedd egwyl, cofrestru a gwasanaethau.

Yna bydd Athrawon rhan-amser yn cael eu talu yn ôl eu hamser addysgu gwirioneddol, ac eithrio cofrestru, gwasanaethau ac egwyliau.

Er enghraifft:

Os yw'r diwrnod ysgol, ac eithrio cofrestru a gwasanaeth, yn para rhwng 9.00am a 12.15pm, ac eto rhwng 1.15pm a 3.30pm, gydag un egwyl 15 munud yn sesiwn y bore ac un egwyl 15 munud yn sesiwn y prynhawn, byddai'r AWAY ar gyfer Athro llawn-amser yn 25 awr. Pe bai Athro rhan-amser yn cael ei gyflogi ar gyfer y bore yn unig, gan weithio rhwng 9.00am a 12.15pm bob dydd, byddai canran yr wythnos addysgu a amserlennir yn cael ei chyfrifo'n 15 awr. Dangosir hyn isod:

	Sesiwn y bore (llai o egwyliau, cofrestru a gwasanaethau)	+	Sesiwn y prynhawn (llai o egwyliau, cofrestru a gwasanaethau)	x	Nifer y Diwrnodau yn yr Amserlen	=	AWAY	% yr AWAY
Llawn- amser	3 awr	+	2 awr	x	5 diwrnod	=	25 awr	100%
Rhan- amser	3 awr			x	5 diwrnod	=	15 awr	60%

Rhaid cynnwys **Amser CPA ac Amser Rheoli** wrth gyfrifo amser cyswllt dosbarth.

Amser dan Gyfarwyddyd – gall Pennaeth ddyrannu amser dan gyfarwyddyd i Athrawon rhan-amser (gydag amodau) fel cyfran o swydd gyfwerth ag amser llawn 1258.5. Gall Athrawon rhan-amser nawr gael eu cyfarwyddo i gyflenwi ar gyfer egwyliau, gwasanaethau ac amseroedd cofrestru, a hynny fel rhan o'u dyletswyddau dan gyfarwyddyd.

Ni ellir mynnu bod athrawon rhan-amser ar gael i weithio (naill ai ar gyfer dyletswyddau addysgu neu ddyletswyddau eraill) ar ddiwrnodau nad ydynt fel arfer yn gweithio. Fodd bynnag, gallant weithio trwy gydgytundeb â'r Pennaeth. Dylai unrhyw oriau ychwanegol o ganlyniad i hyn gael eu talu yn unol â chyflog arferol yr Athro.

Efallai y bydd gofyn i Athrawon rhan-amser gyflawni dyletswyddau, heblaw addysgu disgyblion, y tu allan i sesiynau'r ysgol ar y diwrnod y mae'n ofynnol i'r Athro fod ar gael i weithio fel arfer (pa un a yw'n ofynnol i'r Athro fod ar gael i weithio am y diwrnod cyfan neu am ran o'r diwrnod hwnnw fel arfer). Gall hyn fod yn rhan o'r amser dan gyfarwyddyd.

STRWYTHUR STAFFIO YR YSGOL

(Yr Ysgol i nodi manylion isod fel sy'n berthnasol ar yr adeg y bydd y Polisi Cyflogau hwn yn cael ei fabwysiadu gan y Corff Llywodraethu)

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Mae'r **Aseiad Effaith Integredig** hwn yn cynnwys nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 (gofynion Safonau'r Gymraeg), ac ystyriaethau Rheoli Risg, i osod sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

1. MANYLION Y CYNNIG: (Polisi / Newid amcan / Arbed arian)

Teitl y cynnig **Cymeradwyo'r Polisi Cyflogau ar gyfer Athrawon Ysgol**

Maes gwasanaeth	Pobl a Threfniadaeth	Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Geraint Edwards	Cyfarwyddwr Corfforaethol	James Starbuck
-----------------	----------------------	---------------------------------	-----------------	---------------------------	----------------

Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI	Geraint Edwards	E-bost	Geraint.Edwards2@ceredigion.gov.uk	Ffôn	2019
----------------------------------	-----------------	--------	------------------------------------	------	------

Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig

Mae'r Polisi Enghreifftiol Cyflogau Athrawon yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyflogau athrawon. Fe'i datblygwyd i gydymffurfio â gofynion y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) ac ymgynghorwyd ag Undebau'r Athrawon.

Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? (e.e. y cyhoedd, grwpiau penodol fel grwpiau ieuencid, gofalwyr, pobl sy'n defnyddio'r ffyrdd, pobl sy'n defnyddio parciau gwledig, pobl sy'n cael budd-daliadau, aelodau staff, neu bobl sy'n meddu ar y nodweddion gwarchoddedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac y mae'n rhaid i'r awdurdod roi sylw dyledus iddyn nhw).

Athrawon ysgol a chyrrff llywodraethol

RHEOLI'R DDOGFEN: Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei mireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn i ni allu dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydaddoldeb, lle bynnag y bo modd.

Awdur	Cam yn y broses benderfynu	Rhif y fersiwn	Dyddiad trafod	Disgrifiad cryno o unrhyw newidiadau a wnaed ar ôl trafod
	Cyngor	V1		



AMCANION STRATEGOL Y CYNGOR: Pa un o amcanion strategol y Cyngor y mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag ef, a sut?

Hybu'r Economi	
Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl	Bydd y polisi hwn yn pennu cyflogau athrawon, yn nodi pryd y cynhelir yr adolygiad cyflog blynyddol ac yn amlinellu sut y bydd y Llywodraethwyr yn mynd i'r afael ag unrhyw gwynion am gyflogau athrawon.
Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd	
Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol.	

SYLWCH: Wrth i chi lenwi'r ffurflen hon, bydd gofyn i chi ddarparu **tystiolaeth i ategu'ch safbwyntiau**. Bydd angen i chi gynnwys eich safbwynt cychwynnol, y mesurau a'r astudiaethau sydd wedi llywio'ch ffordd o feddwl, a'r farn rydych chi wedi dod iddi. O wneud hyn, bydd modd i chi nodi a fydd unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o roi'r argymhelliad ar waith yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol. Ymhlith y ffynonellau data mae:

- *Data meintiol – data sy'n darparu gwybodaeth rifyddol e.e. ffigurau poblogaeth, nifer y defnyddwyr, nifer y bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr*
- *Data ansodol – data sy'n darparu dystiolaeth o argraffiadau pobl o'r gwasanaeth/polisi a'u barn amdano e.e dadansoddiad o gwynion, canlyniadau grwpiau ffocws, arolygon*
- *Data am y boblogaeth leol, gan gynnwys ffigurau'r cyfrifiad (megis Proffil Iaith Ceredigion a Data Cydraddoldeb Ceredigion)*
- *Data o'r Arolwg Cenedlaethol o Aelwydydd*
- *Data am ddefnyddwyr gwasanaeth*
- *Adborth o ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu*
- *Argymhellion pwyllgor craffu*
- *Cymariaethau â pholisïau tebyg awdurdodau eraill*
- *Cyhoeddiadau academaidd, adroddiadau ymchwil, adroddiadau ymgynghorwyr ac adroddiadau am unrhyw ymgynghoriad ag e.e. undebau llafur neu'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, dogfen 'A yw Cymru'n Decach'*
- *Data Sgiliau Iaith Gymraeg staff y Cyngor*

2. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY: Ym mha ffordd mae'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi'u hymgorffori a'u blaenoriaethu yn natblygiad eich cynnig?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	Ydy'r cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Os yw'n gwneud hynny, disgrifiwch sut. Os nad yw'n gwneud hynny, eglurwch pam.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gampau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
------------------------------	---	---	---

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Hirdymor Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol	Caiff y polisi hwn ei ddiweddarau bob blwyddyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) yn flynyddol		
Cydweithio Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau	Ymgynghorwyd â'r undebau llafur rhanbarthol a lleol a bu iddynt roi adborth ar y polisi		
Cynnwys Cynnwys pobl sydd â diddordeb a gofyn am eu barn			
Atal Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu			
Integreiddio Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant, a cheisio sicrhau bod pob un ohonynt ar ei ennill			

Tudalen 780

3. NODAU LLESIANT: Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? Eglurwch yr effaith (gadarnhaol a negyddol) yr ydych yn ei disgwyl, ac awgrymwch sut i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod. Mae angen i ni sicrhau nad yw'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gyflawni un o'r nodau'n niweidio'r camau i gyflawni nod arall.

Nod llesiant	Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
3.1. Cymru lewyrchus	Mae'r Polisi Cyflogau hwn yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau		

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig, creu cyfoeth, darparu swyddi	ar gyflogau athrawon. Fe'i datblygwyd i gydymffurfio â gofynion Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).		
3.2. Cymru gydnerth Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n ategu cydnerthedd ac sy'n gallu addasu i newid (e.e. newid hinsawdd)	<i>Ddim yn berthnasol</i>		
3.3. Cymru iachach Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall yr hyn sy'n effeithio ar iechyd	<i>Ddim yn berthnasol</i>		
3.4. Cymru o gymunedau cydlynus Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da	<i>Ddim yn berthnasol</i>		
3.5. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Rhoi sylw i'r effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol	<i>Ddim yn berthnasol</i>		

Tudalen 781

3.6. Cymru sy'n fwy cyfartal Mae pobl yn gallu cyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau	Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol
---	--	---	--

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



<p>Yn yr adran hon mae angen i chi ystyried yr effaith ar grwpiau cydraddoldeb, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd ar gyfer gwella.</p> <p><i>Ydych chi wedi ystyried sut allai'r cynnig effeithio ar grwpiau cydraddoldeb fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Mae'r rhain yn cynnwys y grwpiau a ganlyn: oedran, anabled, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth.</i></p> <p>Ystyriwch y canllaw a ganlyn hefyd: Comisiwn Cydraddoldeb - Asesu Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb</p>	<p><i>Gan ddefnyddio eich tystiolaeth, ystyriwch yr effaith ar bob un o'r grwpiau gwarchoddedig. Bydd angen i chi ystyried a yw'r grwpiau hyn yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaeth, neu a oes angen iddyn nhw gael y gwasanaeth mewn ffordd wahanol i bobl eraill oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig? Nid yw'n dderbyniol dweud yn syml y bydd y cynnig yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb. Dylech ddangos eich bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a rhoi sylw i unrhyw fylchau neu anghyfartaledd a ddaeth i'r amlwg.</i></p>	<p><i>Mae'n hollbwysig casglu data a thystiolaeth cydraddoldeb ar gyfer AEI. Dylech ystyried pwy sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu bwy sy'n debygol o'i ddefnyddio. Os na fyddwch yn defnyddio <u>data</u> nac yn <u>ymgysylltu</u> os ydych yn bwriadu cyflwyno newid, gallai penderfyniadau wynebu her gyfreithiol. Dylech gyplysu hyn â'r blwch cynnwys yn y templed hwn. Dylech hefyd ystyried y canllawiau cyffredinol.</i></p>	<p>neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?</p> <p><i>Gall y camau hyn gynnwys amryw o gamau cadarnhaol a fydd yn sicrhau bod modd i'r sefydliad drin unigolion yn unol â'u hanghenion, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu ei fod yn trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill er mwyn iddyn nhw gael canlyniad da. Gallech hefyd gymryd camau i bennu unrhyw fylchau yn y data neu gamau i ymgysylltu â'r rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt neu y mae'n debygol o effeithio arnynt. Mae angen cyplysu'r camau hyn ag adran 4 yn y templed hwn.</i></p>																								
<p>Oedran Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran? (Ticiwch ✓)</p> <table border="1" data-bbox="69 981 824 1476"> <tr> <td data-bbox="69 981 293 1098">Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</td> <td data-bbox="293 981 488 1098">Cadarnhaol</td> <td data-bbox="488 981 656 1098">Negyddol</td> <td data-bbox="656 981 824 1098">Dim/Fawr ddim</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td style="text-align: center;">✓</td> </tr> <tr> <td data-bbox="69 1098 293 1214">Pobl 18-50</td> <td data-bbox="293 1098 488 1214">Cadarnhaol</td> <td data-bbox="488 1098 656 1214">Negyddol</td> <td data-bbox="656 1098 824 1214">Dim/Fawr ddim</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td style="text-align: center;">✓</td> </tr> <tr> <td data-bbox="69 1214 293 1476">Pobl hŷn 50+</td> <td data-bbox="293 1214 488 1476">Cadarnhaol</td> <td data-bbox="488 1214 656 1476">Negyddol</td> <td data-bbox="656 1214 824 1476">Dim/Fawr ddim</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td style="text-align: center;">✓</td> </tr> </table>	Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim				✓	Pobl 18-50	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim				✓	Pobl hŷn 50+	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim				✓	<p>Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.</p>		
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim																								
			✓																								
Pobl 18-50	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim																								
			✓																								
Pobl hŷn 50+	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim																								
			✓																								

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Anabledd Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd? (Ticiwch ✓)				Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.		
Nam ar y clyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Nam corfforol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Nam ar y golwg	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Anabledd dysgu	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Salwch hirdymor	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Iechyd meddwl	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Arall	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Trawsrywiol Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl drawsrywiol? (Ticiwch ✓)				Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.		
Trawsrywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Priodas neu bartneriaeth sifil Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar briodas neu bartneriaeth sifil? (Ticiwch ✓)				Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.		
Priodas	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Partneriaeth sifil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Tudalen 784

Beichiogrwydd neu famolaeth Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar feichiogrwydd neu famolaeth? (Ticiwch ✓)				Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi		

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Beichiogrwydd	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.		
			✓			
Mamolaeth	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Hil Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hil? (Ticiwch ✓)				Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.		
Gwyn	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Grwpiau ethnig cymysg / aml-ethnig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Grwpiau ethnig eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Crefydd neu ddim cred Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? (Ticiwch ✓)				Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.		
--	--	--	--	--	--	--

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Cristnogion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Bwdhyddion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Hindŵiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Dyneiddwyr	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Iddewon	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Mwslimiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Sikhiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Pobl heb gred	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Rhyw Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynton a/neu fenywod? (Ticiwch ✓)				Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.		
Dynion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Menywod	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Cyfeiriadedd rhywiol Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol? (Ticiwch ✓)				Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.		
Pobl ddeurywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Dynion hoyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Menywod hoyw / lesbiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Pobl heterorywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Tudalen 787

Rhoi sylw dyledus i dri nod y Ddyletswydd Cydraddoldeb – penderfynu a fydd y cynnig yn eich cynorthwyo i roi terfyn ar wahaniaethu, i hybu cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da, neu'n eich rhwystro rhag gwneud hynny.

3.6.2. Sut allai/mae'r cynnig yn helpu i hybu/hyrwyddo cyfle cyfartal?
Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn: • Dileu neu leihau anfantais • Diwallu anghenion pobl â nodweddion penodol • Annog pobl â nodweddion penodol i gymryd mwy o ran

Bydd y Polisi hwn yn cael ei roi ar waith yn gyson ar gyfer yr holl weithwyr gan roi sylw i'r nodweddion gwarchoddedig canlynol: oed, anabledd, hil, rhyw, ailbennu rhywedd, priodas / partneriaeth sifil, beichiogrwydd / mamolaeth, crefydd, cred a chyfeiriadedd rhywiol.

3.6.3. Sut allai/mae'r cynnig/penderfyniad yn helpu i roi terfyn ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon?
Dylech ystyried a oes tystiolaeth ar gael sy'n dangos: • Y gall y cynnig beri i bobl â nodweddion penodol gael eu trin yn llai ffafriol • Y gallai'r cynnig arwain at wahaniaethu anuniongyrchol • Bod y cynnig yn fwy tebygol o'ch cynorthwyo i wneud addasiadau rhesymol neu'ch rhwystro rhag gwneud hynny



3.6.4. Sut allai/mae'r cynnig yn effeithio ar hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn : • Mynd i'r afael â rhagfarn • Hybu dealltwriaeth

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



3.7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Mae diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg yn cael eu hybu a'u gwarchod. <i>Yn yr adran hon, mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd i wella. Dylech wneud hyn i sicrhau nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waeth na'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini sy'n dewis gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.</i>				Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
A fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)?	Cadarn haol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim	Mae hwn yn bolisi dwyieithog a bydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn Gymraeg ac yn Saesneg		
A fydd y cynnig yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?	Cadarn haol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim	Bydd athrawon a rheolwyr yn gallu cael cymorth, cyngor a chyfleoedd gwaith yn Gymraeg.		
A fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r cyfleoedd i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg?	Cadarn haol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim	Bydd gweithwyr yn cael y cyfle i gael cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.		
Sut fydd y cynnig yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	Cadarn haol ✓	Negyddol	Dim/Fawr ddim	Mae'r polisi'n ddwyieithog a bydd yr holl hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn y ddwy iaith		
A fydd yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi	Cadarn haol	Negyddol	Dim/Fawr ddim ✓	Nid oes unrhyw effeithiau negyddol os gweithredir y polisi.		

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



diwylliant a threftadaeth lleol?				Mae'r polisi'n ddwyieithog a bydd yr holl hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn y ddwy iaith.		
----------------------------------	--	--	--	---	--	--

4. ATGYFNERTHU'R CYNNIG: Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n negyddol ar unrhyw rai o'r materion uchod (gan gynnwys unrhyw rai o'r nodweddion gwarchoddedig), pa gamau ymarferol/newidiadau allai helpu i liniaru neu i ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn adrannau 2 a 3?

4.1 Camau

Beth fyddwch chi'n ei wneud?	Pryd fyddwch chi'n ei wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?	Cynnydd

Tudalen 790

4.2. Os na fyddwch yn cymryd unrhyw gamau i ddileu neu i liniaru'r effeithiau negyddol, rhwch gyfiawnhad.

(Cofiwch: os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithiol uniongyrchol a phosibl o ganlyniad i'r cynnig hwn, rhaid i chi newid neu ddiwygio'r cynnig.)

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol os gweithredir y polisi.

4.3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?

Caiff y Polisi ei fonitro'n flynyddol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw newidiadau i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru)

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



5. RISG: Beth yw'r risg sydd ynghlwm wrth y cynnig hwn?

Meini prawf asesu effaith	1 – Isel iawn	2 – Isel	3 – Canolig	4 – Uchel	5 – Uchel iawn
Meini prawf asesu tebygolrwydd	1 – Annhebygol o ddigwydd	2 – Llai tebygol o ddigwydd	3 – Yr un mor debygol o ddigwydd ac o beidio digwydd	4 – Mwy tebygol o ddigwydd	5 – Tebygol o ddigwydd

Disgrifiad o'r risg	Effaith (difrifoldeb)	Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni)	Sgôr risg

Allai eich cynnig chi effeithio ar faes gwasanaeth arall?

Na allai

6. CYMERADWYO

Swydd	Enw	Llofnod	Dyddiad
Rheolwr y Gwasanaeth	Martyn Saycell		15/12/2021
Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Geraint Edwards		10/01/2022
Y Cyfarwyddwr Corfforaethol			
Deiliad y Portffolio			

DRAFFT
Polisi Cyflogau Athrawon Digyswllt
Enghreifftiol
2021/2022

RHEOLI'R DDOGFEN	
Enw'r Polisi	Polisi Cyflogau Athrawon Digyswllt 2021/22
Gwasanaeth	Pobl a Threfniadaeth
Swyddogion Adolygu	Swyddogion Adnoddau Dynol
Y BROSES YMGYNGHORI	
<p>Ymgynghorwyd â'r Undebau Llafur canlynol ynghylch y polisi hwn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) • Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) • Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) • Yr Undeb Addysg Genedlaethol (NEU) • UCAC 	

Mabwysiadodd Corff Llywodraethu
Ysgol

y Polisi hwn yn ffurfiol ar

TABL CYNNWYS

1.	Cyflwyniad	4
2.	Datganiad o Fwriad	4
3.	Cydraddoldebau	4
4.	Swydd-ddisgrifiadau	5
5.	Gwerthuso	5
6.	Rhwymedigaethau'r Awdurdod Lleol	5
7.	Rhwymedigaethau'r Rheolwr Llinell	5
8.	Rhwymedigaethau'r Athrawon	6
9.	Differynnau	6
10.	Diogelu	6
11.	Medrusrwydd a Datblygiad Cyflog	6
12.	Pennu Cyflogau	7
13.	Cyflog y Rheolwr	7
14.	Cyflog y Dirprwy Reolwr/Rheolwr Cynorthwyol	8
15.	Datblygiad Cyflog ar gyfer Aelodau'r Grŵp Arwain	9
16.	Cyflog Athrawon Dosbarth	10
17.	Cyflog Athrawon Dosbarth	12
18.	Rôl Ymarferwr Arweiniol	14
19.	Athrawon heb gymhwyso	14
20.	Lwfansau a Thaliadau yn ôl Disgresiwn	15
21.	Cyfrifo Cyflogau ac Amser Athrawon Rhan-amser	18
22.	Athrawon a Gyflogir ar Fyr Rybudd (Cyflenwi)	18
Atodiad 1:	Ystodau Cyflog 2021/22	19
Atodiad 2:	Datganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon	23
Atodiad 3:	Meini Prawf ar gyfer Datblygu i'r Ystod Cyflog Uwch	24
Atodiad 4:	Ffurflen Gais ar gyfer yr Ystod Cyflog Uwch	25
Atodiad 5:	Siart Llif y Broses Adolygu Cyflogau	26
Atodiad 6:	Canllawiau ar Gyflogau'r Tîm Arwain	27
Atodiad 7:	Ffurflen Adolygu Flynyddol y Tîm Arwain	35
Atodiad 8:	Y Broses Apeliadau Cyflog	36
Atodiad 9:	Cyfrifo Cyflogau ac Amser Athrawon Rhan-amser	39
Atodiad 10:	Strwythur Staffio'r Ysgol	40

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Mae'r Polisi Cyflogau hwn yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch cyflogau athrawon. Fe'i datblygwyd i gydymffurfio â gofynion y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (DCAAY(C)) ac mae wedi bod yn destun ymgynghori â'r holl gymdeithasau addysgu cydnabyddedig.
- 1.2. At ddiben y polisi hwn, mae Athrawon digyswllt yn cyfeirio at Athrawon nad ydynt yn dod o dan reolaeth Cyrff Llywodraethu Ysgolion, h.y. Athrawon Peripatetig, Athrawon Bro, Athrawon a Gyflogir yn Ganolog, ac ati.

2. DATGANIAD O FWRIAD

- 2.1. Prif ddyletswydd statudol Cyrff Llywodraethu yng Nghymru, fel y'i nodir ym mharagraff 21 (2) o Ddeddf Addysg 2002, yw cynnal yr ysgol gyda'r bwriad o hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol yn yr ysgol. Bwriedir i'r Polisi hwn gefnogi'r ddyletswydd statudol honno.
- 2.2. Bydd y gweithdrefnau ar gyfer pennu cyflogau yn yr Ysgol hon yn gyson ag egwyddorion bywyd cyhoeddus: gwrthrychedd, didwylledd ac atebolrwydd.
- 2.3. Bydd Rheolwyr Llinell yn gweithredu ag unplygrwydd, cyfrinachedd, gwrthrychedd a gonestrwydd er lles pennaf yr Ysgol mewn perthynas â gweithredu'r Polisi hwn.
- 2.4. Bydd y Rheolwr Llinell yn agored ynglŷn â phenderfyniadau a wneir a chamau gweithredu a gymerir mewn perthynas â chyflog, a bydd yn barod i egluro penderfyniadau a chamau gweithredu i bobl sydd â diddordeb.
- 2.5. Bydd unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol i'r polisi hwn yn cydymffurfio â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) ac yn destun gwaith ymgynghori â phartion perthnasol, gan gynnwys undebau llafur cydnabyddedig.

3. CYDRADDOLDEBAU

- 3.1. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol ar gydraddoldeb, gan gynnwys:
- Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 1999;
 - Deddf Cydraddoldeb 2010;
 - Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996;
 - Rheoliadau Gweithwyr Rhan-amser (Atal Triniaeth Lai Ffafirol) 2000;
 - Rheoliadau Gweithwyr Cyfnod Penodol (Atal Triniaeth Lai Ffafirol) 2002; a
 - Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010
- 3.2. Bydd y Polisi hwn yn cael ei gymhwyso'n gyson at bob cyflogai, a hynny heb ystyried oedran, anabledd, hil, rhyw, ailbennu rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth, crefydd, cred a chyfeiriadedd rhywiol.

- 3.3. Bydd yr Awdurdod Lleol yn hyrwyddo cydraddoldeb ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, yn enwedig o ran pob penderfyniad ynghylch hysbysebu swyddi, penodi, dyrchafu, talu, hyfforddi a datblygu staff.
- 3.4. Bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod prosesau talu'n dryloyw ac yn deg. Bydd pob penderfyniad a wneir yn cael ei gyfiawnhau a'i gofnodi'n wrthrychol. Bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud fesul achos, er mwyn ystyried amgylchiadau unigolion, fel absenoldeb tymor hir ar sail mamolaeth neu afiechyd, gan gynnwys unrhyw absenoldebau sy'n gysylltiedig â COVID.

4. SWYDD-DDISGRIFIADAU

- 4.1. Bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod gan bob aelod o'r staff swydd-ddisgrifiad yn unol â strwythur staffio yr Ysgol (**gweler Atodiad 10**), fel y cytunwyd gan y Corff Llywodraethu.

5. GWERTHUSO

- 5.1. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011 o ran gwerthuso penaethiaid ac athrawon trwy gymhwyso Polisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol.

6. RHWYMEDIGAETHAU'R AWDURDOD LLEOL

- 6.1. Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud y canlynol:

- cyflawni ei rwymedigaethau fel y'u nodir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) a'r Amodau Gwasanaeth i Athrawon Ysgol yng Nghymru a Lloegr (y "Burgundy Book");
- sefydlu system ar gyfer delio â phenderfyniadau ynghylch cyflogau ac apeliadau ynghylch cyflogau;
- gwneud pob penderfyniad ynghylch datblygiad cyflog, gan ystyried argymhellion y Rheolwr Llinell;
- sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi penderfyniadau ynghylch cyflogau, yn unol â'r Polisi Cyflogau hwn a chynllun gwariant yr Ysgol;
- sicrhau bod athrawon, trwy eu Rheolwr Llinell, yn cael gwybod am benderfyniadau ynghylch cyflogau sy'n effeithio arnynt, a bod cofnodion yn cael eu cadw o'r argymhellion a'r penderfyniadau a wneir; a
- monitro'n flynyddol ganlyniadau penderfyniadau ynghylch cyflogau, gan gynnwys i ba raddau y caiff grwpiau gwahanol o athrawon ddatblygu ar gyfraddau gwahanol. Bydd canlyniad yr adolygiad yn cael ei rannu â chynrychiolwyr undebau llafur lefel ysgol.

7. RHWYMEDIGAETHAU'R RHEOLWR LLINELL

- 7.1. Bydd y Rheolwr Llinell yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod pob gwerthuswr (os nad y Rheolwr Llinell yw hwnnw) yn darparu gwybodaeth gywir, berthnasol, gyflawn ac amserol am argymhellion ynghylch cyflogau;
- cymedroli asesiadau perfformiad ac argymhellion cychwynnol ynghylch cyflogau i sicrhau cysondeb a thegwch;

- cyflwyno argymhellion ynghylch cyflogau i'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol/Panel Cyflogau a sicrhau bod y Pennaeth Gwasanaeth/Panel Cyflogau yn cael gwybodaeth berthnasol er mwyn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch cyflogau;
- rhoi gwybod i'r athrawon am Bolisi Cyflogau yr Awdurdod Lleol, a sicrhau bod copi ar gael iddynt;
- rhoi gwybod i'r staff sy'n gweinyddu'r gyflogres a/neu'r staff adnoddau dynol yn yr Awdurdod Lleol am benderfyniadau ynghylch cyflogau y mae angen eu rhoi ar waith; a
- sicrhau bod adroddiad ar weithrediad y Polisi Cyflogau yn cael ei gyflwyno, ar lefel maes gwasanaeth, i'w drafod gyda'r Undebau Llafur perthnasol yn flynyddol.

8. RHWYMEDIGAETHAU'R ATHRAWON

8.1. Bydd yr athrawon yn gwneud y canlynol:

- and ymgyfarwyddo â darpariaethau'r Polisi Cyflogau, y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru), y safonau proffesiynol perthnasol a'r holl bolisiau perthnasol ar gyflogaeth awdurdodau lleol; a
- mynd i'r afael â'r prosesau a nodir yn y polisi hwn, a hynny mewn modd cadarnhaol

9. DIFFERYNNAU

9.1. O fewn fframwaith y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru), bydd differynnau priodol yn cael eu creu a'u cynnal rhwng swyddi yn yr ysgol, gan gydnabod atebolrwydd a phwysau'r swydd, ac angen yr Awdurdod Lleol i recriwtio a chadw digon o athrawon o'r ansawdd gofynnol ar bob lefel.

10. DIOGELU

10.1. Os bydd penderfyniad ynghylch cyflog yn arwain at ddechrau cyfnod diogelu, neu os gallai arwain at gyfnod o'r fath, bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â darpariaethau perthnasol y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru), a bydd yn rhoi'r rhybudd gofynnol cyn gynted â phosibl ac o fewn mis ar ôl y penderfyniad.

11. MEDRUSRWYDD A DATBLYGIAD CYFLOG

- 11.1. Os bydd yr Athro yn destun Gweithdrefn Medrusrwydd ffurfiol yr Awdurdod Lleol, bydd prosesau rheoli perfformiad yr Ysgol yn cael eu hatal yn achos yr Athro dan sylw, a hynny tan i'r Weithdrefn Medrusrwydd gael ei chwblhau.
- 11.2. Ar ôl cwblhau'r Weithdrefn Medrusrwydd, bydd yr Athro yn ailgydio mewn prosesau rheoli perfformiad, yn unol â Pholisi'r Awdurdod Lleol.
- 11.3. Ni chaniateir datblygiad cyflog yn unol â'r Polisi Cyflogau hwn pan fo Athro yn destun camau ffurfiol Gweithdrefn Medrusrwydd yr Awdurdod Lleol.
- 11.4. Ar ôl cwblhau'r Weithdrefn Medrusrwydd, dylai'r Athro ail-ymuno â'r broses Rheoli Perfformiad.
- 11.5. Ni fydd datblygiad cyflog yn cael ei gymhwyso'n ôl-weithredol mewn unrhyw achos ffurfiol yn ymwneud â medrusrwydd.

12. PENNU CYFLOGAU

12.1. Mae'r corff llywodraethu wedi dirprwyo ei bwerau pennu cyflog i'r Pwyllgor Cyflogau. Bydd y penderfyniadau o ran cyflogau yn cael eu gwneud gan y Pennaeth Gwasanaeth priodol / Panel cyflogau ar gyfer y maes gwasanaeth, a'r Rheolwr Llinell priodol fydd yn rhoi gwybod i bob Athro am ei gyflog.

12.2. Pennu cyflogau yn flynyddol

12.2.1. Bydd cyflogau'r holl staff addysgu, gan gynnwys y Rheolwr, y Dirprwy Reolwr neu'r Rheolwr Cynorthwyol yn cael eu hadolygu'n flynyddol, a hynny'n weithredol o 1 Medi. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cwblhau adolygiadau blynyddol o gyflog athrawon, ac asesiadau o geisiadau i ddatblygu i'r Ystod Cyflog Uwch, erbyn 31 Hydref; bydd adolygiad blynyddol o gyflog y Rheolwr yn cael ei gwblhau erbyn 31 Rhagfyr.

12.2.2. Gall adolygiadau gael eu cynnal ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn, er mwyn adlewyrchu, er enghraifft, unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau neu newidiadau yn y swydd-ddisgrifiad sy'n arwain at newid yn y sail ar gyfer cyfrifo cyflog unigolyn.

12.2.3. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cymhwyso unrhyw godiadau cyflog cenedlaethol yn y dyfodol fel y'u nodir yn y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).

12.3. Rhoi gwybod am benderfyniad ynghylch cyflogau

12.3.1. Bydd datganiad ysgrifenedig yn cael ei roi i bob athro a fydd yn nodi'r cyflog ac unrhyw fuddiannau ariannol eraill y mae ganddo'r hawl iddynt yn sgil gwneud penderfyniad. Lle y bo'n berthnasol, bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ynghylch ar ba sail y gwnaed y penderfyniad. Bydd hyn yn cael ei wneud erbyn 31 Hydref ar gyfer athrawon, 31 Rhagfyr ar gyfer Rheolwyr, neu o fewn mis ar ôl gwneud y penderfyniad.

12.4. Y Weithdrefn ar gyfer apeliadau

12.4.1. Mae gan yr Awdurdod Lleol weithdrefn ar gyfer apeliadau mewn perthynas â chyflogau. Fe'i heglurir yn **Atodiad 8** i'r Polisi Cyflogau hwn.

13. CYFLOG Y RHEOLWR

13.1. Bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod y broses o bennu cydnabyddiaeth ariannol y Rheolwr yn deg ac yn dryloyw.

13.2. Bydd yr Awdurdod Lleol yn pennu ystod cyflog arweinyddiaeth saith pwynt, a gymerwyd o'r Ystod Cyflogau Arweinwyr yn y DCAAY(C), fel y nodir yn Atodiad 1. Gellir adolygu hyn yn ôl yr angen ar gyfer y Rheolwr yn seiliedig ar faint grŵp yr ysgol ac unrhyw ffactorau perthnasol ychwanegol parhaol sydd wedi'u pennu yn fframwaith y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (yn benodol paragraffau 9.2, 9.3 a 9.4).

13.3. Bydd y ffactorau ychwanegol i'w hystyried yn cynnwys holl gyfrifoldebau parhaol y swydd, heriau sy'n benodol i'r rôl a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill, ynghyd ag unrhyw ffactorau sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw staff.

13.4. Gall yr Awdurdod Lleol ailbennu ystod cyflog y Rheolwr os bydd angen newid y grŵp rheolwyr (gan gynnwys lle bo'r Rheolwr yn cymryd cyfrifoldeb dros fwy nag un ysgol mewn ffederasiwn ac yn dod yn atebol amdanynt yn barhaol). Gall ystod cyflog y Rheolwr hefyd gael ei hadolygu ar unrhyw adeg os ystyrir bod angen adlewyrchu newid arwyddocaol o ran cyfrifoldebau'r swydd.

13.5. Ni fydd taliadau ar gyfer cyfrifoldebau dros dro y Rheolwr yn cael eu cynnwys yn yr ystod cyflog, ond byddant yn cael eu pennu yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru), fel yr eglurir yn **Atodiad 6**.

13.6. Bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio pwyntiau cyflog cyfeirio yn ôl disgrisiwn ar gyfer cyflog arweinwyr, fel y nodir yn **Atodiad 1**, ac mae wedi cytuno ar ystod cyflog saith cam, sef A xxx i A xxx (*manylion i'w cynnwys yma gan yr ysgol*).

13.7. Cyflog pan gaiff Rheolwr ei benodi

13.7.1. Ar gyfer penodiadau newydd, bydd yr Awdurdod Lleol yn pennu'r ystod cyflog arweinyddiaeth i'w hysbysebu, a bydd yn cytuno ar y cyflog cychwynnol pan fydd y Rheolwr yn cael ei benodi, a hynny gan ystyried rôl lawn y Rheolwr a darpariaethau'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).

13.7.2. Bydd yr Awdurdod Lleol yn mabwysiadu proses tri cham wrth bennu'r cyflog ar gyfer Rheolwr newydd, fel y nodir yn **Atodiad 6**.

13.7.3. Bydd yr Awdurdod Lleol yn adolygu ystod cyflog y Rheolwr, yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau perthynoleddau cyflog teg yn y maes gwasanaeth/Awdurdod Lleol.

13.7.4. Gweler **Atodiad 6** i'r Polisi Cyflogau hwn am ganllawiau ynghylch ystodau cyflog arweinwyr ac **Atodiad 7** am Ddatganiad yr Adolygiad Blynnyddol o Gyflogau.

13.8. **Rheolwyr sy'n gyfrifol ac yn atebol am fwy nag un ysgol yn barhaol**

- 13.8.1. Pan benodir Rheolwr i fod yn gyfrifol ac yn atebol am fwy nag un ysgol yn barhaol, dylai'r Awdurdod Lleol seilio'r penderfyniad ynghylch grŵp y Rheolwr ar gyfanswm nifer yr unedau disgyblion ar draws pob ysgol, a fydd yn rhoi maint grŵp ar gyfer y ffederasiwn yn unol ag **Atodiad 6**.
- 13.8.2. Bydd hefyd angen rhoi ystyriaeth i'r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Athrawon eraill a fydd, o ganlyniad i rôl y Rheolwr, yn ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol. Bydd y rhain yn seiliedig ar unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r swydd (nid yr Athro), a gofnodir. Ni ddylid cytuno i gynyddu'r gydnabyddiaeth ariannol oni bai fod y swydd yn cronni cyfrifoldebau ychwanegol o ganlyniad i rôl fwy y Rheolwr – nid yw'n awtomatig.

14. CYFLOG Y DIRPRWY REOLWR/RHEOLWR CYNORTHWYOL

- 14.1. Bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio pwyntiau cyflog cyfeirio yn ôl disgrisiwn ar gyfer cyflog arweinwyr, fel y nodir yn **Atodiad 1**.
- 14.2. Bydd yr Awdurdod Lleol yn pennu ystod cyflog arweinwyr saith pwynt, a gymerwyd o'r Ystod Cyflogau Arweinwyr yn y DCAAY(C), fel y nodir yn Atodiad 1. Gellir adolygu hyn yn ôl yr angen ar gyfer y Dirprwy Reolwr/Rheolwr Cynorthwyol yn seiliedig ar faint grŵp yr ysgol ac unrhyw ffactorau perthnasol ychwanegol parhaol sydd wedi'u pennu yn fframwaith y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).
- 14.3. Bydd yr ystod ar gyfer swyddi unigol yn cael ei phennu yn unol â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, a gallant amrywio rhwng swyddi.
- 14.4. Yn yr Awdurdod Lleol hwn, ystod cyflog pum cam y Dirprwy Reolwr yw **A xx** i **A xxx** (*manyllion cyflog i'w nodi yma gan yr ysgol*).
- 14.5. Yn yr Awdurdod Lleol hwn, ystod cyflog pum cam y Rheolwr Cynorthwyol yw **A xx** i **A xxx** (*manyllion cyflog i'w nodi yma gan yr ysgol*).
- 14.6. **Cyflog adeg penodi**
- 14.6.1. Pan fydd angen gwneud penodiad newydd, bydd yr Awdurdod Lleol yn pennu'r ystod cyflog arwain ar gyfer y swydd i'w hysbysebu, a bydd yn cytuno ar y cyflog cychwynnol adeg penodi.
- 14.6.2. Pennir yr ystod cyflog yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).
- 14.6.3. Bydd yr Awdurdod Lleol yn mabwysiadu'r broses tri cham wrth bennu'r cyflog ar gyfer penodiadau newydd i'r tîm arwain ehangach, fel y nodir yn **Atodiad 6**.

15. DATBLYGIAD CYFLOG AR GYFER AELODAU'R TÎM ARWAIN

- 15.1. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried yn flynyddol a ddylid cynyddu cyflogau aelodau o'r tîm arwain sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth ers y tro diwethaf i gyflogau gael eu pennu ac, os yw'n penderfynu gwneud hynny, i ba gyflog o fewn yr ystod cyflog berthnasol, a bennir yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon (Cymru).
- 15.2. Bydd unigolyn wedi cwblhau 'blwyddyn o gyflogaeth' os bydd wedi cyflawni cyfnodau o gyflogaeth cyfwerth ag o leiaf chwe wythnos ar hugain, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. I'r dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth yn dechrau, i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, p'un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn-amser, yn rhan-amser, yn rheolaidd neu fel arall.
- 15.3. Dylai'r cyflog ddatblygu'n flynyddol o 1 Medi, gan dybio o blaid cynnydd oni bai fod yr unigolyn wedi cael ei hysbysu trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod y gwasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.
- 15.4. Gall yr Awdurdod Lleol ddyfarnu pwynt ychwanegol i unrhyw Reolwr, Dirprwy Reolwr neu Reolwr Cynorthwyol, yr oedd ei berfformiad yn y flwyddyn flaenorol yn rhagorol, yn enwedig mewn perthynas â'r amcanion y cytunwyd arnynt.
- 15.5. Gellir penderfynu peidio â dyfarnu datblygiad cyflog lle mae'r Rheolwr, y Dirprwy Reolwr neu'r Rheolwr Cynorthwyol yn destun achos medrusrwydd ffurfiol.
- 15.6. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth/Panel Cyflogau yn cofnodi ei benderfyniad ynghylch datblygiad cyflog ar y ffurflen Adolygu Cyflog Blynnyddol yn **Atodiad 7**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei ddarparu i'r aelod o'r staff.
- 15.7. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr aelod o'r staff yn cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi yn y flwyddyn academaidd gyfredol.
- 15.8. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei gofnodi ar y ffurflen Adolygu Cyflog Blynnyddol. Mae gan yr aelod o'r staff yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn ar gyfer apelïadau i'w gweld yn **Atodiad 8**.

16. CYFLOG ATHRO DOSBARTH

16.1. Cyflog pan gaiff athro dosbarth ei benodi

- 16.1.1. Bydd hysbysebion ar gyfer swyddi gwag yn yr Ysgol yn cael eu hystyried gan y Pennaeth [a'r (*nodwch fanylion y pwyllgor*) os yw'n briodol]. Bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu naill ai'n fewnol neu'n allanol, yn lleol neu'n genedlaethol, fel y bo'n briodol.
- 16.1.2. Bydd yr hysbyseb yn cynnwys manylion yr ystod cyflog ac unrhyw lwfansau neu daliadau ychwanegol sy'n berthnasol i'r swydd.

- 16.1.3. Bydd yr Awdurdod Lleol yn pennu'r cyflog cychwynnol ar gyfer swydd Athro dosbarth, yn unol â'r Brif Ystod Cyflog a'r Ystod Cyflog Uwch, y manylir arnynt yn **Atodiad 1**.
- 16.1.4. Bydd yr Awdurdod Lleol yn pennu cyflog dechreuol ar gyfer swydd wag athro ystafell ddosbarth. Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i egwyddor cludadwyedd tâl i athrawon sy'n cael eu talu ar hyn o bryd yn unol â darpariaethau'r DCAAY(C) neu'r DCAAY, a bydd yn cymhwyso'r egwyddorion a nodir ym mharagraff 12.3 o'r DCAAY(C) yn ymarferol wrth wneud penodiadau newydd.
- 16.1.5. Wrth bennu'r cyflog cychwynnol ar gyfer athro dosbarth presennol mewn ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru, neu academi neu ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol yn Lloegr ac sy'n cael ei dalu yn unol â'r DCAAY(C) neu'r DCAAY, bydd yr awdurdod lleol yn talu'r athro ar y brif ystod cyflog neu'r ystod cyflog uwch, a hynny ar bwynt ar y raddfa sydd o leiaf yn cynnal hawl blaenorol yr athro i dâl, ac unrhyw ddatblygiad cyflog, y byddai wedi ei gael pe byddai wedi aros yn ei swydd flaenorol.
- 16.1.6. Bydd cludadwyedd cyflog yn cael ei gymhwyso ar sail "pro rata" pan fydd athro yn symud i/o swydd addysgu ran-amser.
- 16.1.7. At hynny, os yw'r ymgeisydd llwyddiannus yn athro sydd wedi cael seibiant o'r gwasanaeth, yna gall yr Awdurdod Lleol bennu ei bwynt ar y raddfa yn seiliedig ar ei gyflog terfynol blaenorol a dalwyd yn unol â'r DCAAY(C) neu'r DCAAY, gan gynnwys unrhyw gynyddrannau y byddai'r athro wedi bod â hawl i'w gael pe bai wedi aros yn ei swydd flaenorol ar yr adeg y digwyddodd y newid mewn cyflogaeth. Gall yr Awdurdod Lleol ystyried unrhyw brofiad perthnasol a gafwyd o rôl addysgu mewn sector arall yng Nghymru neu awdurdodaeth neu gyfnod o gyflogaeth mewn sector perthnasol y tu allan i addysgu.
- 16.1.8. Rhaid i gludadwyedd cyflog rychwantu toriad yn y gwasanaeth addysgu am resymau iechyd a chymdeithasol fel rhesymau mamolaeth/tadolaeth, meddygol neu deuluol. Mewn sefyllfa lle mae'r cyflogwr newydd yn bwriadu cymryd safbwynt gwahanol, rhaid i'r seiliau dros wneud hynny fod yn anwahaniaethol mewn perthynas â chydarddoldeb a deddfwriaeth berthnasol arall.
- 16.1.9. Ni fydd yr Awdurdod Lleol yn cyfyngu ar yr ystod cyflog a hysbyseb, na'r cyflog cychwynnol a'r rhagolygon o ran datblygiad cyflog sydd ar gael ar gyfer swyddi Athrawon dosbarth, ac eithrio yn achos isafswm y Brif Ystod Cyflog ac uchafswm yr Ystod Cyflog Uwch.
- 16.2. **Datblygiad cyflog ar gyfer athrawon sydd ar y Brif Ystod Cyflog ar hyn o bryd**
- 16.2.1. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried yn flynyddol a ddylid cynyddu cyflogau athrawon (ac eithrio athrawon newydd gymhwyso sy'n ymgymryd â'u blwyddyn ymsefydlu) sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth ers y tro diwethaf i gyflogau gael eu pennu ac, os yw'n penderfynu gwneud hynny, i ba gyflog o fewn yr ystod cyflog berthnasol a bennir yn unol â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon (Cymru).
-

- 16.2.2. Dyfernir datblygiad cyflog i Athrawon yn eu blwyddyn ymsefydlu wedi iddynt gwblhau eu blwyddyn ymsefydlu yn llwyddiannus.
- 16.2.3. Bydd unigolyn wedi cwblhau 'blwyddyn o gyflogaeth' os bydd wedi cyflawni cyfnodau o gyflogaeth cyfwerth ag o leiaf chwe wythnos ar hugain, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. I'r dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth yn dechrau, i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, p'un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn-amser, yn rhan-amser, yn rheolaidd neu fel arall.
- 16.2.4. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ddyfarnu datblygiad cyflog o un pwynt i Athro sydd ar bwyntiau M2 i M6 o'r Prif Ystod Cyflog wedi iddo gwblhau blwyddyn o gyflogaeth a gyflawnwyd yn rôl Athro cymwysedig yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, oni bai fod yr Athro wedi cael gwybod trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod ei wasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.
- 16.2.5. Dylai'r cyflog ddatblygu'n flynyddol o 1 Medi, gan dybio o blaid cynnydd oni bai fod yr unigolyn wedi cael ei hysbysu trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod y gwasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.
- 16.2.6. Gall yr Awdurdod Lleol ddyfarnu pwynt ychwanegol i unrhyw Athro ar y Brif Raddfa yr oedd ei berfformiad yn y flwyddyn flaenorol yn rhagorol, yn enwedig mewn perthynas ag addysgu yn yr ystafell ddosbarth.
- 16.2.7. Gellir gwneud penderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog lle mae'r Athro'n destun gweithdrefnau medrusrwydd ffurfiol.
- 16.2.8. Bydd y Rheolwr Llinell/Pennaeth Gwasanaeth yn cofnodi ei benderfyniad ynghylch datblygiad cyflog yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon yn **Atodiad 2**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei ddarparu i'r athro.
- 16.2.9. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr aelod o'r staff yn cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi yn y flwyddyn academaidd gyfredol.
- 16.2.10. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei gofnodi yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon. Mae gan yr athro hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn ar gyfer apeliadau i'w gweld yn **Atodiad 8**.
- 16.3. **Datblygiad Cyflog ar gyfer Athrawon sydd ar yr Ystod Cyflog Uwch ar hyn o bryd**
- 16.3.1. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried yn flynyddol a ddylid cynyddu cyflogau Athrawon ar yr ystod cyflog uwch sydd wedi cwblhau blwyddyn o gyflogaeth oddi ar y tro diwethaf i gyflogau gael eu pennu ac, os yw'n penderfynu gwneud hynny, i ba gyflog o fewn yr ystod cyflog berthnasol a bennir yn unol â'r DCAAY(C).

- 16.3.2. Bydd unigolyn wedi cwblhau 'blwyddyn o gyflogaeth' os bydd wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sy'n gyfwerth ag o leiaf 26 wythnos, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. I'r dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth y cychwyn i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, p'un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn-amser, yn rhan-amser, yn rheolaidd neu fel arall.
- 16.3.3. Yn y mwyafrif o achosion, dylai datblygiad ar yr Ystod Cyflog Uwch ddigwydd **bob dwy flynedd**, gan dybio o blaid cynnydd oni bai fod yr unigolyn wedi cael ei hysbysu trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod y gwasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw, fel y nodir yn Rheoliadau Gwerthuso Athrawon Ysgol (Cymru) 2011.
- 16.3.4. Bydd y Rheolwr Llinell / Pennaeth Gwasanaeth yn cofnodi ei benderfyniad ynghylch datblygiad cyflog yn Natganiad yr Adolygiad Blynnyddol o Gyflogau Athrawon yn **Atodiad 2**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei ddarparu i'r Athro.
- 16.3.5. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr Athro yn cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi yn y flwyddyn academaidd gyfredol.
- 16.3.6. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei chofnodi yn Natganiad yr Adolygiad Blynnyddol o Gyflogau Athrawon. Mae gan yr athro yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn apelio i'w gweld yn **Atodiad 8**.

17. CEISIADAU AM GYFLOG AR YR YSTOD CYFLOG UWCH

- 17.1. Gall Athro cymwysedig wneud cais unwaith bob blwyddyn i gael ei dalu ar yr Ystod Cyflog Uwch, yn unol â'r DCAAY(C) a Pholisi Cyflogau yr Ysgol hon.
- 17.2. Cyfrifoldeb pob Athro yw penderfynu a ddylai gyflwyno cais.
- 17.3. Er mwyn i'r asesiad fod yn gadarn ac yn dryloyw, bydd yn broses sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- 17.4. Bydd yr amcanion personol ar gyfer y cylch gwerthuso sydd ar ddod yn cael eu gosod a'u cadarnhau ar lefel sy'n ddigonol i sicrhau y gellir bodloni'r meini prawf sydd wedi'u cynnwys yn y DCAAY(C) ar gyfer symud ymlaen i'r Ystod Cyflog Uwch, gan gynnwys bod yr Athro yn gymwys iawn ym mhob elfen o'r safonau perthnasol, a bod ei gyflawniadau a'i gyfraniad i'r ysgol yn sylweddol ac yn barhaus.
- 17.5. Gall athrawon sydd wedi bod yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch, anabledd neu resymau sy'n gysylltiedig â mamolaeth, ynghyd â'r rheiny nad ydynt yn destun Rheoliadau Gwerthuso 2011 (h.y. athro a gyflogir ar gcontract byrdymor o lai nag un tymor), ddyfynnu tystiolaeth ysgrifenedig o gyfnod addas a pherthnasol cyn dyddiad y cais i gefnogi eu cais.
- 17.6. **Y broses**
-

17.6.1. Y dyddiad cau ar gyfer cais sydd i'w gyflwyno gan Athro i'w werthuswr yw *(yr awdurdod lleol i nodi dyddiad yma – fel arfer cyn diwedd Tymor yr Haf, h.y. 31 Awst).*

17.6.2. Gellir gwneud eithriadau mewn rhai amgylchiadau penodol, e.e. yr Athrawon hynny sydd ar gyfnod mamolaeth neu sy'n absennol oherwydd salwch ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Mewn amgylchiadau o'r fath, gall yr athro ofyn – o leiaf pythefnos cyn y dyddiad cau a nodwyd – am estyniad o hanner tymor ar y mwyaf ar gyfer cyflwyno cais.

17.6.3. Mae'r broses ar gyfer cyflwyno cais fel a ganlyn:

- Mae'r athro yn rhoi gwybod i'r gwerthuswr yn ysgrifenedig ei fod yn dymuno cael ei ystyried i ddringo i'r Ystod Cyflog Uwch ac y dylai ei amcanion personol ar gyfer y cyfnod gwerthuso sydd i ddod adlewyrchu'r cais hwn.

Ar ôl cwblhau'r cyfnod gwerthuso perthnasol:

- Bydd y gwerthuswr yn llenwi ffurflen asesu, fel y gwelir yn **Atodiad 4**, gan nodi argymhelliad y gwerthuswr mewn perthynas â datblygu i'r Ystod Cyflog Uwch, ar ôl cwblhau'r cyfnod gwerthuso perthnasol.
- Bydd y Rheolwr Llinell yn ystyried argymhelliad y gwerthuswr ac yn gwneud argymhelliad i'r Pennaeth Gwasanaeth / Pwyllgor Cyflogau.
- Bydd y Pennaeth Gwasanaeth / Pwyllgor Cyflogau yn gwneud penderfyniad ynghylch datblygiad cyflog, ar ôl cael cyngor gan y Pennaeth.
- Bydd yr athro yn cael hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad ei gais erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn berthnasol.
- Os yw'r cais yn aflwyddiannus, bydd yr hysbysiad ysgrifenedig yn egluro pa feysydd o berfformiad yr Athro nas ystyrir eu bod wedi bodloni'r meini prawf perthnasol a nodir yn y Polisi hwn (gweler "Asesu" isod).
- Os gofynnir amdano, bydd adborth ar lafar yn cael ei roi gan y Pennaeth. Fel arfer, bydd adborth ar lafar yn cael ei roi cyn pen 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad y rhoddwyd gwybod am ganlyniad y cais. Bydd adborth yn cael ei roi mewn modd cadarnhaol, a bydd yn cynnwys cyngor a chymorth ynghylch meysydd i'w gwella, er mwyn i'r athro fodloni'r meini prawf perthnasol.
- Os yw'r cais yn llwyddiannus, bydd yr athro yn symud i gam 1 o'r Ystod Cyflog Uwch ar 1 Medi yn y flwyddyn berthnasol, h.y. ar ôl llwyddo i gwblhau'r amcanion a osodwyd yn y flwyddyn academaidd hyd at 31 Awst 2020, bydd yr athro yn symud i'r cam cyntaf ar yr Ystod Cyflog Uwch ar 1 Medi 2020.

17.6.4. Gall ymgeiswyr aflwyddiannus apelio yn erbyn y penderfyniad, fel yr amlinellir yn **Atodiad 8**.

17.7. **Asesu**

- 17.7.1. Ni fydd cais yn llwyddiannus oni bai fod y Corff Llywodraethu yn fodlon bod holl ofynion y DCAAY(C) wedi'u bodloni, gan gynnwys:
- bod yr athro yn gymwys iawn ym mhob elfen o'r safonau perthnasol; a
 - bod cyflawniadau'r athro, a'i gyfraniad at leoliad neu leoliadau addysgol, yn sylweddol ac yn gyson.
- 17.7.2. At ddibenion y Polisi Cyflogau hwn, bydd y Pennaeth Gwasanaeth / Pwyllgor Cyflogau yn fodlon bod yr Athro wedi bodloni disgwyliadau'r Awdurdod Lleol ar gyfer symud ymlaen i'r Ystod Cyflog Uwch lle bydd meini prawf yr Ystod Cyflog Uwch (gweler **Atodiad 3**) wedi'u bodloni, fel y profwyd gan adolygiad gwerthuso llwyddiannus.
- 17.7.3. Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion am ffynonellau tystiolaeth, ar gael ym Mholisi Rheoli Perfformiad yr Ysgol.

18. RÔL YMARFERWR ARWEINIOL

- 18.1. Gall yr Awdurdod Lleol greu swyddi Ymarferwyr Arweiniol ar gyfer athrawon sydd â'r prif ddiben o fodlu ac arwain ym maes gwella sgiliau addysgu.
- 18.2. Os bydd yr Awdurdod Lleol yn dymuno creu swyddi o'r fath, bydd yn pennu'r cyfrifoldebau a'r ystod cyflog i'r swyddi hyn. Ymgynghorir â'r staff a'r undebau llafur perthnasol ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig o'r fath i'r strwythur staffio.
- 18.3. Polisi'r Awdurdod Lleol fydd penodi unrhyw Athro Ymarferydd Arweiniol newydd i ystod pum pwynt, fel sy'n briodol ym marn y Corff Llywodraethu.
- 18.4. Bydd yr ystod cyflog ar gyfer Ymarferwyr Arweiniol yn cydweddu â'r DCAAY(C), sef isafswm o £43,145 y flwyddyn ar hyn o bryd ac uchafswm o £65,590 y flwyddyn.
- 18.5. Bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio'r pwyntiau cyflog cyfeirio yn ôl disgrisiwn, fel y nodir yn **Atodiad 1**.
- 18.6. Bydd datblygiad cyflog ar gyfer Ymarferwyr Arweiniol yn cael ei bennu yn unol â'r broses a nodir yn 16.3.1 i 16.3.4 uchod.

19. ATHRAWON HEB GYMHWYSO

- 19.1. Bydd cyflog blynyddol yn cael ei dalu i athro ar yr ystod cyflog heb gymhwysu yn unol â DCAAY(C). Yn yr ysgol hon, bydd y Corff Llywodraethu yn defnyddio'r pwyntiau cyflog statudol fel y nodir yn **Atodiad 1**.
- 19.2. O dan Reoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010, mae yna amgylchiadau penodol lle caiff y rheiny heblaw Athrawon cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysgu wneud 'gwaith penodedig'.

- 19.3. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol hyn, ac ni fydd ond yn cyflogi athrawon heb gymhwyso fel y nodir yn y Rheoliadau hyn.
- 19.4. Gall yr Awdurdod Lleol dalu lwfans ychwanegol i Athro heb gymhwyso sy'n bodloni'r meini prawf fel y'u diffinnir yn y DCAAY(C).
- 19.5. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ddyfarnu datblygiad cyflog o un pwynt i Athro sydd ar bwyntiau 1 i 6 o'r Ystod Cyflog Athrawon heb Gymhwyso wedi iddo gwblhau blwyddyn o gyflogaeth a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol, oni bai fod yr Athro wedi cael gwybod trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod ei wasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.
- 19.6. Bydd unigolyn wedi cwblhau 'blwyddyn o gyflogaeth' os bydd wedi cwblhau cyfnodau o gyflogaeth sy'n gyfwerth ag o leiaf 26 wythnos, gyda'i gilydd, yn y flwyddyn ysgol flaenorol. At y dibenion hyn, mae cyfnod cyflogaeth yn para o ddechrau'r wythnos pan fydd y gyflogaeth yn cychwyn i ddiwedd yr wythnos pan gaiff y gyflogaeth ei therfynu, ac mae'n cynnwys unrhyw gyfnodau gwyliau ac unrhyw gyfnodau o absenoldeb o'r gwaith o ganlyniad i salwch neu anaf, p'un a yw gwasanaeth yr unigolyn yn ystod y cyfnod hwnnw yn llawn-amser, yn rhan-amser, yn rheolaidd neu fel arall.
- 19.7. Dylai datblygiad cyflog ar yr Ystod Cyflog Athrawon heb Gymhwyso 6 phwynt ddigwydd yn flynyddol o 1 Medi, gan dybio o blaid datblygiad oni bai fod yr unigolyn wedi cael gwybod trwy weithdrefnau medrusrwydd ffurfiol fod ei wasanaeth yn anfoddhaol mewn perthynas â'r flwyddyn honno.
- 19.8. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth / Pwyllgor Cyflogau yn cofnodi ei benderfyniad ynghylch datblygiad cyflog yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon yn **Atodiad 2**. Bydd copi o'r ffurflen hon yn cael ei ddarparu i'r athro heb gymhwyso.
- 19.9. Os dyfernir datblygiad cyflog, bydd cyflog yr Athro heb gymhwyso yn cynyddu, a hynny'n weithredol o 1 Medi yn y flwyddyn academaidd gyfredol.
- 19.9.1. Gellir gwneud penderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog lle mae'r Athro yn destun gweithdrefnau medrusrwydd ffurfiol.
- 19.10. Os na ddyfernir datblygiad cyflog, bydd y rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw'n cael ei chofnodi yn Natganiad yr Adolygiad Blynyddol o Gyflogau Athrawon. Mae gan yr athro yr hawl i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad i beidio â dyfarnu datblygiad cyflog. Mae'r weithdrefn apelio i'w gweld yn **Atodiad 8**.
- 19.11. Bydd Athro heb gymhwyso sy'n ennill statws athro cymwysedig yn cael ei dalu ar yr ystodau cyflog ar gyfer Athrawon cymwysedig, yn unol â'r Polisi Cyflogau hwn a'r DCAAY(C).

20. LWFANSAU A THALIADAU YN ÔL DISGRESIWN

20.1. Taliadau Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu (CAD)

- 20.1.1. Bydd yr Awdurdod Lleol yn dyfarnu taliadau CAD1 a CAD2 i ddeiliaid swyddi fel y nodir yn strwythur staffio'r Ysgol (gweler **Atodiad 10**).
- 20.1.2. Bydd y taliadau hyn yn cael eu dyfarnu i Athrawon sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb ychwanegol, sydd wedi'i ddiffinio'n glir ac sy'n barhaus, a hynny yng nghyd-destun strwythur staffio'r Ysgol ac at ddiben sicrhau bod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn parhau i gael eu darparu, ac y gwneir yr Athro yn atebol amdano.
- 20.1.3. Bydd pob swydd-ddisgrifiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac yn egluro am ba gyfrifoldeb neu becyn o gyfrifoldebau y mae taliad CAD yn cael ei ddyfarnu.
- 20.1.4. Bydd y meini prawf ar gyfer dyfarnu taliad CAD1 a CAD2 yn cydweddu â'r DCAAY(C).
- 20.1.5. Yr ystod ar gyfer CAD1 yw £8,437 i £14,276 y flwyddyn.
- 20.1.6. Yr ystod ar gyfer CAD2 yw £2,924 i £7,140 y flwyddyn.
- 20.1.7. Mae'r taliadau CAD a ddefnyddir ar hyn o bryd fel a ganlyn:
- CAD1** - (manylion pob CAD1 i'w mewnosod yma gan yr ysgol)
CAD2 - (manylion pob CAD2 i'w mewnosod yma gan yr ysgol)
- 20.1.8. Gall yr Awdurdod Lleol ddyfarnu taliad CAD3 rhwng £581 a £2,883 y flwyddyn am gyfnod penodol i athro ar gyfer prosiect gwella ysgol sydd â therfyn amser clir, neu ar gyfer cyfrifoldebau allanol untro.
- 20.1.9. Bydd hyd y cyfnod penodol, a chyfanswm y taliad blynyddol, yn cael eu pennu ar y cychwyn, a bydd taliad yn cael ei wneud yn fisol.
- 20.1.10. Os bydd yr Awdurdod Lleol yn dymuno gwneud taliadau CAD3, bydd y cyfrifoldebau arfaethedig, ynghyd â lefel a hyd y taliad, yn cael eu pennu'n glir yn dilyn gwaith ymgynghori â'r staff perthnasol a chynrychiolwyr yr undebau.
- 20.1.11. Gall athro sy'n cael taliad CAD1 neu daliad CAD2 hefyd gael taliad CAD3 ar yr un pryd.
- 20.1.12. Ni fydd unrhyw ddiogelu'n berthnasol mewn perthynas â dyfarnu taliad CAD3.
- 20.1.13. Bydd taliad CAD1 neu CAD2 a ddyfernir i athro rhan-amser yn cael ei ddyfarnu ar sail pro rata, ond lle dyfarnir taliad CAD3 i athro rhan-amser, ni fydd yr egwyddor pro rata yn berthnasol.

20.2. Lwfansau Anghenion Addysgol Arbennig

- 20.2.1. Bydd yr Awdurdod Lleol yn dyfarnu lwfansau AAA yn unol â'r meini prawf a'r darpariaethau a nodir yn y DCAAY(C).
- 20.2.2. Bydd Lwfans AAA, heb fod yn llai na £2,310 y flwyddyn, nac yn fwy na £4,558 y flwyddyn, yn daladwy i Athro dosbarth yn unol â'r DCAAY(C).

20.2.3. Y gwerthoedd AAA yw: (*manyllion pob gwerth/lwfans AAA i'w mewnosod yma gan yr ysgol*)

20.2.4. Wrth benderfynu ar werth lwfans AAA, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried strwythur y ddarpariaeth AAA, a oes angen unrhyw gymwysterau gorfodol ar gyfer y swydd, cymwysterau neu arbenigedd yr Athro sy'n berthnasol i'r swydd, a gofynion perthynol y swydd.

20.3. Lwfansau Dros Dro

20.3.1. Mae lwfansau dros dro yn daladwy i athrawon y neilltuir dyletswyddau Rheolwr, Dirprwy Reolwr neu Reolwr Cynorthwyol iddynt, ac sy'n cyflawni'r dyletswyddau hyn yn unol â'r DCAAY(C).

20.3.2. Cyn pen pedair wythnos o ddechrau dyletswyddau dros dro, bydd yr Awdurdod Lleol yn pennu a fydd deiliad y swydd dros dro yn cael lwfans ai peidio. Yn achos absenoldeb maith wedi'i gynllunio, efallai y bydd lwfans dros dro yn cael ei gytuno ymlaen llaw, a'i dalu o ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb.

20.3.3. Bydd unrhyw athro sy'n cyflawni dyletswyddau Rheolwr, Dirprwy Reolwr, neu Reolwr Cynorthwyol, am gyfnod o bedair wythnos neu fwy, yn cael ei dalu ar bwynt priodol yn yr ystod cyflog Rheolwyr, ystod cyflog Dirprwy Reolwyr neu ystod cyflog Rheolwyr Cynorthwyol, fel y pennir gan y Pennaeth Gwasanaeth / Panel Cyflogau. Bydd taliad yn cael ei ôl-ddyddio i ddechrau'r dyletswyddau, ond bydd fel arfer yn cael ei dalu mewn ôl-daliadau misol.

20.3.4. Efallai y bydd lwfansau dros dro hefyd yn berthnasol i Athrawon sy'n cyflenwi ar gyfer cyd-weithwyr absennol sy'n cael taliad CAD a/neu lwfans AAA.

20.3.5. Gall lwfansau ychwanegol fod yn daladwy i Athrawon heb gymhwyso yn unol â'r DCAAY(C).

20.4. Taliadau Ychwanegol

20.4.1. Ac eithrio yn achos y rheini ar yr ystod arweinwyr, caiff yr Awdurdod Lleol wneud taliadau ychwanegol i athro, o ran:

- datblygiad proffesiynol parhaus a wneir y tu allan i'r diwrnod ysgol;
- gweithgareddau sy'n gysylltiedig â darparu hyfforddiant cychwynnol athrawon yn rhan o'r hyn sy'n digwydd fel mater o drefn yn yr Ysgol;
- cymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu y tu allan i oriau ysgol y cytunwyd arno rhwng yr Athro a'r Pennaeth; a
- chyfrifoldebau a gweithgareddau ychwanegol yr Athro i ddarparu gwasanaethau ar gyfer codi safonau addysgol un neu ragor o ysgolion ychwanegol, neu mewn perthynas â hynny.

20.5. Buddion Cymhelliad Recriwtio neu Gadw

- 20.5.1. Gall yr Awdurdod Lleol ddyfarnu cyfandaliadau, taliadau cyfnodol, neu ddarparu cymorth ariannol, cynhaliaeth neu fuddion eraill ar gyfer cymhelliad recriwtio neu gadw. Wrth benderfynu ar unrhyw ddyfarniadau o'r fath, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried y DCAAY(C) ynghyd â chynghor arbenigol o ran Adnoddau Dynol.
- 20.5.2. Ni cheir dyfarnu taliad o'r fath i Reolwyr, Dirprwy Reolwyr na Rheolwyr Cynorthwyol heblaw i ad-dalu costau adleoli neu gostau tai rhesymol.
- 20.5.3. Bydd yr holl ystyriaethau eraill o ran recriwtio a chadw staff mewn perthynas â swydd Rheolwr, Dirprwy Reolwr neu Reolwr Cynorthwyol yn cael eu hystyried wrth bennu'r ystod cyflog.
- 20.5.4. Caiff y rheswm dros ddyfarnu unrhyw daliad ychwanegol, hyd disgwylidig unrhyw gymhelliad neu fudd o'r fath, a'r dyddiad adolygu, pan geir eu tynnu'n ôl, ei egluro o'r cychwyn, yn ysgrifenedig.
- 20.5.5. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal adolygiad blynyddol o'r holl ddyfarniadau o'r fath.

21. CYFRIFO CYFLOGAU AC AMSER ATHRAWON RHAN AMSER

- 21.1. Ystyrir bod Athrawon a gyflogir yn barhaus yn yr ysgol ond sy'n gweithio llai nag wythnos waith lawn yn rhai rhan-amser.
- 21.2. Rhoddir datganiad ysgrifenedig i Athrawon rhan-amser sy'n disgrifio eu rhwymedigaethau o ran oriau gwaith a'r mecanwaith safonol a ddefnyddir i bennu eu cyflog, yn amodol ar ddarpariaethau'r trefniadau oriau gwaith a chyflog statudol a thrwy gymharu ag wythnos addysgu amserlen yr Ysgol ar gyfer Athro llawn-amser mewn swydd gyfwerth. Nid yw hyn yn effeithio ar y taliad CAD3, nad yw'n un pro rata ar gyfer staff rhan-amser. Gweler **Atodiad 9** i gael rhagor o wybodaeth.

22. ATHRAWON A GYFLOGIR AR FYR RYBUDD (CYFLENWI)

- 22.1. Bydd athrawon a gyflogir ar sail cyflenwi yn cael eu talu'n ddyddiol, wedi'i gyfrifo yn unol â'r dybiaeth fod blwyddyn waith lawn yn cynnwys 195 o ddiwrnodau; bydd cyfnodau o gyflogaeth sy'n llai na diwrnod yn cael eu cyfrifo ar sail pro rata.
- 22.2. Os yw'r ysgol yn defnyddio asiantaeth, mae'r ysgol yn ymrwymo i addewid gwirfoddol o ran asiantaethau cyflenwi, lle bydd yn caffael gan asiantaethau a enwir ymhlith Asiantaethau Cyflenwi Cymeradwy fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn unig, ac yn ymrwymo i dalu cyfradd ddyddiol ofynnol o $M2 \div 195$ diwrnod. Yr eithriad fydd, pan na all yr asiantaethau ar fframwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol gyflenwi'r athro â'r sgiliau addas, gall yr ysgol fynd at asiantaethau eraill, ond gydag ymrwymiad i dalu'r gyfradd tâl M2, o leiaf.

Dilëir lle nad yw'r Corff Llywodraethu wedi ymrwymo i addewid gwirfoddol o ran asiantaethau cyflenwi

YSTODAU CYFLOG 2020/21

Y Brif Ystod Cyflog:

Pwynt	Gwerth
PYC 2	£27,491
PYC 3	£29,699
PYC 4	£31,987
PYC 5	£34,506
PYC 6	£37,974

Yr Ystod Cyflog Uwch:

Pwynt	Gwerth
YCU 1	£39,368
YCU 2	£40,827
YCU 3	£42,333

Ystod Cyflog Ymarferwyr Arweiniol:

Pwynt	Gwerth
YA 1	£43,145
YA 2	£44,226
YA 3	£45,330
YA 4	£46,458
YA 5	£47,615
YA 6	£48,809
YA 7	£50,124
YA 8	£51,279

YA 9	£52,560
YA 10	£53,911
YA 11	£55,309
YA 12	£56,584
YA 13	£57,998
YA 14	£59,444
YA 15	£60,923
YA 16	£62,543
YA 17	£63,979
YA 18	£65,590

Ystod Cyflog Athrawon Heb Gymhwyso:

Pwynt	Gwerth
AHG 1	£18,487
AHG 2	£20,637
AHG 3	£22,786
AHG 4	£24,936
AHG 5	£27,088
AHG 6	£29,238

Ystod Cyflog Arweinwyr:

Pwynt	Gwerth
A1	£42,934
A2	£44,008
A3	£45,107
A4	£46,230

Tudalen 815

POLISI CYFLOGAU ATHRAWON DIGYSWLLT ENGHREIFFTIOL 2021/22

ATODIAD 1.

A5	£47,381
A6	£48,571
A7	£49,877
A8	£51,029
A9	£52,302
A10	£53,646
A11	£55,038
A12	£56,307
A13	£57,714
A14	£59,153
A15	£60,624
A16	£62,237
A17	£63,665
A18*	£64,620
A18	£65,266
A19	£66,886
A20	£68,543
A21*	£69,544
A21	£70,240
A22	£71,984
A23	£73,766
A24*	£74,847
A24	£75,596
A25	£77,474
A26	£79,391
A27*	£80,553

A27	£81,358
A28	£83,376
A29	£85,441
A30	£87,568
A31*	£88,841
A31	£89,731
A32	£91,961
A33	£94,245
A34	£96,575
A35*	£97,996
A35	£98,976
A36	£101,426
A37	£103,947
A38	£106,520
A39*	£108,035
A39	£109,116
A40	£111,838
A41	£114,632
A42	£117,504
A43	£119,248

* Y pwyntiau hyn a Phwynt A43 yw'r pwyntiau uchaf ar y raddfa ar gyfer wyth Ystod y Grwpiau Penaethiaid

DATGANIAD YR ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYFLOGAU ATHRAWON

Enw:	Rhif Cyflogai:
Ysgol:	Dyddiad Dod i Rym:

MANYLION CYFLOG

Cyflog a Phwynt – Y Brif Ystod Cyflog (PYC2 - PYC6)	£	Pwynt
Cyflog a Phwynt – Yr Ystod Cyflog Uwch (YCU1 – YCU3)	£	Pwynt
Cyflog a Phwynt – Ystod Heb Gymhwyso (AHG1 – AHG6)	£	Pwynt
Cyflog ac Ystod Ymarferydd Arweiniol	£	Pwynt

LWFANSAU

Manylion e.e. dros dro (gyda dyddiadau), y rheswm dros y lwfans

Taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (Gweler Cyngor y Polisi Cyflogau) CAD1 / CAD2 / CAD3	CAD____ £
Recriwtio neu Gadw (gweler Cyngor y Polisi Cyflogau)	£
Lwfans Anghenion Addysgol Arbennig (gweler Cyngor y Polisi Cyflogau)	£
Lwfansau Eraill – Nodwch (gweler Cyngor y Polisi Cyflogau)	£
DIOGELU	£
CYFANSWM CYFLOG	£

Cyfarfod y Pennaeth
Gwasanaeth/Panel
Cyflogau ar:

Llofnod y Rheolwr Llinell: Dyddiad:

MEINI PRAWF AR GYFER DATBLYGU I'R YSTOD CYFLOG UWCH**1. Rhinweddau proffesiynol**

- 1.1. Cyfrannu'n sylweddol, lle y bo'n briodol, at weithredu polisiau ac arferion gweithle, ac at hyrwyddo cyfrifoldeb ar y cyd am eu gweithredu.

2. Gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol

- 2.1. Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth helaeth o sut y mae defnyddio ac addasu amrywiaeth o strategaethau addysgu, dysgu a rheoli ymddygiad, gan gynnwys sut y mae personoli'r dysgu i roi cyfleoedd i bob dysgwr wireddu ei botensial.
- 2.2. Meddu ar wybodaeth helaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r trefniadau a'r gofynion asesu ar gyfer y pynciau/meysydd cwricwlwm a addysgir, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â chymwysterau ac arholiadau cyhoeddus.
- 2.3. Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gyfredol o'r mathau gwahanol o gymwysterau a manylebau, a'u haddasrwydd i ddiwallu anghenion y dysgwyr.
- 2.4. Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth fwy datblygedig o'u pynciau/meysydd cwricwlwm a'r addysgeg gysylltiedig, gan gynnwys sut y mae dysgu'n symud ymlaen ynddynt.
- 2.5. Meddu ar wybodaeth a phrofiad digon manwl i allu rhoi cyngor ar ddatblygiad a lles plant a phobl ifanc

3. Sgiliau Proffesiynol

- 3.1. Bod yn hyblyg, yn greadigol ac yn fedrus wrth gynllunio dilyniannau dysgu mewn gwersi, ac ar draws gwersi, sy'n effeithiol ac sy'n cael eu paru'n dda yn gyson ag amcanion dysgu ac anghenion y dysgwyr, ac sy'n integreiddio datblygiadau diweddar, gan gynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â gwybodaeth am y pwnc/cwricwlwm.
- 3.2. Meddu ar sgiliau addysgu sy'n arwain at ddysgwyr yn cyflawni'n dda o ystyried eu cyrhaeddiad blaenorol, gan wneud cynnydd sydd cystal â dysgwyr tebyg yn genedlaethol, neu'n rhagori arnynt.
- 3.3. Hyrwyddo cydweithio a gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm.
- 3.4. Cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol cydweithwyr trwy hyfforddi a mentora, arddangos arfer effeithiol, a rhoi cyngor ac adborth.

ASESIAD O GAIS ATHRO I DDATBLYGU I'R YSTOD CYFLOG UWCH

I'w Lenwi gan Werthuswr yr Athro

Enw'r Athro:	
Swydd:	

Tystiolaeth o'r gwerthusiad mwyaf diweddar
Nodwch pa ddatganiad gwerthuso sydd ynghlwm:

* Wedi bodloni'r meini prawf
(* Dilëwch fel y bo'n briodol)

* Heb fodloni'r meini prawf

Os na fodlonwyd y meini prawf yn llawn, rhwch fanylion isod (gan barhau drosodd, os oes angen) o ran pa agweddau ar berfformiad yr athro nad ydynt yn bodloni'r meini prawf:

Llofnodwyd _____ (Gwerthuswr)

Dyddiad: _____

I'W GYFLWYNO I'R PENNAETH


At Ddefnydd yr Ysgol yn Unig

Daeth y ffurflen gais i law ar: _____

Gwnaed yr asesiad ar: _____

Gan: _____

**SIART LLIF O'R BROSES ADOLYGU CYFLOGAU
(ac eithrio'r Rheolwr)**





DIWEDD Y BROSES

CANLLAWIAU AR GYFLOGAU'R GRŴP ARWAIN**1. Y Rheolwr a'r Tîm Arwain (POB YSGOL)**

Mae Graddfa Gyflog Arweinyddiaeth 43 cam statudol wedi cael ei hailgyflwyno. Bydd Rheolwyr, Dirprwy Reolwyr a Rheolwyr Cynorthwyol yn cael eu talu yn ôl yr hyn a bennir gan yr Awdurdod Lleol. Nodir y rhain isod.

2. Grwpiau o Ysgolion (POB YSGOL)

Mae yna wyth grŵp o ysgolion wedi'u pennu o sgôr uned yr ysgol. Mae'r DCAAY(C) yn pennu isafswm ac uchafswm gwerth cyflog ar gyfer pob grŵp, ac mae'r cyfraddau cyflog dangosol a gyhoeddir ar y cyd gan y cyflogwyr a'r undebau llafur yn gosod gwerthoedd ynghlwm wrth bwyntiau cyflog unigol o fewn yr ystodau hynny.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi sefydlu ystod cyflog saith pwynt ar gyfer y Rheolwr, ac ystod cyflog pum pwynt ar gyfer yr holl swyddi arwain eraill.

3. Sgôr Uned yr Ysgol**a. Pob Ysgol (ac eithrio Ysgolion Arbennig)**

Cyfrifir y sgôr uned i bennu grŵp Ysgol, gan ddefnyddio'r fformiwla yn y DCAAY(C). Yn yr Awdurdod hwn*, bydd yr ALI yn ailgyfrifo'r sgôr uned bob blwyddyn, a bydd y canlyniadau'n cael eu cymhwyso o 1 lonawr bob blwyddyn. Os oes gan ysgol sail resymol dros ddisgwyl newid yn niferoedd ei disgyblion, dylai ofyn am ailgyfrifiad gan yr Awdurdod ar yr adeg honno.

** Dilêwch os nad yw'n briodol*

Gwybodaeth am y modd y mae'r sgôr uned yn cael ei chyfrifo:

Pennir hwn yn ôl niferoedd y disgyblion, fel y'u dangosir ar y ffurflen STATS 1 (cyfrifiad ysgol blyneddol) ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru.

Ar gyfer pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen/CA1/CA2	7 uned
Ar gyfer pob disgybl yn CA3	9 uned
Ar gyfer pob disgybl yn CA4	11 uned
Ar gyfer pob disgybl yn CA5	13 uned

Bydd pob disgybl sydd â **datganiad o anghenion addysgol arbennig**, os yw mewn dosbarth arbennig sy'n cynnwys disgyblion o'r fath yn gyfan gwbl neu'n bennaf, yn cyfrif tair uned yn fwy nag y byddai fel arall. Os nad yw'r disgybl mewn dosbarth arbennig o'r fath, dylid cyfrif tair uned dim ond lle y mae'r corff perthnasol yn penderfynu gwneud hynny.

Bydd pob disgybl sy'n mynychu am lai na hanner diwrnod ar bob diwrnod y mae'n mynychu'r ysgol yn cyfrif hanner yr unedau y byddai fel arall yn eu cyfrif.

Cyfanswm y Sgôr Uned	Grŵp Ysgol
Hyd at 1,000	1
1,001 - 2,200	2
2,201 - 3,500	3
3,501 - 5,000	4
5,001 - 7,500	5
7,501 - 11,000	6
11,001 - 17,000	7
17,001 a throsodd	8

b. Sgôr Uned Ddiwygiedig (Ysgolion Arbennig yn Unig)

Cyfrifir y sgôr uned ddiwygiedig i bennu grŵp yr ysgol, gan ddefnyddio'r fformiwla yn y DCAAY(C). Yn yr Awdurdod hwn*, bydd yr ALI yn ailgyfrifo'r sgôr uned bob blwyddyn, a bydd y canlyniadau'n cael eu cymhwyso o 1 Ionawr bob blwyddyn. Os oes gan ysgol sail resymol dros ddisgwyl newid yn niferoedd ei disgyblion, dylai ofyn am ailgyfrifiad gan yr Awdurdod ar yr adeg honno.

** Dilëwch os nad yw'n briodol*

Mae'n rhaid i ysgol arbennig gael ei neilltuo i grŵp Rheolwr yn unol â'r tabl canlynol trwy gyfeirio at ei sgôr uned ddiwygiedig, a gyfrifir yn unol ag is-adrannau (i) a (ii) isod:

Cyfanswm y Sgôr Uned	Grŵp Ysgol
Hyd at 2,200	2
2,201 - 3,500	3
3,501 - 5,000	4
5,001 - 7,500	5
7,501 - 11,000	6
11,001 - 17,000	7
17,001 a throsodd	8

(i) Gwybodaeth am y modd y caiff y gymhareb staff-disgyblion ei chyfrifo

Rhaid i gyfran y staff i ddisgyblion yn yr ysgol gael ei chyfrifo a'i mynegi ar ffurf canran ("y gymhareb staff-disgybl") yn unol â'r fformiwla ganlynol:

$$\frac{A}{B} \times 100$$

ATODIAD 6.

Lle A yw nifer yr Athrawon a'r Staff Cymorth wedi'i bwysoli'n unol ag (a) isod, a B yw nifer y disgyblion yn yr ysgol wedi'i bwysoli'n unol â (b) isod:

- Y pwysoliad ar gyfer Athro yw dwy uned am bob Athro cyfwerth ag amser llawn, a'r pwysoliad ar gyfer pob aelod o Staff Cymorth yw un uned am bob unigolyn cyfwerth ag amser llawn; ac
- Y pwysoliad ar gyfer disgybl llawn-amser yw un uned, a'r pwysoliad ar gyfer disgybl rhan-amser yw hanner uned.

Rhaid i addasydd cymhareb staff-disgybl gael ei gyfrifo yn unol â'r tabl canlynol, trwy gyfeirio at y gymhareb staff-disgybl a bennir yn unol â'r uchod:

Cymhareb Staff-Disgyblion	Addasydd y Gymhareb Staff-Disgyblion
1 - 20%	1
21 - 35%	2
36 - 50%	3
51 - 65%	4
66 - 80%	5
81% neu fwy	6

D.S. Ystyr 'aelod o staff cymorth' yw aelod o Staff yr ysgol nad yw'n:

- Athro;
- Unigolyn a gyflogir mewn perthynas â darparu prydau bwyd;
- Unigolyn a gyflogir mewn perthynas â diogelu neu gynnal a chadw adeiladau'r ysgol; neu
- Unigolyn a gyflogir mewn ysgol breswyl i oruchwylio a gofalu am blant y tu allan i oriau ysgol.

(ii) Gwybodaeth am y modd y caiff cyfanswm y sgôr uned ddiwygiedig ei gyfrifo

Pennir y cyfanswm hwn yn ôl niferoedd y disgyblion, fel y'u dangosir ar y ffurflen STATS 1 (cyfrifiad ysgol blynyddol) ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru.

Rhaid i'r corff perthnasol bennu cyfanswm sgôr uned yr ysgol yn unol â nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol, a gyfrifir fel a ganlyn:

ATODIAD 6.

Cyfnod Allweddol	Unedau Fesul Disgybl
Ar gyfer pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen, CA1 a CA2	10
Ar gyfer pob disgybl yn CA3	12
Ar gyfer pob disgybl yn CA4	14
Ar gyfer pob disgybl yn CA5	16

Rhaid i'r corff perthnasol bennu cyfanswm diwygiedig sgôr uned yr ysgol trwy luosi cyfanswm sgôr uned yr ysgol a bennwyd o dan yr adran hon (h.y. yn unol â'r tabl uchod) ag addasydd y gymhareb staff-disgybl a gyfrifwyd o dan adran 3.

D.S. Os caiff y Rheolwr ei benodi'n Rheolwr ar fwy nag un ysgol ar sail barhaol, rhaid i gorff perthnasol ysgol wreiddiol y Rheolwr, neu, o dan y Rheoliadau Cydweithredu (5), y corff cydweithredol, gyfrifo grŵp y Rheolwr trwy gyfuno sgôr uned yr holl ysgolion y mae'r Rheolwr yn gyfrifol amdanynt er mwyn canfod cyfanswm y sgôr uned, sydd wedyn yn pennu grŵp y Rheolwr.

4. Penodi Arweinwyr Newydd/Newidiadau i Strwythurau Cyflogau Arweinwyr presennol – Proses Tri Cham (POB YSGOL)

Dylai'r Awdurdod Lleol ddilyn y broses tri cham wrth bennu'r cyflog ar gyfer penodiadau newydd neu ddiwygio strwythurau cyflogau presennol o ran y Pennaeth neu'r tîm arwain ehangach.

- Cam 1** - Diffinio'r rôl a phennu grŵp y Rheolwr
- Cam 2** - Gosod yr ystod cyflog ddangosol
- Cam 3** - Penderfynu ar y cyflog cychwynol a'r ystod cyflog unigol

Dylai'r holl benderfyniadau a'r rhesymau drostynt gael eu cofnodi'n drylwyr ar bob cam. Rhaid i bob penderfyniad ynghylch cyflogau gael ei wneud yn unol â meini prawf gwrthrychol, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith wahaniaethol ar unrhyw grŵp o Athrawon sydd â nodwedd warchoddedig benodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Awgrymir bod ysgolion yn gofyn am gyngor wrth gyfrifo a chofnodi penderfyniadau ynghylch strwythur cyflogau arweinwyr.

Cam 1 - Diffinio'r Rôl a Phennu Grŵp

Ar y cam hwn, dylai'r Awdurdod Lleol ddiffinio'r swydd a nodi'r ystod cyflog gyffredinol fel canllaw i bennu'r lefel briodol o gyflog. Bydd angen i'r Awdurdod Lleol ddiffinio a nodi rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd penodol y swydd, yn ogystal â'r sgiliau a'r cymwyseddau perthnasol sy'n ofynnol.

Ar gyfer swyddi Rheolwyr, bydd yr Awdurdod Lleol yn neilltuo Ysgol i grŵp Rheolwr (fel y diffinnir yn 3 uchod), a fydd yn pennu'r ystod cyflog briodol fel yr amlinellir isod:

Maint y Grŵp	Ystod y Camau	Ystod Cyflog (DCAAY(C) 2020)
1	A6 - A18*	£ 48,571- £ 64,620
2	A8 - A21*	£ 51,029- £ 69,544
3	A11 - A24*	£ 55,038- £ 74,847
4	A14 - A27*	£ 59,153- £ 80,553
5	A18 - A31*	£ 65,266- £ 88,841
6	A21 - A35*	£ 70,240- £ 97,996
7	A24 - A39*	£ 75,596- £ 108,035
8	A28 - A43	£ 83,376- £ 119,248

Ar gyfer swyddi eraill yn y grŵp arwain, dylai'r Awdurdod Lleol ystyried y modd y mae'r rôl yn cyd-fynd â strwythur arwain ehangach yr Ysgol. Ni ddylai'r ystod cyflog ar gyfer Dirprwy Reolwr neu Reolwr Cynorthwyol orgyffwrdd ag ystod cyflog y Rheolwr heblaw **mewn amgylchiadau eithriadol.**

Cam 2 - Pennu'r Ystod Cyflog Ddangosol

Ar y cam hwn, bydd angen i'r Awdurdod Lleol ystyried cymhlethdod a her y rôl yng nghyd-destun penodol yr Ysgol, a gwneud penderfyniad ynghylch cyflog yng ngoleuni hyn.

Ar gyfer swyddi Rheolwyr, disgwylir y bydd y Awdurdod Lleol fel arfer yn dod i'r casgliad bod cyfanswm y sgôr uned yn llwyr gyfleu cymhlethdod rôl y Pennaeth, a bod yr ystod cyflog berthnasol yn cynnwys lefelau priodol o dâl, yn unol â'r DCAAY(C). Bydd angen i'r Awdurdod Lleol ystyried a ddylai'r ystod cyflog ddangosol ddechrau ar isafswm grŵp y Rheolwyr, neu a yw'n dymuno i'r ystod ddechrau ar lefel uwch oherwydd lefel yr her sy'n gysylltiedig â'r swydd.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yna amgylchiadau lle ceir ffactorau ychwanegol sy'n awgrymu y dylai'r ystod cyflog ddangosol fod yn uwch na'r hyn a fyddai'n cael ei ddarparu gan y cyfrifiad sylfaenol yng Ngham 1.

Dyma rai enghreifftiau o ffactorau ychwanegol i'w hystyried (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys pob posibilrwydd):

- Y cyd-destun a'r her a gyflwynir gan anghenion disgyblion e.e. os oes llawer o amddifadedd yn y gymuned (hawl i Brydau Ysgol am Ddim a/neu Saesneg fel Iaith Ychwanegol) neu niferoedd uchel o blant sy'n derbyn gofal neu blant ag

ATODIAD 6.

Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac mae hyn yn effeithio ar yr her mewn perthynas â gwella deilliannau;

- Llawer iawn o gymhlethdod a her, e.e. atebolrwydd am nifer o ysgolion neu reoli ar draws nifer o safleoedd gwasgaredig, sy'n mynd yn eithaf pell y tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir gan unrhyw Bennaeth ysgol(ion) o faint tebyg, ac nad yw eisoes wedi'i adlewyrchu yng nghyfanswm y sgôr uned a ddefnyddiwyd yng nghanam 1;
- Atebolrwydd ychwanegol nas adlewyrchwyd yng nghanam 1, e.e. arwain cynghrair ysgol addysgu; a
- Ffactorau a all amharu ar allu'r ysgol i ddenu ymgeiswyr â phrofiad a chymwysterau priodol ar gyfer swyddi arwain, e.e. lleoliad, cyfrwng iaith, maes pwnc/arbenigedd a/neu lefel o gymorth gan y tîm arwain ehangach.

Gall yr Awdurdod Lleol bennu'r ystod cyflog ddangosol gydag **uchafswm hyd at 25% uwchlaw lefel uchaf ystod y grŵp Pennaeth perthnasol.**

Uwchlaw'r terfyn hwnnw, rhaid cael cyngor annibynnol allanol ac, os bydd y cyngor yn awgrymu bod ystod sy'n uwch na'r terfyn hwn yn briodol, rhaid i'r Awdurdod Lleol lunio achos busnes, a chytuno arno.

Dylai'r Awdurdod Lleol sicrhau nad oes unrhyw beth yn cael ei gyfrif ddwywaith, e.e. o ran pethau a ystyriwyd yng nghanam 1, megis cyfrifoldeb am ysgol ychwanegol a adlewyrchwyd eisoes yng nghyfanswm y sgôr uned; neu o ran defnyddio dangosyddion sy'n gorgyffwrdd, fel Prydau Ysgol am Ddim a'r premiwm disgybl.

NI DDYLAI'R Awdurdod Lleol gynyddu cyflog sylfaenol na thalu lwfans ychwanegol am gydweithio lleol rheolaidd sy'n rhan o rôl pob Rheolwr.

Ar gyfer rolau arwain eraill, mae'r broses yn eithaf tebyg. Bydd yr Awdurdod Lleol yn dymuno ystyried y modd y dylai'r rolau arwain eraill gael eu pennu yn unol â'r lefel a bennwyd ar gyfer y Rheolwr, gan sicrhau bod digon o le i ddatblygu cyflog. Dylid hefyd ystyried unrhyw swyddi addysgu ac iddynt lwfansau ychwanegol.

Ar ddiwedd y cam hwn, dylai'r Awdurdod Lleol benderfynu lle yn yr ystod eang i bennu'r ystod cyflog ddangosol, gan nodi hyn yn glir wrth hysbysebu'r swydd. Dylid gwneud penderfyniad cyffredinol ynghylch safle ac ehangder yr ystod, gan sicrhau bod lle priodol i ddatblygu cyflog dros amser.

Dylai fod trywydd archwilio clir ar gyfer pob penderfyniad a wneir, a'r rhesymau drosto.

Disgwylir hefyd, lle y bo'n bosibl, y bydd yr Ysgol yn ymgymryd â phroses o feincnodi cyflogau cyn pennu'r ystod cyflog ar gyfer swydd Rheolwr neu swyddi arwain eraill.

Yn achos y ffactorau hynny nad oes disgwyl iddynt barhau, fel cyfrifoldeb dros dro am ysgol ychwanegol, dylid adlewyrchu'r rhain trwy lwfans yn hytrach na'u cyfuno yn yr ystod cyflog ddangosol.

Cam 3 - Penderfynu ar y cyflog cychwynnol a'r Ystod Cyflog Unigol ar gyfer penodiadau newydd

ATODIAD 6.

Mae'r ddau gam cyntaf yn fodd i bennu'r ystod cyflog briodol. I bob pwrpas, diben y trydydd cam yw penderfynu ar y cyflog cychwynnol ar gyfer yr unigolyn y cynigir y swydd iddo.

Ar y cam hwn, bydd yr Awdurdod Lleol yn ffafrio ymgeisydd ar gyfer y swydd, a bydd yn dymuno pennu'r cyflog cychwynnol ynn ngoleuni ffactorau sy'n benodol i'r ymgeisydd, er enghraifft i ba raddau y mae'r ymgeisydd yn bodloni gofynion penodol y swydd.

Bydd yn bwysig sicrhau bod yna le i ddatblygu cyflog dros amser.

Rhaid sicrhau bod yna drywydd archwilio clir ar gyfer unrhyw gyngor a roddir, yn ogystal â chofnod llawn a chywir o'r holl benderfyniadau a wneir, a'r rhesymau drostynt.

5. Sefydlu Ystod Cyflog uwchlaw Grŵp Rheolwr yr Ysgol (POB YSGOL)

Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir y bydd yr ystod cyflog o fewn terfynau grŵp y Rheolwr. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, e.e. lle gall fod anhawster mawr i benodi, neu lle bydd angen cymell Rheolwr i dderbyn cyfrifoldeb am ysgol fawr iawn neu i arwain sawl ysgol fawr, gall fod yn briodol ystyried estyn yr ystod cyflog unigol.

Mewn achosion o'r fath, gall yr Awdurdod Lleol benderfynu y gall uchafswm yr ystod cyflog fod uwchlaw uchafswm grŵp y Pennaeth, **hyd at 25% yn ychwanegol**.

Os ystyrir bod yna amgylchiadau eithriadol sy'n gwarantu estyniad y tu hwnt i'r terfyn hwnnw, bydd achos busnes yn ofynnol. Bydd angen i'r Awdurdod Lleol geisio cyngor annibynnol allanol gan unigolyn neu gorff priodol, a all ystyried pa un a ellir cyfiawnhau mynd uwchlaw'r terfyn mewn achos penodol ai peidio.

Rhaid sicrhau bod yna drywydd archwilio clir ar gyfer unrhyw gyngor a roddir, yn ogystal â chofnod llawn a chywir o'r holl benderfyniadau a wneir, a'r rhesymau drostynt.

6. Taliadau Dros Dro i Reolwyr (POB YSGOL)

Gall yr Awdurdod Lleol ystyried tâl ychwanegol i'r Rheolwr am gyfrifoldebau a dyletswyddau ychwanegol sy'n amlwg yn rhai dros dro, neu ddyletswyddau sy'n ychwanegol at y swydd y pennwyd ei gyflog ar ei chyfer, e.e. os yw'n darparu gwasanaethau i ysgolion eraill. Yn cynnwys achosion lle caiff y Rheolwr ei benodi'n Rheolwr Dros Dro ar un neu ragor o ysgolion ychwanegol, ac nad yw hyn wedi'i gynnwys yn ffactor parhaol wrth gyfrifo'r ystod cyflog.

7. Diogelu Cyflog (POB YSGOL)

Os caiff yr Ysgol ei neilltuo i grŵp is, neu os bydd yr Awdurdod Lleol yn dewis lleihau'r ystod cyflog arweinwyr, bydd gan yr aelod o staff yr hawl i gael swm wedi'i ddiogelu am hyd at dair blynedd, yn amodol ar y DCAAAY(C).

**FFURFLEN ADOLYGU FLYNYDDOL AR GYFER
RHEOLWR/DIRPRWY REOLWR/RHEOLWR CYNORTHWYOL**

(Medi 20___)

Enw:	Rhif Cyflogai:
Ysgol:	

*** Rheolwr:**

Grŵp Ysgol: Ystod Cyflog y Pennaeth: £ i £

*** Dirprwy Reolwr / Rheolwr Cynorthwyol:**

Ystod Cyflog: £ i £

Cyflog a Phwynt ym mis Awst £ Pwynt:
20___:

Y rhesymeg a ddefnyddiwyd i bennu'r cyflog:

.....
.....

Cyflog a Phwynt Diwygiedig ym mis Awst £ Pwynt:
20___:

Ardystiwyd gan Bennaeth y Gwasanaeth / Panel
Cyflogau:

Ardystiwyd gan y Rheolwr Dyddiad:
Llinell:

*** Dilëir fel sy'n briodol**

Y BROSES APELIADAU CYFLOG

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymrwymedig i sicrhau yr ymdrinnir ag apelïadau yn erbyn penderfyniadau ynghylch cyflogau yn gyflym, yn deg ac mewn modd sy'n gyson â deddfwriaeth ar gydraddoldeb a deddfwriaeth berthnasol arall, yn ogystal â'r DCAAY(C).

Gall athrawon, gan gynnwys Rheolwyr, apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad mewn perthynas â'u cyflog, neu unrhyw benderfyniad arall a wneir gan yr Awdurdod Lleol (neu Bwyllgor neu unigolyn sy'n gweithredu ag awdurdod dirprwyedig) sy'n effeithio ar eu cyflog.

Gall y rhesymau dros apelio gynnwys y canlynol, ymhlith rhesymau eraill. Bod yr unigolyn neu'r Pwyllgor a wnaeth y penderfyniad:

- a) wedi cymhwyso darpariaeth y DCAAY(C) yn anghywir;
- b) wedi methu ystyried y canllawiau statudol yn briodol;
- c) wedi methu ystyried y dystiolaeth berthnasol yn briodol;
- d) wedi ystyried tystiolaeth amherthnasol neu anghywir;
- e) yn unochrog; neu
- f) wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon fel arall yn erbyn yr athro.

Yn achos y gwrandawriad sylwadau a'r gwrandawriad apêl, mae hawl gan yr athro i gael cydweithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur gydag ef.

Cam 1 – Trafodaeth Anffurfiol (Cam Dewisol)

Mae gan Athro sy'n anfodlon ar argymhelliad ynghylch cyflog y cyfle i drafod yr argymhelliad â'r Pennaeth, a hynny cyn i'r argymhelliad gael ei weithredu a chyn i'r Awdurdod Lleol gadarnhau'r penderfyniad.

Os bydd yr Athro, ar ôl cael trafodaeth anffurfiol â'r unigolyn sy'n gwneud yr argymhelliad ynghylch cyflog, neu ar ôl cael yr hysbysiad o benderfyniad cyflog, o'r farn bod argymhelliad anghywir wedi'i wneud, gall gyflwyno ei sylwadau i'r Pennaeth Gwasanaeth / Panel Cyflogau (gweler Cam 2 isod).

Cam 2 – Gwrandawriad Sylwadau

1. Bydd yr Athro yn cael hysbysiad ysgrifenedig o'r penderfyniad ynghylch ei gyflog ac, os yw'n berthnasol, bydd yn cael gwybod ar ba sail y gwnaed y penderfyniad. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth/Panel Cyflogau yn sicrhau bod yr athro yn ymwybodol o'r broses ar gyfer cyflwyno sylwadau ac apelio yn erbyn y penderfyniad, os yw'n briodol.
2. Os bydd yr Athro yn dymuno cyflwyno sylwadau, dylai wneud hynny'n ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaeth / Panel Cyflogau cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael gwybod am y penderfyniad. Yr Athro sydd i benderfynu a fydd yn gofyn am wrandawriad sylwadau.
3. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth / Panel Cyflogau yn trefnu bod gwrandawriad sylwadau yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl, a fydd yn cael ei gadeirio gan y Pennaeth Gwasanaeth / Panel Cyflogau. Efallai y bydd gofyn i'r Rheolwr Llinell fynd i'r gwrandawriad i egluro ar ba sail y gwnaed yr argymhelliad.

Atodiad 8.

4. Bydd yr athro yn cael rhwng 5 a 10 diwrnod ysgol o rybudd am y gwrandawriad sylwadau. Gall yr athro fynd i'r gwrandawriad i gyflwyno tystiolaeth, i alw ar dystion, ac i ofyn cwestiynau i'r Pennaeth Gwasanaeth / Panel Cyflogau.
5. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth / Panel Cyflogau yn penderfynu a ddylid diwygio'r penderfyniad gwreiddiol, a bydd yn ysgrifennu at yr athro i roi gwybod am y canlyniad o fewn 5 diwrnod ysgol ar ôl gwneud y penderfyniad.
6. Os bydd yr Athro yn dal i fod yn anfodlon, gall apelio yn erbyn y penderfyniad hwn cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael y llythyr yn rhoi gwybod iddo am y canlyniad gan y Pennaeth Gwasanaeth / Panel Cyflogau, a hynny trwy symud ymlaen i Gam 3 y broses.

Cam 3 – Gwrandawriad Apêl

1. Dylai'r Athro nodi'n glir yn ysgrifenedig ar ba sail y mae'n apelio yn erbyn y penderfyniad, ac yna anfon y llythyr at y Rheolwr Llinell cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael y canlyniad ysgrifenedig.
2. Bydd y Rheolwr Llinell yn trefnu bod gwrandawriad apêl yn cael ei gynnal cyn gynted â phosibl, ond fel arfer cyn pen 20 diwrnod ysgol ar ôl cael y llythyr yn rhoi gwybod iddo am yr apêl.
3. Dylai'r athro gael rhwng 5 a 10 diwrnod ysgol o rybudd am y gwrandawriad.
4. Dylai'r apêl gael ei chlywed gan y Panel. Bydd y Panel yn cynnwys Pennaeth Gwasanaeth a Rheolwr nad oedd yn rhan o'r penderfyniad gwreiddiol.
5. Bydd penderfyniad y Pwyllgor Apeliadau Cyflogau yn derfynol.
6. Ymhlith y rhai y mae'n ofynnol iddynt fod yn bresennol yn y gwrandawriad apêl y mae:
 - Y Cadeirydd ac aelodau eraill y Pwyllgor Apeliadau
 - Yr Athro a'i gynrychiolydd neu gyd-weithiwr (os oes rhywun gyda'r Athro)
 - Tystion ar gyfer ochr y cyflogai (os yw'n briodol)
 - Pennaeth y Gwasanaeth / Cadeirydd y Panel Cyflogau, a fydd yn egluro'r rhesymau dros y penderfyniad gwreiddiol
 - Tystion ar gyfer yr ochr reoli (os yw'n briodol)
 - Clerc y gwrandawriad
 - Yr Ymgynghorydd Adnoddau Dynol, er mwyn rhoi cyngor i'r Panel Apeliadau (yn amodol ar ddarpariaethau unrhyw Gytundeb Lefel Gwasanaeth)

Gweithdrefn enghreifftiol ar gyfer cyfarfodydd apêl ffurfiol

Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno pawb, ynghyd â'u rôl yn y trafodion

- Bydd yr Athro yn cyflwyno ei achos, gan gynnwys unrhyw dystiolaeth i'w hystyried ac unrhyw dystion y mae wedi galw arnynt;
- Gall aelodau'r Panel Apeliadau ofyn cwestiynau i'r Athro, a gall cynrychiolydd y Pwyllgor Cyflogau ofyn cwestiynau hefyd;
- Bydd Pennaeth y Gwasanaeth / cynrychiolydd y Panel Cyflogau yn datgan ei achos gan gynnwys y dystiolaeth a oedd yn sail i'r penderfyniad ac unrhyw dystion i gefnogi'r achos, os yw'n briodol
- Gall aelodau'r Panel Apeliadau ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Pwyllgor Cyflogau, a gall yr Athro ofyn cwestiynau hefyd;
- Gall y ddwy ochr wneud datganiad cloi os dymunant (yr athro yn gyntaf, ac wedyn Pennaeth y Gwasanaeth / cynrychiolydd y Panel Cyflogau). Ni ellir cyflwyno tystiolaeth newydd ar y cam hwn;
- Bydd y ddau barti yn gadael y gwrandawriad;
- Gall y Pwyllgor Apeliadau ofyn i'r Ymgynghorydd Adnoddau Dynol am gyngor (os yw'n berthnasol). Ar ôl i'r cyngor hwn gael ei roi, bydd yr Ymgynghorydd Adnoddau Dynol yn gadael y gwrandawriad ond gellir ei alw'n ôl i roi cyngor pellach (os yw'n berthnasol);
- Bydd y Panel Apeliadau yn ystyried yr holl dystiolaeth ac yn dod i benderfyniad terfynol;
- Bydd y Panel Apeliadau yn galw'r ddwy ochr yn ôl er mwyn rhoi gwybod i'r Athro am y penderfyniad (os yw'n aros am benderfyniad) neu, bydd yn dweud wrth y Clerc am ysgrifennu at yr Athro ar ran y Panel i'w hysbysu ynghylch y penderfyniad, a'r rhesymau drosto; a
- Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol am y newid cyflog, os yw hynny'n briodol.

CYFRIFO CYFLOGAU AC AMSER ATHRAWON RHAN-AMSER

Mae'n rhaid i Athro rhan-amser gael **Amserlen Wythnosol Athrawon Ysgol (AWAY)**, ac mae'n rhaid talu cyfran o'r amserlen hon iddo.

Mae'n rhaid i bob ysgol greu AWAY ar gyfer pob Athro. Mae'r amserlen hon yn cyfeirio at oriau sesiynau ysgol sydd wedi'u hamserlennu ar gyfer addysgu, gan gynnwys CPA ond ac eithrio amseroedd egwyl, cofrestru a gwasanaethau.

Yna bydd Athrawon rhan-amser yn cael eu talu yn ôl eu hamser addysgu gwirioneddol, ac eithrio cofrestru, gwasanaethau ac egwyliau.

Er enghraifft:

Os yw'r diwrnod ysgol, ac eithrio cofrestru a gwasanaeth, yn para rhwng 9.00am a 12.15pm, ac eto rhwng 1.15pm a 3.30pm, gydag un egwyl 15 munud yn sesiwn y bore ac un egwyl 15 munud yn sesiwn y prynhawn, byddai'r AWAY ar gyfer Athro llawn-amser yn 25 awr. Pe bai Athro rhan-amser yn cael ei gyflogi ar gyfer y bore yn unig, gan weithio rhwng 9.00am a 12.15pm bob dydd, byddai canran yr wythnos addysgu a amserlennir yn cael ei chyfrifo'n 15 awr. Dangosir hyn isod:

	Sesiwn y bore (llai o egwyliau, cofrestru a gwasanaethau)	+	Sesiwn y prynhawn (llai o egwyliau, cofrestru a gwasanaethau)	x	Nifer y Diwrnodau yn yr Amserlen	=	AWAY	% yr AWAY
Llawn- amser	3 awr	+	2 awr	x	5 diwrnod	=	25 awr	100%
Rhan- amser	3 awr			x	5 diwrnod	=	15 awr	60%

Rhaid cynnwys **Amser CPA ac Amser Rheoli** wrth gyfrifo amser cyswllt dosbarth.

Amser dan Gyfarwyddyd – gall Pennaeth ddyrannu amser dan gyfarwyddyd i Athrawon rhan-amser (gydag amodau) fel cyfran o swydd gyferwerth ag amser llawn 1258.5. Gall Athrawon rhan-amser nawr gael eu cyfarwyddo i gyflenwi ar gyfer egwyliau, gwasanaethau ac amseroedd cofrestru, a hynny fel rhan o'u dyletswyddau dan gyfarwyddyd.

Ni ellir mynnu bod athrawon rhan-amser ar gael i weithio (naill ai ar gyfer dyletswyddau addysgu neu ddyletswyddau eraill) ar ddiwrnodau nad ydynt fel arfer yn gweithio. Fodd bynnag, gallant weithio trwy gydgytundeb â'r Pennaeth. Dylai unrhyw oriau ychwanegol o ganlyniad i hyn gael eu talu yn unol â chyflog arferol yr Athro.

Efallai y bydd gofyn i Athrawon rhan-amser gyflawni dyletswyddau, heblaw addysgu disgyblion, y tu allan i sesiynau'r ysgol ar y diwrnod y mae'n ofynnol i'r Athro fod ar gael i weithio fel arfer (pa un a yw'n ofynnol i'r Athro fod ar gael i weithio am y diwrnod cyfan neu am ran o'r diwrnod hwnnw fel arfer). Gall hyn fod yn rhan o'r amser dan gyfarwyddyd.

STRWYTHUR STAFFIO YR YSGOL

(Yr Ysgol i nodi manylion isod fel sy'n berthnasol ar yr adeg y bydd y Polisi Cyflogau hwn yn cael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod Lleol)

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Mae'r **Aseiad Effaith Integredig** hwn yn cynnwys nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yr egwyddorion Datblygu Cynaliadwy, Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg 2011 (gofynion Safonau'r Gymraeg), ac ystyriaethau Rheoli Risg, i osod sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol ac i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

1. MANYLION Y CYNNIG: (Polisi / Newid amcan / Arbed arian)

Teitl y cynnig **Cymeradwyo'r Polisi Cyflogau ar gyfer Athrawon Digyswllt**

Maes gwasanaeth	Pobl a Threfniadaeth	Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Geraint Edwards	Cyfarwyddwr Corfforaethol	James Starbuck
-----------------	----------------------	---------------------------------	-----------------	---------------------------	----------------

Enw'r swyddog sy'n cwblhau'r AEI	Geraint Edwards	E-bost	Geraint.Edwards2@ceredigion.gov.uk	Ffôn	2019
----------------------------------	-----------------	--------	------------------------------------	------	------

Rhowch ddisgrifiad cryno o bwrpas y cynnig

Mae'r Polisi Enghreifftiol Cyflogau Athrawon Digyswllt yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gyflogau athrawon. Fe'i datblygwyd i gydymffurfio â gofynion y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) ac ymgynghorwyd ag Undebau'r Athrawon.

Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol? (e.e. y cyhoedd, grwpiau penodol fel grwpiau ieuenctid, gofalwyr, pobl sy'n defnyddio'r ffyrdd, pobl sy'n defnyddio parciau gwledig, pobl sy'n cael budd-daliadau, aelodau staff, neu bobl sy'n meddu ar y nodweddion gwarchoddedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac y mae'n rhaid i'r awdurdod roi sylw dyledus iddyn nhw).

Athrawon a gyflogir yn ganolog e.e. Athrawon Bro

RHEOLI'R DDOGFEN: Dylid defnyddio'r AEI yn ystod camau cyntaf y broses benderfynu, ac yna dylid ei mireinio drwy gydol y broses benderfynu. Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon er mwyn i ni allu dangos sut rydyn ni wedi trin a thrafod datblygu cynaliadwy, y Gymraeg a chydaddoldeb, lle bynnag y bo modd.

Awdur	Cam yn y broses benderfynu	Rhif y fersiwn	Dyddiad trafod	Disgrifiad cryno o unrhyw newidiadau a wnaed ar ôl trafod
	Cyngor	V1		



AMCANION STRATEGOL Y CYNGOR: Pa un o amcanion strategol y Cyngor y mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag ef, a sut?

Hybu'r Economi	
Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl	Bydd y polisi hwn yn pennu cyflogau athrawon, yn nodi pryd y cynhelir yr adolygiad cyflog blynyddol ac yn amlinellu sut y bydd y gwasanaeth Ysgolion yn mynd i'r afael ag unrhyw gwynion am gyflogau athrawon.
Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd	
Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol.	

SYLWCH: Wrth i chi lenwi'r ffurflen hon, bydd gofyn i chi ddarparu **tystiolaeth i ategu'ch safbwyntiau**. Bydd angen i chi gynnwys eich safbwynt cychwynnol, y mesurau a'r astudiaethau sydd wedi llywio'ch ffordd o feddwl, a'r farn rydych chi wedi dod iddi. O wneud hyn, bydd modd i chi nodi a fydd unrhyw newidiadau a fydd yn deillio o roi'r argymhelliad ar waith yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol. Ymhlith y ffynonellau data mae:

- *Data meintiol – data sy'n darparu gwybodaeth rifyddol e.e. ffigurau poblogaeth, nifer y defnyddwyr, nifer y bobl nad ydynt yn ddefnyddwyr*
- *Data ansoddol – data sy'n darparu dystiolaeth o argraffiadau pobl o'r gwasanaeth/polisi a'u barn amdano e.e dadansoddiad o gwynion, canlyniadau grwpiau ffocws, arolygon*
- *Data am y boblogaeth leol, gan gynnwys ffigurau'r cyfrifiad (megis Proffil Iaith Ceredigion a Data Cydraddoldeb Ceredigion)*
- *Data o'r Arolwg Cenedlaethol o Aelwydydd*
- *Data am ddefnyddwyr gwasanaeth*
- *Adborth o ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu*
- *Argymhellion pwyllgor craffu*
- *Cymariaethau â pholisïau tebyg awdurdodau eraill*
- *Cyhoeddiadau academaidd, adroddiadau ymchwil, adroddiadau ymgynghorwyr ac adroddiadau am unrhyw ymgynghoriad ag e.e. undebau llafur neu'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, dogfen 'A yw Cymru'n Decach'*
- *Data Sgiliau Iaith Gymraeg staff y Cyngor*

2. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY: Ym mha ffordd mae'r pum egwyddor datblygu cynaliadwy, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi'u hymgorffori a'u blaenoriaethu yn natblygiad eich cynnig?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	Ydy'r cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hon? Os yw'n gwneud hynny, disgrifiwch sut. Os nad yw'n gwneud hynny, eglurwch pam.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gampau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
------------------------------	---	---	---

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Hirdymor Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol	Caiff y polisi hwn ei ddiweddarau bob blwyddyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) yn flynyddol		
Cydweithio Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau	Ymgynghorwyd â'r undebau llafur rhanbarthol a lleol a bu iddynt roi adborth ar y polisi		
Cynnwys Cynnwys pobl sydd â diddordeb a gofyn am eu barn			
Atal Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu			
Integreiddio Effeithio'n gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant, a cheisio sicrhau bod pob un ohonynt ar ei ennill			

Tudalen 839

3. NODAU LLESIANT: Ydy'r cynnig yn cyflawni unrhyw rai o'r saith nod llesiant cenedlaethol a amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015? Eglurwch yr effaith (gadarnhaol a negyddol) yr ydych yn ei disgwyl, ac awgrymchwch sut i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod. Mae angen i ni sicrhau nad yw'r camau rydyn ni'n eu cymryd i gyflawni un o'r nodau'n niweidio'r camau i gyflawni nod arall.

Nod llesiant	Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
3.1. Cymru lewyrchus	Mae'r Polisi Cyflogau hwn yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau		

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon, datblygu poblogaeth fedrus ac addysgiedig, creu cyfoeth, darparu swyddi	ar gyflogau athrawon. Fe'i datblygwyd i gydymffurfio â gofynion Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru).		
3.2. Cymru gydnerth Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n ategu cydnerthedd ac sy'n gallu addasu i newid (e.e. newid hinsawdd)	Ddim yn berthnasol		
3.3. Cymru iachach Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall yr hyn sy'n effeithio ar iechyd	Ddim yn berthnasol		
3.4. Cymru o gymunedau cydlynus Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da	Ddim yn berthnasol		
3.5. Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Rhoi sylw i'r effaith ar lesiant byd-eang wrth ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol lleol	Ddim yn berthnasol		

Tudalen 840

3.6. Cymru sy'n fwy cyfartal Mae pobl yn gallu cyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu'u hamgylchiadau	Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol
---	--	---	--

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



<p>Yn yr adran hon mae angen i chi ystyried yr effaith ar grwpiau cydraddoldeb, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd ar gyfer gwella.</p> <p><i>Ydych chi wedi ystyried sut allai'r cynnig effeithio ar grwpiau cydraddoldeb fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010? Mae'r rhain yn cynnwys y grwpiau a ganlyn: oedran, anabled, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth.</i></p> <p>Ystyriwch y canllaw a ganlyn hefyd: Comisiwn Cydraddoldeb - Asesu Effaith a Dyletswydd Cydraddoldeb</p>	<p><i>Gan ddefnyddio eich tystiolaeth, ystyriwch yr effaith ar bob un o'r grwpiau gwarchoddedig. Bydd angen i chi ystyried a yw'r grwpiau hyn yn cael mynediad cyfartal at y gwasanaeth, neu a oes angen iddyn nhw gael y gwasanaeth mewn ffordd wahanol i bobl eraill oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig? Nid yw'n dderbyniol dweud yn syml y bydd y cynnig yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb. Dylech ddangos eich bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael a rhoi sylw i unrhyw fylchau neu anghyfartaledd a ddaeth i'r amlwg.</i></p>	<p><i>Mae'n hollbwysig casglu data a thystiolaeth cydraddoldeb ar gyfer AEI. Dylech ystyried pwy sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu bwy sy'n debygol o'i ddefnyddio. Os na fyddwch yn defnyddio <u>data</u> nac yn <u>ymgysylltu</u> os ydych yn bwriadu cyflwyno newid, gallai penderfyniadau wynebu her gyfreithiol. Dylech gyplysu hyn â'r blwch cynnwys yn y templed hwn. Dylech hefyd ystyried y canllawiau cyffredinol.</i></p>	<p>neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?</p> <p><i>Gall y camau hyn gynnwys amryw o gamau cadarnhaol a fydd yn sicrhau bod modd i'r sefydliad drin unigolion yn unol â'u hanghenion, hyd yn oed os bydd hynny'n golygu ei fod yn trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill er mwyn iddyn nhw gael canlyniad da. Gallech hefyd gymryd camau i bennu unrhyw fylchau yn y data neu gamau i ymgysylltu â'r rheini y bydd y cynnig yn effeithio arnynt neu y mae'n debygol o effeithio arnynt. Mae angen cyplysu'r camau hyn ag adran 4 yn y templed hwn.</i></p>																								
<p>Oedran Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hoedran? (Ticiwch ✓)</p> <table border="1" data-bbox="69 981 824 1476"> <tr> <td data-bbox="69 981 293 1098">Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed</td> <td data-bbox="293 981 488 1098">Cadarnhaol</td> <td data-bbox="488 981 656 1098">Negyddol</td> <td data-bbox="656 981 824 1098">Dim/Fawr ddim</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td style="text-align: center;">✓</td> </tr> <tr> <td data-bbox="69 1098 293 1214">Pobl 18-50</td> <td data-bbox="293 1098 488 1214">Cadarnhaol</td> <td data-bbox="488 1098 656 1214">Negyddol</td> <td data-bbox="656 1098 824 1214">Dim/Fawr ddim</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td style="text-align: center;">✓</td> </tr> <tr> <td data-bbox="69 1214 293 1476">Pobl hŷn 50+</td> <td data-bbox="293 1214 488 1476">Cadarnhaol</td> <td data-bbox="488 1214 656 1476">Negyddol</td> <td data-bbox="656 1214 824 1476">Dim/Fawr ddim</td> </tr> <tr> <td></td> <td></td> <td></td> <td style="text-align: center;">✓</td> </tr> </table>	Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim				✓	Pobl 18-50	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim				✓	Pobl hŷn 50+	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim				✓	<p>Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.</p>		
Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim																								
			✓																								
Pobl 18-50	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim																								
			✓																								
Pobl hŷn 50+	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim																								
			✓																								

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Anabledd Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu hanabledd? (Ticiwch ✓)				Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.		
Nam ar y clyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Nam corfforol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Nam ar y golwg	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Anabledd dysgu	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Salwch hirdymor	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Iechyd meddwl	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Arall	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Trawsrywiol Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl drawsrywiol? (Ticiwch ✓)				Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.		
Trawsrywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Priodas neu bartneriaeth sifil Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar briodas neu bartneriaeth sifil? (Ticiwch ✓)				Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.		Tudalen 843
Priodas	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Partneriaeth sifil	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Beichiogrwydd neu famolaeth Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar feichiogrwydd neu famolaeth? (Ticiwch ✓)				Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi		

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Beichiogrwydd	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim	canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.		
			✓			
Mamolaeth	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Hil Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar hil? (Ticiwch ✓)				Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.		
Gwyn	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Grwpiau ethnig cymysg / aml-ethnig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Grwpiau ethnig eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Crefydd neu ddim cred Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? (Ticiwch ✓)				Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.		
--	--	--	--	--	--	--

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Cristnogion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Bwdhyddion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Hindŵiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Dyneiddwyr	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Iddewon	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Mwslimiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Sikhiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Pobl heb gred	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Eraill	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Rhyw Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynton a/neu fenywod? (Ticiwch ✓)				Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.		
Dynion	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



Menywod	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Cyfeiriadedd rhywiol Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol gyfeiriadedd rhywiol? (Ticiwch ✓)				Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r broses ynghylch pennu cyflogau athrawon ac felly mae'n nodi canllawiau clir i leihau'r risg o wahaniaethu.		
Pobl ddeurywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Dynion hoyw	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Menywod hoyw / lesbiaid	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			
Pobl heterorywiol	Cadarnhaol	Negyddol	Dim/Fawr ddim			
			✓			

Tudalen 846

Rhoi sylw dyledus i dri nod y Ddyletswydd Cydraddoldeb – penderfynu a fydd y cynnig yn eich cynorthwyo i roi terfyn ar wahaniaethu, i hybu cydraddoldeb ac i feithrin cysylltiadau da, neu'n eich rhwystro rhag gwneud hynny.

3.6.2. Sut allai/mae'r cynnig yn helpu i hybu/hyrwyddo cyfle cyfartal?
Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn: • Dileu neu leihau anfantais • Diwallu anghenion pobl â nodweddion penodol • Annog pobl â nodweddion penodol i gymryd mwy o ran

Bydd y Polisi hwn yn cael ei roi ar waith yn gyson ar gyfer yr holl weithwyr gan roi sylw i'r nodweddion gwarchoddedig canlynol: oed, anabledd, hil, rhyw, ailbennu rhywedd, priodas / partneriaeth sifil, beichiogrwydd / mamolaeth, crefydd, cred a chyfeiriadedd rhywiol.

3.6.3. Sut allai/mae'r cynnig/penderfyniad yn helpu i roi terfyn ar wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon?
Dylech ystyried a oes tystiolaeth ar gael sy'n dangos: • Y gall y cynnig beri i bobl â nodweddion penodol gael eu trin yn llai ffafriol • Y gallai'r cynnig arwain at wahaniaethu anuniongyrchol • Bod y cynnig yn fwy tebygol o'ch cynorthwyo i wneud addasiadau rhesymol neu'ch rhwystro rhag gwneud hynny



3.6.4. Sut allai/mae'r cynnig yn effeithio ar hybu/hyrwyddo cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach?

Dylech ystyried a fydd y cynnig yn eich helpu chi i wneud y pethau a ganlyn : • Mynd i'r afael â rhagfarn • Hybu dealltwriaeth

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



3.7. Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Mae diwylliant a threftadaeth Cymru a'r Gymraeg yn cael eu hybu a'u gwarchod. <i>Yn yr adran hon, mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau yr ydych yn eu cymryd i wella. Dylech wneud hyn i sicrhau nad yw'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn waeth na'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rheini sy'n dewis gwneud hynny drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny yn unol â Mesur y Gymraeg 2011.</i>				Disgrifiwch pam y bydd yn cael effaith gadarnhaol/negyddol neu fawr ddim effaith o gwbl.	Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	Pa gam (gamau) allwch chi ei gymryd (eu cymryd) i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?
A fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)?	Cadarn haol ✓	Negydd ol	Dim/Fawr ddim	Mae hwn yn bolisi dwyieithog a bydd unrhyw hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn Gymraeg ac yn Saesneg		
A fydd y cynnig yn effeithio ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?	Cadarn haol ✓	Negydd ol	Dim/Fawr ddim	Bydd athrawon a rheolwyr yn gallu cael cymorth, cyngor a chyfleoedd gwaith yn Gymraeg.		
A fydd y cynnig yn cynyddu neu'n lleihau'r cyfleoedd i bobl gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg?	Cadarn haol ✓	Negydd ol	Dim/Fawr ddim	Bydd gweithwyr yn cael y cyfle i gael cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.		
Sut fydd y cynnig yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?	Cadarn haol ✓	Negydd ol	Dim/Fawr ddim	Mae'r polisi'n ddwyieithog a bydd yr holl hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn y ddwy iaith		
A fydd yn gwarchod, yn hybu ac yn cyfoethogi	Cadarn haol	Negydd ol	Dim/Fawr ddim ✓	Nid oes unrhyw effeithiau negyddol os gweithredir y polisi.		

Cyngor Sir Ceredigion – Asesiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



diwylliant a threftadaeth lleol?				Mae'r polisi'n ddwyieithog a bydd yr holl hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn y ddwy iaith.		
----------------------------------	--	--	--	---	--	--

4. ATGYFNERTHU'R CYNNIG: Os yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n negyddol ar unrhyw rai o'r materion uchod (gan gynnwys unrhyw rai o'r nodweddion gwarchoddedig), pa gamau ymarferol/newidiadau allai helpu i liniaru neu i ddileu unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd yn adrannau 2 a 3?

4.1 Camau

Beth fyddwch chi'n ei wneud?	Pryd fyddwch chi'n ei wneud?	Pwy sy'n gyfrifol?	Cynnydd

Tudalen 849

4.2. Os na fyddwch yn cymryd unrhyw gamau i ddileu neu i liniaru'r effeithiau negyddol, rhwch gyfiawnhad.

(Cofiwch: os ydych chi wedi nodi gwahaniaethu anghyfreithiol uniongyrchol a phosibl o ganlyniad i'r cynnig hwn, rhaid i chi newid neu ddiwygio'r cynnig.)

Nid oes unrhyw effeithiau negyddol os gweithredir y polisi.

4.3. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?

Caiff y Polisi ei fonitro'n flynyddol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ag unrhyw newidiadau i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru)

Cyngor Sir Ceredigion – Aseiad Effaith Integredig (AEI)

Offeryn integredig sy'n sylfaen ar gyfer proses benderfynu effeithiol



5. RISG: Beth yw'r risg sydd ynghlwm wrth y cynnig hwn?					
Meini prawf asesu effaith	1 – Isel iawn	2 – Isel	3 – Canolig	4 – Uchel	5 – Uchel iawn
Meini prawf asesu tebygolrwydd	1 – Annhebygol o ddigwydd	2 – Llai tebygol o ddigwydd	3 – Yr un mor debygol o ddigwydd ac o beidio digwydd	4 – Mwy tebygol o ddigwydd	5 – Tebygol o ddigwydd
Disgrifiad o'r risg	Effaith (difrifoldeb)		Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni)		Sgôr risg
Allai eich cynnig chi effeithio ar faes gwasanaeth arall?					
Na allai					

6. CYMERADWYO			
Swydd	Enw	Llofnod	Dyddiad
Rheolwr y Gwasanaeth	Martyn Saycell		15/12/2021
Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Geraint Edwards		10/01/2022
Y Cyfarwyddwr Corfforaethol			
Deiliad y Portffolio			

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod:	03 Mawrth 2022
Teitl:	Adroddiad ynghylch Polisi Cyflogau arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2022/23
Pwrpas yr adroddiad:	Yn unol ag Adran 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011, rhaid i'r Cyngor lunio a chyhoeddi Datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae'r Polisi Cyflogau arfaethedig ar gyfer 2022/23 yn amgaeedig er mwyn i'r Cyngor ei ystyried.
Er:	Cymeradwyaeth
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Cyswllt Cwsmeriaid, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth.

Cyflwyniad

Diben yr adroddiad hwn yw gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Polisi Cyflogau ar gyfer 2022/23 yn unol â gofynion Deddf Lleoliaeth 2011. Mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer pob blwyddyn ariannol a'i gyhoeddi ar y wefan berthnasol erbyn 31 Mawrth.

Mae polisiâu cyflogau wedi'u paratoi o dan y Ddeddf hon a'u hystyried a'u cymeradwyo gan y Cyngor bob blwyddyn ers mis Mawrth 2012. Nodwyd y manylion sydd yn rhaid eu cynnwys mewn datganiad polisi cyflogau, a'u diben yn gyffredinol, ar adeg cymeradwyo'r datganiad cyntaf a thynnwyd sylw at y newidiadau a wnaed ar ôl hynny fel y bo'n briodol.

Ym mis Tachwedd 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau Statudol ar '*Atebolrwydd cyflog o fewn llywodraeth leol*' sy'n cyflwyno'r cynnwys ychwanegol sydd i'w gynnwys yn y Datganiad Polisi Cyflogau blynyddol, megis:

- rôl y Prif Weithredwr;
- disgrifiad cryno o ddeiliad y swydd;
- polisi a gweithdrefnau gwneud penderfyniadau yn ymwneud â chyflog prif swyddog;
- proses gymeradwyo pecynnau ymadael dros £100k;
- rheoli talent;
- trefniadau oddi ar y gyflogres.

Mae'r rhain wedi'u hymgorffori yn y Datganiad Polisi Cyflogau diwygiedig eleni, ac maent wedi'u seilio ar y datganiad sampl yn y canllawiau statudol.

Tudalen 852

Er eglurder, mae datganiad blynyddol polisi cyflogau 2022/23 ond yn ymwneud â thâl a chyflog y staff a gyflogir o dan y telerau a'r amodau canlynol:

- Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol
- Y Cyngor Cenedlaethol ar y Cyd (JNC) ar gyfer Prif Weithredwyr
- Y Cyngor Cenedlaethol ar y Cyd (JNC) ar gyfer Prif Swyddogion
- Pwyllgor Soulbury

Newidiadau

1. Parhau y mae'r trafodaethau i gytuno ar gytundebau cyflog yn genedlaethol, felly ni ellir cynnwys y rhain yn y datganiad presennol. Unwaith y cytunir ar gytundebau cyflog, caiff y rhain eu gweithredu a'u hól-ddyddio i 1 Ebrill 2021. Noder nad yw'r trafodaethau hyn wedi dechrau eto ar gyfer 2022/23.
2. Mae pwyntiau 1 a 2 ar golofn gyflog NJC wedi'u codi in lieu unrhyw godiad cyflog a drafodwyd er mwyn sicrhau cydymffurfio â chyfradd isafswm y Cyflog Byw Cenedlaethol o £9.50 yr awr gan ddod i rym o 01/04/2022.
3. Noder i atgyfeiriad gael ei wneud i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ymwneud â newidiadau i raddfa gyflog y Prif Weithredwr, a bod cymeradwyaeth wedi'i derbyn.
4. Rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo unrhyw becyn taliad diswyddo Prif Swyddog.
5. Ni chaniateir i weithwyr sy'n gadael y Cyngor o dan gynllun effeithlonrwydd (diswyddiad gwirfoddol, ymddeoliad cynnar neu ddileu swydd) ddychwelyd i gyflogaeth gyda'r Cyngor am gyfnod o 2 flynedd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol a dim ond pan gymeradwyir hynny gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Pobl a Threfniadaeth.
6. Ni chaniateir i Brif Swyddogion sy'n gadael y Cyngor o dan gynllun effeithlonrwydd (diswyddiad gwirfoddol, ymddeoliad cynnar neu ddileu swydd) ddychwelyd i gyflogaeth gyda'r Cyngor neu fel gweithiwr asiantaeth neu fel ymgynghorydd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol a dim ond pan gymeradwyir hynny gan y Prif Weithredwr a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a Gwasanaethau Democrataidd.

**Llesiant
Cenedlaethau'r
Dyfodol:**

**A gwblhawyd Asesiad Effaith
Integredig? Os naddo,
esboniwch pam
Crynodeb:
Hirdymor:
Integreiddio:**

	Cydweithio: Cynnwys: Atal:
Argymhelliad / Argymhellion:	Cymeradwyo'r Polisi Cyflogau ar gyfer 2022/23 sydd ynghlwm.
Rheswm dros y penderfyniad:	Er mwyn sicrhau y cydymffurfir ag Adran 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011.
Trosolwg a Chraffu:	Heb ei ystyried.
Fframwaith Polisi:	Rheoliadau Llywodraeth Cymru
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Mae Polisi Cyflogau 2022/23 yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni pob un o'i Flaenoriaethau Corfforaethol.
Goblygiadau Ariannol:	Rhan o broses pennu'r gyllideb ar gyfer 2022/23.
Pwerau Statudol:	Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972 Deddf Lleoliaeth 2011 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Polisi Cyflogau Cyngor Sir Ceredigion 2022/23
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro – Pobl a Threfniadaeth
Swyddog Adrodd:	Geraint Edwards
Dyddiad:	09 Chwefror 2022



Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Pobl a Threfniadaeth | People and Organisation

DRAFFT

Datganiad Polisi Cyflogau

2022/2023

Cyngor Sir Ceredigion
Datganiad Polisi Cyflogau 2022/2023

	Cynnwys	Tudalen
1	Cyflwyniad a phwrpas	3
2	Y Fframwaith Deddfwriaethol	3
3	Telerau ac Amodau Cyflogaeth	3
4	Gwneud Penderfyniadau	6
5	Trefniadau Cyd-fargeinio gyda'r Undebau Llafur	7
6	Cydnabyddiaeth Ariannol Cyflogau Uwch	7
7	Rheoli Talent	10
8	Tâl yn ôl Perfformiad	11
9	Cymorth ar gyfer Staff sy'n Derbyn Tâl Is	11
10	Cymharu Cyflogau o fewn y Cyngor	11
11	Polisi Ymadael	11
12	Trefniadau Oddi ar y Gyflogres	13
13	Cyhoeddi	13
	Atodiadau	
A	Graddfeydd Cyflog Gweithwyr NJC	14
B	Graddfeydd Cyflog Prif Swyddogion	16
C	Graddfeydd Cyflogau Soulbury	17
D	Yr Holl Grwpiau Gweithwyr – Prif Amodau Gwasanaeth	21
E	Cynllun Honorariwm	23
F	Cynllun Taliadau Atodol Grym y Farchnad	25
G	Polisi Disgresiwn LGPS y Cyflogwr – Rheoliad 5 a 6	29

1 CYFLWYNIAD A PHWRPAS

- 1.1 Pwrpas y datganiad yw bod yn dryloyw ynghylch ymagwedd y Cyngor at bennu cyflog ei weithwyr (ac eithrio athrawon), trwy nodi sut y penderfynir ar gyflogau'r holl weithwyr. Mae'n rhoi ystyriaeth i Ganllawiau Statudol "Atebolrwydd Cyflog mewn Llywodraeth Leol" a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2021.
- 1.2 Mae'r Datganiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

2 Y FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL

- 2.1 Mae'r datganiad Polisi Cyflogau hwn yn cyflwyno ymagwedd y Cyngor at Bolisi Cyflogau, yn unol â gofynion Adran 38 (1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol Cymru a Lloegr lunio a chyhoeddi Datganiad Polisi Cyflogau sy'n cynnwys y manylion canlynol:
- a) Polisiâu'r Cyngor ar gyfer holl agweddau ac elfennau cydnabyddiaeth ariannol y Prif Swyddogion;
 - b) Y dull sydd ganddo o gyhoeddi a sicrhau mynediad at wybodaeth sy'n ymwneud â phob agwedd ar gydnabyddiaeth ariannol i'r Prif Swyddogion;
 - c) Polisiâu'r Cyngor ar gyfer talu'r gweithwyr sydd ar y cyflogau isaf;
 - d) Y berthynas sydd rhwng y gydnabyddiaeth ariannol i Brif Swyddogion ac i weithwyr eraill.
- 2.2 Nid yw darpariaethau'r Ddeddf yn berthnasol i staff addysgu mewn ysgolion awdurdodau lleol ac felly nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yng nghwmpas y ddogfen hon.
- 2.3 O dan Adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan y Cyngor "rym i benodi swyddogion ar sail telerau ac amodau rhesymol y mae'r Awdurdod yn barnu eu bod yn addas". Wrth bennu cyflogau a thâl ei holl weithwyr, bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyflogaeth berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:-
- a) Deddf Cydraddoldeb 2010;
 - b) Rheoliadau Gwaith Rhan Amser (Atal Triniaeth Llai Ffatriol) 2000;
 - c) Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010; a, lle bo'n berthnasol
 - d) Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth).
- 2.4 O ran y gofynion Cyflog Cyfartal a geir yn y Ddeddf Cydraddoldeb, nod y Cyngor yw sicrhau nad oes gwahaniaethu o ran tâl o fewn ei strwythurau tâl, a bod modd cyfiawnhau'r gwahaniaethau tâl yn wrthrychol trwy systemau Gwerthuso Swyddi a wiriwyd o ran cydraddoldeb, fel bod cyflogau yn uniongyrchol gysylltiedig â gofynion, galwadau a chyfrifoldebau'r rôl. Mae'r Cyngor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar Gyflogau'r Rhywiau sy'n manylu ar unrhyw fwlch cyflog rhwng y rhywiau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r bwllch rhwng y rhywiau.

3 TELERAU AC AMODAU CYFLOGAETH

3.1 Mae'r Cyngor yn cyflogi tua 3,600 o weithwyr. Mae'r swyddi y cyflogir hwy ynddynt yn dod o dan gwmpas ystod o delerau ac amodau sy'n deillio o:

- Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol
- Y Cyngor Cenedlaethol ar y Cyd (JNC) ar gyfer Prif Weithredwyr
- Y Cyngor Cenedlaethol ar y Cyd (JNC) ar gyfer Prif Swyddogion
- Pwyllgor Soulbury
- Athrawon (nad ydynt o dan gwmpas yr adroddiad hwn)

3.2 Mae'r graddfeydd cyflogau canlynol yn Atodiadau i'r polisi hwn:

- Atodiad A Graddfeydd Cyflog Gweithwyr (NJC)
- Atodiad B Graddfeydd Cyflog Prif Swyddogion (JNC)
- Atodiad C Graddfeydd Cyflogau Soulbury

3.3 Mae manylion ynghylch niferoedd staff fesul band cyflog ac yn ôl rhyw wedi eu cyhoeddi ar wahân yn Adroddiad Cydraddoldeb y Gweithlu blynyddol.

3.4 Codiadau Cyflog Cenedlaethol

3.4.1 Ar gyfer pob grŵp o weithwyr, gweithredir unrhyw godiadau cyflog y cytunir arnynt yn genedlaethol, yn sgil trafodaethau rhwng cyflogwyr llywodraeth leol ac undebau llafur cydnabyddedig. Bydd y Cyngor yn talu'r codiadau cyflog hyn y cytunir arnynt yn genedlaethol pan benderfynir arnynt, oni bai bod y Cyngor llawn yn penderfynu fel arall.

3.5 Gwerthuso Swyddi

3.5.1 Mae gwerthuso swyddi yn ffordd systematig o benderfynu ar werth swydd o'i chymharu â swyddi eraill mewn sefydliad. Y nod yw gwneud cymhariaeth systematig rhwng swyddi i asesu eu gwerth cymharol, at ddibenion sefydlu strwythur cyflogau rhesymol a chyflog cyfartal rhwng swyddi. Yn 2012 aeth y Cyngor ati i gynnal ymarfer Gwerthuso Swyddi mewn perthynas â swyddi sydd wedi'u llywodraethu gan delerau ac amodau cyflogaeth NJC.

3.5.2 O ran gwerthuso swyddi'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC), mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn defnyddio Cynllun Gwerthuso Swyddi Cyngor Taleithiol Llundain Fwyaf (y GLPC). O ran swyddi Prif Swyddog, mae'r Cyngor yn defnyddio Cynllun Gwerthuso Swyddi Uwch Reolwr Cymdeithas Llywodraeth Leol.

3.5.3 Mae'r Cyngor yn defnyddio'r golofn gyflogau a drafodir yn genedlaethol gan yr NJC yn sail ar gyfer ei strwythur cyflogau, heblaw am y ffaith ei fod wedi ymestyn y raddfa uchaf o bwynt 44 hyd bwynt 53 ar y golofn gyflogau. Dyma sy'n penderfynu cyflogau'r mwyafrif helaeth o'r gweithwyr heblaw am athrawon. O 1 Ebrill 2019 cyflwynodd Cyflogwyr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol golofn gyflogau newydd, cytunwyd ar y newidiadau hyn gyda'r Undebau Llafur i'w gweithredu ym mis Ebrill 2019. Mae'r golofn gyflog i'w gweld yn Atodiad A.

3.5.4 Mae'r trafodaethau ar gyfer codiad cyflog Ebrill 2021 yn dal i fynd rhagddynt ac o ganlyniad nid yw'r rheini ar gyfer Ebrill 2022 wedi dechrau eto.

3.5.5 Mae'r Cyngor am gadw'r strwythur tâl a graddio sy'n bodloni'r prawf cydraddoldeb trwy gynnal asesiad gwerthuso swydd ar unrhyw swydd newydd neu swyddi sydd wedi newid yn sylweddol. Bydd Panel Gwerthuso Swyddi ar y Cyd, sy'n cynnwys rheolwyr hyfforddedig a chynrychiolwyr undebau llafur yn cwrdd i ystyried a phenderfynu ar apeliadau ynghylch gradd.

3.6 Cyflogau cychwynnol

3.6.1 Polisi'r Cyngor yw bod pob penodiad i swyddi gyda'r Cyngor yn cael ei wneud ar waelod y radd gyflog berthnasol, er bod modd amrywio hyn pan fo angen cael yr ymgeisydd(wyr) gorau sydd ar gael.

3.6.2 Gall y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol awdurdodi amrywiad i gyflog cychwynnol ar gyfer pob swydd ac eithrio'r rhai a gyflogir ar delerau ac amodau Prif Swyddog. Y Cyngor Llawn fydd yn pennu cyflog cychwynnol y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol.

3.7 Ystyriaethau eraill cysylltiedig â thâl

3.7.1 Mae'r holl ystyriaethau eraill cysylltiedig â thâl yn destun cytundebau a drafodir yn genedlaethol a/neu'n lleol, ac fe'u cyfeirir at y Cabinet a/neu'r Cyngor Llawn fel y bo'n briodol (gweler y broses Gwneud Penderfyniadau i gael rhagor o wybodaeth).

3.7.2 Mae'r telerau ac amodau cyflogaeth sy'n ymwneud â gwyliau blynyddol, oriau gwaith, taliadau goramser, trefniadau gweithio ar y penwythnos a thâl salwch ar gyfer pob grŵp o weithwyr (ac eithrio staff addysgu) wedi'u nodi yn Atodiad D.

3.8 Taliadau Honoraria

3.8.1 Gall fod adegau pryd y gofynnir i weithiwr gyflawni dyletswyddau ychwanegol i'r rheiny yn ei swydd bresennol, am gyfnod o amser. O dan amgylchiadau felly gellir gwneud taliad ychwanegol yn unol â Pholisi Honorariwm y Cyngor. Mae'r polisi i'w weld yn Atodiad E.

3.9 Taliadau atodol grym y farchnad

3.9.1 Mae defnyddio gwerthuso swyddi wedi galluogi'r Cyngor i bennu lefelau cydnabyddiaeth ariannol priodol ar sail y berthynas rhwng maint swyddi mewnol a geir yn y Cyngor. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau eithriadol, gall fod angen rhoi sylw i'r farchnad gyflogau allanol er mwyn denu a chadw gweithwyr sydd â'r profiad, y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol.

3.9.2 Mae gan y Cyngor Gynllun Taliadau Atodol Grym y Farchnad er mwyn sicrhau bod y rheidrwydd i gynnig unrhyw daliadau atodol grym y farchnad yn cael ei gyfiawnhau'n wrthrychol trwy gyfeirio at dystiolaeth glir, dryloyw o elfennau cymaradwy yn y farchnad, gan ddefnyddio ffynonellau data priodol. Gellir gweld Cynllun Taliadau Atodol Grym y Farchnad yn Atodiad F. Polisi'r Cyngor yw bod unrhyw daliadau ychwanegol o'r fath yn cael eu cyfyngu gymaint â phosibl, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn medru eu tynnu'n ôl lle bernir nad oes eu hangen bellach.

3.9.3 Mae'r egwyddorion sy'n sail i'r Cynllun Taliadau Atodol Grym y Farchnad hwn yr un mor berthnasol i bob grŵp o weithwyr yn y Cyngor. Pan gynigir rhoi

ychwanegiad grym y farchnad at swydd Prif Swyddog yn y Cyngor, rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn. Os yw ychwanegiad grym y farchnad yn arwain at becyn cyflog gwerth mwy na £100,000, rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

3.10 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)

3.10.1 Er mwyn helpu pobl i gynilo mwy o arian ar gyfer eu hymddeoliad, mae'r Llywodraeth bellach yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gofrestru eu gweithwyr yn awtomatig ar gynllun pensiwn gweithle. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Os oes gan weithiwr gontract cyflogaeth am o leiaf 3 mis (ac os yw'n iau na 75 oed), bydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig ar y Cynllun, o ddyddiad dechrau ei gyflogaeth. Mae darpariaethau ar gyfer peidio ag ymuno ar gael.

3.10.2 Mae'r tabl isod yn dangos cyfraddau cyfraniadau gweithwyr, a ddiffinnir gan statud, ac maent yn seiliedig ar ganran y cyflog pensiynadwy yn dibynnu ar lefelau cyflog cyfwerth ag amser llawn. Pennir cyfradd cyfraniad cyflogwyr gan actiwarïaid sy'n cynghori Cronfa Bensiwn Dyfed ac fe'i hadolygir bob tair blynedd er mwyn sicrhau yr ariennir y cynllun yn briodol.

Band	Ystod cyflog cyfwerth amser cyflawn	Cyfradd cyfraniad y gweithiwr	Adran 50/50	Cyfradd cyfraniad y cyflogwr
1	Hyd at £14,600	5.5%	2.75%	15.8%
2	£14,601 - £22,900	5.8%	2.90%	15.8%
3	£22,901 - £37,200	6.5%	3.25%	15.8%
4	£37,201 - £47,100	6.8%	3.40%	15.8%
5	£47,101 - £65,900	8.5%	4.25%	15.8%
6	£65,901 - £93,400	9.9%	4.95%	15.8%
7	£93,401 - £110,000	10.5%	5.25%	15.8%
8	£110,001 - £165,000	11.4%	5.70%	15.8%
9	£165,001 neu fwy	12.5%	6.25%	15.8%

Cyfraddau yn dod i rym 1 Ebrill 2021

3.10.4 Bydd gwerthusiad teirblwyddol yn digwydd yn ystod 2022/23 gan ddod i rym 1 Ebrill 2023.

3.10.5 Mae cyfle i weithwyr sy'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (gweler uchod) ymuno â Chynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a Rennir Costau Aberthu Cyflog (AVC), gan gynorthwyo gweithwyr sy'n dymuno cynyddu buddion pensiwn ar eu hymddeoliad trwy dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i Gynllun AVC Llywodraeth Leol.

3.11 Buddion eraill i weithwyr

3.11.1 Cred y Cyngor fod cyfrifoldeb arno i helpu iechyd, lles a llesiant y staff er mwyn sicrhau bod eu perfformiad gyda'r gorau. Yn hynny o beth, ac fel y mae llawer o gyflogwyr mawr eraill yn ei wneud, mae'r Cyngor yn cynnig nifer o fuddion ar ben y cyflogau, megis talebau profion llygaid ar gyfer pobl sy'n gweithio ar gyfarpar sgriniau arddangos yn y gwaith, a threfniadau aberthu cyflog ar gyfer talebau gofal plant (yn sgil cau'r cynlluniau hyn gan y Llywodraeth, dim ond i'r rhai a ymunodd â'r cynllun cyn mis Hydref 2018 y mae'r budd hwn ar gael bellach), prydlesu ceir a chymryd rhan yn y cynllun Beicio i'r Gwaith.

4 GWNEUD PENDERFYNIADAU

- 4.1 Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, y Cabinet sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn ymwneud â recriwtio, cyflogau, telerau ac amodau, a threfniadau diswyddo gweithwyr y Cyngor.
- 4.2 O dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014, mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i bennu neu amrywio cydnabyddiaeth ariannol Prif Swyddogion, neu'r rhai sydd i'w penodi yn Brif Swyddogion, gael ei wneud gan y Cyngor Llawn.

5 TREFNIADAU CYD-FARGEINIO GYDA'R UNDEBAU LLAFUR

- 5.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr undebau llafur canlynol:

5.1.1 *NJC ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol*

- UNSAIN
- GMB
- UNITE

5.1.2 *JNC ar gyfer Prif Swyddogion*

- UNSAIN
- GMB

5.1.3 *Athrawon*

- NAHT
- NASUWT
- NEU
- UCAC
- ASCL

- 5.2 Cydnabyddir undebau llafur at ddibenion ymgynghori a thrafod ar y cyd mewn perthynas â materion perthnasol, rhai nad ydynt yn cael eu pennu gan gyrff trafod cenedlaethol, a rhai y mae'r ddwy ochr yn cytuno ei bod yn briodol ac yn fuddiol penderfynu arnynt trwy gytundeb. Cynhelir trafodaethau gyda'r nod o ddod i gytundeb ac osgoi anghydfodau. Hefyd mae cydnabod undebau llafur yn ymwneud â chynrychiolaeth i aelodau unigol.

6 CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYFLOGAU UWCH

- 6.1 Prif Weithredwr

6.1.1 Y Prif Weithredwr yw'r uwch swyddog sy'n arwain y Cyngor ac yn cymryd cyfrifoldeb drosto. Y Prif Weithredwr yw'r Prif Swyddog Gweithredol a benodwyd yn statudol yn unol ag Adran 56 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r Cyngor yn sefydliad mawr a chymhleth sydd â chyllideb gwerth sawl miliwn o bunnau. Mae ganddo ystod eang iawn o swyddogaethau ac mae'n gyfrifol am ddarparu ystod eang o wasanaethau hanfodol, gan gyflogi tua 3,600 o staff.

6.1.2 Mae rôl y Prif Weithredwr yn swydd amser llawn a pharhaol. Dewisir deiliad y swydd ar sail teilyngdod, yn erbyn meini prawf gwrthrychol, yn dilyn hysbyseb cyhoeddus. Penodir y Prif Weithredwr gan y Cyngor Llawn.

- 6.1.3 Cydweithia'r Prif Weithredwr yn agos ag Aelodau Etholedig i gyflawni nodau strategol y Cyngor, gan gynnwys y blaenoriaethau a ganlyn:
- Rhoi hwb i'r economi;
 - Buddsoddi yn nyfodol y bobl;
 - Galluogi cydnerthedd unigolion a theuluoedd;
 - Hyrwyddo cydnerthedd amgylcheddol a chymunedol.
- 6.1.4 Mae'r Prif Weithredwr yn gweithio'n rheolaidd gyda'r hwyr ac ar benwythnosau yn ogystal â'r wythnos fusnes safonol o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn arwain y trefniadau 'ar alwad' yn enwedig ar gyfer trefniadau cynllunio at argyfwng.
- 6.1.5 Mae'r Prif Weithredwr presennol, Mr Eifion Evans, wedi bod yn ei swydd ers mis Hydref 2017 ac wedi gweithio i'r Cyngor ers dros 30 mlynedd. Dechreuodd Mr Evans ar ei yrfa yn y Sir fel athro yn 1991, cyn dod yn Bennaeth yn 1997. Yn 2007 penodwyd Mr Evans yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg, daeth yn Gyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol yn 2009 ac yn Gyfarwyddwr Strategol – Dysgu a Phartneriaethau yn 2013. Cyn ei rôl bresennol roedd Mr Evans yn Ddirprwy Brif Weithredwr.
- 6.1.6 Gan ddod i rym o 1 Ebrill 2022 (codiad cyflog yn yr arfaeth), daw cyflog y Prif Weithredwr o fewn y band cyflog £121,618 i £130,108 y flwyddyn (gweler Atodiad B i gael rhagor o fanylion).
- 6.1.7 Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i benodi Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau a refferenda penodol. Penodwyd y Prif Weithredwr i'r rôl honno yng Ngheredigion. Mae'r Swyddog Canlyniadau yn bersonol gyfrifol am ystod eang o swyddogaethau yn ymwneud â chynnal etholiadau a refferenda ac fe'i telir am gyflawni'r swyddogaethau hyn yn unol â ffioedd a bennwyd.
- 6.1.8 Cyhoeddir manylion am dâl y Prif Weithredwr, gan gynnwys unrhyw daliadau ychwanegol, yn y Datganiad Cyfrifon. Cyhoeddir y ddogfen hon ar wahân.
- 6.1.9 Mae treuliau mewn perthynas â milltired car, trafndiaeth gyhoeddus, llety dros nos a pharcio ac ati yn cael eu hawlio'n ôl yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliadau y Cyngor.
- 6.1.10 Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a datgelir y manylion yn y Datganiad Cyfrifon. Ni fu unrhyw godiadau neu ychwanegiadau i'r pensiwn y tu allan i drefniadau safonol.

6.2 Uwch Staff

- 6.2.1 At ddibenion y datganiad hwn, mae uwch staff yn golygu 'Prif Swyddogion' fel y'u diffinnir yn Adran 43 y Ddeddf Lleoliaeth. Mae'r swyddi sy'n berthnasol i'r diffiniad statudol wedi'u nodi yng Nghyfansoddiad y Cyngor fel a ganlyn:
- **Prif Swyddogion:**
 - Prif Weithredwr
 - Gyfarwyddwr Corfforaethol (dwy rôl)
 - **Dirprwy Brif Swyddogion** (deuddeg rôl):
 - Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151) (A2)

- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal (Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol) (A2)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion a Diwylliant (Prif Swyddog Addysg) (A2)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democraataidd (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Yr Economi ac Adfywio (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Priffyrdd ac Amgylcheddol (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu (Swyddog Monitro) (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cymorth Cynnar (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal (A1)

6.3 Tâl

- 6.3.1 O 1^{af} Ebrill 2021 (codiad cyflog yn yr arfaeth) mae swyddi Cyfarwyddwr Corfforaethol yn denu cyflog o fewn y band cyflog £97,294 hyd at £104,086 y flwyddyn (gweler Atodiad B i gael rhagor o fanylion).
- 6.3.2 O 1^{af} Ebrill 2021 (codiad cyflog yn yr arfaeth) mae swyddi Swyddog Arweiniol Corfforaethol A2 yn denu cyflog o fewn y band cyflog o £78,869 hyd at £83,931 y flwyddyn (gweler Atodiad B i gael rhagor o fanylion).
- 6.3.3 O 1^{af} Ebrill 2021 (codiad cyflog yn yr arfaeth) mae swyddi Swyddog Arweiniol Corfforaethol A1 yn denu cyflog o fewn y band cyflog o £72,158 hyd at £77,192 y flwyddyn (gweler Atodiad B i gael rhagor o fanylion).
- 6.3.4 Cyhoeddir manylion cyflogau uwch staff yn y Datganiad Cyfrifon.

6.4 Recriwtio Prif Swyddogion

- 6.4.1 Mae Polisi a Gweithdrefnau'r Cyngor yng nghyswllt recriwtio Prif Swyddogion i'w gweld yn Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion, fel y nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad. Pennir y tâl cydnabyddiaeth sydd i'w gynnig i unrhyw Brif Swyddog newydd ei benodi yn unol â'r strwythur tâl a gymeradwywyd a'r polisiau perthnasol sydd gan y Cyngor ar waith adeg recriwtio. Rhaid i unrhyw gyflog sy'n fwy na'r trothwy o £100,000 gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Cyngor Llawn.

6.5 Ychwanegiadau at gyflog Prif Swyddogion

- 6.5.1 Mae'r Cyngor yn talu cyfradd costau teithio safonol o 45 ceiniog y filltir i Brif Swyddogion (a phob gweithiwr arall) pan fo'r Prif Swyddog yn defnyddio cerbyd preifat ar gyfer gwaith y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn ad-dalu unrhyw dreuliau eraill rhesymol a ddaw i ran y Prif Swyddog, wrth gyflawni gwaith y Cyngor, ar ôl cyflwyno derbynebaw, ac yn unol ag amodau'r Cyd-bwyllgor Trafod Telerau (JNC) ac amodau lleol eraill.

- 6.5.2 Nid yw'r Cyngor yn talu cost aelodaeth i gorff proffesiynol ar gyfer unrhyw weithiwr ac eithrio'r rhai sy'n dilyn cwrs astudio ar gyfer cymhwyster proffesiynol, a hynny am gyfnod y cwrs yn unig.

6.6 Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol

- 6.6.1 Mae Adran 143A Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cyfeirio at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ("yr IRP") ac mae'n nodi'r swyddogaethau sydd ganddo o ran cyflogau'r Prif Weithredwr. Gall y Panel wneud argymhellion ynghylch unrhyw bolisi y cyfeirir ato yn y Datganiad Polisi Cyflogau hwn sy'n ymwneud â chyflog Prif Weithredwr y Cyngor ac unrhyw newid arfaethedig i gyflog Prif Weithredwr y Cyngor.
- 6.6.2 Mae Adran 39 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 yn ehangu'r dyletswyddau sydd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ers 26 Ionawr 2016 i'w gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod lleol sy'n bwriadu gwneud newidiadau i dâl y Prif Swyddog nad ydynt yn 'gymesur â'r newid yng nghyflogau staff eraill yr awdurdod' gyflwyno hynny gerbron y Panel er mwyn iddo wneud argymhelliad yn ei gylch cyn gwneud y newid, a bod yn rhaid i'r awdurdod roi sylw dyledus i argymhelliad y Panel wrth benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newid ai peidio. Os yw'r Cyngor yn dewis peidio â dilyn cyngor y Panel, gall ddod yn destun Cyfarwyddyd Gweinidogol i ailystyried ei safbwynt.
- 6.6.3 Ymgynghorodd y Cyngor â'r Panel yn ystod 2018/19 ynghylch ei newidiadau arfaethedig i gydnabyddiaeth ariannol Prif Swyddogion. Cymeradwyodd y Panel y cynnig fel y'i cyflwynwyd ar gyfer ailstrwythuro trefniant yr uwch reolwyr yn y Cyngor a chymeradwywyd y strwythur diwygiedig hwn gan y Cyngor Llawn ym mis Ionawr 2019.
- 6.6.4 Ymgynghorodd y Cyngor â'r Panel yn ystod 2021/22 ynghylch ei newidiadau arfaethedig i gydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr. Cymeradwyodd y Panel y cynnig fel y'i cyflwynwyd ar gyfer diwygio graddfa gyflog y Prif Weithredwr a chymeradwywyd y raddfa gyflog ddiwygiedig hon gan y Cyngor Llawn ym mis Medi 2021.
- 6.6.5 Bydd y Cyngor, fel y bo'n ofynnol, yn ymgynghori â'r Panel ynghylch unrhyw newidiadau i gyflog y Prif Weithredwr neu'r Prif Swyddogion os nad ydynt yn gymesur â newidiadau i gyflogau gweddill staff y Cyngor, a bydd yn rhoi sylw i unrhyw argymhellion a geir gan y Panel wrth benderfynu a yw am fwrw ymlaen â'r newid ai peidio.

7 RHEOLI TALENT

- 7.1 Mae'r broses Gwerthuso Perfformiad, yn ogystal â rhoi pwyslais ar berfformiad, yn ceisio rhoi cynlluniau dysgu unigol ar waith, gan ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol nid yn unig ar gyfer rolau presennol, ond drwy fod â ffocws yn y dyfodol ar gefnogi datblygiad gyrfa a chynllunio olyniaeth.
- 7.2 Mae tîm Dysgu a Datblygu'r Cyngor yn cynnig ystod eang iawn o opsiynau hyfforddi a datblygu a ddarperir yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys rhoi mynediad i weithwyr at gymwysterau trwy broses Panel Cymwysterau Corfforaethol sy'n cefnogi datblygiad gweithwyr ar bob lefel y sefydliad. Cefnogir cynllunio olyniaeth a dilyniant gyrfa'r gweithlu hefyd trwy ddarparu cyrsiau penodol ar gyfer 'Darpar Reolwyr' a 'Rheoli am y Tro Cyntaf'. Mae swyddi prentisiaethau

lefel mynediad ar draws yr awdurdod yn cynnig llwybrau i amrywiaeth o yrfaedd yn ogystal â chynnig ffordd i adnabod talent yn gynnar.

- 7.3 Mae cymwysterau'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) wedi'u cyflwyno i gefnogi rheolwyr ac i gynnig cymhwyster rheoli cyson ar draws yr awdurdod. Mae tair carfan Lefel 4 ILM wedi galluogi 28 o bobl i'w gwblhau ac mae 15 rheolwr arall yn gweithio tuag at eu cwblhau; mae 15 wedi symud ymlaen i ddyfarniad Lefel 5 ac yn gweithio tuag at gwblhau hwnnw ar hyn o bryd. Er mwyn datblygu a chefnogi talent a dilyniant gyrfa ymhellach, mae cynllunio hefyd ar y gweill i gyflwyno darpariaeth Lefel 3 ILM yn ddiweddarach eleni.

8 TÂL YN ÔL PERFFORMIAD

- 8.1 Nid yw'r Cyngor yn gwneud unrhyw daliadau bonws na thaliadau ar sail perfformiad i unrhyw un o'i staff.

9 CYMORTH AR GYFER STAFF SY'N DERBYN TÂL IS

- 9.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau i drafod ag Undebau Llafur gyda'r nod o gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar sail fforddiadwy a chynaliadwy pan fo amgylchiadau'n caniatáu. Mae'r pwynt isaf ar golofn gyflogau JNC, SCP 1, ar hyn o bryd yn cyfateb i £9.50 yr awr (cyfradd dros dro i aros i drafodaethau codiadau cyflog 2021/22 a 2022/23 gwblhau) sy'n is na chyfradd cyflog byw gwirioneddol y Sefydliad Cyflog Byw Cenedlaethol o £9.90 yr awr.

10 CYMHARU CYFLOGAU O FEWN Y CYNGOR

- 10.1 Mae'r gweithiwr sydd ar y cyflog isaf yn cael tâl o £18,333 y flwyddyn (addasiadau dros dro i bwyntiau 1 a 2 ar y raddfa o ganlyniadau i'r trafodaethau cyflog ar gyfer 2021/22 a 2022/23 sy'n parhau), yn unol â'r pwynt isaf ar y golofn gyflogau (SCP 1) yng ngholofn gyflogau'r NJC ar gyfer gweithwyr Gwasanaethau Llywodraeth Leol. Nid yw hyn yn cynnwys prentisiaid sydd wedi'u cyflogi ar drefniadau gwahanol gan mai hyfforddiant yw prif nodwedd y trefniant hwnnw, ac mae hefyd yn eithrio staff asiantaeth.
- 10.2 Y gweithiwr sydd â'r cyflog uchaf yw'r Prif Weithredwr a lleiafswm y band cyflog hwnnw yw £121,618 yn codi i uchafswm y band cyflog o £130,108 (codiad cyflog yn yr arfaeth ar gyfer 2021/22 a 2022/23). Mae deiliad presennol y swydd yn ennill £130,108.
- 10.3 Y cyflog canolrifol yn y Cyngor yw £19,698.
- Y lluosydd rhwng cyflog y gweithiwr cyfwerth ag amser llawn sydd â'r cyflog isaf ac uchafswm cyflog y Prif Weithredwr yw **1:7.1**
 - Y lluosydd rhwng y gweithiwr â chyflog isaf a chyfartaledd uchafswm cyflog y Prif Swyddogion yw **1:4.7**
 - Y lluosydd rhwng canolrif enillion cyfwerth ag amser llawn (ac eithrio athrawon) ac uchafswm cyflog y Prif Weithredwr yw **1:6.6**
 - Y lluosydd rhwng canolrif enillion cyfwerth ag amser llawn (ac eithrio athrawon) a chyfartaledd uchafswm cyflog y Prif Swyddogion yw **1:4.3**.

11 POLISI YMADAEL

11.1 Ymddeol yn Gynnar, Dileu Swydd yn Wirfoddol a Dileu Swydd yn Orfodol

- 11.1.1 Mae ymagwedd y Cyngor at daliadau statudol a dewisol pan derfynir cyflogaeth gweithwyr, cyn iddynt gyrraedd oedran ymddeol arferol, wedi'i gyflwyno yn ei ddatganiad Polisi Disgresiwn Cyflogwr (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol), yn unol â Rheoliadau 5 a 6 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (lawndal yn ôl Disgresiwn) 2006. Gweler Atodiad G. Mae hyn mewn perthynas â thaliad dileu swydd yn seiliedig ar enillion wythnosol gwirioneddol (Rheoliad 5) a byddai taliad dileu swydd uwch o hyd at 45 wythnos o dâl yn cael ei ganiatáu (Rheoliad 6). Nid yw Rheoliadau 12 a 13 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniad) 2007 yn gymwys gan nad yw'r Awdurdod yn cynyddu cyfanswm aelodaeth aelodau gweithredol (Rheoliad 12) nac yn dyfarnu pensiwn ychwanegol (Rheoliad 13).
- 11.1.2 Mae pob datganiad o ddi-ddordeb ar gyfer Ymddeoliad Cynnar a Diswyddiad Gwirfoddol yn destun achos busnes cadarn i geisio cadw'r iawndal yn ôl disgresiwn i derfyn fforddiadwy, yn ogystal ag ystyried costau unrhyw newidiadau canlyniadol i'r sefydliad/graddfeydd cyflog.
- 11.1.3 Wrth gyfrifo gwerth pecyn terfynu cyflogaeth, dylid cynnwys y taliadau canlynol:
- tâl a dalwyd yn lle rhybudd
 - cyfandaliad dileu swydd / taliad terfynu cyflogaeth
 - y gost i'r Cyngor o ran y straen ar y gronfa bensiwn sy'n deillio o gael mynediad cynnar i bensiwn heb ei leihau.
- 11.1.4 Rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo o flaen llaw unrhyw becyn diswyddo sy'n gysylltiedig â therfynu cyflogaeth yn gynnar sy'n mynd yn uwch na throthwy o £100,000. Mae'n rhaid i aelodau fod yn ymwybodol o unrhyw hawliadau statudol neu gontractiol y pecyn diswyddo, ynghyd â chanlyniadau atal y rhain o safbwynt cyfraith cyflogaeth.
- 11.1.5 Mae'r Cyngor wedi gweithredu Cynllun Diswyddo Gwirfoddol yn ystod blwyddyn ariannol 2020/2021 ac mae'r costau sy'n gysylltiedig â gweithwyr a adawodd gyflogaeth y Cyngor o dan y Cynllun hwn i'w gweld yn y Datganiad Cyfrifon blyneddol.

11.2 Prif Swyddog

- 11.2.1 Rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo unrhyw becyn diswyddo mewn perthynas â therfynu cyflogaeth Prif Swyddog.

11.3 Ailgyflogi

- 11.3.1 Ni fydd gweithwyr sy'n gadael cyflogaeth y Cyngor ar sail ymddeoliad cynnar, diswyddo neu ddiswyddiad gwirfoddol sy'n cael eu cyflogi mewn rolau Prif Swyddog fel arfer yn cael dychwelyd i unrhyw gyflogaeth am dâl dros dro neu'n barhaol gyda Chyngor Sir Ceredigion (sy'n cynnwys ysgolion) na chael eu hailgyflogi fel gweithiwr asiantaeth neu ymgynghorwyr. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, gellir caniatáu ailgyflogaeth ar sail achos busnes cadarn pan gymeradwyir hynny gan y Prif Weithredwr ac Aelod y Cabinet dros Bobl a Threfniadaeth.

11.3.2 Os yw'r ailgyflogi yn ymwneud â swydd y Prif Weithredwr neu Brif Swyddog, yna bydd y penderfyniad hwn angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

11.3.3 Ni chaniateir i weithwyr eraill sy'n gadael cyflogaeth y Cyngor ar sail ymddeoliad cynnar neu ddiswyddiad gwirfoddol ddychwelyd i gyflogaeth gyda'r Cyngor am gyfnod o 2 flynedd ar ôl eu dyddiad gadael. Fodd bynnag, unwaith eto, ac mewn amgylchiadau eithriadol, gellir caniatáu ailgyflogaeth yn gynt os yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol sy'n "cyflogi" yn gallu darparu achos busnes cadarn dros wneud hynny sy'n dderbyniol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth.

11.4 Hyblygrwydd o ran ymddeol

11.4.1 Mae hawl gan weithwyr gael ymddeoliad hyblyg yn unol â darpariaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chynllun Ymddeoliad Hyblyg y Cyngor.

12 TREFNIADAU ODDI AR Y GYFLOGRES

12.1 Os nad yw'r Cyngor yn gallu recriwtio rhywun i swydd o dan gontract cyflogaeth neu os bydd angen cymorth arbenigol i brosiect penodol, bydd y Cyngor, lle bo angen, yn ystyried cyflogi unigolion o dan gontract ar gyfer gwasanaethau. Mewn achos o'r fath, dilynir y broses gaffael berthnasol yn y Rheolau yn ymwneud â Gweithdrefnau Contractau y Cyngor, gan sicrhau bod y Cyngor yn gallu dangos gwerth am arian o gymharu â'r gystadleuaeth o ran sicrhau'r gwasanaeth perthnasol.

12.2 Os mai llenwi swydd wag yw'r contract ar gyfer gwasanaeth, yn ychwanegol at sicrhau y cydymffurfir â'r Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau, caiff penderfyniadau mewn perthynas â phenodi eu gwneud yn unol â rheolau'r Cyngor mewn perthynas â phenodiadau h.y. bydd y Cyngor yn penderfynu ar benodiadau ar lefel Prif Swyddog a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol neu bydd y rhai sy'n gweithredu o dan eu hawdurdod yn penderfynu ar benodiadau ar lefel Rheolwr Corfforaethol ac is.

12.3 Gan ddod i rym yn Ebrill 2017, cyflwynodd Llywodraeth y DU "Ddeddfwriaeth Cyfryngwyr" a elwir IR35, a ddiwygiodd reolau treth gweithio oddi ar y gyflogres yn y sector cyhoeddus ac mae'r Cyngor wedi rhoi'r rheolau newydd ar waith i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon.

13 CYHOEDDI

13.1 Ar ôl ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn, cyhoeddir y datganiad hwn ar wefan y Cyngor.

13.2 Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofyniad arno o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 i gynnwys yn ei Ddatganiad Blynyddol Ariannol yr wybodaeth ofynnol mewn perthynas â'r gweithwyr hynny lle mae'r tâl cyfwerth ag amser llawn yn £60,000 y flwyddyn o leiaf.

GRADDFEYDD CYFLOG AR GYFER GWEITHWYR NJC

Codiad cyflog diwethaf: 1 Ebrill 2020 (dangosir isod)

Codiad cyflog disgwylidig nesaf: 1 Ebrill 2021 a 1 Ebrill 2022 (yn yr arfaeth)

* Codwyd y pwyntiau 1 a 2 ar y raddfa i gydymffurfio â'r Cyflog Byw Cenedlaethol statudol tra bod trafodaethau cyflog ar gyfer 2021/22 a 2022/23 yn parhau.

Gradd	Band Sgôr Gwerthuso Swyddi	Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
Gradd 2	200 – 294	1	£18,333*
		2	£18,333*
Gradd 3	295 – 329	3	£18,562
Gradd 4	330 – 364	4	£18,933
Gradd 5	365 – 399	5	£19,312
		6	£19,698
Gradd 6	400 – 434	7	£20,092
		8	£20,493
		9	£20,903
		10	£21,322
Gradd 7	435 – 469	12	£22,183
		13	£22,627
		14	£23,080
		15	£23,541
		16	£24,012
Gradd 8	470 – 504	18	£24,982
		19	£25,481
		20	£25,991
		21	£26,511
		22	£27,041
Gradd 9	505 – 539	24	£28,672
		25	£29,577
		26	£30,451
Gradd 10	540 – 579	28	£32,234
		29	£32,910
		30	£33,782

Tudalen 868

Gradd 11	580 – 619	32	£35,745
		33	£36,922
		34	£37,890
Gradd 12	620 – 659	35	£38,890
		36	£39,880
		37	£40,876
Gradd 13	660 – 699	39	£42,821
		40	£43,857
		41	£44,863
Gradd 14	700 – 739	43	£46,845
		44	£47,820
		45	£48,780
Gradd 15	740 – 779	47	£50,719
		48	£51,685
		49	£52,655
Gradd 16	780 – 1000	51	£54,782
		52	£55,878
		53	£56,995

GRADDFEYDD CYFLOG PRIF SWYDDOGION

Codiad cyflog diwethaf: 1 Ebrill 2020 (dangosir isod)

Codiad cyflog disgwylidig nesaf: 1 Ebrill 2021 a 1 Ebrill 2022 (yn yr arfaeth)

GRADDFA GYFLOG PRIF WEITHREDWR

Gradd	Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
Prif Weithredwr	1	£121,618
	2	£124,449
	3	£127,278
	4	£130,108

GRADDFA GYFLOG CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL

Gradd	Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
Cyfarwyddwr Corfforaethol	1	£97,294
	2	£99,559
	3	£101,822
	4	£104,086

GRADDFA GYFLOG SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL

Gradd	Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
A1	1	£72,158
	2	£73,837
	3	£75,515
	4	£77,192
A2	1	£78,869
	2	£80,546
	3	£82,223
	4	£83,931

GRADDFEYDD CYFLOGAU SOULBURY

Codiad cyflog diwethaf: 1 Medi 2020 (dangosir isod)

Codiad cyflog disgwylidig nesaf: 1 Medi 2021 a 1 Medi 2022 (yn yr arfaeth)

GWEITHWYR PROFFESIYNOL GWELLA ADDYSG (EIPS)

Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)	Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
1	£36,419	26	£67,257
2	£37,723	27	£68,419
3	£38,955	28	£69,597
4	£40,203	29	£70,777
5	£41,443	30	£71,956
6	£42,684	31	£73,124
7	£43,988	32	£74,311
8	£45,243*	33	£75,498
9	£46,705	34	£76,714
10	£48,009	35	£77,927
11	£49,295	36	£79,174
12	£50,541	37	£80,402
13	£51,951**	38	£81,642
14	£53,209	39	£82,866
15	£54,598	40	£84,089
16	£55,854	41	£85,318
17	£57,114	42	£86,546
18	£58,350	43	£87,773
19	£59,625	44	£89,006
20	£60,283***	45	£90,236
21	£61,549	46	£91,468
22	£62,653	47	£92,705
23	£63,867	48	£93,930
24	£64,957	49	£95,160
25	£66,121	50	£96,392

Nodiadau:

Nid yw graddfeydd cyflog i gynnwys mwy na phedwar pwynt olynol, a seiliwyd ar y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth swyddi a'r angen i recriwtio a symbylu staff.

- * y pwynt isaf ar y raddfa fel arfer ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg (EIP) sy'n cyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.
- ** y pwynt isaf ar y raddfa fel arfer ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg Uwch sy'n cyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.
- *** y pwynt isaf ar y raddfa fel arfer ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg Arweiniol sy'n cyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.
- **** estyniad i'r ystod er mwyn darparu ar gyfer asesiadau proffesiynol strwythuredig.

SEICOLEGWYR ADDYSG – GRADDFA A

Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
1	£38,197
2	£40,136
3	£42,075
4	£44,012
5	£45,951
6	£47,889
7	£49,714
8	£51,538
9	£53,247*
10	£54,959*
11	£56,554*

Nodiadau:

Mae'r graddfeydd cyflog i gynnwys chwe pwynt olynol, a seiliwyd ar y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth swyddi a'r angen i recriwtio, cadw a symbylu staff.

- * Estyniad i'r ystod er mwyn darparu ar gyfer pwyntiau asesiadau proffesiynol strwythuredig.

**PRIF SEICOLEGWYR ADDYSG
AC UWCH SEICOLEGWYR ADDYSG
GRADDFA GYFLOG B**

Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
1	£47,889
2	£49,714
3	£51,538*
4	£53,247
5	£54,959
6	£56,554
7	£57,209
8	£58,433
9	£59,646
10	£60,880
11	£62,090
12	£63,323
13	£64,577
14	£65,790**
15	£67,061**
16	£68,318**
17	£69,585**
18	£70,850**

Nodiadau:

Nid yw graddfeydd cyflog i gynnwys mwy na phedwar pwynt olynol, a seiliwyd ar y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth swyddi a'r angen i recriwtio, cadw a symbylu staff.

- * Y pwynt isaf ar y raddfa fel arfer ar gyfer Prif Seicolegydd Addysg sy'n cyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.
- ** Estyniad i'r ystod er mwyn darparu ar gyfer pwyntiau dewisol ar y raddfa ac asesiadau proffesiynol strwythuredig.

SEICOLEGWYR ADDYSG CYNORTHWYOL

Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol
1	£30,166
2	£31,399
3	£32,630
4	£33,856

SEICOLEGWYR ADDYSG DAN HYFFORDDIANT

Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
1	£24,541
2	£26,337
3	£28,131
4	£29,929
5	£31,724
6	£33,520

YR HOLL GRWPIAU GWEITHWYR – PRIF AMODAU GWASANAETH

GWYLIAU BLYNYDDOL (pro rata ar gyfer gweithwyr rhan-amser)	
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Prif Weithredwr ➤ Prif Swyddogion 	33 diwrnod y flwyddyn 36 diwrnod ar ôl gwasanaeth 10 mlynedd
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) 	26 diwrnod y flwyddyn 30 diwrnod ar ôl gwasanaeth 5 mlynedd 33 diwrnod ar ôl gwasanaeth 10 mlynedd
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Soulbury 	26 diwrnod y flwyddyn 30 diwrnod ar ôl gwasanaeth 5 mlynedd 33 diwrnod ar ôl gwasanaeth 10 mlynedd
ORIAU GWAITH	
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Prif Weithredwr ➤ Prif Swyddogion 	O leiaf 37 awr yr wythnos, ynghyd â gwaith ychwanegol gyda'r nos, ar y penwythnos a gŵyl y banc yn ôl yr angen
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Prif Weithredwr 	Wythnos waith safonol yw 37 awr
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Soulbury 	Wythnos waith safonol yw 37 awr
TALIADAU GWEITHIO GORAMSER	
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Prif Weithredwr ➤ Prif Swyddogion ➤ Soulbury 	Dim i'w dalu
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) 	Gradd 8 ac is: amser a hanner; Gradd 9 ac uwch: TOIL neu amser arferol os na ellir ei gymryd o fewn 13 wythnos.
TALIADAU GWEITHIO AR Y PENWYTHNOS	
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Prif Weithredwr ➤ Prif Swyddogion ➤ Soulbury 	Dim i'w dalu
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) 	Gradd 8 ac is: Sadwrn – amser a chwarter; Sul – amser a hanner Gradd 9 ac uwch: Sadwrn a Sul – amser arferol

CYNLLUN TÂL SALWCH		
	Yn ystod blwyddyn 1 ^{af} gwasanaeth	1 mis o gyflog llawn; ac ar ôl cwblhau 4 mis o wasanaeth 2 fis o hanner cyflog
➤ Prif Weithredwr		
➤ Prif Swyddogion	Yn ystod 2 ^{il} flwyddyn gwasanaeth	2 fis o gyflog llawn; 2 mis o hanner cyflog;
➤ Soulbury	Yn ystod 3 ^{ydd} flwyddyn gwasanaeth	4 mis o gyflog llawn; 4 mis o hanner cyflog
➤ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC)	Yn ystod y 4 ^{ydd} a'r 5 ^{ed} blwyddyn gwasanaeth	5 mis o gyflog llawn; 5 mis o hanner cyflog
	Ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth	6 mis o gyflog llawn; 6 mis o hanner cyflog

POLISI HONORARIWM

1. Datganiad Polisi

- 1.1 Mae'r Cyngor yn sylweddoli y gall fod angen rhoi tâl ychwanegol, o bryd i'w gilydd, os oes gofyn i weithiwr weithredu ar lefel swydd uwch neu ysgwyddo dros dro ddyletswyddau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gradd uwch.
- 1.2 Os yw'r newidiadau i'r swydd yn debygol o fod yn barhaol, dylid ailwerthuso'r swydd o dan gynllun Gwerthuso Swyddi'r Cyngor a phennu gradd ffurfiol ar ei chyfer.
- 1.3 Diben y polisi hwn yw sicrhau bod y taliadau ychwanegol yn cael eu hystyried yn briodol a'u gweithredu'n gyson. Mae'r polisi hwn yn nodi'r meini prawf a fydd yn berthnasol i bob swydd beth bynnag yw swm y taliad dan sylw.

2. Honorariwm

- 2.1 Gellir talu tâl honorariwm os gofynnir i weithiwr ysgwyddo rhai o ddyletswyddau a/neu gyfrifoldebau swydd ar radd uwch.
- 2.2 Os oes mwy nag un gweithiwr addas ar gael sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad priodol i ymgymryd â'r dyletswyddau a/neu'r cyfrifoldebau ychwanegol, bydd angen dilyn proses ddethol i bennu'r unigolyn gorau i ymgymryd â'r dyletswyddau a/neu'r cyfrifoldebau hynny.
- 2.3 Dim ond mewn sefyllfaoedd sy'n para mwy na mis y gellir talu unrhyw lwfans neu honorariwm, a chaiff ei ôl-ddyddio i'r diwrnod cyntaf.
- 2.4 Telir unrhyw dâl honorariwm am hyd at 12 mis. Os oes eithriad a bod y cyfnod hwnnw'n hirach, caiff y swydd ei hailwerthuso gan ddefnyddio Cynllun Gwerthuso Swyddi'r Cyngor.

3. Gweithdrefn

- 3.1 Cyn rhoi strwythur graddau newydd y Cyngor ar waith, caiff yr holl daliadau honorariwm presennol eu hadolygu fel y nodir isod.
- 3.2 Os oes honorariwm ar waith, a'i fod yn seiliedig ar ddyletswyddau a gafodd eu hymgorffori yn yr holiadur gwerthuso swyddi a'u gwerthuso, bydd y radd a aseswyd yn berthnasol o'r dyddiad gweithredu a bydd yr honorariwm yn dod i ben.
- 3.3 Gan mai taliad ychwanegol at y cyflog sylfaenol ydyw, bydd y Cyngor yn cadw'r sefyllfa Cyflog Cyfartal mewn cof ac, i'r perwyl hwnnw, bydd unrhyw daliad o'r fath yn daliad dros dro, bydd yn destun adolygiad a bydd rhaid ei gyfiawnhau'n wrthrychol.

- 3.4 Rhaid i'r rheolwr perthnasol wneud achos busnes i ategu cais am daliad honorariwm, gan ddefnyddio'r ffurflen "Cais am Daliad Honorariwm" (Atodiad 1). Rhaid cyflwyno'r cais i Gyfarwyddwr yr Adran i'w gymeradwyo.

Mae'r mathau o dystiolaeth yn cynnwys:

- Y rheswm dros y taliad, e.e. i ddirprwyo am rywun sy'n absennol am gyfnod hir, neu i gyflawni darn penodol o waith
 - Manylion y swydd yr effeithir arni a graddau'r swydd barhaol a'r swydd bosib ar lefel uwch
 - I ba raddau y mae'r dyletswyddau yn llawn neu'n rhannol – os ydynt yn rhannol, rhaid rhoi canran
 - Cost – cyfrifiad o'r swm y byddai gan y gweithiwr hawl i'w gael bob mis.
- 3.5 Mewn achosion o'r fath, dylid talu'r swm llawn neu ganran o'r gwahaniaeth rhwng y cyflog presennol ac isafswm cyflog y radd uwch.
- 3.6 Mewn sefyllfaoedd a fydd yn para'n hirach, e.e. dirprwyo dros gyfnod mamolaeth, dylid ystyried hysbysebu'r swydd gan ddilyn trefniadau recriwtio arferol y Cyngor.
- 3.7 Os bydd gweithiwr sy'n derbyn cyflog wedi'i ddiogelu yn ysgwyddo dyletswyddau ar lefel uwch na'i swydd wedi'i gwerthuso, ond is na'i gyflog wedi'i ddiogelu, ni fydd ganddo/i hawl i gael taliad ychwanegol.

4 Dull Talu

- 4.1 Gellir talu'r taliadau uchod ar ffurf swm misol rheolaidd os yw'r manylion yn wybyddus ymlaen llaw, neu gellir eu talu ar ffurf un ôl-daliad ar ddiwedd y cyfnod perthnasol.

5 Ymgynghori

- 5.1 Mae gan y Cyfarwyddwyr bwerau dirprwyedig i gymeradwyo rhoi tâl Honorariwm. I sicrhau cysondeb, rhaid i'r Cyfarwyddwyr ymgynghori â'r Pennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol pan fyddant yn ystyried taliadau o dan y cynllun hwn ac anfon copi o'r ffurflen "Cais am Daliad Honorariwm" ato. Bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol yn anfon y ffurflen i Isadran y Gyflogres at ddibenion talu.

TALIADAU ATODOL GRYM Y FARCHNAD**1. Datganiad Polisi**

- 1.1 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael cyflog cyfartal am waith cyfatebol.
- 1.2 Wrth wneud hynny, mae'r Cyngor yn sylweddoli y gall fod yn ofynnol talu tâl atodol grym y farchnad, o bryd i'w gilydd, yn ychwanegol at radd asesedig swydd. Fel arfer, bydd hyn yn deillio o brinder sgiliau yn y farchnad swyddi (yn lleol neu'n genedlaethol) neu oherwydd bod cyfradd y farchnad ar gyfer set sgiliau benodol yn uwch nag a bennwyd gan werthusiad swyddi lleol a'r strwythur cyflogau a graddau.
- 1.3 Er bod y broses gwerthuso swyddi yn cynnig canlyniadau sy'n bodloni ystyriaethau cyflog cyfartal, mae'n amlwg y gall anawsterau godi ar gyfer rhai swyddi o ran recriwtio a chadw staff. Er bod darpariaethau Cyflog Cyfartal yn cael eu bodloni, gall cyfraddau cyflog rhai swyddi gymharu'n anffafriol â swyddi tebyg mewn mannau eraill.
- 1.4 Mewn achosion o'r fath, gellir ychwanegu tâl atodol at radd y swydd. Caiff taliadau atodol eu mynegi'n glir mewn dogfennau cyflogaeth. Cynhelir adolygiad bob blwyddyn ar ddyddiad cyflwyno'r tâl atodol yn wreiddiol. Gellir diddymu taliadau atodol grym y farchnad os rhoddir rhybudd ysgrifenedig heb fod yn llai na thri mis.
- 1.5 Diben y polisi hwn yw sicrhau bod taliadau atodol grym y farchnad a ychwanegir at swyddi'n cael eu hystyried a'u gweithredu'n gyson.

2. Cyfiawnhad Gwrthrychol

- 21 Os bwriedir chwyddo cyflog swydd benodol i adlewyrchu amodau'r farchnad, rhaid dangos bod 'seiliau wedi'u cyfiawnhau'n wrthrychol' ar gael, h.y. bod anawsterau recriwtio a chadw'n bodoli mewn perthynas â'r swydd(i) o dan sylw a fyddai'n arwain at broblemau sefydliadol a/neu weithredol gwirioneddol neu ragweladwy.
- 22 Dylid cymryd ystyriaethau Cyflog Cyfartal i ystyriaeth a dylid asesu'r posibilrwydd o her cyflog cyfartal. Ni fydd modd i'r Cyngor ddibynnu ar y ffaith bod y farchnad yn awgrymu bod rhai swyddi, a wneir gan fenywod fel arfer, yn cael tâl is na swyddi a wneir gan ddynion fel arfer, oherwydd gall cyfradd y farchnad ei hun fod yn seiliedig ar ragdybiaethau sy'n gwahaniaethu rhwng y rhywiau. Prif egwyddor y penderfyniad yw'r hyn y mae angen i'r Cyngor ei dalu i benodi'r sawl sydd ei angen i lenwi'r swydd wag.
- 23 Dylid cymryd ystyriaethau eraill i ystyriaeth wrth wneud y penderfyniad hwn hefyd, fel materion gweithredol ac enw da'r Cyngor, a allai ddioddef os na fydd gwasanaethau allweddol wedi'u staffio'n llawn.

- 24 Yn ogystal, rhaid dangos bod dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd gymharol i raddau helaeth yr un fath â'r swydd dan sylw, ac nad oes gwahaniaethau sylweddol o ran y pecyn gwobrwyo cyffredinol h.y. hawl i wyliau, cynllun tâl salwch, trefniadau gweithio hyblyg. Nid yw'r rhain yn daliadau ariannol, ond gallent gyfrif am y gyfradd dâl is.
- 25 Caiff taliadau atodol grym y farchnad eu rhoi/adnewyddu/diddymu yn amodol ar gymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol, gan ymgynghori â'r Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol.
- 26 Caiff taliadau atodol grym y farchnad eu cymhwyso'n gyfartal i'r holl staff mewn swydd benodol (neu faes arbenigol). Caiff y costau eu talu gan y maes gwasanaeth perthnasol.

3. Tystiolaeth

- 3.1 Rhaid i'r achos busnes dros daliadau atodol o'r fath sicrhau cyfiawnhad gwrthrychol, ynghyd â thystiolaeth ategol. Nid yw tystiolaeth anecdotaidd yn ddigon.

Mae'r mathau o dystiolaeth yn cynnwys:

- data meincnodi cyflogau – beth yw'r 'gyfradd gyfredol' ar gyfer y swydd?
- tystiolaeth o unrhyw brosesau recriwtio (aflwyddiannus) diweddar, e.e. sut cafodd y swydd ei hysbysebu yn y gorffennol? A ddefnyddiwyd y cyfryngau cywir? Beth yw'r gyfradd ymateb i hysbysebion? Beth yw cyfradd newid/gadael y swydd?
- lefel a chost gyffredinol y taliadau atodol arfaethedig
- unrhyw fesurau amgen a gafodd eu hystyried neu y gellir eu hystyried, e.e. a ellir ailfodelu'r swydd i ddarparu'r gwasanaeth gofynnol?
- y risgiau gweithredol a/neu'r risgiau o ran enw da
- manylion unrhyw effaith andwyol dybiedig ar y gwasanaeth a ddarperir o fethu â recriwtio (neu gadw) gweithiwr/gweithwyr o safon briodol
- manylion unrhyw sgil-ffeithiau posib a sut y gellir eu datrys, e.e. cymharu cyflog gwahanol swyddi mewn adain neu grŵp gwaith.

4 Tâl

- 4.1 Ar ôl cael gafael ar y data gofynnol am gyflogau, gwneir asesiad i weld a oes angen cyflwyno tâl atodol grym y farchnad ac, os felly, gwir werth y tâl atodol.
- 4.2 Caiff pob cais ei drin fesul achos a bydd angen rhoi cyfiawnhad gwrthrychol gan ddefnyddio'r ffurflenni yn Atodiadau I a II, cyn cael cymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.
- 4.3 Cedwir tâl atodol y farchnad ar wahân i'r cyflog y cytunwyd arno ar gyfer y swydd. Rhaid egluro hyn wrth fynd ati i recriwtio i swyddi gwag ac wrth recriwtio ymgeiswyr llwyddiannus. Rhaid i'r gweithwyr ddeall y gall tâl atodol y farchnad amrywio o flwyddyn i flwyddyn neu ddod i ben yn llwyr.

- 4.4 Bydd gweithwyr mewn swyddi sy'n derbyn tâl atodol y farchnad, neu weithwyr a benodir i swyddi o'r fath, yn cael cadarnhad ysgrifenedig sy'n nodi swm y taliad, y trefniadau adolygu a sut y caiff unrhyw newidiadau eu rhoi ar waith. Mae llythyr safonol ar gyfer hyn i'w gael yn Atodiad III.
- 4.5 Caiff y tâl atodol ei dalu ar ffurf lwfans yn ychwanegol at y cyflog misol a (chan fod y tâl yn seiliedig ar bwyntiau cynyddrannol) bydd codiadau cyflog costau byw blynyddol yn berthnasol iddo. Oherwydd ei fod yn rhan o gyflog gweithiwr, bydd yn bensiynadwy.
- 4.6 Pan fo'n briodol, telir taliadau atodol ar sail pro rata yn ôl yr oriau a weithiwyd.

5. Cyfrifo Tâl Atodol y Farchnad

- 5.1 Caiff unrhyw dâl atodol ei gyfrifo fel cynyddran ychwanegol ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd a bydd yn cyfateb i'r gynyddran agosaf islaw'r cyflog cymharol. Dylid pennu'r tâl ar lefel y tybir y bydd yn lliniaru'r anawsterau recriwtio a chadw / anawsterau gweithredol, ond na fydd yn ormodol, ac ar lefel y gellir ei chyfiawnhau o ran y cyflog a delir ar gyfer swyddi cymharol ar y farchnad.
- 5.2 Rhaid i ddiben unrhyw dâl atodol, y cyfiawnhad drosto a'i swm fod yn dryloyw a rhaid cadw cofnodion i ddangos hyn, er mwyn i'r Cyngor allu ymateb yn effeithiol i unrhyw her o ran y rhesymeg dros roi tâl o'r fath.

6. Amserlen

- 6.1 Er mwyn cynnal tegwch a chyfartaledd y strwythur cyflogau ac i sicrhau bod y tâl yn parhau i fod yn gyfiawn ac yn briodol, caiff y taliadau atodol eu hadolygu bob blwyddyn.
- 6.2 Ar ôl cynnal adolygiad, dylai'r Pennaeth Gwasanaeth, ar y cyd â'r Tîm Gwerthuso Swyddi a'r Undeb Llafur priodol, benderfynu a ddylid diddymu tâl atodol y swydd(i) o dan sylw, cadw'r tâl atodol ar yr un lefel, neu addasu'r swm a delir.
- 6.3 Gellir diddymu taliadau atodol grym y farchnad ar ôl rhoi rhybudd ysgrifenedig heb fod yn llai na thri mis.

7. Apelio

- 7.1 Efallai y bydd gweithiwr yn credu na roddwyd ystyriaeth lawn o ran rhoi / adnewyddu / diddymu tâl atodol a gall fod am apelio yn erbyn penderfyniad o'r fath.
- 7.2 I apelio, rhaid i'r gweithiwr ysgrifennu at y Prif Weithredwr, gan amlinellu'r rhesymau dros yr apêl, cyn pen 14 diwrnod ar ôl derbyn hysbysiad ysgrifenedig am y penderfyniad ynghylch yr hawl i gael tâl atodol neu

newidiadau iddo.

- 7.3 Rhaid i'r Prif Weithredwr drefnu i gwrdd â'r gweithiwr i drafod yr apêl cyn pen 14 diwrnod ar ôl y llythyr apêl ysgrifenedig. Mae gan y gweithiwr hawl i fynd â rhywun gydag ef/hi i'r cyfarfod hwn. Ar ôl cynnal y cyfarfod, bydd y Prif Weithredwr yn ysgrifennu at y gweithiwr cyn pen 14 diwrnod i roi gwybod i'r gweithiwr am ganlyniad yr apêl.
 - 7.4 Os nad oes modd ymateb o fewn yr amserlen honno, dylid egluro'r rheswm dros yr oedi wrth y gweithiwr a dylid rhoi gwybod iddo/iddi pryd i ddisgwyl ymateb, ond ni ddylai fod yn hirach na 14 diwrnod arall.
 - 7.5 Bydd hyn yn gweithredu fel hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad yr apêl a hwn fydd penderfyniad terfynol Cyngor Sir Ceredigion. I bob pwrpas, dyma ddiwedd y weithdrefn ffurfiol yn y gweithle.
 - 7.6 Os bydd gweithiwr yn methu â dod i'r cyfarfod apêl heb roi gwybod ymlaen llaw, dylai gysylltu â'r Prif Weithredwr cyn gynted â phosib i egluro pam ei fod/bod yn absennol. Dylai'r Prif Weithredwr aildrefnu'r cyfarfod ar yr adeg nesaf sy'n gyfleus i bawb perthnasol. Mae'n bwysig rhoi rhybudd rhesymol am y cyfarfod. Os bydd y gweithiwr yn methu â dod i gyfarfod fwy nag unwaith ac os na fydd yn rhoi eglurhad rhesymol, tybir bod y cais wedi'i dynnu'n ôl. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd y Prif Weithredwr yn ysgrifennu at y gweithiwr i gadarnhau eu bod yn tybio bod y cais wedi'i dynnu'n ôl.
- 8. Hawl gweithwyr i fynd â rhywun arall gyda nhw i gyfarfodydd**
- 8.1 Mae gan weithwyr hawl i fynd â Chynrychiolydd eu Hundeb Llafur neu gydweithiwr gyda nhw i unrhyw gyfarfod a drefnir i drafod diddymu tâl atodol neu unrhyw apêl sy'n deillio o hynny.
 - 8.2 Os nad oes modd i'r sawl sy'n mynd gyda'r gweithiwr ddod i'r cyfarfod, dylai'r gweithiwr aildrefnu'r cyfarfod ar ddyddiad cyn pen 7 diwrnod ar ôl yr amser gwreiddiol a gynigiwyd, gan sicrhau bod yr amser newydd yn gyfleus i bawb perthnasol; neu, dylid ystyried gofyn i unigolyn arall fynd gyda'r gweithiwr i'r cyfarfod.



Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (lawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2006 (fel y'u diwygiwyd)

O dan Reoliad 7 y Rheoliadau lawndal yn ôl Disgresiwn, rhaid i bob awdurdod (heblaw am Gorff Derbyniedig) lunio a chadw o dan adolygiad bolisi sy'n berthnasol i weithredu'r disgresiwn sydd ganddynt parthed yr isod:

Disgresiwn	Rheoliad	Polisi
Seilio taliadau dileu swydd/diswyddo ar y cyflog wythnosol gwirioneddol pan fo hyn yn fwy na therfyn cyflog yr wythnosau statudol.	5	Talu taliadau dileu swydd/diswyddo/iawndal ar sail y cyflog gwirioneddol
Rhoi iawndal ar ffurf cyfandaliad hyd at gyflog 104 o wythnosau mewn achosion o ddileu swydd/diswyddo, terfynu cyflogaeth ar sail effeithlonrwydd neu ddiweddu penodiad ar y cyd.	6	<p>Dileu swydd (<i>redundancy</i>) Rhyddhau'r buddion pensiwn pan fo'r gweithiwr wedi cyrraedd 55 oed ar ddyddiad terfynu cyflogaeth gan gynyddu wythnosau statudol y dileu swydd gan 1.5 (h.y. uchafswm o 45 wythnos). Mae iawndal o'r fath i gynnwys gwerthoedd taliad dileu swydd statudol. Byddai'r unigolion yn medru dewis trosi'r gwahaniaeth sydd rhwng y taliad dileu swydd statudol a'r union iawndal a roddir i brynu pensiwn ychwanegol drwy gyfrwng ffactorau y darperir gan Adran Actwari'r Llywodraeth.</p> <p>Terfynu er Effeithlonrwydd Ni chaiff y buddion pensiwn eu rhyddhau oni fydd y person yn 55 oed erbyn y dyddiad terfynu.</p> <p>Diswyddo (<i>severance</i>) Pan geir cytundeb ar y naill ochr a'r llall i ryddhau unigolyn o dan Gynllun Diswyddo'r Cyngor, bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r disgresiwn</p>

		<p>sydd ganddo o dan Reoliad 5 i roi taliadau iawndal ar sail y cyflog gwirioneddol. Bydd y taliadau diswyddo yn ôl disgrisiwn yn seiliedig ar ganllaw cyflym colli gwaith statudol a bydd nifer yr wythnosau y bydd hawl iddynt wedi eu seilio ar oedran a Gwasanaeth. Bydd lluosydd o 1.5 ar waith a bydd uchafswm o 45 o wythnosau. Mae'r taliad diswyddo gwirfoddol yn cynnwys y taliad colli gwaith statudol. Os yw unigolyn wedi cyrraedd ei 55 oed, rhyddheir buddion pensiwn iddynt heb eu lleihau a fydd wedi cronni hyd at ddyddiad y terfyniad. Mae'n rhaid wrth wasanaeth cymwys parhaus o ddwy flynedd er mwyn cael mynediad at y trefniadau iawndal hyn.</p>
<p>Rhoi blynyddoedd iawndal ychwanegol i unigolyn 50 oed neu hŷn sydd ag aelodaeth (neu aelodaeth dybiannol) ers 5 mlynedd neu fwy o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn achosion o ddileu swyddi, terfynu cyflogaeth er effeithlonrwydd, neu ddiweddu penodiad ar y cyd a ddigwyddodd ar ôl 30 Medi 2006 a chyn 1 Ebrill 2007 (ond dim ond os dechreuodd y cyfnod gwaith cyn 1 Hydref 2006).</p>	<p>11(2)</p>	<p>Peidio â gweithredu'r disgrisiwn hwn</p>

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Cyngor
Dyddiad y cyfarfod:	03 Mawrth 2022
Teitl:	Adroddiad ynghylch Polisi Cyflogau arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2022/23
Pwrpas yr adroddiad:	Yn unol ag Adran 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011, rhaid i'r Cyngor lunio a chyhoeddi Datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae'r Polisi Cyflogau arfaethedig ar gyfer 2022/23 yn amgaeedig er mwyn i'r Cyngor ei ystyried.
Er:	Cymeradwyaeth
Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:	Y Cynghorydd Ray Quant, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Cyswllt Cwsmeriaid, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth.

Cyflwyniad

Diben yr adroddiad hwn yw gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Polisi Cyflogau ar gyfer 2022/23 yn unol â gofynion Deddf Lleoliaeth 2011. Mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo datganiad Polisi Cyflogau ar gyfer pob blwyddyn ariannol a'i gyhoeddi ar y wefan berthnasol erbyn 31 Mawrth.

Mae polisiâu cyflogau wedi'u paratoi o dan y Ddeddf hon a'u hystyried a'u cymeradwyo gan y Cyngor bob blwyddyn ers mis Mawrth 2012. Nodwyd y manylion sydd yn rhaid eu cynnwys mewn datganiad polisi cyflogau, a'u diben yn gyffredinol, ar adeg cymeradwyo'r datganiad cyntaf a thynnwyd sylw at y newidiadau a wnaed ar ôl hynny fel y bo'n briodol.

Ym mis Tachwedd 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau Statudol ar '*Atebolrwydd cyflog o fewn llywodraeth leol*' sy'n cyflwyno'r cynnwys ychwanegol sydd i'w gynnwys yn y Datganiad Polisi Cyflogau blynyddol, megis:

- rôl y Prif Weithredwr;
- disgrifiad cryno o ddeiliad y swydd;
- polisi a gweithdrefnau gwneud penderfyniadau yn ymwneud â chyflog prif swyddog;
- proses gymeradwyo pecynnau ymadael dros £100k;
- rheoli talent;
- trefniadau oddi ar y gyflogres.

Mae'r rhain wedi'u hymgorffori yn y Datganiad Polisi Cyflogau diwygiedig eleni, ac maent wedi'u seilio ar y datganiad sampl yn y canllawiau statudol.

Tudalen 886

Er eglurder, mae datganiad blynyddol polisi cyflogau 2022/23 ond yn ymwneud â thâl a chyflog y staff a gyflogir o dan y telerau a'r amodau canlynol:

- Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol
- Y Cyngor Cenedlaethol ar y Cyd (JNC) ar gyfer Prif Weithredwyr
- Y Cyngor Cenedlaethol ar y Cyd (JNC) ar gyfer Prif Swyddogion
- Pwyllgor Soulbury

Newidiadau

1. Ni ddaeth y trafodaethau ar gytundebau cyflog cenedlaethol ar gyfer 2021/22 i staff NJC i ben tan 28/02/2022 ond maent yn cael eu hôl-ddyddio i 1 Ebrill 2021. Noder nad yw'r trafodaethau hyn wedi dechrau eto ar gyfer 2022/23.
2. Cynyddodd Pwynt 1 ar golofn gyflog NJC fesul 2.75% a phob pwynt golofn gyflog arall fesul 1.75%.
3. Cytunwyd codiad cyflog cenedlaethol ar gyfer Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion ar 1.5% a'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2021.
4. Cytunwyd codiad cyflog cenedlaethol ar gyfer Pwyllgor Soulbury ar 1.75% a'i ôl-ddyddio i 1 Medi 2021.
5. Noder i atgyfeiriad gael ei wneud i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ymwneud â newidiadau i raddfa gyflog y Prif Weithredwr, a bod cymeradwyaeth wedi'i derbyn.
6. Rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo unrhyw becyn taliad diswyddo Prif Swyddog.
7. Ni chaniateir i weithwyr sy'n gadael y Cyngor o dan gynllun effeithlonrwydd (diswyddiad gwirfoddol, ymddeoliad cynnar neu ddileu swydd) ddychwelyd i gyflogaeth gyda'r Cyngor am gyfnod o 2 flynedd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol a dim ond pan gymeradwyir hynny gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Pobl a Threfniadaeth.
8. Ni chaniateir i Brif Swyddogion sy'n gadael y Cyngor o dan gynllun effeithlonrwydd (diswyddiad gwirfoddol, ymddeoliad cynnar neu ddileu swydd) ddychwelyd i gyflogaeth gyda'r Cyngor neu fel gweithiwr asiantaeth neu fel ymgynghorydd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol a dim ond pan gymeradwyir hynny gan y Prif Weithredwr a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, Pobl a Threfniadaeth a Gwasanaethau Democraidd.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:	A gwblhawyd Aseiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam Crynodeb: Hirdymor: Integreiddio: Cydweithio: Cynnwys: Atal:
Argymhelliad / Argymhellion:	Cymeradwyo'r Polisi Cyflogau ar gyfer 2022/23 sydd ynghlwm.
Rheswm dros y penderfyniad:	Er mwyn sicrhau y cydymffurfir ag Adran 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011.
Trosolwg a Chraffu:	Heb ei ystyried.
Fframwaith Polisi:	Rheoliadau Llywodraeth Cymru
Blaenoriaethau Corfforaethol:	Mae Polisi Cyflogau 2022/23 yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni pob un o'i Flaenoriaethau Corfforaethol.
Goblygiadau Ariannol:	Rhan o broses pennu'r gyllideb ar gyfer 2022/23.
Pwerau Statudol:	Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972 Deddf Lleoliaeth 2011 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
Papurau Cefndir:	Dim
Atodiadau:	Polisi Cyflogau Cyngor Sir Ceredigion 2022/23
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth
Swyddog Adrodd:	Geraint Edwards
Dyddiad:	28 Chwefror 2022



Cyngor Sir CEREDIGION County Council
Pobl a Threfniadaeth | People and Organisation

DRAFFT

Datganiad Polisi Cyflogau

2022/2023



Cyngor Sir Ceredigion
Datganiad Polisi Cyflogau 2022/2023

	Cynnwys	Tudalen
1	Cyflwyniad a phwrpas	3
2	Y Fframwaith Deddfwriaethol	3
3	Telerau ac Amodau Cyflogaeth	4
4	Gwneud Penderfyniadau	7
5	Trefniadau Cyd-fargeinio gyda'r Undebau Llafur	7
6	Cydnabyddiaeth Ariannol Cyflogau Uwch	7
7	Rheoli Talent	10
8	Tâl yn ôl Perfformiad	10
9	Cymorth ar gyfer Staff sy'n Derbyn Tâl Is	11
10	Cymharu Cyflogau o fewn y Cyngor	11
11	Polisi Ymadael	11
12	Trefniadau Oddi ar y Gyflogres	12
13	Cyhoeddi	13
	Atodiadau	
A	Graddfeydd Cyflog Gweithwyr NJC	14
B	Graddfeydd Cyflog Prif Swyddogion	16
C	Graddfeydd Cyflogau Soulbury	17
D	Yr Holl Grwpiau Gweithwyr – Prif Amodau Gwasanaeth	21
E	Cynllun Honorariwm	23
F	Cynllun Taliadau Atodol Grym y Farchnad	25
G	Polisi Disgresiwn LGPS y Cyflogwr – Rheoliad 5 a 6	29

1 CYFLWYNIAD A PHWRPAS

- 1.1 Pwrpas y datganiad yw bod yn dryloyw ynghylch ymagwedd y Cyngor at bennu cyflog ei weithwyr (ac eithrio athrawon), trwy nodi sut y penderfynir ar gyflogau'r holl weithwyr. Mae'n rhoi ystyriaeth i Ganllawiau Statudol "Atebolrwydd Cyflog mewn Llywodraeth Leol" a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2021.
- 1.2 Mae'r Datganiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

2 Y FFRAMWAITH DEDDFWRIAETHOL

- 2.1 Mae'r datganiad Polisi Cyflogau hwn yn cyflwyno ymagwedd y Cyngor at Bolisi Cyflogau, yn unol â gofynion Adran 38 (1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol Cymru a Lloegr Iunio a chyhoeddi Datganiad Polisi Cyflogau sy'n cynnwys y manylion canlynol:
- a) Polisiâu'r Cyngor ar gyfer holl agweddau ac elfennau cydnabyddiaeth ariannol y Prif Swyddogion;
 - b) Y dull sydd ganddo o gyhoeddi a sicrhau mynediad at wybodaeth sy'n ymwneud â phob agwedd ar gydnabyddiaeth ariannol i'r Prif Swyddogion;
 - c) Polisiâu'r Cyngor ar gyfer talu'r gweithwyr sydd ar y cyflogau isaf;
 - d) Y berthynas sydd rhwng y gydnabyddiaeth ariannol i Brif Swyddogion ac i weithwyr eraill.
- 2.2 Nid yw darpariaethau'r Ddeddf yn berthnasol i staff addysgu mewn ysgolion awdurdodau lleol ac felly nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yng nghwmpas y ddogfen hon.
- 2.3 O dan Adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae gan y Cyngor "rym i benodi swyddogion ar sail telerau ac amodau rhesymol y mae'r Awdurdod yn barnu eu bod yn addas". Wrth bennu cyflogau a thâl ei holl weithwyr, bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyflogaeth berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:-
- a) Deddf Cydraddoldeb 2010;
 - b) Rheoliadau Gwaith Rhan Amser (Atal Triniaeth Llai Ffatriol) 2000;
 - c) Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010; a, lle bo'n berthnasol
 - d) Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth).
- 2.4 O ran y gofynion Cyflog Cyfartal a geir yn y Ddeddf Cydraddoldeb, nod y Cyngor yw sicrhau nad oes gwahaniaethu o ran tâl o fewn ei strwythurau tâl, a bod modd cyfiawnhau'r gwahaniaethau tâl yn wrthrychol trwy systemau Gwerthuso Swyddi a wiriwyd o ran cydraddoldeb, fel bod cyflogau yn uniongyrchol gysylltiedig â gofynion, galwadau a chyfrifoldebau'r rôl. Mae'r Cyngor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar Gyflogau'r Rhywiau sy'n manylu ar unrhyw fwlch cyflog rhwng y rhywiau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r bwllch rhwng y rhywiau.

3 TELERAU AC AMODAU CYFLOGAETH

3.1 Mae'r Cyngor yn cyflogi tua 3,600 o weithwyr. Mae'r swyddi y cyflogir hwy ynddynt yn dod o dan gwmpas ystod o delerau ac amodau sy'n deillio o:

- Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol
- Y Cyngor Cenedlaethol ar y Cyd (JNC) ar gyfer Prif Weithredwyr
- Y Cyngor Cenedlaethol ar y Cyd (JNC) ar gyfer Prif Swyddogion
- Pwyllgor Soulbury
- Athrawon (nad ydynt o dan gwmpas yr adroddiad hwn)

3.2 Mae'r graddfeydd cyflogau canlynol yn Atodiadau i'r polisi hwn:

- Atodiad A Graddfeydd Cyflog Gweithwyr (NJC)
- Atodiad B Graddfeydd Cyflog Prif Swyddogion (JNC)
- Atodiad C Graddfeydd Cyflogau Soulbury

3.3 Mae manylion ynghylch niferoedd staff fesul band cyflog ac yn ôl rhyw wedi eu cyhoeddi ar wahân yn Adroddiad Cydraddoldeb y Gweithlu blynyddol.

3.4 Codiadau Cyflog Cenedlaethol

3.4.1 Ar gyfer pob grŵp o weithwyr, gweithredir unrhyw godiadau cyflog y cytunir arnynt yn genedlaethol, yn sgil trafodaethau rhwng cyflogwyr llywodraeth leol ac undebau llafur cydnabyddedig. Bydd y Cyngor yn talu'r codiadau cyflog hyn y cytunir arnynt yn genedlaethol pan benderfynir arnynt, oni bai bod y Cyngor llawn yn penderfynu fel arall.

3.5 Gwerthuso Swyddi

3.5.1 Mae gwerthuso swyddi yn ffordd systematig o benderfynu ar werth swydd o'i chymharu â swyddi eraill mewn sefydliad. Y nod yw gwneud cymhariaeth systematig rhwng swyddi i asesu eu gwerth cymharol, at ddibenion sefydlu strwythur cyflogau rhesymol a chyflog cyfartal rhwng swyddi. Yn 2012 aeth y Cyngor ati i gynnal ymarfer Gwerthuso Swyddi mewn perthynas â swyddi sydd wedi'u llywodraethu gan delerau ac amodau cyflogaeth NJC.

3.5.2 O ran gwerthuso swyddi'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC), mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn defnyddio Cynllun Gwerthuso Swyddi Cyngor Taleithiol Llundain Fwyaf (y GLPC). O ran swyddi Prif Swyddog, mae'r Cyngor yn defnyddio Cynllun Gwerthuso Swyddi Uwch Reolwr Cymdeithas Llywodraeth Leol.

3.5.3 Mae'r Cyngor yn defnyddio'r golofn gyflogau a drafodir yn genedlaethol gan yr NJC yn sail ar gyfer ei strwythur cyflogau, heblaw am y ffaith ei fod wedi ymestyn y raddfa uchaf o bwynt 44 hyd bwynt 53 ar y golofn gyflogau. Dyma sy'n penderfynu cyflogau'r mwyafrif helaeth o'r gweithwyr heblaw am athrawon. O 1 Ebrill 2019 cyflwynodd Cyflogwyr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol golofn gyflogau newydd, cytunwyd ar y newidiadau hyn gyda'r Undebau Llafur i'w gweithredu ym mis Ebrill 2019. Mae'r golofn gyflog i'w gweld yn Atodiad A.

3.5.4 Nid yw'r trafodaethau ar gyfer codiad cyflog Ebrill 2022 wedi dechrau eto.

- 3.5.5 Mae'r Cyngor am gadw'r strwythur tâl a graddio sy'n bodloni'r prawf cydraddoldeb trwy gynnal asesiad gwerthuso swydd ar unrhyw swydd newydd neu swyddi sydd wedi newid yn sylweddol. Bydd Panel Gwerthuso Swyddi ar y Cyd, sy'n cynnwys rheolwyr hyfforddedig a chynrychiolwyr undebau llafur yn cwrdd yn ôl yr angen i ystyried a phenderfynu ar apeliadau ynghylch gradd.

3.6 Cyflogau cychwynnol

- 3.6.1 Polisi'r Cyngor yw bod pob penodiad i swyddi gyda'r Cyngor yn cael ei wneud ar waelod y radd gyflog berthnasol, er bod modd amrywio hyn pan fo angen cael yr ymgeisydd(wyr) gorau sydd ar gael.
- 3.6.2 Gall y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol awdurdodi amrywiad i gyflog cychwynnol ar gyfer pob swydd ac eithrio'r rhai a gyflogir ar delerau ac amodau Prif Swyddog. Y Cyngor Llawn fydd yn pennu cyflog cychwynnol y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Swyddogion Arweiniol Corfforaethol.

3.7 Ystyriaethau eraill cysylltiedig â thâl

- 3.7.1 Mae'r holl ystyriaethau eraill cysylltiedig â thâl yn destun cytundebau a drafodir yn genedlaethol a/neu'n lleol, ac fe'u cyfeirir at y Cabinet a/neu'r Cyngor Llawn fel y bo'n briodol (gweler y broses Gwneud Penderfyniadau i gael rhagor o wybodaeth).
- 3.7.2 Mae'r telerau ac amodau cyflogaeth sy'n ymwneud â gwyliau blynyddol, oriau gwaith, taliadau goramser, trefniadau gweithio ar y penwythnos a thâl salwch ar gyfer pob grŵp o weithwyr (ac eithrio staff addysgu) wedi'u nodi yn Atodiad D.

3.8 Taliadau Honoraria

- 3.8.1 Gall fod adegau pryd y gofynnir i weithiwr gyflawni dyletswyddau ychwanegol i'r rheiny yn ei swydd bresennol, am gyfnod o amser. O dan amgylchiadau felly gellir gwneud taliad ychwanegol yn unol â Pholisi Honorariwm y Cyngor. Mae'r polisi i'w weld yn Atodiad E.

3.9 Taliadau atodol grym y farchnad

- 3.9.1 Mae defnyddio gwerthuso swyddi wedi galluogi'r Cyngor i bennu lefelau cydnabyddiaeth ariannol priodol ar sail y berthynas rhwng maint swyddi mewnol a geir yn y Cyngor. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau eithriadol, gall fod angen rhoi sylw i'r farchnad gyflogau allanol er mwyn denu a chadw gweithwyr sydd â'r profiad, y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol.
- 3.9.2 Mae gan y Cyngor Gynllun Taliadau Atodol Grym y Farchnad er mwyn sicrhau bod y rheidrwydd i gynnig unrhyw daliadau atodol grym y farchnad yn cael ei gyfiawnhau'n wrthrychol trwy gyfeirio at dystiolaeth glir, dryloyw o elfennau cymaradwy yn y farchnad, gan ddefnyddio ffynonellau data priodol. Gellir gweld Cynllun Taliadau Atodol Grym y Farchnad yn Atodiad F. Polisi'r Cyngor yw bod unrhyw daliadau ychwanegol o'r fath yn cael eu cyfyngu gymaint â phosibl, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn medru eu tynnu'n ôl lle bernir nad oes eu hangen bellach.
- 3.9.3 Mae'r egwyddorion sy'n sail i'r Cynllun Taliadau Atodol Grym y Farchnad hwn yr un mor berthnasol i bob grŵp o weithwyr yn y Cyngor. Pan gynigir rhoi

ychwanegiad grym y farchnad at swydd Prif Swyddog yn y Cyngor, rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn. Os yw ychwanegiad grym y farchnad yn arwain at becyn cyflog gwerth mwy na £100,000, rhaid cael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

3.10 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)

3.10.1 Er mwyn helpu pobl i gynilo mwy o arian ar gyfer eu hymddeoliad, mae'r Llywodraeth bellach yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr gofrestru eu gweithwyr yn awtomatig ar gynllun pensiwn gweithle. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Os oes gan weithiwr gontract cyflogaeth am o leiaf 3 mis (ac os yw'n iau na 75 oed), bydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig ar y Cynllun, o ddyddiad dechrau ei gyflogaeth. Mae darpariaethau ar gyfer peidio ag ymuno ar gael.

3.10.2 Mae'r tabl isod yn dangos cyfraddau cyfraniadau gweithwyr, a ddiffinnir gan statud, ac maent yn seiliedig ar ganran y cyflog pensiynadwy yn dibynnu ar lefelau cyflog cyfwerth ag amser llawn. Pennir cyfradd cyfraniad cyflogwyr gan actiwarïaid sy'n cynghori Cronfa Bensiwn Dyfed ac fe'i hadolygir bob tair blynedd er mwyn sicrhau yr ariennir y cynllun yn briodol.

Band	Ystod cyflog cyfwerth amser cyflawn	Cyfradd cyfraniad y gweithiwr	Adran 50/50	Cyfradd cyfraniad y cyflogwr
1	Hyd at £14,600	5.5%	2.75%	15.8%
2	£14,601 - £22,900	5.8%	2.90%	15.8%
3	£22,901 - £37,200	6.5%	3.25%	15.8%
4	£37,201 - £47,100	6.8%	3.40%	15.8%
5	£47,101 - £65,900	8.5%	4.25%	15.8%
6	£65,901 - £93,400	9.9%	4.95%	15.8%
7	£93,401 - £110,000	10.5%	5.25%	15.8%
8	£110,001 - £165,000	11.4%	5.70%	15.8%
9	£165,001 neu fwy	12.5%	6.25%	15.8%

Cyfraddau yn dod i rym 1 Ebrill 2021

3.10.4 Bydd gwerthusiad teirblwyddol yn digwydd yn ystod 2022/23 gan ddod i rym 1 Ebrill 2023.

3.10.5 Mae cyfle i weithwyr sy'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (gweler uchod) ymuno â Chynllun Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol a Rennir Costau Aberthu Cyflog (AVC), gan gynorthwyo gweithwyr sy'n dymuno cynyddu buddion pensiwn ar eu hymddeoliad trwy dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol i Gynllun AVC Llywodraeth Leol.

3.11 Buddion eraill i weithwyr

3.11.1 Cred y Cyngor fod cyfrifoldeb arno i helpu iechyd, lles a llesiant y staff er mwyn sicrhau bod eu perfformiad gyda'r gorau. Yn hynny o beth, ac fel y mae llawer o gyflogwyr mawr eraill yn ei wneud, mae'r Cyngor yn cynnig nifer o fuddion ar ben y cyflogau, megis talebau profion llygaid ar gyfer pobl sy'n gweithio ar gyfarpar sgriniau arddangos yn y gwaith, a threfniadau aberthu cyflog ar gyfer talebau gofal plant (yn sgil cau'r cynlluniau hyn gan y Llywodraeth, dim ond i'r rhai a ymunodd â'r cynllun cyn mis Hydref 2018 y mae'r budd hwn ar gael bellach), prydlesu ceir a chymryd rhan yn y cynllun Beicio i'r Gwaith.

4 GWNEUD PENDERFYNIADAU

- 4.1 Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, y Cabinet sy'n gyfrifol am bennu penderfyniadau polisi a gweithdrefnau yn ymwneud â recriwtio, telerau ac amodau, a threfniadau diswyddo gweithwyr y Cyngor.
- 4.2 O dan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014, mae'n rhaid i unrhyw benderfyniad i bennu neu amrywio cydnabyddiaeth ariannol Prif Swyddogion, neu'r rhai sydd i'w penodi yn Brif Swyddogion, gael ei wneud gan y Cyngor Llawn.

5 TREFNIADAU CYD-FARGEINIO GYDA'R UNDEBAU LLAFUR

- 5.1 Mae'r Cyngor yn cydnabod yr undebau llafur canlynol:

5.1.1 *NJC ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol*

- UNSAIN
- GMB
- UNITE

5.1.2 *JNC ar gyfer Prif Swyddogion*

- UNSAIN
- GMB

5.1.3 *Athrawon*

- NAHT
- NASUWT
- NEU
- UCAC
- ASCL

- 5.2 Cydnabyddir undebau llafur at ddibenion ymgynghori a thrafod ar y cyd mewn perthynas â materion perthnasol, rhai nad ydynt yn cael eu pennu gan gyrff trafod cenedlaethol, a rhai y mae'r ddwy ochr yn cytuno ei bod yn briodol ac yn fuddiol penderfynu arnynt trwy gytundeb. Cynhelir trafodaethau gyda'r nod o ddod i gytundeb ac osgoi anghydfodau. Hefyd mae cydnabod undebau llafur yn ymwneud â chynrychiolaeth i aelodau unigol.

6 CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYFLOGAU UWCH

- 6.1 Prif Weithredwr

6.1.1 Y Prif Weithredwr yw'r uwch swyddog sy'n arwain y Cyngor ac yn cymryd cyfrifoldeb drosto. Y Prif Weithredwr yw'r Prif Swyddog Gweithredol a benodwyd yn statudol yn unol ag Adran 56 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r Cyngor yn sefydliad mawr a chymhleth sydd â chyllideb gwerth sawl miliwn o bunnau. Mae ganddo ystod eang iawn o swyddogaethau ac mae'n gyfrifol am ddarparu ystod eang o wasanaethau hanfodol, gan gyflogi tua 3,600 o staff.

6.1.2 Mae rôl y Prif Weithredwr yn swydd amser llawn a pharhaol. Dewisir deiliad y swydd ar sail teilyngdod, yn erbyn meini prawf gwrthrychol, yn dilyn hysbyseb cyhoeddus. Penodir y Prif Weithredwr gan y Cyngor Llawn.

- 6.1.3 Cydweithia'r Prif Weithredwr yn agos ag Aelodau Etholedig i gyflawni nodau strategol y Cyngor, gan gynnwys y blaenoriaethau a ganlyn:
- Rhoi hwb i'r economi;
 - Buddsoddi yn nyfodol y bobl;
 - Galluogi cydnerthedd unigolion a theuluoedd;
 - Hyrwyddo cydnerthedd amgylcheddol a chymunedol.
- 6.1.4 Mae'r Prif Weithredwr yn gweithio'n rheolaidd gyda'r hwyr ac ar benwythnosau yn ogystal â'r wythnos fusnes safonol o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn arwain y trefniadau 'ar alwad' yn enwedig ar gyfer trefniadau cynllunio at argyfwng.
- 6.1.5 Mae'r Prif Weithredwr presennol, Mr Eifion Evans, wedi bod yn ei swydd ers mis Hydref 2017 ac wedi gweithio i'r Cyngor ers dros 30 mlynedd. Dechreuodd Mr Evans ar ei yrfa yn y Sir fel athro yn 1991, cyn dod yn Bennaeth yn 1997. Yn 2007 penodwyd Mr Evans yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Addysg, daeth yn Gyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol yn 2009 ac yn Gyfarwyddwr Strategol – Dysgu a Phartneriaethau yn 2013. Cyn ei rôl bresennol roedd Mr Evans yn Ddirprwy Brif Weithredwr.
- 6.1.6 Gan ddod i rym o 1 Ebrill 2022 (codiad cyflog yn yr arfaeth), daw cyflog y Prif Weithredwr o fewn y band cyflog £123,442 i £132,060 y flwyddyn (gweler Atodiad B i gael rhagor o fanylion).
- 6.1.7 Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i benodi Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau a refferenda penodol. Penodwyd y Prif Weithredwr i'r rôl honno yng Ngheredigion. Mae'r Swyddog Canlyniadau yn bersonol gyfrifol am ystod eang o swyddogaethau yn ymwneud â chynnal etholiadau a refferenda ac fe'i telir am gyflawni'r swyddogaethau hyn yn unol â ffioedd a bennwyd.
- 6.1.8 Cyhoeddir manylion am dâl y Prif Weithredwr, gan gynnwys unrhyw daliadau ychwanegol, yn y Datganiad Cyfrifon. Cyhoeddir y ddogfen hon ar wahân.
- 6.1.9 Mae treuliau mewn perthynas â milltired car, trafndiaeth gyhoeddus, llety dros nos a pharcio ac ati yn cael eu hawlio'n ôl yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliadau y Cyngor.
- 6.1.10 Mae'r Prif Weithredwr yn aelod o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a datgelir y manylion yn y Datganiad Cyfrifon. Ni fu unrhyw godiadau neu ychwanegiadau i'r pensiwn y tu allan i drefniadau safonol.

6.2 Uwch Staff

- 6.2.1 At ddibenion y datganiad hwn, mae uwch staff yn golygu 'Prif Swyddogion' fel y'u diffinnir yn Adran 43 y Ddeddf Lleoliaeth. Mae'r swyddi sy'n berthnasol i'r diffiniad statudol wedi'u nodi yng Nghyfansoddiad y Cyngor fel a ganlyn:
- **Prif Swyddogion:**
 - Prif Weithredwr
 - Gyfarwyddwr Corfforaethol (dwy rôl)
 - **Dirprwy Brif Swyddogion** (deuddeg rôl):
 - Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael (Swyddog Adran 151) (A2)

- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cynnal (Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol) (A2)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Ysgolion a Diwylliant (Prif Swyddog Addysg) (A2)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyswllt Cwsmeriaid (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democraataidd (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Yr Economi ac Adfywio (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Priffyrdd ac Amgylcheddol (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu (Swyddog Monitro) (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Cymorth Cynnar (A1)
- Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal (A1)

6.3 Tâl

- 6.3.1 O 1^{af} Ebrill 2022 (codiad cyflog yn yr arfaeth) mae swyddi Cyfarwyddwr Corfforaethol yn denu cyflog o fewn y band cyflog £98,753 hyd at £105,647 y flwyddyn (gweler Atodiad B i gael rhagor o fanylion).
- 6.3.2 O 1^{af} Ebrill 2022 (codiad cyflog yn yr arfaeth) mae swyddi Swyddog Arweiniol Corfforaethol A2 yn denu cyflog o fewn y band cyflog o £80,052 hyd at £85,190 y flwyddyn (gweler Atodiad B i gael rhagor o fanylion).
- 6.3.3 O 1^{af} Ebrill 2022 (codiad cyflog yn yr arfaeth) mae swyddi Swyddog Arweiniol Corfforaethol A1 yn denu cyflog o fewn y band cyflog o £73,240 hyd at £78,350 y flwyddyn (gweler Atodiad B i gael rhagor o fanylion).
- 6.3.4 Cyhoeddir manylion cyflogau uwch staff yn y Datganiad Cyfrifon.

6.4 Recriwtio Prif Swyddogion

- 6.4.1 Mae Polisi a Gweithdrefnau'r Cyngor yng nghyswllt recriwtio Prif Swyddogion i'w gweld yn Rheolau Gweithdrefn Cyflogi Swyddogion, fel y nodir yn Rhan 4 y Cyfansoddiad. Pennir y tâl cydnabyddiaeth sydd i'w gynnig i unrhyw Brif Swyddog newydd ei benodi yn unol â'r strwythur tâl a gymeradwywyd a'r polisiau perthnasol sydd gan y Cyngor ar waith adeg recriwtio. Rhaid i unrhyw gyflog sy'n fwy na'r trothwy o £100,000 gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan y Cyngor Llawn.

6.5 Ychwanegiadau at gyflog Prif Swyddogion

- 6.5.1 Mae'r Cyngor yn talu cyfradd costau teithio safonol o 45 ceiniog y filltir i Brif Swyddogion (a phob gweithiwr arall) pan fo'r Prif Swyddog yn defnyddio cerbyd preifat ar gyfer gwaith y Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn ad-dalu unrhyw dreuliau eraill rhesymol a ddaw i ran y Prif Swyddog, wrth gyflawni gwaith y Cyngor, ar ôl cyflwyno derbynebaw, ac yn unol ag amodau'r Cyd-bwyllgor Trafod Telerau (JNC) ac amodau lleol eraill.

- 6.5.2 Nid yw'r Cyngor yn talu cost aelodaeth i gorff proffesiynol ar gyfer unrhyw weithiwr ac eithrio'r rhai sy'n dilyn cwrs astudio ar gyfer cymhwyster proffesiynol, a hynny am gyfnod y cwrs yn unig.

6.6 Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol

- 6.6.1 Mae Adran 143A Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cyfeirio at Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ("yr IRP") ac mae'n nodi'r swyddogaethau sydd ganddo o ran cyflogau'r Prif Weithredwr. Gall y Panel wneud argymhellion ynghylch unrhyw bolisi y cyfeirir ato yn y Datganiad Polisi Cyflogau hwn sy'n ymwneud â chyflog Prif Weithredwr y Cyngor ac unrhyw newid arfaethedig i gyflog Prif Weithredwr y Cyngor.
- 6.6.2 Ymgynghorodd y Cyngor â'r Panel yn ystod 2021/22 ynghylch ei newidiadau arfaethedig i gydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr. Cymeradwyodd y Panel y cynnig fel y'i cyflwynwyd ar gyfer diwygio graddfa gyflog y Prif Weithredwr a chymeradwywyd y raddfa gyflog ddiwygiedig hon gan y Cyngor Llawn ym mis Medi 2021.
- 6.6.3 Bydd y Cyngor, fel y bo'n ofynnol, yn ymgynghori â'r Panel ynghylch unrhyw newidiadau i gyflog y Prif Weithredwr os nad ydynt yn gymesur â newidiadau i gyflogau gweddill staff y Cyngor, a bydd yn rhoi sylw i unrhyw argymhellion a geir gan y Panel wrth benderfynu a yw am fwrw ymlaen â'r newid ai peidio.

7 RHEOLI TALENT

- 7.1 Mae'r broses Gwerthuso Perfformiad, yn ogystal â rhoi pwyslais ar berfformiad, yn ceisio rhoi cynlluniau dysgu unigol ar waith, gan ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol nid yn unig ar gyfer rolau presennol, ond drwy fod â ffocws yn y dyfodol ar gefnogi datblygiad gyrfa a chynllunio olyniaeth.
- 7.2 Mae tîm Dysgu a Datblygu'r Cyngor yn cynnig ystod eang iawn o opsiynau hyfforddi a datblygu a ddarperir yn fewnol ac yn allanol, gan gynnwys rhoi mynediad i weithwyr at gymwysterau trwy broses Panel Cymwysterau Corfforaethol sy'n cefnogi datblygiad gweithwyr ar bob lefel y sefydliad. Cefnogir cynllunio olyniaeth a dilyniant gyrfa'r gweithlu hefyd trwy ddarparu cyrsiau penodol ar gyfer 'Darpar Reolwyr' a 'Rheoli am y Tro Cyntaf'. Mae swyddi prentisiaethau lefel mynediad ar draws yr awdurdod yn cynnig llwybrau i amrywiaeth o yrfaedd yn ogystal â chynnig ffordd i adnabod talent yn gynnar.
- 7.3 Mae cymwysterau'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth (ILM) wedi'u cyflwyno i gefnogi rheolwyr ac i gynnig cymhwyster rheoli cyson ar draws yr awdurdod. Mae tair carfan Lefel 4 ILM wedi galluogi 28 o bobl i'w gwblhau ac mae 15 rheolwr arall yn gweithio tuag at eu cwblhau; mae 15 wedi symud ymlaen i ddyfarniad Lefel 5 ac yn gweithio tuag at gwblhau hwnnw ar hyn o bryd. Er mwyn datblygu a chefnogi talent a dilyniant gyrfa ymhellach, mae cynllunio hefyd ar y gweill i gyflwyno darpariaeth Lefel 3 ILM yn ddiweddarach eleni.

8 TÂL YN ÔL PERFFORMIAD

- 8.1 Nid yw'r Cyngor yn gwneud unrhyw daliadau bonws na thaliadau ar sail perfformiad i unrhyw un o'i staff.

9 CYMORTH AR GYFER STAFF SY'N DERBYN TÂL IS

- 9.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i barhau i drafod ag Undebau Llafur gyda'r nod o gyflwyno'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar sail fforddiadwy a chynaliadwy pan fo amgylchiadau'n caniatáu. Mae'r pwynt isaf ar golofn gyflogau NJC, SCP 1, ar hyn o bryd yn cyfateb i £9.50 yr awr sy'n is na chyfradd cyflog byw gwirioneddol y Sefydliad Cyflog Byw Cenedlaethol o £9.90 yr awr.

10 CYMHARU CYFLOGAU O FEWN Y CYNGOR

- 10.1 Mae'r gweithiwr sydd ar y cyflog isaf yn cael tâl o £18,333 y flwyddyn, yn unol â'r pwynt isaf ar y golofn gyflogau (SCP 1) yng ngholofn gyflogau'r NJC ar gyfer gweithwyr Gwasanaethau Llywodraeth Leol. Nid yw hyn yn cynnwys prentisiaid sydd wedi'u cyflogi ar drefniadau gwahanol gan mai hyfforddiant yw prif nodwedd y trefniant hwnnw, ac mae hefyd yn eithrio staff asiantaeth.
- 10.2 Y gweithiwr sydd â'r cyflog uchaf yw'r Prif Weithredwr a lleiafswm y band cyflog hwnnw yw £123,442 yn codi i uchafswm y band cyflog o £132,060 (codiad cyflog yn yr arfaeth ar gyfer 2022/23). Mae deiliad presennol y swydd yn ennill £132,060.
- 10.3 Y cyflog canolrifol yn y Cyngor yw £19,698, yn seiliedig ar gyflogau ar 31 Ionawr 2022.
- Y lluosydd rhwng cyflog y gweithiwr cyfwerth ag amser llawn sydd â'r cyflog isaf ac uchafswm cyflog y Prif Weithredwr yw **1:7.1**
 - Y lluosydd rhwng y gweithiwr â chyflog isaf a chyfartaledd uchafswm cyflog y Prif Swyddogion yw **1:4.7**
 - Y lluosydd rhwng canolrif enillion cyfwerth ag amser llawn (ac eithrio athrawon) ac uchafswm cyflog y Prif Weithredwr yw **1:6.6**
 - Y lluosydd rhwng canolrif enillion cyfwerth ag amser llawn (ac eithrio athrawon) a chyfartaledd uchafswm cyflog y Prif Swyddogion yw **1:4.3**.

11 POLISI YMADAEL

11.1 Ymddeol yn Gynnar, Dileu Swydd yn Wirfoddol a Dileu Swydd yn Orfodol

- 11.1.1 Mae ymagwedd y Cyngor at daliadau statudol a dewisol pan derfynir cyflogaeth gweithwyr, cyn iddynt gyrraedd oedran ymddeol arferol, wedi'i gyflwyno yn ei ddatganiad Polisi Disgresiwn Cyflogwr (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol), yn unol â Rheoliadau 5 a 6 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) 2006. Gweler Atodiad G. Mae hyn mewn perthynas â thaliad dileu swydd yn seiliedig ar enillion wythnosol gwirioneddol (Rheoliad 5) a byddai taliad dileu swydd uwch o hyd at 45 wythnos o dâl yn cael ei ganiatáu (Rheoliad 6). Nid yw Rheoliadau 12 a 13 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniad) 2007 yn gymwys gan nad yw'r Awdurdod yn cynyddu cyfanswm aelodaeth aelodau gweithredol (Rheoliad 12) nac yn dyfarnu pensiwn ychwanegol (Rheoliad 13).
- 11.1.2 Mae pob datganiad o ddiddordeb ar gyfer Ymddeoliad Cynnar a Diswyddiad Gwirfoddol yn destun achos busnes cadarn i geisio cadw'r iawndal yn ôl disgresiwn i derfyn fforddiadwy, yn ogystal ag ystyried costau unrhyw newidiadau canlyniadol i'r sefydliad/graddfeydd cyflog.
- 11.1.3 Wrth gyfrifo gwerth pecyn terfynu cyflogaeth, dylid cynnwys y taliadau canlynol:

- tâl a dalwyd yn lle rhybudd
- cyfandaliad dileu swydd / taliad terfynu cyflogaeth
- y gost i'r Cyngor o ran y straen ar y gronfa bensiwn sy'n deillio o gael mynediad cynnar i bensiwn heb ei leihau.

11.1.4 Rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo o flaen llaw unrhyw becyn diswyddo sy'n gysylltiedig â therfynu cyflogaeth yn gynnar sy'n mynd yn uwch na throthwy o £100,000. Mae'n rhaid i aelodau fod yn ymwybodol o unrhyw hawliadau statudol neu gontractiol y pecyn diswyddo, ynghyd â chanlyniadau atal y rhain o safbwynt cyfraith cyflogaeth.

11.1.5 Mae'r Cyngor wedi gweithredu Cynllun Diswyddo Gwirfoddol yn ystod blwyddyn ariannol 2021/2022 ac mae'r costau sy'n gysylltiedig â gweithwyr a adawodd gyflogaeth y Cyngor o dan y Cynllun hwn i'w gweld yn y Datganiad Cyfrifon blyneddol.

11.2 Prif Swyddog

11.2.1 Rhaid i'r Cyngor Llawn gymeradwyo unrhyw becyn diswyddo mewn perthynas â therfynu cyflogaeth Prif Swyddog.

11.3 Ailgyflogi

11.3.1 Ni fydd gweithwyr sy'n gadael cyflogaeth y Cyngor ar sail ymddeoliad cynnar, diswyddo neu ddiswyddiad gwirfoddol sy'n cael eu cyflogi mewn rolau Prif Swyddog fel arfer yn cael dychwelyd i unrhyw gyflogaeth am dâl dros dro neu'n barhaol gyda Chyngor Sir Ceredigion (sy'n cynnwys ysgolion) na chael eu hailgyflogi fel gweithiwr asiantaeth neu ymgynghorwyr. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, gellir caniatáu ailgyflogaeth ar sail achos busnes cadarn pan gymeradwyir hynny gan y Prif Weithredwr ac Aelod y Cabinet dros Bobl a Threfniadaeth.

11.3.2 Os yw'r ailgyflogi yn ymwneud â swydd y Prif Weithredwr neu Brif Swyddog, yna bydd y penderfyniad hwn angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn.

11.3.3 Ni chaniateir i weithwyr eraill sy'n gadael cyflogaeth y Cyngor ar sail ymddeoliad cynnar neu ddiswyddiad gwirfoddol ddychwelyd i gyflogaeth gyda'r Cyngor am gyfnod o 2 flynedd ar ôl eu dyddiad gadael. Fodd bynnag, unwaith eto, ac mewn amgylchiadau eithriadol, gellir caniatáu ailgyflogaeth yn gynt os yw'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol sy'n "cyflogi" yn gallu darparu achos busnes cadarn dros wneud hynny sy'n dderbyniol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Pobl a Threfniadaeth.

11.4 Hyblygrwydd o ran ymddeol

11.4.1 Mae hawl gan weithwyr gael ymddeoliad hyblyg yn unol â darpariaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chynllun Ymddeoliad Hyblyg y Cyngor.

12 TREFNIADAU ODDI AR Y GYFLOGRES

12.1 Os nad yw'r Cyngor yn gallu recriwtio rhywun i swydd o dan gontract cyflogaeth neu os bydd angen cymorth arbenigol i brosiect penodol, bydd y Cyngor, lle bo angen, yn ystyried cyflogi unigolion o dan gontract ar gyfer gwasanaethau. Mewn achos o'r fath, dilyniir y broses gaffael berthnasol yn y Rheolau yn ymwneud â

Gweithdrefnau Contractau y Cyngor, gan sicrhau bod y Cyngor yn gallu dangos gwerth am arian o gymharu â'r gystadleuaeth o ran sicrhau'r gwasanaeth perthnasol.

- 12.2 Os mai llenwi swydd wag yw'r contract ar gyfer gwasanaeth, yn ychwanegol at sicrhau y cydymffurfir â'r Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau, caiff penderfyniadau mewn perthynas â phenodi eu gwneud yn unol â rheolau'r Cyngor mewn perthynas â phenodiadau h.y. bydd y Cyngor yn penderfynu ar benodiadau ar lefel Prif Swyddog a Swyddogion Arweiniol Corfforaethol neu bydd y rhai sy'n gweithredu o dan eu hawdurdod yn penderfynu ar benodiadau ar lefel Rheolwr Corfforaethol ac is.
- 12.3 Gan ddod i rym yn Ebrill 2017, cyflwynodd Llywodraeth y DU "Ddeddfwriaeth Cyfryngwyr" a elwir IR35, a ddiwygiodd reolau treth gweithio oddi ar y gyflogres yn y sector cyhoeddus ac mae'r Cyngor wedi rhoi'r rheolau newydd ar waith i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon.

13 CYHOEDDI

- 13.1 Ar ôl ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn, cyhoeddir y datganiad hwn ar wefan y Cyngor.
- 13.2 Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r gofyniad arno o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 i gynnwys yn ei Ddatganiad Blynyddol Ariannol yr wybodaeth ofynnol mewn perthynas â'r gweithwyr hynny lle mae'r tâl cyfwerth ag amser llawn yn £60,000 y flwyddyn o leiaf.

GRADDFEYDD CYFLOG AR GYFER GWEITHWYR NJC

Codiad cyflog diwethaf: 1 Ebrill 2021 (dangosir isod)

Codiad cyflog disgwylidig nesaf: 1 Ebrill 2022 (yn yr arfaeth)

Gradd	Band Sgôr Gwerthuso Swyddi	Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
Gradd 2	200 – 294	1	£18,333
		2	£18,516
Gradd 3	295 – 329	3	£18,887
Gradd 4	330 – 364	4	£19,264
Gradd 5	365 – 399	5	£19,650
		6	£20,043
Gradd 6	400 – 434	7	£20,444
		8	£20,852
		9	£21,269
		10	£21,695
Gradd 7	435 – 469	12	£22,571
		13	£23,023
		14	£23,484
		15	£23,953
		16	£24,432
Gradd 8	470 – 504	18	£25,419
		19	£25,927
		20	£26,446
		21	£26,975
		22	£27,514
Gradd 9	505 – 539	24	£29,174
		25	£30,095
		26	£30,984
Gradd 10	540 – 579	28	£32,798
		29	£33,486
		30	£34,373
Gradd 11	580 – 619	32	£36,371
		33	£37,568

Tudalen 902

		34	£38,553
Gradd 12	620 – 659	35	£39,571
		36	£40,578
		37	£41,591
Gradd 13	660 – 699	39	£43,570
		40	£44,624
		41	£45,648
Gradd 14	700 – 739	43	£47,665
		44	£48,657
		45	£49,634
Gradd 15	740 – 779	47	£51,607
		48	£52,589
		49	£53,576
Gradd 16	780 – 1000	51	£55,741
		52	£56,856
		53	£57,992

GRADDFEYDD CYFLOG PRIF SWYDDOGION

Codiad cyflog diwethaf: 1 Ebrill 2021 (dangosir isod)

Codiad cyflog disgwylidig nesaf: 1 Ebrill 2022 (yn yr arfaeth)

GRADDFA GYFLOG PRIF WEITHREDWR

Gradd	Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
Prif Weithredwr	1	£123,442
	2	£126,316
	3	£129,187
	4	£132,060

GRADDFA GYFLOG CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL

Gradd	Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
Cyfarwyddwr Corfforaethol	1	£98,753
	2	£101,052
	3	£103,349
	4	£105,647

GRADDFA GYFLOG SWYDDOG ARWEINIOL CORFFORAETHOL

Gradd	Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
A1	1	£73,240
	2	£74,945
	3	£76,648
	4	£78,350
A2	1	£80,052
	2	£81,754
	3	£83,456
	4	£85,190

GRADDFEYDD CYFLOGAU SOULBURY

Codiad cyflog diwethaf: 1 Medi 2021 (dangosir isod)

Codiad cyflog disgwylidig nesaf: 1 Medi 2022 (yn yr arfaeth)

GWEITHWYR PROFFESIYNOL GWELLA ADDYSG (EIPS)

Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)	Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
1	£37,056	26	£68,434
2	£38,383	27	£69,616
3	£39,637	28	£70,815
4	£40,907	29	£72,016
5	£42,168	30	£73,215
6	£43,431	31	£74,404
7	£44,758	32	£75,611
8	£46,035*	33	£76,819
9	£47,522	34	£78,056
10	£48,849	35	£79,291
11	£50,158	36	£80,560
12	£51,425	37	£81,809
13	£52,860**	38	£83,071
14	£54,140	39	£84,316
15	£55,553	40	£85,561
16	£56,831	41	£86,811
17	£58,113	42	£88,061
18	£59,371	43	£89,309
19	£60,668	44	£90,564
20	£61,338***	45	£91,815
21	£62,626	46	£93,069
22	£63,749	47	£94,327
23	£64,985	48	£95,574****
24	£66,094	49	£96,825****
25	£67,278	50	£98,079****

Nodiadau:

Nid yw graddfeydd cyflog i gynnwys mwy na phedwar pwynt olynol, a seiliwyd ar y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth swyddi a'r angen i recriwtio a symbylu staff.

- * y pwynt isaf ar y raddfa fel arfer ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg (EIP) sy'n cyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.
- ** y pwynt isaf ar y raddfa fel arfer ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg Uwch sy'n cyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.
- *** y pwynt isaf ar y raddfa fel arfer ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwella Addysg Arweiniol sy'n cyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.
- **** estyniad i'r ystod er mwyn darparu ar gyfer asesiadau proffesiynol strwythuredig.

SEICOLEGWYR ADDYSG – GRADDFA A

Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynnyddol (FTE)
1	£38,865
2	£40,838
3	£42,811
4	£44,782
5	£46,755
6	£48,727
7	£50,584
8	£52,440
9	£54,179*
10	£55,921*
11	£57,544*

Nodiadau:

Mae'r graddfeydd cyflog i gynnwys chwe pwynt olynol, a seiliwyd ar y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth swyddi a'r angen i recriwtio, cadw a symbylu staff.

- * Estyniad i'r ystod er mwyn darparu ar gyfer pwyntiau asesiadau proffesiynol strwythuredig.

PRIF SEICOLEGWYR ADDYSG AC UWCH SEICOLEGWYR ADDYSG GRADDFA GYFLOG B

Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
1	£48,727
2	£50,584
3	£52,440*
4	£54,179
5	£55,921
6	£57,544
7	£58,210
8	£59,456
9	£60,690
10	£61,945
11	£63,177
12	£64,431
13	£65,707
14	£66,941**
15	£68,235**
16	£69,514**
17	£70,803**
18	£72,090**

Nodiadau:

Nid yw graddfeydd cyflog i gynnwys mwy na phedwar pwynt olynol, a seiliwyd ar y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd ynghlwm wrth swyddi a'r angen i recriwtio, cadw a symbylu staff.

- * Y pwynt isaf ar y raddfa fel arfer ar gyfer Prif Seicolegydd Addysg sy'n cyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau ar y lefel hon.
- ** Estyniad i'r ystod er mwyn darparu ar gyfer pwyntiau dewisol ar y raddfa ac asesiadau proffesiynol strwythuredig.

SEICOLEGWYR ADDYSG CYNORTHWYOL

Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
1	£30,694
2	£31,948
3	£33,201
4	£34,448

SEICOLEGWYR ADDYSG DAN HYFFORDDIANT

Pwynt ar y Raddfa	Cyflog Blynyddol (FTE)
1	£24,970
2	£26,798
3	£28,623
4	£30,453
5	£32,279
6	£34,107

YR HOLL GRWPIAU GWEITHWYR – PRIF AMODAU GWASANAETH

GWYLIAU BLYNYDDOL (pro rata ar gyfer gweithwyr rhan-amser)	
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Prif Weithredwr ➤ Prif Swyddogion 	33 diwrnod y flwyddyn 36 diwrnod ar ôl gwasanaeth 10 mlynedd
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) 	26 diwrnod y flwyddyn 30 diwrnod ar ôl gwasanaeth 5 mlynedd 33 diwrnod ar ôl gwasanaeth 10 mlynedd
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Soulbury 	26 diwrnod y flwyddyn 30 diwrnod ar ôl gwasanaeth 5 mlynedd 33 diwrnod ar ôl gwasanaeth 10 mlynedd
ORIAU GWAITH	
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Prif Weithredwr ➤ Prif Swyddogion 	O leiaf 37 awr yr wythnos, ynghyd â gwaith ychwanegol gyda'r nos, ar y penwythnos a gŵyl y banc yn ôl yr angen
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) 	Wythnos waith safonol yw 37 awr
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Soulbury 	Wythnos waith safonol yw 37 awr
TALIADAU GWEITHIO GORAMSER	
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Prif Weithredwr ➤ Prif Swyddogion ➤ Soulbury 	Dim i'w dalu
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) 	Gradd 8 ac is: amser a hanner; Gradd 9 ac uwch: TOIL neu amser arferol os na ellir ei gymryd o fewn 13 wythnos.
TALIADAU GWEITHIO AR Y PENWYTHNOS	
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Prif Weithredwr ➤ Prif Swyddogion ➤ Soulbury 	Dim i'w dalu
<ul style="list-style-type: none"> ➤ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) 	Gradd 8 ac is: Sadwrn – amser a chwarter; Sul – amser a hanner Gradd 9 ac uwch: Sadwrn a Sul – amser arferol

CYNLLUN TÂL SALWCH		
	Yn ystod blwyddyn 1 ^{af} gwasanaeth	1 mis o gyflog llawn; ac ar ôl cwblhau 4 mis o wasanaeth 2 fis o hanner cyflog
➤ Prif Weithredwr		
➤ Prif Swyddogion	Yn ystod 2 ^{il} flwyddyn gwasanaeth	2 fis o gyflog llawn; 2 mis o hanner cyflog;
➤ Soulbury	Yn ystod 3 ^{ydd} flwyddyn gwasanaeth	4 mis o gyflog llawn; 4 mis o hanner cyflog
➤ Y Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC)	Yn ystod y 4 ^{ydd} a'r 5 ^{ed} blwyddyn gwasanaeth	5 mis o gyflog llawn; 5 mis o hanner cyflog
	Ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth	6 mis o gyflog llawn; 6 mis o hanner cyflog

POLISI HONORARIWM

1. Datganiad Polisi

- 1.1 Mae'r Cyngor yn sylweddoli y gall fod angen rhoi tâl ychwanegol, o bryd i'w gilydd, os oes gofyn i weithiwr weithredu ar lefel swydd uwch neu ysgwyddo dros dro ddyletswyddau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gradd uwch.
- 1.2 Os yw'r newidiadau i'r swydd yn debygol o fod yn barhaol, dylid ailwerthuso'r swydd o dan gynllun Gwerthuso Swyddi'r Cyngor a phennu gradd ffurfiol ar ei chyfer.
- 1.3 Diben y polisi hwn yw sicrhau bod y taliadau ychwanegol yn cael eu hystyried yn briodol a'u gweithredu'n gyson. Mae'r polisi hwn yn nodi'r meini prawf a fydd yn berthnasol i bob swydd beth bynnag yw swm y taliad dan sylw.

2. Honorariwm

- 2.1 Gellir talu tâl honorariwm os gofynnir i weithiwr ysgwyddo rhai o ddyletswyddau a/neu gyfrifoldebau swydd ar radd uwch.
- 2.2 Os oes mwy nag un gweithiwr addas ar gael sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad priodol i ymgymryd â'r dyletswyddau a/neu'r cyfrifoldebau ychwanegol, bydd angen dilyn proses ddethol i bennu'r unigolyn gorau i ymgymryd â'r dyletswyddau a/neu'r cyfrifoldebau hynny.
- 2.3 Dim ond mewn sefyllfaoedd sy'n para mwy na mis y gellir talu unrhyw lwfans neu honorariwm, a chaiff ei ôl-ddyddio i'r diwrnod cyntaf.
- 2.4 Telir unrhyw dâl honorariwm am hyd at 12 mis. Os oes eithriad a bod y cyfnod hwnnw'n hirach, caiff y swydd ei hailwerthuso gan ddefnyddio Cynllun Gwerthuso Swyddi'r Cyngor.

3. Gweithdrefn

- 3.1 Cyn rhoi strwythur graddau newydd y Cyngor ar waith, caiff yr holl daliadau honorariwm presennol eu hadolygu fel y nodir isod.
- 3.2 Os oes honorariwm ar waith, a'i fod yn seiliedig ar ddyletswyddau a gafodd eu hymgorffori yn yr holiadur gwerthuso swyddi a'u gwerthuso, bydd y radd a aseswyd yn berthnasol o'r dyddiad gweithredu a bydd yr honorariwm yn dod i ben.
- 3.3 Gan mai taliad ychwanegol at y cyflog sylfaenol ydyw, bydd y Cyngor yn cadw'r sefyllfa Cyflog Cyfartal mewn cof ac, i'r perwyl hwnnw, bydd unrhyw daliad o'r fath yn daliad dros dro, bydd yn destun adolygiad a bydd rhaid ei gyfiawnhau'n wrthrychol.

- 3.4 Rhaid i'r rheolwr perthnasol wneud achos busnes i ategu cais am daliad honorariwm, gan ddefnyddio'r ffurflen "Cais am Daliad Honorariwm" (Atodiad 1). Rhaid cyflwyno'r cais i Gyfarwyddwr yr Adran i'w gymeradwyo.

Mae'r mathau o dystiolaeth yn cynnwys:

- Y rheswm dros y taliad, e.e. i ddirprwyo am rywun sy'n absennol am gyfnod hir, neu i gyflawni darn penodol o waith
 - Manylion y swydd yr effeithir arni a graddau'r swydd barhaol a'r swydd bosib ar lefel uwch
 - I ba raddau y mae'r dyletswyddau yn llawn neu'n rhannol – os ydynt yn rhannol, rhaid rhoi canran
 - Cost – cyfrifiad o'r swm y byddai gan y gweithiwr hawl i'w gael bob mis.
- 3.5 Mewn achosion o'r fath, dylid talu'r swm llawn neu ganran o'r gwahaniaeth rhwng y cyflog presennol ac isafswm cyflog y radd uwch.
- 3.6 Mewn sefyllfaoedd a fydd yn para'n hirach, e.e. dirprwyo dros gyfnod mamolaeth, dylid ystyried hysbysebu'r swydd gan ddilyn trefniadau recriwtio arferol y Cyngor.
- 3.7 Os bydd gweithiwr sy'n derbyn cyflog wedi'i ddiogelu yn ysgwyddo dyletswyddau ar lefel uwch na'i swydd wedi'i gwerthuso, ond is na'i gyflog wedi'i ddiogelu, ni fydd ganddo/i hawl i gael taliad ychwanegol.

4 Dull Talu

- 4.1 Gellir talu'r taliadau uchod ar ffurf swm misol rheolaidd os yw'r manylion yn wybyddus ymlaen llaw, neu gellir eu talu ar ffurf un ôl-daliad ar ddiwedd y cyfnod perthnasol.

5 Ymgynghori

- 5.1 Mae gan y Cyfarwyddwyr bwerau dirprwyedig i gymeradwyo rhoi tâl Honorariwm. I sicrhau cysondeb, rhaid i'r Cyfarwyddwyr ymgynghori â'r Pennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol pan fyddant yn ystyried taliadau o dan y cynllun hwn ac anfon copi o'r ffurflen "Cais am Daliad Honorariwm" ato. Bydd y Pennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol yn anfon y ffurflen i Isadran y Gyflogres at ddibenion talu.

TALIADAU ATODOL GRYM Y FARCHNAD**1. Datganiad Polisi**

- 1.1 Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael cyflog cyfartal am waith cyfatebol.
- 1.2 Wrth wneud hynny, mae'r Cyngor yn sylweddoli y gall fod yn ofynnol talu tâl atodol grym y farchnad, o bryd i'w gilydd, yn ychwanegol at radd asesedig swydd. Fel arfer, bydd hyn yn deillio o brinder sgiliau yn y farchnad swyddi (yn lleol neu'n genedlaethol) neu oherwydd bod cyfradd y farchnad ar gyfer set sgiliau benodol yn uwch nag a bennwyd gan werthusiad swyddi lleol a'r strwythur cyflogau a graddau.
- 1.3 Er bod y broses gwerthuso swyddi yn cynnig canlyniadau sy'n bodloni ystyriaethau cyflog cyfartal, mae'n amlwg y gall anawsterau godi ar gyfer rhai swyddi o ran recriwtio a chadw staff. Er bod darpariaethau Cyflog Cyfartal yn cael eu bodloni, gall cyfraddau cyflog rhai swyddi gymharu'n anffafriol â swyddi tebyg mewn mannau eraill.
- 1.4 Mewn achosion o'r fath, gellir ychwanegu tâl atodol at radd y swydd. Caiff taliadau atodol eu mynegi'n glir mewn dogfennau cyflogaeth. Cynhelir adolygiad bob blwyddyn ar ddyddiad cyflwyno'r tâl atodol yn wreiddiol. Gellir diddymu taliadau atodol grym y farchnad os rhoddir rhybudd ysgrifenedig heb fod yn llai na thri mis.
- 1.5 Diben y polisi hwn yw sicrhau bod taliadau atodol grym y farchnad a ychwanegir at swyddi'n cael eu hystyried a'u gweithredu'n gyson.

2. Cyfiawnhad Gwrthrychol

- 21 Os bwriedir chwyddo cyflog swydd benodol i adlewyrchu amodau'r farchnad, rhaid dangos bod 'seiliau wedi'u cyfiawnhau'n wrthrychol' ar gael, h.y. bod anawsterau recriwtio a chadw'n bodoli mewn perthynas â'r swydd(i) o dan sylw a fyddai'n arwain at broblemau sefydliadol a/neu weithredol gwirioneddol neu ragweladwy.
- 22 Dylid cymryd ystyriaethau Cyflog Cyfartal i ystyriaeth a dylid asesu'r posibilrwydd o her cyflog cyfartal. Ni fydd modd i'r Cyngor ddibynnu ar y ffaith bod y farchnad yn awgrymu bod rhai swyddi, a wneir gan fenywod fel arfer, yn cael tâl is na swyddi a wneir gan ddynion fel arfer, oherwydd gall cyfradd y farchnad ei hun fod yn seiliedig ar ragdybiaethau sy'n gwahaniaethu rhwng y rhywiau. Prif egwyddor y penderfyniad yw'r hyn y mae angen i'r Cyngor ei dalu i benodi'r sawl sydd ei angen i lenwi'r swydd wag.
- 23 Dylid cymryd ystyriaethau eraill i ystyriaeth wrth wneud y penderfyniad hwn hefyd, fel materion gweithredol ac enw da'r Cyngor, a allai ddioddef os na fydd gwasanaethau allweddol wedi'u staffio'n llawn.

- 24 Yn ogystal, rhaid dangos bod dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd gymharol i raddau helaeth yr un fath â'r swydd dan sylw, ac nad oes gwahaniaethau sylweddol o ran y pecyn gwobrwyo cyffredinol h.y. hawl i wyliau, cynllun tâl salwch, trefniadau gweithio hyblyg. Nid yw'r rhain yn daliadau ariannol, ond gallent gyfrif am y gyfradd dâl is.
- 25 Caiff taliadau atodol grym y farchnad eu rhoi/adnewyddu/diddymu yn amodol ar gymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol, gan ymgynghori â'r Rheolwr Grŵp – Adnoddau Dynol.
- 26 Caiff taliadau atodol grym y farchnad eu cymhwyso'n gyfartal i'r holl staff mewn swydd benodol (neu faes arbenigol). Caiff y costau eu talu gan y maes gwasanaeth perthnasol.

3. Tystiolaeth

- 3.1 Rhaid i'r achos busnes dros daliadau atodol o'r fath sicrhau cyfiawnhad gwrthrychol, ynghyd â thystiolaeth ategol. Nid yw tystiolaeth anecdotaidd yn ddigon.

Mae'r mathau o dystiolaeth yn cynnwys:

- data meincnodi cyflogau – beth yw'r 'gyfradd gyfredol' ar gyfer y swydd?
- tystiolaeth o unrhyw brosesau recriwtio (aflwyddiannus) diweddar, e.e. sut cafodd y swydd ei hysbysebu yn y gorffennol? A ddefnyddiwyd y cyfryngau cywir? Beth yw'r gyfradd ymateb i hysbysebion? Beth yw cyfradd newid/gadael y swydd?
- lefel a chost gyffredinol y taliadau atodol arfaethedig
- unrhyw fesurau amgen a gafodd eu hystyried neu y gellir eu hystyried, e.e. a ellir ailfodelu'r swydd i ddarparu'r gwasanaeth gofynnol?
- y risgiau gweithredol a/neu'r risgiau o ran enw da
- manylion unrhyw effaith andwyol dybiedig ar y gwasanaeth a ddarperir o fethu â recriwtio (neu gadw) gweithiwr/gweithwyr o safon briodol
- manylion unrhyw sgil-ffeithiau posib a sut y gellir eu datrys, e.e. cymharu cyflog gwahanol swyddi mewn adain neu grŵp gwaith.

4 Tâl

- 4.1 Ar ôl cael gafael ar y data gofynnol am gyflogau, gwneir asesiad i weld a oes angen cyflwyno tâl atodol grym y farchnad ac, os felly, gwir werth y tâl atodol.
- 4.2 Caiff pob cais ei drin fesul achos a bydd angen rhoi cyfiawnhad gwrthrychol gan ddefnyddio'r ffurflenni yn Atodiadau I a II, cyn cael cymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol.
- 4.3 Cedwir tâl atodol y farchnad ar wahân i'r cyflog y cytunwyd arno ar gyfer y swydd. Rhaid egluro hyn wrth fynd ati i recriwtio i swyddi gwag ac wrth recriwtio ymgeiswyr llwyddiannus. Rhaid i'r gweithwyr ddeall y gall tâl atodol y farchnad amrywio o flwyddyn i flwyddyn neu ddod i ben yn llwyr.

- 4.4 Bydd gweithwyr mewn swyddi sy'n derbyn tâl atodol y farchnad, neu weithwyr a benodir i swyddi o'r fath, yn cael cadarnhad ysgrifenedig sy'n nodi swm y taliad, y trefniadau adolygu a sut y caiff unrhyw newidiadau eu rhoi ar waith. Mae llythyr safonol ar gyfer hyn i'w gael yn Atodiad III.
- 4.5 Caiff y tâl atodol ei dalu ar ffurf lwfans yn ychwanegol at y cyflog misol a (chan fod y tâl yn seiliedig ar bwyntiau cynyddrannol) bydd codiadau cyflog costau byw blynyddol yn berthnasol iddo. Oherwydd ei fod yn rhan o gyflog gweithiwr, bydd yn bensiynadwy.
- 4.6 Pan fo'n briodol, telir taliadau atodol ar sail pro rata yn ôl yr oriau a weithiwyd.

5. Cyfrifo Tâl Atodol y Farchnad

- 5.1 Caiff unrhyw dâl atodol ei gyfrifo fel cynyddran ychwanegol ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd a bydd yn cyfateb i'r gynyddran agosaf islaw'r cyflog cymharol. Dylid pennu'r tâl ar lefel y tybir y bydd yn lliniaru'r anawsterau recriwtio a chadw / anawsterau gweithredol, ond na fydd yn ormodol, ac ar lefel y gellir ei chyfiawnhau o ran y cyflog a delir ar gyfer swyddi cymharol ar y farchnad.
- 5.2 Rhaid i ddiben unrhyw dâl atodol, y cyfiawnhad drosto a'i swm fod yn dryloyw a rhaid cadw cofnodion i ddangos hyn, er mwyn i'r Cyngor allu ymateb yn effeithiol i unrhyw her o ran y rhesymeg dros roi tâl o'r fath.

6. Amserlen

- 6.1 Er mwyn cynnal tegwch a chyfartaledd y strwythur cyflogau ac i sicrhau bod y tâl yn parhau i fod yn gyfiawn ac yn briodol, caiff y taliadau atodol eu hadolygu bob blwyddyn.
- 6.2 Ar ôl cynnal adolygiad, dylai'r Pennaeth Gwasanaeth, ar y cyd â'r Tîm Gwerthuso Swyddi a'r Undeb Llafur priodol, benderfynu a ddylid diddymu tâl atodol y swydd(i) o dan sylw, cadw'r tâl atodol ar yr un lefel, neu addasu'r swm a delir.
- 6.3 Gellir diddymu taliadau atodol grym y farchnad ar ôl rhoi rhybudd ysgrifenedig heb fod yn llai na thri mis.

7. Apelio

- 7.1 Efallai y bydd gweithiwr yn credu na roddwyd ystyriaeth lawn o ran rhoi / adnewyddu / diddymu tâl atodol a gall fod am apelio yn erbyn penderfyniad o'r fath.
- 7.2 I apelio, rhaid i'r gweithiwr ysgrifennu at y Prif Weithredwr, gan amlinellu'r rhesymau dros yr apêl, cyn pen 14 diwrnod ar ôl derbyn hysbysiad ysgrifenedig am y penderfyniad ynghylch yr hawl i gael tâl atodol neu

newidiadau iddo.

- 7.3 Rhaid i'r Prif Weithredwr drefnu i gwrdd â'r gweithiwr i drafod yr apêl cyn pen 14 diwrnod ar ôl y llythyr apêl ysgrifenedig. Mae gan y gweithiwr hawl i fynd â rhywun gydag ef/hi i'r cyfarfod hwn. Ar ôl cynnal y cyfarfod, bydd y Prif Weithredwr yn ysgrifennu at y gweithiwr cyn pen 14 diwrnod i roi gwybod i'r gweithiwr am ganlyniad yr apêl.
 - 7.4 Os nad oes modd ymateb o fewn yr amserlen honno, dylid egluro'r rheswm dros yr oedi wrth y gweithiwr a dylid rhoi gwybod iddo/iddi pryd i ddisgwyl ymateb, ond ni ddylai fod yn hirach na 14 diwrnod arall.
 - 7.5 Bydd hyn yn gweithredu fel hysbysiad ysgrifenedig o ganlyniad yr apêl a hwn fydd penderfyniad terfynol Cyngor Sir Ceredigion. I bob pwrpas, dyma ddiwedd y weithdrefn ffurfiol yn y gweithle.
 - 7.6 Os bydd gweithiwr yn methu â dod i'r cyfarfod apêl heb roi gwybod ymlaen llaw, dylai gysylltu â'r Prif Weithredwr cyn gynted â phosib i egluro pam ei fod/bod yn absennol. Dylai'r Prif Weithredwr aildrefnu'r cyfarfod ar yr adeg nesaf sy'n gyfleus i bawb perthnasol. Mae'n bwysig rhoi rhybudd rhesymol am y cyfarfod. Os bydd y gweithiwr yn methu â dod i gyfarfod fwy nag unwaith ac os na fydd yn rhoi eglurhad rhesymol, tybir bod y cais wedi'i dynnu'n ôl. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd y Prif Weithredwr yn ysgrifennu at y gweithiwr i gadarnhau eu bod yn tybio bod y cais wedi'i dynnu'n ôl.
- 8. Hawl gweithwyr i fynd â rhywun arall gyda nhw i gyfarfodydd**
- 8.1 Mae gan weithwyr hawl i fynd â Chynrychiolydd eu Hundeb Llafur neu gydweithiwr gyda nhw i unrhyw gyfarfod a drefnir i drafod diddymu tâl atodol neu unrhyw apêl sy'n deillio o hynny.
 - 8.2 Os nad oes modd i'r sawl sy'n mynd gyda'r gweithiwr ddod i'r cyfarfod, dylai'r gweithiwr aildrefnu'r cyfarfod ar ddyddiad cyn pen 7 diwrnod ar ôl yr amser gwreiddiol a gynigiwyd, gan sicrhau bod yr amser newydd yn gyfleus i bawb perthnasol; neu, dylid ystyried gofyn i unigolyn arall fynd gyda'r gweithiwr i'r cyfarfod.



Rheoliadau Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (lawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2006 (fel y'u diwygiwyd)

O dan Reoliad 7 y Rheoliadau lawndal yn ôl Disgresiwn, rhaid i bob awdurdod (heblaw am Gorff Derbyniedig) lunio a chadw o dan adolygiad bolisi sy'n berthnasol i weithredu'r disgresiwn sydd ganddynt parthed yr isod:

Disgresiwn	Rheoliad	Polisi
Seilio taliadau dileu swydd/diswyddo ar y cyflog wythnosol gwirioneddol pan fo hyn yn fwy na therfyn cyflog yr wythnosau statudol.	5	Talu taliadau dileu swydd/diswyddo/iawndal ar sail y cyflog gwirioneddol
Rhoi iawndal ar ffurf cyfandaliad hyd at gyflog 104 o wythnosau mewn achosion o ddileu swydd/diswyddo, terfynu cyflogaeth ar sail effeithlonrwydd neu ddiweddu penodiad ar y cyd.	6	<p>Dileu swydd (<i>redundancy</i>) Rhyddhau'r buddion pensiwn pan fo'r gweithiwr wedi cyrraedd 55 oed ar ddyddiad terfynu cyflogaeth gan gynyddu wythnosau statudol y dileu swydd gan 1.5 (h.y. uchafswm o 45 wythnos). Mae iawndal o'r fath i gynnwys gwerthoedd taliad dileu swydd statudol. Byddai'r unigolion yn medru dewis trosi'r gwahaniaeth sydd rhwng y taliad dileu swydd statudol a'r union iawndal a roddir i brynu pensiwn ychwanegol drwy gyfrwng ffactorau y darperir gan Adran Actwari'r Llywodraeth.</p> <p>Terfynu er Effeithlonrwydd Ni chaiff y buddion pensiwn eu rhyddhau oni fydd y person yn 55 oed erbyn y dyddiad terfynu.</p> <p>Diswyddo (<i>severance</i>) Pan geir cytundeb ar y naill ochr a'r llall i ryddhau unigolyn o dan Gynllun Diswyddo'r Cyngor, bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r disgresiwn</p>

Tudalen 917

		<p>sydd ganddo o dan Reoliad 5 i roi taliadau iawndal ar sail y cyflog gwirioneddol. Bydd y taliadau diswyddo yn ôl disgrisiwn yn seiliedig ar ganllaw cyflym colli gwaith statudol a bydd nifer yr wythnosau y bydd hawl iddynt wedi eu seilio ar oedran a Gwasanaeth. Bydd lluosydd o 1.5 ar waith a bydd uchafswm o 45 o wythnosau. Mae'r taliad diswyddo gwirfoddol yn cynnwys y taliad colli gwaith statudol. Os yw unigolyn wedi cyrraedd ei 55 oed, rhyddheir buddion pensiwn iddynt heb eu lleihau a fydd wedi cronni hyd at ddyddiad y terfyniad. Mae'n rhaid wrth wasanaeth cymwys parhaus o ddwy flynedd er mwyn cael mynediad at y trefniadau iawndal hyn.</p>
<p>Rhoi blynyddoedd iawndal ychwanegol i unigolyn 50 oed neu hŷn sydd ag aelodaeth (neu aelodaeth dybiannol) ers 5 mlynedd neu fwy o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol mewn achosion o ddileu swyddi, terfynu cyflogaeth er effeithlonrwydd, neu ddiweddu penodiad ar y cyd a ddigwyddodd ar ôl 30 Medi 2006 a chyn 1 Ebrill 2007 (ond dim ond os dechreuodd y cyfnod gwaith cyn 1 Hydref 2006).</p>	<p>11(2)</p>	<p>Peidio â gweithredu'r disgrisiwn hwn</p>

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol